gilyd. A galaath ar ysgwier adoethant att y marchawc ar arueu gwynnyon idaw. Achyfarch gwell aoruc pob un yw gilyd onadunt. ac ymdidan aorugant am y daryan. A galaath adywawt wrth y marchawc. Drwy y daryan honn heb ef y damweinyawd yma llawer o anturyeu blin yn herwyd agiglefi. Ac am hynny mi aadolygwn itt os ranghei dy vod dywedut im wirioned amdanei. A minneu heb y marchawc ae dywedaf itt yn llawen kanys mi ae gwnn. Galaath heb y marchawc. ef auu amser gwedy diodef iessu grist. deng mlyned a deugeint. dyuot Josep o arimathia yr hwnn a gladawd iessu grist ac ae tynnawd y ar brenn y groc. a chychwyn ymeith o gaerussalem ae genedyl ygyt ac ef. a cherded aorugant wy trwy ewyllys duw yny doethant y ynys aelwit sarram yny lle yd yttoed brenhin sarrain. Yr hwnn aelwit eualac. Ac ynyr amser hwnnw yd oed ryuel ar eualac ygan vrenhin arall galluawc yr hwnn aelwit tolomeus. Aphan yttoed eualac gwedy ymbarattoi y vynet ambenn tolomeus. Josep uab josep o arimathia a dywawt wrthaw. ot ey mor anghynghorus ac yr wyt yn mynet yr ryuel. mi a rodaf vyngccret itt na deuy drachevyn. Pa delw heb eualac y kynghory di ymi vynet yr ryuel. Mi ae dywedaf itt yn llawen heb y iosep. yna ef adraethawd idaw y pwynteu goreu or euengylyeu. a ffuryf y gret newyd. ac am diodefedigaeth yn arglwyd ni iessu grist ar brenn y groc. Ac yna ef awnaeth taryan a chroes arnei o syndal coch. a dywedut. brenhin eualac heb ef mi adangossaf it yn eglur padelw y gellych di adnabot gwyrtheu a chedernit y brenhin a diodefawd ar y groc. A gwybyd di yn lle gwir y keiff tolomeus arnat ti arglwydiaeth teir nos. a thri diwarnawt. a thi a vydy ymperigyl angheu. A phan welych ditheu na ellych dianc. yna noetha ditheu y groes honn. A dywet. Arglwyd duw. yr hwnn adiodefawd angheu ar yr ryw arwyd hwnn gollwng ditheu vi yn iach diberigyl or maes hwnn y gymryt cret a chreuyd. Ac ar hynny y kerdawd eualac ymeith yn erbyn tolomeus. Aphan doeth yr kyfryw berigyl ac y tebygassei yn lle gwir y bydei varw. ef a noethawd y groes ae daryan. ac yno

Digitized by Google

ef a welei debygei ef gwr ar y groc yn llawn gwaet. Ac yna ef a dywawt y parabyl a dysgassei iosep idaw. drwy yr hwnn y kafas ef vudugolyaeth ac anryded a goruot ar tolomeus. A phan doeth ef drachevyn y dinas sarras ef a datkanawd yr bobyl ual y kauas budugolyaeth drwy wneuthur kynghor iosep. Ac ef a wnaeth kymeint achymryt bedyd ef a naciens y daw y gan y chwaer. Ac ual yr oedit yn eu bedydyaw wy. nachaf gwr yn dyuot heibyaw gwedy torri y drwyn ywrthaw ac yn dwyn y drwyn yny law. Ac yna Josep aerchis idaw dodi y drwyn wrth y groes. Ac yr awr y kehyrdawd ef ar groes ef aaeth y drwyn yn holliach. Ac ygyt a hynny ef a lynawd y groes or syndal wrth y drwyn heb allel vyth ythynnu odyno. yna yn henw ar eualac ef aroet moradrins. A chystal vu yny gristonogaeth ac y karawd duw ef ual y gellir y adnabot rac llaw. A gwedy hynny ef adamweinyawd y iosep ef a iosep y dat athalym o dylwyth ygyt ac wynt kychwyn o dinas sarras. A dyuot hyt ymbryttaen uawr aorugant. A gwedy eu dyuot hyt ymbrytaen ef adoeth yn eu herbyn brenhin ffyrnic creulawn. A gwedy carcharu iosep ae dat ef aaeth y chwedyl ar draws yr ynyssed yny doeth odiwed hyt yn sarras.

X.—Ac yna moradrins a dyvynnawd y gyfoeth y gyt ef a naciens goch y daw y gan y chwaer. ac adoethyant hyt ymbrytaen uawr am benn y brenhin agarcharassei iosep. Ac ny bu hir o enkyt yny oruuant wy ar y brenhin bioed y wlat ac ar y bobyl. Ac velly y goruuant wy drwy eu kristonogaeth ar hyt kwbyl o vryttaen vawr. A chymeint y karawd moradrins iosep. ac na mynnawd nac ef na naciens nae niuer vynet drachevyn vyth y eu gwlat. namyn trigyaw yno ygyt a iosep ae gedymdeithyon. a cherdet y fford y kerdynt wynteu. Aphan vynnawd duw teruynu ar hoedyl Josep. ef adoeth moradrins. ac a wylawd yn drut kanys gwydyat y bydei varw. Ac a dywawt wrthaw. Arglwyd gedymdeith heb ef kanys ytwyt ym gadaw. Athitheu yn mynet. beth aedewy ditheu ymi ual nat el dy gof y gennyf. kanys mi aedeweis vyntir am daear am gwlat a hynny

Digitized by Google

oll oth garyat ti. Arglwyd heb y Josep mi aadawaf yn llawen itt beth ohonaf vy hun. Ac yna ef aerchis y voradrins dwyn attaw y daryan a rodassei ef idaw pan ymladassei a tholomeus. Ac ynteu ae duc hi attaw ef kanys nyt oed bell y wrthaw kanys yny ganlyn y bydei y fford y kerdei. Aphandoeth y daryan att iosep ef a syrthyawd gwaetlin arnaw heb allel y ostegu o neb ryw fford. Ac yna ef agymerth y daryan. Ac awnaeth croes goch arnei yr honn awely di yma yr awr honn. Agwybyd di yn lle gwir mae weldy yma y daryan honno. Ac yna Josep adywawt wrthaw. weldy yma heb ef yr hynn yd wyfi yny adaw ytti ual y del cof itt vyvi vyth. A thitheu aelly wybot mae am gwaet i y gwnaethpwyt y groes honn. a hi a vyd vyth gyndecket ac yn gyn newydet ac y mae yr awr honn. Ac ygyt a hynny heuyt gwybyd yn lle gwir nas ryd neb am y vynwgyl ar ni bo ediuar ganthaw. onyt galaath ehun. y marchawc urdawl diwethaf o genedylyaeth nacien. Ac am hynny na vit neb kyn ehofnet ac y kymero y daryan honn onyt y neb y dospartho duw idaw. A megys y mae ryuedach campeu y daryan honn noc un arall. velly y byd ryuedach campeu y marchawc ae dwc hitheu noc un arall or byt. Arglwyd heb ynteu kanys kystal y broffwydolyaeth honn am y daryan ac y dywedy di. manac ditheu ymi pale y gadawyf hi. kanys mi a vynnwn y roi hi yny lle y kaffei y marchawc hwnnw pan delei. Ie heb y Josep gado di hi yny lle y paro naciens y gladu. Kanys yno y daw y marchawc urdawl y chwechet dyd gwedy y gwnelher yn varchawc. Ac uelly y doethost ditheu yr uanachlawc yny lle y cladwyt nacien. Ac weldy yna heb ef gwedy dywedut ytti cwbyl or wirioned am y daryan. Ac ar hynny difflannu aoruc ef heb wybot nac ohonaw ef nac or ysgwier pale ydaeth y wrthunt. ac yna yr ysgwier adisgynawd geyr bronn galaath ac aadolygawd idaw yr karyat y neb yr oed yn dwyn y arueu ae arwydon ar y adel ef yn y gedymdeithyas oe ganlyn. Yn lle gwir heb y galaath pei kymerwn i neb ym kanlyn mi ath gymerwn ditheu. Arglwyd heb yr

Digitized by Google

ysgwier awney ditheu yr duw vynggwneuthur i yn varchawc urdawl kanys os da gan duw mi ae racvedylyaf ynda. Ac yna galaath rac ruclet yr oed yr ysgwier yn wylaw ef a dosturyawd wrthaw drwy ganhadu idaw hynny. Gan hynny heb yr ysgwier titheu a deuy dracheuyn yr uanachlawc. kanys yno y kaffafi march ac arueu. athitheu adylyut dyuot yno yn llawen. ac nyt om achaws i vy hun. namyn o achaws ryw enryued arall yssyd yno oe welet. A minneu aaf yn llawen heb y galaath. Ac ymchwelut yr uanachlawc aorugant. A llawen vuwyt wrthunt. Ac yna galaath aovynnawd pale ydoed yr enryuedawt adywedassei wrthaw y uot yno. Po ny wdost ti heb yr un or myneych paryw enryuedawt yw hwnnw. Nawnn etto heb y galaath.

XI.—Ac yna un or myneych adywawt wrthaw panyw llef aoed yn daly ar dyuot drwy un or bedeu yny vynnwent yn gymeint y gedernyt ac nat oed neb or aeclywei ny chollei y nerth ae gof ae synnwyr hyt ympenn talym o amser. Ar llef hwnnw adebygem ni y uot oblegyt meistyr uffern. Dangosswch ymi heb y galaath y lle hwnnw. Ac yna kerdet aorugant yny doethant hyt y vynnwent. y bed hwnnw heb y mynach yssyd adan y prenn mawr awely di raco. a dos di heb ef a dyrchaf y maen yssyd ar y bed y vyny. a mevyl im ony wely yno beth a vo ryued gennyt. yna galaath a doeth tu ac yno. a phan dynessawd ef parth ac att y bed. ef a glywei ryw gynnwryf mawr. athrwy hwnnw cri vu yn dywedut megys y gallei bawp y glybot. Ha galaath gwas iessu grist na dynessa attaf yn nes no hynny. kanys or dynessey di ny bydafi yma. Pan gigleu galaath hynny. ny symudawd arnaw dim. namyn dyuot racdaw ac ymauael ar maen. Ac yno ef a welei mwc mawr yn dyuot allan. Ac yny mwc fflam athrugar y meint. Ac yny fflam delw gwr aruthyr y veint ae anuerthet. Ac yna ymgroessi aoruc galaath. kanys ef awydyat panyw gelyn dynyawl oed. ac yno ef aglwei llef yn dywedut wrthaw. Ha galaath santeid. fford y wirioned. amgylchynedic o engylyon. yr hwnn ny di-

Digitized by Google

chawn vynggallu i parhau yny erbyn. Ac ar hynny galaath trwy roi arwyd y groc arnaw. a dyrchafawd y bed. ac yndaw ef awelei marchawc marw yn aruawc o bob arueu. Ac ef aerchis yr mynach dyuot y edrych yr hynn a oed yn y bed. Ac ynteu adoeth. ac adywawt bot yn reit bwrw y corf odieithyr y vynnwent. kanys y tir aoed uendigedic achyssegredic. ac am hynny na allei y tir ymgytuot ar corff ysgymmun hwnnw. Ac yna y kymerth y myneich ereill y corff ac y bwrywyt odieithyr y uynnwent. Ac yna galaath aovynnawd yr manach ae dugassei ef yno awnathoed ef kwbyl o hynn adylyei ywneuthur. Gwnaethost arglwyd heb ef nachlywir vyth weithyon dim ywrth y llef. Yrof aduw heb y galaath. ryved iawn yw gennyf beth aarwydocaa yr anryuedodeu hynn. mi ae dywedaf itt heb y manach. ac yna dyuot aorugant or vynnwent yr eglwys yny lle yd erchis galaath yr ysgwier gwylyat y nos honno. Ac auory heb ef mi athwnaf yn varchawc urdawl. Ac uelly y gwnaeth ynteu. Ar myneych agymerassant galaath ac aedugassant y ystauell dec ae diarchenu aorucpwyt. Ac eisted aorugant ar wely aduwyndec. Ac yna y manach aovynnawd idaw a vynnei dywedut beth aarwydockaei yr anturyeu a orfennassei ef yno. Mynnaf dan y bwyth heb y galaath. Yny bed racko heb ef yr oed tripheth aellir eu dwyn ar gyffelybrwyd. Nyt amgen. kyntaf yw y maen kalettrwm nyt oed hawd y dyrchafael yr hwnn aoed yn kudyaw y korff. Yr eil oed y korff. yr hwnn aoed reit y symut or lle yd oed. Y trydyd oed y llef gwenwynic estronawl. Ar achaws y kollei bawp y nerth ae gof ae synnwyr or aeclywei. Y tripheth hynn yssyd reit eu dwyn ar gyffelybrwyd. nyt amgen y bed calettrwm aoed yn kudyaw y marw aarwydockaa y kaledi agafas iessu grist yny byt hwnn. Kanys yn yr amser hwnnw nyt oed yr mab y chweith or tat yn gywir. nac yr tat nyt oed gywir y mab. kanys yr oedynt yna y mab val y tat yn adeilyat udunt dwyweu o newyd beunyd. Ac yna y tat onef pan welas ef enwired kymeint a hynny ar y dayar ymplith y bobyl. ynteu aanuones y un mab ef yr

Digitized by Google

dayar y geissyaw atnewydu medylyeu eu kallonneu wy. Eissyoes haws oed idaw medylhau y creigyeu kalettaf noc eu kallonneu wy. or achaws y dywawt dd broffwyt gynt o herwyd proffwydolyaeth am iessu grist. Ef a vyd gwaetlyt hyt ar angheu. Ac megys y doeth duw yr byt hwnn yr rydhau pobyl dynawl. or gret drwc ar anturyeu blin aoed arnadunt. Velly y gallwn dyall drwy gyffelybrwyd ry anuon o iessu grist ditheu yn varchawc urdawl idaw. y vwrw anturyeu a defodeu drwc aoed ynteyrnas loegyr. Ac megys y proffwydwyt y deuei iessu grist y vwrw kamgret ac anturyeu drwc y arnam. Velly y proffwydwyt y deuyt titheu y orffen yr anturyeu ar drycdynghetuenneu yssyd yn yr ynys honn. A bendith duw ar y dynghetuen athanuones yr byt hwnn attam ni. Athyna ytti beth aarwydokaa y bed. Yr eil y korff aoed yny bed. yr hwnn aellir y gyffelybu yr bobyl. neu ynte yr eneidyeu aoed dan y kaledwch wedy kaledu o bechodeu a rydaroed udunt eu gwneuthur. Ac arwyd vu eu bot wy ymywn pechodeu. Kanys gwedy dyuot Iessu grist attunt yr dayar. wynt a debygassant panyw pechadur megys un onadunt wy ehunein oed ef. Ac heb gredu idaw wynt a varnassant arnaw ac ae crogassant drwy dysgedigaeth y gwas drwc. or achaws y doeth uaspasianus ac y distrywawd y sawl aoed yn credu y duw yn yr amser hwnnw. Ac uelly y gelli kyffelybu y bed ae galedwch yr byt amgredyf duw. ar korff yr bobyl yssyd yndaw. Y llef ynteu a deuei or bed aarwydokaa parabyl doluryus yssyd yny groclith pan esgussodes pilatus am Iessu grist wrth y bobyl. drwy gymryt dwfyr y ymolchi. A dywedut diargywed wyfi heb ef o waet y gwirion hwnn. Ac wynteu ae hattebassant ef yn druan. Ac adywedassant. Bit y waet ef heb wynt arnam ni ac ar an plant. A llyna y parabyl awnaeth y bawp colli y lef ae nerth ae synhwyr. A llyna ual y gelly di gwelet deall y tri pheth hynny. Aphany bei dy dyuot ti ny pheityei y damchweinyeu aweleist ti vyth. Aphan weles y drycyspryt dy uot ti yn lan yn dyuot ac yn dynessau attaw ef. ny lyuassawd ef dy aros di megys yd arhoei y

Digitized by Google

pechaduryeit. Ac yna y ffaelyawd yr antur yr honn ny byd yma bellach vyth. Ac yno y nos honno y bu galaath.

XII.—A thrannoeth y bore y gwnaeth ef yr ysgwier yn varchawc urdawl. gwedy gwylyaw ohonaw yn yr eglwys y nos gynt ual yr oed defawt yn yr amser hwnnw. Ac yna galaath aovynnawd idaw pioed mab. Aphwy oed y henw. Ac ynteu adywawt panyw melian oed y henw. a mab oed ynteu y vrenhin or mars. Kanys mab y vrenhin wyt heb y galaath. edrych a racvedylya dy vot yn uarchawc urdawl kywir y duw. Arglwyd heb ynteu osda gan duw mi ae racuedylyaf. Ac yna galaath awisgawd y arueu ar uedyr myned ymeith. Ac yna melian adywawt. Arglwyd heb ef ti amgwnaethyost i yn varchawc urdawl. Aduw atalo itt. athi awdost arglwyd. pwy bynnac awnel marchawc urdawl. ef adyly roi idaw y rod gyntaf a archo idaw or byd kyfyawn. Gwir adywedy di heb y galaath. Arglwyd heb ynteu yr keissyaw rod y gennyt y dywedeis i. Dywet titheu heb y galaath paryw rod yw honno. aphei ron vyggorthrymu o honei ti ae keffy. Duw adalo it arglwyd heb y melian. nyt archaf i dim onyt vynggadel yn dy gedymdeithyas yn y keis hwnn yny gyfarffo ryw anryuawt ani. Ti ageffy hynny yn llawen heb y galaath. Ac yna esgynnu ar eu meirch awnaethant a chychwyn or uanachlawc. A marchogaeth beunyd or wythnos honno. Ac ef a damchweinyawd udunt duw llungweith dyuot hyt yn ymyl croes aoed ynkysswllt dwyfford. Ac ympenn y groes yr oedynt llythyr yn dywedut. O chwychwi varchogyon urdolyon anturyus. y rei yssyd ynkeissyaw anturyeu a ryfedodeu weldy yma dwyfford. un ar y llaw deheu ar llall ar y llaw assw. Ac yr wyf yn gorchymyn nat el neb yr assw. o ny byd gwr da. kanys ef ar allei idaw ymgyfyrgolli yn ehegyr. A phan weles melian y llythyr hwnnw. ef a dywawt wrth galaath. Arglwyd heb ef gan dy gennat miui aaf yr fford ar assw. Goreu y kynghorwn itt heb y galaath gadel ymi vynet. Na adaf om bod heb y melian. kanys or kyferuyd antur calet a myvi yny fford

Digitized by Google

os myui adieinck ef aadnabydir beth vwyf yn anghenn ae da ae drwc. Dos ditheu yn llawen heb y galaath. a duw ath diangho rac drwc. Yma y mae y kyfarwydyt yn tewi am galaath. ac y traethu marchogaeth o velian y fford ar assw yn hyt y dyd hwnnw a thrannoeth hyt am brim. Ac yna ef adoeth y weirglodyeu tec. Ac ymperued un or gweirglodyeu tec hynny ef awelei cadeir deckaf or byt. Ac yndi yr oed coron o eur. a meini mawrweirthyawc llewychlathyr yndi. Ac yngkylch y gadeir ydoedynt byrdeu gwedy eu gossot ar eu tresteleu yn gyflawn o bop bwyt. Ac ynteu aedrychawd ar hynny. Ac ny chwenychawd ef dim onyt y goron. A medylyaw aoruc mae da oed duw wrth y neb agaffei y dwyn am y benn ynggwyd y bobyl. Ac yna roi y vreich drwy y goron aoruc ef a throssi penn y uarch tu ar fforest. Ac ny marchoges ef yn emawr. pan weles yn dyuot yny ol marchawc urdawl argefyn y varch yn aruauc o bop arueu. Ac yn dywedut wrth velian. Tydi varchawc heb ef cam y gwnaethyost dwyn y goron or lle yr oed. A phan y kigleu melian ef yn dywedut uelly. ymbaratoi aoruc ar uedwl ymwan ac ef. a dywedut arglwydes ueir heb ef amdiffyn hediw dy uarchawc urdawl newyd. Ac ar hynny y marchawc arall a gyrchawd melian ac ae trewis yngynfested ac yny hyll y daryan ac yny rwygawd y luryc. ac yny vyd y gwaew yn y ystlys assw. ar ynteu ef ar march yr llawr a phenn y gwaew yndaw. Ac yna y marchawc adoeth attaw ac adynnawd y goron y am y vreich. ac a ymchoelyawd drachevyn yr fford y dathoed. A melian adrigyawd yno heb allel chweith ymdaraw gwedy briwaw ac essigaw yn y yttoed yn agos y angheu. Ac ymgerydu yn uawr a oruc ac ef ehun am nachredawd y gynghor galaath. Ac megys yr oed ef yn ymovidyaw uelly. nachaf galaath yn dyuot attaw. A phan weles ef melian uelly drwc vu ganthaw. Ac ef adywawt. melian heb ef. pwy a wnaeth hynny ytti. Aphan gigleu ef galaath yn dywedut ef ae hadnabu. ac adywawt. varglwyd heb ef na at ti vyvi y varw yn y lle hwnn ual hynn. namyn dwc vi y vanachlawc yny lle y

Digitized by Google

kaffwyf vy anghenreidyeu kyn vy marw. A debygy ditheu heb y galaath y bydy uarw. Tebygaf yn wir heb ynteu. Aphan yttoedynt wy ar yr ymdidan hwnnw. nachaf y marchawc yn dyuot or fforest. Arglwyd varchawc urdawl heb ef ymwagel ragof os gelly. kanys mi awnaf ytt waethaf or aallwyf. arglwyd heb y melian weldy yma y marchawc am trewis i. ac ymwagel ditheu racdaw ef weithyon. Ac yna galaath a ymerbynnyawd ac ef. Ac rac meint oed awyd y marchawc a meint redeat y varch. ef aballawd arnaw y dyrnawt kyntaf. a galaath yna ae trewis ynteu yny vyd y gwaew trwy y balueis. Ac yny vyd ynteu ef ae varch yr llawr. ar paladyr yn drylleu. Ac ar hynny nachaf marchawc urdawl arall yn dyuot. Ac yn taraw galaath a gwaew yny vyd yn weyll uch y benn. Ac yna galaath adynnawd y gledyf ac ae trewis ynteu yny vyd y drwyn y wrthaw. Ac yna ffo aoruc hwnnw rac ofyn y lad yn gwbyl. A galaath ae gadawd ef y ffo wrth na mynnei wneuthur idaw mwy o drwc. Ac yna galaath a doeth att melian ac aovynnawd idaw beth a vynnei. Arglwyd heb ef pei dycut ti vyvi hyt ymywn manachlawc yssyd yn agos yn y lle y gwneit ymi oreu or aellit. Ef awelit ymi heb y galaath y bydei haws dy arwein di wedy y tynnit yr haearn ohonat. Nac ef vy arglwyd heb ef nyt ymrodaf i yn antur kymeint a hwnnw rac vy marw heb gyffes Ac uelly y goruc galaath y gymryt yn arafaf ac y gallawd acherdet ac ef yny doeth yr vanachlawc. Ar myneich ae herbynnassant ar lewenyd mawr ac agymerassant melian ac ae dugassant y ystauell dec a gwedy tynnu y arueu y amdanaw. wynt adugassant korff y arglwyd idaw. A gwedy kymryt kymun ohonaw. ef a dywawt wrth galaath. Arglwyd heb ef. prawf di weithyon tynnu penn y gwaew ohonafi. kanys parot wyf y gymryt vy angheu. Ac yna galaath a roes y law ar yr haearn ac aetynnawd. Ac ynteu yna o dra dolur a lewygawd. Ac yna manach or ty a vuassei uarchawc urdawl aedrychawd y dyrnawt ac a dywawt y alaath y bydei vyw ac iach erbyn penn y mis.

XIII.—Ac yno y trigyawd galaath y dyd hwnnw a

Digitized by Google

thrannoeth ac hyt ympenn y tri dieu y edrych aellit iechyt y velian. Ac yna ef a ovynnawd idaw pawed yr oed. Ac ynteu a dywawt y uot yn well. Gan hynny heb y galaath minneu aallaf vynet ymeith. Och arglwyd heb y melian alwyssen oed ytt vy aros ygyt athi. A unbenn heb y galaath nyt anghenreit ytti wrthyfi yma o dim. areidyach oed y minheu vot ynlle arall yngkeis seint greal yr hwnn adechreuwyt om achaws i. Paham heb yr un or myneych. a dechreuwyt pererindawd y greal. Do rof a duw heb y galaath. A chedymdeithyon orkeis ym ni. Gan hynny heb y manach wrth y marchawc briwedic oblegyt dy bechodeu y kyfaruu a thi y govit hwnn. Ac or mynny di dywedut y mi dy gyflwr ath hynt yr pan dechreawd y bererindawt honn. minheu a dywedaf ytti o achaws pa bechawd yth anafwyt. Arglwyd heb y melian a minheu ae dywedaf. Ac yna y managawd ef pa delw y doeth galaath yr vanachlawc. A pha delw y gwnaethpwyt ynteu yn uarchawc urdawl. a pha delw y gweles y llythyr yny groes yrei aoed yn gwahard y neb vynet yr fford ar y llaw assw. Ac yna y gwr da aoed gyflawn o vuched da. ac ysgolheic mawr a dywawt. ynwir heb ef un o anturyeu seint greal yw hwnnw. kanys ny dywedeist ti yr awr honn ymi dim ny bo yndaw synhwyr mawr. kanys pan yth wnaethpwyt ti yn varchawc urdawl. ti aaethyost yngkyffes megys y neb adylyei gymryt urdas marchawc urdawl. ac a ymlanheeist o bop pechawt or aoed arnat. Ac odyna ti aaethyost yn un or keis megys y dylyut. a phan weles y kythreul drwc vu ganthaw. Ac a vedylyawd ar wneuthur iawn itt pan weles y gyflwr. ac ef ath odiwedawd. a llyna itti pa le. pandoethost hyt y groes yn yr arwyd y dylyei bop marchawc urdawl ymdiriet. Ac yno ti a weleist lythyr yn erchi nat elei neb yr fford ar y llaw assw. namyn yr fford deheu. kanys honno yw fford y wirioned fford iessu grist. yr fford honno y kerda eneidyeu y rei gwirion. Ar fford assw aellir y deall drwy fford y pechaduryeit. Ar fford beriglus yneb a elei idi am nat oed kyn diogelet y neillfford ar llall. yd oed llythyr yn gwahard y neb nat elei yr

Digitized by Google

fford assw. ony bei y vot yn well noc arall. kystal yw hynny a dywedut y vot yn well ac yn gadarnach yngkaryat iessu grist noc arall. ac na allei digwydaw vyth ymywn pechawt. Athitheu pan weleist y llythyr ef a vu ryued y gennyt. Ac yna y doeth dy elyn ac yth drewis ditheu ac un oe gwareleu. Allyna itti a pha un. a balchder. kanys yna y medylyeist di vynet yr fford yr oedit yny gwahard ragot yn vwy dy obeith di yn dy nerth dy hun. noc yn nerth iessu grist. Ac uelly yth somet ti. Kanys y llythyr aoedynt yn dywedut ac yn deall milwryaeth nefawl. a thitheu ae dyelleist y vydawl. or achaws y syrthyeist mywn balchder. ac y pecheist yn varwawl. A phan ymwaheneist di y wrth galaath yth gafas y gwas drwc ac aaeth ynot. Ac yna ef auu ry vychan ganthaw agafas o wrogaeth arnat ony bei syrthyaw ohonat ymywn pechawt arall. Ac uelly or pechawt y gilyd ynyth vwryei y uffern. Yna ef abaratoes geir dy vronn coron o eur. ac yr awr y gweleist ditheu hi ti ae chwenycheist. Ac yn y pwngk hwnnw ti a syrthyeist yn yr eil pechawt. Nyt amgen no chwant yr byt. Aphan weles ynteu ry daruot ytti syrthyaw yn yr eil pechawt oblegyt kymryt y goron. Yna ef aaeth ymywn marchawc urdawl arall pechadur yr hwnn ath anafawd ditheu. A phany bei ymgroessi ohonat or blaen. ef ath ladassei. Eissyoes duw aadawd dy anafu di hyt yn agos y angheu rac ymdiryet ohonat unweith arall yth gorff yn vwy noc idaw evo. Ac yr y adnabot ef ohonat ef aanuones duw ytt nerth. nyt amgen no galaath. yr hwnn a oruu ar y deu varchawc urdawl. y rei aellir eu kyffelybu yr deu bechawt y syrthyeist di yndunt. a llyna vyvi gwedy dywedut ytti synhwyr yr anturyeu a gyfaruuant a thydi.

XIV.—Trannoeth y bore gwedy daruot y galaath gwarandaw offeren. ef agychwynnawd ymeith drwy gennat melian ar myneych. ac auarchoges llawer o diwarnodeu. A diwarnawt ef agychwynnawd o ty gwr mwyn. Ac yn drwc ganthaw na chawssoedyat y dyd hwnnw chweith o offeren. A gwedy marchogaeth talym ef aarganvu capel. athu ac yno y doeth. ac nyt oed

Digitized by Google

chweith diwyll arnaw. yr hynny ual kynt ef a ostynghawd arbenn y linyeu. Ac aerchis y duw gynghor. A gwedy daruot idaw y wedi. ef a glywei lef yn dywedut wrthaw. Tydi varchawc urdawl anturyus. dos yn unyawn y gastell y morynyon y diua yr anturyeu drwc yssyd yno. Aphan gigleu ef hynny. diolwch y duw a wnaeth ef am vot yn wiw ganthaw y rybudyaw. Ac yna esgynnu ar y varch aoruc a marchogaeth yny welei gastell tec ymywn glynn. ac auon uawr yn redec trwydaw yr hoùn aelwit hafren. athu ac yno y kyrchawd. Ac y kyfaruu ac ef gwr prud. ac nyt oed gyweir o dillat. Ar gwr a gyvarchawd gwell idaw. A galaath aattebawd idaw yny mod goreu or y gallawd. agovyn idaw padelw y gelwit y kastell racko heb ef. Ac ynteu a dywawt mae castell y morynyon y gelwit ef. aphawb or yssyd yndo yssyd anghyflyryus. canys nyt oes yndaw chweith trugared. athu ac yno y kyrchawd ef yny welei gwas ieuanc yn dyuot y wahard y fford racdaw. kanys nyt oes yma heb ef chweith fford da. Yr drycket vo heb y galaath myvi aaf tu ac yno. y ba ryw beth heb y gwas. Y geissyaw diua yr aruerdrwc yssyd yno heb y galaath. Myn vyngkret heb y gwas mi adebygaf y byd ry galet ytt yr aruer hwnnw. ac aro di vyvi yma. Ac yna y gwas aaeth yr castell. ac ny bu hir y trigyawd galaath yny weles yn dyuot attaw seith marchawc urdawl yn aruawc allan. y rei adywedassant ac aarchassant y galaath ymogelut racdunt. Paham heb y galaath ae ygyt ar untu yr ymledwch chwi a myui. Ie heb y marchogyon. kanys uelly yw yr aruer yma. Aphan gigleu ef hynny ef a ollyngawd y varch tu ac attunt. ac adrewis y kyntaf agyfaruu ac ef yny vyd yr llawr. ac yn agos idaw athorri y vynwgyl. Ac wynteu ae trawssant ynteu yna. Eissyoes ny chwympawd nac oe gyfrwy nac y ar y varch yr hynny. Ac ar yr ymgyhwrd hwnnw y torrassant eu peleidyr oll. a chynn torri paladyr galaath. ef a vwryawd tri or marchogyon yr llawr. Ac yna ef a dynnawd y gledyf. ac wynteu adynnassant eu cledyfeu. Ac uelly ymguraw aorugant yn ffest. Ac yr hynny kystal y diodefawd galaath arnaw yr ymlad. ac y bu

Digitized by Google

reit udunt wy oll adaw y maes a chilyaw. a ryuedu yn vawr aorugant bot mywn un dyn bydawl or byt hanner hynny o nerth. Ac velly y parhawd yr ymlad y ryngthunt yny vu hanner dyd. Ar seith marchawc yna aoedynt gynvlinet ac na ellynt amdiffyn eu heneidyeu o blegyt ymlad. Ac yna wy adechreuassant ffo. a galaath nyt ymlityawd yr un onadunt. namyn ymchoelut parth a phorth y castell. Ac yno ef a gyfaruu ac ef gwr prud a dillat crevydus ymdanaw. Ac yn dywedut wrth galaath. Arglwyd heb ef llyma ytti agoryadeu y castell hwnn. ac ynteu ae kymerth wynt ac adoeth y mywn. Ac ef awelei yno o vorynyon ar na allei ef eu kyfrif. Aphob un onadunt yn dywedut. Arglwyd groessaw duw wrthyt. Am a vuam yr ystalym yma yth aros di yn rydhau. a bendigedic vo duw athanvones ditheu yma. abyth y bydem ni yma pany bei dy dyuot ti yn gollwng ni or kastell doluryus hwnn. ac yna y gymryt erbyn ffrwyn y varch ae dwyn yr llys. apheri idaw disgynnu megys oe anuod. ac ynteu adywawt nat oed amser hwnnw y lettyu etto. Ac yna un or morynyon a dywawt arthaw. Arglwyd heb hi ot ey di odyma uelly. y rei a yrreist ti odyma gynneu oth gedernit. wynt a deuant yma drachevyn a nerth y gyt ac wynt. ac agynhalyant y drycaruer aoed ganthunt yma gynt. Ac uelly y colly di dy lauur hyt hynn. Yna galaath adywawt y vot ef yn barawt y wneuthur pob peth or adylyei yngkylch hynny. Arglwyd heb wynteu par di dyvynnu cwbyl o varchogyon urdolyon y kyuoeth hwnn ae pobloed hyt yma. A phar udunt dynghu nachynheliir yr aruer hwnn vyth o hynn allan yn y lle hwnn. Ac ar hynny nachaf morwyn ieuanc dec yn dyuot o un or ystauelloed a chorn o asgwrn moruil yn y llaw. ac yn y roi yn llaw galaath. Ac yn dywedut wrthaw. Arglwyd heb hi or mynny di dyuot ym kyffredin y kyuoeth oll. par ganu y corn hwnn. ac ef aglywir ar dec milltir o bop parth. A galaath yna ae roes yn llaw varchawc urdawl aoed yny ymyl. A hwnnw ae kant ual y clywit yn hawd dros gwbyl or kyuoeth. Ac yna ymdiarchenu aoruc galaath. ac eisted ar ymyl

Digitized by Google

gwely. A gouyn awnaeth ef yr gwr arodassei yr agoryadeu yny law. ae offeiryat oed ef. Ieu arglwyd heb ynteu. Dywet titheu y minheu heb y galaath paryw aruer yssyd yma. aphaham y karcharwyt y sawl vorynyon racko yny lle hwnn. Yna yr offeiryat a dywawt bot seith mlyned yr pandathoed ef yno att duc linoi. Y gwr bioed kyuoeth y seith mroder a ffoassant ragot ti hediw. Ar nos y daethum i yma ef agyuodes keyntyach y rwng y duc ar seith marchawc o achaws merch y duc yr oed un or marchogyon yny charu. Ac o diwed y geintyach y seithwyr aladasant y duc ae vab ac agymerassant y dryssor. ac adyuynnassant attunt luudwyr drwy rym y rei y goruu ar wyr y wlat gwneuthur gwrogaeth udunt. megys yd oed drwc gan y uerch. Ac yna hi a dywawt megys o broffwydolyaeth wrthunt. Arglwydi heb hi o chawssawch chwi uudugolyaeth. nyt reit ymi didarbot. kanys megys yr ennillassawch chwi y castell hwn o achaws morwyn. o achaws morwyn y collwch chwitheu evo. Ac y gorvydir arnawch drwy gorff ungwr. Ac yna pan glywssant wynteu hynny. wynt a dynghassant nat aei fford yno un vorwyn nys attelhynt yngkarchar yny delei yr un marchawc a oruydei arnadunt wy yll seith. Ac uelly y gwnaethant yr hynny hyt yr awr honn. Ac am hynny y gelwir y castell hwnn castell y morynyon. Ae byw y uerch honno etto heb y galaath. Na vyw arglwyd heb ef. namyn chwaer idi yssyd ieu no hi yssyd vyw. yna yngkylch yr ymdidan hwnnw y dechreuawd y bobyl lenwi y castell. Aphan wybuant pawb or wlat goruot ar y seith marchawc llawen uuant a gostwng y alaath megys pei efo auei arglwyd arnadunt. Ac yna galaath aberis y bawp dyuot geyr bronn merch y duc a gwneuthur gwrogaeth idi. A thynghu vyth yn eu hoes na diodefynt y drycaruer hwnnw arnadunt. Ac yna galaath aerchis yr morynyon aoedynt yno vynet oe gwlatoed euhunein yn iach. Y nos honno y bu galaath yno. a thrannoeth y bore ef adoeth chwedyl yr kastell. kyfaruot o walchmei. agaharyet. ac owein uab uryen ar seith mroder acheissyaw or seithwyr llad gwalchmei ae gedymdeithyon. Ac

Digitized by Google

eissyoes arnadunt wy y digwydyawd y lladua. kanys gwalchmei ae gedymdeithyon ae lladawd wyntwy. A phan gigleu galaath hynny ryued vu ganthaw agwisgaw y arueu aoruc. a chychwyn or castell drwy adaw pawp yno ar y lewenyd ac ar y hedwch. Ac wynteu ae kanhebryngassant ef. yny beris ef udunt wy ymchoelut. ac ynteu a varchokaawd. ac eissyoes. Yma y mae y kyfarwydyt yn tewi am galaath ac yn trossi ar walchmei.

XV.—Yr ymdidan yssyd yn dywedut gwedy ymwahanu gwalchmei y wrth y gedymdeithyon uarchogaeth ohonaw heb gyfaruot chweith antur ac ef a vei wiw y venegi. yny doeth hyt y vanachlawc or lle y kymerth galaath y daryan. Ac yno y managwyt idaw pa vod y kawssoed galaath y daryan. Ac yna gwalchmei a vynnawd udunt pa ffordd ydathoed galaath. A gwedy y venegi idaw. ynteu a gyrchawd y fford honno. ac a uarchokaawd hyt y lle yd oed melian ynglaf. ac yno y nos honno y bu ef yn ymdidan a melian. Athrannoeth y bore ef a gychwynnawd ymeith. Ac a dywawt. och duw heb ef vyndireittyet. vy mot yn marchogaeth mor agos y galaath ac ydwyf. ac heb ymgyfaruot ac ef yn annat neb. Ac myn duw pei delwn i y le y gallwn y welet ef unweith nyt ymadawn i vyth ae gedymdeithyas ef. or bei gyn chwannocket ef yr meu I. ac ydiw gennyf I yr eidywaw efo. Ar parabyl hwnnw a gigleu un or myneych or manachlawc. ac a attebawd idaw ual hynn. yn lle gwir heb ef awch kedymdeithyas chwi awch deu nyt ynt gyffelyb. kanys tydi yssyd varchawc urdawl ffals anghywir. Ac ynteu yssyd gywir ual y dyly bot. Arglwyd heb y gwalchmei. ef awelir ymi yn herwyd adywedy di dy vot ymadnabot. Mi ath atwaen di heb ynteu yn well noc y tebygy di. wrth hynny heb y gwalchmei titheu a elly dywedut ym ym pa gas ydwyfi yn gyndrwc ac ydywedy di. Nys dywedafi ytti heb ef. ac eissyoes ti ageffy yn ehegyr ae dywetto ytt. Aphan yttoedynt hwy yn ymdidan uelly nachaf yndyuot ymywn marchawc urdawl yn aruawc. Ar myneych yna ae kymerassant ef oe diarchenu. Ac yna ef aadnabu gwalchmei mae gahariet

Digitized by Google

y vrawt oed. Ac yna pob un onadunt a vu lawen wrth y gilyd. Ac yno y nos honno y buant. A thrannoeth y bore wynt a wisgassant eu harueu. ac aaethyant y warandaw offeren. a gwedy offeren wynt a varchokaassant yny vu awr brim. Ac yna wynt awelsant oc eu blaen owein uab uryen yn marchogaeth. ac wynteu yna aarchassant idaw eu haros. Ac yna ymadnabot ac wynt aoruc. ac y dwylaw mynwgyl yd aethant idaw. Ac amovyn aoruc gwalchmei ac owein pa anturyeu a gyfarvuassei ac ef yr pan ymwahanyssynt. Ac ynteu a dywawt na welsei ef yr un. Marchocawn ninheu yn tri weithyon heb y brawt gwalchmei. yny gyfarffo ani ryw antur. ac uelly y kytunassant. a marchogaeth awnaethant yny doethyant parth a chastell y morynyon. Ar dyd hwnnw y goruuassei galaath ar y seith marchawc. Ac wynteu pan ffoassant agyfaruuant a gwalchmei ae gedymdeithyon. Ac yna y seith mroder aadnabuant mae rei o uarchogyon y keis oedynt. Ac un onadunt a dywawt wrth walchmei. ymdiffynnwch heb ef. kanys chwi adoethawch ar angheu. yna gwalchmei ae gedymdeithyon ae kyrchassant. Ac ar y ruthur gyntaf ef a las tri or seith. Ac yna tynnu cledyfeu aorugant aruthraw yr lleill. Ac ny bu hir yny daruu udunt eu llad oll. kanys blin oedynt. Ac yno eu gadaw yn veirw aorugant ac ymchoelut y wrthunt. Ac nyt aethant wy ynghyvyl y kastell. namyn pob un onadunt aymwahanawd y wrth y gilyd. Ac o achaws hynny y kollassant wy galaath. A gwalchmei a gerdawd racdaw yny doeth y ty meudwy. yr hwnn aoed yn dywedut gosper o veir. ac yno disgyn awnaeth. a gwedy gosper. erchi lletty yr duw yr meudwy yr hynn a gafas yn llawen. Ar nos honno. ef aovynnawd y meudwy idaw ef pa un oed. a pha gerdet aoed arnaw. ac ynteu a dywawt idaw ef kwbyl oe holl gyflwr. Aphan wybu y gwr da mae gwalchmei oed yno. ef adywawt yr oed da ganthaw pei gwypei y ba neges yd oed ef yn llauuryaw uelly. a phregethu idaw adangos drwy ystyryeu a chwedleu tec or euengylyeu yd oed da idaw gyffessu. ae kynghores yn oreu ac y gallei. Os tydi

Digitized by Google

heb y gwalchmei a uynn menegi ymi ryw beth a dyw-etpwyt wrthyf. Minnheu a vanagaf ytti vy holl gyflwr. kanys mi awnn dy uot yn offeiryat. Ac yna gwalchmei aedrychawd ar y meudwy. ac a dywawt idaw y holl bechodeu. Ar hynn mwyhaf awydyat arnaw heb gelu dim. aphadelw y daroed yr manach or uanachlawc y alw yn varchawc drwc ffals. A gwedy daruot y walch-mei kyffessu ef aadnabu y meudwy arnaw. na buassei ynghyffes yr ys pedeir blyned ar dec. Yna meudwy a dywawt. kyfyawn heb ef yth elwit ti yn varchawc urd-awl drwc anghywir. kanys pan yth wnaethpwyt ti yn varchawc urdawl. ny roet yr urdas hwnnw ytti yr gwassanaethu y gwas drwc. namyn yr gwassanaethu yn arglwyd ni iessu grist. ac yr ymdiffyn yr eglwys. ac yr talu y duw y drysor aroes ytt. nyt amgen nor eneit. or achaws hwnnw y roet ytti urdas marchawc urdawl. a thitheu ae haedyeist yn drwc iawn. kanys o gwbyl ti a vuost yn gwassanaethu y kythreul. ac a ymedeweist ath greawdyr. ac a dugost y vuched waethaf. ac ef ath atweinat yn da y neb ath elwis yn varchawc urdawl drwc anghywir. Ac yn lle gwir heb ef panybei dy vot ti yn bechadur ual yr oedut ny ladyssit y seith mroder oth achaws di nac yr dy gymorth. Namyn wynt awn-athoedynt eu penyt dros eu drycweithredoed a gatwyd. ac a wnathoedynt eu hedwch y ryngthunt a duw. ac ny ladawd galaath wyntwy yr hwnn yr yttwyt ti yn mynet oe geissyaw. namyn ef aoruu arnadunt heb eu llad. Ac nyt oed heb synhwyr mawr heb ef yr seith mroder aoedynt yn kynnal yr aruer drwc ynghastell y moryn-yon. yr eynt y mywn a phob morwyn or adelei fford yno bei jawn bei cam. Yr duw heb y gwalchmei dywet titheu ymi y synhwyr hwnnw ual y gallwyf inheu y dywedut pan delwyf y lys arthur. Yn llawen heb y meudwy. a minheu ae dywedaf. Drwy y castell y dyl-ywn ni deall uffern. a thrwy y morynyon y dylywn deall yr eneidyeu glan aoedynt yna y uffern yn mynet kynn diodef crist. kanys pawb a eynt yno yr amser hwnnw. bei ar iawn bei ar gam. A thrwy y seith marchawc y dylywn deall y seith bechawt marwawl

Digitized by Google

aoedynt yn yr amser hwnnw yn gwledychu y byt. kanys nyt oed yna chwaith kyfyawnder yny byt. or achaws yr oed bawb yn mynet y uffern a drwc a da. Aphan weles y tat or nef y gwr anffuruawd ni mod yn buched ni yn gyndrwc a hynny. ef aanuones y uab yr dayar yr rydhau yr eneidyeu da yrei aellir eu kyffelybu yr morynyon. a megys yd anuones ef y uab y rydhau yr eneidyeu or poeneu. velly yd anuones ynteu y varchawc urdawl ehun y rydhau y morynyon or poenedic carchar aoed arnadunt. Pan gigleu gwalchmei ef yn dywedut uelly. ryued vu ganthaw. Ac yna y meudwy a dywawt. gwalchmei heb ef pei ti a vynnei ymadaw ar uuched uudyr yssyd gennyt ac agymereist hyt hynn. mi aallwn etto gwneuthur hedwch y rot a duw. kanys yr ysgruthyr yssyd yn dywedut. nat oes pechadur yr meint vo y bechodeu or a archo madeueint drwy ediuarwch y duw nys caffo. Ac yna gwalchmei a dywawt na allei ef yny llauur yd oed gwneuthur dim or penyt. Ar meudwy yna a dawawd wrthaw. kanys ef a welei nat oed namyn colli y lauur heb allel gwneuthur dim lles. Trannoeth y bore ef a gychwynnawd gwalchmei ymeith. ac a uarchockaawd yny gyfaruu ac ef deu gedymdeith idaw. nyt amgen gloual a gifflet. A marchogaeth ygyt aorugant bedwar diwarnawt heb gael nebryw antur. Yma ymae yr ymdidan yn tewi amdanunt wy oll. ac yn trossi att galaath.

XVI.—Gwedy kychwyn o galaath o gastell y morynyon ef a uarchockaawd hyt pan doeth y fforest diffeith. ac yno ef a gyfaruu ac ef lawnslot a pheredur yn marchogaeth. ac nyt adnabuant wy efo. o achaws na welsynt y daryan eiryoet. Ac yna y erbynnyeit a oruc lawnslot ac ar hynt torri paladyr arnaw. A galaath ae trewis ynteu yny vyd ef ae varch yr llawr heb wneuthur mwy o afles idaw. Ac yna ef a dynnawd y gledyf o achaws torri paladyr y waew. ac a drewis peredur ar y benn. yny eillya yr helym ystlys yn ystlys ae benn. Aphanybei troi y gledyf yny dwrn ef ae lladassei. yr hynny ef aoruu ar peredur syrthyaw yr llawr y ar y uarch. Ar ymwan hwnnw a vu yn ymyl meudwydy yn y lle yd

Digitized by Google

oed ty anckres. Aphan weles yr anckres galaath yn mynet ymeith. ac yn eu gadaw wynteu yngewilydus hi a dywawt dos ymeith varchawc urdawl. kanys yn wir pei ath adwaenynt yngystal ac yd adwaen i. ny bydynt mor ffolyeit ac yd ymerbynnynt a thi. Aphan gigleu galaath y parabyl hwnw nyt arhoes ef haeach rac ovyn y adnabot namyn brathu y varch ac ymeith. Aphan wybuant wynteu hynny. wynt a esgynnassant ar eu meirch ac ae hymlityassant ef. Eissyoes y odiwes ef nys gallassant. Ac yna kyndristet vuant am diangk y marchawc y ganthunt. ac y mynnynt eu marw yn y lle yr oedynt. Arglwyd heb y lawnslot mae y kynghor yssyd gennyt ti. myn duw heb y peredur ny wnn i yr un. kanys y marchawc yssyd yn mynet yn gynvuanet ac na wdam ni dim y wrthaw. Y nos heuyt yssyd yn dyuot arnam. Ac am hynny goreu kynghor oed yni ymchoelut yr fford vawr dracheuyn rac mynet yn rybell y wrthi. llyma vynghret heb y lawnslot nat ymchoelafi vyth yny wypwyf pa un ywy marchawc ar daryan wenn. Aro ditheu heb y peredur yma heno. Ac auory. kerdwn vi a thi. A lawnslot a dywawt nat arhoei ef dim. Ie heb y peredur porth vo duw ytt. kanys nyt af i hwy no hynn. A mi a ymchoelaf drachevyn yr anckyrdy. A lawnslot ynteu a varchocaawd ar draws y fforest heb gynnal na fford na llwybyr. ac yn vlin ganthaw vot y nos yn dywyll ac heb welet nac yn agos nac ympell neb ryw fford. Ac uelly marchogaeth aoruc yny doeth y ymyl croes uaen yr honn aoed yngwahanu dwy fford. A gwedy edrych ar y groes ef awelei y danei maen o varmor mawr a llythyr debygei ef yndaw. ac rac tywyllet y nos ny allei ef eu darllein. Ac yn agos attaw ef awelei hen gapel. a thu ac yno y doeth ef. A gwedy disgynnu a gadaw y varch yn rwym wrth brenn. ef adoeth y drws y capel. ac neurdaroed tynnu barreu o heyrn ar draws y drws yn groes. hyt na allei nac ef na neb uynet y mewn. Ac yna ef aedrychawd drwy y drws ac aarganuu allawr ac wrteithyeu tec arnei. a cheyr y bronn yr oed canhwyllbrenn o aryant. athapar kwyr yn llosgi yndo. Aphan weles ef hynny

Digitized by Google

ef a vu chwannawc y vynet ymywn y edrych pwy oed yno yn trigio. Ac yna ymdaraw ar barreu aorug ef. a phryt na thygyawd idaw geissyaw mynet y mywn trist vu ganthaw. a dyuot att y varch aoruc ae arwein hyt yn ymyl y groes. Ac yna tynnu y ffrwyn oe benn a gadel idaw bori. A gwedy hynny diosc y helym ae gledyf ae daryan. ae roi yn y ymyl achysgu. A megys yr oed ef gwedy ymranhunaw. ef a welei mywn elor veirch gwr clwyfus a deu balffrei y danaw yny arwein. ar gwr yn kwynaw y ovit yn vawr. Aphan weles ef lawnslot. edrych arnaw aoruc heb dywedut ungeir wrthaw. Ar marchawc aoed yn yr elor a doeth geir bronn y groes. ac a dywawt. och duw heb ef a vu ar wr eiryoet poen kymmeint ac yssyd arnafi heb wneuthur hayach o drwc. velly y bu y gwr hwnnw yn ymgwynaw yn hir. a lawnslot y rwng hun a hun yn gwarandaw arnaw. A gwedy bot y marchawc yn aros yno yn hir. ef a welei lawnslot y kanhwyllbren a welsei gynno hynny yn y capel yn dyuot hyt geyrbronn y groes. ac ny welei neb yny arwein yr hynn a vu ryued ganthaw. Ac odyna ef a welei yn dyuot y bendigedic lestyr yr hwnn awelsei gynt yn llys arthur ac a elwir seint greal. Ac yr awr y gweles y marchawc urdawl claf ef yn dyuot. ef aymollynghawd yr llawr or lle yr oed. ac a gyssylltawd y dwylaw dan dywedut. Arglwyd duw heb ef y gwr a wnaeth yr y llestyr hwnn amrauael wyrtheu ymywn amrauael glevydyeu ysgawnhaa arnaf or govit yssyd. val y gallwyf vynet yn un or keis y gyt ar gwyrda ereill. Ac yna ymgropyan aoruc parth ac att y llestyr yd oed y greal yndaw. ac ymauael ac ef ae dwylaw yll dwyoed a roi kussan idaw. Ac yna yd ysgawnhaawd y dolur ual y gallei gysgu a cherdet. Ac adywawt bendigedic vych duw kanys ydwyf weithyon yn holliach. Ac ar hynny syrthyaw kysgu arnaw. Ac yna y racwerthuawr lestyr ar canhwyllbrenn yn y vlaen aaeth yr capel drachevyn. ac ny welei lawnslot nac yn dyuot nac yn mynet beth aoed yny arwein. Ac yr gwelet o lawnslot seint greal nywr duw idaw ef merwinaw. or achaws y kafas ef lawer gweith y liwyaw ae gewilydyaw.

Digitized by Google

XVII.—Ac ar hynny y marchawc a gychwynnawd y vyny. ac aaeth y gussanu y groes. Ar hynny nachaf ysgwier yn dyuot. a blattys ganthaw. ac yn govyn yr marchawc pa delw ydoed. ar marchawc adywawt gaffael gwaret ohonaw gan seint greal. dieithyr ryued yw gennyf heb ef am y marchawc racko yssyd yn kyscu heb chwyfu ohonaw yr dyuot y seint greal yma. Myn vyngkret heb yr ysgwier. marchawc mywn pechawt yw heb y gyffessu eiryoet. or achaws na mynnawd duw idaw welet dim or antur hwnn. Yn lle gwir heb y marchawc pwybynnac a vo y mae yn direidwr. A mi a debygaf mae un o varchogyon urdawl y vort gronn yw. Gat idaw heb yr ysgwier weldy yma vi wedi dwyn dy arueu itt. Ac yna eu gwisgaw aoruc y marchawc. ar ysgwier a doeth att gledyf lawnslot ae helym. ac ae duc yr marchawc. Ac odyna ef a gymerth march lawnslot ae gyfrwy ac ae duc oe arglwyd. ac a dywawt. dos di ar y march hwnn. kanys gwell y dyly di varch da nor marchawc diawc racko. Ac yna y marchawc a gymerth y march drwy y diolwch y duw. ac aaeth ac ef ymeith. Ac a tyngawd na orffowyssei vyth yny wypei paham ydymdangosses seint greal yn ymrauael leoed yn lloegyr. mwy noc yn lle arall. a phaham y ducpwyt ef y loegyr. myn vyngkret heb yr ysgwier ti a dywedeist digawn. a duw a wnel itt orffen hynny yn anrydedus. ac velly y kychwynnawd ef ymeith ygyt ar ysgwier. A gwedy kerdet ohonunt amkan y hanner milltir ef a gyvodes lawnslot. Ac yna medylyaw aoruc beth oed yr hynn a welsei ae breudwyt ae ynteu peth arall. Ac yna ef adoeth hyt y capel. ac aarganuu y canhwyllbrenn. eissyoes dim o seint greal nys gweles ef. Ac a lawnslot yn medylyaw yno yn hir a glywei lef yn yr awyr yn dywedut. Lawnslot galedach no maen. chwerwach nor prenn. dos ymeith odyyma. A phaham y bydut mor hy a dyuot yr lle y bei seint greal. Ac y mae y lle oth achaws di yndrewi. Aphan gigleu ynteu y parabyl hwnnw ef aaeth ymeith yn gewilydus druaneid dan wylaw ac ymelldigaw yr awr y ganet. adywedut na deuei vyth ar anryded kanys pallassai arnaw gael

Digitized by Google

gwelet seint greal. A phan doeth ef hyt y groes drach-euyn. ny chafas ef nae varch nae gyfrwy nae helm nae gledyf. Ac yna ef aadnabu bot yn wir yr hynn a welsei.

XVIII.—Ac yna y dechreuawd ef ymdoluryaw o dristit. ac y dywawt. och duw heb ef yr awr honn y gwnn i panyw vympechodeu am llesteiryawd. Aphan dylyasswn i vymendaw vy hun. y doeth y kythreul ac y duc vynggolygon y gennyf o achaws vympechodeu. ac uelly y bu ef yny vu dyd drannoeth. ac yny gigleu yr adar yn canu ar heul yn disgleiryaw. Ac yna ef ae gweles yndi ystor o bop ryw arueu. ac ef a gychwynnawd ymeith ar hyt y fforest. heb na march na chyfrwy. na chledyf na tharyan na helym ar y draet. yny doeth yngkylch awr brim i dy meudwy yr hwn aoed yn dechreu canu offeren. yna ef a doeth yn drist yr capel. ac aostyngawd ar benn y linyeu. ac a wediawd duw. ac a werendewis yr offeren. ac ymbil a duw am vadeueint oe pechodeu. Aphan daruu y meudwy dywedut yr offeren ef a doeth lawnslot attaw. ac aerchis yr duw idaw y gynghori. Ar meudwy a ovynnawd idaw pa un oed. Ac o pa le y dathoed. Ac yna lawnslot a dywawt mae o lys arthur yd hanoed. Pa ryw gynghor heb y meudwy a vynny di gennyfi. ae dy gyffessu. Ie arglwyd heb y lawnslot. Ac yna y meudwy ae kymerth ef. ac ae duc hyt yn ymyl yr allawr. ac yno yd eistedassant. Ac y govynnawd y meudwy idaw y henw. Ac ynteu a dywawt mae lawnslot oed a mab y vrenhin bann o vannot. Pan gigleu y meudwy panyw efo aoed yno. rac meint a dywedit amdanaw ef a vu ryued ganthaw meint y dristit. ac a dywawt wrthaw. Arglwyd heb ef nyt tristau a dylyy di. namyn diolwch y duw dy wneuthur yn gyndecket ac yn gyngadarnet ac yr wyt. ac na wdam ni yny byt dy gyffelyb di. y gyt a hynny. ef a roes cof a synhwyr ytt oblegyt y rei y dylyy di gewilydyaw kythreulyeit uffern. a gwassanaethu duw. a gwneuthur y orchymynneu yn herwyd dy allu. Ac ny wdost di meint y rodyon aroes duw ytt. Ac or bu e helaethyach efo wrthyt ti noc wrth un arall.

Digitized by Google

athwyn ditheu or kythreul y ganthaw. ef adylyit dy gerydu di yn uawr. Ac am hynny ymogel di rac gallel dy gyffelybu yr gwassanaethwr drwc. yr hwnn y mae yr euengyl yn traethu am danaw. Pandoeth y gwrda gynt a galw y drigweis attaw. a roi att un besawnt o eur. ac yr llall dwy. ac yr trydyd y roes pump. ar hwnn agymerth y pump. ef aaeth y ennill ac wynt yn gymeint a phandoeth geyr bronn y veistyr y gyfrif ac ef. ef a dywawt. Arglwyd heb ef ti a roeist attafi bump besawnt o eur. ac weldy yma wynt. a phump ereill a ennilleis inneu attunt wynteu. A phan gigleu y meistyr y parabyl hwnnw ef a dywawt dabreragot was da. a dos y lewenyd dy arglwyd. A gwedy hynny ef adoeth yr hwnn a gymerassei dwy vesawnt. ac a dywawt. arglwyd heb ef ti aroeist attafi dwy vesawnt o eur. weldy yma wynt a dwy ereill aennilleis inheu attunt wy. Ac yna y arglwyd adywawt wrthaw ual y dywawt wrth y llall. Eissyoes y gwas ny chymerassei namyn un besawnt ef agudyawd y aryan yny dayar ac agilyawd ymeith y wrth y arglwyd heb lyuassu ymdangos idaw. Hwnnw vu was drwc anghywir lle ny bu dim o rat yr yspryt glan eiryoet. Ac awdost di paham yd wyfi yn dywedut hynn wrthyt ti. o achaws y rodyon llawer a roes yn arglwyd ni attat ti. kanys ef athwnaeth duw di yn ragorussach o bryt ac yn gadarnach noc arall. herwyd y tebygit wrthyt wrth a welir arnat odieithyr. Ac am hynny y kynghorwn ytt llywyaw yn da yr hynn a roes duw attat drwy y amylhau. ac or gwnaethyost bechodeu galw ar drugared drwy gyffes ac ediuarwch. a gwellau dy uuched. a mi a wrantaf os uelly y gwney di y gwna duw yrot titheu gymeint athalw attaw y gymryt llewenyd dy arglwyd.

XIX.—Arglwyd heb y lawnslot yna. y parabyl a dywedeist di am y tri gweis a gymerassant yr eur yssyd yn vygcallon I yn vawr. Kanys myvi a wnn vynggwneuthur o duw yn dec ac yn gadarn. am kannysgaedu o bop donyeu. A minneu debygafi ae kudyeis wyntwy hyt na allaf dalu kyfrif o honunt ym arglwyd pan y govynno ym. Ac am hynny y gelly di vyngkyffelybu

Digitized by Google

I yr gwas drwc a gudyawd yr aryant. kanys mi awassaneythyeis vynggelyn yr pan ymganet. Ac aadeweis vyngcreawdyr o achaws vyn diruawr bechodeu. drwy y rei y dangosses y kythreul ym digrifwch yny byt hwnn. Eissyoes ny dangosses ef ymi y poeneu a gaffwn amdanunt. Pan gigleu y meudwy ef yn parablu uelly ef adywawt dan wylaw. Lawnslot heb ef or buost di gyndrwc gynno hynn a mynet y ar dy fford dy hun ar anghyueilyorni. keis dyuot bellach y fford y wirioned. Ac yna ef a dangosses y lawnslot delw y groc a oed gyferbyn ac wynt. Pony wely di heb ef delw y groc racko ae breichyeu ar llet. yn un ffunyt ahynny y mae Iessu grist ae vreichyeu ar llet yn barawt y erbynnyeit pob pechadur or a vynno dyuot attaw. A mi a wnn na wrthyt ef dim o honat ti. or mynny dyuot attaw drwy wir gyffes ac ediuarwch a phenyt. Ac am hynny dywet ym orlle kwbyl oth gyflwr. a minheu ae gwarandawaf. ac ath gynghoraf yn oreu ac y gallwyf. Ac yna lawnslot a uedylyawd yn hir drwy ucheneidyaw na dywedei idaw dim oe hanes y ryngthaw ar vrenhines. Efo yr hynny arybuchei y dywedut pei as llavassei. Ar meudwy yna drwy exawmpleu aroes callon yndaw y adef y bechodeu. ac y ymwrthot ac wynt. Ac y gymryt y vuched dragywyd yr menegi ohonaw y bechodeu. Yna y dywawt lawnslot. Arglwyd heb ef mi adebygaf vy mot I megys marw. o achaws pechawt a wneuthum. ac arglwydes. Nyt amgen no gwenhwyvar gwreic arthur. Honno aroes ym lawer o eur ac aryant. a rodyon ereill y rei aroeys ynnheu y uarchogyon urdolyon tlawt. ac y dylyedogyon ereill. Honno aberis ymi vynet yn yr enryded yr wyf. Ac o vost. ac oe charyat hi y gwneuthum I y gweithredoed. ar milwryaethyeu mawr yd ydys yn ymdidan amdanunt. Honno am gwnaeth odlawt yn gyvoethawc. yr hynny myvi awnn mae o achaws y phechawt hi y mae duw wedy sorri wrthyf. kanys ef adangosses ym hynny yr neithywyr hyt yr awr honn. Ac yna ef adywawt ual y daroed idaw y nos gynt. ac aerchis yr duw idaw y gynghori. Yn lle gwir heb y meudwy bychydic adal vynghyngor

Digitized by Google

I y ti. ony bei roi ohonat yndiofvryt nat elych vyth yny chyuyl. Ac os hynny a vynny di mi adebygaf y gellir gwneuthur dy hedwch aduw. Ac yr agori ytt byrth nef yny lle y mae buched dragywyd. eissyoes yny pwnc yr wyt ti ef a vydei ouer ytt. neb ryw gynghor. Arglwyd heb y lawslot nyt oes dim or a dywetych di. nys gwnelwyf os gallaf. Wrth hynny heb y meudwy. moes ditheu dy gret nat elych vyth ynghedymdeithyas y vrenhines. nac ynghedymdeithyas arall or y llitio duw wrthyt oe hachaws. Ac ynteu aroes y gret megys marchawc urdawl kywir. Dywet ym etto heb y meudwy dy damchwein am seint greal. ac ynteu ae dywawt idaw. ac a venegis idaw y tri parabyl aglywssei. nyt amgen maen aphrenn a ffigier. Ac yr duw dywet ym beth aarwydockaa hynny. kanys myvi awnn y gwdost ti beth certeinyawl am hynny. Ar hynny y medylyawd y gwr da hirynt. A gwedy hynny ef a dywawt yn wir heb ef lawnslot. nyt ryued gennyfi dywedut wrthyt y tri pharabyl hynny. kanys eiryoet ti a vuost wr ryuedaf or avu. Ac am hynny nyt reit ytti ryuedu o dywedut wrthyt peth a uei ryuedach noc wrth arall. Achanys nyt chwannawc di y wybot y wirioned am hynny minneu ae dywedaf ytti. Ti adywedeist ymi dy alw di lawnslot galedach no maen. chwerwach no phrenn pwrri drewedic. mwy y amarch no ffigier. dos odyma. Or achaws yth elwit ti yn galedach no maen y mae y hynny synhwyr ryued. Ti awdost mae kalet vyd pob maen o natur. a rei a vyd caledach noe gilyd. A thrwy galedwch y maen y gallwn ni deall y rei yssyd ynkysgu ac ynllawenhau yn eu pechawt ac yssyd gyngalettet eu kallon ac nat oes na dwfyr na than a allo eu medalhau. ony bei allel o dan yr yspryt glan vynet yn eu callonneu. Eissyoes nyt aa yr yspryt glan y le or y gwypo bot y elyn yndaw. ac am hynny reit yw bot ynlan y lletty y del duw idaw. Ac oachaws y caledi agat yn dy gallon di y dywetpwyt wrthyt dy vot yngaledach no maen. kystal yw hynny a dywedut dy vot yn vwy pechadur noc arall. Pony chlyweist di gynneu chwedyl y gwr a roes y da oe drigweis. aphadelw y dywawt ef

Digitized by Google

wrth y deu da. ar trydyd avu was drwc. yr hynny ual kynt. edrych di a ellych vot yn gyffelyb yr hwnn agymerth y pump besawnt y gynnydu ac y ennill ohonunt. Ef awelir ymi eissyoes ohonaw ef ytti mwy. kanys pwy bynnac a edrychei holl vilwyr y byt hwnn. ny cheffit orod duw ar un ohonunt mwy noc aroeys yti. kanys ef aroeys ytt tegwch a synnwyr y adnabot drwc dros y da. ·Ygyt a hynny ef aroes ytt hyder achedernyt. Ygyt a hynny ef a roes ytt gallon da ehalaeth. kwbyl o hynn oll aechwynawd duw ytt yr bot yn varchawc urdawl idaw ef. Ac ny roes ef ytti hynny oll yr eu colli. namyn yr eu hamylhau. Athitheu a vuost gyndrwc gwas ac y gedeweist ef. ac yr aethyost y wassanaethu y elyn yr hwnn aoed yn ryuelu arnaw. Ef aellir dy gyffelybu di yr ryuelwr drwc yr hwnn aedewis y arglwyd gwedy kael y gyfloc ymlaen llaw. agwedy hynny ef aaeth y ryuelu yn erbyn y arglwyd y gyt ae elyn. velly y gwnaethost ditheu. pan daruu y Iessu grist roi ytti y rodyon tec a roes ytt. titheu aaethost y wassanaethu y kythreul. yr hwnn a oed yn ryuelu arnaw. Ac am hynny y gellir dywedut dy vot ti yn galedach no maen. ac yn vwy dy bechawt noc arall. Arglwyd heb y lawnslot ti adangosseist ymi hynny yn dadigawn. Dangos ym bellach heb ef paham yrwyfi chwerwach no phrenn pwrri. Mi ae managaf ytt yn llawen heb y meudwy. Gynneu mi adywedeis ytt pa delw yd oed galedwch ynot. ac ynlle y bo wedy lloryaw caledwch kymeint ac yssyd ynot ti. ni digawn dyuot odyno chweith melystra. Kanys nyt oes yno onyt chwerwder. A chymeint yw ynot ti o chwerwder uffernawl a drewyant pechodeu. ac adylyei vot ynot o velystra ysprydawl. Ac am hynny yrwyt gynhebic di yr prenn marw drewedic lle nyt oes yndaw chwaith melystra na bywyant. namyn drewyant a chwerwder. llyna gwedy dangos ytti pa delw ydwyt yn galedach nor maen. ac yn chwerwach nor prenn. Ac am y prenn ffigys mi a dywedaf ytt y synnwyr. Yn yr amser yd oed yn arglwyd ni iessu grist ar y daear. ef adoeth y dinas caerussalem duw sul y blodeu ar gevyn assen. Ac yna

Digitized by Google

wynt adoethant yny erbyn gan ganu meibyon efrei. y dyd hwnnw ef a bregethawd iessu grist ynghaerussalem yny lle yd oed pob caledwch wedy llettyu. A gwedy llauuryaw a phregethu ohonaw yn hyt y dyd. ny weles ef ynghwbyl ordref neb a vynnei roi llety idaw. or achaws y gadewis ef y dref. Aphan doeth ef odieithyr y dref ef adoeth dan brenn ffigys deilyawc teckaf or a welsei neb eiryoet. ae gangeu yn llawn deil. dim or ffrwyth eissyoes nyt oed arnaw. Aphan doeth iessu grist attaw ac heb welet dim or ffrwyth arnaw. ef adywawt. emelldigedic heb ef vo y prenn ny dycko ffrwyth arnaw. Ac uelly yd amarchawd duw y prenn hwnnw. Edrych ditheu awyt tebic di yr prenn hwnnw. nac wyt yn wir namyn gwaeth etto. kanys pan doeth iessu grist dan y prenn ef a gawssoedyat deil pei mynnassei eu kymryt. A phan doeth seint greal attat ti ny wyr duw gael un deilyen arnat. kystal yw hynny ac nat oed ynot ti na medwl da nac ewyllys da. na gweithret da. ac am hynny yth alwyt ti ual y dywetpwyt uchot. Yn lle gwir heb y lawnslot. kystal y synhwyryeist di ymi hynny ac y mae ynof pob geir or adywedeist wedy y lettyu. A chanys dywedeist di wrthyfi na wneuthum gymeint etto ac na allwyf gaffael kerennyd duw or mynnaf ymoglyt o hynn allan. Minheu a dyngaf yn gyntaf y duw. ac y titheu wedy hynny. na wnaf i vyth chweith pechawt godineb. Eissyoes. am geissyaw anturyeu a gwneuthur milwryaethyeu. ny allafi beidyaw etto hyt tra vwyf yn kyn iachet ac yr wyf. Pan gigleu y meudwy efo yn dywedut uelly ef avu da ganthaw. ac adywawt. nyt archafi well no hynny heb ef. Ac yna roi penyt arnaw awnaeth ae ollwng. Ac adolwc idaw trigyaw ygyt ac ef y nos honno. A lawnslot a attebawd ac adywawt mae reit oed idaw drigyaw. kanys nyt oed idaw na march nac arveu. Erbyn y bore heb y meudwy mi ae paraf ytt. kanys y mae yma yn agos brawt y mi yn varchawc urdawl aenvyn ym varch ac arueu achwbyl or a vo reit ytt kynn dy vynet odyma. ac yno y trigyawd lawnslot y gyt ar gwr mwyn yr hwnn ae dysgassei

Digitized by Google

drwy amrauael barableu yn gymeint ac yny vu lawnslot yn wir ediueryawc am y vuched a dugassei or blaen. kanys gwydyat pei atuei marw yn y kyflwr hwnnw y collei y eneit. ar corff hevyt agatuyd a vydei drwc y gyweirdeb. Ac yma y mae yr ymdidan yntewi amdanaw ef ac yn traethu ywrth beredur.

XX.—Er ymadrawd yssyd yndywedut pan aeth peredur y wrth lawnslot. ef aymchoelawd drachevyn yny doeth hyt ynty yr anckres. yn y lle yr oed yn tybyeit y kaffei gyfarwydyt ywrth y marchawc adianghyssei y ganthunt. Aphan doeth ef yno ef a drawawd y ffenestyr. Ar anckres yna a agores y ffenestyr idaw. ac a ovynnawd pwy oed. Ac ynteu adywawt mae o llys arthur yr hanoed ac y dathoed. ac ef am gelwir peredur gymro. Aphan gigleu hitheu y henw ef. hi a vu lawen wrthaw. kanys hi ae carei yn vawr. A hi ae dylyei megys kyt bei modryb idaw. Ac yna galw awnaeth hi ar y tylwyth aoedynt y mywn. ac erchi udunt wassanaethu yn diwall arnaw. Ac uelly y gwnaethant wyntheu. A gwedy y diarchenu ef a gwassanaethu arnaw. ef aovynnawd aallei ef gael ymdidan ar anckres y nos honno. Na elly heno heb wynt hyt avory gwedy offeren. Athrannoeth gwedy offeren ef adoeth att yr anckres ac a gyfarchawd gwell idi. ac a dywawt. Arglwydes heb ef a dywedy di y mi yr duw chwedyl am y marchawc aaeth fford yman doe. Ac yna yr anckres a ovynnawd y peredur paham ydoed ef ynyamovyn. O achaws heb ynteu na bydaf hyfryt vyth yny wypwyf pale y bo. ac yny ymladwyf ac ef. kanys ef awnaeth ymi kymeint o gewilyd ac na allaf beidyaw ac ef. Peredur heb hi. A vynny di ymlad ac ef. ac awyt chwannawc di yth lad ual yllas dy vrodyr oc eu hymladeu ae twrneimyeint. A jawn mawr yw yth genedyl di oth ledir ual y llas wynteu. A gwybyd di ynlle gwir ot ymledy di ac efo ty agolly dy eneit. Gwir yw dechreu pererindawt y greal. A mi adebygaf dy vot ti yn un or kedymdeithyon. athi ageffy enryued avo mwy noc adebygy o pheidy ac ymlad ar marchawc. kanys ni awdam yny wlat yma ac ynggwledyd ereill y byd reit y orffen

Digitized by Google

pererindawt y greal tri marchawc urdawl gwerthuawr. y rei a geiff y glot odieithyr pawb. ar deu avyd marchogyon gwyry. heb wneuthur pechawt godineb oe kyrff eiryoet nae vedylyaw. Y trydyd avyd diweir. kystal yw hynny ac na bu idaw wreic eiryoet onyt unweith. Ar weith honno y kaffat arnaw som a phrofedigaeth. Ac ny byd vyth idaw mwy. Ac am hynny y gelwir ef yndiweir. Ac un or deu wyry yw y marchawc yr wyt ti yn y geissyaw. A thitheu vyd yr eil. ar trydyd yw bwrt. drwy y tri hynny y byd gorffennedic y keis. A chanys ordinhaawd duw y tri hynny yn wanedic. Ymwagel ditheu rac ymlad ac efo. kanys ot ymledy di ac efo ydwyt dy hun yn mynnu dy golli. kanys heb petruster goreu marchawc urdawl yw ef or holl vyt. Arglwydes heb ef. ef a welir ymi yn herwyd dy ymadrawd di gwdost ti pa un wyfi. Gwn rofi a duw heb hi ami a dylyaf y wybot. kanys dy vodryb di wyfi. am nei inheu wyt titheu. ac na symlet arnat ti vynggwelet i mywn abit kynndrwc a hwnn. A gwybyd di yn lle gwir mae myvi yw yr honn aelwit yn vrenhines ar y tir atueilyedic awely di. a thi am gweleist i gynt yn un or gwraged kyuoethockaf or byt. yr hynny ual kynt ny rangawd bod ymi bot yn gyvoethawc yn gystal ar vuched honn. Pan gigleu peredur panyw y vodryb ef aoed yno. hoff vu ganthaw. Ac adolwyn idi yr duw dywedut idaw paun oed y marchawc yr oed yn y geissyaw. Arglwyd heb hi y marchawc aweleist ti yw y marchawc adoeth y lys arthur ar arueu cochyon ymdanaw. Ami adywedaf ytt beth aarwydockaa y dyuotyat ef. Ti awdost ynda panyw iessu grist awnaeth yn gyntaf un aelwit y vort. kystal yw hynny yngkymraec a bwrd y bwyteir arnaw. Agwedy hynny ef awnaethpwyt dwy vort. yr honn awnaeth iessu grist. ar honno y bwyttaawd iessu grist ae disgyblon. honno oed y vort aoed ynporthi y corff ar eneit or ymborth nefawl. Ar y vort honno yr eistedynt y kedymdeithyon aoedynt yn llywyaw y corff wrth ewyllys yr eneit. Ac oe hachaws wyntwy y dywawt dauyd proffwyt. llyna vyt ratlawn yw yr hwnn y daw y brodyr ac y bydant un

Digitized by Google

vedwl ac un weithret. Ac yr proffwydolyaeth amdisgyblon crist y dywawt ef hynny. y rei a eistedassant ar y vort. y rwng y rei hynny y bu hedwch ac amnyned a phob gweithret da. Gwedy gwneuthur y vort. ef awnaethpwyt un arall yr kyffelybrwyd idi hitheu. Nyt amgen nor vort y roet seint greal arnei. yr honn y bu lawer o ryuedawt agwyrtheu oe hachaws. Kanys pandoeth iosep o arimathia. a Iosep y vab ygyt ac ef y vrytaen vawr. ef adoeth y gyt ac wynt ynghylch pedeir mil o bobyl. Ac ef a vu ofyn arnunt. na cheffynt vwyt ar werth rac meint eu niuer. Ar dyd hwnnw wynt agerdassant drwy fforest. Athrannoeth ef agyvaruu ac wynt gwreic a dec torth genthi yndyuot o bopty. Ac wynteu abrynassant y bara genthi. Agwedy hynny ef agyvodes keintyach y ryngthunt yn rannu y bara. kanys yr hynn a vynnei hwnn nys mynnei y llall. Ac uelly ymryson awnaethyant yny doeth kennat adywedut hynny y iosep uab Iosep oarimathia yr hwn aoed esgob a meistyr arnadunt. Agwedy clybot ohonaw ef hynny. ef ayrrawd yn ol y neb aeprynassei. Agwedy dyuot hwnnw attaw. ef a gymmerth y bara attaw ef ehun. ac adalawd y werth yr neb ae prynassei. ac yna ef aerchis y bawp vynet y eisted yngyffredin. a gossot bort yn eu plith. Ac ar benn y vort y roet seint greal. Ac yna Iosep avendigawd y bara ac ae torres. ac ae roes y bawp or niuer. Agwybyd di yn lle gwir na bu dyn heb gael amylder or adamunei. Ar y vort honno ynteu yd oed eistedua. yny lle yr eistedei Iosep uab Iosep. honno awnaeth iessu grist ehun ac ae kyssegrawd. ac a ordinaawd Iosep y bryderu am y gristonogaeth. Ac yn yr eistedua honno Iessu grist ae gossodes ef y eisted. Ac am hynny ny bu neb alyuassei eisted yndi gwedy ef. Ar eistedua honno awnaethpwyt ar gyffelybrwyd yr eistedua yr eistedawd Iessu grist yndi divieu cablut ae disgyblon y gyt ac ef. A gwedy dyuot y bobyl aglywy di acherdet drwy y wlat ruthur uawr. ef adamchweinyawd y deu vroder o genedyl Iosep daly kenvigen wrthaw am wneuthur o duw yrdaw gymeint ae dewis yn bennaf arnadunt wy. Ac yna ymdidan

Digitized by Google

aorugant yn gyfrinachus. adywedut nas diodevynt wy efo yn veistyr arnadunt. ac nas galwynt uelly ef ohynny allan. kanys kystal oed eu kenedyl wyntwy ac ynteu. Athrannoeth y bore wynt adoethant y wastattir uchel. Ac yno pan vu amser bwyt ef aossodet bort y ryngthunt. a Iosep aaeth y eisted oe eistedua ehun. Ac yna y deu vroder adywetpwyt uchot ae gwaravunawd idaw. ac ae gyrrassant ohonei. ac un onadunt aeistedawd yndi. Ac yna duw adangosses gwyrtheu tec. kanys yr awr yr eistedawd. ef adoeth y daear ac ae llyngkawd. Ar chwedyl hwnnw awybuwyt ympob lle. ac y roet yn henw ar yr eistedua honno ohynny allan yr eistedua beriglus. kanys ny lyuassei neb eisted yndi onyt y neb y rodassei duw gennat idaw. Ac ar ol y vort honno ef awnaethpwyt y vort gronn yn oes uthur benndragon. a hynny drwy gynghor myrdin. ac ny elwit yr un yn vort gronn namyn honno ehun. kanys pan elwit hi yn vort gronn yr ydys yn deall drwydi y bot yn gyngrynnet ar holl vyt. or achaws y gellir y chyffelybu hi yr byt. kanys o bop gwlat or y bai vilwryaeth yndi nac yngkret nac ynangkret yr oedynt yn dyuot yr vort gronn y lys arthur. Aphan rodei duw ras y·un y gaffael bot yn un o gedymdeithyon y vort gron. ef a vydei gynhoffet ganthaw aphei ennillei yr holl vyt. ac yr bot yn un onadunt. yr hardet uei. ef aadawei y vam ae dat ae dir ae daear ae wlat. athydi awdost hynny kanys nyt ymadeweist a hi. yr a gaffut o enryded arall eiryoet. Agwedy daruot y vyrdin. ordinaw y vort gronn. ef adywawt y dechreuit pererindawt y greal. O gedymdeithyon y vort gronn ac y gorffennit. Ac yna y govynnwyt idaw paham y gwydyat ef pwy ae gorffennei. ac ynteu adywawt mae tri o honunt ae gorffennei. ar deu a vydynt wyry oc eu kyrff. ar trydyd avydei diweir. ac un or tri aragorei rac y lleill. megys y mae ragor y llew rac y llewpart. a hwnnw a vyd meistyr ar gwbyl or keis. Eissyoes ef aa holl gedymdeithyon y vort gronn y geissyaw y greal yny del y marchawc hwnnw yn eu plith. Ac yna ef adywetpwyt wrth vyrdin kanys gwdost di heb wy y daw yma gwr kystal

Digitized by Google

a hwnnw. paham nawney ditheu idaw efo eistedua briawt. lle nyt eistedo neb onyt efo ehun. Mi ae gwnaf heb y myrdin. Ac ef awnaeth eistedua uawrdec. Agwedy daruot idaw y gwneuthur ef aroes gussan idi ogaryat ar y marchawc adylyei eisted yndi. Ac yna ef aovynnwyt y vyrdin. beth adaruydei yr neb aeistedei yndi. Yn wir heb ynteu pwy bynnac aeisted yndi ef aderuyd idaw un or deu. ae y varw yn y lle. ae ynteu y anauu. yny del yr hwnn bieu eisted yndi. myn duw heb y rei aoedynt yny lle pwy bynnac aeistedei yndi ef aymroei ymywn perigl mawr.

XXI.—Gwir adywedwch chwi heb y myrdin. ac o achaws y perigyl yssyd arnei. minneu adodaf yn henw arnei hi yr eistedua beriglus o hynn allan. ac weldyna ytti heb yr anckres wrth beredur pa ystyr y gwnaethpwyt y vort gronn. aphaham y gwnaethpwyt yr eistedua beriglus ynyrhonn y collet llawer gwrda. Ami adywedaf ytt paham y doeth y marchawc yr neuad ac arueu cochyon ymdanaw. Ti aglyweist vot Iessu Grist ymysc y disgyblon yn veistyr arnadunt ar y vort divieu cablut. Ac yngyffelybrwyd y hynny bot Iosep yn veistyr ar vort seint greal. Abot y marchawc hwnn ynteu yn veistyr ar y vort gronn. ac ef aedewis iessu grist kynn diodef o honaw y deuei gwedi divieu y ymwelet ac wynt. a gwedy diodef ohonaw wynteu a vuant yn aros y dyvodyat ef yn drist ac yn aflawen. A gwedy hynny ynteu a doeth attunt wy yn vynych. ac mal yr oedynt wy duw sulgwynn y mywn ty gwedy caeu y drysseu arnadunt. ef adoeth yr yspryt glan attunt yn ffuryf tan oc eu didanu ac oe kadarnhau yn y ffyd. Ac yna ef aerchis y bawp onadunt ymwahanu y wrth y gilyd. a mynet y bregethu yr euengyl y bop lle. Ac uelly y damchweinyawd yny dyd hwnnw yr disgyblon. Yny mod hwnnw ar gyffelybrwyd ynteu y gwelir y mi ry dyuot y marchawc yssyd yn veistyr arnawch chwi ywch didanu. ac ywch cadarnhau. Kanys megys y doeth yr arglwyd att y disgyblon yn ffuryf tan. velly y doeth y marchawc attawch chwitheu yn arueu cochyon. yr hwnn a ellir y gyffelybu yr tan. A megys y doeth iessu

Digitized by Google

grist att y disgyblon ar drysseu yn gaeat arnunt. velly y doeth y marchawc attoch chwitheu yr neuad oed wedyr gaeu heb wybot o neb. pafford y dathoed y mywn. ar dyd hwnnw ehun y kymerassawch chwitheu arnawch vynet y geissyaw y greal. yr hwnn ny orffowyssir vyth yny geissyaw yny wyper gwirioned am danaw. allyna vi gwedy dywedut ytti wirioned am y marchawc. or achaws na dylyy di ymlad ac ef. kanys pennach yw no thi. o achaws y ethol o duw. dy gar agos yw. ath vrawt dwyweith. un o achaws y vot yn un o gedymdeithyon y vort gronn. ar llall am y vot yn gedymdeith ac yn bennaf or keis. Arglwydes heb y peredur ti adywedeist gymeint ac na chwennychafi vyth ymlad ac ef. Ac yr duw dywet ym pale y tebygy di ymi gael ymdidan ac ef. kanys pei ymgaffwn ac ef unweith. nyt ymadawn vyth ac ef. Iawn a wnaut heb hi. dos ditheu ragot parth a chastell goth. ac yno y tebygafi y vot ef neithywyr gyt ae gevynderw. ac yno ti ageffy chwedyl y wrthaw. Ac uelly y bu beredur yn ymdidan ae votryb yny vu agos y hanner dyd. Ac yna yr anckres adywawt. Arglwyd nei heb hi tric yma heno bellach ygyt ami. kanys talym yssyd yr pan vuam ygyt. Arglwydes heb ef ny chaffafi heb lesteir arnaf drigiaw. Ac hynny heb ef gan dy gennyat ti mi aaf ragof. Dim or gennyat heb hi nys keffy di. Gan hynny heb ynteu minheu adrigyaf. Ac yna diosc y arueu aoruc. adyrchafel byrdeu awnaethpwyt amynet y vwyta. Agwedy bwyt ef aymdidanawd yr anckres ac ef ac aerchis idaw gynnal y gorff yn gynlanet o bop pechawt godineb o hynny allan ac yr oed yna. kanys or kwympy di heb hi yny pechawt hwnnw neur ballawd arnat gael gwelet seint greal. megys lawnslot yr hwnn a ymdigrifhawd yny pechawt hwnnw. Duw a rodo gras ym heb y peredur y ymoglyt racdaw. Yn hyt y dyd hwnnw y trigyawd peredur yno. a gwedy daruot udunt ymdidan am yr hynn adywetpwyt uchot. peredur aovynnawd oe vodryb pa antur ae dugassei hi yno. aphaham y gadawssei y thir ae daear. yn wir heb hi rac ovyn angheu y ffoeis i yma. kanys ti awdost pan aethost di y lys arthur

Digitized by Google

yr oed ar varglwyd i ryuel gan vrenhin laban. Agwedy marw vynggwr i megys nat ryued bot ovyn ar wreic. rac ovyn vyndaly i agwedy hynny vyngkewilydyaw mi agymereis beth om da am trysor. ac adeuthum yr ynyalwch yman rac ovyn vyngkael. ac abereis wneuthur ty ym yman ual y gwely di. ac a adugum ygyt ami vy offeiryat a hynn o dylwyth vy llys. Agwedy hynny mi agymereis yr abit hwnn ymdanaw. Ac ual y gwely di bellach ymae ym bryt i dwyn vymuched hyt tra vwyf vyw. Ys ryued aantur yw hwnn heb y peredur. a pheth adaruu yth vab ditheu. Myn vyngret heb hi efe aaeth y wassanaethu brenhin peles. Agwedy hynny ef awnaethpwyt yn varchawc urdawl. a mi agiglef y vot ef yn hely twrneimyeint ar hyt bryttaen. nysgwnn inheu wrth nasgweleis i ef yr ysdwy vlyned. y nos honno y trigyawd peredur yno ygyt ae vodryb.

XXII.—A thrannoeth pan daruu y beredur gwarandaw offeren ef awisgawd y arueu ac agerdawd racdaw. A marchogaeth aoruc heb gael neb ryw chwedyl nac ei enryued yn hyt y dyd. Ac yndiwed y dyd ef aglywei gloch yn canu. a pharth ac yno y trosses ef. o debygu bot yno ryw le crevydus. A phan doeth ef yno ef awelei adeil tec cadarn o vuryeu a ffossyd achlodyeu ynghylch y lle hwnnw. Ac yr porth y doeth ef ac erchi agori. Agwedy y ollwng ymywn ef a vuwyt lawen wrthaw. ac agymerwyt y uarch oe ystablu. Ac ae duc un or myneych ynteu oe diarchenu y ystauell dec. Ac esmwyth vu idaw yno y nos honno. Athrannoeth ny medrawd ef gyfodi yny oed brim. Ac yna ef aaeth yr eglwys y warandaw offeren. ac ef agyfarvu ac ef un or myneych ac ef yn mynet y ganu offeren y allawr aoed ar y tu deheu yr eglwys. Ac ynghylch yr allawr yr oed kell wedyr wneuthur o rwylleu heyrn wedyr ossot groes yngroes. a drws bychan arnei y vynet ymywn. athu ac yno y doeth ef megys y mynnei warandaw offeren. A cheissyaw mynet ymywn. a hynny nysgallei. Aphan weles ynteu hynny ef aostyngawd ar dal y linyeu or tu vaes yr drws. ac ef aedrychawd ymywn drwy y rwylleu. ac yno ef awelei wely tec gwedy y

Digitized by Google

adurnaw o dapineu a sidan eureit. a hynny oll yn wynn onyt yr eur. Ac ef asynnyawd peredur ar y gwely yngyngraffet ac y gwydyat vot yndaw yneill ae gwr ae gwreic. Aphan vu amser yr offeiryat gyvodi yr aberth. ef agyvodes y neb aoed yny gwely yn y eisted. Ac ef aadnabu peredur panyw gwr prud oed. a choron o eur am y benn. ac yr oed wedy ymdinoethu hyt y vogel. Ac yna ef aweles peredur uot y dwylaw ae dwy ysgwyd ae gorff yn llawn o greitheu. Aphan weles ef yr aberth ef adyrchafawd y gwr prud y dwylaw. ac adywawt vyntat i or nef heb ef nac ysgaelussa vi am vy reit. Ac yny mod hwnnw y trigiawd ef yn hir wedy yr aberth yngwediaw duw ae greawdyr. Ac yno yn hir y bu peredur yn edrych ar y gwr. ac yn ryued ganthaw y damwein hwnnw. Kanys ef adebygei vot y gwr o oetran yn bedeirblwyd achant. Aphan daruu yr offeren ef awelei y offeiryat ynkymryt y corpus. ac yny dwyn yr gwr aoed yny gwely. Ac yr awr y daruu yr gwr gymryt corff y arglwyd ef awelei yr offeiryat yn kymryt y goron y am benn y gwr ac yny roi ar yr allawr. Ac odyna yngellwng y gwr y orwed. ac yn kyweiryaw yn y gylch. Ac yna yr offeiryat adiosges y wisc y amdanaw. Peredur ynteu yna adoeth hyt y letty yn y lle y buassei yn kysgu y nos gynt. ac aalwawd attaw un or myneych ac aerchis idaw menegi pa un oed y gwr awelsei ef yn yr eglwys yn kymryt corff y arglwyd agwedy hynny yn gorwed drachevyn. ac ef awelir vot yn hynny ryuedawt mawr. ac yr duw dywet titheu ymi beth yw hynny. Yn llawen heb y manach mi ae dywedaf ytt. Ti aglyweist heb ef mae drwy orchymyn duw y doeth Iosep o arimathia yr wlat honn y adeilyat cristonogaeth yndi. Agwedy y dyuot ef agafas yma lawer o ovit ablinder gan idewon aoedynt yny wlat honn yr amser hwnnw. Ac yn yr amser hwnnw yr yttoed yngwledychu yn yr ynys honn brenhin creulawn heb drugared yndo yr hwnn aelwit coel. Aphan gigleu ef dyuot cristonogyon yr wlat. Ac y gyt ac wynt yd oed llestyr mawrweirthyawc o wyrtheu. or hwnn yd oed bawp onadunt ynkael y ymborth. Ef

Digitized by Google

agymerth hynny yn lle chwedyl. ac adywawt y mynnei wybot beth oed hynny yn ehegyr. Ac yna ef aluydawd ac adoeth yn eu herbyn. Ac arhynt ef a delis Iosep a Iosep y vab. ae deu nei. achant o rei ereill. ac ae roes yngkarchar. Eissyoes yd oed y gyt ac wynt eu santeid lestyr. o achaws yr hwnn nyt oed arnadunt un ovyn na cheffynt digawn o vagyat eu kyrff. Ac velly y kynhalyawd y brenhin wynt yngkarchar deugein niwarnawt heb anuon dim or bwyt udunt. agwahawd awnaeth y bawp na bei neb mor ehovyn aroi bwyt udunt. ac o vywn yr amser hwnnw ef aaeth y chwedyl hwnnw y bop lle y dywedut daruot yr brenhin creulawn o vrytaen carcharu Iosep. kanys yn yr amser hwnnw nyt oed neb y dywedit am danaw gymeint ac am Iosep ae vab. Ar chwedyl hwnnw aaeth yn gynbellet ac yny wybu moradrins brenhin sarras hynny. yr hwnn adathoed y gret drwy dysgedigaeth iosep. Aphan gigleu ef hynny drwc vu ganthaw. ac yna ef aberis lluydaw y gyuoeth. Aphan vu barawt pob peth ganthunt wynt aaethant yr llongheu. ac ny orffowyssassant wy yny doethant yr ynys honn. Agwedy eu dyuot yr tir agwisgaw eu harueu. wynt aanuonassant gennadeu y erchi yr brenhin ollwng Iosep ae gedymdeithyon or carchar neu wynteu adiveynt y wlat. Ac ny bu uawr gan goel dim oe vwgwth ef namyn ymbaratoi yny erbyn. ac ymgymysgu awnaeth y deulu arhynt. Athrwy ras duw ef adrosses y vudugolyaeth y voradrins drwy lad y brenhin creulawn. ae dylwyth. Brenhin moradrins ynteu yr hwnn a elwit tra vu yn Idew eualac awnaeth kymeint o aruaeth a digonyant y dyd hwnnw ac yd oed ryued gan bawp edylwyth y barhau. Aphan diosget y arueu y amdanaw ef a gaffat yndaw o dyrnodeu abratheu ual y bei varw arall pei as caffei. Ac yna ef aovynnwyt idaw padelw yd ymglywei. Ac ynteu a dywawt na chlywei arnaw chweith dolur. Ac yna drwy lewenyd y tynnawd ef Iosep or karchar. Ac yna Iosep aovynnawd idaw pa ryw beth awnathoed idaw dyuot yr wlat honno. Ac ynteu adywawt mae oe rydhau ef y dathoed. Trannoeth y bore ef awisg-

Digitized by Google

awd Iosep ymdanaw y esgobwisc erbyn canu offeren geyr bronn seint greal. Ac yna moradrins vrenhin yr hwnn aoed chwannawc y welet y greal yn amlwc anessaawd yn nes noc y dylyei.

XXIII.—Ac yna ef aglywei lef yn dywedut wrthaw. Tydi vrenhin na dos a vo nes kannys dylyy. Ac yna ef aaeth yn gynbellet ac na allei dauot marwawl or byt venegi aweles ef. na challon daearawl y vedylyaw. a chynchwannocket vu ef y welet yr hynn aweles ac y denessawd nesnes. ac ar hynny ef adisgynnawd ryw wybren geyr y vronn. yr honn a duc lleuuer y lygeit y ganthaw a gallu y gorff. ual na allei neb ryw ymgymmorth ac ef ehun o achaws torri y gorchymyn. Aphan weles ynteu bot y arglwyd yn dial arnaw torri y orchymyn. ef adywawt ual y clywei y bobyl. Arglwyd iessu grist heb ef y gwir duw yr hwnn adangosses ymi yny pwnc hwnn mae ffolineb mawr yw torri dy orchymyn di. A megys y mae hoff gennyf hynn o benyt arnaf dros vy ymdraveu am hymladeu eiryoet. yd wyf inheu yn adolwc y titheu yn dal ym dros awneuthum o da. na bwyf varw yny welwyf y marchawc bieu gorffen anturyeu seint greal. ac ae gwelo yn eglurach noc y gweleis i. Agwedy daruot idaw adolwyn hynny y duw. ef aglywei lef yn atteb idaw val hynn. Na vit arnat un ovyn kanys dy arglwyd awarandewis dy wedi. ac ny bydy varw di yny del y marchawc hwnnw y ymwelet athi. Yna y rodir ytt leuver dy lygeit. yna yr iacha y dyrnodeu yssyd arnat. ac uelly yr ymdidanawd y llef ac ef. Ac ef awelir ymi vot yn wir adywawt y llef. Kanys yr hynny hyt hediw ymae pedeir blyned a chant. Ar gwr aweleist di yn y gwely hediw ydiw ef. Ac ny weles ef etto dim or byt. nae welioed nyt ynt iach etto. ani a glywssam uot y marchawc hwnnw yny wlat honn. Ac uelly y daruu y vrenhin moradrins. y gyt a hynny y mae yn gann mlyned yr pan aeth yny benn ef neb ryw vwyt daearawl. namyn corff y arglwyd ual y gweleist di hediw yr offeiryat ar ol yr offeren yny roi idaw. ac uelly y mae ef yr pan vu Iosep hyt yr awr honn. yngyffelyb ac y daruu y seint simeon wirion gynt yr

Digitized by Google

hwnn awnaeth y wedi na bei varw vyth yny welei iessu grist. Ac ynteu agafas gan duw atteb na bydei. ac uelly ydarhoes simeon hevyt. yny doethpwyt ae brynyawdyr attaw yr demyl. Ac ynteu ae kymerth y rwng y dwylaw yn llawen orawenus. Ac uelly y tebygwn ninneu vot y gwr hwnn yn kaffael y wedi. ac yn aros dyuodyat galaath varchawc. Allyna vi gwedy dywedut ytti y wirioned am aovynneist. dywet titheu y minheu pa un wyt ti. Ac yna ynteu adywawt mae o lys arthur yd hanoed apheredur gymro ymgelwir. Aphan gigleu y gwr hynny ef a vu lawen. kanys ef aglywssei yn vynych ymdidan amdanaw. ac aadolygawd idaw yr duw drigyaw ygyt ac wynt y dyd hwnnw. Ac ynteu adywawt na chaffei ef drigyaw rac meint oed idaw oe wneuthur. ac ar hynny kymryt y gennat a mynet ymeith. amarchogaeth racdaw yny vu hanner dyd. Ac yna ef ae duc y fford ef drwy y glynn teckaf or byt. ac yno ef agyfaruu ac ef ugeinwyr yn aruawc. a gwr newydlad y mywn elor ganthunt. ac wynt aovynnassant y beredur pa un oed ef. Ac ynteu adywawt mae o lys arthur y dathoed. Ac yna wynteu ygyt agriassant arnaw. Aphan gigleu ynteu hynny ef a ymbarottoes yn eu herbyn. oe amdiffyn. Ac aerbynnyawd y kyntaf. ac ae trewis yny vyd dan draet y varch. ar march ar y warthaf ynteu. y lleill oll adoethant am y benn ac aladassant y varch y danaw. Ac ynteu yna agyvodes yn gyflym ac adynnawd y gledyf. eissyoes yn erbyn y sawl aoed yno nyt oed well idaw hynny no pheidyaw. kanys neurdaroed udunt ymauael ac ef ae vwrw yr llawr. a diosc y helym. ae yssigaw yn drwc yn llawer lle. Ac wynt ae lladyssynt panyw bei dyuot ar y traws hwnnw y marchawc urdawl yn yr arueu cochyon oe diffryt.

XXIV.—Aphan weles ef y marchawc ymplith y elynyon ymywn perigyl kymeint ac yr oed. ef adoeth attunt ac aerchis udunt adaw y marchawc. Ac yna ef adrewis un onadunt yny vyd yn varw yr llawr. ac yny dorres y baladyr. agwedy hynny ef adynnawd y gledyf. athrwy vrathu march y vyny ac y waeret ef agurawd pawb yn

Digitized by Google

y gylch. hyt nat oed neb or y kaffei ef dyrnawt arnaw nyt elei y lawr. Ac wynteu pan y gwelsant ef yn taraw mor greulawn a hynny. nyt arhoyssant arnunt dim namyn ffo a gwasgaru ar hyt y fforest heb ymchoelut yr un drachevyn. namyn y tri a daroed y beredur eu bwrw yr llawr. ar deu ereill avwryassei galaath. Ac yna galaath rac y adnabot adrosses penn y varch drachevyn parth ar lle tewhaf y gwelei y fforest. Aphan y gweles peredur efo yn mynet ymeith uelly. ef adechreuawd lleuein yn y ol. ac aerchis idaw yr duw aros yny gaffei ymdidan ac ef. Ac ynteu nyt attebawd idaw. Apheredur ynteu nyt oed idaw dim or march ar y draet aaeth yny ol gynt ac y gallawd. Ac yna ef agyfaruu ac ef gwreang ar gevyn hacknei. ac a march arueu teckaf or awelsei dyn eiryoet yn y law. Aphan y gweles peredur ef ny wydyat beth awnaei. kanys oe anuod ny mynnei ef gael y march. Ac yna kyvarch gwell yr gwas aoruc ef. ar gwas ae hattebawd ynteu. A unbenn heb y peredur mi avydwn varchawc urdawl ytt a gwas. ac a dalwn y bwyth ytt pan y gallwn. yr benthygyo ym y march yny odiwedwn y marchawc urdawl a wely di yn mynet racko. Nys gallaf heb y gwas o nebryw fford. kanys y neb pieu y march am lladei I. onysdygwn idaw. Och heb y peredur. yr duw gwna yr hynn yr wyf yn y erchi ytt. Kanys mynduw ny bum kyndristet eyrmoet. ac or collaf y marchawc racko o eissyeu march. mynduw heb y gwas onys dygy di y dreis ny cheffy di varch gennyfi. Pan gigleu ynteu hynny ny wydyat beth awnaei odristit. mileindra ny mynnei ynteu y wneuthur ar gwas. Ac yna diosc y helym y am y benn a chymryt y gledyf yn y law. ac erchi yr gwas yr duw lad y benn. kanys myn vyngkyffes heb ef gwell yw gennyf vy marw nom byw wedy collwyf y marchawc racko. Mynduw heb y gwas os da gan duw ny ladafi dy benn di. nar march ny lyuassafinneu y roi y ti. Ac yna yd aeth ef ymeith. Apheredur adrigiawd yno yn drist ovalus ual y tebygei y varw yn y lle. Aphan yttoed ef yn ymdoluryaw velly ef aglywei drwst march. ac yna agori y lygeit aoruc

Digitized by Google

ac arganuot marchawc urdawl yn dyuot ar hyt y fford y dathoed y gwas idi. ar march y buassei ef yn y geissyaw gan y gwas y danaw. Ac ef aadnabu beredur y march ac eissyoes nyt yttoed ef yn tybyeit mae o dreis y dugassei y marchawc ef. Ac ympenn talym wedy hynny nachaf y gwas yn dyuot y dan udaw a gweidi. Aphan weles ef beredur ef aovynnawd idaw awelsei y marchawc yn mynet heibyaw. Gweleis heb y peredur. Aphaham ydwyt ti yny ovyn ef. Arglwyd heb ynteu ef a duc y march y gennyf y dreis. ac neur daruu idaw vy llygru kanys vy arglwyd am llad pa le bynnac ym kaffo. Beth a vynny di ymi wrth hynny heb y peredur. ny allafi y beri ef ytti. Arglwyd heb ynteu dos di ar gevyn yr hacknei hwnn ac or gelly di ennill y march arnaw ef bit teu dy hun. Pa delw heb y peredur y keffy di dy varch os y llall a ennillafi. Arglwyd heb ynteu mi adeuaf yth ol di ar vyntraet. Ac yna peredur awisgawd y helym ac aesgynnawd ar gevyn yr hacknei. ac a drawawd yny ol o nerth traet y march. A gwedy gadaw y fforest ef adoeth y weirglodyeu tec. Ac yna ef aarganuu y marchawc yn kerded yn amdrwsgyl. A pheredur a griawd arnaw ac aerchis idaw roi y varch yr gwas drachevyn. a dugassei y dreis arnaw.

XXV.—A phan gigleu y marchawc hynny ef a ymchoelyawd att beredur dan ostwng gwaew idaw. Apheredur ynteu adynnawd y gledyf kanys nyt oed ganthaw aryf amgen. Ac yna y marchawc yr hwnn aoed chwannawc y ymrydhau y ganthunt adoeth ac adrewis yr hacknei yny dwyvronn yny vyd yn varw yr llawr. ac yr awr y daruu idaw hynny. ef a ymchoelawd oe fford drachevyn. Pan weles peredur y damwein yn mynet uelly. ef a vu gyndristet ac na wydyat beth a dywedei. Agwedy hynny ef a dywawt wrth y marchawc aoed yn mynet ymeith. A ffaelyedic o gallon. kachyat o gorff. ymchoel drachevyn y ymlad ami ar draet. Ar marchawc aaeth yr fforest heb vynnu dim y wrthaw ef mwy. Aphan weles ynteu hynny ymovidiaw awnaeth ae alw ehun yn druan kanys ffaelassei ar

Digitized by Google

y damunet. Ac uelly y bu ef yn hyt y dyd heb welet neb yn y byt or awnelei idaw chweith didanwch. Agwedy dyuot nos arnaw yr yttoed yn gyn vlinet ac na allei dim. yna ef adisgynnawd kysgu arnaw. ac ny deffroes ef yny vu hanner nos. Aphan deffroes ef awelei geyr y vronn gwreic dec. yr honn adywawt wrthaw yn dechrynedic. peredur heb hi. beth a wney di ymma. Nyt yttwyf i heb ynteu yn gwneuthur yma na drwc na da. eissyoes peituei ymi varch. ny bydwn i yma haeach o enkyt. Pei rout ti dy gret ymi heb hi ar wneuthur yr hynn aarchwn i ytti pan yth rybudywn. mi a barwn ytt yr awr honn varch da athygei di y bop lle or y mynnut. Pan gigleu ynteu hynny kynlawenet vu ac nat ymlycaawd a phwy yr oed yn ymdidan. kanys yd oed yn tebygu y vot yn ymdidan agwreic. Ac eissyoes y kythreul yttoed ef yn keissyaw som arnaw. a chyfyrgolledigaeth ar y eneit. Ac yna peredur agynnigyawd bot yn barawt y wneuthur yr hynn a vynnei hi pan y rybudyei. a hitheu a gymmerth y gret ef ar hynny. a hi adywawt yna arho di vyvi yma ychydic. ac yna yr fforest y kyrchawd hi. Ac ny bu hir y bu hi yno heb dyuot a march tec kyn duet ar mwyar. ac ef a vu aruthur gan beredur edrych arnaw. yr hynny ual kynt ef a vu gyn hyet a mynet arnaw. ac a gymerth y daryan. a hitheu a dywawt wrthaw ef. Peredur heb hi ydwyt ti yn mynet. ac am hynny medylya am dalu ym y pwyth ual yd edeweist. mi awnaf yn llawen heb ef. Eglur a goleu oed y lleuat. ar march ae duc ef yn enkyt bychan or fforest yr honn aoed yndi mwy noc ymdeith deudiwarnawt ohyt. Ac yna ef adoeth drwy glynn mawr. ac adaw hwnnw hevyt awnaeth ef yn ennyt bychan. A gwedy hynny ef adoeth y avon vawr aruthur. Ar march heb ohir a vynnassei vynet yr auon pan y llesteiryawd ef. ac am na weles na phont na fford y gallei vynet trwydi. ef avedylyawd ollwng y march y novyaw drwydi. Ac yna ef adyrchafawd y law ac a ymgroesses. Aphan gigleu y peth budyr arwyd y groc arnaw. rac y drymhet ef a syrthyawd. ac megys yn ymgreinyaw ef a edewis peredur ar y tir. Ac ynteu

Digitized by Google

adrewis y dwy vronn yn y dwfyr dan lefein ac udaw. Ac yr awr yd aeth ef yr avon ef a welei beredur yr avon yn llosgi yn unfflam. Pan weles peredur yrantur hwnnw ef awybu mae y kythreul aoed yn keissyaw y sommi. Yna ef a ymgroesses ac aerchis y duw y gadw rac syrthaw mywn profedigaetheu y bei idaw gyfyrgolledigaeth oe eneit nacholli kedymdeithyas etholedigyon nef oc eu hachaws. Ac yn wir ytti pany bei ymgroessi ohonaw ef. ef ae dugassei y gwas drwc ef yr dwfyr yn y lle y collassei y eneit ae gorff. Ac yna dyuot y wrth y dwfyr aoruc ef. a gostwng ar benn y linyeu. a gwediaw duw. Ac uelly mywn gwedieu y bu ef yny vu dyd eglur. Ac yna peredur a gyuodes y uyny y edrych pa vyt yd oed yndaw. kanys yr oed ef yn tybyeit yr gwas drwc ydwyn ympell. Ac ef aweles y vot y mywn creicvynyd uchel uch benn y mor. ar mor o bop parth idaw. ac ny welei yn yr ynys honno neb ryw gyuanned. ac yr hynny nyt yttoed ef ehun. canys ef awelei lawer o eirth a llewot a seirff. a dreigyeu tanllyt. Ac velly nyt oed esmwyth ganthaw y gyflwr pan weles hynny. kanys ef awydyat nas gedynt wy efo yn hedwch. Eissyoes y gwr agadwawd Ionas ym moly y moruarch. ac a iachaawd daniel yn ffos y seith llew. a vu wir daryan idaw ef. ac ae hamdiffynnawd. Aphan yttoed ef uelly ef awelei sarff yn kyrchu yr greic attaw. a llew bychan ympenn y sarff. ac yny hol hitheu ef awelei llew cryf kadarn yn dyuot. ar lleuein ar govit mwyaf ganthaw am y llew bychan. Sef awnaeth peredur yna kerdet yn eu hol. aphan doeth ef attunt wy yd oed y llew ar sarff yn ymlad. Ac yna ef avedylyawd yr ai ef y gymhorth y llew athynnu y gledyf aoruc ef. agossot y daryan oe vlaen. aroi dyrnodeu trymyon idi ynghylch y penn ar clusteu. A hitheu yn taflu y tan oe safyn ac oe ffroeneu yn gymeint ac yny losges y daryan ae luryc or tu racdaw oll. Aphan weles ynteu hynny ny bu hoff na da ganthaw rac ofyn kyhwrd y tan ar gwenwyn ae gorff. Ac yna ef a vynnawd duw idaw taraw y sarff yny lle y trawssei kynno hynny ymperued y phenn yny syrth yn varw yr llawr. Pan weles y llew y

Digitized by Google

vot gwedy ymrydhau y wrth y sarff. ef aredawd att peredur ac nyt ymladawd ac ef y chweith. namyn cussanu y draet. A gwneuthur y llewenyd mwyhaf agallawd parth ac attaw. Pan weles peredur nat oed ymryt y llew wneuthur idaw dim drwc. yna ef aroes y gledyf yn y wein. ac a vwryawd y daryan y wrthaw yn llosgedic ac adynnawd y helym y am y benn y gymryt gwynt rac meint o wres agawssoed y wrth y pryf. Ar llew vyth yn gwneuthur y llewenyd mwyhaf ac allei idaw. Pan weles peredur ef ual hynny ynteu a orllyfnawd y benn. dan dywedut. duw a anuones yr aniueil hwnn yr kynnal kedymdeithyas ami.

XXVI.—Ac uelly yn hyt y dyd y bu beredur yno yny vu brytnawn hwyr. Ac yna y llew mawr agymerth y bychan ar y gevyn ac aaeth ymeith. Aphan weles peredur y vot ehun yno ny bu digrif iawn ganthaw. ac nyt oed ryued. Eissyoes da oed y obeith ef yn duw. Ac nyt oed yny byt yn yr amser hwnnw wr well noc ef. a hynny oed ganthaw yn erbyn aruer y wlat. kanys yn yr amser hwnnw kyndrwc oed y deuawt ynggwlat gymry. ac or bei y tat yn glaf yn y wely. ef a deuei y mab idaw ac ae tynnei or gwely dan y lusgaw allan. Ac ae lladei. ac uelly heuyt y gwnaei y tat am y mab. A hynny rac ovyn lliwiaw a dannot udunt eu marw ar wellt eu gwely. A phan welet y tat yn llad y mab. ar mab yn llad y tat yny mod hwnnw. Yna ef a aei bawp yn aruawc y dwrneimyeint ac y ymladeu ac uelly y lledit wynt. ac o achaws eu llad mywn arueu y dywedit eu bot yn wyr bonhedigyon. A gwedy bot peredur yno tra vu dyd yn disgwyl awelei ae llong ae bat yn kerdet ar y mor. ef adoeth nos arnaw ac ynteu a ymgroesses dan dyrchafel y dwylaw parth ar nef. Ac adywawt. Arglwyd iessu grist or nef y gwr adywawt yn yr euengyl wrth y disgyblon. Myvi yssyd vugeil da. bugeil da aryd y eneit dros y deueit. Ar bugeil drwc ynteu aat y deueit het y chweith gwylyeit arnadunt. Ac yna y daw y bleid ac y dristriwa wynt. ytti yd archafi heno ac yn wastat uot yn vugeil da ym eneit. i. rac dyuot

Digitized by Google

bleid a distrywu yr eneideu ae dwyn y gennyt drwy y brofedigaethyeu drwc. a dwc vi arglwyd ar y gret drachevyn val y gallwyf vot yn un oth deueit. A chyn dywedut ohonaw ef hynny nachaf y llew aathoed ymeith y wrthaw yn gorwed yn ymyl y draet. Ac yna tywyll oed y nos. ac ynteu a dodes y benn ar dwyvronn y llew ac agysgawd. Ac yna ef awelei vreudwyt. nyt amgen. ef awelei dwy wraged yn y ymyl. ar neill aoed yn brud ac yn hen. ar llall heb hayach o odran arnei. a thec iawn yttoed. ar neill ar gevyn y llew. ar llall ar gevyn y sarff. ynteu aedrychod arnadunt ac ef a vu ryued ganthaw welet y gwraged mor veistrawl a hynny ar yr aniueilyeit gwylltyon creulawn. Ar ieuaf adoeth racdi att beredur. ac adywawt. vy arglwyd i ath annerchawd di ac aerchis itt ymgyweiryaw a bot yn barawt erbyn avory y ymlad ar ornestwr cadarnaf or holl vyt. ac or goruydir arnat. gwybyd di nath dillynghir ac yth vwrir yngcarchar vyth. Pan gigleu ynteu y parabyl hwnnw ef aovynnaw idi pwy oed y harglwyd hi. Yn wir heb hi un or gwyr kyuoethockaf or holl vyt. wrth hynny byd barawt y wneuthur y vateil yny erbyn avory ual y keffych ditheu enryded. Ac ar hynny hi aai ymeith debygei ef. Yna ef a welei y llall yn dyuot attaw ar gevyn y sarff. ac yn dywedut. Peredur heb hi mi a gwynaf ragot. kanys ti awnaethost eniwed ym heb y haedu. Peredur yna aattebawd idi ac a dywawt nac idi hi nac y wreic eiryot nasgwnathoed hyt y gwydyat chweith eniwet. mi ae dywedaf ytt heb hitheu. A unbenn heb hi mi avegeis yn vynty aniueil aelwit sarff. yr hwnn ayttoed yngwneuthur ymi oles mwy noc adebygut ti. ar aniueil hwnnw adoeth nywnn I pa vod hyt yma. ac yny greic honn y kyfaruu ahi llew bychan. a thitheu agerdeist yny hol hi ath gledyf ynnoeth ac ae lledeist heb wneuthur or sarff ytti dim drwc. ac ni chawsswn inheu heuyt wneuthur ytti chweith eniwet. ac nyt yttoed heuyt y llew yn deu ytti nac ar dy gystlwn. megys y dylyut ti ymlad drostaw. A unbennes heb ef nyt oed veu dim or llew. nathitheu heuyt ny

Digitized by Google

wnaethyost arnaf chweith eniwet hyt y gwnn I dieithyr mi avedylyeis bot yn vonhedigach natur y llew nar sarff ac yn llei y ormes ar y bobyl. a mi aweleis y sarff heuyt yn treissyaw y llew or hynn aoed eidaw. ac am hynny y redeis I yn ol y sarff ac y lledeis hi. yr hynny ual kynt ny wneuthum I dim drwc or byt. A hitheu yna adywawt peredur hi pany wney di ymi dim o jawn amgen no hynny. Pa ryw heb ynteu a vynnut ti y gael. mi a vynnaf heb hitheu gwneuthur ohonat gwrogaeth ym yn lle vy amarch. llyma vyngcret heb ynteu nasgwnaf. Reit yw ytt y wneuthur heb hi. kanys kynt y gwnaethost ti wrogaeth ymi noc y tebygy di. achanys kefeis wrogaeth arnat ti yn gynt noc arall ny cheissyafi dydi. namyn pa le bynnac y kaffwyfi di heb warcheitwit arnat mi ath gymeraf megys y neb auei yn vymedyant I yngynt noc arall. Ac yna debygei ef yd aeth honno ymeith. ac ynteu agysgawd megys gwr lludedic hyt pan ymdangosses yr heul drannoeth. Ac yna ef agyfodes y vyny ac aymgroesses. ac awediawd yr arglwyd or nef. ar danuon kynghor idaw a vei da yr eneit. kanys am y korff nys didorei ef. Ac yna ef aerychawd yny gylch. ac ny welei nar sarff aladyssei nar llew. a hynny a vu ryued iawn ganthaw ef. Ac yna ef aarganuu yn dyuot ar draws y mor llestyr a hwyl arnaw. Ar gwynt yn y ol yn y yrru yn vuan tu ac attaw. Ac ynteu pan weles hynny digrif vu ganthaw o dybyeit bot dynyon yndaw ac ef agyrchawd y traeth. ac adisgynnawd y waeret. Aphan doeth ef yno ef aweles vot yr ysgraf gwedy y phebyllu o samit gwynn. Ac yndi ef awelei gwr oedawc tec. a swrplis ymdanaw. ac a diwyc offeiryat arnaw. a choron am y benn o samit gwynn. ac enw iessu grist yn ysgriuennedic yndi. Ac yna peredur a gyvarchawd gwell idaw. Duw a ymendao dy gyflwr ditheu unbenn heb y gwr or yscraff. Apha un wyt ti arglwyd heb y peredur. Mi ahanwyf heb ynteu o lys arthur. apha ryw antur ath duc ditheu yma heb ef. Nysgwnn arglwyd heb y peredur. na pha antur na pha gyflwr y deuthum yna. Bet a vynnut ti heb yr offeiryat pei askaffut. Arg-

Digitized by Google

lwyd heb ynteu mi vynnwn pei ascaffwn vynet or ynys honn. att vy mrodur am kedymdeithyon or vort gronn y geissyaw y greal. canys y geissyaw amgen neges ny deuthum I o lys arthur. Pan rangho bod y duw heb yr offeiryat ti ageffy vynet odyma. Aphei gwell ganthaw ef dy vot ti yn lle arall noc yma ti a vydut. yn ehegyr. Ac ef ar allei heb ef wneuthur o duw athydi hynn yr dy brovi ath adnabot y edrych beth vydut ae da ae drwc. Ac yr pan yth wnaethpwyt ti yn varchawc urdawl. ef adylyei dy gallon di vot mor galet ac nat ostyngei hi yr perigyl bydawl yma. A challon marchawc urdawl adyly bot ynffenedic diymadaw ac ef y darestwng gelyn y arglwyd. Ac ny thry marchawc urdawl da y geuyn yny darffo o vateil goruot arnaw. Ac ny dyly gadaw urdas kymeint ahwnnw namyn y dwyn ganthaw. Ac yna peredur aovynnawd idaw o pa wlat yr hanoed. Mi ahenwyf heb ef owlat bell odyma. Pa ryw antur heb y peredur awnaeth y titheu dyuot y wlat mor estronawl a honn. Mynvyngcret heb ynteu yr dy gynghori di ath ganhorthwyaw. ac y warandaw dy gyflwr ath gyffes or mynny y venegi ym. Ryued heb y peredur ydwyt yn dywedut dy dyuot ym kynghori I. ac ymcanhorthwy. ac ny welafi fford y gallei hynny vot. kanys ny wydyat neb y mot I yma namyn duw ehun. Peredur heb ef mi awydywn dy vot ti yma yn hyspys. ac ny wnaethost yr ystalym hayach o weithredoed nysgwypwyf yngystal athitheu. Ac yna peredur rac mor gymen y clywei y gwr da. a dynessawd ar vwrd y llong. agovyn yr gwr da a ranghei bod idaw dehongyl breudwyt awelsei. Dywet yn hy heb y gwr da. a minheu aedehongylaf ytt. Ac yna peredur adywawt idaw cwbyl yny mod y gwelsei heb adaw un geir ual y mae orblaen.

XXVII.—Ac yna y gwr adywawt. peredur heb ef am y dwy wraged aweleist di drwy dy hun. ymae synhwyr mawr ar hynny. Nyt y wreic aweleist di yn marchogaeth y llew. ef aellir y chyffelybu yr gret newyd yr honn y duc Iessu grist hi ar y gevyn yr byt ac aehad-

Digitized by Google

eilyawd yr cristonogyon. honno aoed yn marchogaeth y llew. Nyt amgen noc iessu grist. honno yw cret a bedyd a gobeith. honno yw y maen calet. am yr hwnn y dyweit iessu grist. Ar y maen hwnn yd adeilyafi vy eglwys. Ac am hynny y gellir y cheffylybu hi yr gret newyd yr honn aoed degach nor llall a jeuanghach ac nyt oed ryued. kanys honno aanet gyt achreedigaeth iessu grist. ar llall a yttoed yn y byt kynno hynny. Y wreic ieuanc honno adoeth y ymwelet athydi. megys pettut mab idi. honno adoeth yth rybudyaw ymblaen ydyrnawt rac ovyn kael methel arnat. Honno adoeth y erchi y gan y harglwyd. nyt amgen noc Iessu grist ytt vot yn barawt y ymlawd ar ornestwr creulonaf or holl vyt. A gwybyd di y gennyfi pany bei dy garu di. na bydei hi yth rybudyaw di y vot yn well yr ymladut. ac y kynhalut vrwydyr ac ef. Nyt amgen nor kythreul yr hwnn yssyd yn ymlad beunyd ar byt. trwy brouedigaetheu a phechodeu marwawl. agwedy yth gaffel y mywn pechawt ef ath vwryei y uffern. Allyna yr hwnn y goruyd arnat ti ymlad ac ef. Ac or goruyd ef arnat ti gwybyd di ual y dywawt y wreic wrthyt nathdillynghir yr un oth aelodeu. namyn ef ath lygrir vyth. Athi aelly welet hynny yn wir. kanys os efo aoruyd arnat ti. ef aduc y gennyt dy gorff ath eneit. ac odyna ef ath enuyn yr ty tywyll yr hwnn aelwir uffern yn y lle y diodefych poen amerthyrolyaeth hyt tra barhao duw yny nef. A llyna vi wedy menegi ytti beth a arwydockaa y wreic aoed yn marchogaeth y llew. Gwir adywedy heb y peredur. am y llall bellach ty aelly dywedut ym beth a arwydockaa hitheu. Mi ae dywedaf yt yn llawen heb ynteu. Y wreic aweleist di yn marchogaeth y sarff. aellir y chyffelybu yr hengret. ar sarff aoed yny harwein hitheu a gyffelybir yr kythreul. yr hwnn yssyd yn dwyn ar y gevyn pechawt ac enwired. hwnnw yw y sarff aberis trwy y valchder y vwrw o baradwys. Evo yttiw y sarff adywawt wrth adaf ac eua. Pei bwytaewch chwi o ffrwyth y prenn yma. chwi a vydewch gyffelyb y duw. Ac oachaws y parabyl hwnnw ydaeth yndunt wy chwant y vot yngyffelyb

Digitized by Google

y duw. ac y pechassant yn varwawl. ac y credassant yr kythreul. ac or achaws hwnnw y gyrrwyt wyntwy o baradwys. aphan doeth y wreic honno geyr dy vron di hi agwynawd ragot am lad y sarff aladyssut. A gwybyd di nat am lad y sarff aladyssut ti doe. namyn am y sarff yr oedut yn y varchogaeth. hwnnw oed y kythreul. Ac awdost di pa bryt y someist di efo. pan duc ef dydi hyt y greic yma. Ac yna y dodeist ditheu arwyd y groc arnat yr honn ny allawd ef y chynnal. ac ef avu arnaw ovyn kymeint ac y tebygassei y varw. Ac yna ef affoes megys y neb adarffei y gewilydyaw ae sommi. ac efo adebygassei rydaruot idaw dy ennill yna. athitheu aoruost arnaw ef yn y mod hwnnw. Ac am hynny y doeth hi y erchi y ti wneuthur gwrogaeth idi am lad y sarff. Athitheu yna adywedeist nasgwnaut. Ahitheu yna adywawt mae kynt y gwnathoedut ti idi hi wrogaeth noc yr arglwyd yr oedut yny wassanaethu. agwir adywawt. kanys kynn kymryt ohonat ti vedyd yd oedut ti yny gwrogaeth hi. ac yr awr y kymereist di vedyd. ti awedeist y gwrogaeth hi. A llyna vi wedi dywedut ytti am bob un o honunt ual y gilyd beth a arwydockaey. a bellach myui aaf ymeith kanys y mae ym yn lle arall awnelwyf. athitheu a drigyy yma. a medylya am y vateil yssyd reit ytt y wneuthur. Ac or gorvydir arnat ti ageffy yn dieu yr hynn adywedeisi. Aphan daruu idaw dywedut uelly ef aaeth ymeith. Ar gwynt adrewis yn yr hwyl. ac aaeth ymeith ar llestyr ac ar gwr hyt na welei beredur dim y wrthaw. Ac yna peredur adringyawd yn erbyn y greic y vyny. Ac yna ef a gyfaruu y llew ac ef. dan lewenyd yn dyuot yn y erbyn. Ac yno y trigyawd ef hyt yn agos y hanner dyd. Ac yna ef awelei yn dyuot arhyt y mor llong acherdetyat amdrwsgyl genthi yngymeint a pheituei yn y hwyl hi holl wynt y byt. Ac oe blaen ef awelei ryw ystorym yn kyffroi y mor yngymeint ac ydoed yndwyn y ganthaw ef y olwc ar y llong. yr hynny ual kynt hi anessaawd attaw ef ual y gallei y gwelet yn kymryt tir. a hwyl burdu arnei ny wydyat ynteu ae o vrethyn ae o hemp y gwnathoedit

Digitized by Google

hi. Ac ynteu yna adisgynnawd or greic ar vedyr gwybot beth oed yndi. A dynessau aoruc ef att y llong. A phan doeth ef yny hymyl ef awelei yn eisted y wreic deckaf or byt. ac a mawrweirthyawc dillat ymdanei. Ac yr awr y gweles ef hi a gyuodes yn y seuyll. ac a vu lawen wrthaw. ac adywawt. Peredur heb hi beth awney di yma. apheth athuc di y le mor estronawl a hwnn. or lle ny deuy di vyth ohonaw ony byd damwein ath dycko. Ami adebygaf kynn dy vynet odyma y bydy varw o newyn. Myn enw duw heb y peredur or bydaf varw I o newyn. arwyd yw hynny nat wyf wassanaethwr kywir ym arglwyd. kanys nyt oes neb or a vynno gwassanaethu arglwyd kystal am arglwyd I. or mynn y wassanaethu o gallon da ny chaffo ganthaw yr hynn aarcho. Ac ef ehun a dywawt yn yr euengyl na cheyir y borth ef rac neb or ageissyo dyuot idaw o gallon da. Pan y kigleu hitheu efo yntraethu or euengyl hi adrosses y barabyl arall. ac adywawt. Peredur heb hi awdost di o pa le yr wyfi yn dyuot. A unbennes heb ynteu pwy a dysgawd ytti vy enw I. Mi wnn heb hi pa un wyt yngystal athyhun. O pa le heb ynteu ydwyt ti yn dyuot ual hynny. Yr wyf yn dyuot heb hi or fforest dreulyedic yn y lle y gweleis yr hynn ryuedaf aweleis eirmoet. Nyt amgen no marchawc da yr hwnn yssyd atharyan wenn idaw ac a croesgoch yn y daryan. Yr duw heb ynteu unbennes dywet ym y damwein hwnnw. Na dywedaf heb hitheu ony rody ditheu dy gret ar wneuthur yr hynn aarchwyf inheu ytti a hynny pan yth rybudwyf. Ac yna ynteu arodes y gret idi megys nawydyat pa un oed. Gwir yw heb hi nat oes hayach yr pan vum I yny fforest dreulyedic. or tu yma yr auon yr honn aelwir marchoys. Ac yno y gweleis I varchawc urdawl da a deu ereill geyr y vronn yn ffo. Ac rac y ovyn wynt a drawsant yn y dwvyr ac adoethant drwod. Eissyoes yr hwnn aoed yn eu hymlit wyntwy adaruu yn drwc idaw. bodi y varch y danaw. ac ynteu avodassei panybei ymchoelut ohonaw drachevyn. llyna vi wedy dywedut ytti yr hynn aweleis I. dywet titheu y minneu

Digitized by Google

bellach. pa ryw hynt yssyd arnat titheu yr pan wyt yn yr ynys honn. ac ef ath gollir ony cheffy ath dycko odyma. kanys nyt oes yma neb aallo dim lles ytt. Ac am hynny ti a dylyut wneuthur kymeint yrofi ac y haeddut arnaf dy dwyn odyma. A unbennes heb ynteu mi adebygaf pei ranghei vod ym arglwyd I vy mynet odyma. mi adebygwn yr awn. ac ny mynnwn inheu vy mynet ony bei trwy y ewyllys ef. Taw am hynny bellach heb hi. avwyteeist di dim hediw. Na do heb ynteu dim o vwyt y byt yma. namyn ef adoeth yma wr mwyn yr hwnn adywawt lawer o barableu da. Nyt nam tawr i ywrth dim or bwyt hyt tradel cof ym ef. Awdost di heb hi pa un oed ef. Nigromawnswr oed yr hwnn awnaei or un parabyl deudec heb dywedut un geir gwir vyth. Ac or credy di idaw efo nyt aey di odyma vyth yny vych varw o newyn. neu ynteu yny darffo y vwystuileit dy lad. athi aelly wybot hynny ynwir. kanys ydwyt ti yma yr ys dwy nos adiwarnawt ac aaeth or dyd hediw ymeith. Ac nyt anuones y neb ydwyt ti yn galw arnaw dim or bwyt ytt. a jawn mawr yw oth gollir dy yma. A unbennes heb ynteu pa un wyt ti pan vych yn kynnic ym vyndwyn odyma. Arglwyd heb hitheu morwyn gyuoethawc oedwn gynt pan ym didreftatwyt ar gam. Ae velly heb ynteu y gwnaethpwyt athi. myn duw heb ef drwc y gwnaethpwyt athi. Aphadelw y colleist di tref dy dat. Gynt yr oedwn heb hi yn gwassanaethu gwr kyuoethackaf or byt oll. amineu kyn decket oedwn ac nat oed yn y byt oll dyn kyndecket ami. yny yttoed pawb yn ryuedu vyntegwch ac uelly yd oedwn inneu heb petrusder. ac am y tegwch hwnnw mi a velcheeis yn vwy noc ydylyasswn. ac adywedeis ryw ymadrawd yr hwnn ny renghis bod ym arglwyd. Ac yr awr y kigleu ynteu y parabyl ef a lidyawd wrthyf yn gymeint ac nam diodefawd yny gedymdeithyas. Ac am gyrrawd ymeith yn dlawd ac am didreftatawd heb drugared vyth o hynny allan. nac wrthyfi. nac wrth neb oc a vu om kytsynnedigaeth. ac uelly y gyrrawd y gwr kyuoethawc vi ymeith yr diffeith. ac ef awnathoed ym

Digitized by Google

waeth no hynny panybei vy synhwyr vy hun. kanys yr awr ymgyrrwyt I ymeith minheu adechreueis ryuelu arnaw ynteu. ac aenilleis arnaw beth. ac adugum dalym oe wyr y ganthaw. y rei ae gedewis ef ac adoethant attaf inheu. kanys nyt oed dim or a erchynt hwy ymi nys rodwn udunt. Ac uelly yd wyf a nos a dyd yn ryuelu yn y erbyn. ac yn kasglu marchogyon urdolyon. ac amryuaelyon bobloed attaf. Agwybyd di yn lle gwir nat oes yny byt marchawc urdawl na gwr da. ny pharwyfi gynnic vynda idaw yr bot yn bleit ym. ac am glybot o honaf dy vot ti yn wr da y deuthum I yma. a thitheu adylyut nerthocau pob morwyn or adreissit o orthrech. kanys un o gedymdeithyon y vort gronn wyt. a thi awdost vy mot I ar y gwir. kanys pan rodes arthur dydi y eisted yndi. ti a rodeis dy lw yn gyntaf na phallut vyth y wreic neu y vorwyn adidreftedit o nerth. Gwir adywedy di heb y peredur y llw hwnnw arodeis I a minheu ae kynhalyaf. Ac or achaws hwnnw myvi aaf yth nerthu di. Ac uelly ybuant yn ymdidan. yny yttoed gwedy hanner dyd. ac yna yr unbennes adywawt y mae yma y pebyll teckaf or aweleist di eirioet. ac os mynny di mi a baraf y dynnu allan ual y gallom eisted yndaw rac gwres yr heul. Da yw gennyfi hynny heb y peredur. Ac yna tynnu y pebyll aorucpwyt. A hitheu adywawt yna. Peredur heb hi. dabre yma y eisted yny ostyngho gwres yr heul. ac ynteu aaeth y mywn. achyscu aoruc mywn gwely. ac eissyoes hi aberis tynnu y arueu y amdanaw. agwedy kyscu ruthur o honaw. hi ae deffroes. ac aerchis dyrchafel bwrd y vynet y vwyta. Ac uelly y gorucpwyt. Ac ny welsei ef eiryoet lle diwallach o bop da. A phan erchis ef diawt. ef adycpwyt gwin idaw.

XXVIII.—Ryued vu gan beredur gael gwin. kanys yn yr amser hwnnw nyt oed chweith gwin ymbryttaen uawr ony bei yn lle tra chyuoethawc. Sef aoruc peredur yuet y gwin yn ffest. a medwi odieithyr messur. Ac yna edrych aoruc ef yn llygeit yr unbennes rac tecket y gwelei. kanys ny wydyat ef eiryoet welet yr un kyndecket a hi. A chynhoffet vu ganthaw ef hi.

Digitized by Google

ac yr adolygawd idi y charyat. a gwneuthur yrdaw. Ahitheu ae nackaawd ef. yr peri idaw vot yn chwannogach idi. Ac yndidiffyc yr ymbiliawd ef ahi. Aphan y gweles hi efo gwedy kwympaw yny charyat hi. hi adywawt wrthaw. peredur heb hi gwybyd di yn lle gwir nawnafi yrot ti dim ony rody ditheu dy gret ar uot yn untuawc ygyt amyvi yn erbyn bop dyn. Ac na wnelych dim onyt a archwyfi. Na wnaf yrofi duw heb ynteu. ac ar hynny ymgredu aorugant. Yna hitheu adywawt. Peredur heb hi gwybyd di yn lle gwir nat kynhoffet gennyt ti vyngkael i. achennyfi dy gael di. Ac yna hi uerchis oe gweissyon gwneuthur y gwely. Ac yna y gwely awnaethpwyt ymperued y pebyll ac yr gwely hwnnw yd aethant peredur ar vorwyn y gysgu. Aphan yttoed beredur yn mynnu gorwed ac yn bwrw y dillat arnaw. ef awelei y gledyf yn y orwed ar y llawr. Ac yna gostwng y law awnaeth ef ae dyrchafel ae dynnu attaw. Aphan y kymerth ef awelei groes ymywn pwmel y cledyf. Ac yna ef adoeth cof idaw ehun. ac a ymgroesses. Ac yr awr honno ef awelei y pebyll yn mynet ual mwc ymeith. ac asyrthyawd ryw wybrenn yny gylch ynteu hyt na welei dim. Ac aglywei o drewyant yny gylch hyt y tebygei y vot yn uffern. Ac yna y dywawt ef ohyt y lef. arglwyd iessu grist canhorthwya vi. ac na at ym vynet yngkyvyrgoll. Ac yna edrych aoruc ef yny gylch. ac ny welei nar pebyll nar vorwyn. namyn ef awelei yr yscraff yn y mor. ar uorwyn yndi yn dywedut. Peredur ti am twylleist i. ac ar hynny taraw yny mor dan yr hwyl aoruc. ar morgymlawd agyuodes yn y hol. yn gymmeint ac y gwelei ef yr yscraff yn ennynnu o tan oll. Aphan weles peredur y damwein hwnnw ef a vu ryued ganthaw. ac adywawt. Och vy arglwyd i iessu grist madeu ym dy lidiaw. ac yna tynnu y gledyf aoruc. ae vrathu ehun yny vordwyt assw yny vyd y waet yn ffrydyeu. adywedut. weldyna arglwyd iawn ytt yn lle vyn drycvedylyeu. ac ovynhau aoruc ef yn uawr vot duw wedy llidiaw wrthaw. Ac yna ef agyuodes yn noeth onyt y lawdyr. ac awisgawd ymdanaw. ac aogwyd-

Digitized by Google

awd ar y greic dan wediaw ar duw ar anuon idaw gynghor ual y gallei gael trugared y eneit. kanys nyt yttoed ef yndamunaw amgen. Ac uelly y bu ef yn hyt y dyd yn ymovidyaw. heb allel kychwyn or lle yd oed o achaws y dyrnawt aoed yny vordwyt. ac ynteu yn kolli y waet. Aphan doeth nos ef aaeth y gysgu ar y luric. ac adorres arffet y grys. ac aystopyawd y brath. ac aroes arwyd y groc arnaw. ac awediawd duw yndidiffyc yny vu dyd. ac yn drwm ganthaw vot yn agos oe elyn ae sommi. Ac yna ef aedrychawd ar hyt y mor. ac ef aarganuu y llong awelsei gynt ar gwr yndi. ac yna gobeithyaw aoruc peredur rac daet y parableu aglywssei gynno hynny ganthaw. Ac ny bu hir yny doeth y llong yrtir. Ac yna peredur a gyuodes ual y gallawd. ac a gyuarchawd gwell yr gwr. ac ynteu adoeth att beredur ac aeistedawd yny ymyl. Ac adywawt. Peredur heb ef padelw y llauuryeist di yr pan euthum I ywrthyt. Myn duw heb y peredur yn drwc iawn. kanys ef agos y vorwyn adoeth yma apheri ym bechu yn varwawl ygyt ahi. Ac yna peredur adywawt yr gwr y gyfranc. Ac yna yr offeiryat aovynnawd idaw aatwaenat ef hi. Nac atwaen heb ynteu. namyn mi awnn mae y gwas drwc ae hanuones hi y geissyaw vy sommi. Ac ef am somyssit ynheu ynhawd panybei arwyd y groc adodeis arnaf. drwy wyrtheu yr honn y kefeis I vy synnwyr am pwyll drachevyn. Ac y ffoes y vorwyn ymeith. Ac am hynny arglwyd kynghora vi. kanys ny bu gyn reittet ym eiryoet. Peredur heb ynteu nyt wyt iawn synhwyrus di. pryt nat atwaenost yr hon affoes rac arwyd y groc. Myn vyngcret heb ynteu nas atwaen. ac am hynny arglwyd dywet ym pa un oed. a phwy y gwr kyuoethawc ae didreftatawd hi.

XXIX.—Mi ae dywedaf yn llawen heb yr offeiryat y kythreul ehun oed. a meistyr ar uffern. a gwir yw y uot ef gynt yn y nef ynghedymdeithyas yr engylyon yngyndecket ac yn gynegluret ac nat oed yn y nef y gyndecket. ac o achaws y bryt ynteu a valchaawd ac ageissyawd drwy vedylyaw y vot yn gynhytret yn y nef a duw ehun. ac adywawt mi aesgynnaf ar y nef.

Digitized by Google

ac avydaf gyffelyb yr arglwyd pennaf. Ac yna yn arglwyd ni pandywawt ef hynny. ae bwryawd ef or eistedua ydoed yndi. yny yttoed yn uffern. Aphan weles ynteu y vwrw or eistedua enrydedus yr poeneu tragywydawl. ynteu yna a uedylyawd ryuelu ar y neb ae bwryassei. Eissyoes ny wydyat pa ffuryf. Agwedy daruot yr arglwyd wneuthur adaf ac eua. ae gadaw ymparadwys. a gorchymyn udunt na bwyteynt dim offrwyth y prenn. ynteu adoeth ac aberis y eua vwyta yr aual. ae rodi y adaf oe vwyta. ac o achaws hynny y pechassant yn varwawl. ac yr aethant y uffern. honno oed y sarff y gweleist di y wrach yn y marchogaeth drwy dy hun. honno heuyt adoeth attat titheu neithywyr y ryuelu arnat. ac adywawt na orffowyssei vyth na nos na dyd ryuelu ar duw. a gwir a dywawt athi aelly wybot hynny. kanys y gwas drwc ny orffowys vyth yn keissyaw dwyn y varchogyon urdolyon kywir y gan Iessu grist. Agwedy daruot idi hi trwy y hymadrawd twyllodrus ym gyttunnaw athydi. hi aberis tynnu y phebyll allan yth lettyu di. yna hi adywawt. Peredur heb hi dabre y eisted yny ostyngho yr heul. ac yny del yn nos. y pebyll trwm a weleist di aellir y gyffelybu y grymder y byt hwnn. yr hwnn ny byd vyth heb bechodeu yndaw. Achanys pechawt yn wastat yssyd yny byt. am hynny ny mynnawd hitheu uot ytti le amgen no phebyll. yn yr hwnn nyt oed amgen no phechawt yndaw. Ac yno hi ath borthes ac ath wnaeth yn vedw o bechodeu. Aphan erchis hi yti eisted agorffowys yny delei y nos. ef aellir kyffelybu hynny. panyw erchi ytt eisted agorffowys yny delei angheu dybryt ytt yr hwnn a ellir y gyffelybu yr nos. Allyna vi gwedy dywedut ytt paryw un oed y vorwyn. ac ymogel yn da rac cael methel yr eilweith arnat. kanys. or digwydy di mwy ny chey ath ganhorthwyo. Duw or nef heb y peredur am diangho rac drycbrouedigaetheu. yna y gwr aovynnawd y beredur pa delw yd ymglywei or brath aoed yn y vordwyt. Mynduw heb y peredur pan eistedeist di ym ymyl i ny chiglefi arnaf dim dolur. ac ef awelir ymi ynherwyd y gras yr

Digitized by Google

yttwyfi yny gaffael oth barableu di. nat wyt bechwydawl di namyn ysprydawl. ac ar hynny difflannu awnaeth ef ual na wybu beredur pa le yd aeth. Ac yna ef aglywei lef yn dywedut. Peredur ti aoruuost ac yr wyt yn iach. dos yr llong racko hyt y lle yth anuono antur di. ac na vit un ovyn arnat yr awelych nac yr a gyfarffo athydi. kanys duw avyd y gyt athi. Aphan gigleu ef y parabyl hwnnw. hyfryt vu ganthaw adiolwch y duw aoruc. agwisgaw y arueu awnaeth adyuot yr llong. yr honn adrewis yr mor ar hynt o nerth gwynt a hwyl. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am peredur ac yn ymchoelyt at lawnslot.

XXX.—Lawnslot aoed ynty y meudwy. ac yno y bu ef bedwar niwarnawt y gyt ar gwr da yr hwnn drwy amrauaelyon exawmpleu. a chospedigaetheu ae trossassei ar gret da ac ediuarwch am yuuched a gynhalyassei or blaen. Ac yna y gwr da aanuones att vrawt aoed idaw. Ac aerchis idaw anuon march ac arueu y varchawc urdawl anghyflyryus aoed ygyt ac ef. ac ynteu ae hanuones. A gwedy kael o lawnslot pob peth or a oed yn eissyeu idaw. ef aaeth ymeith drwy gennyat y gwrda. ac a uarchokaawd drwyr fforest yny oed yn awr brim. Ac yna ef a gyuaruu ac ef was ieuanc yr hwnn aovynnawd idaw o pale pan oed yn dyuot. A lawnslot adywawt mae olys arthur yr oed yn dyuot. Pwy dy henw di heb ynteu. Ef am gelwir i lawnslot dy lac. Lawnslot dy lac heb y gwas nyt hwnnw yd yttwyfi yny geissyaw. kanys ny wnn yn yr holl vyt un dyn aflwydyannussach na direidyach no thi. A unbenn heb y lawnslot beth awdost di. Gwnn heb ynteu panyw tydi yw yr hwnn yr ymdangosses seint greal idaw. ac yr hynny ny wyr duw ytti symudaw un cam or lle yr oedut. Ac ynwir yna ti adangosseist nat oedut wrda. na marchawc urdawl kywir. namyn un ffals anghyfyawn pryt na mynnut wneuthur chweith anryded yth arglwyd. Ac na vit ryued gennyt ti or kyuerfyd kewilyd athi yn y bererindawd honn yn annat neb. Pan y kigleu lawnslot ef yn dywedut uelly tristau yn uawr aoruc kanys gwydyat y vot yn gamgylus. ac wylaw

Digitized by Google

yn hidyl aoruc ac adaw y gwas yno. a marchogaeth yn vedylgar drist yny bu hanner dyd. Ac yna ef aarganuu gudugyl meudwy athu ac yno y trosses ef. a gwedy y dyuot yno ef a welei wr creuydus pruddrist medylgar. yn eisted yn ymyl y capel. Ac yn dywedut. arglwyd iessu heb ef. paham y diodefeist di hynn. kanys ef avu yth wassanaethu yn hir. Aphan y gweles lawnslot ef yn wylaw mor hidyl a hynny. ef a vu dost ganthaw. ac agyfarchawd gwell idaw. ac a dywawt duw ath gatwo rac drwc wrda. Amen heb y gwr kanys onym keidw y mae arnaf ovyn y gorvydir arnaf yn ehegyr. A duw ath gatwo ditheu hevyt rac dy bechodeu kanys reidyach yw ytt. noc y varchawc urdawl or a atwaen I. Pan gigleu lawnslot hynny ef a vedylyawd y disgynnei. ac nat aei oe gynghori y wrth y gwr y dyd hwnnw. kanys yttoed yn y adnabot yn herwyd y parabyl adywedassei. Ac yna dynessau tu ar ty aoruc ac arganuot ar y drws debygei ef gwr prud llwyt yn varw achrys ymdanaw. A gwedy disgynnu o honaw ef aeistedawd yn ymyl y gwr ac a ovynnawd idaw pa angheu adugassei y gwr aoed yn varw ar crys ymdanaw. ac ae beis rawn ympell y wrthaw. Nysgwnn heb y gwr namyn tybyeit nat oblegyt duw y bu uarw. a thorri ohonaw bwngk ar y greuyd pan vwryawd y beis rawn y wrthaw. achymryt y crys. ac yny medwl hwnnw y odiwedut or gwas drwc ef. a dwyn yr eneit y ganthaw. Ac ys mawr aryssynt yw. kanys y mae degmlyned arhugeint yr pan yttiw yn gwassanaethu duw. Ac yna y gwr da aaeth yr capel y mywn. ac agymerth ystol ac adynnawd llyfyr oe vynwes ac ae darlleawd. Agwedy daruot idaw darllein talym or llyfyr. ef awelei y gwas drwc geyr y vronn yn hackraf neb ryw eilun or byt. Ac yna y kythreul a dywawt y baryw beth heb ef y llauuryeist di vyvi yma. y dywedut ym heb y gwr pa ffuryf y bu uarw y gwr da hwnn a oed gedymdeith ym. ac y uenegi beth a daruu oe eneit. Ac yna y kythreul a atebawd idaw yn aruthur iawn ac adywawt y odiwedut ym pwngk da. a mynet y eneit y baradwys. Ny allei hynny vot heb y gwrda. kanys yn

Digitized by Google

erbyn reol yn creuyd ni oed hynny. Wrth hynny heb y kythreul mi adywedaf ytt val y daruu idaw. ti awdost heb ef y vot yn wr bonhedic. a dyuot arglwyd y glyn a ryuelu ar nei yr gwr racko aelwit agaraus. Aphanweles agaraus y chware gwaethaf yn troi attaw ef. ynteu adoeth y ymgynghori ae ewythyr yma. ac yna y gwr mwyn adosturyawd wrthaw ac aedewis y meudwydy. ac agymerth arueu ual y gnottaawd yn y ieueyngtit ac aaeth y nerthau y nei. Agwedy ymgynnullaw onadunt wynt aaethant y ymlad. A chystal y llafuryawd y gwr racko yn arueu ac y dalwyt iarll y glynn ar benn y trydyd dyd. Ac yna ef awnaethpwyt hedwch y ryngthunt. ac a vu reit yr iarll roi diogelwch y agaraus na ryuelei vyth arnaw. Aphan daruu y ryuel ef a ymchoelawd y gwrda oe veudwydy gan gynnal y greuyd ual y gnottaei. Eissyoes pan wybu y Iarll oruot arnaw oe achaws ef. yna ef adebygawd ydeu nei aoed idaw gallel dial y gewilyd. ac wynteu adywedassant y dielynt. Ac yna wynt adoethant hyt yma. ac awelsant vot y gwrda ar secret y offeren. ac ny lyuassant wy wneuthur idaw dim argywed yn yr amser hwnnw. ac aros awnaethant yny daruu idaw y offeren. Aphan doeth ef allan wynt adynnassant eu cledyfeu ar uedyr torri y benn. Eissyoes yr hwnn y bu ef yny wassanaethu yn hir adangosses eglur wyrtheu arnaw ef yn gymeint ac yr oedynt wy yn dryllyaw eu cledyfeu heb allel dim argywed idaw efo. ac nyt oed ymdanaw ef yr hynny onyt y dillat. Aphan welsant wy hynny wynt agynneuassant dan ar vedyr y losgi. Ac abarassant oe tylwyth diosc y dillat y ymdanaw. hyt ynoet y beis rawn awely di racko. Aphan wybu ef y vot yngynnoethet a hynny. ef agewilydyawd ac aerchis udunt yr duw adel ryw gadach ymdanaw. ac wynteu adynghassant nat aei ymdanaw na llin na gwlan.

XXXI.—Aphan gigleu ynteu hynny dan chwerthin ef adywawt. a debygwch chwi heb ef dwyn vy eneit y gennyf i drwy y tan racko. mynvynghret heb ef ny bydafi varw yroch chwi hediw ony reingk bod ym arglwyd. ac y minheu. kanys nyt oes yr tan racko o

Digitized by Google

vedyant arnafi gymeint ac y gallo llosgi un blewyn arnaf. Ac nyt oes yny byt crys yr teneuet vei ac a uei ymdanafi yn y tan racko a vei waeth vyth no chynt. Aphan glywssant wynteu y parabyl hwnnw gwatwar awnaethant. Ac un o honunt adywawt y mynnei ef wybot aoed wir hynny. ac adiosges y grys ac ae gwisgawd ymdan y gwr racko. ac ae bwryassant ef yny tan. yr hwnn abarhaawd o doe y bore hyt neithywyr pan oed nos. Aphan diffodes y tan yd oed y gwr yn gynvywyet ac yr oed gynt. Ac yna ef aadolygawd y iessu grist erbynnyeit y yspryt attaw. Ac ynteu ae herbynnyawd yn diargywed yr crys ac idaw ynteu. Aphan welsant wy hynny wynt ae tynnassant or tan ac aaethant ymeith. Eissyoes duw aaeth ymeith ar eneit y baradwys. Allyna vyvi wedy dywedut ytti y gyfranc ef. Aminneu aaf ymeith ym negesseu. Ac yr awr y kychwynnawd ef ymeith ti awelut y deri yndiwreidyaw y fford y kerdei. yn gymeint eu twryf a pheit vei yno holl dievyl uffern. Pan gigleu y gwrda y chwedleu hynny am y gedymdeith digrif vu ganthaw. diangk eneit y gwrda. Achussanu y gorff aoruc. adywedut wrth lawnslot weldyma heb ef wyrtheu tec. adangosses duw am y gwr hwnn. Arglwyd heb y lawnslot pwy oed y gwr aoed yn dywedut wrthyt ti. Y gwr hwnn heb ef aryd kynghor y bawp y gyvyrgolli y eneit ae gorff. A lawnslot yna awybu mae y kythreul oed. Yno ytrigyawd lawnslot y nos honno adiosc y arueu ymdanaw aoruc. Ac odyna ef adoeth drachevyn at y gwr. Agwedy eisted o honaw yn y ymyl. y meudwy adywawt. Panyt lawnslot wyt ti. apheth ydwyt ti yn y geissyaw valhynny. Arglwyd heb y lawnslot yr wyf yn keissyaw seint greal. val ymae pawb om kedymdeithyon. y geissyaw heb ynteu aelly di ynhawd. Eissyoes ar y gael ef ti affeylyeist. kanys ydwyt gwedy ymhalogi yn y pechodeu butraf. Aphan ymdangosses ef ytti ny elleist wneuthur idaw chweith enryded. Yr hynny ual kynt llawer dyn adrigyawd mywn tywyllwch pechodeu. agwedy hynny aelwis duw ef ar oleuni athrugared. or gwelei ef gallon da ediueir-

Digitized by Google

yawc ganthaw. ar wneuthur ryw weithret da. achynn dy wneuthur di lawnslot yn varchawc urdawl yr yttoed wedy llettyu ynot ti o natur pob peth ynda. kanys yngyntaf yd oed ynot diweirdeb yn gymeint ac y gallei vwyhaf y vot hyt nat yttoedut yn mynnu y fflygu nac yn medwl nac ynggweithret oblegyt godineb or byt. y gyt a hynny yr oed ynot ufuddawt. kanys yr oed arnat ovyn dy greawdyr hyt na mynnut wneuthur y neb chweith enwired. Y gyt a hynny yr oed ynot gyvyawnder yngymeint ac y gallei vwyaf kanys ny dygut y gan neb dim ar gam. ny rodut y neb hevyt dim ar gam. Y gyt a hynny yr oed ynot drugared yn gymeint aphei teu da yr holl vyt ti aallut arnat y roi yr karyat dy arglwyd ath greawdyr. Ac yna yd oed tan yr yspryt glan ynot ti yn llauuryaw. Ac uelly yn gyflawn or donyeu hynny y doethost yth wneuthur yn varchawc urdawl. ac yn was y iessu grist. Yna y kythreul pan yth weles yngyflawn or kampeu racko ef avu arnaw ovyn na allei dy dwyn y ar y fford yr oedut. Ac avu anhawd ganthaw dy gyrchu rac mor aruawc oedut yny erbyn. ac rac mynet y lauur yn ouer. Ac yna ef avedylyawd pa ffuryf y gallei dy dwyllaw di. ac aweles bot yn haws idaw dy dwyllaw drwy wreic. no thrwy fford arall. kanys y gwr kyntaf a vu adwyllwyt trwy wreic. A salamon doethaf. a samson gryfaf or gwyr. ac absalon uab dd. aoed deckaf or byt adwyllwyt oblegyt gwraged. A chanys goruuwyt ar hynn oll o wyr da oblegyt gwraged nyt oes fford yr mab racko y barhau. heb y kythreul am danat ti. Ac yna ydaeth y gwas drwc ymywn gwenhwyuar. ac y peris idi edrych arnat ti y dyd yth wnaethpwyt yn varchawc urdawl. Ac yna pan y gweleist ditheu hi yn edrych arnat ti a uedylyeist. ac yr awr honno ydoeth y gwas drwc ac yth drewis ac un oe gwareleu. yny dramkwydyeist y ar dy fford dy hun. ac yny aethost yr fford gam nyt amgen noc yt ynggodineb. Y fford honno aberis ytti dreulyaw dy gorff ath eneit. Ac yna y duc ef y gennyt ti dy olwc. kanys yr awr y daruu yth lygeit ymdwymno ynggwres godineb. ti ayrreist y wrthyt uvuddawt ac

Digitized by Google

aelweist attat valchder. ac agerdeist yn benn uchel heb roi messur arneb. Ac yr awr y gwybu y kythreul vedylyaw ohonat titheu uelly. yna ef aaeth ynot titheu. Ac uelly y gyrreist di rat yr yspryt glan y wrthyt. Ac uelly yr edeweist di Iessu grist ac yr aethost yn wr y diawl. kanys yn erbyn diweirdeb ac uvuddawt. ti alettyeist ynot odineb abalchder y rei a yrrawd y lleill ymeith. Aphany bei hynny ar vymperigyl I tydi awelsut seint greal yn gynegluret ar egluraf oc yssyd yny bererindawd. Kwbyl ohynn oll yd wyfi yn y dywedut ytti rac drycket gennyf dy gyflwr. kanys nyt oes lle oc y delych idaw vyth ny cheffych lliwiaw ytt dy dryc antur. am nat adoleist seint greal. Yr hynny ual kynt ny wnaethost di yn erbyn duw kymeint ac na cheffych drugared os keissy o galon da. Ac am hynny adolwc yth arglwyd yr y vawrhydri dy alw y gymryt rann oe wled darparedic. yr honn yd yttys yn ymdidan amdanei ar gyffelybrwyd yn yr euengyl.

XXXII.—Ef avu gynt wrda kyuoethawc yr hwnn adarparawd neithyawr. ac awahodes pawb oe gymodogyon ae gedymdeithyon idi. A gwedy dyrchafel byrdeu ef aanuones y weissyon y erchi yr gwahodwyr dyuot y vwyta. kanys parawt oed boppeth. ac wynteu adrigyassant yn ryhir yngyhyt ac yny digyawd y gwrda. Ac yna panweles ef na deuynt hwy. ef aerchis oe wassanaethwyr vynet ar hyt yr heolyd ar ffyrd achanu kyrn. ac erchi y bawp tlawt a chyuoethawc dyuot y vwyta attaw. Ac uelly y gwnaethant wynteu ac wynt a dugassant ygyt o dylwyth gymeint ac yd oed y ty yn llawn. Agwedy mynet pawb y eisted y gwrda aedrychawd ar bawp onadunt. ac ef aarganuu gwr ymplith y lleill heb dillat or neithyawr ymdanaw. Ac ynteu yna adywawt. Aunbenn heb ef beth a vynneist ti yma ymywn. Dyuot heb ynteu yma awneuthum ual y doeth y lleill. Na doethost myn vyngcret heb y gwr. kanys y lleill oll adoethant yn llawn o lewenyd ual y dylyynt dyuot ac a dillat neithyawr ymdanunt. A thitheu yr hwnn adoethost yma heb neb ryw dim arnat or aberthynei ar neithyawr. Ac yna y gwr aerchis oe weissyon y yrru

Digitized by Google

allan. Ar gwr adywawt ual y clywei bawp ry daruot idaw ef wahod o dylwyth mwy noc a dathoed yr neithyawr. or achaws y gellir dywedut. ef awahodet llawer abychydic aetholet. Y kyffelybrwyd hwnn y mae yr euengyl yny dywedut aallwn ni y welet y mywn pererindawt y greal. Ar neithyawr ar wled aallwn y gyffelybu y tabyl seint greal yny lle y bwytaant y marchogyon urdolyon kywir. Nyt amgen nor rei agafas iessu grist wynt ymywn dillat neithyawr. y dillat aallwn ni eu kyffelybu y ras da y wneuthur gweithredoed da ac y gyffessu yn vynych. ac y beidyaw aphechu. y rei hynny agaffat dyuot yr neithyawr. ar wled nyt oes drank arnei. Ar lleill nyt ant y gyffes ac ny wnelont da ayrrir ymeith or llewenyd yr boen dragywyd. yny lle y kaffant ovit gymeint ac a geiff y lleill o lewenyd. Yna edrych awnaeth y gwr ar lawnslot ae arganuot yn wylaw yn hidyl. megys pei gwelei geyr y vronn yn varw yr hynn mwyhaf agarawd eiryoet. Ac yna y govynnawd ef y lawnslot avuassei yn kyffessu yr ystalym. ac ynteu adywawt y vot. ac a dywawt idaw gwbyl oe gyflwr ual y kyfaruu ac ef. Ac yna y gwr aovynnawd y lawnslot ar y gret adylyei oe arglwyd dywedut idaw pa vuched hoffaf ganthaw. ae yr honn y buassei yndi or blaen. ae ynteu y llall. Ac ynteu adynghawd vot yn hoffaf ganthaw aros canweith y vuched yr oed yndi. Ac uelly y bwryassant y dyd dan ymdidan yny doeth y nos. ac yna wynt aaethant y vwyta. Agwedy hynny y gysgu. Athrannoeth pan gyuodassant wynt agladassant y corff yn ymyl yr allawr. Agwedy hynny y gwr aaeth y ty y meudwy. ac adyngawd nat aei o wassanaethu duw odyno tra vei vyw. Aphan weles ef lawnslot yn kychwyn ac yn kymryt y arueu. ef aorchymynnawd idaw yn enw duw kymryt y beis rawn avuassei ymdan y gwr da. ae gwisgaw ymdanaw yn lle penyt dros y pechodeu awnathoed. a mi aorchymynnaf heuyt ytt na bwytteych gic ac nat yfych win. ac na bydych heb warandaw offeren or gelly y chaffael. Ar gorchymun hwnnw a gymerth lawnslot yn lle penyt. agwisgaw y beis rawn aoruc. Agwedy ymbarotoi ohon-

Digitized by Google

aw ysgynnu ar y varch aoruc achymryt y gennyat y gan y gwr da. Ac ynteu ae roes idaw trwy adolwyn idaw vot y vedwl ar wneuthur da. ac na bei un wythnos heb vynet y gyffessu rac caffael methel arnaw. Ac ar hynny kychwyn aoruc lawnslot a marchogaeth yny yttoed yn bryt gosper heb gyfaruot neb ryw antur ac ef. Ac ympenn ruthur gwedy hynny ef a gyuaruu ac ef morwyn ieuangk yn marchogaeth palffrei. Ac yr awr y gweles hi lawnslot hi a gyfarchawd gwell idaw. ac aovynnawd idaw y bale yr aei. a lawnslot aattebawd ac adywawt nawydyat ef y bale. namyn ual ym dycko antur. kanys ny wn i pale y gallwn gaffael yr hyn yr wyf yn y geissyaw. Mi a wnn heb hitheu beth ydwyt ti yny geissyaw. ti auuost gynt yn nes idaw noc yr wyt yr awr honn. A unbennes heb ynteu ef arallei vot yn wir adywedy di. Ac awdost di uenegi ymi pale y kaffwyf chweith lletty heno. A unbenn heb hitheu ti ae keffy. ac ef avyd hwyr iawn kynnys keffych ony cherdy a vo kynt. ar hynny y kerdawd lawnslot racdaw. ac y doeth hyt ymywn glynn. Ac yno ef agyuaruu ac ef y marchawc adugassei y arueu yn ymyl y groes pan welsei ef seint greal. A hwnnw adoeth tu ac att lawnslot heb gyuarch gwell idaw. athan dywedut ymogel ragof neu ynteu ydwyt yn varw os mi avyd trech no thi. Ac yna gostwng gwaew ae gyrchu aoruc ae daraw yny dyrr y arueu ympob lle dyeithyr y gorff ef adihenghis. A lawnslot ae trewis ynteu yny vyd y ar y varch yr llawr. ac yny vu agos yr march athorri y vynwgyl. Allyna lawnslot agymerth y march erbyn y ffrwyn. ac ae rwymawd wrth un or prenneu ual y gallei y marchawc pan gyuotei oe lewyc y gaffael. A gwedy daruot idaw hynny efo aaeth oe fford ac a varchockaawd yny vu nos. Ac yna ef aarganuu meudwydy athu ac yno y doeth ef y lettyu. ar meudwy avu lawen wrthaw ac aduc y varch y mywn. a bwyt arodet idaw digawn. Agwedy hynny diarchenu lawnslot aorucpwyt. amynet y vwyta ef ar meudwy awnaethant. Agwedy bwyt rac y vlinet lawnslot aaeth y gysgu hyt y dyd drannoeth.

Digitized by Google

XXXIII.—Trannoeth y bore ef agyfodes lawnslot y vyny ac aaeth y warandaw offeren. A gwedy daruot yr offeren ef agymmerth y arueu ac aesgynnawd ar y vyrch ac aaeth ymeith. drwy gennat y lettywr. A marchogaeth aoruc ynhyt y dyd hwnnw trwy y fforest heb gynnal na fford na llwybyr. amarchogaeth aoruc ef yny vu brytnawn. Ac yna ef adoeth y wastattir ymperued y fforest. achyferbyn ahynny ef awelei gastell cadarn caedic o vur affossyd. acheyr bronn y castell yr yttoed gweirglawd dec. ac o bebylleu yndi amcan y gant o amrauael liwyoed. Acheyr bronn y pebylleu yd oedynt wedy esgynnu ar eu meirch ynghylch chwech chant o varchogyon urdolyon. Ac yd oed y neillparti ac eu harueu ynwynnyon. ar parti arall ac arueu duon ymdanunt heb neb ryw amryuael arueu dieithyr hynny. Achwbyl or rei aoedynt ar arueu duon ymdanunt aoedynt oblegyt y kastell. ar rei ar arueu gwynnyon aoedynt oblegyt y fforest. Ac yna dechreu y twrneimeint aorugant obopparth yn wychyr. ac ynteu aedrychawd arnadunt. y edrych pa bleit aorthrymit. Ac or diwed ef awelei y gwyr gwynnyon yn goruot. ac yndwyn y lle y ar y lleill. ac yr hynny yr yttoedynt mwy nor lleill. Aphanweles lawnslot hynny ef aymchoelawd tu ac att y rei or kastell ar uedyr eu kymorth. Ar kyntaf agyfaruu ac ef dan ostwng y waew ef aekyrchawd. ac ae trewis yny yttoed dan draet y varch yr llawr. Ac yna tynnu cledyf yn vuan aoruc agwasgaru y twrneimyeint y vyny ac y waeret. Ac ar vyrder ef awnaeth onerth arueu gymeint ac nat oed neb or ae gwelei ny bei yn roi y glot idaw efo. Yr hynny ual kynt nyt ytoed ef yngwneuthur kymeint ac y kaffei wyr y castell y maes. Eissyoes yr hynny ual kynt ef avriwawd llawer. ac aladawd ereill. ac or diwed efo adelit o gedernyt ac ae dugassant yr fforest. Ac yna wynt adywedassant lawnslot heb wy. ni awnaetham gymeint ath wneuthur di yngarcharawr. ac or mynny di dy ollwng reit vyd ytt wneuthur yn ewyllys ni. Arglwydi heb ynteu hyt y bo kyuyawn mi ae gwnaf. ac ar hynny roi y gret ac ymeith y kerdawd ef. ae gadaw wynteu yny fforest.

Digitized by Google

Agwedy pellau ywrthunt ef avedylyawd na bu vwyn y digonassei y dyd hwnnw. Ac adywawt na buassei eiryoet mywn brwydyr heb uarnu idaw y vudugolyaeth ar glot namyn y dyd hwnnw. Ac y gyt ahynny na delit eiryoet hyt yna. a doluryaw ynvawr awnaeth yny vedwl. a dywedut bot arnaw o bechodeu mwy noc ar neb. kanys y bechodeu aduc y ganthaw y olwc. achedernyt y gorff. Aphrofadwy yw ry golli ohonafi vynggolwc heb ef. am na elleis edrych ar seint greal pan doeth attaf. Ac ogedernyt vyngkorff profadwy heuyt yw. kanys nymblinwyt eirmoet o ymlad megys ymblinwyt hediw lle ny bei mwy odylwyth. namyn or diwed mi abarwn udunt ffo yn orchyvygedic. Ac yny medylyeu doluryus hynny y marchockaawd ef yny doeth nos arnaw odyvywn glynn mawr dwfyn. A disgynnu yno aoruc ar vedyr llettyu. Athynnu y gyfrwy odyar y varch ae ffrwyn oe benn ae ollwng y bori. Achysgu aoruc ynteu ar y glaswellt. kanys blin alludedic oed. Agwedy kysgu ohonaw ef awelit vot yndyvot y wrth y nef tu ac attaw gwr da. yr hwnn adywawt wrthaw. Tydi wr tlawt o gret paham mor hawd gennyt ti troi dy vedwl tu ath elyn marwawl. Ac onyt ymogely ynda ef ath vwrw yn dyvynder uffern. Aphan gigleu lawnslot hynny ny bu esmwyth ganthaw y parabyl hwnnw. Yr hynny ny deffroes ef dim yny vu dyd drannoeth. Ac yna ef a gyuodes yuyny ac awnaeth arnaw arwyd y groc. ac agyfrwyawd y varch ac ac efo yn kychwyn. ef a welei ar gynnwll y wrthaw ty anckres yn yr hwnn yr oed un or gwraged goreu or byt. Yna ef adywawt diamheu yw bellach heb ef nat oes yny byt dyn dirieidyach no mi. Adilis yw gennyf mae vympechodeu yssyd yn llesteiryaw.

XXXIV.—Tu ac yno ydoeth lawnslot y ty yr anckres. a disgynnu aoruc. a rwymaw y varch wrth brenn. athynnu y daryan y am y vwnwgyl. a diosc y helym adyuot yr capel ymywn. Ac yna ef awelei daruot gwisgaw am yr allawr. ar offeiryat yn wr prud ardal y deulin yn gwediaw duw. A gwedy hynny ef awisgawd ymdanaw. ac adechreuawd yr offeren. or wynuydedic

Digitized by Google

ueir. Aphandaruu yr offeren yr anckres yna drwy ffenestyr uechan aelwis ar lawnslot. kanys yd oed yn tybyeit mae marchawc urdawl anturuus oed. Ac ynteu adoeth attei. ahitheu aovynnawd idaw o pa le yd oed yndyuot. ac y pale yr aei. apha beth yd oed yn y geissyaw. ac ynteu adywawt idi y gyflwr kymeint ungeir. Ac yn y diwed oll ef adywawt idi y antur yn y twrneimant dyd gynt. ar weledigaeth awelsei y nos yn y gwsc. Agwedy daruot idaw dywedut. ef a adolygawd idi y gynghori yn oreu ac y gallei. Ahitheu yna adywawt lawnslot heb hi. ti avuost uarchawc urdawl bydawl ny bu yn y byt dy gyfryw oblegyt anturyeu. ac ochyvaruu athi anturyeu ryued na vit eres y gennyt. Eissyoes am y twrneimant doe mi adywedaf ytti beth aarwydockaa hynny. Agwedy hynny mi adywedaf yt paham y gwnaethpwyt y twrneimant. Y wybot pwy amylhaf a pha vu oreu y varchogyon urdolyon. ae helieser mab brenhin peles. ae argus mab brenhin helyen. Ac yr adnabot y neill dylwyth y wrth y llall. y peris helieser oe dylwyth ef dwyn arueu gwynnyon. Agwedy ymwan onadunt ygyt y rei gwynnyon aoruu kyt bei amlach y rei duon. Ac am hynny mi adywedaf ytti beth aarwydockaa hynny. Duw sulgwynn yny vlwydyn honn ual y gwdost di y bu dwrneimant y rwng marchogyon urdolyon bydawl ar rei nefawl. Y deall ar hynny yw. Y neb aoed ymywn pechawt marwawl ynt y marchogyon bydawl. ar rei nefawl ynt y rei nyt yttoedynt gwedy ymhalogi ymywn pechodeu. Y twrneimant agyffelybir y bererindawt y greal. ar rei agymerassant arnunt vot yn un or keis. ae medwl ganthunt ar y dayar ac ar y byt. yrei hynny aellir eu kyffelybu yr rei a oedynt ar arueu duon ymdanunt. kanys y pechodeu aoed yn eu lliwiaw uelly. Y lleill aoedynt nefolyon ar arueu gwynnyon ymdanunt kystal yw hynny a oedynt diweir aglan o vedwl a gweithret. Eissyoes amlach oedynt y lleill. Agwedy daruot dechreu y twrneimant. kystal yw hynny adereu y twrneimant. ti aedrycheist ar y pechaduryeit. ac ar y gwyrda. Ac yna ef awelit ytti daruot goruot ar y pechaduryeit. Ac yna

Digitized by Google

titheu yr hwnn aoed bechadur aaethost yn nerth udunt. ac y ymlad ar gwyr da. Agwedy ymlad ohonat dalym ti a vlineist. yn gymeint ac na elleist dy gymorth dy hun. Ac yna y gwyr da ath delis di ac ath dugant yr forest. kystal yw hynny ar nos arall pan ymdangosses y greal ytti yd oedut yn gynvlinet ac yn gynvutret ac na elleist edrych arnaw. Ac yna ef aaeth anobeith ynot ual y tybyeist na wnaei duw athi chweith trugared. Ac yna y doethant y meudwyeit ar gwyrda creuydus ac yth dalyassant ac yth dugant ti y fford y vuched ar wirioned yr honn yssyd yn ir yn wastat. ac aellir y cheffelybu yr fforest. ac yth cynghorassant ti arles dy eneit. Aphan doethost di y wrthunt hwy nyt aethost yth henfford ath hen bechodeu. Yr hynny ual kynt pandoeth cof ytti y gweithredoed anotaut y wneuthur. yr kaffael clot y byt hwnn ae valchder. yna ti adristeeist am na allut oruot ar y bleit yr oedut yn y herbyn. or achaws y llidiawd Iessu grist wrthyt titheu. ac y dangosses ytt hynny yn dy gwsc drwy dywed dy vot yn drwc ac yn dlawt o gret. ac aduc ar gof ytt onyt ymogelut yth vwryei yr gwas drwc ynggwaelawt uffern. a llyna vi gwedy dywedut ytti beth aarwydockaei y twrneimant ath vreudwyt rac mynet o honat y ar dy fford yngclot orwac. A gwybyd di or gwney dim yn erbyn dy arglwyd. ef aat ytti vynet or pechawt py gilyd yny elych y waelawt uffern. Yr anckres yna adawawd. ac ynteu adywawt. Arglwydes heb ef tydi ar gwyrda or blaen am dysgassawch yn gymeint a phei syrthywn i mywn pechawt marwawl. ef adylyit vyngherydu yn vwy noc arall. Duw ath dihango heb hitheu rac syrthyaw mywn pechawt. Y fforest honn heb hi nyt kynamlet kyuannet yndi ac yr oed reit. Ac am hynny kyngor oed gennyfi ytti. ony chefeist vwyt kymryt o honat y ryw alussen ac adanuonawd duw ymi. myn vyngcret heb ynteu ny phrofeis dim bwyt na hediw na doe. Ac yna yr offeiryat aduc idaw ryw ansawd ac aoed ganthunt. Agwedy hynny ef agychwynnawd drwy gannyat yr anckres ar offeiryat. ac a varchocaawd yn hyt y dyd. Ar nos honno ef agysgawd ar warthaf creic. heb neb

Digitized by Google

ryw gedymdeithyas idaw onyt duw. a thrannoeth panweles y dyd ef a ymgroessawd ac adoeth att y varch. ac ae kyfrwyawd ac aesgynnawd arnaw. ac avarchockaawd y wastattir rwng dwy greic. ac adoeth hyt yr auon aelwit marsois. yr honn aoed yn rannu y fforest yn dwyrann. Ac yna ef avedylyawd nat oed fford idaw amgen onyt ymchoelei drachefyn no mynet drwy yr auon. Ac yna dodi y obeith yn duw aoruc. Aphan yttoed yn medylyaw uelly. ef awelei yndyuot or dwfyr marchawc urdawl du mawr kynduet a mwaren. Ac argeuyn march kymeint kyn duet ac y perthynei wrth hynny. Aphan weles ef lawnslot ef aostyngawd y baladyr tu ac attaw heb dywedut un geir. ac adrewis march lawnslot yny vyd yn varw. Agwedy daruot idaw llad y march. ef aaeth ymeith heb welet dim ywrthaw yn enkyt bychan. Aphan weles ynteu daruot llad y varch ny lidiawd yr hynny. kanys duw agatuyd aoed yn mynnu hynny. Ac ynglann yr auon y goruc ef ymdiarchenu oe arueu a gorffowys. ac aros kanhorthwy duw arnaw. kanys ny welei ef fford y gallei diangk oe eneit. kanys yr oed yn rwymedic o bedeirfford. yn gyntaf o fforestyd diffeith arneilltu. adwy greic aoed opobparth idaw. ac avon dovyn beriglus aoed yno. Ac yno y trigyawd yn gwediaw duw rac profedigaetheu kythreul. ac ar gyfrann ae eneit lewenyd teyrnas nef. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am lawnslot. Ac yn trossi ar walchmei.

XXXV.—Er ymdidan yssyd yntraethu pan gychwynnawd gwalchmei ywrth y gedymdeithyon marchogaeth ohonaw lawer diwarnawt heb gyuaruot ac ef neb ryw antur. ac uelly hevyt yr oedynt y gedymdeithyon. kanys nyt oed ynkyfaruot ac wynt decuet rann anotteynt y gyfaruot ac wynt. or achaws yr oed anhyfrydach ganthunt eu pererindawt. Gwalchmei eissyoes a varchockawd or sulgwynn hyt wyl ueir uadlen heb gaffael chweith antur a vei wiw eu menegi. yr hynn avu ryued ganthaw. kanys ympererindawt y greal y tebygynt vot mwy o anturyeu nogyt amser arall. a diwarnawt yd oed yn marchogaeth ehun. ef agyfaruu ac ef

Digitized by Google

gedymdeith idaw yr hwnn aelwit ector or corsyd yn marchogaeth ehunan. Ac yna ymlawenhau aorugant pawp ohonunt wrth y gilyd. ac amouyn am eu kyflyryeu. Ac ector adywawt y vot ef yn iach ac yn llawen. dyeithyr ny chyfaruuassei ac ef chweith antur auei hoff ganthaw. Myn vyngcret heb y gwalchwei uelly yd oed ymbryt inheu gwynaw wrthyt titheu. kanys myn duw heb ef yr pan gychwynneis i o gamalot. ny chyfaruu a mi chweith antur. ac ny wnn I paham. kanys nyt yr diffic kerdet gwledyd pell afforestyd diffeith na chyfaruydynt. ami arodaf vyngkret ytt megys ym kedymdeith gerdet ohonaf i vy hunan. allad ohonaf dec kymeint bop un arneb auei heb gael un antur. Ac yna ector aymgroeses. Ac yna gwalchmei aovynnawd y ector agyfarvuassei ac ef yr un oe gedymdeithyon yr pan gychwynnassei. Kyfaruu heb ynteu yr yspymtheng niwarnawt mwy noc ugein bop un bop eilwers. ac nyt oed yr un ohonunt ny bei yn kwynaw nat yttoed yn caffael chweith antur. Aglyweist ditheu heb ef y wrth lawnslot un chwedyl. Nysgwyr duw ymi y glybot y wrthaw mwy no phei elei yr daear. ac am hynny y mae arnafi ovyn y vot ef yn ryw le yngharchar. Aglyweist ditheu dim y wrth beredur. na galaath. na bwrt. Ny wyrduw ym glybot y chweith ywrthunt. Y pedwar hynny yssyd heb wybot o neb dim y wrthunt. Gwedy eu bot uelly yn hir yn ymdidan. ector adywawt. Gwalchmei heb ef ti a varchockeist dalym dy hun. Aminneu heuyt awneuthum uelly. marchocawn bellach an deu y edrych agyfarffo ani dim. Awn ninneu heb y gwalchmei. A duw an danuono y le y kaffom ryw damwein y rangho yn bod. Ector yna adywawt. arglwyd heb ef fford y kerdeis I nyt oes yno un antur nar fford y doethost ditheu heuyt. Ac am hynny keissywn fford arall auo amgenach. Da yw gennyfi hynny heb y gwalchmei. Ac yna kerdet a orugant hwy yfford draws aoed yny glynn lle yd ymgyfaruuant. Ac uelly marchogaeth aorugant ar un tu drwy y fforestyd wyth niwarnawt heb gael neb ryw antur. adiwarnawt ydoedynt yn marchogaeth heb gyu-

Digitized by Google

aruot ac wynt na gwr na gwreic. Ar nos honno wynt adoethant rwng deu vynyd. Ac yno wynt a welsant hen gapel heb neb yndaw. A gwedy eu dyuot yno wynt adisgynnassant. ac aadawssant eu gwaewyr ae taryaneu allan. ac adynnassant y ffrwyneu o benneu eu meirch. ac adoethant yr capel. ac awediassant duw ual y dylyei gristonogyon da y wneuthur. Agwedy daruot udunt dywedut eu gwedieu wynt aaethant y eisted. ac y ymdidan am amryuaelyon betheu. Am vwyt eissyoes ny thygyei udunt ymdidan. kanys nyt oed yno dim. a thywyll iawn arnunt. Agwedy eu bot ruthur or nos yngwylyaw velly. wynt agysgassant. Ac yna ef a welei bop un ohonunt vreudwyt ac ny dylyir ebryuygu yn eu dywedut. Nyt amgen gwalchmei awelei y vot mywn gweirglawd dec ynllawn o wellt glas a blodeu. Ac yny weirglawd honno yr oed rastyl a chant adec adeugeint o deirw yn pori ohonei. Ac nyt oed yr un o hynny o deirw namyn yn vrithyon. aphob un ohonunt yn valch anghyfartal. namyn tri. Ar rei hynny nyt oed arnunt neb ryw vann or byt. ac yn rwym herwyd eu gwdyfeu. Ac yno yd oed y teirw yn dywedut pob un wrth y gilyd. ffown odyma y geissyaw porua avo gwell. Ac yna y teirw agerdassant arhyt y llannerch ac nyt ar hyt y weirglawd. Ac wynt a trigyassant yn hir. Aphan doethant wy drachefyn yd oed lawer ohonunt yn eissyeu. Ar rei adoethant drachefyn yr oedynt yn gynvlinet ac yn gulet. ac o vreid y gellynt sefyll ymywn. Ac or tritheirw adywedynt eu bot heb vann arnadunt y doeth un drachevyn. ar deu a drigyawd. Agwedy eu dyuot hyt y rastyl. am na chawssant vwyt wynt arodassant anuat lef. a gwedy hynny a ymwahanassant rei hwnt yma. Ac uelly y gweles gwalchmei. Ector ynteu aweles breudwyt arall nyt amgen. ef ae gwelei ef a lawnslot y vot yn disgynnu o syarret. ac yn esgynnu ar gevyn deu varch uawr. aphob un yndywedut wrth y gilyd. Awn y geissyaw yr hynn nyskaffwn. Ac yna lawnslot agerdawd yny bwryawd gwr prud ef yr llawr yar y varch. ae yspeilyaw oe dillat. Agwedy yspeilyaw ynteu awisgawd ymdanaw dillat ereill.

Digitized by Google

XXXVI.—Ac yna lawnslot aesgynnawd ar gevyn assen. ac a varchocaawd honno yny doeth y ymyl ffynnawn deckaf or a welsei eiryoet. Ac yna dissgynnu awnaeth ar vedyr yuet diawt or dwfyr. Aphan yttoed ef yn mynnu yuet y dwfyr. y ffynnawn agilyawd yn gynbellet y wrthaw ac na allei ef gaffael dim ohonei. Aphan weles ef na allei gael dim or dwfyr. ef a ymchoelawd trachevyn yr lle ydoed gynt. Ac odyna ector awelei yuot yn kerdet y vyny ac y waeret yny doeth y ty gwr kyuoethawc yr hwnn aoed yn kynnal neithyawr. Ac yna ef aerchis yn y drws agori. ar gwrda ehun adoeth yr drws attaw. ac a dywawt wrthaw. Tydi uarchawc urdawl heb ef keis di letty yn lle arall amgen no hwnn. Canys ny daw yma neb y letyu avo kyfywch ganthaw y uarchogaeth ae valchder athydi. Ac ynteu yna aymchoelawd drachefyn hyt y syarret or lle y kychwynassei ohonaw. Am y breudwyt hwnn y kymmerth ector anesmwythdra mawr arnaw. Ac yna deffroi aoruc athroi or ystlys py gilyd. A gwalchmei yna aoed wedy deffroi o achaws y vreudwyt ynteu. ac ef aglywei ector wedy ymdroi. agovyn aoruc ef y ector a yttoed ef ynkysgu. Nac yttwyf arglwyd heb ynteu. kanys mi a deffroeis yr awr honn o achaws breudwyt aweleis. Myn vyngret heb y gwalchmei velly y daruu y minneu. ac wyntwy yn ymdidan uelly wynt awelynt yndyuot y mywn drwy drws y capel llaw y gyt ac aberthynei hyt ympenn yr elin. Ac yngkroc wrth y llaw yr oed ffrwyn yr honn nyt oed na thec nac odidawc. ac yn y llaw ydoed tors o gwyr yn llosgi. ac yntaraw hebdunt hyt yr allawr. Ac yna y llaw adifflannawd ar golenni hyt na wydyat yr un onadunt wy pale y difflannawd. Ac yna wynt aglywynt lef yn dywedut wrthunt chwchwi varchogyon urdolyon llawn o dryccret. tlawd o obeith. ytri pheth awelsawch chwi yr awr honn chwi affaelassawch arnadunt. or achaws nat oes y chwi rann o anturyeu seint greal. Aphan glywssant wy hynny symlu awnaeth arnunt yn uawr. Ac yna gwalchmei aovynnawd y ector. a glywsei ef y parabyl adywedyssit wrthunt. kiglef heb ynteu. ac nyз dyelleis i ef. Myn

Digitized by Google

duw heb y gwalchmei goreu kynghor oed yni am aglywssam ac awelsam heno mynet y geissyaw ryw wr crevydus a wypei deall ynn yn breudwytyon. Ac uelly y buant wy yny vu dyd yn ymdidan. Agwedy dyuot y dyd arnunt wynt aaethant att eu meirch. ac arodassant eu kyfrwyeu arnunt. agwedy gwisgaw eu harueu wynt agerdassant ymeith. agwedy eu dyuot yr dyffyryn wynt a gyfaruuant a gwreang ieuanc ar gevyn hacknei. Ac yna y gwreang a gyfarchawd gwell udunt. ac wynteu idaw ef. Ac yna gwalchmei adywawt. A unbenn heb ef awdost di venegi yni pale y bo chweith kyfanned y veudwy. Gwnn heb y gwreang. Ac yna troi y lwybyr bychan awnaethant ar y llaw deheu udunt. y llwybyr hwnn heb ef ach duc chwi hyt yn ty meudwy yr hwnn yssyd mywn mynyd bychan. Eissyoes bit dieu y chwi na ellwch vynet yno ar awch meirch. Bendith duw ytt heb y gwalchmei. Ac yna y gwas a drosses oe fford. ac wynteu a gerdassant y llwybyr. a marchogaeth awnaeth yny doethant yr mynyd yn y lle y bu reit udunt disgynnu ac yno ffrwynglymu eu meirch aorugant. Acherdet y gevynfford aorugant wynteu yny doethant hyt yn ty y meudwy yr hwnn aelwit naciens. A gwybydwch chwi mae tlawt iawn oed y gudugyl ef. a bychan oed y gapel. Ac ymywn gard y gwelynt gwr prud yn kynnullaw banadyl oe bwyta. megys y neb ny bwytayssei amgen vwyt yr ystalym. Ac yr awr y gweles ef wyntwy. ef a uedylyawd mae marchogyon anturyus oedynt oblegyt y greal ae bererindawt. ac yna ef adoeth yn eu herbyn ac ae grassawawd. Ac wynteu yn uvyd agyfarchassant well idaw ynteu. Yna ef aovynnawd udunt wy pa antur ae dugassei wynt yno. Arglwyd heb y gwalchmei chwant oed arnam gael ymdidan athi. ac y geissyaw kynghor y gennyt am y pedruster yssyd arnam. Aphan gigleu ef walchmei yn dywedut uelly ef auedylyawd eu bot yn wyr kymen ar beth bydawl. Ac yna ef adywawt. arglwydi heb ef ny phallafi y chwi o dim or avetrwyfi y tu achynghor. Ac yna ef ae kymerth wy ygyt ac ef ac adoethant yr capel. ac aovynnawd udunt pa rei oedynt. Ac wynteu

Digitized by Google

adywedassant eu henweu ual yr adnabu ef bob un onadunt. Ac yna ef aovynnawd udunt pa gynghor yd oedynt yny geissyaw. Arglwyd heb y gwalchmei mi ae dywedaf ytt. Ac yna y dywawt ef y gyfrangk ae vreudwyt ual y clywssawch or blaen. Agwedy hynny ector adywawt y vreudwyt ynteu. ac aadologassant yr gwr da dywedut udunt beth aarwydockaei hynny.

XXXVII.—A unben heb ymeudwy wrth walchmei. yny weirglawd aweleist di yroed rastyl. athrwy y rastyl awelut ti yno y deallwn ni y vort gronn. kanys megys yr oed bresseb y bop tarw yn yr rastyl ar neill tu. velly yr oed yny vort gronn eistedua y bop un ar neilltu or milwyr. Drwy y weirglawd y gallwn ni deall uvuddawt ac anmyned yn yr rei y gossodet y vort. Aphob marchawc urdawl or agymerit ynghedymdeithyas y vort gronn. ef avydei reit idaw rodi y lw ar vot yn uvyd ac yn anmynedus. yn yr rastyl aweleist di yd oedynt dec adeugeint achant odeirw beilch amrafael eu lliwoed. drwy y teirw y gelly di deall y milwyr ar kedymdeithyon or vort gronn. y rei aoedynt wedy ymrauaelyaw eu lliwoed drwy eu balchder ae pechodeu. y kedymdeithyon hynny aoedynt yn vrithyon. kanys nyt eyngheu eu pechodeu ae balchder ymywn yndunt. ony bei ymdangos heuyt allan arnadunt yn glyttyeu ual ydoed y teirw. a thri ohonunt aoedynt heb vann arnunt. adeu ohonunt aoedynt burwynnyon. Ar trydyd aoed ac un mann arnaw. y deu deirw burwynnyon agyffelybir y alaath apheredur. y rei yssyd degach nor lleill oll. kanys yd oedynt yn gyflawn o bop camp da heb chweith halogrwyd pechawt arnadunt. Y trydyd aoed ac un mann arnaw hwnnw yw bwrt yr hwnn gynt agolles y vorwyndawt ae wyrdawt o achaws gweithret knawdawl awnaeth unweith a gwreic. A gwedy hynny ef aymgadwawd yn y diweirdeb yn gystal ac y kafas gan duw vadeueint. y tri hynny aoedynt gwedy eu rwymaw erbyn eu mynygleu. kystal yw hynny ae bot yll tri yn rwymedic yn uvyddawt yn gymeint ac na allei valchder dyuot y ryngthunt. Ac yna y teirw adywedassant. Awn y geissyaw porua auo gwell no honn. kystal yw

Digitized by Google

hynny a milwyr y vort gronn adywedassant. awn y geissyaw seint greal yn y lle y mae y bwyt ysprydawl yr hwnn yd envyn yr yspryt glan ef yr neb ageissyo o ras eisted ar tabyl seint greal. Yna wynt a gychwynnassant or llys ar hyt y glynn. Ac nyt ar hyt y weirglawd. Pan aethant or llys. nyt aethant wy y gyffessu megys y dylyei y neb a vynnei vynet y wassanaeth iessu grist. ac nyt aethant y uvuddawt ac anmyned yr honn a gyffelybwyt yr weirglawd. namyn mynet awnaethant ar hyt y glynneu ar fforestyd dyrys o vieri. adrein. y rei a ellir eu kyffelybu y uffern. Aphandoethant y teirw drachefyn ny doethant yn gwbyl. ar rei a doeth aoedynt ueirw o newyn ac yngulet ac na allynt sefyll ar eu traet. kystal yw hynny ac na deuant y kedymdeithyon o gwbyl adref vyth. kanys rei ohonunt a lad y gilyd. ar rei adel adref ny wyrduw udunt allel sefyll ar eu traet rac eu culet. nyt angen noc rac eu pechodeu yny syrthyont ymperued uffern. Or tri heb uann arnunt y tric deu. ac y daw un drachefyn. kystal yw hynny ac or tri marchawc urdawl da. y daw un yr llys. a gwybydwch chwi nat yr chwant y bwyt or rastyl y daw ef. namyn yr menegi ysprydolder y bwyt nefawl agollassawch chwi o achaws awch pechodeu. y deu ereill ny deuant. kanys yr awr yr archwaedont wy yr yspryd-awl vwyt. nyt ymadawant ac ef vyth. Y geiryeu diwethaf och breudwyt. nyt ysponaf ywch dim ohonunt. kanys agatuyd ny bydei hoff gennwch. Arglwyd heb y gwalchmei duw adalo ytt am awnaethost.

XXXVIII.—Ac yna y gwrda adywawt ac a amdidanawd ac ector. Ef a welit ytti heb ef dy vot ti alawnslot yn disgynnu o syarret. honno aellir y chyffelybu y veistrolyaeth neu ynteu y arglwydiaeth. Y syarret honno aellir y chyffelybu yr anryded yr oedit yn y wneuthur y chwi yn y vort gronn. Aphan gychwynnassawch chwi odyno. chwi agychwynnassawch ac aesgynnassawch ar gefyn deu varch vawr. nyt amgen oed y rei hynny no bost a balchder. y rei hynny yssyd veirch y diawl. Ac yna chwi adywedassawch. awn y geissyaw yr hynn nyskaffwn. Nyt amgen nor greal. a

Digitized by Google

dirgeledigaetheu duw. y rei ny vynnit y dangos y chwi kanys nyt oedewch deilwng. A gwedy ymwahanu o honawch chwi pob un ywrth y gilyd. lawnslot a varchochaawd hyt pan syrthyawd y ar y varch. ac aedewis y daryan. kystal yw hynny ac ef aedewis valchder. ac a wdost di pwy ae bwryawd ef. iessu grist oed y gwr hwnnw. ef a uvydhaawd lawnslot. ac ae hyspeilyawd oe dillat. nyt amgen noc oe bechodeu aoed megys gwisc ymdanaw. Ac yna ef arodes gwisc ymdanaw drachefyn. o dost brwyn honno y beis rawn yssyd am lawnslot. odyna ef a dodet ar geuyn assen. Nyt amgen noc ufuddawt. arwyd yw kyffelybu yr assen y ufuddawt kanys iessu grist ae marchockaawd y gaerussalem. A bit dieu ytti efo aallei gael y meirch goreu pei asmynnei. eissyoes ny mynnawd ef onyt yr assen hyt bei hackraf hi or aniueilyeit. a hynny awnaeth ef yr dangos exawmpyl uvyddawt y dlawt ac y gyuoethawc. ar assen a weleist di lawnslot yny marchogaeth yny doeth hyt ynglann y ffynnawn deckaf or awelsei eiryoet. Ac yno ef adisgynnawd lawnslot ac ageissyawd yuet diot or dwfyr. Ar dwfyr yna affoes y wrthaw y waelawt y dayar. Aphan weles ef hynny ef a ymchoelawd drachevyn. y ffynnawn a weleist di agyffelybwn ni y seint greal. yr hwnn y mae dwfyr yndi. Aphan doeth lawnslot geyr bronn seint greal ef a ffaelawd ar y welet. Eissyoes ny ffaela ef o gwbyl am awnaeth ynteu ef ageiff penyt digawn y orthrymet. kanys ef avyd pedwar diwarnawt ardec heb welet heb glybot. heb vwyta heb yuet heb allel chwyfu na throet na llaw. Ac yna ef adaw oe synhwyr ac adyweit beth or aweles. Ac odyna ef aymchoel drachefyn parth ae syarret. kystal yw hynny athu ar llys. A thitheu yr hwnn aoed yn marchogaeth y march mawr ympob lle y vyny ac y waeret a deuy hyt yn llys brenhin peleur yny lle y mae y neithyawr ar wled uawr yr marchogyon urdolyon da. Ac yno gwedy y delych ti a erchy agori. Ac yna y daw attat gwr balch. ac yd eirch ytt vynet y geissyaw lletty y le arall. kanys ny daw yma neb avo kyfuch y varchogyat athi. kystal yw hynny ac nat a yno neb a vo kyn valchet athi. nac avo

Digitized by Google

kyn amlet y bechodeu athi. Aphan welych ditheu hynny ti aymchoely y lys arthur heb wneuthur dim oth hynt. Allyna vi wedy dywedut ytt beth aarwydockaa dy vreudwyt. bellach mi adywedaf ytt beth asynhwyra y llaw aweleist di. Y llaw aweleist di aellir y chyffelybu y alussen. nyt amgen no bot yn chwannawc y roi da y dlodyon ath law dy hunan. y gyt a hynny ti a wdost mae ar ffrwyn yd ettelir y march rac mynet ar y ewyllys ehunan. velly y dylyem ninheu ymogelut ac ymattal rac mynet ynggweithredoed wrth ewyllys y corff. Y tors kwyr aoed yn llosgi ac yn goleuhau aellir y gyffelybu y eiryeu yr euengyl yssyd ar hyt y byt yngoleuhau pob cristawn da. A gwedy mynet y llaw ymeith ef adywawt llef wrthywch. ar y tripheth hynn y ffaelassawch arnunt. kystal yw hynny a ffaelaw ohonawch ar uot dim or alussen ynoch nac y chweith or ymattal am wneuthur y drwc. na bot dim or euengyl nac oe oleuni. na dysgedigaethyeu iessu grist ynoch. or achaws ydyttywch chwi yn colli anturyeu y greal. llyna vi heb y gwrda gwedy eglurhau y chwi ych breudwydyon. asynhwyryau y llaw. Gwir adywedy heb y gwalchmei. duw adalo ytt. ac yr duw dywet ynn etto. Paham na chyferuyd anyni yr awr honn o anturyeu gymeint ac anottaei gynno hynn. Mi ae dywedaf ytt heb y gwrda. yr anturyeu yssyd yn dyuot yr awr honn. ac adeuant. y rei hynny yssyd yn ymdangos o achaws y greal. ac arwydyon seint greal nyt ymdangossant vyth y bechadur. a chwitheu mi adebygaf nach rydhawyt och pechodeu. or achaws nat oes un antur yn ymdangos ywch. Arglwyd heb y gwalchmei herwyd adywedy di kanys yttym ni mywn pechawt marwawl yn over y llauurywn ninheu mwy yny bererindawt honn. Yn lle gwir heb y gwr mae gwir adywedy. Gan hynny heb yr ector goreu oed yni ymchoelut drachefyn y lys arthur. Myn llaw duw heb y meudwy velly y kynghorwn inheu y chwi. kanys mi a warantaf y chwi y rei yssyd mywn pechawt marwawl o honawch nat ennill ef dim yny bererindawt honn onyt aennillo o gewilyd. Ac yr awr y dywawt ef hynny wynt aaethant ymeith.

Digitized by Google

Agwedy pellau ohonunt ef aalwawd y gwr da ar walchmei. ac adywawt. Gwalchmei heb ef y mae talym yr pan yth wnaethpwyt ti yn varchawc urdawl. ac yr hynny hyt hediw ny elleist di wneuthur hayach o wassanaeth yr dy greawdyr. Ac ydwyt bellach yn hen brenn heb na deil na ffrwyth arnat. Ac am hynny medylya weithyon am rodi y prenn ar risc y iessu grist. kanys rodeist y blodeu yr kythreul. Arglwyd heb y gwalchmei pei caffwn I o ennyt ymdidan athydi. mi a ymdidanwn. Am kedymdeith yssyd yn marchogaeth yn ffest. Ac am hynny reit yw ym vynet yn y ol. A gwybyd di yn lle gwir pan gaffwyfi gyflwr gyntaf y dyuot. mi adeuaf y ymdidan athi. Ac yna ymwahanu aorugant. a gwalchmei ac ector a varchocayssant yny vu nos. Ac yna wynt adoethant y ty fforestwr yr hwnn a vu lawen wrthunt. Trannoeth y bore wynt agerdassant ymeith. ac wynt a vuant ynkerdet uelly heb gael neb ryw antur. Yma y mae yr ymdidan yntewi amdanunt wy ac yn traethu y wrth bwrt.

XXXIX.—Gwedy kychwyn bwrt y wrth y gedymdeithyon. ac y wrth lawnslot. ef avarchockaawd hyt am bryt nawn. Ac yna ef agyfaruu ac ef gwr prud adillat crevydus ymdanaw ac yn marchogaeth assen. heb neb y gyt ac ef. Ac yna bwrt agyfarchawd gwell idaw. Ar gwr mwyn ae hattebawd yn oreu ac y gallei. Ac aadnabu mae marchawc urdawl anturyus oed. Ac yna bwrt aovynnawd idaw o pale yroed yn dyuot uelly ehun. Yd wyf heb ynteu yn dyuot o edrych gwas yssyd ym yn glaf yny fforest yma. Athitheu pa un ytwyt. marchawc urdawl heb ynteu wyfi o lys arthur. ac un or keis ar seint greal. Mynduw heb ynteu ymae llawer or keis yn llavuryaw yn ouer. kanys pechaduryeit ynt heb vynnu mynet y gyffes nac y ediuaru arnadunt. agwybyd di yn lle gwir na wyl neb seint greal ony byd drwy y porth aelwir kyffes. Myn duw heb y bwrt mi adebygaf hynny. Ae offeiryat wyt ti heb y bwrt. Ie arglwyd myn duw heb ynteu. Gan hynny heb y bwrt. mi archaf ytt yr duw vynghynghori yn oreu ac y gellych ar les eneit achorff. Myn duw heb y

Digitized by Google

gwr yd wyt yn erchi ym beth mawr. Aphei mỳui ath neckaei di ohynny ti aallut vy holi I geyr bronn duw dyd brawt. Ac am hynny mi ath gynghoraf yn oreu ac y gallwyf. Ac yna govyn idaw pwy oed y henw awnaeth. Ac ynteu adywawt mae bwrt agawns oed y henw. A mab brenin bort wyf achevynderw y lawnslot. Pan gigleu y gwr da y geiryeu hynny ef adywawt. yn wir heb ef. bwrt os gwir adyweit yr euengyl amdanat ti. ti a vydy varchawc urdawl da. kanys Iessu grist adywawt y prenn da awna ffrwyth da. Tydi yw y ffrwyth adoeth or prenn da. wrth hynny titheu adylyut uot ynda herwyd yr euengyl. kanys dy dat ti a vu un or gwỳr goreu or avu vrenhin eiryoet. kanys trugarawc ac uvyd oed. Ar vrenhines aoed vam y titheu a vu gystal gwreic ar oreu or holl vyt. y deudyn hynny avu un prenn drwy rwym priodas. titheu yssyd ffrwyth. ac am hynny ti adylyut vot yn da. Arglwyd heb y bwrt llawer mab o vam drwc ac o tat drwc avu da. Ac am hynny ef awelir y mi nat wrth y uam nar tat y kerda y mab. namyn wrth y gallon avo yndaw. Ac uelly dan ymdidan y kerdassant yny doethant hyt yn ymyl ty y meudwy. Ar meudwy aerchis idaw disgynnu athrigyaw y nos honno y gyt ac ef. Athrannoeth ef arodei idaw y kynghor goreu or awypei. Ac yna bwrt adisgynnawd. ac ysgolheic or ty agymerth y varch ac ae kyweiryawd. Ac odyna ae kymhorthes ynteu o diosc y arueu. ac odyna y gwr da aerchis y vwrt dyuot y warandaw gosper. Ac uelly y goruc ynteu. Agwedy gosper wynt aaethant y vwyta bara a dwfyr. Ar meudwy adywawt mae ar yr ryw vwyt hwnnw y dylyynt y marchogyon urdolyon da porthi eu kyrff. ac nyt ar velysvwyt afferineu y rei abarant yr gwr ar wreic bechu yn odinebus ac yn varwawl. ac myn duw heb ef pei tebygwn I wneuthur ohonat ti yrofi beth. mi ae harchwn ytt. A bwrt aovynnawd idaw beth oed hynny. Myn duw heb ynteu peth awellao yn vawr ar dy eneit. ac a gynhalyo yn dadigawn dy gorff. Minheu ae gwnaf yn llawen heb y bwrt. Ie heb y gwr minneu aorchymynnaf ytti na bwyteych amgen vwyt no hwnn yny vych ar dabyl

Digitized by Google

y seint greal. Beth awdost ditheu heb y bwrt a vydaf inheu vyth yno. Gwnn heb ynteu y bydy di. ti a deu ereill o gedymdeithyon y vort gronn. Gan hynny heb y bwrt minheu arodaf vyngkret megys marchawc urdawl kywir. na bwytaf amgen vwyt yny vwyf yno. Ac yno y bu ef y nos honno. Athrannoeth y bore ef adoeth y meudwy attaw. ac arodes peis wenn idaw. Honn heb ef a awisgy di yn lle crys. ac yn enw penyt. Ac ynteu yna ae kymerth. ac ae gwisgawd ymdanaw. ac odyna y arueu. ac adoeth yr capel. ac a gyffessawd kwbyl oe bechodeu. Ac ef ae kafas y meudwy ef yngystal y uuched ac yd oed ryued ganthaw. ac na buassei idaw eiryoet achaws agwreic. namyn unweith yngkat helian wynn. or achaws y dylyei diolwch oe arglwyd. A gwedy daruot idaw efo gyffessu. a chymryt y benyt. ef aadolygawd yr gwrda yr duw roi idaw gorff y arglwyd. Ar meudwy a erchis idaw aros yny darffei offeren. ac ynteu adywawt y gwnaei yn llawen. Ac yna yd aethant yr offeren. Aphan darfu yr offeren ef adoeth y meudwy ac arodes idaw korff y arglwyd. Ac adywawt weldyna di bellach yn well dy arueu noc yd oedut gynt. Amogel ditheu rac llidiaw arglwyd kystal ac yssyd y gyt athi. Ny bo ymi o einyoes hynny heb y bwrt. Ac yna kymryt y arueu aoruc. achychwyn ymeith drwy gennyat y meudwy. A marchogaeth aoruc ef yny vu bryt gosper. Ac yna ef aedrychawd yn yr awyr. ac aweles ederyn mawr yn ehedec uch benn henbrenn sych heb na deil na ffrwyth arnaw. Agwedy daruot idaw ehedec talym mawr. yna ef adisgynnawd ar y prenn yn y lle yd oed adar idaw ehun. dyeithyr na wydyat ef pa veint. Eissyoes yd oedynt wy oll yn veirw. Aphan weles ef wyntwy yn veirw. yna ef ae trewis ehun ae yluin y dan benn y vronn. yny doeth y waet yn ffrydyeu allan. ac am eu penneu wynteu. Ac yr awr y syrthyawd y gwaet gwressawc arnunt wy. wynt agyfodassant yn vyw ar hen ederyn auu uarw. A ryued vu gan bort hynny kanys ef awydyat vot yn hynny synhwyr mawr. Ac aarhoes yno dalym y edrych agyfodei yr hen ederyn yn vyw. Eissyoes. ouer oed

Digitized by Google

idaw hynny kanys marw oed. Yna bwrt agerdawd y fford yny uu bryt gosper hwyr. ac yna ef adoeth y ymyl twr mawr. Agwedy dyuot hyt y porth ef aerchis lletty. ac ef ae kafas yn llawen ac. aducpwyt y ystauell oe diarchenu. ac odyna efe adoethpwyt ac ef yr neuad yn y lle yd oed yr unbennes bioed y lletty yn wreic aduwyndec. eissyoes tlawd oed hi o dillat. Ac yr awr y gweles hi bwrt yn dyuot y mywn. hi agyfodes y vyny ar hynt yny erbyn. ac ae grassawawd. ac ynteu agyfarchawd gwell idi. ac yna hi ae kymerth ef. ac ae dodes y eisted yny hymyl. Aphan vu barawt bwyt ef a hi aaethant y eisted ygyt. agwassanaethu arnunt aorugant ysgwieryeit or ty yn didlawt. Aphan weles ynteu hynny. ef avedylyawd na bwytaei ef dim or kic. Ac yna ef aerchis y un or gwassanaethwyr dwyn idaw dwfyr. Ac ynteu agymerth tri thameit or bara drwy y dwfyr. Aphan weles ywreicda hynny. hi aovynnawd ae oblegyt na ranghei vod idaw eu bwyt hwy nas kymerei. Nac ef y rof a duw heb ynteu ny bwytafi amgen vwyt heno. ahitheu yna ny lyuassawd eiryol arnaw mwy. Agwedy daruot udunt hwy vwyta. wynt aaethant y eisted ymywn ffenestyr wydrin hi a bwrt. Aphan yttoedynt wy uelly nachaf was ieuanc yn dyuot ymywn. ac yn dywedut. Arglwydes heb ef nyt da dy gyflwr. kanys dy chwaer aduc tri chastell y arnat. ac aberthynei wrthunt. ac aerchis ymi dywedut wrthyt ti nat adawei ytt un droetued o dir. ony bydy barawt erbyn auory am awr brim. a marchawc urdawl y gyt athi a ymlado drossot yn erbyn briadan du y arglwyd hi. Pan gigleu yr arglwydes hynny ny bu lawen iawn a thristau yn uawr aoruc. Pan weles bwrt hynny. ef aovynnawd idi paham yr oedit yn y threissyaw. Arglwyd heb hitheu mi ae dywedaf ytt. Gynt yr oed yma vrenhin aelwit amans. ac agarei chwaer ym yssyd hyn no myui. ac efo bioed kwbl or wlat honn. a mwy heuyt. an tat ni oed ef. Eissyoes efo aroes kwbyl or kyuoeth ynyllaw hi. a hitheu aduc deuodeu drwc yr wlat. ac awnaeth llawer o weithredoed odieithyr kyfyawnder ual y kolles gwbyl oe wyr ac oe tir. Aphan y gweles y

Digitized by Google

brenhin hi yn llafuryaw yn drwc. ef ae gyrrawd hi or wlat. ac am roes inhe yn vedyannus ar a oed ar y helw. Ac yr awr y bu varw ef. hitheu adechreuawd ryuelu arnafi a dwyn y gennyf y gwyr ar tir. ac yn dywedut na at ymi dim ony byd ryuel drossof auory. a marchawc avynno amdiffyn vyn dylyet drossof yn erbyn briadan. Paryw dyn yw y briadan heb y bwrt. Un or gwyr kadarnaf heb hitheu oc yssyd yny gwledyd hynn. Anuon ditheu heb y bwrt att dy chwaer y dywedut idi. vot y gyt athi varchawc urdawl a ymlado drossot avory. Aphan gigleu yr arglwydes hynny ny bu vychan y llewenyd hi. Ac yna hi a anuones kennat att y chwaer y dywedut idi vot ygyt a hi varchawc a amdiffynno y chyfyawnder auory. Yna bwrt a gyfodes y gysgu. ar arglwydes ae thylwyth ae hebryngassant y ystafell dec agwely advwyn yndi. Aphan weles ynteu y gwely yn gyndecket ac ydoed. ef aerchis y bawp vynet ymeith. Ac wynteu aaethant kanys da oed ganthaw ef hynny. Ac ynteu yna aorwedawd ar y llawr calet ebenn ar gist. Ac uelly gwediaw duw aoruc ar vot yn ganhorthwy idaw yn y vrwydyr drannoeth. Ac yna syrthyaw kysgu arnaw awnaeth. Ac ympenn talym ef awelei vreudwyt. Nyt amgen ef awelei deu ederyn yn dyuot geyr y vronn. un o honunt a oed yn gymeint ac yn gynwynnet ac alarch. Ar llall aoed yn kynduet ac yn ogymeint a bran. eissyoes yr oed ef yn ederyn tec herwyd y vagyat. Yr ederyn gwynn adoeth attaw ac adywawt wrthaw. Or mynny di heb ef vyggwassanaethu i. mi a rodaf ytt holl gyuoethogrwyd y byt. ac ath wnaf yngyndecket ac ydwyfinneu. Ac ynteu yna aovynnawd pa un oed. Pany wely di heb ynteu pa un yttwyfi. Ydwyfi yndegach etto ac yn wynnach noc y gwely di. Ac nyt attebawd ynteu idaw un geir. Ac yna yr ederyn arall adoeth attaw ac a dywawt wrthaw. ef avyd reit ytti vynggwassanaethu i. ac na vit waeth gennyt ti dim yr vynggwelet i yn du. A gwybyd di yn lle gwir mae mwy adal vyndued. i. no gwynder ereill. Ac yna hwnnw aaeth ymeith. Ac yn ol y weledigaeth honno

Digitized by Google

ef adoeth un arall ryued. Nyt amgen ef awelei y vot wedy llettyu ymywn capel tec. ac yno ef awelei. gwr yn eisted mywn cadeir. Ac or tu assw idaw ef awelei colovyn o brenn coch drewyedic yn gyn wannet y gyfle ac yr oed hayach yn syrthyaw yr llawr. Ac or tu deheu idaw yr oedynt dwy ganghen o fflwrdlis. ac un or kanghеu aoed yn kyhwrd ar llall yn ry agos. ac yn lludyas idi vlodeuaw. Ar gwr yna a wahanawd pob un y wrth y gilyd onadunt. Ac ny bu hir wedy hynny. yny oed ar bop onadunt blodeu affrwyth lawer. Ac yna y gwr adywawt wrth bwrt. Ponyt ffol vydei y neb aadei yr blodeu hynn golli. yr achubeit y prenn drewedic racko rac y syrthyaw yr llawr. Myui heb y bwrt ae barnwn ef yn ffol. y neb a gollei y blodeu yr y prenn ny ellir kael chweith lles o honaw bellach vyth. wrth hynny heb y gwr o gwely di gyflwr rac colli y blodeu yr achubeit y prenn kanys ef arallei y dra gwres beri yr blodeu golli. Ac uelly y gweles ef y dwy weledigaeth drwy y hun. adeffroi aoruc ac ymgroessi athrwy wediaw duw yd arhoes ef yny vu dyd. Ac yr awr y bu dyd efo aaeth yr gwely. ac aymdroes yndaw rac tybyeit y vot yn kysgu yn lle arall. Ac yna yr arglwydes aḍoeth attaw ac agyfarchawd gwell idaw. Ac ynteu adywawt. duw arodo llewenyd ytitheu. Ac yna yr unbennes adoeth ac ef yr capel yny lle y gwarandawawd ef pylgein ac offeren or dyd. Agwedy hynny wynt adoethant yr neuad. a llawer o varchogyon urdolyon ac ysgwieryeit ygyt ac wynt y rei abarassei y wreic udunt dyuot y edrych ar y uateil. Ac yna ef aerchis y wreicda y vwrt vynet y vwyta. Ac ynteu adywawt na mynnei vwyt yny darffei y vateil. ac ar hynny y arueu agymerth bwrt. ac esgynnu ar eu meirch awnaethant ar tylwyth aoed gyt ac ef. ar arglwydes heuyt y gyt y doethant hyt y weirglawd. Ac yno wynt awelynt lawer o dylwyth yn aros bwrt. Ar unbennes yd oed y vateil arnei. Agwedy eu dyuot yr weirglawd ef adoeth y dwy chwiored y gyt. Ac yna y wreic yd oed bwrt drosti adywawt. Arglwydes heb hi ydwyfi yn kwynaw ragot ti. dy vot yn dwyn y

Digitized by Google

gennyf y kyuoeth arodes Amans vrenhin ym. Ac ae duc y gennyt titheu. ac ath didreftadawd am dy dryc wassanaeth. ar llall yna adywawt na didreftatwyt eiryoet. apharawt oed y brofi hynny or bei alyfassei y amdiffynn.

XL.—Ac yna bwrt adoeth. ac adywawt. ydwyfi heb ef yn barawt y amdiffyn hawl y wreic yma yn erbyn y neb ae mynno. Yna briadan adoeth ac adywawt yr amdiffynnei ynteu hawl y unbennes. ac nyt oed. ac ny thebygei neb y goruydit arnaw. kanys nyt oed yny byt gwr well o gorff noc ef. Ac yna ymwahanu awnaethant pob un onadunt ywrth y gilyd. A gollwng eu meirch aorugant pob un yn erbyn y gilyd. ac ar eu dyuotyat o nerth eu meirch pob un adrewis y gilyd yny yttoed eu taryaneu yn tyllu. ar llurygeu yn rwygaw. Aphany bei torri eu pelydyr ef aladyssei bob un ohonunt y gilyd. ac ymgyhwrd ae kyrff aorugant y gwaewyr yn gynffestet ac yny oed y meirch yn syrthyaw. ac wyntwy dros bedreinyeu eu meirch yr llawr. Ac ual yr oedynt yn rymus pob un ohonunt tynnu eu cledyfeu aorugant achyfodi y vyny athroi eu taryaneu or blaen. ac ymffust yn ffest yny lle y tebygynt hawssaf eu haflessu arwygaw eu harueu. a gwneuthur gwelioed dwfyn pob un yn y gilyd. achryfach oed y gwr noc y tebygassei bwrt. athybyeit aoruc bwrt vot y gwr ar hawl iawn. a briadan ynteu yna o vynych dyrnodeu yn kuraw bwrt. ac yd oed ynteu yn y diodef dan amdiffyn. heb vynnu ymrysson ac ef. namyn gadel y briadan y goruot. Aphan weles ynteu briadan heb vlinaw ac heb gael gollwng y anadyl y ganthaw. yna bwrt a dechreuawd y enkil ynteu y bop lle ar hyt y maes. ac yn ennyt bychan briadan asyrthyawd. Ac yna bwrt aesglyffyawd y helym y am y benn. ac ae llusgawd ynteu y vyny ac y waeret. ac ae trewis a phwmhel y gledyf yn y benn yny yttoed y gwaet yngkylch y lygeit. ac adywawt wrthaw. onyt ymrodei y lladei y benn. ac yna briadan adawawd. a bwrt yna aossodes arnaw ar uedyr llad y benn. Aphan weles ynteu hynny ef aerchis y nawd drwy ammot na ryuelei vyth ar yr

Digitized by Google

arglwydes ieuanc. A gwedy roi aruoll ohonaw ar hynny. bwrt ae gollyngawd. Pan weles y wreic arall daruot goruot ar y marchawc hi. hi affoes or maes rac ovyn y charcharu. Ac yna bwrt a barawd y bawp oc aoed yno gwneuthur gwrogaeth yr wreic ieuanc. ac ar ny mynnawd hynny ohonunt ef ae distrywyawd. Ac uelly y kafas y wreic ieuanc y chyfoeth drwy vilwryaeth bwrt. Eissyoes y wreic arall agynhalyawd ryuel yny herbyn hi tra vu vyw. kanys kenuigen aoed yn peri idi hynny. Gwedy daruot y vwrt adaw yr unbennes ar y llewenyd. apheri gwrogaeth idi y gan mwyaf y gwyr. ef a gychwynnawd ymeith ac a varchocaawd yn vedylgar am y gweledigaetheu awelsei drwy y hun. ac yn chwannawc ganthaw pei delei y le y gallei gaffael dehongyl arnunt. ynos honno ef a doeth y ty gwreic wedw. yn ylle y kafas lletty esmwyth. A thrannoeth ef a uarchocaawd yny vu agos y hanner dyd. ac yna ef a gyfaruu ac ef peth oed ovidyus ganthaw y welet. Nyt amgen ymywn croesfford ef a gyfaruu ac ef deu uarchawc urdawl. a deu dyrneit o drein yn eu dwylaw. yn gyrru llionel y vrawt oe unbeis yngkarchar ar gevyn hacknei ae dwylaw yn rwym geyr y vronn. dyeithyr gan eu dyrnodeu wy ar drein arnaw ef yroed y waet yn redec yn vwy noc yngkanlle ar y gnawt. Ac ynteu heb dywedut un geir megys y neb avei yn llawn o gallon valch. namyn diodef yn wrawl yn hynn yr oedit yny wneuthur ac ef. Ac yna bwrt a vynnawd hwylyaw oe amdiffyn. Aphan ytoed ef uelly nachaf uarchawc urdawl aruauc o bop arueu yn mynet yr fforest. amorwyn ieuanc ganthaw ydreis. ac yn mynet ahi racdaw y dewdwr y fforest. Ahitheu o hyt y llef yn ymgystlwn ameir. ac yn erchi idi anuon nerth oe morwyn. ac yr awr y gweles hi bwrt yn marchogaeth ehunan. hi adebygawd mae marchawc urdawl anturyus oed obererindawd y greal. Ac yna hi awaedawd arnaw o hyt y llef. ac adywawt. tydi varchawc urdawl heb hi yr y gret arodeist di yr gwr ydwyt ar y wassanaeth. ac yr y gret adylyy ditheu idaw ynteu. na at yr marchawc hwnn vynggwaradwydaw.

XLI.—Pan gigleu bwrt hynny ef a vedylyawd

Digitized by Google

na wydyat beth awnaei ae ysgaelussaw oe nerthau. ae peidyaw. diheu oed ganthaw ynteu y colli hi y heneit oe diffic ef. os ynteu aysgaelussei y vorwyn aoed yn ymgystlwn ac ef yr mwyn y neb yr oed yny wassanaethu. or kaffei hi gewilyd y kaffei ynteu angklot achollet o ryw fford o achaws diffic y nerth ef. Yna ef a dyrchafawd y lygeit tu ar nef dan wylaw. ac adywawt. Arglwyd iessu grist dat hollgyuoethawc. y gwr ydwyfi yny wassanaeth. cadw ym vymmrawt rac y lad or gwyr racko. aminneu aaf y amdiffyn dy vorwyn ditheu. Ac yna brathu march aoruc ef yn ol y marchawc ar uorwyn. aphan y godiwedawd ef wyntwy. ef adywawt. tydi varchawc adaw yna y vorwyn. Pan gigleu ynteu hynny ef aollyngawd y vorwyn yr llawr. ac aymchoelawd att bwrt. kanys aruawc oed obop arueu namyn o waew. Athynnu y gledyf aoruc. a gostwng y daryan oe vlaen. a bwrt yna ae trewis a gwaew yny hyll y daryan ar lluric. ac yny syrth ynteu yr llawr yny lewic. Ac yna bwrt adoeth att yr unbennes ac adywawt. mi adebygaf heb ef daruot dy rydhau di y gan y marchawc racko. ac beth a vynny di ymi y wneuthur mwy. Arglwyd heb hi canys gorugost di vy amdiffyn i hynn. anuon vi hyt y lle ym duc i y marchawc o honaw. Yna ef a gymerth march y gwr bwryedic. ac a dodes y vorwyn arnaw. ac ae duc hyt y lle yd erchis. Ac yna hi adywawt wrth bwrt. arglwyd heb hi. gwell vu dy wassanaeth di noc y tebygy. kanys pei dygassit treis arnafi. ef agollassit mwy no phump cant o eneidyeu yngynt noc yd iecheit wynt. Ac yna bwrt aovynnawd pa un oed y marchawc. Yn lle gwir heb hi keuynderw ym oed. ac ny wn i parwy brofedigaeth kythreul aberis idaw ef vyndwyn i ual hynn ym gwaradwydaw. Aphan yttoedynt wy yn ymdidan uelly nachaf mwy no deudec marchawc urdawl gwedy eu bot yn keissyaw y vorwyn. Ac yna hitheu aadolygawd yr marchogyon vot yn llawen wrth vwrt. ac wynteu awnaethant idaw y llewenyd mwyhaf ac allyssant. ac ageissyassant ganthaw trigyaw y gyt ac wynt. ac ynteu yna adywawt. arglwydi heb ef nyt oes fford ym y drigyaw. kanys nyt oes yn vyw

Digitized by Google

onyt duw awypo vyngcollet am drigyaw yn gyhyt ac y trigyeis. Aphan glywssant wynteu hynny. nyt ymbilyassant ac ef mwy. ac yna yr unbennes aadolygawd idaw dyuot y ymwelet a hi pan y kaffei gyntaf o ennyt. Ac ynteu adywawt y deuei. or bei ar y fford ae antur dyuot y tu ac yno. Ac yno bwrt ae gedewis wyntwy. Ac ynteu a uarchockaawd tu ar lle y gwelsei vynet a lionel y vrawt. Aphan doeth ef yr lle diwethaf y gwelsei. ef awarandawawd y edrych a glywei dim. Agwedy na chlywei ef dim. ef agerdawd ar hyt y fford y gwelsei vynet oe vrawt. Agwedy daruot idaw ef uarchogaeth llawer ef agyfaruu a gwr crevydus debygei ef yn marchogaeth march kynduet a mwyaren. Aphan weles ef bwrt ef aalwawd arnaw ac aovynnawd idaw pwy yr oed yn y geissyaw. Arglwyd heb ef deuwr aoed yn mynet am brawt ganthunt yn rwym dan y vaedu ac yspydat. Bwrt heb ynteu pei tebygwn i na synnyei arnat yn ormod. ac na syrthyut mywn anobeith. mi adywedwn ytt yr hynn awnn i hyspyssaf am hynny. Pan gigleu bwrt hynny ef avedylyawd ry daruot yr marchogyon lad y vrawt. athrwy dristit ef adywawt. Arglwyd heb ef yr duw dangos ym pale y mae y gorff ef ual y gallwyf beri y gladu yn anrydedus. Edrych ditheu heb y gwr or tu arall ytt. Ac yna bwrt aarganuu gwr marw gwaetlyt newydlad yny ymyl. Ac edrych arnaw aoruc athybyeit mae y vrawt oed. Ac yna llewygu aoruc odristit. Och varglwyd vrawt heb ef. bellach ny cheissyafi lewenyd ar ol kolledigaeth dy gedymdeithyas di. A chanys ysgarawd duw an kedymdeithyas pob un y wrth y gilyd. yd wyf inneu yn adolwc idaw efo vot yn disgwylyawdyr arnaf. kanys efo agymereis i yn gedymdeith. ac yn veistyr ympob perigyl. kanys ohynn allan nyt oes gennyfi vedwl namyn am veneit o achaws dy golli di. Ac yna ef agymerth y ryngthaw ar goryf. ac aovynnawd yr gwr. aoed yn gyfagos yno ae manachlawc ae eglwys ae capel. ual y gallwn gladu y gwr hwnn. Oes heb ynteu yn gyfagos y hynn capel geyr bronn twr. ac yno y gellir y gladu. Yr duw heb y bwrt adangossy di ymi y capel.

Digitized by Google

Dangossaf ynllawen heb ynteu. ac ygyt y kerdassant. Ac ny bu bell yd aethant yny welsant yn ymdangos udunt twr tec. Ac yn gyfagos idaw yr oed eglwys atueilyedic. a gwedy eu dyuot hyt yno wynt adisgynnassant. ac adoethant y mywn. ac aossodassant y corff ar warthaf bed o uarmor. Ac yna bwrt aedrychawd awelei chweith dwfyr swyn ympoblle yn yr eglwys. ac nyt yttoed yn kaffael yno na chroes na dwfyr na chreir na neb ryw arwyd or aberthynei oblegyt Iessu grist. Gadawn yma y korff heb y gwr. ac awn y lettyu yr twr racko heno. ac avory ni adeuwn wrth wassanaeth dy vrawt. Paham heb y bwrt ae offeiryat wyt ti. Ie arglwyd heb ynteu. wrth hynny adywedy ym synnwyr ryw weledigaeth aweleis drwy vy hun. ac obetheu ereill aweleis. Ac yna ef auanagawd idaw am yr ederyn awelsei yn y fforest. a gwedy hynny ef adatkanawd am y deu ederyn awelsei y neill yn wynn ar llall yn du. ac am y prenn drewedic. ac am y kangeu ar blodeu gwynnyon. Mi a dywedaf heno heb yr offeiryat beth y wrth hynny. ac auory beth arall. yr ederyn heb ef aweleist di yn rith alarch aarwydockaa ryw wreic yssyd yth garu. yr honn adaw yn ehegyr y ymwelet athi. ac y ymbil am bot ohonat yn gedymdeith idi. ac am na mynneist diwneuthur gwrogaeth yrederyn aarwydockaa y nackey di y wreic honno. ac o lit a dolur amdanat y byd marw hi. Ar ederyn du aarwydockaa dy drudanyaeth ath bechawt am y gwrthot. Ac am hynny nac yr ovyn duw nac yr colli dy diweirdeb na nackaa hi. kannys os nackei. ti ageffy angklot y byt ac anuod duw. ac am dy uot ti ynkynnal dy diweirdeb yr clot y byt. ef adaw am y diweirdeb hwnnw govit kymeint. ac y collo lawnslot dy gevynderw y eneit. kanys yr awr y nackeych di hi. hi a vyd marw. Ac yna y chenedyl hitheu a ladant lawnslot yr hwnn yssyd yngkarchar. Ac yna y gellir gwybot dy vot ti yn affeithyawl y alanas y vorwyn ath gevynderw heuyt megys y buost yngkytsynnedigaeth angheu dy vrawt yr hwnn a allassut y achubeit ae diffryt pei asmynnassut. athitheu aaethost y amdiffyn yr unbennes yr honn ny deirydei ytt odim.

Digitized by Google

wrth hynny. edrych ditheu. pa iawn uwyhaf oed ae colli morwyndawt y vorwyn. ae ynteu colli oth vrawt ti y eneit. Arglwyd heb y bwrt gwell oed gennyf golli yssyd o vorwyn yn y byt oll y morwyndawt. no llad vym brawt.

XLII.—Ryued vu gan bwrt vot yr offeiryat yny gerydu am diffryt ohonaw y vorwyn. Ac yna yr offeiryat aovynnawd idaw aglyweist di synhwyraw dy vreudwyt ytt. Clyweis arglwyd heb y bwrt. Ie heb ynteu arnat ti y mae am lawnslot. kanys ti aelly y amdiffyn os mynny. Myn duw heb ynteu. nyt oes dim nys gwnelwn i rac colli o lawnslot y eneit. Ef a weler hynny yr ehegyr heb yr offeiryat. Ac yna tu ar twr y doethant wy. A gwedy eu dyuot y mywn wynt a welynt yno marchogyon urdolyon a morynyon lawer. y rei adywedassant grassaw wrthyt bwrt. Ac yna wynt ae dygassant ef yr neuad. ac ae diarchenassant. a gwedi y diarchenu wynt adugassant idaw dillat anrydedus oe gwisgaw. ac abarassant idaw eisted. ac wynteu y gyt ac ef. ac ae didanyssant yny ebryuygawd talym oe dristit ae dolur. Aphan yttoedynt wy yn ymdidan uelly nachaf yn dyuot attunt morwyn ieaunc dec. yn gyndecket ac na allei mywn anyan dynawl or byt bot hanner y tegwch aoed yndi. dillat aoed ymdanei hitheu or hynn goreu. Ac yna un or marchogyon urdolyon aoed y gyt a hi adywawt wrth bwrt. Arglwyd heb ef weldyma yr unbennes yssyd arglwydes arnam ni. Ac yssyd deckaf a chyfoethockaf or byt amwyhaf yssyd yth garu ditheu. ac y mae yth aros yr ys talym megys na mynn hi vyth gedymdeith idi namyn tydi. Pan gigleu ynteu hynny. ryuedu yn uawr awnaeth a chyfarch gwell idi. a hitheu idaw ynteu. ac aeistedawd yny ymyl. Ac ymdidan y gyt aorugant am lawer o betheu yn gymeint ac yd adolygawd idaw uot yn gedymdeith caredic idi. ac os hynny awney di heb hi. mi ath wnaf yn gyuoethokaf gwr oth genedyl. Pan gigleu bwrt hynny anesmwyth vu ganthaw y hynt megys y neb a vei gas ganthaw torri y diweirdeb. ac ny wydyat ef yn da pa ryw atteb arodei ef idi hi. A hitheu yna adywawt. bwrt heb hi

Digitized by Google

pany wney di yr hynn aercheis i. Arglwydes heb ynteu nyt oes yn y byt yr ychyuoethoket gwreic y gwnelwn yrdi dim or hynn yd wyt yny geissyaw gennyf ac ny dylyei neb y geissyaw y gennyf yny mod ydwyfi. kanys vym brawd alas hediw. ac yssyd allan yn varw. Nac edrych di ar hynny heb hi. kanys angheu yssyd yn peri ymi dy wediaw di. Aphany bei garu ohonafi dydi yn vwy noc y karawd gwreic eirioet wr nyt ymbilywn athi. kanys nyt aruer y wraged wediaw y gwyr. ac am hynny karyat yssyd yn gwascu arnafi. at yn peri ym ymbil athi am gysgu gyt ami heno. Ac ynteu yna adywawt na wnaei ef dim ohynny o neb ryw uod. Aphan weles hitheu hynny hi awnaeth y dolur mwyhaf ar tristit govityaf. ac nyt oed well hynny idi hi no pheidyaw. Aphan weles hi na allei oruot arnaw ef o neb ryw vod hi adywawt. bwrt heb hi. ti amdugosti o achaws vyn nackau yngymeint ac y bydaf varw yr awrhonn yngwyd dy lygeit. Ac yna hi ae kymerth ef erbyn y law. ac ae duc hyt yn drws y neuad. ac adywawt wrthaw. tric di yma heb hi ac aro. ti awely pa delw y bydaf uarw i oth achaws di. Ac yna hi aerchis y rei oe niuer daly bwrt yno. a hitheu aaeth y benn y gaer. achyt a hi deudec o vorynyon. Ac yna un or morynyon adywawt. bwrt heb hi yr duw tosturya wrthym ni oll achenattaa yn harglwydes ni y ewyllys. ac ony wney di hynny myni aymollyngwn oll odyyma y dorri an mynygleu ygyt an arglwydes rac edrych ar y hangheu hi. ac o gedy ditheu yni oll varw am beth kynvychanet a hynny ny wnaeth marchawc urdawl eiryoet pwngk vilyeinyach. Ac ynteu aedrychawd arnunt wy ac a vu dost ganthaw eu gwelet ual hynny oblegyt eu bot yn wraged bonhedigyon. ac ny thosturyawd ef wrthunt wy yn gymeint ac na bei well ganthaw ef colli ohonunt wy eu heneidyeu noc ohonaw ef. ac ef adywawt wrthunt na wnaei ef dim yrdunt nac yr colli y eneit nac yr y gael. Ac wynteu yna a syrthyassant or twr yr llawr. Aphan weles ynteu hynny ryued uu ganthaw. a dyrchafel y law a wnaeth ef ac ymgroessi. Ac yna ef a glywei yny gylch cri a chyn-

Digitized by Google

nwryf kymeint a phet vei yno holl diefyl uffern. ac ny welei ef yny gylch yna nar twr nar wreic aoed yn ymbil ac ef nar tylwyth. na dim or a welsei gynno hynny onyt y arueu. Aphan weles ynteu hynny ef a wybu mae profedigaeth kythreul aoed yno arnaw yn keissyaw y somi achyvyrgolli y eneit. ac yna dyrchafel y dwylaw tuar nef aoruc a diolwch y duw oruot o honaw ar y elyn ac am rodi budugolyaeth idaw. ef aaeth yr lle y tebygassei vot y vrawt. ac nyt oed yno dim ohonaw. ac yna y credawd ef vot y vrawt yn vyw etto. ac y bu lawenach ganthaw y hynt. Ac yna ef adoeth att y arueu ac ae gwisgawd. ac aesgynnawd ar y varch ac aaeth ymeith. A gwedy marchogaeth talym ohonaw ef aglywei gloch yn seinyaw. a llawen vu ynteu yna. athu ac yno ydoeth ef. Ac yna efe aarganvu manachlawc yn gaeedic o vur kadarn. ac ef adoeth yr porth ac aerchis agori. Ar myneych or tu mywn pan glywssant y vot ef yn aruawc auedylyassant panyw un o geissyeit seint greal oed ef. ae erbynnyeit awnaethant yn anrydedus ae diarchenu ae dwyn y ystauell aduwyndec. Ac yna bwrt adywawt wrth un or myneych. Yr duw heb ef a dygy di vi att y manach goreu y greuyd oc yssyd yny ty hwnn ar ysgolheic goreu. kanys mi a vynnwn gaffael kynghor ganthaw ef achan duw am antur ryued a gyfaruu ami hediw. Arglwyd heb y manach wrth bwrt ti aey att yr abat. kanys goreu yttiw hwnnw yny ty yma o ysgolheictot. adyuot awnaethant hwy hyt y lle yr oed yr abat. Ac yna bwrt a gyfarchawd gwell idaw. ar abat dan ostwng idaw aovynnawd idaw pa un oed. Ac ynteu yna adywawt mae marchawc urdawl ar gerdet oed. Yna ef adywawt y gyfranc ac ual y kyfaruuassei ac ef y dydyeu gynno hynny. A gwedy daruot idaw ef dywedut kwbyl. Yr abat a dywawt. Mynvympenn i heb ef ny thebygasswn i vot marchawc urdawl mor ieuanc a thydi yn gymeint mywn gras duw ac yr wyt ti. Ti adywedeist y mi gymeint ac na allafi heno rodi chweith kynghor ar vy ewyllys. ac am hynny. dos di heno y orffowys. ac auory mi ath gynghoraf yn oreu ac y gallwyf.

Digitized by Google

Ac yna bwrt a ymchoelawd drachefyn ac aedewis yr abat yno. ac erchi y bawp vot yn llawen wrthaw. y nos honno y gwassanaethpwyt arnaw yn well noc y mynnassei ef. kanys ef aducpwyt idaw kic aphysgawt or rei ny mynnawd ef dim onyt bara adwfyr. megys na mynnei ef glwyfaw y gytwybot yr dim.

XLIII.—Trannoethy bore gwedy daruot idaw warandaw pylgein ac offeren. yr abat adoeth attaw ac agyfarchawd gwell idaw. a bwrt idaw ynteu. Ar abat yna erbyn y law ae kymmerth. ac adoeth ac ef hyt geyr bronn yr allawr. Bwrt heb ef avynny di wybot beth aarwydockaa dy vreudwytyon di. Mynnaf arglwyd heb ynteu. Gwedy mynet ohonat ti yr bererindawd honn heb yr abat. ti agymereist gedymdeith da attat kystal yw hynny. athi agemereist gorff dy arglwyd. Agwedy hynny ti agerdeist dy fford y edrych avynnei iessu grist wneuthur yrot gymeint ac ymdangos or greal yrot. Ac ny bu vawr agerdeist di yny ymdangosses iessu grist ehun ytt yn ffuryf ederyn. ac adangosses ytt y gouit ar amarch agafas ef on achaws ni. A mi adywedaf ytt pa delw y gweleist. Nyt amgen pan doeth yr ederyn hyt y prenn. yr hwnn nyt oed arnaw na deil na ffrwyth. ef aedrychawd ar y adar y rei aweles ef yn veirw. Ac yna ef adisgynnawd yn eu plith. ac ae yluin ae trewis yny dwy vronn yny syrth y waet yr llawr. ac yny vu uarw ynteu yno. ar adar yna o wyrtheu y gwaet a gyuodassant yn vyw o veirw. Hynn aallafi y dwyn ar gyffelybrwyd ytti. kanys yr ederyn aellir y gyffelybu y iachwyawdyr y byt. yr hwnn affuruawd dyn ar y eilun ehun. Agwedy gyrru y dyn hwnnw o baradwys oachaws y drycweithret ehun. ef adoeth yr daear yn y lle y kafas ef y angheu. kanys bywyt nyt oed yna chweith ohonaw. Y prenn aweleist ditheu yno heb ffrwyth arnaw aarwydockaa y byt yn eglur. yr hwnn nyt oed yndaw dim amgen no drycanturyeu athlodi ac eissyeu. yr adar aweleist ditheu aellir eu kyffelybu yr bobyl dynawl a oedynt yna yn y byt. a gwedy eu kyvyrgolli. kanys pawb yn yr amser hwnnw adrwc ada aeynt y uffern. Ac yna mab duw

Digitized by Google

nyt amgen Iessu grist a esgynnawd ar y prenn. nyt amgen pren y groc. ac yna ef adiodefawd y daraw a gaew yny doeth y waet. ac or gwaet hwnnw y kafas y byt eu bywyt. ac y ducpwyt wynt o uffern. lle nyt oed amgen noc angheu. ac ny byd vyth.

XLIV.—Er ederyn du adoeth attat ac y ymwelet athi aellir y gyffelybu y iessu grist. yr hwnn adywawt ydwyfi yn du. ac eissyoes ydwyfi yn dec iawn. a gwybyd di yn lle gwir vot yn well vyndued i no gwynder arall. Athrwy yr ederyn gwynn yr hwnn aymdangosses ytt megys alarch y gellir deall y kythreul. Ami adywedaf ytt pa delw. yr alarch yssyd yn wynn odieithyr. ac yn du or tu mywn. velly y byd y diefyl y rei eu keffylybu yr geugrefyd dynyon. y rei agymeront arnunt eu bot yn grevydus ac yn war. ac wynteu or tu vywn yn llawn dued o bechodeu. ac yn sommi y byt. A megys y doeth yr ederyn hwnnw y ymdangos ytti yn dy gwsc. ef a ymdangosses ytt wedy hynny athi heb gysgu. ac awdost ti pale. pan ymdangosses y kythreul ytt yn rith offeiryat. yr hwnn adywawt wrthyt vot arnot bechawt am adel o honat lad dy vrawt o weith diodef. achelwyd adywawt ef kanys ny las ef etto. ac y mae yn vyw holliach. ac ny dywawt ef hynny wrthyt ti namyn yr peri ytt syrthyaw ymywn llit agodineb ac ympechodeu marwolyon o achaws y rei y pallei arnat ti yndragywyd welet seint greal. Allyna ytti pa un oed yr ederyn gwynn. apha un oed yr ederyn du. Bellach reit yw dywedut ytt pa synhwyr yssyd yr pren drewyedic. ac yr gwieil ar blodeu arnadunt. Y prenn coch drewyedic aweleist di heb nerth yndaw aarwydockaa lionel dy vrawt. yr hwnn nyt oes yndaw na grym na nerth na gweithret da oblegyt iessu grist. drewedigrwyd y prenn aarwydockaa drewedigrwyd y pechodeu yssyd yndaw ef. yn kynnydu beunyd or achaws y gellir y gyffelybu ef y brenn drewyedic. Y dwy gangen aweleist ar blodeu arnunt aarwydockaa deu vorwyndawt. nyt amgen nor marchawc a sarheeistdi yw un. A vorwyn yw y llall. ar neill gangenn aoed yn mynnu ymgyhwrd ar llall. kystal yw hynny ar marchawc aoed yn mynnu

Digitized by Google

kyhwrd ar uorwyn oe hanuod. Eissyoes gwr da aoed yn eisted yn y gadeir awahanawd pob un y wrth y gilyd. Kystal yw hynny an arglwyd ni nyt yttoed yn mynnu kytsynyo a llygru or un o honunt wy y gilyd. ac am hynny yd anuones duw dydi hyt yno oe gwahanu wy. ac y lesteiryaw arnunt pob un lygru y gilyd. Athitheu ae llesteiryeist o ewyllys da. pan edeist dy vrawt yn mysc y elynyon ymperigyl angheu. Eissyoes y gwr yr oedut ti yny wassanaeth a vu yno yn dy le di. yn gystal ac ydangosses ef y wyrtheu yn gymeint oth garyat ti ac y syrthyassant y marchogyon yr llawr yn veirw. Ac ynteu yna agymerth y arueu ac agychwynnawd ymeith oe bererindawt. ac am yr antur hwnn ti awybydy wirioned yn ehegyr. Aphanabei wybot o duw ohonat ny dangossei yt antur kyndecket ac y gallut ti rydhau y corff oboen angheu. ar eneit o uffern. a llyna vi gwedy dywedut ytti synhwyr yr anturyeu ar gweledigaetheu aweleist di. Gwir adywedy di arglwyd heb ef. ti ae dywedeist ym yn da. a minheu a vydaf well gwr tra vwyf byw. Yr duw heb yr abat gwedia duw drossofi. kanys kynt debygafi y gwerendy duw dydi no miui. Ac ynteu adawawd yna megys dyn kewilydyus. a gwedy ymdidan ruthur ohonunt. bwrt a gychwynnawd ymeith odyno. ac a uarchokaawd yn hyt y dyd. ar nos honno ef alettyawd yn ty wreic wedw. Athrannoeth ef auarchockaawd yny doeth y ymyl castell aoed mywn glynn. ac yno ef agyfarvu ac ef gwas ieuanc yn mynet parth ar fforest. a bwrt aovynnawd idaw awydyat ef un chwedyl newyd. Gwnn heb ynteu. avory y bore y byd yma twrneimant geyr bronn y castell y rwng iarll y gwastawd ae dylwyth. ar wreic wedw o sarens. Pan gigleu bwrt hynny. ef auedylyawd trigyaw y aros y twrneimant. kanys ny allei vot na delei yno rei o gedymdeithyon y vort gronn. gan y rei agatuyd y gallei ef gaffael chwedleu y wrth y vrawt. Ac yna trossi awnaeth ef yr fford honno adyuot y ty meudwy a oed gyfagos yr fforest. ac ar drws capel y meudwy. ef a arganuu y vrawt yn aruawc. Aphan weles ef y vrawt diruawr lewenyd a

Digitized by Google

gyfodes yndaw. a disgynnu yr llawr aoruc. a govyn oe vrawt pa bryd y dathoed yno. alionel ny bu vawr yd attebawd idaw. namyn dywedut. bwrt heb ef nyt erot ti nam lledit I. pan weleist vi yn noethlumyn yn mynet gyt ar deu uarchawc urdawl. y rei aoedynt ym maedu a dyrneidyeu o drein. Athydi am gedeweist I. ac a aethyost y nerthau y vorwyn. ac ny wnaeth brawt eiryoet ac arall chwareu waeth na ffyrnigach no honno. ac o achaws yr anghywirdeb hwnnw ymogel di ragofi megys rac dy elyn. kanys ti a heydeist dy angheu. ac am hynny ymogel ragof ac nac ymdiriet ym. kanys myn duw ef a vyd un o honam yn uarw.

XLV.—Pan gigleu bwrt y vrawt yn dywawt uelly. ef avu drwc ganthaw. ac aostyngawd ar benn y deulin y erchi y nawd. Ac erchi y duw uadeu y drycewyllys idaw. Ac ynteu a dyngawd nas madeuei. ac nat oed idaw waret namyn angheu os efo a vei drechaf. Ac yna esgynnu ar y varch aoruc ef dan rybudyaw bwrt. ac erchi idaw esgynnu ar y varch ae amdiffyn ehun os gallei. ac onyt esgynny mi ath ladaf ual ydwyt. kyt boet kywilyd ymi. titheu bieu y gollet. A gwell yw gennyfi gaffael gogan y byt. no gadel gwr kyndrwc athydi yn vyw. Pan weles bwrt bot yn reit idaw ymlad. drwc vu ganthaw. amedylyaw awnaeth ef ar ymbil ae vrawt. unweith kynn esgynnu ar y varch. Ac yna gostwng ar benn y lin geyr bronn y vrawt aoed ar varch. ac erchi idaw yr duw vadeueint. Ac yna lionel pan weles y vrawt heb vynnu kyfodi ef avrathawd y varch ar draws bwrt yny lywygawd bwrt or govit agafas gan y march. kanys ef a dorrasei yndaw deir assen. ac ef a debygassei y buassei uarw yn lle gwir. Aphan y gweles lionel ef yngynwannet ac na allei gyvodi. ef adisgynnawd yna ar uedyr torri y benn. ac aymauael ae helym. ac adynnawd y gledyf ar vedyr y daraw. Ac ar hynny y meudwy aredawd y ryngthunt. yr hwnn a oed wr hen prud ac a syrthyawd ar draws bwrt ae dwylaw ar llet. ac adywawt. Och arglwyd heb ef tosturya wrth dy vrawt. kanys os lledy ti auydy varw mywn pechawt. a llyna iawn mawr yw y golli ynteu

Digitized by Google

yn un or marchogyon goreu or byt. Myn duw heb y lionel wrth y meudwy ony ffoy di ymeith. mi ath ladaf di. ac ny byd nes idaw ynteu diangk yr hynny. Myn duw heb y meudwy gwell yw gennyfi vy llad ohonat ti noe lad ef. kanys nyt kymeint y collet arnafi ac arnaw efo. Pan weles lionel y gwrda uelly ef ae trewis ae gledyf dyrnawt hyt y keu. ac yna y meudwy pan gigleu loes angheu yndaw aymestynnawd ar hyt y llawr. Aphan daruu y lionel hynny. nyt arbetawd oe vrawt y chweith. namyn dillwng carreieu y helym ar vedyr llad y benn. pan doeth galogryvant attunt. marchawc urdawl oed hwnnw or vort gronn. Ac adnabot bwrt a lionel aoruc ef. kanys kedymdeithyon idaw oedynt. Ac yna disgynnu aoruc ef ac ymauael a lionel a roi hwrd arnaw yny vydant yll deu yr llawr. Ac yna ef adywawt lionel heb ef aaethost di ymaes oth synwyr pan geissych llad dy vrawt yn un or gwyr goreu or byt. ac ny diodefei gwrda or byt gennyt ti hynny. Paham heb y lionel ae llesteiryaw hynny yssyd yth vryt ti. Ie yrof a duw heb ynteu or byd ae gwrthwynepo. Yna lionel a duc hwyl ac agymerth y daryan. ac aovynnawd idaw pa un oed. Aphan y hadnabu ynteu ef. ef ae rybudyawd drwy erchi idaw ymoglyt. Ac yna ymlad awnaethant pob un ae gilyd yn wrawl kanys marchogyon da oedynt. apharhau awnaeth y uateil y ryngthunt yny gyfodes bwrt y uyny yny eisted. yn gynwannet ac na thebygei ef yn y mis hwnnw allel chweith ymlad nac ymdaraw. onyt duw arodei ras idaw. Aphan weles galogryuant yn ymlad ae vrawt. trwm vu ganthaw a thrist am na allei vynet y ryngthunt. kanys kewilyd oed ganthaw or lledit galogryuant yny amdiffyn ef. ac ymlad awnaeth y gwyr eissyoes yny vu hytrach lionel nor llall. Ac yna pan weles galogryuant y vot ef ymperigyl angheu. ac heb allel ohonaw ymamdiffyn mwy. yna ef aedrychawd ar vwrt yr hwnn oed wedy kyvodi yn y sefyll. Ac yna ef adywawt. bwrt heb ef paham na deuy di ym bwrw i or perigyl hwnn. kanys oth achaws di yd ymroessum i yn y perigyl hwnn. Ac or bydaf varw i oth achaws di kwbyl or byt ath

Digitized by Google

oganant. Myn duw heb y lionel over yw ytti dim ohynny o datleu. kanys nessaf kymodawc yw ytti angheu. Pan gigleu bwrt hynny nyt oed iawn diogel ganthaw y vryt. kanys gwedy darffei idaw ef llad galogryuant. diogel oed ganthaw y lledit ynteu gwedy hynny. Ac yna ef adynessawd att y helym ac ae gwisgawd am y benn. Aphan weles ef y meudwy yn varw. trist vu ganthaw. a gwediaw duw aoruc ar vot yn drugarawc oe eneit. Ac yna galogryuant adywawt. bwrt heb ef aoes gennyt ti onyt gadel ymi uarw ual hynn. ac os da gennyt ti ymi uarw ual hynn. digrif yw gennyf inneu. kanys nyt gwell gennyfi varw dros neb no throssot ti. Ar hynny lionel ae trewis ef yny aeth y helym y am y benn. Aphan wybu ynteu vot y benn yn noeth. ac nat oed fford idaw y diangk. ef a dywawt. Arglwyd Iessu grist or nef. y gwr yr oedwn I ar y wassanaeth. ac nyt yn gyndeilynghet agatuyd ac y dylywn. achanhattaa vot y dolur ar angheu yr wyfi yny diodef yr awrhonn yn lle penyt ym dros vympechodeu ac yn dillyngdawt.

XLVI.—Ac ar y parabyl hwnnw lionel ae trewis ef yny vyd yn varw yr llawr. Agwedy daruot idaw llad galogryuant. ny bu digawn ganthaw ef hynny yny doeth att y vrawt a rodi dyrnodeu creulawn trwm idaw aoruc. A bwrt ynteu yr hwnn yd oed yndaw bop ufuddawt wedy llettyaw adywawt. varglwyd vrawt heb ef madeu ym y vatteil honn. rac haedu ohonat anuod duw ac angclot y byt. Ny madeuo duw ymi vympechodeu heb y lionel othosturyafi wrthyt ti o dim. mwy noc y tosturyeist ditheu wrthyfi pan ym gweleist ymperigyl angheu. Yna y tynnawd bwrt y gledyf allan ac y dywawt. Varglwyd Iessu grist heb ef na liwya ym yn lle pechawt amdiffyn vy eneit yn erbyn vymrawt. Ac yna dyrchafel y gledyf aoruc ef ar uedyr taraw y vrawt. ac ef aglywei lef yn dywedut wrthaw. bwrt ffo di y wrthaw ef kanys pei as trawut ti ef ti ae lladut. Ac ar hynny y disgynnawd or nef. post o dan y ryngthunt ell deu yn gynaruthret ac y deifyawd eu taryaneu. Ac yny syrthyassant wynteu pob un yr llawr yn eu llewic. aphan gyfodassant o dyno pob un aedrychawd ar

Digitized by Google

y gilyd. ar daear aoed gwedy cochi a llosgi yn eu kylch. Aphan weles bwrt y vrawt yn didrwc diolwch y duw aoruc. Ac yna ef a glywei lef yn dywedut wrthaw. Bwrt heb ef marchocka kyntaf ac y gellych tu ar mor. ac na chynnal gedymdeithyas mwy ath vrawt. abryssya di tu ar mor yn y lle y mae peredur yth aros. Ac yna gostwng ar benn y linnyeu aoruc. a diolwch y duw trwy wedieu bot yn wiw ganthaw y alw yn y wassanaeth. A gwedy hynny dyuot att y vrawt adywedut wrthaw. lionel heb ef ny buost vwyn am lad y marchawc urdawl aoed gedymdeith ytt. ac am lad y meudwy heuyt. ac yr duw na dos odyma yny darffo eu cladu. Ponyt arhoy ditheu hynny heb y lionel. Nac arhoaf heb ynteu kanys reit yw ym vynet att beredur yssyd ym aros megys y dywawt y llef ym. Ac yna bwrt agyfodes ac aroes arwyd y groc arnaw. ac a esgynnawd ar y varch. ac uelly kerdet racdaw aoruc ef yny doeth y vanachlawc wenn y lle y buwyt llawen wrthaw. Ar nos honno ac ef yn kysgu ef aglywei lef yn dywedut wrthaw. bwrt kyfot y uyny. ac ynteu yna a gyfodes ac a wisgawd ymdanaw. Agwedy ymbaratoi yn y arueu ef a esgynnawd ar vedyr mynet ymeith. Ar pyrth aoed yn gaeet. ac ynteu aogylchynnawd y kaeroed. yny gafas y mur yn lle tyllic. Ac yna ef adoeth allan ac a uarchockaawd yny doeth y ymyl y mor. ac yno ef aarganuu ysgraff aphebyll yndi o samit gwynn. Ac yna disgynnu aoruc amynet yr ysgraff y mywn. Ac yr awr ydoeth y mywn ef a welei yr ysgraff yn kychwyn ymeith. ar gwynt yn taraw yny hwyl yn gynffestet. ac y tebygei ef y bot hi yn ehedec. Aphan weles ef na thygyei idaw geissyaw y varch y mywn. diodef hynny a wnaeth. ac edrych awnaeth ar hyt yr ysgraff ac ny welei dim. kanys tywyll oed y nos. Ac yna ef a ogwydawd ar vwrd y llong. Ac yno gwediaw duw awnaeth ar y gadw yn didrwc oe eneit ae gorff. Ac yno kysgu aoruc ef. Aphan deffroes ef awelei yn yr ysgraff gwr aruawc dieithyr y benn yn noeth. A gwedy edrych ruthur arnaw. ef aadnabu panyw peredur oed. a mynet dwylaw mynwgyl idaw aoruc. A ryued vu gan beredur hynny. A govyn

Digitized by Google

idaw pa un oed. Paham heb y bwrt ponyt atwaenost di vyvi. Nac atwaen mynvyngkret heb ynteu. a ryued yw gennyf pa vod y gelleist dyuot yma y mywn ony bei duw ath anuonei. Ac yna bwrt dan chwerthin adynnawd y helym. Ae adnabot ef yna aoruc peredur. Ac yna ymlawenhau aoruc pob un wrth y gilyd cnadunt. a menegi aoruc pob un ohonunt y gyfranc yw gilyd. Ac uelly y trigyassant wy yll deu yno. Yma y mae yr ymdidan yn tewi amdanunt wy yll deu. ac yn traethu y wrth galaath.

XLVII.—En y lle hwnn y mae yr ymdidan yn traethu panyw gwedy daruot y galaath amdiffyn peredur. y gan yr ugein marchawc urdawl marchogaeth ohonaw trwy fforestyd y neill wers hwnt ar llall yma megys yr oed y gyflwr. yn y lleoed y gorffennawd ef llawer o anturyeu y rei nyt ydys yma yn eu menegi. kanys ry hir a ry vlin vydei pei menegit pob un onadunt yn ol y gilyd. Gwedy daruot y galaath uarchogaeth ar hyd brenhinyaeth loegyr ym pob lle or y clywei vot neb ryw antur neu damwein enryued. ef a ymchoelawd tu ar mor. Ac yna ef a damweinyawd idaw dyuot heb law castell yn y lle yr oed twrneimant diruawr y ueint y rwng y rei odyvywn. ar rei odieithyr. Eissyoes y rei odyvywn aoedynt gwedy eu gorchyfygu drwy y rei odieithyr. kanys mwy oed odieithyr y castell noc odyvywn. Pan weles galaath y bleit odyvywn yn mynet yny rann waethaf. ef a vedylyawd y nerthaei ef y rei hynny. Ac yna ef aollyngawd y varch y redec. ar kyntaf a gyfaruu ac ef. ef ae trewis yny vyd y waew yn drylleu. ac ar hynny tynnu y gledyf aoruc. a chyrchu yn eu plith. a dechreu curaw gwyr ameirch ac eu bwrw yr llawr. yny oed bawp yn ryuedu hynny. Yna gwalchmei yr hwnn aoed yny twrneimant ef ac ector. ac yn borth yr rei odieithyr y castell pan welsant y daryan wenn ar groes goch yndi. pob un onadunt adywawt wrth y gilyd vot yn ffol y neb ae harhoei. kanys yn erbyn y gledyf nyt oed un aryf yn parhau. ac ual yr oedynt yn ymdidan uelly. nachaf galaath yn brathu y varch tu ac attunt. mal yr oed y dynghetuen yn y hebrwng.

Digitized by Google

Atharaw gwalchmei ar draws y helym yny hyll. ac yny vyd y cledyf yny penn idaw ynteu. aphanabei droi y cledyf yn y law ef ae lladyssei yn varw. Eissyoes y dyrnawt adisgynnawd ar y march yny vyd y march yn deudryll. ar cledyf yny dayar. a gwalchmei yna a syrthyawd megys marw yr llawr. Pan weles ector walchmei gwedy cwympaw yr llawr uelly. kilyaw aoruc ynteu. kanys ef awydyat nat oed iawn synhwyr idaw y aros. ac y gyt ahynny hefyt na dylyei ymerbynnyeit ac ef. kanys meistyr abrawt idaw yttoed. Galaath ynteu avrathawd y varch y vyny ac y waeret. Ac yn enkyt bychan ef awnaeth kymeint ac y bu hyttraf y gwyr odyvywn drwy orchyvygu y lleill. A gwedy daruot idaw ef eu gorchyfygu wy. ef a gilyawd ymeith yn dirgel ual na wydyat neb pale y trosses. ac aaeth ar glot ar anryded or twrneimeint drwy y gytsynnyedigaeth y dwy bleit. Gwalchmei ynteu yr hwnn agawssoed drwc megys y tebygei ef nabydei vyw haeach adywawt wrth ector yr hwnn aoed yn y ymyl. Myn vyngcret i heb ef. mi awelaf yr awrhonn bot yn wir yr ymadrawd adywawt lawnslot wrthyf duw sulgwynn eleni am y cledyf aoed yn y maen marmor. ac ar cledyf hwnnw heb ef ymtrewit i yr awr honn. ual nas mynnwn yr tri dinas vyn taraw yn chwaethach yr tri chastell. Arglwyd heb yr ector. ae kyndrwc y briwyeist di ac y dywedy. Kyndrwc mynvyngcret heb ef. ac nat oes fford ym y dianc. onyt duw am kynghora. Beth awnawn ni wrth hynny heb yr ector. mi a debygaf heb ef lesteiryaw arnam ni yn pererindawt. Ny lesteiryawd y teu di heb y gwalchmei. kyt llesteiryo y meu I.

XLVIII.—Ac val yd oedynt wy yn ymdidan uelly. nachaf y marchogyon urdolyon or castell yn dyuot attunt. Aphan wybuant hwy panyw gwalchmei aoed yno gwedy briwiaw velly drwc vu gan rei ohonunt. kanys yn wir. nyt oed marchawc urdawl uwy agerit ympob gwlat noc ef. Ac wynt ae kymmerassant. ac ae dugassant yr castell ganthunt. ac a ducpwyt medygon oe edrych. A gwedy y edrych wynt aovynnassant a uydei iach ef. mi ae paraf heb y medyc yn gyn iachet erbyn

Digitized by Google

penn y mis ac y gallo marchogaeth adwyn arueu. Ac uelly y trigyawd gwalchmei ac ector yno yny vuant iach. Galaath ynteu a uarchockaawd ymeith or twrneimant yny doeth y nos honno hyt nat oed y ryngthaw a fforest celibe namyn dwy villtir. Ar nos honno ef alettyawd mywn ti meudwy yr hwnn a vu lawen wrthaw. Ac yna peri ystablu y varch ae diarchenu ynteu aoruc y meudwy. Agwedy daruot hynny y vwyta yd aethant y ryw ansawd aoed yn y ty yr hwnn a gymerth ef yn llawen. ac ar ol hynny y gysgu yd aethant. A gwedy eu mynet y gysgu ef adoeth y drws morwyn ieuanc yr honn aelwis ar galaath. yny doeth y meudwy attei. A govyn idi pa amser oed hwnnw idi y dyfot y wthyaw drysseu. Arglwyd heb hitheu mi avynnwn gael ymdidan ar marchawc urdawl ymywn. kanys anghenreit oed ym. Ac yna y meudwy adeffroes galaath. ac adywawt wrthaw. Arglwyd heb ef y mae morwyn ieuanc yna wrth y drws avynnei ymdidan athi. ac yssyd reit idi wrthyt. Ac yna galaath a gyfodes y vyny ac a ovynnawd idi beth a geissyei. Galaath heb hitheu kymer dy arueu ac esgyn ar dy varch adabre gyt ami. ac yn wir mi adangossaf ytti yr antur teckaf or aweles marchawc urdawl eiryoet. Galaath yna a gymerth y arueu ac aesgynnawd ar y varch. athrwy gennat y meudwy ef aaeth racdaw. ac aerchis yr vorwyn gerdet or blaen. a hynny aoruc hitheu. ac ynteu yny hol hi. Ac uelly y kerdassant yny doeth dyd arnunt. Ac yna wynt adoethant y fforest a honno abarhaawd udunt hyt y mor. honno aelwit celibe. Ac uelly y marchocaassant y fford vawr yn hyt y dyt heb gael na bwyt na diawt. Aphryt nawn gosberawl wynt adoethant y wastattir yn y lle yd oed castell tec cadarn o vur a ffossyd a dwvyr redegawc. Aphan weles y rei or castell wynt yn dyuot pawb adywawt. Grassaw duw wrthyt arglwydes. ae herbynnyeit aorugant megys pei hi vei arglwydes arnunt. ahitheu aorchymynnawd udunt vot yn llawen wrth y marchawc urdawl. kanys ny wisgawd arueu eiryoed uarchawc urdawl well noc ef. Ac yna y erbynnyeit ar

Digitized by Google

lewenyd ae diarchenu aorugant. Ae yna galaath aovynnawd yr unbennes ae yno y trigyynt wy y nos honno. Nac ef heb hitheu pan darffo yni vwyta a chysgu ychydic ni a awn ymeith odyma. Yna y vwyta yd aethant. ac ar ol hynny y gysgu. Ac yn y lle gwedy yr hun gyntaf. yr unbennes aerchis y galaath gyuodi. Ar gwyreeing or ty adugassant idaw torseu o gwyr wrth wisgaw y arueu ymdanaw. Agwedy daruot idaw wisgaw ymdanaw ef aesgynnawd ar y varch. Ar unbennes a gymerth y gyt a hi prenvol eureit a mein mawrweirthyawc gwedy y gyfansodi yndaw ac ae dodes ryngthi ar goryf. ac a gychwynnassant racdunt or castell. ac a varchockaassant yny doethant parth a glann y mor. aphan doethant wy yno. wynt a welynt yr ysgraff yd oedynt yndi peredur a bwrt. yn gogwydaw ar ymyl yr ysgraff ac yn aros galaath. Aphan y gwelsant wy ef wynt a vuant lawen pob un ohonunt wrth y gilyd. a bendigaw duw aorugant am ymgaffael y gyt ohonunt. Ac yna y mywn y doeth galaath ar unbennes. a dwyn kyfrwyeu eu meirch ganthunt ac adaw y meirch ar y tir. Ac ny bu gynt y doethant wy yr ysgraff noc y kychwynnawd hitheu yr mor. Ac yn enkyt bychan wynt agerdassant gyn bellet ac na welynt dim tir o un parth udunt. Ac uelly y buant wy yn hwylaw yny vu dyd. ac yna galaath aovynnawd y peredur ac y vwrt pa le y kawssoedynt wy ysgraff kyndecket ahonno. A bwrt adywawt nas gwydyat ef. Ac yna peredur adywawt y antur ef ual y clywssawch chwi or blaen. apha delw y dywawt yr offeiryat idaw yr ymgaffei yn ehegyr a bwrt ac a galaath. Eissyoes heb y peredur ny dywawt ef ymi dim am y vorwyn racko. Myn vyngcret heb y galaath ny dathoedywn i yma pany bei y vorwyn racko. kanys ny buasswn eirmoet ar y fford honn. ac ny theybygasswn inheu awch kaffael chwi awch deu y mywn lle mor estronawl a hwnn. Ac yna pob un adywawt y gyflwr yw gilyd ae anturyeu. A bwrt adywawt wrth galaath. Arglwyd heb ef pei atuei yman lawnslot dy dat ti. nyt oed arnam eissyeu dim ual na beym lawen. Ac ymdidan

Digitized by Google

uelly aorugant yny vu awr nawn. Ac yna wynt adoethant y dir ac y ynys diffeith y rwng dwy greic. Aphan doethant wy yno wynt awelynt ysgraff arall. Ac yna y vorwyn adywawt. arglwydi heb hi yn yr ysgraff racko yr mae yr antur o achaws yr hwnn y peris duw y chwi dyuot y gyt. Ac am hynny reit yw ywch vynet ohonn yr llall. Ni awnawn hynny heb wynteu yn llawen. Ac ymaes or ysgraff ydaethant. a chymryt yr unbennes gyt ac wynt aorugant. Aphan doethant wy hyt att yr ysgraff. tegach a mawrweirthogach y gwelsant wy honno nor gyntaf. A ryued vu ganthunt na welsant yndi na gwr na gwreic. adynessau attei aorugant. ac arganuot ar vwrd yr ysgraff llythyr yn ysgrivennedic. ac yn dywedut parabyl ofnus dechrynedic yr rei a vynnynt vynet y mywn. Nyt amgen oed yr ysgriven no hynn. Chwchwi uarchogyon y neb a vynno dyuot yma ymywn. pa un bynnac vo. edrychet vot yn da y gret. kanys nyt oes ohonafi dim onyt cret a ffyd. ac am hynny ymogelwch kynn awch mynet y mywn rac bot arnawch chweith halogrwyd. ac or byd ny cheffwch gennyf i chweith canhorthwy. ac yr awr y godiwedwyf i chwi yn torri neu yn gadaw un pwngk or ffyd. yna minneu ach gadawaf chwitheu.

XLIX.—Pan daruu udunt darllein y llythyr ae adnabot yna wynt a edrychassant pob un ar y gilyd. Ac yna yr unbennes adywawt wrth beredur. a adwaenost di vyvi heb hi. Na wnn heb ynteu pa un wyt ti. Gwybyd di heb hi mae myvi yw dy chwaer di. ac awdost di paham yr wyf yn peri ytt vy adnabot. y vot yn well y crettych ym am yr hynn adywettwyf wrthyt. A mi adywedaf ytt yn gyntaf megys yr neb mwyhaf agaraf or holl vyt. onyt yttwyt ti yn berffeith yn ffyd achret iessu grist o neb ryw vod nados di yr ysgraff racko. kanys yr awr yd elych ony bydy ual y dywedeisi ef ath gollir yn ehegyr. Pan y kigleu peredur hi yn dywedut uelly. edrych arnei aoruc. ae hadnabot a bot yn llawen wrthi. a dywedut wrthi. Mynvyngcret vy chwaer y dec heb ef myvi aaf ymywn. kanys llawn wyf offyd. a marchawc urdawl wyf megys y dylywyf vot. Dos ditheu

Digitized by Google

y mywn heb hi yn hy. a duw avo porth ytt. Ac ual yd oedynt wy yn ymdidan uelly. galaath dan dodi arwyd y groc arnaw aaeth ymywn yngyntaf ar vorwyn yn ol hynny. a bwrt a pheredur yn eu hol wynteu. Agwedy eu dyuot y-mywn wynt a edrychassant ar yr ysgraff. acny thebygynt wy vot ar y mor nac ar y tir un ysgraff kyndecket a hi. Kanys yr yttoed gwedy y phebyllu a llenneu o sidan oll. ac yny pebyll yd oed gwely dadigawn y adurnyat o lenneu goreureit. athu ac yno y doeth galaath dan ryuedu yn vawr tecket y gwely. ac ef aarganuu ar benn y gwely coron o eur ac istraet y gwely yd oed cledyf ac amrafael weith arnaw. kanys y bwmel aoed o vaen. yr hwnn yr oed yndaw kwbyl o holl liweu y byt. Ac yd oed yndaw heuyt lawer o amryuaelyon betheu enryued. ac am bop lliw yr oed rinwed. Dwrn y cledyf aoed gwedy y wneuthur o assen deu aniveil. y neill or aniueilyeit aoed o ryw genedylaeth seirff y rei a vegir yny wlat aelwir calidoin. a pob un or seirff aelwir pagagustes. ac enryued aoed ar esgyrn y pryf hwnnw pwy bynnac o dyn a dalyei y assen neu asgwrn arall idaw yn y law. ny bydei reit idaw ovyn dyuot tra gwres yndaw tra vei yn y law. a llyna y gyuared aoed ar y neill hanner yr dwrn. Y tu arall idaw adaroed y wneuthur o assen pysc yr hwnn ny vagei vyth onyt yn auon euffrates. ar pysc hwnnw aelwit orteniaus. Apha dyn bynnac a dalyei yny law dim o asgwrn y pysc hwnnw. ny deuei y gof idaw dim y wrth na llewenyd na dolur. nac y wrth neb ryw dim arall onyt am yr hynn y bei yn y vedylyaw pan y kymerei yn y law. ac yr awr y bwryei oe law ef adeuei oe gof ual y gnottaei y anyan y dywys-syaw. Y dwy rinwed hynny aoed yny dwy assen. y rei aoedynt yn dwrn y cledyf. gwedy eu gorthoi o syndal coch ac ysgriuennu llythyr eureit yndaw. ar llythyr yn dywedut ryued wyf om edrych. ac ys ryuedach om adnabot. kanys ny bu dyn eiryoet a allei gaeu y dwrn ymdanaf yr meint vei y law. ac ny byd vyth onyt un. a hwnnw aragora rac pawb or a vu eiryoet oe vlaen. ac rac pawp or adel yny ol. Ac uelly y dywedynt y llythyr aoedynt yn y dwrn. Aphan

Digitized by Google

daroed udunt eu darllein. ef a edrychawd pob un ohonunt ar y gilyd. a dywedut weldy yma ryuedawt mawr heb wynt. Myn vyngcret I heb y peredur myvi a brofaf gaeu vyndwrn ymdanaw. ae gymryt yn y law aoruc ac ny allawd ymgyrhaedut ymdanaw. Myn vyngcret heb ef tebic yw gennyf vot yn wir y mae y llythyr yny dywedut. ac yna bwrt ae profes. ac ny bu well y tygyawd idaw ynteu. Yna wynt aarchassant y galaath y brofi. ac ynteu adywawt nas profei. kanys mi a welaf yr awrhonn mwy o ryuedawt noc aweleis yr ystalym. Yna ef aedrychawd ar hyt gwein y gledyf. ac yno ef aarganvu llythyr bychein cochyon. ac yn dywedut. Na thynnet neb uyvi or wein honn ony wybyd arnaw vot yn well y llad achledyf noc arall. Apha un bynnac amgen vo hwnnw. gwybydet y byd marw yn ehegyr neu ynteu yn anafus. Aphrofadwy yw hynny arnafi yn yr amseroed aaethant heibyaw. Pan weles galaath hynny. ef adywawt. Myn duw heb ef mi a vynnasswn dynnu y cledyf hwnn or wein. ac bellach ny dodafi vy llaw arnaw ef. Myn duw heb y bwrt a pheredur ny rodwn ninheu yn dwylaw arnaw ef. Ac yna yr unbennes adywawt. tynnu y cledyf hwnn yssyd wahardedic y bob dyn onyt y un. a mi adywedaf ywch ual y daruu amdanaw ac nyt oes haeach. Gwir vu gynt heb hi dyuot yr ysgraff honn y dir yn rwy le yn y vrenhinyaeth honn. ac yn yr amser hwnnw yr oed ryuel y rwng brenhin lambar. yr hwnn aoed dat yr brenhin cloff a brenhin urlain. yr hwnn a vuassei sarassin ac yn amser y ryuel yd oed ef yn gristawn kystal ac y dywedei bawp nat oed yn y byt wr well noc ef. A gwedy daruot y vrenhin lambar ac y vrenhin urlain dyuot ae deulu ygyt yr un maes. ymlad aorugant yny oruu ar lambar ffo. Sef aoruc ef ffo yr ysgraff honn. ac arganuot y cledyf racko. Aphan weles ef brenhin urlain yny ymlit. ef a gymerth y cledyf ac adoeth allan. ac arodes dyrnawt y urlain. yny vyd ef ae varch yn deu dryll. a hwnnw vu y dyrnawt kyntaf arodet ac ef eiryoet. ac yn lloegyr y daruu hynny. Ac o achaws y dyrnawt hwnnw rac mor santeid oed y brenhin aladyssit. ef a vu gymeint

Digitized by Google

y dial a rodes duw amdanaw. ac na chaffat yny dwy vrenhinyaeth hynny yn hir o amser neb ryw ffrwyth or tir ar daear. nac or coet nac or dyfred. namyn sychu awnaeth pob ryw beth. Ac am hynny y gelwir y tir hwnnw yr hynny hyt hediw y vrenhinyaeth atueilyedic. Pan weles y brenhin y cledyf yn gynlymet a hynny. ef avedylyawd ydaei y gyrchu y wein. Ac yna y doeth ef yr ysgraff drachefyn a roi y cledyf yn y wein aoruc. Ac yny y syrthyawd ef yn varw yr llawr geyr bronn y gwely yma. Ac uelly y kaffat yn brofadwy ar y cledyf hwnn pa un bynnac ae tynnei y bydei varw yn ehegyr neu ynteu yn anafus. ac uelly y trigyawd corff y brenhin yn ymyl y gwely hwnn yny gaffat morwyn aaeth y mywn ac ae bwryawd allan. kanys nyt oed neb a lyuassei vynet y mywn rac ovyn y llythyr aoed yn ysgrivenedic ym bwrd yr ysgraff. Myn duw heb y galaath antur ryued oed hwnnw a mi a gredaf y vot yn wir.

L.—Galaath a vynnassei roi y law ar y cledyf aruedyr y dynnu pan erchis y vorwyn idaw aros ychydic etto yny welych ryuedawt yssyd yn ol. ac ynteu yna a beidyawd. ac aedrychassant y wein. ac eissyoes ny wydynt wy o baryw beth y gwnathoedit hi. namyn tybyeit mae croen sarff. Ac yr hynny ual kynt kyn gochet oed hi a deil y ros cochaf. ac ar warthaf hynny ydoed llythyr yn ysgriuennedic. rei o eur ereill o aryant. A-phan edrychassant wy arwest y cledyf. nyt oed neb ohonunt ny bei yn ryuedu. kanys ryw wregis a hwnnw ny chytwedei y gledyf kystal ac ef kanys o garth ac o gywarch y gwnathoedit ef. ac ynwannet yg wnathoedit ef ac na allei gynnal y cledyf un awr or dyd heb dorri. ar llythyr aoedynt yn y wein yn dywetut ual hynn. y neb am dycko I. ef adyly bot yn rymussach noc arall om dwc yn gynsanteidyet ac y dylyo vyndwyn. kanys ny dylyafi vynet y le y bo na budred na phechawt. ar kyntaf am dycko ef avyd ediuar ganthaw. ac am hynny kattwer vi yn lan ac ef a vyd diogel yr neb am harwedo ympob lle. kanys yr ystlys am arwedo i ny orvydir arnaw yn un lle or y bo. o chymer ymdanaw vyng-

Digitized by Google

gwregis yr hwnn y dylyir vy arwein wrthaw. ac na vit neb mor ehofyn ac y newittio ym na gwregis nac arwest amgen noc yssyd ym. kanys nyt kennat y neb vyng-gwellau i o wregis onyt y vorwyn dilygredic o vedwl ac o weithret. ae bot yn verch y vrenhin yn deilwng o vrenhines. Ahonno awna ymi wregis or hynn hoffaf genthi arnei ehun ac ae gossot yn lle hwnn. Ahonno a ryd henw arnafi ac ar y cledyf. ac ny wybyd dyn vyth vy henw yn iawn hyt hynny. Agwedy daruot udunt darllein y llythyr agwelet beth yr oedynt yn y dywedut. ryued vu ganthunt. Ac yna peredur aerchis y galaath troi y cledyf ar y tu arall idaw. Ac ynteu ae troes ef. ac yn y tu hwnnw heuyt yr oedynt llythyr yn dywedut. y neb hoffaf vo ganthaw vi. hwnnw vwyhaf amgogana yn yr anghenreit. ar neb y dylywn inheu vot yn da wrthaw. hwnnw am keiff inneu yn estronawl. ac ny byd hynny namyn unweith ac uelly y byd reit y vot. Pan weles y vorwyn hynny hi adywawt wrth beredur. Arglwyd heb hi y deupeth hynny wynt adoethant. a mi adywedaf ytt pa bryt. megys na bo reit y neb ofyn kymryt y cledyf hwnn or byd teilwng. Ef adaruu gynt deng mlyned arhugeint gwedy diodef crist dwyn naciens daw gan chwaer moradrins mywn wybren drwy orchymyn iessu grist mwy no thri diwarnawt arhugeint odieithyr y wlat hyt y mywn ynys aelwit yr ynys droedic. Aphan doeth ef yno ef aweles yr ysgraff honn. Agwedy y dyuot yr ysgraff. ef a arganvu y gwely ual y gwelsawch chwitheu. ac ef ahoffes y cledyf ac ae chwennychawdd yn vwy no dim or byt. ac nyt oed ganthaw o hyder ae tynnei or wein. Ac yno y bu ef wyth diwarnawt heb vwyta heb yuet. ac yn y nawuet dyd ef adamweinyawd y wynt dwyn yr ysgraff ymeith odyno hyt yn ynys arall bell. Aphan doeth ef yr tir yno. ef awelei gawr aruthur y veint. yr hwnn adywawt wrth naciens y lladei ef ar hynt. Ac yna ovynhau aoruc naciens pan y gweles yn dyuot tu ac attaw heb dim ganthaw oe amdiffyn. Ac yna dwyn hwyl yr cledyf aoruc ae dynnu allan. aphan y gweles ef yn noeth. ny bu dim kynhoffet ganthaw ac oed. ac yna

Digitized by Google

y ysgytweit aoruc yn y law. ac yr awr yr ysgytyawd ef adorres y cledyf yn deu hanner. yna y dywawt. och duw heb ef yr hynn hoffaf gennyf yn yr holl vyt mi ae kefeis yn waethaf. kanys ef a vethawd ym yn vy reit: Ac yna roi y cledyf aoruc ef ar y gwely gyt ae wein. abwrw neit or ysgraff aoruc. ac ymlad ar cawr ac arhynt y lad. A gwedy hynny ef adoeth ymywn drachevyn. Ac yna ef adrewis y gwynt yn yr hwyl. ar ysgraff avarchockaawd y mor yny gyfaruu ac ef ysgraff arall yn yr honn yr oed moradrins yndi. gwedy y vot ynteu yn godef llawer o brofedigaetheu kythreul ynggreic y bont beriglus. Aphan weles pob un ohonunt y gilyd llawen vuant ual y dylyei y neb y bei karyat mawr y ryngthunt. ac amovyn aoruc pob un ohonunt am gyflwr y gilyd. ac am eu hanturyeu. Ac yna y dywawt naciens. Arglwyd heb ef. yr pan weleist di vyui ryueda dim vu gennyf aweleis am y cledyf racko. ac yna dywedut y gyfrangk aoruc. Myn vyngkret heb y moradrins llyna beth ryued. ac edrych ar drylleu y cledyf aoruc ae hoffi yn vwy no dim. a dywedut. myn vyngkret i heb ef nyt yr drycyoni y torres y cledyf hwnn namyn oachaws dy bechodeu di. neu ynteu yr arwydockau peth arall. Ac yna moradrins a dodes y dryll wrth y llall. Ac yr awr y kyssylltwyt y neill dryll wrth y llall. ef a gyvannawd ehun yngynhawsset ac y bu ganthaw dorri. Aphan welsant wynteu hynny ryuedach vu ganthunt. Yna moradrins aroes y cledyf yn y wein. Ac ae gossodes yn y lle y gwelwch chwitheu yma. Ac yna wynt a glywynt llef yn dywedut wrthunt. ewch ymeith or ysgraff hon yr llall. kanys agos vu ywch a syrthyaw ympechawt. Ac och godiwedir chwi y mywn pechawt yma ny dienghwch heb perigyl. Ac yna wynt aaethant ohonno yr llall. Ac ual y byd naciens yn mynet or ysgraff pwy gilyd ef adrewit achledyf ar y ysgwyd yny vyd ynwysc y benn yn yr ysgraff arall. Aphan syrthyawd ef a dywawt. Och duw heb ef mi a vriweis yn drwc. Ac yna llef adywawt wrthaw. kymer hynny yn lle tynnu y cledyf yr hwnn nyt oedut teilwng oe

Digitized by Google

dynnu. Ac uelly ydoeth y parabyl yr hwnn yssyd yn dywedut. y neb hoffaf vo ganthaw vi. hwnnw vwyhaf am gogana yn yr anghenreit. kanys mwyhaf dyn eiryoet a hoffes y cledyf hwnn vu naciens. ac ef affaelawd y cledyf idaw yn y reit. Dadigawn heb y galaath y dyelleist di ym hynny. A dywet yn weithyon val y doeth y llall. yn llawen heb hitheu. gwir vu vot brenhin cloff gynt vy ewythyr i. ar gwr hwnnw a gynnydawd ar gret grist yn gymeint ar mwyhaf. tra vu yn gallel llafuryaw. achystal oed y vuched ac na ellit yn y byt gael y gyffelyb. Ac ual ydoed ef dyd gweith yn hely mywn fforest gyfagos yr mor. ef a golles y wrthaw y gwn ae gynydyon ae holl wyr namyn un kevynderw idaw ae kanlynawd. Aphan weles ynteu golli y gedymdeithyon ohonaw. ef a vu anghyflyryus ganthaw y hynt. kanys kyn anghyfarwydet oed ef yn y fforest honno. ac na thebygei vyth y vynet ohonei. Ac yr hynny ual kynt. kerdet aorugant lawer ef ae gevynderw yny doethant y ymyl y mor y tu ar Iwerdon. ac yno ef a weles y llong honn. Ac arhynt ef adoeth tu a bwrd y llong ac aweles y llythyr ual y gwelsawch chwitheu. Ac nyt argyssyryawd ef dim yr hynny megys y dylyei y neb awnelei bechawt ual y llityei y arglwyd wrthaw. Ac yna y mywn y doeth ef ehun kanys nyt oed ehofyn y gevynderw ar dyuot. ac arganuot y cledyf awnaeth ef ae tynnu kymeint ac awelwch chwi y maes or wein ohonaw. kanys yn yr amser hwnnw ny thynnassit ef allan ac nyt oed dim ohonaw yn noeth. ac efo ae tynnassei ef oll allan arhynt. panybei ar yr hynt honno y daraw a gwaew yny vordwyt yny vu ef vyth ohynny allan yngloff anafus. allyna ual yr anafwyt ef am y ffolineb. ac am y dial hwnnw y dyellir y geir am y vot ef yn estronawl wrth y neb y dylyei vot yn garedic wrthaw. kanys nyt oed or gristonogaeth wr well noc ef. Myn duw heb y galaath diogel digawn yr ysponeist di ym hynny. Ac yna edrych y gwely aorugant a gwelet ry wneuthur y deu erchwyn ae deu tal o tri amryw brenn. ar prenn aoed erchwynnawc geyr bronn aoed wynnach noc eiry pan vei newyd odi. Ar hwnn aoed drachevyn

Digitized by Google

aoed gochach nor ffion. ar prenneu aoedynt yn daleu idaw. oedynt wyrdach agloewach nor maen aelwir ysmeraud. Or tri lliw hynny yd oedynt gwyd y gwely wedyr wneuthur. A gwybydwch chwi yn wir na liwyssit eiryoet dim or prenneu hynny. namyn y lliw a rodes duw udunt oc eu hanyan ehunein. ac nyt dyn bydawl or byt ae lliwyassei wyntwy. ac rac tybyeit o neb or a warandawo y kyfarwydyd hwnn vot hynn yngelwyd. mi adrossaf ychydic odiar vy fford vyhun ac odyar defnyd y kyfarwydyt. ac a deallaf ywch annyan y prenneu y gwnaethpwyt y gwely ohonunt.

LI.—Ema ymae y kyfarwydyt yn dywedut panyw pan doeth eua y wreic kyntaf a vu eiryoet. aphechu drwy gynghor y kythreul yr hwnn a ryuelawd ar lines dynawl. yr awr y gwybu ef daruot y duw eu gwneuthur wy. ynteu ae hannoges wy y bechu yn varwawl drwy chwant. or achaws y gyrrwyt wynt o baradwys am gymryt onadunt ffrwyth y prenn adaroed gwahard udunt naskymerynt. Ac yr awr y daruu y eua kymryt y ffrwyth. ef adoeth kanghen or prenn ygyt ar ffrwyth ac hitheu ae duc y adaf y gwr. ac ynteu a gymerth yr aual oe llaw hi. Eissyoes y ganghen adrigyawd yn y llaw hi. Ac yr awr y daruu udunt hwy vwyta y marwawl ffrwyth hwnnw. a iawn yw y alw yn varwawl. kanys oblegyt y ffrwyth hwnnw y cawssant wy elldeu eu hangheu. ac y kafas pawp yn eu hol wynteu. yna yr ysprydolyaeth aoed udunt wynt ae kollassant. ac aedewit wynteu yn noeth. Aphan welsant wynteu hynny wynt a wybuant ry daruot udunt gyfeilyorni. Aphan welsant wy eu haelodeu kewilydyus. pob un ohonunt ae dwylaw elldeuoed a gudyawd eu kewilyd yn oreu ac y gallawd. ac yn llaw eua eissyoes ydoed y ganghen. heb ymadaw ywrthi o hynny allan. Aphan wybu y neb awyr y wrth vedwl pawp daruot udunt bechu ual hynny. ef adoeth attunt. ac adywawt wrth adaf yn gyntaf kanys iawnach oed y gerydu ef noe wreic. kanys y hi awnathoedit ohonaw ef. adaf heb ef ti a vwytey dy vara drwy chwys a dolur. a gwedy hynny ef adywawt wrthi hitheu. yndolur ac yntristit y megy di ti ac adel ohonat. agwedy

Digitized by Google

hynny ef ae gyrrawd ymeith elldeu o baradwys. A gwedy eu gyrru allan yna hi aarganuu y ganghen yn y llaw yn laswyrd. yna hi adywawt yr kadw cof ym y kollet mawr agolleis mi agadwaf y ganghen honn y gyt ami hyt trae gallwyf hwyaf. Ac yna y medylyawd hi na wydyat pa le y kadwei y ganghen. ae gossot yny daear yn unyawn. ac adywawt. yma heb hi y gallafi y gwelet hi pan y mynnwyf. ar ganghen ynteu trwy ewyllys duw aymafaelyawd ar daear. ac a wreidyawd ac a dyuawd yny yttoed yn brenn mawr tec. ac yn gynwynnet ar eirygwynnaf aallei vot. ahynny ympob lle ual y gilyd. Ac oblegyt y vot yn wynn. hynny a arwydockaei vot ay dugassei yno yn wyry pan yrrassit o baradwys. a gwybyd di yn lle gwir vot gwahan mawr y rwng morwyndawt a gwyrder. kanys morwyndawt yw yr honn ny bu idi gweithret a gwr eiryoet. Gwyrder yw peth yssyd amgen no hynny. kanys ny dichawn neb vot yn wyry or avo ewyllys ganthaw y wneuthur gweithret cnawdawl. y gwyrder hwnnw aoed yn eua pan y gyrrwyt o baradwys ac or digrifwch yd oed yndaw. ac yn yr amser y plannawd hi y ganghen ny chollassei dim oe gwyrder. Eissyoes gwedy hynny ef aanuones duw attunt wy y erchi udunt ymwasgu ygyt herwyd anyan. Ac yna y colles eua y gwyrder. Eissyoes mawr vu eu kewilyd wyntwy yn mynet y wneuthur y gweith mileinyeid hwnnw. Achymeint vu ac na allei yr un ohonunt edrych ar y gilyd. a hynny rac diruawr gewilyd. Ny lyfassynt wynteu dorri gorchymmyn eu harglwyd yr eilweith rac drycket vuassei y dial am y weith gyntaf. Ac yna edrych aoruc iessu ar y kewilyd aoed arnunt am na mynnassant wy torri y orchymyn ef. ac or tu arall bot y ewyllys yn mynnu panyw drwy genedyl dynawl y kyflennwit y decuet rad y nef or lle y syrthyassei yr engylyon o honaw trwy eu balchder. yd anuones ef ganhorthwy mawr or kewilyd hwnnw udunt. kanys ef aroes yryngthunt elldeu ryw dywyllwch hyt na welei yr un ohonunt y gilyd. A ryuedu hynny aorugant wynteu. paham ydoed y tywyllwch hwnnw y ryngthunt.

LII.—Ac yna yd ymdynessawd pobun ohonunt att y

Digitized by Google

gilyd. ac yd ymdeimlassant. ac yr ymadnabu bop un yn anyanawl y gilyd. Agwedy daruot udunt wy yr hynt honno y gwnaethant wy hat newyd drwy yr hwnn y lleihawyt eu penyt am y pechodeu awnathoedynt. yn yr hynt honno y kaffat abel wirion yr hwnn kyntaf eiryoet awassanaethawd duw wrth y ewyllys. Ac uelly y kaffat abel drwy vric y prenn yr hwnn adygessynt wy o baradwys. a hynny yn ryw wenergweith. Ac yna yr aeth y tywyllwch ymeith ac yr adnabuant wynteu panyw duw aanuonassei y tywyllwch yr kanhorthwy udunt. ac yr kudyaw eu kewilyd. yna y dangosses duw ryuedawt mawr. kanys oed kynno hynny ympob lle yn wynn oll. yr oed yr awr honno ynkynlasset ar gwellt glas. Achymeint ac ablannwyt or prenn hwnnw ohynny allan auuant las nac yn ffrwyth nac yn deil nac yn brenn. Ar kangheu ablannwyt ohonaw kynn ymwasgu o adaf ac eua dan y prenn. y rei hynny ny newityassant dim oe gwynder. achynn y gweithret hwnnw ny dugassei y prenn arnaw chweith blodeu eiryoet. Agwedy hynny wynt a vlodeuassant ac affirwythassant. ar prenn agymerth y lliw glas arnaw a gadaw y lliw gwynn. Hynny aarwydoc yr honn ae plannassei agolles y gwyrder. Ac uelly y bu y prenn hwnnw yn hir yn las. ac uelly heuyt y bydei bop un or adelei ohonaw yny vu abel yn wr mawr ac yn gywir y duw. kanys ef a degemei yn gywir or hynn teckaf ar y helw. Eissyoes kayn y vrawt. ny wnaei efo velly. namyn kymryt yr hynn gwaethaf a butraf ar y helw. A hwnnw aoffrymei ef ac y degemei oe arglwyd. A duw aedrychawd ar hynny. kanys y neb aoed yny offrymau ef ar betheu tec. yd oed ynteu yn amylhau idaw o bop peth tec. Ac nyt uelly yd oed ef yn y roi y gayn. namyn aflwydyannus vydei y lafur idaw. kanys budyr a hagyr a gwasgarawc vydei. ar hyt y meyssyd. achymeint ac y vei y abel. glan a thec a savwryeid vydei. Pan weles kayn vot yn llwydyannussach y abel y lavur noc idaw ef. ef a bechawd yn wrthrwm ac adalyawd kenuigen wrth abel. ac ae cassaawd yn ormod odieithyr messur. ac a vedylyawd pa delw y gallei dial arnaw hynny yn

Digitized by Google

gymeint ac y medylyawd yndaw ehun y lladei ef abel y vrawt. kanys ymywn mod amgen no hynny ny allei ef arnaw dial. Ac uelly y porthes cayn y lit ae vedwl yn hir o amser heb adnabot oe vrawt arnaw hynny. Ac megys yd oed abel diwarnawt yn mynet o dei y dat yr maes. ef adoeth hyt y dan vric y prenn. ac yno ef agysgawd. ac yn agos y hynny ydoed gain yn cadw y deueit. a thuac yno ynteu adoeth ar uedyr llad y vrawt heb wybot idaw. Eissyoes y vrawt ae kigleu ef yn dyuot. ac a gyuarchawd gwell idaw. Kanys mawr y karei ef y vrawt. ac adywawt wrthaw grassaw duw wrthyt vymrawt y tec heb ef. Ac yna kayn aeistedawd y gyt ac ef ac heb wybot idaw ef ae trewis dan benn y vronn a chyllell. ac uelly y bu uarw abel. drwy weithret y vrawt yn y lle y crewyt ef. Ac yma yd ydys yn tystolyaethu panyw yn yr amser hwnnw nat oed yny byt gwr namyn tri. Ar angheu hwnnw aarwydockaa angheu iessu grist. Kanys abel aellit y gyffelybu idaw ef. a chayn aellyt y gyffelybu y iudas y lleidyr awnaeth angheu iessu grist. Gwedy gwybot or arglwyd daruot llad abel. ef adoeth at gayn ac a dywawt. mae abel dy vrawt ti. Ac ynteu yna aattebawd wedy daruot idaw llad y vrawt ae gudyaw adeil rac y welet. Arglwyd heb ef ae myui yssyd warcheitwat ar vymrawt. Pa beth heb yr arglwyd awnaethost ditheu pan doeth llef attafi yngkwyn ygan waet abel. ac am wneuthur ohonat ti hynny ti a vydy emelldigedic ar y dayar. ar dayar a vyd emelldigedic yn dy weithredoed di o achaws gollwng ohonat ti y waet ef. Ac uelly yr ymelldigawd duw y dayar yno. Eissyoes nyt emelldigawd ef y prenn aoed yn y lle y llas abel nar prenneu ereill a datho o honaw. Ac or prenn hwnnw y doeth ryuedawt mawr. kanys yr awr y llas abel dan y prenn. ef asymudawd y prenn y liw. ac aaeth yngyngochet ar gwaet cochaf. a hynny debygwn i yr kadw cof am y gwaet agollassit y danaw. Ac ohynny allan ny thyfawd un ganghen or ablennit ohonaw. namyn marw achrinaw awneynt. Eissyoes y prenn adyfawd yn dec yn y lliw hwnnw heb lygru neb ryw dim arnaw. namyn na thyfawd neb ryw ffrwyth

Digitized by Google

arnaw yr pan ladyssit abel ydanaw. y prenneu ereill adeuei ffrwyth arnunt y rei ablannyssit ohonaw ef kynno hynny. Ac uelly y bu y prenn hwnnw yny amylhaawd y bobyl. Ac yna pawb awnaei enryded mawr yr prenn hwnnw. am wybot panyw eu mam gyntaf ae plannassei ac ae dugassei o baradwys. Ac hyt yno y deuei bawp megys y bererindawt. Ac ymgynghori aorugant hyt na lyuassei neb dorri un ganghen arnaw. A brenhin y bwyt y gelwit ef. Ac uelly y bu y prenn hwnnw yny vu selyf uab dauyd. yr hwnn a vu gyflawn o bop doethineb. ac o bop doethineb yn gymeint ac na allei dyn marwawl wybot mwy. kanys ef awydyat gwyrtheu pob maen a phob llyssewyn. ac anyan y syr ar sygneu. hyt na wydyat neb mwy noc efo onyt duw ehun. ac nyt oed gyn gadarnet ef yr hynny yny gymendawt ae doethineb. ac na allei wreic y dwyllaw ef yn vynych pan y mynnei drwy y hystryweu hi. ac ny dylyem ni ryuedu goruot o ystryw gwreic arnam pan oruydit ar yr henwyr kymen doethyon gynt.

LIII.—Pan weles selyf nat oed dim y synnwyr ef yn erbyn ystryw gwreic. ef auu ryued ganthaw o bale yd oed yr ystryw hwnnw yn dyuot yr gwraged. ac alidyawd dieithyr y hynny nyt ymdangosses ef. or achaws y dywawt ef yn un oe lyfreu yr hwnn aelwir parableu selyf. Mi aogylchynneis y byt. ac aethum trwydaw yn gymeint ac y gallei synnwyr dyn vwyhaf vynet. ac a geissyeis y byt o gwbyl. ac ynghwbyl ohynny ny weleis gaffael un wreic da. Y parabyl hwnnw adywawt selyf o lit wrth y wreic. yr honn ny allei ef dim wrth y hystryw. Ac ef ae profes hi yn vynych y edrych a allei oruot ar y synnwyr ac nys gallei. Aphan weles ef hynny ef aovynnawd idaw ehun. Pa natur oed y wreic lidiaw gwr mor vynych ac y gwnaei hi. Ac ar hynny ef a glywei lef yn dywedut wrthaw. Selyf selyf heb ef. o doeth tristit o wreic nyt reit y ryuedu. kanys ef adaw gwreic etto y keffir y cant kymeint o lewenyd ac yd ydys yr awr honn yny gael o dristit. Ar wreic honno aenir oth lines di. Pan gigleu selyf hynny ef ae kymerth ehun yn lle ffol am

Digitized by Google

gerydu y wreic. Ac yna ef a ystudyawd yn llyfreu y proffwydi ac a vedylyawd yn y hun ac odieithyr y hun y edrych a allei wybot pa un vydei diwed y genedylaeth ef. Achymeint vu y lavur ef yn ystudyaw ac yd eglurhaawd yr yspryt glan idaw yr antur am yr ogonedus ueir. Ac y dywawt idaw beth ywrth hynny adeuei rac llaw. Aphan gigleu ef dywedut y bydei yr arglwydes ueir. ynteu yna aovynnawd ae hyhi vydei diwed y genedylyaeth ef. Nac ef heb y llef gwr gwyry oe gorff vyd diwed dy genedylyaeth di. A hwnnw aragora dy genedyl di achenedyl pob dyn o vilwryaeth yn gymeint ac y ragora y wyry veir rac gwreic or byt. allyna vi wedy eglurhau ytti yr hynn yth weleis yn betrus ohonaw. Pan gigleu selyf hynny llawen vu am glybot bot mor racwerthuawr a hynny diwed y genedylyaeth ef. Ac yna selyf a vedylyawd pa delw y gallei peri yr marchawc diwethaf oe genedylaeth ef adnabot y vot yn rybucho idaw anrec caredic erbyn y dyuotyat. Ac nyt yttoed selyf yn gwybot pa ffuryf y gallei wneuthur peth a barhaei yn gyhyt a hynny. na pha ffuryf y gallel y marchawc hwnnw ynteu y gaffael gwedy asgwnelit. Ac yna y wreic ef aadnabu y vedwl abot yn anhawd idaw dyuot y benn ac ef. Aphan weles hi awr da arnaw ef hi ae gwediawd ar dywedut idi yr hynn aovynnei idaw. Ac ynteu adywawt megys y neb ny wydyat beth aoed yn y bryt y ovyn idaw y dywedei yn llawen. Arglwyd heb hitheu ti a vuost uedylgar yn hyt y pythewnos hwnn. Ac am hynny y gwnn i dy vot ti yn medylyaw am beth nyt ytwyt yn gallel dyuot y benn ac ef. ac am hynny mi a vynnwn gaffael gwybot beth yw dy vedwl. kanys mi adebygaf nat oes yny byt dim ny allwyfi dyuot y benn ac ef y rwng dy synnwyr di a meu inheu. Pan y kigleu selyf hi yn dywedut uelly ef a vedylyawd os dyn or byt aallei roi kynghor ar hynny y gallei hi. kanys ef a welsei lawer kymhendawt y genthi. Ac yna ef a dywawt y vedwl idi. Ahitheu yna a vedylyawd ychydic. agwedy hynny hi adywawt. Nyt reit ytti heb hi haeach o vedylyeit yn peri anrec yr marchawc hwnnw.

Digitized by Google

Ac yr adnabot o honaw ynteu y gwydut ti y genit efo oth lines di. llyma vyngcret heb ynteu nas gwnn i kanys y mae llawer o amser ohynn hyt hynny etto. Mynvyngcret hi mi ae dysgaf ytt. namyn dywet ti y mi yn gyntaf pa veint o amser yssyd hynny. Mi adebygaf heb ynteu vot ynghylch trychant mlyned. Mi adywedaf heb hi pa delw y gwney di. par wneuthur ysgraff or pren goreu aaller y gaffael apharaussaf. ac anhawssaf ganthaw drewi. Trannoeth y bore y mynnawd selyf dyvynnu attaw kwbyl o seiri y wlat. Agwedy eu dyuot ygyt ef aorchymynnawd udunt wneuthur yr ysgraff oreu or a ellynt y wneuthur o gyfryw brenn ny drewei vyth. Ac wynteu adywedassant y gwneynt yn y mod goreu ac y gellynt ac y deisyfei ynteu. Ac yna keissyaw y gwyd awnaethant adechreu. Yna gwreic selyf adywawt wrth y gwr. Arglwyd heb hi kanys gwdost di y byd y marchawc urdawl hwnnw ac y ragora ef o vilwryaeth. rac marchawc or auu eiryoet. nac or avyd vyth. ef avydei enryded mawr debygwn I gwneuthur idaw ynteu ryw aryf auei ragorussach y vreint noc aryf arall or a vu eiryoet nac or a vo vyth. A selyf adywawt nawydyat ef llunyaethu yr aryf hwnnw. Myui ae dysgaf ytt heb hitheu. Yn y demyl heb hi awnaethost yr anryded yr arglwyd y mae cledyf dd. dy dat ti. yn oreu ac yn llymmaf or a wnaethpwyt eiryoet o gledyfeu y byt. kymer di y cledyf hwnnw a thynn y bwmel ae dwrn y wrthaw. Athitheu kanys atwaenost wyrtheu y mein ar llysseu gwna idaw dwrn a phwmel. a gwein. ual na bu ac na byd y gyfryw. Agwedy hynny minneu arodaf idaw arwest ual y rangho bod ym y roi. Ac uelly y gwnaethpwyt megys y clywssawch yn lle arall or blaen. Pan daruu gwneuthur yr ysgraff ae dwyn yr mor. ef abarawd gwreic selyf gwneuthur gwely tec yndi. a roi kylchedeu tec arnaw. Ac ar benn y gwely y rodes selyf y goron. Ac ar draet y gwely y rodes y wreic y cledyf eissyoes y arwest ef awnathoedit o garth. or achaws y llidiawd selyf. ac ydywawt nat oed deilwng bot y ryw arwest ahonno. y gledyf kystal ahwnnw. A hitheu yna a dywawt na-

Digitized by Google

chaffei ef amgen arwest no honno yny delei ryw vorwyn ae rodei idaw. ac ni wnn i pa amser vyd hynny heb hi.

LIV.—Ny lauuryawd selyf mwy yna yn erbyn y wreic. ac ef a beris gwneuthur pall yr ysgraff o syndal. ac edrych ar y gwely aorugant. Ac yna y wreic adywawt nat oed gwbyl y gwely a chymryt deu saer ygyt a hi aoruc. A dyuot hyt y prenn y lladyssit abel ydanaw. Ahi aerchis udunt torri peth ar y prenn. Ac wynteu a dywedassant na dylyit torri dim arnaw. kanys eua ae dugassei ef o baradwys ac ae planassei yno. Yna hi adywawt ony thorrynt wy beth or prenn y parei hi eu distrywyaw wynt ac eu diuetha. Ac yna rac ovyn dechreu torri y prenn aorugant. eissyoes nyt athoedynt wy haeach yndunt yny symudawd arnunt kanys or prenn y gwelynt yndyuot dafneu o waet. Ac yna wynt a vynnassynt beidyaw ac ef. pan beris hitheu udunt yr eilweith oe hanuod dechreu arnaw. athorri kanghen uawr aorugant wy ohonaw ef. agwedy hynny hi a beris udunt dorri y gymeint arall or prenn glas. ac or prenn gwynn y gymeint arall heuyt. Ac ar tri amryw brenn hynny y doethant wy hyt yr ysgraff. Ac or rei hynny y gorchymynnawd hi udunt wy gwneuthur erchwynnawc yr gwely. Ac uelly y gorugant wynteu. Yna selyf aedrychawd ar yr ysgraff. a gwedy hynny adywawt wrth y wreic. Pei at vei yr holl vyt yma ny deuynt yr ystryw y doethost di idaw. ac ny wydynt beth a synhwyrei yr ysgraff honn. ac nys gwdost ditheu ac nysgwybyd y marchawc urdawl y gwnaethpwyt ar y odeu. onyt duw yn gyntaf ae synhwyra idaw. Gat ual y mae heb hitheu kanys ti aglywy yma chwedleu newyd yn ehegyr. Y nos honno y kysgawd selyf yn ymyl yr ysgraff. ac ual y byd yn kysgu. ef awelit idaw efo vot yndyuot y wrth y nef gwr. ac ygyt ac ef llawer o engylyon ac yn mynet yr ysgraff. Ac yna ef awelei y gwr yn kymryt olaw un or engylyon gorlwch o aryant debygei ef. ac ohwnnw yn kymryt ryw beth ac yn iraw yr ysgraff. ac odyna yn ysgriuennu llythyr yn y bwrd. A gwedy hynny ef ae gwelei yn

Digitized by Google

kymryt y cledyf ac yn ysgriuennu yndaw ympob lle hyt yn oed yny wein. ac odyno ef awelei y gwr yn kysgu yn y gwely. Ac yn hynny y difflannawd ef y ganthaw ef ar engylyon. Athrannoeth y bore y kyfodes selyf ac adoeth parth ar ysgraff. Ac yno ef awelei yn ysgriuennedic yndi yr ymadrawd ual y dywetpwyt or blaen. Aphan weles selyf hynny ny lyuassawd ef vynet idi ymewn. A chiliaw y wrthi aoruc. Ac yna y gwynt a dwysgawd yn hwyl yr ysgraff. Ac yr mor y kyrchawd yn gynebrwyded ac y colles selyf y olwc arnei yn ehegyr. Sef aoruc selyf yna eisted ar lann y mor amedylyaw ynhir. Ac yna ef a glywei lef yn dywedut wrthaw. Selyf heb ef y marchawc urdawl diwethaf oth genedylyaeth di aorffowys etto yn y gwely a baryssawch chwi ti ath wreic y wneuthur. Ac a wybyd yn wir mae tydi aberis gwneuthur yr ardunyant hwnnw idaw efo. llawen iawn vu gan selyf y chwedleu hynny ac eu dywedut y bawp aoruc. Allyna gwedy dywedut ywch pa delw y goruu y wreic o synhwyr ar selyf uab dd. aphaham a pha delw y gwnaethpwyt yr ysgraff. aphaham yr oedynt y prenneu racko or tri amryw liw a hynny o natur. Yma y mae y kyfarwydyt yn ymchoelut ar y defnyd ehun drachefyn.

LV.—Ema y mae yr ymdidan yn dywedut bot y tri chedymdeith yn edrych ar y gwely yn hir yny wybuant yn hyspys panyw lliw annyanawl aoed ar y prenneu. yr hynn a vu ryued ganthunt pa anyan awnaei udunt vot uelly. Agwedy daruot udunt edrych ac amkanu y gwely. wynt awelsant ar glustawc yny gwely pwrs wedyr wneuthur o sidan. apheredur a ymauaelawd ac ef. ac yn y pwrs ef agafas llythyr. Yna y kedymdeithyon a dywedassant. os da gan duw y llythyr hwnn an gwna ni yn dilis ac yn diogel or ysgraff hwnn. Ac a venyc yni paham y gwnaethpwyt. Ac o ba le y doeth. aphwy ae gwnaeth gyntaf. yna peredur adechreuawd darllein y llythyr. Ac yndaw y kafas ystyr gwneuthuryat yr ysgraff ar gwely ar cledyf ygeir yny gilyd ual y clywssawch or blaen. Gwedy daruot y peredur darllein

Digitized by Google

kwbyl or llythyr. ef adywawt wrth galaath. reit vyd y chwi vynet y geissyaw y vorwyn arodho arwest neu wregis yr cledyf hwnn kanys heb hynny ny dyly neb arwein y cledyf nae dwyn odyyma. ac wynteu adywedassant na wydynt y keffynt y vorwyn honno. ac yr hynny ual kynt reit yw mynet oe cheissyaw. Pan gigleu chwaer beredur hynny hi adywawt. Arglwydi heb hi na vit arnawch un goual am hynny. kanys os da gan duw kynn awch mynet chwi odyma. ef a geiff kymeint ac aberthyno idaw oblegyt y wregis. a hynny osidan eureit ac o wallt penn. Eissyoes kyndecket oed yr hynn aoed owallt penn yndaw ac o vreid y gellit yadnabot y wrth yr adaued eur. Ac yn yr ysnodenneu eureit or gwallt ar sidan yr oedynt gwedy eu kyfansodi mein mawrweirthyawc. a gwaec y cledyf ae bendoc aoedynt o eur ac assur. a mein carbonculus. a gwybydwch chwi heb y uorwyn y wneuthur ef ohonafi or hynn hoffaf gennyf ar vyngcorff. nyt amgen noc om gwallt. ac nyt oed ryued. kanys duw sulgwynn y dyd yth wnaethpwyt ti yn uarchawc urdawl. yd oed ymi y gwallt teckaf or aoed y vorwyn yn yr holl vyt. Ac yna pan giglefi vot antur y byt ual ydoed. mi abereis y gyneifyaw agwneuthur y gwregis ual y gwelwch chwi. Bendyth duw ytt heb wynteu am hynny. Ac yna y uorwyn a ossodes y gwregis wrth y cledyf ual yd oed dadigawn y gwedei idaw. Ac yna hi adywawt. arglwydi heb hi. awdawch chwi pwy henw y cledyf hwnn. Aunbennes heb wynteu nys gwdam ni. namyn med y llythyr tydi bieu roi henw idaw ef. Arglwydi heb hitheu minneu arodaf henw idaw. y cledyf ar gwregis estronawl. Gwedy daruot hynny wynt a dywedassant. galaath heb wy. yr duw gwisc ymdanat cledyf yr odidawc wregis yr hwnn adamunwyt y welet yn vynych yn lloegyr. Gedwch ym heb y galaath edrych aallwyf gaeu vyndwrn arnaw. ac onys gallaf. nyt meu I dim ohonaw. Gwir yw hynny heb wynteu. Ac yna ymafael ar cledyf aoruc galaath a chaeu y dwrn arnaw ual yr oed y vawt yr taraw dros y beruedyus.

LVI.—Pan weles y kedymdeithyon hynny wynt

Digitized by Google

adywedassant wrth galaath. Arglwyd heb wynt y cledyf yssyd deu di. Ac am hynny gwisc ymdanat. Sef awnaeth galaath yna y dynnu allan ual yr oed bawp yn ryuedu y eglurder. Agwedy y ossot yn y wein drachefyn y vorwyn adoeth ac adynnawd y cledyf arall aoed ymdanaw. ac agymerth y cledyf ar odidawc wregis ac ae gwisgawd am y ystlys. Aphan daruu idi hynny hi adywawt. Nym tawr I bellach heb hi pa bryt y mynno duw teruynu ar vy hoedyl. kanys rodes duw ym o ras kael gwneuthur yn uarchawc urdawl y goreu or holl vyt. kanys bit dieu ytti nat yttoedut yn uarchawc urdawl kwbyl yny gaffut y cledyf hwnn. A unbennes heb y galaath. ti awnaethost gymeint ac ydwyf uarchawc urdawl i ytti pa le bynnac y bwyf. a duw a dalo ytt am dywedut uelly. Arglwydi heb hi nyni aallwn vynet pan y mynnom odyma ar ysgraff. Y duw y diolchafi heb y peredur vy mot i wrth orffen antur kyn decket a hwnn. Kanys odidockaf antur aweleis I hwnn eiryoet. Ac yna wynt adoethant oe hysgraff ehun. ar gwynt adrewis yn yr hwyl. athrwy rym yr hwyl ar gwynt yr ysgraff a gychwynnawd ymeith. A hwylyaw aoruc hi yn hyt y nos. ar nos honno y buant wy heb vwyt ac heb diawt. megys nat oed udunt chweith defnyd y hynny. yna gwisgaw eu harueu aorugant wy. Athrannoeth y bore wynt a arganuuant gastell gyferbyn ac wynt. yr hwnn aelwit carcaleis. ac aoed ar lann y mor ym mars prydyn. Aphan doethant wy yr tir. wynt a diolchassant y duw eu dwyn yn iach hyt yno. Ac yna y borth y castell y doethant. ar uorwyn yna adywawt. Arglwydi heb hi ny wdam ni beth yw yn hynt yma. Ac ny byd mwyn awch kyflwr or gwybydir awch hanuot o lys arthur. kanys nyt oes yn y byt gwr kymeint a gasseir yma ac efo. Pa drwc yw hynny heb y bwrt. kanys y neb an duc ni yn iach or lleoed y buam hyt yma ef an dwc odyma pan y mynno. Ac ual y bydant yn ymdidan uelly nachaf gwraeng yndyuot yn eu herbyn. yr hwnn adywawt wrthunt arglwydi uarchogyon urdolyon pa rei ydych chwi. ac wynteu a dywedassant eu hanuot o lys arthur. ae gwir heb ynteu.

Digitized by Google

Myn vympenn lle drwc ar awch lles y tiriassawch. Ac yna ymchoelut aoruc hwnnw drachefyn a chanu corn yny glywit ym pob lle yny castell. Ac ar hynny morwyn adoeth attunt. ac aovynnawd udunt o ba le yr hanhoedynt. ac wynteu adywedassant panyw o lys arthur. Och arglwydi heb hi yr duw ymchoelwch drachevyn. ac onyt ymchoelwch. mynduw chwi a doethawch ar awch angheu. A unbennes heb wynt ny allwn ni ymchoelut. ac na uit arnat un goual. Kanys y neb ydym ni yn y wassanaethu an dwc ni odyma yn iach pan y mynno. ac ar ymadrawd hwnnw wynt awelynt yndyuot tu ac attunt dec marchawc urdawl yn aruawc. y rei aerchis udunt ymroi. neu wynteu a veynt veirw. Ac wynteu a dywedassant yna nat ymroynt yrdunt. Gan hynny heb wynteu neur doeth awch diwed chwitheu. Ac yna brathu eu meirch tu ac attunt aorugant. Ac wynteu kynny beynt namyn tri. a heuyt ar eu traet. tynnu cledyfeu aorugant. Apheredur yna adrewis un onadunt. yny byd hwnnw y ar y uarch yr llawr. Ac yna peredur a gymerth y march ac a esgynnawd. ac uelly heuyt y daroed y galaath wneuthur. ac yr awr y kawssant y meirch wynt ae kurassant yn gynffestet ac y kafas bwrt heuyt varch. Aphan weles y lleill hynny wynt affoassant. Ac wynteu ae hymlidyassant yny gaeassant y twr mawr arnunt. A gwedy dyuot galaath ae gedymdeithyon y neuad uawr aoed yn y kastell. wynt awelynt yno ysgwieryeit. amarchogyon urdolyon yn gwisgaw arueu ymdanunt achaws y cri a glywynt arhyt y castell ar dref. Sef aoruc galaath yna ae gedymdeithyon eu kuraw megys anniueilyeit. Ac wynteu a geissyassant ym amdiffyn. Eissyoes or diwed ef aoruc arnunt wy ffo. A galaath yna a ymlauuryawd yn gymeint ac y tebygassant wy nat oed ef wr bydawl. Ac am na thygyei dim udunt wynt a ffoassant yr ffenestri ac yr muryoed ac aymollyngassant y dorri eu mynygleu. A gwedy daruot yr tri chedymdeith ymrydhau y ganthunt. edrych aorugant ar y kalaned. ac ediuarhau arnunt yn uawr gwneuthur ohonunt gweithret mor bechadurus a hwnnw. Yna bwrt

Digitized by Google

adywawt. rofi aduw heb ef pei karei duw wynt o dim ny adei wneuthur arnunt y lladua honn. Ac agatuyd pobyl angcredadun ynt. ac awnaethant ryw gamweithret yn erbyn duw yn gymeint ac na mynnei ef udunt hwy eu bywyt mwy. ac am hynny duw an anuones ninheu yma oe diuetha wy. Bwrt heb y galaath nyt da dywedut uelly. Kanys pei gwnelynt wy gam yn erbyn duw. nyt yn llaw ni yd oed y dial. namyn yn llaw y neb aat yr pechadur ymaros yny adnapo y bechawt. ac yny wnel penyt drostaw. ac am hynny ny bydafi lawen vyth yny wypwyf wirioned am eu buched. Ac ual y bydant yn ymdidan uelly nachaf wr prud yn dyuot o ystauell. a gwisc offeiryat ymdanaw. a chorff yr arglwyd y rwng y dwylaw. Aphan weles ef y kalaned ef a symlawd arnaw yn uawr. ac a gilyawd drachefyn megys dyn ac ofyn arnaw. Ac ygyt ac hynny heuyt na wydyat beth adaroed udunt. Agalaath yna pan weles y caregyl y rwng y dwylaw a dynnawd y helym y am y benn. ac aerchis idaw na bei arnaw un ofyn. Ac yna yr offeiryat aovynnawd y galaath pa rei oedynt. ac ynteu adywawt panyw o lys arthur yd hanhoedynt. Pan gigleu y gwrda hynny diogel vu ganthaw. Ac yna galaath aberis idaw eisted yn y ymyl. a dywedut aoruc ef yr offeiryat y gyfrangk or dechreu hyt y diwed. Pan gigleu ynteu hynny ef adywawt. Arglwydi heb ef. gwybydwch chwi yn lle gwir ry wneuthur ohonawch y gweithret goreu or a wnaeth marchogyon urdolyon eiryoet. Aphei bydewch byw chwi hyt dyd brawt ny thebygafi gallel ohonawch gwneuthur alwyssen kymeint ac a wnaethawch hediw. kanys nyt oed yn yr holl vyt dynyon kyn gasset ganthunt yn arglwyd ni iessu grist. ac oedynt gan dri broder aoedynt yn kynnal y kastell hwnn. ac rac eu drycket wynt. yd oed y bobyl or dref ac or castell yma yn waeth no sarascinyeit. Ac ny wneynt dim onyt yn erbyn duw ar eglwys. Arglwyd heb y galaath yd oed yn ediuar gennym ni gwneuthur hynny. Nac ediuaret vyth arnat heb yr offeiryat. a mi arodaf vy llw ytt y keffy diolwch gan duw. kanys gwaethaf pobyl oedynt. a mi a dywedaf yt pa ffuryf yr oedynt uelly.

Digitized by Google

LVII.—Ar y castell hwnn yd oed arglwyd gwr a elwit ernwlff. ac yd oed idaw drimeib yn wyr grymus o arueu. ac un uerch a oed idaw deckaf yn y byt. ae thri broder ae karawd yn gymeint ac y gwnaethant gweithret uffernawl a hi yn erbyn y hewyllys hi. ac am gwynaw o honei hi wrth y that. wynt ae lladasant hi. Aphan weles eu tat wy hynny ef a geissyawd eu gyrru wy ymeith y wrthaw. ac ny diodefassant wy hynny namyn wynt a gyrchassant eu tat ac ae ffustassant yn drwc. ac ae lladyssynt yn uarw pany bei vrawt idaw a lesteiryawd arnunt. A gwedy daruot udunt hynny wynt a wnaethant y drygeu mwyhaf ac a allyssant. ac a ladyssant yscolheigyon ac offeiryeit a myneich. ac a vwryassant yr llawr yr eglwysseu ar capeleu. ac awnaethant o drygeu gymeint ac y mae ryued nas llyngkawd y dayar wynt yr ystalym. Ar bore hediw yd anuones eu tat wy gennat attafi y dywedut y uot yn agos y varw. ac y erchi yr duw y minneu dyuot oe gymunaw. A minneu a deuthum yn llawen. kanys kedymdeith oedywn idaw yr ystalym. aphan doethum y mywn ny allei sarascinyeit wneuthur ym ogewilyd mwy noc awnaethant. A minheu adiodefeis hynny. Aphan doethum yr carchar lle yd oed y gwr da. mi adywedeis idaw y kewilyd a wnathoed y veibyon ym. Ac ynteu adywawt. py drwc ytti ohynny. kanys llef y gan iessu grist adoeth attaf y dywedut ym y deuei uarchogyon iessu grist y dial arnunt dy gewilyd di ar meu inheu. Ac am hynny heb yr offeiryat y gwnn I panyw duw achanuones chwi yma oc eu diua wyntwy. A chwi awelwch etto arwyd avo eglurach am hynny noc awelsawch hyt yn hynn. Yna yr offeiryat a wylyawd o dostur drycket oed eu buched. Ac yna ydoeth galaath y gyt ar offeiryat y edrych y gwr aoed yn glaf. yr hwnn a vu lawen wrth galaath pan y gweles. ac aerchis idaw eisted y dan y dwy ysgwyd. kanys esmwythach vyd ym eneit vot gwr kystal a thydi wrth y ysgar ar corff budyr. Ac yna galaath ae kymerth yn y arffet ac a aeth dan y dwy ysgwyd. a gogwydaw ar alaath aoruc ynteu a llewygu megys y tebygassynt yn dieu y varw ef. ac ympenn talym gwedy hynny ef a dywawt.

Digitized by Google

Galaath heb ef y mae y pennaf or arglwydi yn hyspyssu drossofi daruot ytti hediw dial ar y elynyon ef yn gymeint ac y mae engylyon nef yn llawenhau. Ac ef avyd reit itti vynet yn vuan odyma ymmeith y vwrw anturyeu ereill. Ac ar hynny y gwahanawd y eneit ef oe gorff. ar bobyl aadawssit yn vyw yno a vu drwc ganthunt y varw rac y daet gwr. Agwedy daruot y galaath beri cladu y gorff yn anrydedus. trannoeth y bore wynt a gerdassant ymeith yll tri. a chwaer beredur ygyt ac wynt. Amarchogaeth aorugant hyt pan doethant hyt y mywn fforest. ac yno wynt awelsant carw gwynn. a phedwar llew ygyt ac ef. y rei awelsei beredur kynno hynny. Galaath heb y peredur ti aelly welet yr awr honn beth enryued. Mynvyngkret heb y galaath ny weleis i eirmoet beth kyn ryuedet. a gwelet y pedwar llew yn kanlyn y karw. Mynvyngcret i heb y peredur mi ae dilynaf ef yny wypwyf beth aarwydockaa hynn. ac uelly vinneu heb y galaath. ac am hynny awn yn y ol. ac ymlidywn ef. kanys mi adebygaf vot y gartref yn agos. Ac yna yn y ol y kerdassant yny doethant hyt y mywn glynn tec. ac or glynn y greic uawr y kyrchassant yn y lle yr oed ty meudwy yr hwnn a oed wr da prud. ac yr ty yno ydaeth y karw ar pedwar llew yn y ol ynteu. ar marchogyon yna a disgynnassant ac adrossyssant tu ar capel. ac yno wynt agawssant y meudwy gwedy gwisgaw ymdanaw ar uedyr mynet y ganu offeren or yspryt glan. Ac yna gwarandaw offeren yn ewyllyssyawl aorugant yny yttoed yr offeiryat ar dirgeledigrwyd y offeren. Ac yna wynt awelynt debygynt wy y karw gynneu a welsynt. yn mynet yr awr honno yn ffuryf gwr ac yn eisted y mywn cadeir eureit ar yr allawr. ar pedwar llew yn ymsymudaw un ohonunt yn ffuryf gwr. ar eil yn eryr. ar trydyd yn ych. ar pedweryd yn llew. ac esgyll y bop un o honunt ual y gellynt ehedec. ar pedwar hynny a gymerassant y gadeir ar gwr yndi. ac aaethant ac ef y ryngthunt drwy ffenestyr wydyr heb waethau na thorri dim ar y ffenestyr yr hynny. Agwedy eu mynet wy ymeith wynt a glywynt lef yn dywedut. Yn y mod yr aethant wy allan

Digitized by Google

yn diargywed ac yn dilwgyr yr ffenestyr wydyr. velly y disgynnawd duw yngcroth yr arglwydes ueir yn diargywed oe gwyrder hitheu ac oe morwyndawt. Aphan dewis y llef wynt a syrthyassant ae torr wrth y llawr pob un ohonunt. kanys y llef arodassei oleuni kymeint ac na allei neb edrych arnaw rac y veint. Aphan edrychassant wy yn eu kylch wynt a welynt yr offeiryat yn diosc y wisc y amdanaw. Ac yna wynt adoethant attaw. Ac ae gwediassant ar dywedut udunt beth a arwydockei yr hynn awelsynt. A dywedut idaw aorugant ual y gwelsant. Aphan gigleu y meudwy hynny ef adywawt. grassaw duw wrthych heb ef yr awr honn y gwnn I panyw chwchwi yw marchogyon urdolyon iessu grist drwy y rei y gorffennir anturyeu seint greal. kanys y chwi y dangosses duw y dirgeledigaetheu. kanys iessu grist ehun oed y gwr a welsawch chwi..ar pedwar llew oed y pedwar euangelystor. ac yr ystalym yd ymdangosses yn y fforestyd yma yr gwyrda creuydus. ac ny wybuwyt dyall beth oed ef hyt yr awr honn. ac ny byd ar ol hynn bellach gwr ae gwelo uelly.

LVIII.—Pan glywssant wy y parableu hynny diolwch y duw aorugant. ac wylaw olewenyd am wneuthur o duw yrdunt beth kymeint ac ymdangos udunt yn annat neb. Yn hyt y dyd hwnnw y buant wy gyt ar gwr da. Athrannoeth y bore gwedy offeren peredur a gymerth cledyf galaath yr hwnn a dynnassei or maen. Ac adywawt wrth galaath y dygei ef hwnnw ohynny allan. ac adaw y gledyf ehun yno ygyt ar meudwy aoruc. Gwedy kychwyn odyno wynt avarchockayssant hyt am hanner dyd. Ac yna wynt adoethant y ymyl castell kadarn tec. eissyoes nyt aethant wy y mywn. kanys nyt yttoed eu fford yn troi yno. A gwedy pellau ohonunt ychydic ywrth y castell nachaf y gwelynt yn dyuot yn eu hol marchawc yn aruawc o bop arueu yr hwnn adywawt wrthunt. Arglwydi heb ef a yttiw y verch honno yn uorwyn etto. Yttiw myn vyngcret heb y bwrt. Aphan gigleu ynteu hynny ef a ymauaelyawd affrwyn yr unbennes. ac a dywawt wrthi. Ny dienghy di odyma heb ef yny gwpleych aruer y castell

Digitized by Google

racko. Pan weles peredur y marchawc yn daly y chwaer yn y mod hwnnw ef a vu drwc ganthaw. ac adywawt wrthaw. Tydi uarchawc heb ef ny welir ymi dy vot ti yn gymen. kanys pob morwyn adyly bot yn ryd idi bop fford. heb daly neb ryw aruer na tholl. ac yn enwedic pob merch vonhedic. Ac ual y bydant yn ymdidan uelly nachaf yn dyuot attunt dec marchawc yn aruawc. a chyt ac wynt unbennes ieuanc. ac yn y llaw dysgyl aryant. Ac yna wynt adywedassant. ef a vyd reit heb wy yr vorwyn honno ae ouod ae o anuod dalu y aruer yr castell. Galaath yna aovynnawd pa ryw aruer oed hwnnw. Arglwyd heb un or marchogyon pob morwyn or a del y fford yma. ef a vyd reit idi rodi lloneit y dysgyl honn o waet y breich deheu idi. Emelldigedic heb y galaath vo y neb aossodes yr aruer hwnnw rac y vileinyet ae drycket. ac myn y gwr am nerthao i ti a ffaelyeist o hynny ar y vorwyn honn yma. kanys tra vwyf vyw i o chret hi ym kynghor i ny cheffwch chwi dim or aruer hwnnw y genthi hi. Myn duw heb y peredur a bwrt nyni aodefwn angheu yn gyntaf. Myn yn cret ninneu heb wynteu chwitheu a doethawch ar angheu. kanys pei at vydewch goreu marchogyon chwi or holl vyt. nyt oed fford ywch y barhau. Ac ar hynny pob un agyrchawd y gilyd heb mwy o gywryssed y ryngthunt. Ac yna galaath ae gedymdeithyon kyn torri eu pelydyr a vwryassant y dec marchawc urdawl. ac odyna wynt adynnassant eu cledyfeu ac ae lladassant megys pei aniueilyeit mut ueynt. ac ar hynny nachaf deugein marchawc yn aruogyon yn dyuot or kastell. Ac oe blaen yd oed gwr prud yr hwnn adywawt wrth y tri chedymdeith. Arglwydi heb ef ymrowch ac na haedwch awch llad. kanys collet mawr oed golli gwyr kystal a chwi. ac am hynny myui ach gwediaf chwi yr duw y ymroi yn ewyllys y gwyr racko. Myn vyngcret I heb y galaath yr wyt yn treulyaw dy ieith yn ouer. kanys tra vom vyw ni nyt ymryd hi na minneu heuyt y chwi. Paham heb y gwr ae marw avynnwch chwitheu yr y vorwyn. Nysgwnn I heb y galaath ny doetham ni hyt yno etto. a gwell yw gennym ni yn marw na chaffael o honawch chwi yr hynn yr ydych yn y novy.

Digitized by Google

LIX.—Ar hynny pob un a gyrchawd y gilyd onadunt. ac argau a damgylchynnu galaath ae gedymdeithyon aorugant. Ac yna galaath adynnawd y gledyf ac agurawd pawb ar deheu ac ar assw yngymeint ac yr oed bawp yn ryuedu. Ac uelly y kynhalyawd y tri chedymdeith y vrwydyr arnunt yny yttoed yn bryt nawn heb golli eu lle nac heb waethau eu hynt. ac o bryt nawn yny vu nos oe gwahanu. Ac yna y doeth y gwr prud att y trichedymdeith. ac y dywawt wrthunt. Arglwydi heb ef. Mi ach gwahodaf heno yr castell racko. ami a rodaf vyngcret ywch ar awch anuon yma avory yn yr un mod ac yd yttywch yr awr honn. Ami adywedaf ywch paham. kanys yr awr y gwypoch chwi ystyr awch neges yno. mi a debygaf y kennattewch ac y kennattaa y vorwyn gwplau yr aruer yn llawen. Yna y vorwyn a dywawt wrth galaath ae chedymdeith. Arglwydi heb hi ewch yr castell y lettyu kanys ydys ych gwahawd. Ac ar hynny y trigyassant. aphob un arodes kyngreir yw gilyd onadunt hyt trannoeth. ac yr castell y doethant y gyt. ac ny bu eiryoet y ryw lewenyd ac awnaethpwyt yr tri chedymdeith. Agwedy daruot bwyta y dywetpwyt udunt ystyr yr aruer aoed yno. Nyt amgen. y gwr prud adywawt. yma ymywn heb ef y mae gwreic ieuangk. yr honn bieu y kastell hwnn. allawer ogestyll ereill ygyt ac hwnn. ac yssyd arglwydes arnam ni. ac ar y wlat honn. a hi a digwyddawd mywn clefyt yr ys dwy vlyned. Agwedy y bot talym yn porthi y heint ni a gawssam wybot panyw clafri aoed arnei. Agwedy dyuot hyt yma holl vedygon a ffussugwyr y gwledyd. nyt oed gan yr un nebryw gynghor idi oe heint. Athrannoeth y bore ef adoeth yma henafgwr kymen. yr hwnn adywawt. Pwy bynnac heb ef a allei gael lloneit dysgyl owaet morwyn wyry o vedwl ac o weithret. ae bot heuyt yn verch y vrenhin yn dedyfawl o vrenhines. a hynny oe breich deheu ac ae hirei hitheu ahwnnw hi agaffei iechyt. Pan glywssam ninneu hynny ni aossodassam yn aruer ac yndefawt ar y castell hwnn nat aei un vorwyn hebdaw or bei uerch y vrenhin heb loneit ffiol oe gwaet. ac ar

Digitized by Google

hynny ni aossodyssam wercheitveit ar y ffyrd. Allyna gwedy dywedut y chwi yr aruer aoed yma. ac am hynny chwi awnewch yr hynn a vynnoch ae talu yr aruer ae ynteu ymlad auory. Yna y vorwyn a gymerth galaath a pheredur a bwrt ac adywawt wrthunt. Arglwydi heb hi chwi aglywssawch y gallafi iachau y wreic racko os mynnaf. ac am hynny beth agynghorwch chwi. Myn llaw duw heb y galaath o rody di loneit y dysgyl racko oth waet ti a vydy varw. Mynduw heb hitheu or bydafi varw yr iachau y wreic da. diolwch agaffaf inneu gan duw ac anryded y gan y byt. a gwell yttiw vy marw i no llad yr un ohonawch chwi. neu lad ohonawch chwitheu y gwyr racko. kanys mi awn na allwn ni diangk yn vyw drwy vrwydyr heb golli ae chwchwi ae wynteu. Ac am hynny drwy awch kennyat chwi myui a gwplaaf udunt wy eu hewyllys. Ac yna hi aelwis ar y rei pennaf a welei or ty. ac a dywawt wrthunt bydwch lawen heb hi. kanys auory y talaf yr hynn yd ywch yny geissyaw. Pan glywssant wynteu hynny. wynt a wnaethant y llewenyd mwyaf. ac yna gwedy kyfedach ac esmwythdra. wynt a aethant y gysgu. Agwell oed gan galaath ae gedymdeithyon ymlad drannoeth no gollwng y vorwyn oe hangheu. Athrannoeth y bore gwedy offeren ef aerchis y vorwyn y dwyn att y wreic adylyei y hyachau drwy y gwaet hi. Ac yna y gwyr ae duc hi hyt y lle yd oed y wreic yn glaf. yn gynhackret ac nat oed eneityol o dyn aallei edrych arnei. Ac yna ryued vu gan galaath vyw neb ual yd oed hi. ac yr awr y gweles hi y vorwyn hi aerchis idi dalu idi yr hynn a adawssei. Ahitheu adywawt y gwnai yn llawen. Ac yna hi aerchis dwyn y dysgyl attei. ac uelly y gorucpwyt. Ac yna hi aberis taraw y wythien ar y breich deheu idi. Ac erbynnyeit awnaethpwyt y gwaet yn y dysgyl. Ac yna y vorwyn adywawt wrth y wreic claf. Arglwydes heb hi yr duw gwedia rac vy eneit kanys llyma vi gwedy ymroi y angheu yr iechyt ytti. Ac ual yttoed yn dywedut hynny ef adoeth gloes idi rac meint oe gwaet agollasei. kanys yd oed y dysgyl yn llawn. A galaath yna ae

Digitized by Google

herbynnyawd hi y rwng y dwylaw. Ac ympenn talym gwedy llewygu o honei hi adywawt wrth y brawt. Varglwyd vrawt heb hi myui avydaf uarw. Ac yr duw heb hi pan vwyf uarw i na at vyngcladu yn y wlat honn. namyn pan wahano vy eneit am korff par di rodi vyngkorffi mywn ysgraff yny borthua nessaf ageffych agat y antur vy hebrwng y fford y mynno duw. Ami adywedaf y chwi yn lle gwir y byd vyngkorffi yny borthua yn ymyl dinas sarras. yn gyn gyflymet ac y deloch chwitheu yno ygyt a seint greal yr hynn yssyd dynghetuen ywch dyuot yno y gyt ac ef oe gynhebrwng. ac yr duw yd adolygafi y chwi vyngcladu yn y capel ysprydawl. ac awdawch chwi paham yd wyfi yn ymbil ac yn adolwc y chwi vyngcladu yno. am wybot panyw yno ych cledir chwi galaath a pheredur. Pan gigleu peredur yr ymadrawd hwnnw dan ollwng dagreu ef adywawt. y gwnaei ef hynny ual yd oed hi yny lunyaw. Ac yna hitheu adywawt. auory heb hi ymwahanet bawp ohonawch y wrth y gilyd. Ac aet bawp oe fford yny dycko antur chwi ygyt y lys brenhin peleur. kanys uelly y mynn duw ywch y wneuthur. ac wnteu adywedassant y gwneynt hwy hynny yn llawen. Yna hitheu aerchis dwyn corff y harglwyd idi. Ac yna ef a anuonet yn ol meudwy aoed yn agos yr kastell. a hwnnw adoeth yn ehegyr. Ac yr awr y gweles hi ef hi adyrchafawd y dwylaw tu ac att y harglwyd drwy ewyllys da. Ac ar hynny y gwahanawd y heneit oe chorff or achaws y bu drist y chedymdeithyon. yn y dyd hwnnw ynteu y kafas y wreic arall y hiechyt. a hynny yr awr y golchet hi a gwaet y uorwyn santeid. ac y daeth yngyndecket. ac y buassei deckaf eiryoet. or achaws y bu lawen pawp. Ac yna wynt adoethant att gorff y vorwyn ac ae hirassant ac ireidyeu gwerthuawr. Ac yna wynt abarassant dwyn ysgraff udunt. yn yr honn y gwnaethant gwely tec adurnedic o gyfyrlideu sidan. Ac yn y gwely wynt aossodassant y corff. Ac dyrrassant yr ysgraff yr mor.

LX.—Ac yna bwrt adywawt wrth beredur. Myn duw heb ef drwc yw gennyfi na roet llythyr ygyt a hi

Digitized by Google

yn yr hwnn y bydei yn ysgriuenedic dywedut o pa genedyl yr hanoed. a pha ystyr a vu idi y gael y hanghеu. ual y gellit gwybot pa un oed o deuei yr ysgraff honn y wlat arall vyth. Mynduw heb y peredur miui awneuthum megys y gwyper pa un yw hi pa le bynnac y del y dir. Myn vyngcret heb y galaath da y gwnaethost di am hynny. yngglann y mor y trigyawd galaath a bwrt apheredur. ar tylwyth or castell y gyt ac wynt hyt tra allassant hwyhaf edrych ar yr ysgraff. ac yna wynt adoethant tu ar castell. a galaath ae gedymdeithyon adywedassant nat eynt vyth yr castell o garyat ar y vorwyn a gollassynt yno. Ac adolwc aorugant dwyn eu harueu udunt allan ac uelly y gorucpwyt. Ac odyna gwisgaw eu harueu aorugant ac esgynnu ar eu meirch. Ac ual y bydant yn dechreu marchogaeth nachaf y dyd yn tywyllu yn vawr. ar awyr yn duaw yn anghyfartal. Ac yna dynessau aorugant parth achapel aoed ar y fford. ac y mywn y doethant athynnu eu meirch yn eu hol aorugant. ac edrych ar y dymhestyl a gwarandaw ar y taraneu. Ac wynt awelynt y mellt yn dygwydaw yn y castell yn annat lle. A hynny yn gyn amlet a gwlaw yn lle arall. Ac yn hyt y dyd y parhaawd y dymhestyl honno ar y kastell. ac ual y gwelynt wy yn hyspys bot hanner y kastell gwedy digwydaw. a hynny vu ryued ganthunt. kanys ny thebygynt gallel o wyr ymlwydyn diua y castell yn gymeint ac y diffeithayssei y dymhestyl ef yn un dyd. A gwedy dynessau pryt gosper ac eglurhau y dyd wynt awelynt varchawc urdawl yn ffo y wrth y castell. gwedy y daraw trwydaw agwaew. ac yn dywedut. Och duw tec anuon ym nerth. Ac yn y ol ynteu marchawc arall a chorr gyt ac ef yn dywedut. Marw wyt nyt oes fford itt y diangk. Ar gwr aoed yn ffo yn dyrchafel y dwylaw tu ar nef. Ac yn dywedut. varglwyd iessu grist na at ym uarw mywn poen kymeint a hwnn. Aphan y kigleu y tri chedymdeith yn gwediaw ar duw uelly. ef a vu dost ganthunt. A galaath yna adywawt yr ai ef oe nerthu. Nac ef heb y bwrt myui aaf. kanys yr un marchawc urdawl nyt

Digitized by Google

reit ytti lauuryaw. Ac ar hynny bwrt a esgynnawd ar y varch. Ac adywawt. arglwydi heb ef ony welwch chwi vyui yn ehegyr. nac arhowch vi o dim. namyn kerdwch wrth awch anturyeu. Aphan vo hwyraf avory aet bawp oe fford ar neill tu. yny dycko duw ni y gyt drwy yr anturyeu y mynno ef y lys brenhin peleur. Ac yna pob un a orchymynnawd y gilyd y duw. A bwrt aaeth ymeith yn ol y marchawc urdawl aoed yn ffo. Ac yma y mae yr ymdidan yn tewi amdanaw efo ac yn traethu ywrth galaath apheredur.

LXI.—Llyma ual y mae y kyfarwydyt yntraethu bot galaath apheredur yny capel y nos honno yn gwediaw duw ar uot yn ganhorthwy y vwrt pa le bynnac y delei. Trannoeth y bore pan gyfodassant wynt aesgynnassant ar eu meirch ac adoethant tu ar castell y edrych pa delw y dianghyssei y bobyl aoed yno. Aphandoethant wy yno wynt awelynt y muryoed wedy syrthyaw yr llawr. ar tei wedy llosgi. Ac yna ef a uu ryued ganthunt na welynt neb or pobloed yno. ac aedrychassant y vyny ac y waeret. ac yn y lle y buassei y neuad wynt a welynt yno y marchogyon urdolyon ar gwraged yn veirw. Aphan weles galaath hynny. ef adywawt wrth beredur. rofi a duw heb ef. llyma ysprydawl dial. Ac ny dathoed hynn vyth panybei yr kyflenwi llit duw. Ac ual y bydant yn ymdidan uelly wynt aglywynt lef yn dywedut wrthunt. llyma ual y dialawd duw angheu y morwynyon da y rei agollassant eu heneidyeu yn y lle hwnn yr iachau pechaduryes drwc anghywir. Pan glywssant wy hynny wynt a dywedassant mae dadigawn y dialyssit arnunt. A gwedy edrych ruthur o honunt ar y lladua honno. wynt adoethant y vynnwent yn ymyl capel. yn yr honn yd oed o uedeu tec amein arnunt deugeint. Ac ympob maen yd oed henw pob un onadunt yn ysgriuennedic. ac wydynt hwy vot yno dim or dymhestyl auuassei yny castell. ac nyt oed ryued. kanys yno y cladyssit y morynyon. Ac yna darllein y llythyr aorugant. ac wynt awelsant vot yno deudec overchet brenhined. Ac wynteu yna aymelldigyassant y neb

Digitized by Google

arodassei yr aruer hwnnw gyntaf ar y castell. Ac yno y buant wy uelly yny vu awr brim. Agwedy hynny wynt aadawssant y castell. Ac auarchockaassant yny doethant y fforest. Ac yna galaath adywawt wrth beredur hediw y mae yni ymwahanu. Ac am hynny dos di ymeith. a duw awnel yn ymgaffael yn ehegyr ac ymgyfaruot y gyt. Ac ar hynny y dwylaw mynwgyl ydaethant pob un yw gilyd. kanys ymgaru yn uawr awnaent. a llyna ual yd ymwahanyssant. Ac yma y mae yr ymdidan yn tewi amdanunt hwy yll deu. ac yn trossi ar lawnslot kanys talym yssyd yr pan ymdidanwyd amdanaw.

LXII.—Ar ymdidan yssyd yn traethu gadaw lawnslot yn ymyl yr auon a elwir marsoes gwedy y damgylchynu y rwng dwy greic ar auon. y tripheth hynny aoed yn llesteiryaw arnaw vynet odyno. namyn aros nerth gan duw attaw. Ac yna y trigyawd ef ual hynny yny vu nos. A gwedy dyuot nos arnaw ef a diosges y arueu y amdanaw. ac agysgawd yn eu hymyl dan wediaw duw ar anuon nerth idaw wrth uod eneit a chorff. Ac yna ef a gysgawd yn vwy y vedwl ar y eneit noc ar y gorff. Agwedy kysgu ohonaw ef aglywei lef yndywedut wrthaw. Lawnslot kyuot y vyny a gwisc dy arueu a chyrch tu ar dwfyr. ar ysgraff gyntaf agyfarffo athi. dos idi y mywn. Aphan gigleu ef hynny ef a gyfodes yn y eisted. ac agores y lygeit. Ac ef awelei vot yn gyn egluret yn y gylch. a phettei yn dyd. Eissyoes ny bu hir y parhaawd hynny o eglurder. namyn difflannu y ganthaw aoruc. ac ynteu aymgroesses ac a gymerth y arueu. ac a doeth tu ar dwfyr. Ac aarganuu yno ysgraff heb na rwyfeu na hwyl arnei. yr hynny ual kynt efo aaeth y mywn. Ac yr awr y doeth ef y mywn. ef a debygei vot yno holl lysseuoed ac ireidyeu gwerthuawr y byt herwyd arogleu. ac yn un ffunud ganthaw aphei gymerassei y amylder or bwydeu goreu ahoffaf ganthaw yn yr holl vyt. Aphan weles ynteu hynny diolwch y duw aoruc vot yn gywiw ganthaw y goffau. A chanys gwydyat ef na daroed y duw y ysgaelussaw gostwng ar benn y linyeu aoruc yn yr

Digitized by Google

ysgraff. a dywedut. Varglwyd iessu grist heb ef. ytti y diolchafi anuon ohonat ti y gras hwnn y mi. kanys kymeint yw vy llewenyd. ac na wn i pa le ydwyf ae ar y daear ae ynteu ym paradwys. ac yn gwediaw uelly y disgynnawd kysgu arnaw. Athrannoeth y bore pan deffroes ef aedrychawd yny gylch. ac ef awelei gwely tec ymperued yr ysgraff yn anrydedus y gyweirdeb. ac ymperued y gwely morwyn ieuanc yn uarw ae hwyneb yn noeth. Aphan y gweles ef hi ef a diolches y duw o gallon da am anuon idaw gedymdeithas y gyt ac ef. Ac yna ef a dynessaawd attei megys y mynnei yn llawen wybot pa un vei. ac o pa genedyl yd hanoed. ac ywch y phenn ef a arganuu llythyr. yr hwnn a gymerth ef ac ae hagores. ac yndaw yd oed yn dywedut y vorwyn honn aoed chwaer y beredur yr honn a vu wyry ym medwl ac ynggweithret. Honn yw y vorwyn aroes gwregis yr cledyf yr hwnn aelwir y cledyf ar odidawc wregys. yr hwnn y mae galaath uab lawnslot yn y arwein yr awr honn. ygyt a hynny yd oed yn y llythyr dywedut ual y buchediockaawd hi. ac ual y buassei uarw. Apha delw y daroed y galaath apheredur abwrt y hamdoi. ae dodi yn yr ysgraff yno. Aphan wybu ef wirioned am bop peth hyfrydach vu ganthaw. kanys clywssei uot galaath apheredur a bwrt ygyt. Ac yna ef aroes y llythyr drachevyn. Ac a wediawd y arglwyd ar gaffael ohonaw gwelet y vab kynn gorffen y bererindawt. Ac ual yr oed lawnslot yn gwediaw uelly ef a welei yr ysgraff yr honn a vuassei yn hwylaw yn hyt y nos yn kymryt tir ymywn creic uawr. Ac yn y lle hwnnw ef awelei gapel. ac yn y ymyl gwr prud yn eisted. Ac yr awr y gweles y gwr ef ar ysgraff yn tiriaw. ef adoeth attunt ac a gyfarchawd gwell y lawnslot. ac aovynnawd idaw beth ae dugassei yno. A lawnslot adatkanawd idaw y antur oll o gwbyl. apha delw y dugassei y dynghetuen ef yno. Yna y govynnawd y meudwy idaw pa un oed. Aphan wybu ef panyw lawnslot ef avu ryued ganthaw. ac aovynnawd idaw pwy oed gyt ac ef yno. Arglwyd heb ynteu a doi di y edrych. Ac yna y doeth y mywn ac y gweles y uor-

Digitized by Google

wyn yno. a chymryt y llythyr aoruc ae darllein. Aphan weles ef yn y llythyr gyrbwyll y cledyf ar odidawc wregys. Ha lawnslot heb ef ny thebygasswn i gaffael ohonaf o hoedyl kyhyt ac y kaffwn wybot henw y cledyf hwnnw. ac am hynny lawnslot heb ef tydi aelly dywedut dy uot ti yn direidwr pryt na chefeist vot wrth orffen yr antur hwnnw ual y bu y gwyr ereill. y rei adybygessit eu bot yn waeth gwyr no thydi. Yr hynny ual kynt heb ef panybei garu oduw dydi ny adei ef y ti dyuot yngkedymdeithyas morwyn kystal a honn. a chynsanteidyet ahi. Ac wrth hynny lawnslot tec edrych di adyvot yn diweir bellach o hynn allan. ual y galler kyffelybu dy diweirder di oe gwyrder hitheu. Ac uelly y para awch kedymdeithyas chwi awch deuoed yn hir. A dos di yn enw duw bellach a gwna megys y dywedeis i. athi adeuy yn ehegyr yr lle y mae dy damunet. Paham heb y lawnslot ae yma y trigyy di. Ie arglwyd heb ynteu. Ac yna y gwynt a ysglyffyawd yr ysgraff. athan ymannerch y meudwy a lawnslot aymwahanyssant. Eissyoes kynn y bellau ef y meudwy a ymchoelawd attaw ac adywawt wrthaw. Lawnslot tec heb ef pan welych galaath dy uab. arch idaw wediaw duw drossofi. Ac yna lawnslot a bellaawd y wrthaw. ac a wediawd ar y danuon yr lle y gallei haedu bod duw. Ac uelly y bu lawnslot yn yr ysgraff. mis ar untu heb vynet ohonei allan. ac or govynnir pa delw bu vyw ef y kyfarwydyt yssyd yn menegi yma. panyw y gwr arodes y bobyl yr israel y dwfyr or garrec. a rodes idaw ynteu bop bore ar ol y wedi gyflawnder o rat yr yspryt glan ual y tebygit idaw efo y vot yn llawn or bwydeu goreu. A nosweith yd oed ef wedy tiriaw yn yr ysgraff yn ymyl fforest. ef aglywei drwst marchawc urdawl yn aruawc ef ae varch. ac yr awr y gweles ef yr ysgraff ef a disgynnawd y ar y varch. ac adynnawd y ffrwyn ae gyfrwy y arnaw ac ae duc yr ysgraff. Athan ymgroessi y doeth ef y mywn. Aphan y gweles lawnslot efo yn dyuot y mywn attaw. nyt kymryt y arueu aoruc ef oe ludyas. namyn dywedut grassaw duw wrthyt varchawc urdawl. Ac yna y

Digitized by Google

marchawc a vu ryued ganthaw glybot neb yn yr ysgraff. kanys ny thebygassei vot neb yndi. adywedut wrthaw aoruc. Arglwyd heb ef antur da a rodo duw y titheu. Ac yr duw dywet ym pa un wyt. kanys chwannawc wyf oe wybot. Lawnslot dy lac heb ef wyfi. Ae gwir heb ynteu yrofi a duw tydi yd oedwn yndamunaw y welet ae gael oed hoffach gennyf no dyn or byt. a mi ae dylyaf kanys tydi yw vyndechreu. Ac yna tynnu y helym aoruc. Ha galaath heb y lawnslot ae tydi yssyd yma. Myui yrof aduw heb ynteu. Ac yna y dwylaw mynwgyl yd aethant. Agwedy hynny pob un aovynnawd y antur y gilyd. ae venegi a wnaethant pob un yw gilyd ual y daroed idaw. apha delw y gwnathoed selyf yr ysgraff. a pha vod y kafas y cledyf. a pha ffuryf y collassei y vorwyn y heneit. A ryued uu gan lawnslot hynny.

LXIII.—Mywn yr ysgraff honno y bu galaath alawnslot mwy no deu vis yn gwassanaethu eu harglwyd drwy gwbyl ewyllys da. Ac wynt a drewit y dir y lawer o ynyssed estronawl. yn y lleoed y gwelsant wy lawer o anturyeu dyrys. rei onadunt aorffennassant oc eu kedernyt. Ereill o ras yr yspryt glan. y rei nyt ydys yma yn eu menegi kanys ry hir vydei pei manekit. Gwedy y pasc yn yr amser newydaf or vlwydyn. kanys yna y dechreu y coet deilyaw. ac y byd digrif gan yr adar ganu. Yn yr amser hwnnw ryw diwarnawt yngkylch hanner dyd ef adamchweinyawd udunt eu taraw y dir ynghongyl fforest yn ymyl croes. wynt awelynt yn dyuot or fforest marchawc yn aruawc o arueu gwynnyon. ac yn arwein yn y llaw deheu idaw march anueidryawl y veint ac yngyn wynnet ar eiry. Aphan weles ef yr ysgraff ef adoeth parth ac attei yngyntaf ac y gallawd. ac agyfarchawd gwell y galaath ac y lawnslot ygan y goruchaf arglwyd. ac yn dywedut wrth galaath. Arglwyd heb ef digawn y buost ti gyd ath dat. ac am hynny dabre odyna a dos ar y march yma. A cherda wrth ual y mynno duw dy drossi. Pan gigleu ef hynny ef a doeth att y dat. Ac aaeth dwylaw mynwgyl idaw. Ac yna dan wylaw ef a dywawt. varglwyd

Digitized by Google

dat heb ef. ny wn i awelaf dydi vyth. ac am hynny y duw y gorchymynnafi di. Ac ual yr oed galaath gwedy esgynnu ar y varch. wynt a glywynt lef yn dywedut wrthunt. Gwnaet bop un ohonawch chwi oreu ac a allo parth ac att duw. kanys chwi aellwch dywedut yn lle gwir. nat ymwyl yr un ohonawch ae gilyd. yny ymweloch yn y llewenyd ysprydawl adarparawd duw yr neb ae gwassanaethyei yngywir. nyt amgen noc yndyd brawt. Ac yna lawnslot adywawt wrth galaath. Varglwyd uab heb ef kanys ydiw duw yn mynnu yn gwahanu. gwedia di ar dy arglwyd nam gatto i odieithyr y wassanaeth. Arglwyd heb y galaath hynny awnafi yn llawen. Ac ar hynny ymwahanu aorugant. a galaath a gyrchawd yr fforest. ar gwynt ynteu adrewis yn yr ysgraff ac ae pellaawd y wrth y tir yn ennyt bychan. Ac uelly y bu lawnslot ehun yn yr ysgraff gyt ar corff deu vis ereill heb gysgu haeach namyn gwediaw duw ar dangos idaw beth y wrth seint greal. anossweith yngkylch hanner nos ef a diriawd yr ysgraff y adan gastell tec kyfoethawc. Ac ef awelei y porth y tu ar mor yn agoret. Ac am y porth hwnnw nyt oed reit y neb oc aoed y mywn un ovyn kanys yd oed deu lew yn y warchadw yn wastat. ual na allei neb vynet y mywn ony bei ryngthunt. Ac ny chaffei ynteu vynet ymywn yn diargywed y ganthunt. Ac yna roi y law ar dwrn y gledyf aoruc ef ar uedyr ymamdiffyn. Agwedy daruot idaw dynnu y gledyf ef aedrychawd yn y gylch. ac ae trewis un or llewot ef ar vreich yn gynffestet ac yny aeth y gledyf oe law. Ac yna ef a glywei lef yn dywedut wrthaw. Tydi wr tlawt o gret paham yr ymdiredy di vwy yth dwylaw noc y duw. Ac nyt da dy synnwyr di. pan debygeist vot yn well y gwarannei dy arueu di nor neb yr oedut yny wassanaethu. Ac o achaws y parabyl hwnnw. ar dyrnawt heuyt ef a syrthyawd lawnslot yr llawr. ae wyneb y waeret yn y lewyc hyt na wydyat ef beth oed hi ae dyd ae nos. Aphan gyuodes ef o hynny ef adywawt. varglwyd iessu grist heb ef. ytti y diolchaf i uot yn wiw gennyt vyngkerydu am vyndrycweithret

Digitized by Google

am ffolineb. Ac yr awr honn y gwnn I. dy vot ti yn kennattau ymi vot yn was ytt. Ac yna kymryt y gledyf aoruc ae roi yn y wein. a dywedut panyw yrdaw ef nas tynnei odyno ac yd ymroi ef ynggras duw pa delw bynnac y delei hynny idaw. Ac yna roi arwyd y groc arnaw awnaeth ef. a dyuot yr porth ymywn. ac ny chwyfawd y llewot wrthaw. namyn y adel y mywn yn diargywed. a cherdet ar hyt y castell aoruc ynteu yny doeth yr llys. ac yno ydoed bawp yn kysgu. kanys ynghylch hanner nos oed hynny. ac yna ef aesgynnawd ar hyt y gradeu yny doeth yr neuad. ac am na weles ef yno na gwr na gwreic ryued vu ganthaw. kanys llys kyndecket a honno ny allei vot heb dylwyth mawr yndi. Ac yna ef a vedylyawd y kerdei ef gwbwl or castell yny gyfarffei ac ef dynyon a dywettei idaw pa le ydoed wrth nas gwydyat ef. Ac uelly y kerdawd ef yny doeth y ystauell yr honn a oed gwedy y chaeu yndiogel digawn. a throi cliket honno aoruc ef ae hagori. Ac yna ef aymwarandawawd. ac ef aglywei ganu ual y tebygei ef nat oed beth bydawl namyn peth ysprydawl. Ac ef a debygit idaw ef vot y llef yn dywedut ual hynn. Gogonyant ac enryded hir yn wastat a vo yr tat o nef. ahynny ar gan.

LXIV.—Aphan gigleu ef y llef yn dywedut ual hynny ef a ostyngawd ar benn y lin. o debygu bot seint greal yno. Ac aadolygawd oe arglwyd ar genhattau idaw welet y greal yn eglurach. Ac yr awr y daruu y lawnslot dywedut hynny. ef a welei yr ystauell yn goleuhau yn gymeint aphei atuei yr heul oll yndi. Aphanweles ef hynny ef achwennychawd gwybot o pale yd oed yr eglurder hwnnw yn dyuot. Ac yna ef ageissyawd agori drws aoed ar yr ystauell arall y tu ar goleuni. Ac ar hynny ef aglywei lef yndywedut. lawnslot na dos di yna y mywn. Pan gigleu ynteu hynny ef ymchoelawd drachefyn yn drist. Yr hynny ual kynt ef aedrychawd tu ar ystauell. ac aweles seint greal ar warthaf tabyl o aryant. a samit coch ar y draws. Ac yny gylch ef awelei engylyon. Ac yn llaw rei ohonunt yr oed canhwyllbrenneu o aryant aphyst

Digitized by Google

kwyr yndunt. Ac yn y llaw arall y bob un onadunt yd oed croes. a gwisc eglwys ac allawr a phob un yn achubedic y wassanaeth. Acheyr bronn y tabyl ef awelei wr a ffuryf offeiryat arnaw. ac ef adebygassei lawnslot y vot ef ar dirgelrwyd y offeren. Ac ual y byd yn mynnu dyrchafel corff y arglwyd. ef awelei lawnslot vot trywyr geyr bronn y gwr. ar deu hynaf onadunt yn kymryt yr ieuaf ac yny roi yn llaw yr offeiryat. Ac ynteu yna ae dyrchafawd ef megys oe dangos yr bobyl. A lawnslot yna aedrychawd arnaw ac ny bu vychan y ryuedawt. kanys debygei ef kymeint oed lwyth yr offeiryat gan y gwr ydoed yny dyrchafel. ac y tebygassei y vot yn syrthyaw. Aphan weles ef hynny ef a geissyawd mynet y gymhorth y gwr. ac rac y chwannocket y vynet y mywn oe gymhorth. ny doeth cof idaw vot wrth y gwahard gynneu. A chyntaf ac y gallawd y kyrchawd ef y dref. Ac yna ef adywawt. varglwyd iessu grist heb ef na chyfadlo ym yn lle llit a chyfyrgolledigaeth yr mynet y nerthockau y gwrda racko. Yna ef adoeth y mywn ac a nessaawd att y tabyl aryant. aphan doeth ef yn agos idaw. ef a glywei wynt kyn vryttet ac a vu o dan eiryoet. Yr hwnn ae trewis ef yny wyneb yny debygassei y uot yn boeth oll. hyt na allei ef vynet odyno megys pei darffei idaw golli grym a nerth y holl gorff. na chlybot na gwelet nys gallei. hyt nat oed idaw ef aelawt aallei chwyfu. Ac yna ef aglywei lawer o dwylaw yn taraw ac yny dwyn ymeith. ac yn y daflu or ystafell allan. Trannoeth y bore pan gyfodes y bobyl achael lawnslot megys yn uarw ar drws yr ystafell. ryued vu ganthunt beth oed. Ac wynt aovynnassant idaw a vynnei y gyfodi. Ac ynteu nyt attebawd udunt chweith. Ac wynteu yna a dywedassant y uot ef yn varw. Ac yna wynteu a diosgassant y arueu ac aedrychassant aoed dim or eneit yndaw. Ac wyntwy awybuant nat oed varw ef etto. Yr hynny ual kynt yd oed ef megys y gymeint or dayar. Ac yna wynt ae dugassant ef y ystauell dec. ac ae dodassant mywn gwely advwyndec. Ac yna y wylyaw aorugant y edrych aallei ymdidan dim ac wynt. Eissyoes nyt

Digitized by Google

yttoed ef yn gallel dim ohynny. Atheimlaw y dwylaw ae draet aorugant. aryuedu am y marchawc urdawl hwnnw awnaethant am y vot yn vyw heb allel dywedut. Ac ereill aoed yn dywedut mae ryw dial gan duw oed hynny arnaw. Ac uelly y bu y tylwyth yn y wylyat y dyd hwnnw ar eil ar trydyd ar pedwyryd. Ac yna gwr prud or ty a dywawt. Myn vyngkret I. heb ef. nyt marw ef. namyn y mae yndaw eneit. gymeint ac yn y mwyaf ohonam ni oll. Ac uelly y gwylywyt ef hyt ympenn y pedwyryd dyd ar dec heb vwyta nac yvet ohonaw ef yn hynny o amser. heb dywedut un geir. heb symudaw na throet na llaw. megys pei atuei marw. ac yn drwc gan y tylwyth y vot uelly rac y decket gwr ae veint. ac am nat atwaenant wy ef. Yr hynny ual kynt yd oed yno uarchawc urdawl a atwaenat lawnslot ac ae gwelsei. val hynny y gorssedawd ef yno pedwar diwarnawt ardec heb neb ryw obeith gan neb or ty wrthaw. Ac yn y pymthecuet dyd yngkylch hanner dyd ef aagores y lygeit. Aphan weles ef y tylwyth ef adechreuawd tristau. ac adywawt. Och duw heb ef paham y deffroeist di vyui mor ehegyr a hynn. kanys ny allei gallon medylyaw y dirgeledigaetheu aweleis I. Aphan weles tylwyth y ty hynny wynt avuant lawen. ac aovynnassant idaw beth awelsei. Ac ynteu yna a dywawt. Mi aweleis heb ef o enryuedawt ar ny allei gallon dyn y uedylyaw a hynny obetheu ysprydawl. Aphanybei uympechodeu mi awelswn a vei vwy. Ac o achaws vympechodeu am diryeidi y colleis I gallu vyngcorff am clybot am dywedut. Yna lawnslot adywawt arglwydi heb ef ryued yw gennyfi padelw ym kaffat i yma. kanys ny daw kof ymi pa delw y deuthum yma. Ac wynteu yna adywedassant pa delw y kawssoedynt wy ef. apha ffuryf y bu ef ygyt ac wynt bedwar diwarnawt ar dec. Aphan gigleu ynteu hynny ef adechreuawd medylyaw pa ystyr oed idaw ef uot yn y mod hwnnw yn gyhyt ahynny. Ac yna ef a uedylyawd panyw kyhyt ahynny o amser y bu ef yn gwassanaethu y elyn. Ac yna ef aouynnawd pa le yr oedynt y rei a vuassei gyt ac ef. ac wynteu adywedassant eu bot yn-

Digitized by Google

ghastell corbennic. ac ar hynny nachaf yn dyuot attaw gwreic. ac yn dwyn idaw dillat lliein newydyon oe gwisgaw. Ac ynteu a dywawt nas mynnei ef amgen grys nor beis rawn. Ac yna un or niuer adywawt. Arglwyd heb ef ti aelly adel yni y beis rawn. kanys dy bererindawt ti adaruu ac ouer oed ytt weithyon lauuryaw mwy. Agwybyd di yn lle gwir na wely di bellach mwy o anturyeu noc aweleist. Yr hynny ual kynt lawnslot agymerth y beis rawn ac ae gwisgawd. ac ar warthaf y beis rawn ef awisgawd y dillat lliein. Ac ar uchaf hynny y dillat ereill. Ac odyna ef aducpwyt y ymwelet ar niuer or ty. Ac ar hynt wynt ae hadnabuant. ac a dywedassant. Ae lawnslot heb wynt yssyd yma. Ie heb ynteu yn wir. ac wynteu awnaethant y llewenyd mwyhaf a allassant idaw. Ac yno y bu lawnslot bedwar diwarnawt yn gorffowys. ac yny pymhet dyd ac wynt yn kymryt eu kinyaw. ef a doeth seint greal ac a gyflawnawd pawb or bwydeu hoffaf ganthaw. Ac ual y bydant yn bwyta ef adoeth antur ryued attunt. nyt amgen kwbyl or drysseu yn kaeu ehunein. Ac ar hynny nachaf marchawc urdawl yn aruawc ar gevyn march mawr yn dyuot yr porth ac yn erchi arhynt agori. ar rei odyvywn heb vynnu agori idaw. ac ynteu ynysmala aerchis agori yny digyawd y rei odyvywn wrthaw. ac un a gyfodes y vyny ac aroes y benn drwy ffenestyr y tu ac att y marchawc. ac adywawt wrthaw. Tydi uarchawc urdawl. ny daw yma ymywn neb a vo kyfuch y varchogyat athydi tra vo yma seint greal. ac am hynny dos yth wlat dy hun. kanys nyt wyt ti un or keis yn iawn. namyn ti aedeweist wassanaeth iessu grist ac a aethost y wassanaethu y drycwas.

LXV.—Aphan gigleu y marchawc hynny ef a vu drwm a thrist ac amharchus ganthaw y hynt hyt na wydyat beth awnaei. ac ymchoelut drachefyn ymeith aoruc ef. ar marchawc arall yna ae gelwis drachevyn. Ac adywawt. kanys wyt chwannawc di y dyuot y mywn. ef auyd reit ytti dywedut dy henw. Arglwyd heb ynteu o lys arthur y deuthum i. ac ector or korsyd ym

Digitized by Google

gelwir. Abrawt wyf y lawnslot dy lac. Myn vyngcret heb y marchawc or llys mi ath atwaen weithyon. ac am hynny tristach wyf noc yr oedwn gynneu. kanys yna ny didorwn I haeach ohonat. Ac yr awr honn y mae drwc gennyf dy hynt. o achaws lawnslot dy vrawt yr hwnn yssyd yma ymywn. Pan gigleu ector vot y vrawt yno yr hwnn mwyhaf or holl vyt arnaw y ovyn rac meint y karei. ef adywawt. Och duw heb ef yr awr honn y mae vyngkewilyd i yn dwblau ym. kanys bellach ny bydaf kyn hyet I ac y llyfasswyf dyuot geyr bronn vymbrawt. kanys pallawd arnaf dyuot yr lle y deuei y gwyrda. yr awrhonn y gwnn I vot yn wir a dywawt wrthyf yr hwnn a hyspyssawd ymi ac y walchmei yn breudwydyon. Ar hynny yr ymchoelawd ector ymeith drwy berued y dref ar castell. Aphan weles y niuer or castell hynny wynt a griassant arnaw dan emelldigaw yr awr y ganet. ae alw yn uarchawc urdawl drwc palledic. ac ynteu yn gymeint y gewilyd ac y mynnei y uarw. Ac uelly y marchockaawd ef yny doeth yr fforest. ac yr lle tewaf arnei y kyrchawd ef. Ar marchawc arall ynteu adoeth or ffenestyr att lawnslot. ac adywawt idaw y chwedleu am vrawt. Ac am hynny y bu yn gyndristet ac yr adnabu bawp arnaw am welet y dagreu yn redec ar hyt y wyneb yr llawr. ac ediuar vu gan y marchawc dywedut idaw dim or a dywedassei. Ac yr awr y daruu udunt vwyta lawnslot aerchis dwyn y arueu idaw. kanys tua llys arthur y mynnei vynet. lle ny buassei yr ystalym. Ac yna y arueu a ducpwyt idaw. Ac yny llys yno y roespwyt march idaw. Agwedy esgynnu ohonaw. ef a gymerth gennat y tylwyth. ac a uarchockaawd drwy yr estronyon wledyd. A diwarnawt ef a lettyawd mywn manachlawc wenn. yn y lle y buwyt lawen wrthaw oachaws y vot yn varchawc urdawl anturyus. Athrannoeth y bore gwedy gwarandaw offeren ef aedrychawd ar y tu deheu ac aarganuu bed newyd wneuthur. gwedy y adurnaw yn anrydedus megys y gwydyat ef ar y adurnyat panyw gwr anrydedus a gladyssit yno. a llythyr eureit yngkylch y bed wedyr wneuthur. y rei aoedynt

Digitized by Google

yn dywawt. yman y cladwyt brenhin bandymagus o gwreu. yr hwnn adaruu y walchmei y lad. Aphan weles lawnslot hynny ef a vu dost a thrist ganthaw. kanys caryat mawr aoed y ryngthaw ac ef. A phei arall or byt ae lladyssei onyt gwalchmei. nyt aei y fford or byt onyt y angheu. Ae gwynaw yno aoruc lawnslot yn vawr. a dywedut mae collet mawr oed yr byt golli gwr kystal ac ef. ac nat ennillit vyth yn llys arthur y gyffelyb. y dyd hwnnw y trigyawd ef yny vanachlawc honno yr caryat ar y gwr agladyssit yno. yr hwnn awnathoed idaw ef lawer o enryded. Athrannoeth y bore gwedy gwisgaw y arueu ef aesgynnawd ar y varch. a thrwy gennyat y brodyr ef aaeth ymeith. ac agerdawd y fford drwy sywrneioed megys y troes y antur ef yny doeth y lys arthur yn y lle y bu lawen pawb wrthaw. ac yn damunaw y dyuotyat ef adref ae gedymdeithyon. or rei ny dathoedynt haeach adref. a chymmeint ac a dathoed ohonunt ny chawssoedynt dim oc yr oedynt yny geissyaw. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am lawnslot. ac yn traethu o alaath.

LXVI.—Traethu y mae yr ymdidan yma panyw gwedy mynet galaath y wrth lawnslot y dat. marchogaeth ohonaw lawer o diwarnodeu mal ydoed y antur yn y ganhebrwng yneill wers hwnt. ar llall yman. yny doeth y vanachlawc yr honn yr oed moradrins vrenhin yndi. Aphan gigleu ef vot y gwr da hwnnw yno yn aros dyuotyat y marchawc da. ef a vedylyawd yraei y ymwelet ac ef. Trannoeth y bore gwedy offeren ef adoeth y ymwelet ar brenhin. Ac yr awr y doeth ef. y brenhin yr hwnn ny welsei yr ys llawer o vlwynyded gynno hynny ef a weles yna. yr awr y dynessaawd galaath attaw. Ac yna ef agyuodes yny eisted ac adywawt. Grassaw duw wrth galaath gwas iessu grist. mi avum yr ystalym yth aros di. kymer vi rwng dy dwylaw agat ym orffowys ryngthunt. Pan gigleu galaath yr ymadrawd hwnnw. ef aeistedawd wrth benn y gwely. ac ae kymerth attaw. ar brenhin yma aogwydawd rwng y dwylaw ynteu ar y dwyvronn. Ac yna y brenhin adywawt. Marchawc iessu grist heb ef llyma vi gwedy kaffael yr

Digitized by Google

hynn y bum yny damunaw yr ystalym. Ac am hynny vy arglwyd yn yr awr honn erbyn vy yspryt attat. Kanys nyt esmwythach gennyf varw yn lle yn y byt noc yman. Ac yr awr y daruu idaw efo gwneuthur y wedi velly. prouadwy vu gwneuthur o duw gymeint a gwarandaw y wedi. kanys ar hynny yd aeth y eneit oe gorff yrwng dwylaw galaath. Ac yna llawen vu bawp or vanachlawc wrth galaath pan wybuant panyw efo oed yno. Ac yno wynt awassanaethassant y corf yn anrydedus ac ae cladyssant. Ac yna y bu galaath deudyd. ac yn y trydyd dyd ef a gychwynnawd ymeith. ac a varchockaawd drwy sywrneioed yny doeth yr fforest beriglus. yn y lle yd oed y ffynnawn ynberwi o dragwres. Ac yr awr yroes ef y law yndi hi a beidyawd ae gwres ac ae berwi. Kanys yndaw efo nyt oed chweith gwres godinebus or byt. or achaws. y bu ryued gan y bobyl or wlat honno. gallu o honaw dillwng y gynnedyf aoed ar y ffynnawn. Ac ohynny allan y gelwit hi ffynnawn galaath. A gwedy daruot idaw newidiaw anyan y ffynnawn. ef a varchocaawd yny doeth yr vanachlawc yny lle y buassei lawnslot kynno hynny. Ac yno y gweles galaath y bed yn llosgi yn unfflam. Ac yna galaath aovynnawd y ùn or myneich paryw beth aoed yn y bed. Arglwyd heb y manach. antur yw honn racko ny ellir vyth y bwrw ody yma. yny del y pennaf o gedymdeithyon y vort gronn. Yr vyngkaryat i heb y galaath dabre y gyt ami hyt yno. Mi awnaf yn llawen heb y manach. Ac yna y ganhebrwng aoruc hyt y bed. Ac yr awr y dynessawd galaath att y bed ef a diffodes y tan oe dyuotyat ef. yr hwnn avuassei eiryoet yn llosgi hyt hynny. Aphan doeth ef att y bed ef aedyrchevis y vyny ef. ac ef awelei gorff ydanaw. ac yr awr ydaeth y gwres ymeith or bed. ef a glywei lef yn dywedut wrthaw. Galaath galaath ti adylyut diolwch y duw roi ytti o ras gallel ohonat tynnu eneidyeu or poeneu ac eu roi mywn gorffowysua baradwys. A myvi yw simei gwr oth genedyl di yr hwnn a vu uarw yr ystalym o amser. ac yssyd yn y poen a wely di yr yspedeir blyned ardec adeugeint

Digitized by Google

athrychant. o achaws un pechawt gynt awneuthum yn erbyn ioseph o arimathia ac byth y buasswn yn y poen hwnn panybei drugarhau o duw wrthyf. o achaws dy dyuotyat ti. Am dwyn or poen hwnn a roi ym lewenyd nefawl. Llawen vu gan y myneich or ty pan welsant. Ac yna galaath agymerth corff simei. ac aberis y dwyn yr eglwys ae gladu yno yn enrydedus. Agwedy daruot hynny y myneych adoethant att galaath ac awnaethont lewenyd mawr idaw. ac aovynnassant idaw pa un oed ac o ba genedyl yr hanoed. Ac ynteu adywawt kwbyl or wirioned udunt am aovynnassant. Trannoeth gwedy gwarandaw offeren ef agychwynnawd ymmeith drwy gennat y myneich. Ac uelly y bu ef yn crwydraw ynys prydein ac yn bwrw dryc anturyeu y arnei pump mlyned kynn y dyuot y lys brenhin peleur. Ac yngkwbyl or pump mlyned hynny ef a vu baredur ygyt ac ef. Ac yma y mae y kyuarwydyt yn traethu na bu galaath apharedur eiryoet yn lle yr amlet ac yr meint vei o bobyl yn eu herbyn ny cheffynt wy y vudugolyaeth o anuod pawp.

LXVII.—Diwarnawt yr oed galaath apharedur yn marchogaeth drwy fforest vawr dec ynyal. nachaf yn kyuaruot ac wynt bwrt ehunan yn marchogaeth. A llawen vu pob un onadunt wrth y gilyd. Aphawb onadunt aovynnawd y gilyd y gyfrangk. Ac yna bwrt adywawt na buassei ef gystal pedeirnos yr ys pum mlyned mywn gwely nac ymywn castell. namyn mywn fforestyd diffeith yn y lle y collassei ef lawer gweith y eneit panybei vot gras duw ae ganhorthwy yny gadw. Yna paredur aovynnawd idaw awelsei yr hynny hyt hediw dim ywrth yr hynn yd oedynt yny geissyaw. Na weleis arglwydi heb ynteu namyn mi adebygaf nat ymwahanwn i bellach yr un ywrth y gilyd yny gwelom. Poet velly y bo heb y galaath. ac uelly y trosses antur y tri chedymdeith y gyt. A marchogaeth aorugant yny doethant y lys brenhin peleur. Allawen uu bawp yno wrthunt. Aphawb aredei attunt. y edrych ryuedawt arnunt. ac uelly y buant wy yny vu bryt gosper. Ac yna wynt awelynt yr amser yn tywyllu. ac awelynt

Digitized by Google

yr hin yn amrauael. Ac ar hynny gwynt adrewis yn y llys yn gymeint y wres ac y tebygit udunt bot pop peth yn llosgi ganthaw. ac yny oruu arnunt syrthyaw yr llawr yn eu llewyc rac ovyn. ac yna wynt a glywynt lef yn dywedut. ar ny dylyo eisted ar vwrd iessu grist aet allan. kanys yr awr honn y porthir y marchogyon urdolyon kywir or bwyt nefawl. Ac yna pawp aaeth allan namyn wyntwy yll tri a morwyn ieuanc adrigyawd yno ygyt ac wynt y edrych adangossei iessu grist udunt dim ywrth seint greal. Ac ual y bydant yn eisted uelly wynt a welynt yn dyuot y mywn naw marchawc urdawl yn aruawc wynt ae meirch. a disgynnu aorugant adyuot y mywn yr neuad. Achyuarch gwell y galaath. a dywetut. Arglwyd heb wynt nyni a vryssyassam yman y gael kyfrann y gyt a chwi or llewenyd aedewis iessu grist ywch. Grassaw duw wrthywch heb y galaath. Agwedy eisted onadunt. Galaath a ovynnawd obale yd hanhoedynt. Ac yna tri onadunt adywedassant eu hanuot ogymry. a thri ereill o iwerdon. a thri ereill o denmarc. yna wynt aglywynt lef yn dywedut. ar ny hanffo or keis aet allan. Yna y kyuodes y vorwyn y vyny ac yd aeth ymeith. Ac yr awr honno wynt awelynt yn dyuot y wrth y nef. gwr gwedy gwisgaw esgobwisc ymdanaw. abagyl yn y law. a choron am y benn. aphedwar angel yn y arwein ymywn cadeir eureit. ac yny ossot yny eisted ar y tabyl yr oed seint greal arnaw. a llythyr yn yscriuennedic yny dal y rei oedynt yn dywedut. Weldy yma Iosep uab iosep o arimathia yr esgob kyntaf a vu o gristawn eiryoet. ac ae kyssegrawd iessu grist ef yndinas sarras yny llys ysprydawl. Ar marchogyon urdolyon awelsant hynny ac ae darlleassant ac a vu ryued ganthunt hynny. kanys y iosep yd oed y llythyr yn dywedut amdanaw ef a vuassei uarw yr ys trychant mlyned kynno hynny amwy. Ac yna yr esgob adywawt. a weissyon iessu grist na ryuedet arnawch dim yr vynggwelet i geyr bronn seint greal. kanys ual y gwassaneythyeis i arnaw efo yngorfforawl. uelly yrwyf yngwassanaethu arnaw yn ysprydawl. Aphan daruu idaw hynny ef aostyngawd ar benn y

Digitized by Google

linyeu geyr bronn seint greal yny lle ydoed ar y tabyl aryant. Agwedy y vot ef yno ynhir yn gwediaw. wynt aglywynt drws ystauell yn agori. ac ohonno wynt awelynt yr engylyon adugassei iosep yno yn dyuot. a deu ohonunt a deu dors o gwyr yn eu dwylaw. ar trydyd a gwaew yn y law. or hwnn ydoedynt dafneu owaet ynsyrthyaw ymywn blwch aoed yn llaw y pedwyryd angel. A velly y doethant hwy hyt ar dabyl seint greal yn y lle ydoed iosep yn gwediaw. Ac yna iosep aroes twel o sidan gwynn arnaw ual roi corporal dros garegyl. Ac yna yn y wassanaeth yd aeth iosep megys pei at vei ar secret y offeren. Agwedy y vot ef uelly hirynt ef agymerth auyrlladen or racwerthuawr lestyr. Ac ual y byd ef yn dyrchafel hwnnw wynt awelynt y bara yn mynet yn ffuryf gwr. Ae wyneb yn gyngochet a phei at vei yn varwar oll. Agwedy y vot ef yny dangos uelly. ef aroes y delw honno yn y blwch or lle y tynnassei drachevyn.

LXVIII.—Gwedy daruot y Iosep wneuthur kymeint ac aberthynei y wr da ar yr offeren y wneuthur. yna ef a doeth att galaath ac aroes cussan idaw. ac a erchis idaw ynteu wneuthur uelly ae gedymdeithyon. Ac uelly y goruc ef. Agwedy daruot hynny. Iosep adywawt. marchogyon iessu grist heb ef. y rei adryuaelyawd llawer yr gwelet peth o ryuedawt seint greal. eistedwch geyr bronn y tabyl hwnn yman. achwi ageffwch awch gwassanaethu or ysprydawl vwyt. ahynny olaw awch arglwyd chwi iessu grist. ual y galloch dywedut mae da y talwyt ywch awch kyfloc yn lle awch llauur. kanys ny chafas marchogyon urdolyon y gyfryw na chynt na gwedy. A gwedy daruot y Iosep dywedut hynny. ef a difflannawd y ganthunt heb wybot onadunt wy beth adaroed idaw. Ac yna eisted aorugant wy geyr bronn y tabyl ac wylaw o lewenyd. A megys y bydynt wy yn eisted uelly. wynt a welynt or racwerthvawr lestyr yn dyuot gwr ae dwylaw yn waetlyt. ae draet ae gorff heuyt yn llawn gwaet. Ac yr awr y doeth ef adywawt. vy marchogyon i am kywirion y rei yny uarwawl vuched honn aaethant yn

Digitized by Google

ysprydawl. chwi am keissyassawch i val na allaf ymgelu mwy ragoch. ac am hynny mi adangossaf y chwitheu beth om dirgeledigaetheu inneu. kanys chwi a eistedassawch ar vymwrd i lle nyt eistedawd dyn eiryoet yr yn oes iosep o arimathia. Yr hynny ual kynt llawer gwr da adoeth yr llys yman ac a gawssant ymborth ysprydawl drwy ras seint greal. yny megys hynny mi arodaf y chwitheu yr hynn y buoch yr ystalym yny geissyaw drwy y damunaw. ac yna ef adoeth ac agymerth or racwerthuawr lestyr megys avyrlladen. ac adoeth att galaath ac ae roes idaw. ac ynteu yn vuchedawl ae kymerth dan ostwng ar dal y linyeu. Ac uelly y gorugant pawp oe gedymdeithyon. Ac yna yn arglwyd ni iessu grist. adywawt wrth y kedymdeithyon ual yr oedynt. Awdawch chwi heb ef beth yd wyfi yny daly y rwng vyn dwylaw. Na wdam arglwyd heb wynteu. llyma heb ef y dysgyl y bwyttaawd iessu grist ohonei yr oen ygyt ae disgyblon. Honn yw y dysgyl awnaeth pawb wrth y ewyllys or rei ageueis i yn vyngwassanaeth. Ac yma y dywawt ef chwchwi a welsawch yr hynn ydoedewch yn y damunaw. chwchwi eissyoes galaath paredur a bwrt. nys gwelsawch chwi yn gyngwplet ac y gwelwch rac llaw. ac awdawch chwi pa le y gwelwch yndinas sarras yn y lle ysprydawl. ac am hynny ef a vyd reit y chwi awch tri. vynet y gynnal kedymdeithyas yr llestyr ysprydawl hwnn. yr hwnn a gychwyn o ynys prydein heno megys na weler bellach vyth. yn yr ynys honn. ac awdawch chwi paham am na wassanaethwyt. ac am nat anrydedwyt yn y mod y dylyit. or achaws y byd gwaeth y bobyl or ynys honn vyth. ac am hynny y byd reit y chwi avory vynet tu ar mor. ac yno chwi ageffwch ysgraff. yn yr honn y cawssawch gynt y cledyf ar estronawl arwest. Paham anrydedus arglwyd heb y galaath na reyngk bod ytti dyuot hynn oll o gedymdeithyon gyt a myvi. Na vynnaf heb ynteu. namyn hynn avynnaf y wneuthur yr disgyblaeth ym deudec disgybyl i. kanys megys y bwytawssant wy yll deudec gyt ar dabyl seint greal nos diuieu cablut. velly y bwyttawssawch chwitheu yr awr honn ar dabyl

Digitized by Google

seint greal gyt a mi. ac ydywch chwi deudec megys ydoedynt wynteu. A minneu yssyd drydyd ardec gyt achwi yn veistyr arnawch ual yd oedwn yn veistyr arnadunt wynteu. Amegys y gyrreis i wyntwy y bregethu ar hyt y byt. velly y gyrraf inneu chwitheu ywch anturyeu ar gret a welsawch. ac yny gwassanaeth hwnnw y byd marw pob un ohonawch. Ac ar hynny roi y uendith udunt aoruc ac ymdifflannu yganthunt hyt na wybuant wy y ba le yd aeth ef namyn y welet yn mynet tu ar nef. Y nos honno ynghylch hanner nos gwedy daruot y galaath ae gedymdeithyon wediaw duw. ar uot yn iachwyawdyr oc eu heneidyeu pa le bynnac yd elynt. Wynt aglywynt lef yn dywedut. Vy meibyon i ewch chwi ymeith y gerdet wrth awch anturyeu. Aphan glywssant wy hynny wynt aattebassant yr unllef. Tat o nef bendigedic vych di am bot yn gywiw gennyt yn galw ni yn veibyon ac yn gedymdeithyon ytt. Ac yna y kychwynnassant wy or llys ac y doethant yr gatlys. ac yno y kawssant veirch ac arueu. ac ymeith y kerdassant yr awr y daruu udunt wisgaw eu harueu. agwedy daruot udunt adaw y castell. yna ef a ymofynnawd pob un onadunt pa rei oedynt ual y gellynt ymgyfadnabot. Ac yna pob un adywawt y gilyd pa un oed. Aphan ymwahanyssant pawp onadunt aaeth dwylaw mynwgyl ae gilyd. Aphob un a dywawt wrth galaath. Arglwyd heb wynt gwybyd di yn lle gwir. na bu yni o lewenyd eiryoet y gymeint ac yr pan doetham yth gedymdeithyas di. ac am hynny drwc yw gennym ni yr ymwahanu hwnn. Yr hynny ual kynt reit yw. Arglwydi heb y galaath ot oedewch chwannawc chwi ym kedymdeithyas i. chwannogach oedwn inneu yr einwch chwi. Yr hynny reit yw yni ymwahanu pob un ar ewyllys duw. ac am hynny yn iach y chwi. Ac ot ewch y lys yr amerawdyr arthur. annerchwch ef y gennyfi. achwbyl o gedymdeithyon y vort gronn. alawnslot vyntat osgwelwch. Ni awnawn yn llawen heb wynt. ac ar hynny ymwahanu aorugant. Galaath yna ef ae gedymdeithyon avarchockaassant yny doethant y lann y mor erbyn penn y pedwyryd

Digitized by Google

dyd. Aphan doethant yno wynt agawssant yr ysgraff yn yr honn y kassoedit y cledyf ar estronawl arwest idaw. Agwedy eu dyuot ymywn wynt aarganuant yn y gwely aoed yno y tabyl aryant a welsynt kynno hynny yn llys brenhin peleur a seint greal ar y warthaf. a samit coch ar y draws. Aphan weles y kedymdeithyon hynny hoff vu ganthunt am gael yn eu kedymdeithyas yr hynn y buassynt eiryoet yny damunaw. yna y gwynt adrewis yr ysgraff yr mor a marchogaeth y mor yn y mod hwnnw aoruc hi yn hir o amser heb wybot onadunt wy yn y byt pa fford yd oed hi yn mynet. Aphan elei galaath y gysgu neu ynteu pan gyuotei beunyd y gwediei ar duw ar roi teruyn ar hoedyl pa amser yny byt y damunei. Ac uelly yn wastad y gwnaeth ef y wedi yny doeth llef attaw a dywedut. Nac aet un goual arnat galaath. kanys yr awr yr erchych di angheu y corff ti ae keffy. A gwarandaw aoruc paredur ar hynny. A ryuedu aoruc ef y alaath adolwyn y ryw rod honno y arglwyd. Ac yna paredur aovynnawd idaw paham yd oed ef yn adolwyn oe arglwyd y ryw rod honno. mi ae dywedaf ytt heb y galaath. y nos arall heb ef yn llys brenhin peleur pan dangosses iessu grist yni ryuedawt seint greal. yno y gweleis i odirgeledigaetheu ual ydoed vyngkallon i yngynesmwythet aphei buasswn marw i yn y pwngk hwnnw na buassei varw cristawn eiryoet yn gynhyfryttet. kanys yr oed yno o engylyon ac obetheu ysprydawl mwy noc aellit y datkanu. Ac am hynny y hadolygeis i ym harglwyd teruyn ar vy hoedyl pan y hadolygwn idaw. kanys mi adebygaf y gwelafi etto or dirgeledigaetheu y gymeint arall neu uo mwy. Ac yna y mynnafi vynet or byt hwnn. ac uelly y menegys galaath y paredur dyuodyat ar y angeu. ac yn y mod y menegeis i y chwi y colles y rei oloegyr seint greal o achaws eu pechodeu. A megys yr anuones iessu grist y iosep ac y ereill oe etyuedyaeth ynteu seint greal o achaws eu daeoni. velly y colles gwyr brytaen ynteu achaws eu pechodeu. Ac uelly y bu y tri chedymdeith yn hir. Ac yna paredur a bwrt a dywedassant wrth galaath. Arglwyd heb wy y gwely

Digitized by Google

hwnn awnaethpwyt ar dy uedyr di. ac ny chysgeist yndaw eiryoet. athi adylyut gysgu yndaw kanys uelly y mae y llythyr yn dywedut. ac ynteu yna adywawt yd aei y gysgu yr gwely. Ac yna ef aaeth ac a gysgawd. Aphan deffroes galaath ae gedymdeithyon wynt a welynt dinas sarras geyr eu bronn. Ac yna y dywawt llef wrthunt. ewch allan heb ef weissyon duw. a dygwch ryngoch awch tri y tabyl aryant hwnnw yn y mod y mae. ac na rowch yr llawr ef yny deloch yr capel ysprydawl. yn y lle y kyssegrawd iessu grist Iosep uab iosep o arimathia yn escob.

LXIX.—Yna wynt agymerassant y tabyl rwng eu dwylaw ylltri. ac o vreid rac y drymet ydoethant yr tir ac ef. Ac yna wynt awelynt ar hyt y mor yn dyuot yr ysgraff y rodyssit chwaer baredur yndi. ac yn kymryt tir yn y borthloed ygyt ac wynt yr hynn avu ryued ganthunt. Ac yna galaath adywawt dadigawn y kynhalyawd y verch honn oet ac amot anyni. Ac yna paredur a bwrt agymerassant y tal blaenaf yr tabyl. a galaath ehun agymerth y tal arall. ac aaethant ac ef tu ar dref. Ac yn ymyl porth y dref ef a vlinawd galaath rac trymet oed y tabyl yn pwyssaw arnaw. Ac yno ar y fford y kyfaruu grupul ac wynt yr hwnn a nottaei vot yno yn aros ffordolyon y ymbil ac wynt am gerdodeu yr duw. Aphan doeth galaath yn gyfagos attaw. ef a dywawt wrth y crupyl. Dabre heb ef ym kymorth o dwyn penn y tabyl gyt ami yr llys vry. Och arglwyd heb y crupyl beth a dywedy di ny elleis i yr ys dengmlyned dim or kerdet. Beth yr hynny heb y galaath kyuot y vyny yd wyt yn iach. Ac yna y gwr a gyuodes y vyny yn gyn iachet ac y buassei iachaf eiryoet. Achymryt y tabyl aoruc ae dwyn y gyt ac ef yr capel ysprydawl yn y lle y gwelsant wy y gadeir a rodassei iessu grist y iosep y eisted yndi. ac yno pawp or dinas adoeth y edrych y gwyrtheu a wnathoedit yr crupyl. A gwedy daruot y galaath ae gedymdeithyon wneuthur hynny. wynt a ymchoelassant tu ar mor ac adoethant yr ysgraff yr oed chwaer beredur yndi. ae chymryt aorugant ae dwyn hi ar gwely yr capel. ae

Digitized by Google

chladu geyr bronn yr allawr. Pan weles y brenhin bioed y wlat y tri chedymdeith. ef aovynnawd udunt o ba le yr hanhoedynt. apha ryw beth a dugassynt ar y tabyl aryant. Ac wynteu adywedassant idaw gwbyl ual y govynnawd. a ryuedawt y greal. apha ryw beth aarwydockaei. Ac ynteu ual yd oed yn wr drwc angcredadun ny chredawd udunt o dim. namyn tybyeit mae twyllwyr oedynt. ac yna aros aoruc ef yny gweles wy yn diarueu. ac yna ef aberis eu daly ac eu karcharu yngkarchar drwc. val nat oed fford udunt y diangk yny vlwydyn honno. Eissyoes ef a wnaeth duw yn da ac wynt. dwyn seint greal attunt yr kynnal kedymdeithyas ac wynt. Ac uelly y buant hyt ym penn y vlwydyn. A diwarnawt yr ymgwynawd galaath ac y dywawt. Varglwyd iessu grist heb ef. ef awelir ymi vot yn digawn yd wyf yn y byt hwnn. Ac am hynny dwc vi attat yn ehegyr. Ar dyd hwnnw ydoed y brenhin yn glaf. ac ef aberis eu kyrchu wy hyt attaw. y erchi madeueint udunt am eu carcharu ar gam. ac wynteu a madeuassant idaw o gwbyl. Ac yna efo a vu uarw. agwedy daruot y gladu. y bobyl or dinas aaethant ar vedyr gwneuthur brenhin arnunt. ac ny wydynt wy o bwy y gwneynt. Ac ual y bydynt yn ymgynghori am hynny ef adywawt llef wrthunt. kymerwch agwnewch yn vrenhin arnawch y ieuaf or tri chedymdeith. Ac wynteu awnaethant hynny ac adoethant at galaath. ac ae gwnaethant yn arglwyd arnadunt pei drwc pei da ganthaw. Ac ny bu hoff ganthaw ef hynny. Eissyoes pan weles ef na thygyei idaw ymwrthot a hynny ef ae kanhattaawd udunt. Ac yna ef aberis gwneuthur ywch benn seint greal llunprenn o eur ac aryant yn llawn o vein mawrweirthawc. Apheunyd pan gyuodynt y deuei ef ae gedymdeithyon geyr bronn seint greal. Ac ar benn y vlwydyn or undyd y gwnathoedit ef yn vrenhin ef agyuodes yn vore ef ae gedymdeithyon ac adoethant hyt y lle ydoed seint greal a cheyr bronn seint greal wynt a welynt esgob yn y esgobwisc ar dal ydeulin. ac yn y gylch ynteu llawer o engylyon. Agwedy y vot ef hirynt ar dal

Digitized by Google

y linyeu velly ef agyuodes y vyny ac a dechreuawd offeren o veir. Aphan yttoed ef ar secret y offeren ef adywawt wrth galaath. Dabre yma heb ef athi awely yr hynn y buost yny damunaw yr ystalym. Ac ynteu adoeth ac aedrychawd ar y racwerthuawr lestyr. ac yno ef aweles yr hynn ny allei dauot or byt y datkanu. Ac yna ef adywawt uarglwyd ytti y diolchafi heb ef kwplau ohonat ti ymi vy ewyllys. kanys mi awelaf yr awr honn beth nys gallei gallon or byt y vedylyaw. Ac yr awrhonn arglwyd y mynnwn i pei kymerut vy eneit i attat yth lewenyd. Ac yr awr y daruu idaw ef wneuthur y damunet yn y mod hwnnw. yr esgob yna agymerth corff yr arglwyd ac ae roes idaw. ac ynteu ae mwynhaawd. Agwedy daruot idaw hynny yr esgob aovynnawd idaw a wydyat ef pa un oed. Na wnn arglwyd heb ynteu. Gwybyd di yn wir heb ef mae myui yw iosep uab iosep o arimathia. ac mae iessu grist am anuones i y wneuthur kedymdeithyas ytti. Ac awdost di paham ym gyrwyt i mwy noc arall. am dy vot ti yndebic ymi o deupeth. nyt amgen no gwelet ohonat gwyrth y greal yngynegluret ac y gweleis inneu. ac am dy vot yn wyry ual yr wyf inneu. Ac am hynny y mae kyfyawn yr gwyry wneuthur kedymdeithyas ar llall. Ac yna galaath adoeth ac aaeth dwylaw mynwgyl y paredur ac y vwrt. Ac adoeth drachevyn geyr bronn seint greal. Ac ny bu efo haeach yno. yny wahanawd y eneit ae gorff. Agwedy y varw ef. wynt awelynt llaw yn dyuot or nef. ac ny welynt dim or corff namyn hynny. ar llaw agymerth y racwerthuawr lestyr yr hwnn aelwit y greal ac a aeth ac ef ymeith. ac yr hynny hyt hediw ny bu neb aallei y welet ar y daear onyt gwalchmei unweith.

LXX.—Pan weles paredur a bwrt galaath yn varw trist a doluryus vu ganthunt. aphanybei eu daet gwyr wynt a syrthyassynt mywn anobeith. arbobyl or wlat a vuant trist heuyt. Aphan daruu argyfrein galaath ae gladu paredur agymerth abit meudwy ymdanaw. a bwrt adrigyawd gyt ac ef. dieithyr ny chymerth ef amgen abit noc un y byt ual y gnotaawd or blaen. kanys y

Digitized by Google

vedwl oed ar dyuot dracheuyn y lys arthur. Blwydyn adeuvis gwedy hynny y bu baredur yn vyw. Ac wedy y uarw bwrt a beris y gladu gyt ae chwaer. Pan weles bwrt y vot ehun megys yn ardal babilon. ef a gychwynnawd ymeith yn aruawc ac adoeth yr mor. Ac agafas ysgraff ac adoeth racdaw. ac ny bu haeach o amser yny doeth y loegyr. Agwedy y dyuot yr tir ef avarchocaawd yn y doeth y gamalot. yn y lle yd oed arthur yr hwnn a wnaeth idaw lewenyd mawr ef ae varwnyeit kanys wynt adebygas synt y golli yr ystalym. Agwedy bwyta arthur aovynnawd idaw y gyfrangk. ac ynteu ae datkanawd idaw ual y clywsawch or blaen. Ac yna arthur aberis y ysgriuennydyon ysgriuennu eu hanturyeu. Agwedy daruot gwneuthur ac ysgriuennu anturyeu y greal o gwbyl. wynt aanuonet y ynys auallach oe cadw. Ac uelly y teruyna y rann gyntaf or greal. nyt amgen nor keis. Bellach dywedadwy yw o rann walchmei. ac o anturyeu y milwyr ual y kyfaruu ac wynt.

Digitized by Google

Y SEINT GREAL.

YR EIL RAN.

Er ystorya honn a draetha y wrth y racwerthuawr lestyr yr hwnn a elwir y greal. yn yr hwnn yd erbynnywyt gwaet yn creawdyr ni iessu grist yny dyd y rodet ef ar brenn y groc yr prynu y bobyl o gaethiwet uffern. A Ioseph ae hysgrifennawd drwy orchymun angel or nef. kanys duw a vynnawd gwybot gwirioned drwy y ysgrifennyat ef am y damwein hwnnw. a heuyt drwy dystolyaeth y gwyrda. ac a vynnawd gwybot o bawp drwy yr unryw Ioseph. padelw y godefassant ymilwyr gynt poen athrauael yr drychafel cret grist. yr honn a atnewydawd crist drwy angheu a chrocedigaeth. a gwybydet bawp nat y ioseph hwnn yw ioseph o arimathia.

LXXI.—Erann honn yr ydys yn y dechreu yn enw y tat ar mab ar yspryt glan y tri pherson ynt yn un gedernyt. ar kedernyt hwnnw yw duw. Ac o duw y kychwynnawd ystorya seint greal. achwbwl or adoeth o nef adyl cadw ganthaw yr ymadrodyon hynn. ac ysgaelussaw pob ryw uileindra oc a uo yn y gallon. kanys wynt a deuant yn lles mawr y bawp or ae gwarandawo o gallon da. o achaws y gwyrda ar ysgolheigyon da. y rei y clywir yman draethu o honunt. Ioseph yssyd yn traethu yr hystorya honn o achaws kenedylaeth marchawc urdawl da yr hwnn a vu gwedy diodeifyeint yn arglwyd ni. a hwnnw milwr da vu. Kanys gwyry oed oe gorff. diweir oe vedwl. ehofyn a galluawc o gallon. Aphob camp da aoed arnaw heb neb ryw uileindra. y gyt a hynny heuyt nyt oed dywedwydyat. Ac ny thebygit wrthaw oe weledyat y vot yn gyn dewret ac ydoed. Ac o achaws un parabyl aysgaelussawd y dywedut y doeth ar vrytaen vawr diryeidi a chynnwryf kymeint ac nat oed yndi nac ynys na gwlat na dinas ny bei gwedy eu govidyaw yn vawr. Eissyoes

Digitized by Google

gwedy hynny efo ae trosses hi ar y llewenyd drwy rym y vilwryaeth. efo a hanoed o lines ioseph o arimathia. Y Ioseph hwnnw oed ewythyr oe vam ef. ac a vu yn trigyaw gyt a philatus seith mlyned kynn diodef o grist. Ac ny ovynnawd yn lle y wassanaeth yn y seith mlyned y bilatus namyn corff yr arglwyd Iessu grist oe dynnu ody ar y groes. a mawr iawn vu ganthaw y rod honno pan ganhatwyt idaw. abychan vu gan bilatus y roi idaw. kanys ioseph. kanys y wassanaethu yn gywir a wnathoed ioseph idaw. A phei archassei nac eur nac aryant na thir na dalar na da. ef ae rodassei idaw yn llawen. A heuyt ef a debygassei pilatus pan ganhattaawd y corff idaw y parassei ynteu y lusgaw ef arhyt y dref ae vwrw gwedy hynny y ryw le mileinyeid budyr odieithyr y dref. Eissyoes nyt oed chwannawc Ioseph y hynny. namyn y anrydedu yn oreu ac y gallei. ae gladu y mywn mynwent newyd abarassei y gwneuthur ar y uedyr ehun aoruc. A chadw y gyt ac ef y gwaew ar llestyr yn yr hwnn y daroed idaw kynnullaw y gwaet a oed yngcreu y archolleu pan disgynnawd y ar y groes. O lines y gwr hwnnw yd hanoed y gwr da. or hwnn y mae yr ystorya honn gwedy y chyuansodi. Igleis yn ffrangec y gelwir y vam. brenhin peleur oed y ewythyr vrawt y vam. brenhin peles heuyt ar brenhin or castell marw oedynt y ewythred idaw. Y brenhin or castell marw oed gymeint y drwc ae enwired ac ydoed y lleill o daeoni. a llawer oed hynny. Y tri hynny aoedynt tri broder oe vam efo yr honn oed wreic da gywir. Yr milwr da hwnnw yd oed chwaer yr honn aelwir danbrann yn ffranghec. Ac na vit drwc gan darlleodron y llyfyr hwnn yr na metrwyfi gaffael henweu kymraec ar y rei ffrenghic. nac yr y gossot ual y gallwyf. namyn hynn a wnn I. y milwr yd ydys yny ganmawl yma. y henw yn ffranghec yw peneffresvo galeif. kystal yw hynny yngkymraec apheredur. yr hwnn aglywssawch dywedut or blaen pwy oed y vam. ac o ba le yd hanoed. y pennaf oblegyt y dat ynteu aelwit nichodemus. A henw y dat oed efrawc iarll. o benn glynn camalot. ac idaw yd oed un brawt

Digitized by Google

ardec ac ynteu ehun deudecuet. Aphob un onadunt alas yn ryueloed ynkeissyaw cadarnhau y gret newyd. Ac onadunt kyntaf ahynaf oed efrawc iarll. yr eil oed gosgolianus. y trydyd a elwit brwns brandalis. Y pedwyryd brecoles goch. y pymhet brendalis o gymry. y chwechet eliwans o stanalons. y seithuet calobrutus. yr wythuet meralis or weirglawd. y nawuet. ffortismes or llannerch goch. y decuet arniam o arbame. yr unuet ardec galram or twr gwynn. y deudecuet alibans or dinas atueilyedic. a chwbwl onadunt a las yn arueu ynggwassanaeth iessu grist. yr hwnn aatnewydawd y gret newyd drwy angheu. Or deu ryw dynyon a glyweist vry or blaen y cat y milwr da med Ioseph. yr ysgolheic da. yr hwnn yssyd yn ysponi yni yr ystorya honn. ac yssyd yn dywedut na bu brenhin daearawl or byt yr pan diodefawd crist. a gynnydei ar gret grist yn gymeint ac y kynnydawd arthur o vrytaen y vilwyr trwydaw ehun y rei aoedynt yn wastat yn y lys. Y brenhin arthur aoed gynt wrda kyuoethawc da y gret yn duw. a llawer o anturyeu da a oedynt yn dyuot y lys yn yr amser hwnnw. Ac idaw yr yttoed y vort gronn wedy y ystoryaw or milwyr goreu yn yr holl vyt. Agwedy marw uthur benndragon y dat. ef a vu yn dwyn y vuched uchaf dengmlyned. Ac yn valchaf brenhin or byt. ac uelly yd oed y varwnyeit yn disgyblu wrthaw ynteu. Ac uelly y bu ef yny mod y dywedeis i hyt nat oed yny byt un arglwyd kymeint y glot ac ef yn y doeth symut ewyllys yndaw. a dechreu colli y deuot o vot yn hael yr honn a wybu gynt y wneuthur. Ac nyt oed ewyllys or byt yndaw y daly llys yn nebryw wyl arbennic. Ac uelly yd oed ef yn colli y glot ae vilwyr yn yadaw ac yn adaw y vort gronn pan welsant y daeoni ef yn ffaelu. Ac yna kychwyn awnaeth pawb or llys ae gadaw. hyt nat oed yn trigyaw yn y llys or pump athrugein athrychant o varchogyon urdolyon. y rei anoteynt vot yn wastat yn y llys namyn pump arhugein pan uei vwyhaf. Y gyt a hynny nyt oed chweith antur or byt yn dyuot yr llys yn y mod y gnotaei. Heuyt kwbwl or tywyssogyon ereill aoedynt

Digitized by Google

yn ysgeulussaw gwneuthur da pan welsant y brenhin mor wann yn kynnal y lys ac ydoed. Ac or achaws hwnnw ydoed wenhwyuar yn gyndristet ac na wydyat beth awnaei.

LXXII.—Megys ydoed arthur diuieu kyrchauel ynghaerllion ar wysc. gwedy daruot bwyta achyuodi yn eu sefyll. ef a welei y vrenhines yn drist vedylgar yn eisted yn ymyl ffenestyr. Sef aoruc ynteu eisted ygyt a hi. ac edrych yn y hwyneb ae gwelet yn wylaw. Arglwydes heb y brenhin pa ystyr yw y teudi y wylaw. Arglwyd heb hi. os wylaw awnaf i. nyt reit y titheu uot yn drallawen yr hynny. Myn vyngcret arglwydes heb ef nyt wyf lawen inheu. Arglwyd heb hitheu iawn awney. mi aweleis heb hi yngkyfryw diwarnawt a hediw vot yn gyn amlet marchogyon urdolyon y gyt a thi. ac o vreid y gallei neb eu kyfrif nae hamkanu. Yr awrhonn nyt ynt namyn ychydic. ac nyt oes chweith antur yn dyuot yth lys yn y mod y gnottaei. ac am hynny y mae arnaf i diruawr gewilyd. ac ovyn heuyt vot duw wedy llidiaw wrthym an hebryuygu. Myn vy llw heb yr arthur. nyt oes gennyfi chweith ewyllys y wneuthur da nac ehalaethder. na dim oc ellit y drossi ar enryded. namyn vy medwl yssyd wedy trossi ar wander a chrydder callon. ac am hynny y colleis vy marchogyon. ac y pellassant vy milwyr y wrthyf a charyat vynghedymdeithyon. Arglwyd heb y vrenhines. pei elut ti parth a chapel seint augustin. yr hwnn yssyd yny llannerch wenn. Ac ny dichawn neb damweinyaw ar y capel hwnnw onyt trwy anturyaeth. Mi adebygwn y trossei ytt ewyllys da ar dy dyuotyat drachevyn. kanys nyt aeth yno dyn eiryoet ac anghynghor arnaw. ny chynghorei duw ef kynn y dyuot drachevyn. os gwediei o gallon da. Arglwydes heb ynteu arthur minneu aaf yno kanys mi a giglef dystolyaethu hynny yn wir. am medwl inneu yssyd ar hynny yr ys tri diwarnawt. Arglwyd heb y vrenhines. Y capel yssyd beriglus ac anturyus. Eissyoes y mae yno yn trigyaw y gwr santeidyaf o vrenhinyaeth gymry. ae gudugyl yssyd yn ymyl y capel. Ac nyt oes idaw

Digitized by Google

vuched onyt adel y gan duw. Arglwydes heb yr arthur reit yw ym vynet yno a hynny vy hun ac yn aruawc heb neb y gyt a mi. Arglwyd heb hitheu ti a elly gymryt gyt athi un or gwyreeingk. Arglwydes heb ynteu nys gallaf ac nys llyfassaf. kanys po mwyhaf a dyckit yno o dylwyth. mwyhaf uydei o anturyeu ac o wrthwyneb idaw. kanys y lle yssyd beriglus. Arglwyd heb hitheu ti a dygy gyt a thi un ac ny daw ytt ohynny namyn da. Arglwydes heb ynteu yn llawen. ac oblegyt duw minneu a wnaf hynny. Ac yna kyuodi yuyny awnaethant or ffenestyr. Ac edrych awnaeth ef o bop parth idaw. Ac arganuot gwas ieuangk tec gawns oed y henw. a mab yttoed y owein vrych. Arglwydes heb y brenhin hwnn adygafi y gyt a mi. a chanmawl di ef. Kanmolaf heb hitheu. kanys mi a giglef dystolyaetheu y vot yn gywir. yna y gelwis arthur ar y gwas. ac ynteu adoeth ac aostyngawd ar ben y lin geyr bronn y brenhin. Ac ynteu aerchis idaw gyuodi. Gawns heb yr arthur. ti a gysgy heno yn y neuad a bit gennyt vy march yn barawt erbyn y bore avory. Kanys y mae ym bryt vynet y neges athitheu adeuy y gyt a mi heb mwy o gedymdeithyon. Arglwyd heb y gwas bit ar dy ewyllys di. Gwedy hynny y nos adoeth. ar brenhin aaeth y gysgu. y marchogyon urdolyon aaeth y llettyeu. ar gwas a drigyawd yn y neuad. a chysgu awnaeth yn y dillat. kanys byrr vydei y nos yn yr amser hwnnw. Ac ynteu a vynnei vot yn barawt erbyn kyuodi or brenhin. Y gwas aaeth y gysgu yn y mod y dywedeis i uchot. A megys y byd yn yr hun gyntaf. ef awelit idaw ef vot y brenhin gwedy mynet heb wybot idaw ymeith. Ac yna dechrynu awnaeth adyuot att y varch ae gyfrwyaw. a roi y ffrwyn yn y benn. a gwisgaw y ysparduneu. a chymryt y gledyf ac ef a welit idaw y vot yn gadaw y llys ar castell ac yn mynet yn ol y brenhin. A gwedy daruot idaw gerdet talym. ef adoeth y fforest. uawr ac edrych awnaeth ef yn y blaen ar y fford. ac arganuot ol pedoleu march y brenhin herwyd adebygei efo. ac ymlit yr ol hwnnw aoruc ef yny doeth y lannerch aoed ymperued

Digitized by Google

y fforest. Ac yna edrych ar y tu deheu idaw aoruc ac arganuot capel ymperued y llannerch ac yn llawn o vedeu herwyd a debygei ef. Ac yna medylyaw aoruc yr aei ymywn. kanys tebic oed ganthaw vot y brenhin yno yn gwediaw. Ymywn y doeth ef a disgynnu awnaeth. a rwymaw y varch wrth vodrwy aoed wedy y sawduryaw ym mur y capel a dyuot y mywn awnaeth ef. Eissyoes ny weles ef yno namyn marchawc urdawl yn varw ar elor. Ac ar y warthaf ydoed kyvyrlit o syndal coch. Ac o bopparth idaw ydoed pedwar tors o gwyr yn llosci mywn pedwar kanhwyllbren o aryant. Aryued vu ganthaw welet y corff ehun heb neb y gyt ac ef onyt y delweu. A mwy yr oed yn ryuedu am y brenhin. kanys ny wydyat pa fford yd aei oe geissyaw. Ac yna y kafas yn y gynghor tynnu un or torsseu kwyr oe ganhwyllbrenn. a roi y canhwyllbrenn yn y hossan ledyr. A dyuot allan odieithyr y capel. ac esgynnu argevyn y uarch a dyuot ymaes or vynwent. ac adaw y llannerch a dyuot yr fforest. a medylyaw na orffowyssei yny ymgaffei ar brenhin.

LXXIII.—Megys ydoed ef yn kerdet y brifford ef awelei yn dyuot oe vlaen gwr du hagyr aruthur o weledyat. kanys mwy oed y gwr ar y varch noc arall ef ae varch. Ac yn y law yd oed kyllell deuviniawc herwyd a debygei ef. Y gwas adoeth yny erbyn gyntaf ac y gallawd. ac adywawt wrthaw. Tydi y gwr yssyd yn dyuot ymherbyn. a gyfaruu a thydi yr amherawdyr arthur. Na chyfaruu heb ef. Eissyoes tydi a gyfaruuost. ac am hynny ydwyf lawen. kanys daethost or capel megys lleidyr twyllwr. Ac y mae gennyt canhwyllbrenn eur or hwnn yd oedit yn anrydedu y marchawc urdawl marw aoed yn y capel. Ac am hynny tal di y kanhwyllbrenn drachevyn. ac onys tely yd wyf yth rybudyaw. Llyma vyngcret heb ynteu nas talaf namyn y dwyn yn anrec yr amherawdyr arthur. Myn vyngcret heb ynteu ef a vyd ediuar gennyt onys tely. Ac yna brathu y varch a dwy yspardun o debygu diangk arnaw aoruc y gwas. Ac ynteu ae trewis ef ar gyllell yn y ystlys deheu hyt y carn. Ac yna y gwas

Digitized by Google

yr hwnn aoed yn kysgu yn y neuad yngkaerllion adeffroes ac agriawd ohyt y benn. ac adywawt. och. och. yr yr arglwydes ueir dygwch ym offeiryat kynn vy marw.

LXXIV.—Gwenhwyuar ar gwas gwely a gigleu y cri hwnnw. ac a neidyassant y uyny. Ac a dywedassant wrth y brenhin. Arglwyd amser yw ytt gychwyn. kanys ytiw yn dyd. Yna y gwisgawd y brenhin y dillat. Ac ar hynny nachaf y gwas yr eilweith yn crio. Ac yn erchi yr duw dwyn idaw offeiryat kynn y varw. Ac yna y doeth arthur ar vrenhines ar vrys attaw. ar brenhin a ovynnawd beth a daroed idaw. Ac ynteu adywawt idaw gwbwl oe vreudwyt. Paham ae breudwytyaw awnaethost heb y brenhin. Ie arglwyd heb ynteu. Eissyoes neur daruu vy anafu I vyth ac yna dyrchauel y breich deheu idaw. Arglwyd heb ef edrych yma. Llyma y gyllell yr honn yssyd yn vyngcorff hyt y carn. Ac odyna roi y law aoruc ar y hossan ledyr. A thynnu y canhwyllbrenn eur ae dangos yr brenhin. Arglwyd heb ef o achaws hwnn ym llas i. A minneu ae rodaf ytti yn anrec. Yna y brenhin ae kymerth ac aedrychawd yn hir arnaw. Kanys ny welsei eiryoet yr un kyn decket ac ef. Ac odyna y brenhin ae dangosses yr vrenhines. Arglwyd heb y gwas na chymer y gyllell om corff yny darffo vyngkyffessu. Yna y peris y brenhin galw ar yr offeiryat ae gyffessu agwneuthur cwbwl oe gyfreidyeu yn da. Gwedy hynny y brenhin ehun a dynnawd y gyllell oe gorff ef. ar awr honno yr eneit aaeth oe gorff. Ac yna y brenhin a beris y amdoi. ae wassanaethu yn da. Eissyoes trist oed owein y gwr oed dat yr mab am angheu y uab. Ac yna arthur drwy gynghor owein aroes y canhwyllbrenn i eglwys seint pawl yn llundein. Kanys yr eglwys yna aoed newyd fwndeaw. ar brenhin oed da ganthaw wybot hynny ympob lle. ac ae edewis yno yr gwediaw rac eneit y mab a las oe achaws.

LXXV.—Kymryt y arueu. ac awisgawd ymdanaw y boregweith hwnnw y uynet parth a chapel seint awstin. Yna y urenhines adywawt wrthaw. Arglwyd heb hi

Digitized by Google

pwy aa gyt athi. Arglwydes heb ynteu. ny mynnafi neb onyt duw. Pony dylyy di wybot drwy yr antur hwnn yman na mynn duw gaffael o honafi chweith kedymdeithyon. Arglwyd heb hitheu. duw a vo amdiffynnwr ytt. ac ath dycko yn iach drachevyn. ac ewyllys da gennyt drwy yr hwnn y gellych ennill y glot a golleist. Bit ar ewyllys duw hynny heb yr arthur. Ac yna y ducpwyt y varch idaw hyt yr ysgynuaen. Ac ynteu aesgynnawd arnaw. Aphan yttoed ef ar geuyn y varch. ef a debygei bawp y uot yn alluawc o gorff. ac yn uonhedic y ymdygyat. ac yna y daraw a dwy yspardun aoruc. ar march a vwryawd neit. Ac yna y dywawt y vrenhines wrth y marchogyon urdolyon aoedynt yno. Arglwydi. beth awelir y chwi am y gwr da racko. Arglwydes heb wynteu peth govidyus oed yr byt ony orffennei yn da yr hynn y mae yny dechreu. Kanys ny wydit yny byt brenhin nac amherawdyr kyngwrteissyet kyn ehalaethet ac yttoed ef pei mynnassei y wneuthur ual y gnotaawd. Yna tewi awnaethant. ar brenhin agerdawd yny doeth y fforest anturyus. Ac a varchockaawd yn hyt y dyd hwnnw hyt am bryt gosper. Ac yna ef adoeth y dewdwr y fforest. ac a arganuu ytwaed o ty bach yn ymyl capel. ac awelit idaw panyw cudugyl meudwy oed. Arthur auarchockaawd parth ac yno. Aphan doeth ef yno disgynnu aoruc yn y drws. a dyuot y mywn. A thynnu y varch yn y ol. ac o vreid ef aaeth y mywn. Ac yna gossot y waew arhyt y llawr ae daryan yny ymyl. A thynnu y gledyf y ar y glun. a llaessu y helym. ac edrych yn y gylch awnaeth. aa arganuot heid a bwyt meirch. ae dwyn oe varch a thynnu y ffrwyn oe benn. a chaeu drws y ty awnaeth ef arnaw. a mynet y orffowys. ac ef awelit idaw vot ryw odwrd ac amrysson yny capel. a bot rei yn dywedut megys engylyon. ac ereill megys dieuyl.

LXXVI.—Arthur a vu ryued ganthaw beth aallei hynny vot. ac arganuot drws ar y ty fford yd eit yr capel. ac yr fford honno ydaeth arthur ac yr capel y doeth. Ac edrych awnaeth ef ympob lle ac ny welei

Digitized by Google

ef dim onyt y delweu. Nyt yttoed ynteu yntybyeit mae o honunt wy ydoed y son ar y glywssei. Ygyt a hynny ryued oed ganthaw pa le ydoed y meudwy a nottaei drigyaw yno. Ac ar hynny dynessau aoruc arthur parth ar allawr. a cheyr bronn yr allawr ef a welei ysgrin noeth yny lle ydoed y meudwy ae dillat ymdanaw ac a baryf vawr arnaw hyt y wregys ac ae dwylaw croes yngcroes ar y dwyvron. Ac ar warthaf hynny ydoed croes a delw y groc arnei. ar neillbenn yr groes ynggeneu y meudwy. ae eneit etto yndaw. Eissyoes yd oed ef yn agos y varw. Yno y bu y brenhin yn hir o amser. ac yn chwannawc ganthaw edrych ar y gwr da yn trengi. o debygu y vot yn wrda y vuched. Y nos aoed gwedyr dyuot. a goleuni mawr. kymeint aphettei ugein tapyr yn llosgi aoed yn y capel. Ac yna eisted aoruc arthur. a medylyaw nat aei odyno yny vei deruyn ar y gwr da. Ac ual y bydei ef uelly ef aglywei lef yn erchi idaw yn anhegar vynet allan. Kanys ef a vynnit gwneuthur yno datleu. a thra vei ef yno ny wneit. Yna y kyuodes arthur y uyny yr hwnn adrigyassei yno yn llawen. a thrachevyn y doeth ef yr ty bychan. ac eisted aoruc ef yn y lle y gnottaei y meudwy eisted. A megys y bydei ef uelly. ef a glywei y drablud yny capel. ac a glywei barth yn dywedut yn issel ar llall yn dywedut yn uchel. ac aadnabu ar eu dywedwydyat. bot rei onadunt yn engylyon. ar lleill yn dieuyl. ac a glywei y dieuyl yn herwyd adebygei ef yn medyannu eneit y marw. a hynny drwy uarnedigaeth. ac wynteu yn gwneuthur diruawr lewenyd ac yn bocsachu. Trist vu gan arthur hynny am glybot yr engylyon yn tewi. Ac yn gymeint y uedylyeu ac na wydyat beth a wnaei. Ac megys y bydei ef uelly ef a glywei lef gwreic neu uorwyn yn dywedut yngyndecket. ac nat oed yn yr holl vyt dyn yr tristet vei neu yr meint a gollei o da ny bei lawen. Ac yn dywedut wrth y dieuyl. Ewch allan ladron kanys nyt oes ywch hawl ar yr eneit hwnn am y odiwedut yngwassanaeth vy mab i. ac yny meu inneu. ac yn gwneuthur y benyt yma dros y bechawt aoruc gynt. Ac ar hynny y doeth

Digitized by Google

un or dieuyl ac y dywawt. Arglwydes kyt boet ef yn dy wassanaeth di yr awr honn. hwy y bu ef yn an gwassanaethu ni. no thydi neu dy uab. Ef a vu yspeilwr a herwr yn y fforest honn mwy no thrugein mlyned. Ac nyt ytiw yn ueudwy onyt yr ys pump. ac ae iawn ytti y dwyn ef y gennym ni an treissyaw. Nyt yttwyfi yn awch treissyaw chwi heb hi. kanys pei cassoedit efo yn awch gwassanaeth chwi ual y cahat ym gwassanaeth i vi am mab ny dygit y gennwch. Ac ar hynny eu diwarannu wynt awnaethpwyt. a chymryt eneit y gwr da awnaeth yr arglwydes. a gorchymun yr engylyon y dwyn yn anrec.y mab. ac wynteu ae kymerassant ac aaethant yr nef dan ganu o lewenyd. Ioseph yr hwnn a wnaeth yr ystorya yssyd yn ysponi henw y gwr da hwnn. Ac yn dywedut mae caliyttes y gelwit ef.

LXXVII.—Ac yno y bu yr amherawdyr arthur y nos honno. a deudyblic lewenyd yndaw. un onadunt oed amglybot yr arglwydes yn dywedut. ar llall. am diangk eneit y gwr da. Ac ychydic kynn y dyd y syrthyawd kysgu arnaw. Ac uelly y bu ef yn y arueu yny ymdangosses y dyd yn dec ac yn eglur. Ac yna kyuodi aoruc amynet yr capel y wediaw duw. Aphan doeth ef debygassei vot yr ysgrin yn wynebnoeth ual y gwelsei y nos gynt. Sef ydoed hitheu gwedy y chaeu or maen teckaf or awelsei eiryoet. ac ar y maen croes goch. Gwedy daruot y arthur wneuthur y wedieu. ef adoeth drachevyn. ac a ffrwynawd y varch. ac ae kyfrwyawd. ac a esgynnawd arnaw. ac a gymerth y waew yn y law. ae daryan am y vynwgyl. ac agychwynnawd ymeith. Ac a varchockaawd yny vu awr anterth drwy y fforest. Ac yna ef adoeth y lannerch deckaf or awelsei dyn eiryoet. Ac ar draws y fford yd eit yr llannerch yr oed barr o seilderw kadarn. Ac yna edrych awnaeth ar y tu deheu idaw. Ac arganuot morwyn ieuanc dec dan vric prenn yn eisted. Ac yn y llaw hitheu mul erbyn y ffrwyn. y brenhin adrosses parth ac yno rac tecket oed y uorwyn. ac adywawt wrthi. A unbennes duw a rodo antur da ytt. Ac y titheu arglwyd y

Digitized by Google

gyfryw heb hitheu. A unbennes heb yr arthur aoes chweith kyuanned ynghyuyl y llannerch honn. Oes arglwyd heb hi meudwy yr hwnn yssyd yn agos y gapel seint awstin. Eissyoes y llannerch ar fforest o bop parth yssyd yn gymeint eu perigyl ac nat oes milwr or byt a lauasso mynet o vywn udunt. Ac oda ny daw allan heb y lad neu y anafu. yr hynny etto y lle y mae y capel yssyd gyndeilynget ac nat oes neb anghynghorus or ael yno adel heb gynghor odyno os gat duw ef yn iach odyno. A duw or nef ath amdiffynno di. kanys ny weleis i yr ys talym dyn mor ryssyn gyuaruot drwc ac ef ac wyt ti herwyd a debygafi. Ac nyt af inneu odyma yny welwyf ryw dibenn amdanat. A unbennes heb ynteu ti am gwely i yndyuot drachevyn os da gan duw. Os gwir hynny heb hitheu. minneu aovynnaf chwedleu newyd y wrth yr hwnn yr wyf yn y geissyaw. Ar hynny y brenhin aaeth ymeith trwy y barr yr llannerch. ac aarganuu y capel ar meudwydy. Apharth ac yno y doeth ef acheyr llaw y ty disgynn aoruc ef. ac ef awelei uot y meudwy yn ymwisgaw ar vedyr canu offeren. A ffrwynglymu y varch aoruc wrth brenn yn ymyl y capel. a cheissyaw dyuot yr capel. eissyoes nyt oed haws idaw ef dyuot y mywn no throssi mor rud or lle y mae. Ac yr hynny yr oed y drws yn agoret. ac ny welei ef neb heuyt yny lesteiryaw. Aphan weles ef hynny kewilyd mawr a vu arnaw. ac edrych awnaeth ef y mywn ac arganuot delw yr arglwyd. A gostwng awnaeth geyr bronn y delw or tu allan. ac arganuot y meudwy geyr bronn yr allawr yn dywedut y gonffiteor. Ac ar y tu deheu yr meudwy ef awelei y mab teckaf or awelsei neb eiryoet gwedy y wisgaw o wybren. a choron o eur am y benn yn llawn o vein gwerthuawr. ac or rei hynny diruawr oleuni yn dyuot. Ac ar y tu arall yr meudwy ef awelei arglwydes deckaf or a welsei dyn or byt hwnn eiryoet. Aphan daruu yr meudwy dywedut y gonffiteor ef awelei y wreic yn mynet ar y tu deheu yr allawr. ac yn eisted ymywn cadeir. Ac yn rodi y mab y eisted ar y harffet. ac yny gussanu. ac yn dywedut wrthaw. Arglwyd tydi

Digitized by Google

yw vy mab am tat am arglwyd. edrychyawdyr arnaf. ac ar bawp. A ryued uu gan arthur welet tegwch y mab ar arglwydes. a ryuedach uu ganthaw glybot y wreic yn galw y mab yn dat idi ac yn uab heuyt. Ac odyna ef aedrychawd parth a ffenestyr wydyr aoed gyferbyn ar allawr. Ac yna ef awelei fflam yn dyuot drwy y ffenestyr yn eglurach ganweith nor heul pan uei vwyhaf y hangerd yn disgyn ar yr allawr.

LXXVIII.—Drwc vu gan yr amherawdyr arthur ac ofnus am na allei vynet y mywn y warandaw yr offeren ar engylyon yn atteb yr offeiryat. A gwedy daruot darllein yr euengyl ef awelei arthur yr arglwydes yn offrymu y mab yr gwr da meudwy. A ryued vu gan arthur welet y meudwy yn ymolchi gwedy yr offrwm hwnnw. Ac eissyoes ny dylyei ef y ryuedu pei gwypei paham. kanys nyt offrymit idaw ef offrwm mor uawr-weirthyawc ahwnnw pany bei vot yn lan y dwylaw ae gorff heuyt o bop ryw bechawt. A gwedy daruot roi y mab yn offrwm. y meudwy ae roes ynteu ar yr allawr. A gwedy hynny ef adechreuawd aberthu. Yna arthur aoed allan ar tal y deulin yn maedu y dwyvronn o wir ediuarwch am y bechodeu ac yn gwediaw duw. Aphan dechreuwyt yr aberth ef awelei y rwng dwylaw y meudwy sant. gwr ae ystlys ae dwylaw ae draet yn waetlyt achoron o drein am y benn. a hynny yn y briawt ffuryf. A gwedy daruot y arthur edrych talym ar y weledigaeth honno ef a difflannawd y ganthaw hyt na wybu ef pa le. Trist a govydyus vu gan arthur am yr hynn a weles ar y gwr. a gollwng dagreu aoruc ef odristit. A gwedy daruot canu yr offeren. un or engylyon adywawt. Ite missa est. Ac odyna y mab a gymerth y vam erbyn y llaw. ac ymdifflannu awnaethant or capel. ac ygyt ac wynt y gedymdeithyas vwyhaf o engylyon. a heuyt y fflam adathoed drwy y ffenestyr adifflannawd y gyt ar kedymdeithyon hynny.

LXXIX.—Pan daruu y meudwy wneuthur y wassanaeth ef adoeth att arthur yr hwnn aoed yn y drws etto. ac a dywawt wrthaw. Arglwyd. ti aelly dyuot y mywn bellach. A gwynn oed dy vyt ti pei haedassut

Digitized by Google

kymeint ar duw a gallel dyuot yr dechreu yr offeren. Ac yna y brenhin adoeth ymywn heb lesteir arnaw. Arglwyd heb y meudwy myui ath atwaen di yn da. a mi a atwaenwn heuyt uthur benndragon dydat ti. Ac o achaws dy bechawt ny elleist di dyuot y mywn hediw tra ganwyt yr offeren. Ac nys gelly vyth yny darffo ytt ymendau dros dy bechodeu y duw ac oe seint y rei yr ys yn eu hanrydedu yma yn wastat. Y gyt ahynny heuyt ti adylyut wybot nat oes yn yr holl vyt brenhin kyngyuoethoket na chyn gadarnet na chyn amlet anturyeu da idaw ac ytti. A chwbwl or holl vyt a dylyei gymryt exawmpyl a disgybylaeth y wneuthur da y wrthyt ti gynt. Ac yr awr honn ydwyt ti yn exawmpyl y gyuoethogyon y byt y wneuthur pob drwc a phob mileindra. Ac damchweinya hynny yn drwc ytti onyt emendey yn ehegyr. Ac ony throssy dy ystat yn y mod y dechreueist. kanys pennaf a goreu dyn yn yr holl vyt oedut ti gynt. ac yr awr honn gwaethaf wyt ac anrymussaf. Ef a dylyei vot yn drist ac yn gewilydyus y neb adelei o anryded ar gewilyd. ac ny ellir lliwyaw y neb yr dyuot o gewilyd ar anryded. Arglwyd heb y brenhin yr ymwellhau y doethum i yma. Ac yr kael kynghor a vei well noc aoed gennyf vy hun. Ac am hynny yr archafi ytti yr duw wediaw dy arglwyd ar drossi ym kynghor. ac y roi ym ewyllys ymendau. Aminneu arodaf arnaf boen y gwplau poppeth or yssyd yn eissyeu. Duw or nef heb y meudwy ae rodo ytt ual y gellych emendau dy uuched ual ydoed or dechreu a chadarnhau y gret yr honn yssyd gwedy atnewydhau drwy angheu iessu grist. Arglwyd heb y meudwy ef adoeth dracheuyn dolur mawr yr byt achaws marchawc urdawl yr hwnn a lettyawd yn llys brenhin peleur. ac yr ymdangosses seint greal idaw ar gwaew y brathwyt iessu grist ac ef. ac ny ovynnawd ef beth oedynt. ac am nas govynnawd y mae kwbwl or daeryd gwedy ymgyffroi yn ryuel. hyt nat oes milwr or byt a ymgyuarffo ae gilyd. nac yn fforest. nac yn lle arall. heb ymlad pob un ae gilyd. Athi dy hun a wybydy hynny a hynny kynn gadaw y llannerch honn.

Digitized by Google

Arglwyd heb yr arthur duw am dihango rac drwc ac rac angheu mileinyeid. kanys ny deuthum i yma onyt yr gwellau vy muched. a hynny awnaf inneu os da gan duw. Ac os mi adaw ymeith dramkevyn. Gwir heb y meudwy pwy bynnac auu deugein mlyned yn da. ac or deugein hynny ef a vu deir yn drwc. ny bu ef deugein yn da. Gwir adywedy heb yr arthur. ac ar hynny yd aeth y meudwy ymeith. ac arthur adoeth att y varch ac agymerth y waew ae daryan. ac aesgynnawd ar y varch. ac ymchoelut drachevyn aoruc. ac ny daroed idaw uarchogaeth mwy no deu ergyt saeth yny welei uarchawc yn dyuot yn y erbyn ar varch du mawr. ae daryan yn du. a gwaew mawrbraff yny law. Ac yna o nerth traet y varch. kyrchu arthur aoruc. Ac ymgudyaw yn gwasgawd y daryan aoruc ae ollwng heibyaw. a gwedy hynny ymchoelut a gouyn idaw. A unbenn heb ef beth a holy di y myui. Apha beth a holeis i ytti. a phaham y mae cas gennyt vyui. Yna y dywawt y marchawc du wrth arthur. Ny dylyaf inneu dy garu di o dim. A phaham heb yr arthur. am vot y gyt a thi y kanhwyllbrenn o eur yr hwnn a yspeilywyt vymrawt i. o honaw. Awdost ditheu heb yr arthur pwy wyfi. Gwnn heb y gwr. ti yw yr amherawdyr arthur yr hwnn gynt a vu da. ac yr awr honn ydwyt drwc. Ac am hynny ymogel ragof.

LXXX.—Ac yna yd ymchoelawd y marchawc du drachevyn yr kymryt redec oe varch ynwell. ac arthur aweles nat oed idaw fford y diangk heb ymlad. Ac yna brathu y varch adwy yspardun ac estynnu y warthafleu. Ar marchawc ae kyrchawd ynteu yngyntaf ac y gallawd. ac ymgyhwrd y gyt a wnaethant a deu waew ynyttoed y gwaewyr yn tardeissyaw ac yn holli. ac wynteu yn colli eu gwarthafleu ac yn kyhwrd eu kyrff wrth y gilyd yny yttoed eu llygeit yn disserennu ar gwaet yn tardu allan fford eu ffroeneu ac eu geneueu. Ac yna kiliaw awnaeth pob un y wrth y gilid onadunt y gymryt eu hanadyl. Ac ar hynny edrych aoruc arthur ar waew y marchawc du yr hwnn a oed yn llosgi. A ryued oed ganthaw nat yttoed wedy torri.

Digitized by Google

rac meint y dyrnawt a gymerassei y ganthaw. a thybyaw awnaeth y vot yn gythreul. Ar hynny nachaf y marchawc du yn dyuot heb vynnu gadel arthur uelly. namyn o nerth traet y varch y gyrchu awnaeth. ac ymgudyaw aoruc arthur yn gwasgawt y daryan rac ovyn y fflam. ac erbynnyeit y marchawc du aoruc. ac ae waew y daraw drwy y daryan. yny vyd y marchawc yn torsteinyaw ar bedrein y uarch. ac o nerth a grym ymgyuodi yn y gyfrwy. a chyrchu arthur a wnaeth ef. a thrwy y lit y daraw ae waew drwy berued y breich assw idaw. Aphan gigleu arthur y vrathu. llidiaw aoruc yn vwy no meint. Ar marchawc du avu lawen ganthaw pan wybu vriwaw arthur. Y brenhin aweles y gwaew gwedi diffodi aryued vu ganthaw hynny. Ac yna y marchawc du aerchis nawd yr brenhin. ac adywawt ual hynn. Arglwyd arthur. ny diffodassei vynggwaew i vyth ony bei gael o honaw enneint yn dy waed ti. Ac yna y dywawt arthur wrth y gwr du. Ny ro duw ymi nawd heb ef os myui a ryd nawd ytti nes dial yr hynn aallwyf arnat. Yna arthur a ymgyffroes y tu ac attaw. ac o nerth traet y varch y gyrchu ae daraw ae waew ymperued y dwyvronn yny vyd ef ae varch yr llawr ac ual kyhyt a llath or gwaew trwydaw. ac odyna tynnu y waew attaw ae adaw ynteu yn uarw. achyrchu y fford ehun aoruc arthur. ac mal y byd yn dyuot uelly ef a glywei godwrd marchogyon yn dyuot drwy y fforest. ac yna ymchoelut aoruc ynteu ac arganuot yngkylch ugein neu a uei vwy o varchogyon yn dyuot parth ar llannerch yny lle yd oed y marchawc marw. ac ynteu adoeth hyt y barr. Ac ac ef yn dyuot nachaf y vorwyn aadawssei dan y prenn yn dyuot attaw. Arglwyd heb hi ymchoel drachevyn. adwc ym benn y marchawc a ledeist. Yna arthur aedrychawd dra-egevyn. ac arganuu diruawr berigyl rac amylder y marchogyon yn aruawc. a dywedut. a unbennes ae vy llad i a vynnut ti. Llyma vyngcret arglwyd heb hi nas mynnwn namyn reit oed ym y gaffael. ac nym nackaawd marchawc urdawl eyrmoet or hynn a geissywn. ac ny wnel duw y titheu vot yn vileinyach no neb. Och

Digitized by Google

heb yr arthur yd wyfi gwedy vymrathu drwy berued vymreich. Arglwyd heb hitheu mi awnn hynny. ac ny ellir dy iachau di vyth ony dygy y mi y penn. A unbennes heb yr arthur mi abrofaf hynny beth bynnac adarffo ymi.

LXXXI.—Arthur yna aedrychawd tu ar llannerch ac ef awelei y niuer a dathoed yno gwedy dryllyaw corff y gwr marw. aphob un mynet ae rann ganthaw adref. Rei athroet ereill adwrn. a chan yr ola onadunt yr oed y penn yn mynet ar benn y waew. y brenhin aaeth yny ol. ac adywawt wrthaw. A unbenn aro ychydic y ymdidan ami. llyma hynny. apheth arangk bod ytti. Yna y dywawt arthur. mi ath wediaf yr duw ar roi ym y penn ydwyt yn mynet ac ef. Mi ae rodaf yn llawen dan amot dywedut ohonat ym pwy aladawd y gwr bieiuu y penn. Ae ny allafinheu y gael ef amgenach heb yr arthur. Na elly heb ynteu. Aminneu ae dywedaf yn llawen. a gwybyd yn lle gwir panyw yr amherawdyr arthur ae lladawd. Pa le y mae hwnnw ynteu heb y marchawc. keis di ef lle y mynnych heb yr arthur ti agefeist dy amot. Amoes ditheu y minneu. Ti ae keffy yn llawen heb ef. a gostwng y waew. ac arthur a gymerth y penn y ganthaw. Y marchawc yna agymerth corn aoed am y vynwgyl ac ae cant. Ac yna y marchogyon aathoedynt ar hyt y fforest pan glywssant hynny aymchoelassant drachevyn. ar brenhin agerdawd racdaw tu ar barr yn y lle yd oed yr unbennes yn yaros. Y marchogyon yna aovynnassant drwy lit yr marchawc paham y kanassei y corn. Achaws y marchawc racko heb ef a dywawt ym panyw arthur a ladawd y marchawc du a dangos y chwitheu hynny ydwyf inneu ual y gallom y ymlit. Nyt ymlidiwn ni efo heb wy kanys arthur ehun ydiw. Ac nyt oes y ninneu. uedyant y ymlit neb ortu hwnt yr barr. Eissyoes. myn yn cret ni y byd ediuar ytti am adel idaw ef uynet uelly. Ac yna dwyn hwyl idaw awnaethant ae lad ae dryllyaw. a chymryt y rann awnaeth pawb onadunt a mynet ymeith parth ac eu cartrefoed.

LXXXII.—Ar hynny arthur adoeth or tu arall yr

Digitized by Google

barr att yr unbennes yr honn agymerth y penn y ganthaw ac ae diolches idaw. Ti aelly bellach disgynnu. kanys nyt reit ytt un ovyn or parth yman yr barr. Ar hynny disgynnu aoruc arthur. Arglwyd heb hi. diosc dy arueu yn diogel ual y gallwyf welet y dyrnawt. kanys ny bydy iach di vyth ony bydy om plegyt i. Yna ymdiosc aoruc arthur. ar unbennes a gymerth y gwaet y ar y penn. ac a irawd y dyrnawt. a gwedy hynny y rwymaw awnaeth. a gwisgaw y arueu. Arglwyd heb hi ny bydut iach di vyth panybei gael y gwaet y ar y penn hwnn. Ac am hynny yd oedynt wy yn dwyn pobun y rann ganthaw. kanys wynt awydynt daruot dy vriwaw di. Y gyt a hynny reit yw y ninneu wrth y penn. kanys castell oed ymi yr hwnn a ducpwyt yarnaf drwy dwyll athreis. yr hwnn adelir ym drwydot ti ony chaffaf y gwr ydwyf yny geissyaw. A unbennes heb yr arthur pwy yw hwnnw. Arglwyd heb hi mab y efrawc iarll yw o lynn camalot. Ae henw ynteu yw peredur. Paham heb yr arthur y gelwir ef peredur. achaws heb hi pan anet y mab y peris y dat roi arnaw yr henw hwnnw. par dur. kanys arglwyd y corsyd oed yn ryuelu ar efrawc. a gwedy dwyn yarnaw lawer oe gyfoeth. am hynny y roespwyt ar y mab peredur yr dyuot cof idaw pan vei yn wr gymryt par o dur. neu ynteu o nerth par o dur dial ar arglwyd y corsyd awnathoed ae dat am dwyn y dir yarnaw. ac uelly y mab a uagwyt yny vu yn was ieuaugk tec. ae datmaeth ae vam yn y garu yn vawr. A diwarnawt yd aethant y chware yn ymyl eu castell o vywn fforest. Ac y rwng y fforest ar castell yd oed capel gwneuthuredic ar warthaf pedeir colofyn o vaen marmor gwynn. ac o vywn y capel yr oed allawr. ac yn ymyl yr allawr yr oed ysgrin dec. a delw gwr arnei. Ac yna gouyn aoruc y mab oe dat pwy bioed yr ysgrin. Ae dat adywawt nas gwydyat ef pwy. kanys heb ef hyn yw yr ysgrin no that vyntat i. Ac ny chiglef eirmoet dywedut beth oed yndi. namyn wynt adywedynt pan delei y milwr goreu neu yr eil goreu or holl vyt. Panyt ymegyr yr ysgrin yr neb ual y gweler beth yssyd yndi heb yr arthur. neu po ny bu yno yr hynny hyt

Digitized by Google

hediw un milwr na marchawc urdawl or byt. Bu arglwyd heb hitheu. ar ny ellir eu hamcanu nac eu rifaw. Ac yr hynny nyt ymagores yr ysgrin yrdunt. Pan daruu oe dat ymdidan ae uab yny mod hwnnw. wynt aymchoelassant adref yr castell. Pan vu dyd drannoeth y mab agyuodes y uyny. ac rac tecket oed y dyd ef a gymerth un o veirch y dat ac adoeth yr fforest a dyrneit o aflacheu ganthaw herwyd mod y kymry yn yr amser hwnnw. A gwedy y dyuot yr fforest ef a gyfaruu ac ef garw. a gwedy y gyfaruot ac ef ynteu ae hymlidyawd bedeir milltir kymreic. yny doeth y lannerch yn y lle yr oedynt yn ymlad deu marchawc urdawl. y neill aoed atharyan goch idaw. ar llall atharyan wenn. Yna ysgaelussaw hely y karw aoruc paredur. ac edrych ar y gwyr yn ymguraw. ac or diwed ef a welei y marchawc ar daryan goch yn goruot ar y llall. Ac ar hynny kymryt un oe aflacheu awnaeth paredur. a bwrw y marchawc ar daryan goch yn gynffestet ac yny oed y gaflach drwy y arueu. athrwydaw ynteu. yny vyd dan draet y varch yn uarw yr llawr. a llawen vu gan y marchawc ar daryan wenn hynny. a gouyn awnaeth y paredur aoed digassed or byt y ryngthunt. Nac oed heb y paredur. namyn tybyeit natoed dim a veuei ar y arueu. Ac yna kymryt y varch aoruc paredur. amynet adref att y dat yr hwnn a vu drist ganthaw pan gigleu hynny o chwedleu. a iawn oed idaw vot yn drist. kanys llawer oboen agafas or achaws hwnnw kynny varw. gwedy hynny y mab aaeth ymeith y wrth y vam ae dat. Aphahyt bynnac y bu y mab yn kerdet arhyt byt ef adoeth y lys arthur. ac awnaethpwyt yn varchawc urdawl. Gwedy hynny ef aaeth ymeith or llys y geissyaw anturyeu. ac ydwyf inneu yn y geissyaw ef ympob lle. ac os gwely di ef arglwyd yn un lle. llyna y ryw arueu yssyd idaw taryan goch a llun carw gwynn yndi. a dywet idaw arglwyd varw y dat maeth. a bot y vam yn colli cwbwl oe chyuoeth ony daw ef oe nerthau. kanys brawt yr gwr a ladawd ef ae aflach yssyd yn ryuelu arnei y gyt ac arglwyd y corsyd. A unbennes heb yr arthur pei kyuarffei ami llawen vydei gennyf. ath neges ditheu mi ae dywedwn wrthaw.

Digitized by Google

LXXXIII. — Arglwyd heb y vorwyn llyna vyui gwedy dywedut ytti yr hynn yr wyf yn y geissyaw. dywet titheu y minneu pwy dy henw ditheu. a unbennes heb ef mi ae dywedaf yn llawen. Y neb am atwaen i wynt am galwan arthur. Ae uelly yth elwir di heb hi. Ie heb ynteu. Myn y gwr am gatto i cassach yw gennyf di yr awrhonn no chynneu. kanys ytiw henw y brenhin gwaethaf or holl vyt arnat. ami avynnwn y vot ef yny lle yr wyt ti. Eissyoes ny daw ef yr rawc o gaer llion. rac ovyn mynet ereill ae wreic. heruyd ual y kiglefi dywedut amdanunt. Yd oedwn diwarnawt yn mynet parth ae lys. pan gyuaruu ami yngkylch ugein o varchogyon urdolyon yn dyuot or llys. y rei adywawt ymi pob un ual y gilyd panyw gwaethaf llys a thlottaf or holl vyt oed lys arthur. a chwbwl o varchogyon y vort gronn yssyd gwedy y gadaw. o achaws y drygyoni ef. A unbennes heb yr arthur ef adigawn bot yn drist i am hynny. mi a giglef eissyoes y vot ef yn wr da ar y dechreu. Paham heb hi beth aellir ae dechreu efo pan vo y diwed yn drwc. a drwc yw gennyf vot ar vilwr kystal athydi henw gwr kyndrwc ac efo. A unbennes heb yr arthur nyt yr y henw y mae drwc ef. namyn oe gallon. Gwir adywedy di heb hi. ac y bale y mae yth vryt ti vynet odyma. mi aaf heb ef y gaer llion. y ymwelet ac arthur. Ie heb hi ar hynt y drwc y gyt ar drwc arall. A unbennes heb yr arthur ti aelly dywedut yr hynn a a vynnych. ac yn iach yti. Ny bydy iach di heb hi kanys y lys arthur ydey.

LXXXIV.—Ac yna esgynnu ar y varch awnaeth arthur. Ac adaw yr unbennes dan vric y prenn. A gwedy daruot idaw varchogaeth ynghylch dec milltir kymreic. ef aglywei lef yntewdwr y coet yn galw ac yn dywedut wrthaw. arthur brenhin brytaen uawr. ti aelly vot yn llawen kanys duw am anuones attat y erchi ytt wneuthur gwled gyntaf ac y gellych. ar pobloed yssyd gwedy gwaethau oth blegyt ti. wynt aymendaant drwydot. ac ar hynny tewi awnaeth y llef. ac ynteu a varchocaawd yny doeth y gaer llion. ar marchogyon urdolyon aoedynt yno a vuant lawen am y dyuotyat ef.

Digitized by Google

LXXXV.—E brenhin yna adisgynnawd. ac yr neuad y kyrchawd ef. a pheri diosc y arueu awnaeth. ac yr vrenhines y dangosses y dyrnawt aoed yn y vreich yr hwnn aoed aruthur. Eissyoes yd oed ef yn iachau yn dec. Yna y brenhin a gyrchawd yr ystauell. ac aberis gwisgaw glan dillat ymdanaw. Ac yna y vrenhines adywawt. Arglwyd heb hi mawr vu dy boen. Arglwydes abreid vyd y neb gael enryded ony byd godef poen ohonaw yn gyntaf. Yna y dywawt arthur yr vrenhines kwbwl oe anturyeu. apha vod y brathwyt. apha delw y kerydawd yr unbennes ef o achaws y henw. Arglwyd heb y vrenhines ti aelly atnabot yr awr honn panyw kewilydyus y dichawn gwr da kyuoethawc vot pan del o daeoni y drygyoni. Gwir yw hynny heb yr arthur. Y gyt ahynny arglwydes digrif yw gennyfinneu y llef agiglef yn tewdwr y fforest. yr hwnn aerchis ym wneuthur gwled kyntaf ac y gallwn. Arglwyd heb hitheu ti adylyut vot yn llawen gennyt hynny a gwna ditheu. Ar vyngcret heb ynteu y gwnaf kanys ny bum chwannogach eirmoet.

LXXXVI.—Ema ymae yr ymdidan yn traethu ac yn dywedut vot arthur ynghaerllion ac ychydic o varchogyon urdolyon gyt ac ef. ac ewyllys da gwedy rydyuot idaw y gan duw y vot yn hael ac y wneuthur pob enryded. Yna y peris ef wneuthur llythyreu oe hanuon dros gwbwl oe deyrnas y erchi y bawp dyuot y lys ef yr honn aelwit penneissense. honno aoed yn ymyl mor kymry. a hynny erbyn gwyl ieuan hanner haf. A llyna yr ystyr paham y mynnei ef wneuthur y wled ynggwyl ieuan. am vot y sulgwynn mor agos ac yr oed. ac am na allei y rei aoed ympell dyuot yno erbyn y sulgwynn. Y chwedleu newyd hynny aaeth y bop lle y erchi y bawp dyuot yno erbyn yr amser enwedic. Aryued vu gan bawp pa ystyr y doeth yr brenhin yr ewyllys hwnnw. Achwbwl o varchygyon y vort gronn y rei aoedynt wedy ymwasgaru ympob gwlat adoethant yno pan glywssant y chwedleu hynny. namyn gwalchmei a lawnslot a pharedur.

LXXXVII.—Duw gwyl ieuan adoeth ar marchogyon

Digitized by Google

urdolyon aoedynt wedy dyuot o bop lle y rei aoedynt yn ryuedu paham na wnathoed y brenhin y wled honno y sulgwynn. Eissyoes ny wydynt wy yr ystyr. Y dyd oed dec ac eglur. ar neuad oed vawr ac ehalaeth. Ac amyl oedynt y marchogyon urdolyon. Yna y brenhin ar vrenhines aaethant y ymolchi ac aaethant y eisted. Aphawb y am hynny a vedrawd y gyfle. Ac yr oedynt o varchogyon urdolyon wrth rif mwy no chant herwyd ual y dyweit yr ystorya. ac owein uab urien a chei hir a roet y wassanaethu. A phump arhugeint o varchogyon urdolyon y gyt ac wynt. Lucanus aoed yn vwtler ac yn gwassanaethu geyr bronn y brenhin or gorulwch eur. Yr heul aoed yn disgleiryaw trwy berfed y ffenestri gwydyr. ar hyt y neuad. yr honn oed wedy bwrw blodeu tec allysseuoed ar y hyt. Ac megys yd oedynt yn aros y bymhet anrec o gegin. nachaf yn dyuot yr neuad teir morynyon. ar honn adoeth or blaen aoed yn marchogaeth mul canwelw. affrwyn eureit yn y benn. a chyfrwy o asgwrn moruil. ac ymylyeu y kyfrwy gwedy y gyuansodi amein mawrweirthawc yndunt. ar unbennes honno aoed vonhedigeid o gorff. ac nyt oed dec hi o wyneb. a dillat o sidan coch ymdanei a geplans am y phenn oe gudyaw yngwbwl. ac nyt oed afreid idi kanys moel oed. ae breich yngcroc am y mwnwgyl wrth ffunen eureit. a than y brath ydoed glustoc o ermin brith. ac yn y llaw arall idi idoed penn brenhin achoron o eur. Yr eil unbennes aoed yn marchogaeth ar aruer ysgwier. a mal wedy y drwssyaw draechevyn. ac ar warthaf y mal yr oed vitheiat. a tharyan am y mynwgyl. ac ymylyeu y daryan o eur ac assur. a chroes goch drwydi. a bogel o eur coeth idi. Y dryded aoed ar y thraet a thrwssyat herlot arnei. ac yn y llaw ydoed ysgwrs. ac a hwnnw y gyrrei hi y dwy varchoges ereill. a thegach oed bob un nor gyntaf. ar honn aoed ar y thraet oed degach o ragor mawr nor lleill.

LXXXVIII.—E gyntaf adoeth yn unyawn hyt geyr bronn y brenhin yn y lle yd oed yn bwyta. Ac adywawt y Iachawdyr or byt a rodo ytti arglwyd enryded allewenyd ac anturyaeth da. ac ytt ac yr arglwydes.

Digitized by Google

ac y gwbwl or teulu y am hynny. Ac nac afranghet bod ytt arglwyd. ac na vit yn lle mileindra gennyt yr na disgynnwyfi. kanys nyt oes rydit ym y disgynnu yn y lle y bo marchawc urdawl. yny darffo cwplau pererindawt seint greal. Ac nac afranghet bod ytti arglwyd yr dywedut ohonafi vy neges yr wyf yn y geissyaw. Dywet yr hynn a vynnych yn llawen heb ynteu. Arglwyd heb hi y daryan a wely di gan yr unbennes racko. a vu eido ioseph yr hwnn adisgynnawd yr arglwyd y ar brenn y groc. a llyma ytti hi yn anrec yn y mod y dywedaf ytt. ar gadw ohonat y daryan. ar uedyr marchawc urdawl yr hwnn adaw yma yn y hol. Aphar y roi ar y golofyn racko ymperued y neuad. a gwahard bawp rac y roi am y vynwgyl. onyt hwnnw ehun. ac onerth honn y daw ef yr lle y mae seint greal. ac ef aedy yma daryan goch arall. a charw gwynn yndi. ar beitheiat a wely di racko. aedewir yma heuyt. ac ny lawenhaa ef vyth yny del y marchawc urdawl hwnnw. A unbennes heb yr arthur y daryan ar bitheiat a gatwafi yn llawen. a duw a dalo ytt vot yn wiw gennyt y dwyn attafi. y gyt ahynny heuyt heb hi. y brenhin goreu or holl vyt yssyd yth annerch di drwydofi. nyt amgen no brenhin peleur. yr hwnn yssyd gwedy digwydaw mywn diruawr nychdawt. allyna yr ystyr y digwydawd ef yn y gouit hwnnw. o achaws marchawc urdawl a lettyawd y gyt ac ef nosweith. yr hwnn yr ymdangosses seint greal idaw. ac am na ovynnawd ef beth oed y creir hwnnw. na pheth a arwydockaei yr ymgyffroes pob lle y ymryuelu. hyt nat oes marchawc urdawl a ymgyfarffo ae gilyd nac ynglynn nac yn llannerch ny bo ennill ar bawp. Ac yn ymguraw heb allel y adrawd. Athyhun aelly adnabot hynny. kanys ti a ysgaelusseist wneuthur da. ac adrosseist dy dechreu ar diwed hagyr. or achaws y kefeist diruawr ogan. Arglwyd ygyt a hynny heuyt minneu adylaf gwynaw rac y marchawc hwnnw. A mi adangossaf ytt paham. Ac yna dinoethi y phenn. ae dangos yn burllwyt heb un blewyn arnaw. Arglwyd heb hi nyt oed yn ynys y kedyrn morwyn nac gwreic degach y phletheu gwellt

Digitized by Google

no myui. yn yr amser y doeth y marchawc hwnnw y lys brenhin peleur. ac am na wnaeth ef y govyn yn y mod y dylyei. ydwyf inneu ual y gwelwch chwi. Ac ny deuafi vyth ym ystat vy hun yny del yno awnel y govyn a vo gwell. Etto arglwyd ny weleist di kwbwl or perigyl ar drwc adoeth oblegyt yr un marchawc urdawl. kanys y mae yna allan. ryw beiryant ar weith cadeir. a thri charw gwynnyon y danei y rei yssyd yn y harwein yn wastat. yn yr honn y maent o benneu arglwydi amarchogyon urdolyon deudec adeugeint achant. rei onadunt ac inseileu o eur arnunt. ereill ac inseilyeu o aryant. Ac ereill wedy eu hinseilyaw o blwm. Ac ar hynny nachaf y uorwyn yd oed y daryan genthi yn dyuot. ac yn y llaw penn brenhines gwedy inseilyaw o blwm. a choron o gopyr am y phenn. ac yn dywedut. Arglwyd heb hi. achaws y vrenhines y llas y brenhin bieu y penn yssyd gan vyngkedymdeithes i. ac y llas yssyd o benneu yn y gadeir.

LXXXIX. — Arthur yna aerchis y gei vynet y edrych gweith y gadeir ae hadurnyat. A gwedy edrych ohonaw ef adoeth drachevyn y mywn. ac a dywawt na welsei y chyndecket eirioet. Ac ygyt a hynny heb ef pei gwnelut vynghynghor ti a gymerut y blaena or keirw y wellau y larder. Ochan gei heb yr arthur milyeinyeid oed vynghynghori i uelly. ac ny mynnwn yr teyrnas loegyr y wneuthur ohonaf. yna yr unbennes adywawt wrth arthur. Arglwyd heb hi keneuin yw kei a dywedut mileindra. a mi a wnn na wney di pob peth or a archo ef. yna yd erchis y brenhin y owein uab uryen gymryt y daryan ae roi ar y golovyn. ac ynteu ae kymerth ac ae roes yno. Ac un or llawuorynyon a gymerth y bitheiat ac ae hanuones y ystauell y vrenhines. Ar unbennes a gymerth y chennat y gan arthur. ac ynteu ae gorchymynnawd hi y duw. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am arthur ac yn traethu y wrth y teir morynyon.

XC. Ema y mae iosep yn dywedut kychwyn y teir morynyon ymeith o lys arthur. ac eu dyuot y fforest. agwedy marchogaeth ynghylch dwy villtir or fforest.

Digitized by Google

wynt awelynt yn dyuot ar hyt fford yn eu herbyn marchawc urdawl ar geuyn march cul ysgyrnic. ae luryc oed wedy y dryllyaw yn llawer o leoed. ae daryan oed wedy colli y lliw y arnei. ac wedy tardeissyaw yn llawer o leoed. a gwaew mawrbraff yn y law. Ac yr awr y doeth ef attunt hwy kyuarch gwell udunt aoruc. a dywedut. a unbennesseu grassaw wrthywch ac wrth awch kedymdeithyas. Ae atteb aorugant wynteu a dywedut. llewenyd ac anturyaeth da aro duw yttitheu. A unbennes heb ef o bale yr yttywch chwi yn dyuot. Yr ym yn dyuot o wled y mae yr amherawdyr arthur yny wneuthur. Ac ae yno y mae yth vryt titheu vynet heb hi. Nac ef heb ef. eissyoes myui a vum yno lawer gweith. a llawen yw gennyf y uot wedy rydyuot y ewyllys da. Kanys keneuin oed ef a gwneuthur da. Arglwyd heb yr unbennes pa le y mae yth vryt titheu vynet. Mi a vynnwn vy mot ynggwlat brenhin peleur os da gan duw. Arglwyd heb hi. dywet ym dy henw. ac aro ychydic y ymdidan a mi. yna attal penn y varch aoruc ef. Arglwydes heb ef. ef amgelwir i gwalchmei. nei yr amherawdyr arthur. Ae gwalchmei wyt ti heb hi. Ie heb ynteu. Mynvyngcret heb hi vot vyngcallon yny venegi. panyw dy gyfryw wr di a dylyei vynet parth a llys brenhin peleur. ac am hynny arglwyd ydwyfinneu yth wediaw di ar ymchoelut ohonat ygyt a ni yr y grym ar nerth arodes duw ytt ynkanhebrwng yny elom heb gastell. yr hwnn yssyd yn y fforest honn. ac ychydic o berigyl yndaw. A unbennes heb y gwalchmei mi a wnaf hynny yn llawen. Ymchoelut awnaeth ef y gyt ac wynt drwy y fforest yr honn nyt oed yndi haeach o sathyr dynyon. Yna yr unbennes adatkanawd y walchmei y hynt am y penneu aoedynt yn y gadeir. ac am y ki ar daryan a adewssynt yn llys arthur. Yna gwalchmei a vu drwc ganthaw welet yr unbennes yn kerdet. ac aovynnawd paham nat aei yr gadeir. Arglwyd heb yr un or lleill reit yw idi gerdet. kanys hynny yw y phenyt. ac ot wyt ti gystal milwr ac y dywedir. ef a deruyd idi hi wneuthur y phenyt yn ehegyr. Pa delw vyd hynny heb y gwalchmei. Mi ae dywedaf ytt heb yr unbennes.

Digitized by Google

Os duw a damweina ytti vynet y lys brenhin peleur. ac ymdangos o seint greal ytt. govyn beth aarwydockaa. ac yna y deruyd idi y phenyt. a minneu a gaffaf vyng-gwallt. ac ony wney di uelly. ef auyd reit yni odef ynpenyt yny del ae govynno. Kanys o achaws y kyntaf adoeth yno yd ym ni ual hynn. A brenhin peleur yn nychu. ar holl wledyd yn llawn ryuel am nas gouynnawd. A unbennes heb y gwalchmei duw aro ym ewyllys y wneuthur yr hynn a vo da gan duw. Amen heb yr hitheu.

XCI.—Gwalchmei ar morynyon agerdassant drwy y fforest honno yn y lle yd oed yr adar yn canu. Ac odyna a doethant yr fforest aruthraf or awelsei neb eiryoet. Ac ef awelit idaw ef na buassei chweith glaster ar y fforest honno eiryoet. ae gwyd aoedynt kynduet aphei darffei eu deifyaw athan. Ar daear aoed y danunt aoed yn llosgedic. ac yn torri yn agenneu a daeardorreu. A unbennes heb y gwalchmei llyma fforest aruthur y neb dyuot idi. ac a bery hi yn emawr o ennyt ual hynn. Arglwyd heb hi a bery dec milltir kymreic. eissyoes nyt ey di drwydunt wy. Gwalchmei yn edrych yn vynych ar yr unbennes aoed yn kerdet ar y thraet. ac yn drwc ganthaw na allei wellau arnei. Yna marchogaeth awnaethant yn y doethant ovywn glynn. Ac yna edrych aoruc gwalchmei oe vlaen ac arganuot castell yn ymdangos idaw. Ac yngaeedic yn y gylch o gylch o vur gwann. Ac nyt oed dec na chwbyl y castell. a neuadeu duon aruthur yndaw. a dwfyr du mawr yn disgynnu o vynyd drwy y castell dan verwi. ac ef awelei borth y castell yngyn-duet aphei at vei o haearn pygyeit. ac ef a glywei cri yn dywedut or castell. Och duw pa drigyan yssyd ar y milwr da. a pha bryt y daw ef. A unbennes heb y gwalchmei pa ryw gastell yw hwnn. a pha ryw bobyl yssyd yn gweidi am dyuotyat y milwr da. Arglwyd heb hi castell y meudwy du y gelwir hwnn. Ac yr duw arglwyd heb hi yr archaf ytt nat ymyrrych ar dim ar awnel neb ytt o dyvywn. kanys ef a damweinyei ytt anghyveilyorn. ac nyt oes heuyt gedernyt yn eu herbyn.

Digitized by Google

ar hynny dynessau aorugant tu ar castell. Ac ual y bydynt wy uelly wynt a welynt yn dyuot trwy borth y castell marchogyon urdolyon duon mawr. ac eu harueu yn duon. ac yd oedynt wrth rif. un a thrugeint a chant. ac yn dyuot gyntaf ac y gellynt parth ac att y morynyon ar gadeir. ac yn kymryt deudec adeugeint a chant o benneu. a phob un yn taraw y waew yn yr eidiaw. ac yn mynet yr castell. ac argysswr mawr a vu ar walchmei pan weles gwneuthur uelly. a chewilydyus vu. Arglwyd walchmei heb yr unbennes ti awely mae bychydic a dal dy gedernit ti yr awrhonn. Gwae vi heb ef ys drwc a gastell yw hwnn. Ie heb hitheu. ny cheffir gwaret vyth o hynn. nar rei a glywy di yn ymgwynaw. ny chaffant eu gollwng or carchar yny del y marchawc da a glywy di wynt yn gweidi am danaw. A unbennes heb y gwalchmei ef a dichawn y marchawc hwnnw uot yn llawen pan allo oe gedernyt distriw kymeint a hynny o genedyl drwc. Gwir a dywedy di heb hi. eil oreu yw ynteu yn yr holl vyt onyt goreu. a ieuanc digawn yw. adoluryus yw gan vyngcallon am na wnn pa le y mae. velly vy hun heb y gwalchmei. A allafi vynet ymeith bellach gan dy gennat heb y gwalchmei. Na elly yny delwyf heb y castell. a gwedy hynny mi adangossaf ytt y fford y dylyych vynet. Agwedy hynny y kerdassant y gyt. ac megys y bydynt yngadaw y castell. nachaf yn dyuot drwy borth bychan ar y castell. marchawc yn aruawc o bop arueu. a gwaew yny law. a tharyan am y vynwgyl. a llun eryr o eur yndi. Ac yna dywedut awnaeth ef wrth walchmei. A unben heb ef aro yma. Beth a reyngk bod ytti heb y gwalchmei. Ef avyd reit ytti ymwan ami heb y marchawc. ac ennill vyntaryan neu ynteu myui aennillo y teu di. am taryan i yssyd da. ac am hynny y dylyy di ymdaraw ynffest oe cheissyaw. ac y gyt a hynny un or gwyr goreu or byt bieivu y daryan. A phwy yttoed ef heb y gwalchmei. Iudas machabeus heb yr ynteu. Gwir adywedy di gwr da vu hwnnw heb y gwalchmei. wrth hynny llaewnha oll y dylyut titheu geissyaw y daryan ef heb y marchawc. kanys y

Digitized by Google

teu di yssyd dlottaf taryan or a weleis eirmoet. ac nyt oes neb ae hadwaeno onyt ovreid. Gwir adywedy heb y gwalchmei. wrth hynny y gelly ditheu adnabot na bu nar daryan nar gwr nar march yn gorffowys ual y bu y teu di. A unbenn heb y marchawc nyt reit y ni hir dadleu. ef a vyd reit ytti ymwan a myui. ac ydwyf yth rybudyaw. A unbenn heb y gwalchmei mi awnn beth adywedy di. Ac yna ymchoelut draegevyn aoruc yr kymryt redec oe varch. Ac ymgudyaw ynghyscot eu taryaneu awnaethant wy. Ac o nerth traet eu meirch ymgyrchu aorugant. Ar marchawc adrewis gwalchmei yn y daryan yny vyd y gwaew trwydi y rwng y vreich ae ystlys mwy no llatheit ac yny dorres y waew. A gwalchmei ae trewis ynteu ymperued cledyr y dwy vronn. yny aeth dros bedrein y varch yr llawr ac yny vyd y gwaew yndaw ynteu llet llaw. A thynnu y waew aoruc attaw. Aphan wybu y llall y vrathu. kyuodi yn vuan a awnaeth ef a dyuot att y varch acheissyaw roi y droet yn y warthafyl. pan griawd morwyn y gadeir ar walchmei rac idaw esgynnu ar y varch. kanys pei esgynnei. gormod vydei dy boen kynn goruot arnaw.

XCII.—Pan gigleu y marchawc henwi gwalchmei. ef aovynnawd. ae gwalchmei nei arthur wyt ti. Ie ys gwir heb yr unbennes. Apheth a vynnut ti wrth hynny. minneu a ymrof idaw megis gwr aorchyvyckit. a drwc yw gennyf na wybuum hynny yr meityn. ac ar hynny tynnu y daryan y am y vwnwgyl a gostwng idaw. adywedut wrthaw. Arglwyd hwde di daryan y gwr da gynt. kanyt atwaen i neb ae dylyo yn well no thydi. ac ar daryan honn y goruuwyt ar gwbyl or marchogyon y rei yssyd yngharchar yn y castell hwnn. Yna gwalchmei a gymerth y daryan. ar marchawc aerchis idaw ynteu y daryan. kany dygy di dwy daryan. Gwir a dywedy di heb y gwalchmei. ac yna y thynnu y am y vwnwgyl ar vedyr y roi idaw. pan dywawt yr unbennes. Gwalchmei heb hi ae roi y daryan yssyd yth vryt ti. Or dwc ef dy daryan di ymywn. y rei yssyd yno adywedant daruot goruot arnat. ac adeuant allan

Digitized by Google

yn dwyn ni ac yth dwyn ditheu ymywn on hanuod. kanys ny dygir y mywn daryan. onyt yr honn aorchyuycker. A unben heb y gwalchmei nytyttoedut ti yn puchaw ymi dim o da. Arglwyd heb ynteu dy nawd yr duw. a llyma vi yr eilweith yn ymroi ytti. yr hynny ual kynt da vuassei gennyfi pei cawsswn dy daryan di kanys nyt athoed yno eiryoet daryan marchawc well no thydi. a mi adylywn vot yn llawen wrth dy dyuotyat kyt darffo ytt vy anafu. kanys neurdaroed ytt vyntynnu o garchar aoed waeth no hynny. Paryw le oed hwnnw heb y gwalchmei. yma heb y marchawc yd oed fford marchogyon urdolyon. ac yma y deuynt wynteu yn vynych. Sef y bydei reit ymi ymwan ac ymlad a phawb. a mynych oed ymi oruot ar bawp. ac anregu y rei yssyd odyvywn onadunt. Ac uelly y gwnathoedwn i a thitheu pei asgallasswn. yn hynny ny weleis i eirmoet marchawc ambwryei i namyn tydi. kyt gwelwn am anafei. A chanys wyt ti yndwyn y daryan. a gwedy goruot arnafinneu. mi arof vy llw ytitheu na wneir cam nac amarch y neb or a el heb y castell hwnn vyth o hynn allan. Myn vy llw inneu heb y gwalchmei gwell yw gennyfinneu yr ennill hwnn yr awrhonn no chynneu. Arglwyd heb y marchawc myui aaf ymeith gan dy gennat. Dos ditheu heb y gwalchmei. a duw a wnel ytt wneuthur yn da o hynn allann. Yna arglwydes y gadeir adywawt ac a erchis y walchmei roi idi hi y daryan a vynnassei y marchawc y chaffael. A unbennes heb y gwalchmei ti ae keffy yn llawen. A hitheu ae kymerth ac ae roes yn y gadeir. Ar marchawc aaeth yr castell. Ac yr awr y doeth ef ymywn ryw gynnwryf a gyuodes yn gymeint ac yny yttoed y fforest yn godyrdu. Yna yr unbennes a dywawt wrth walchmei. Arglwyd heb hi y marchawc a vwrywyt yngharchar. Awn ni ymeith yn vuan odyma.

XCIII.—Ac yna y kerdassant wy ygyt yny gerdassant villtir. A unbennes heb y gwalchmei agaffafi dy gennyat ti bellach. Key heb hi yn llawen. a duw a vo gwercheitw atarnat. ac adalo ytt dy gedymdeithyas da. A unbennes heb ynteu vynggwassanaeth i a vyd parawt

Digitized by Google

ytti ynwastat. Duw a dalo ytt heb hi. Ac weldy racko dy fford di y vynet heb y groes racko. Aphan darffo ytti adaw y fforest honn. ti adeuy y fforest arall deckaf or aweleist eiryoet. Ar hynny gwalchmei aaeth racdaw oe fford. Pan gigleu yr unbennes aoed ar y thraet yn dywedut. ac yn galw arnaw. Gwalchmei. Gwalchmei heb hi. nyt wyt ti mor bwyllus di ac y tebygasswn i. Ac yna troi penn y varch yndechrynedic aoruc gwalchmei. a govyn idi paham. Am na ovynneist ym arglwydes i paham y mae yn dwyn y breich ar y hysgwyd. kymeint vyd dy vedylyeu di. pan delych y lys brenhin peleur a hynny. Agedymdeithes heb hi na ogana di walchmei ehun mwy no holl deulu arthur. kanys nys govynnawd neb onadunt. Yna yr unbennes aerchis y walchmei kerdet draegevyn. ac adywawt mae ouer oed idaw y ovyn bellach. ac nys gwybydy paham. yny gwypych y gan y marchawc urdawl a elwir cwart cwardyn yn ffrangec. y marchawc cachyat y gelwir ynteu ynghymraec. a hwnnw yssyd varchawc urdawl ymi ac yssyd ym keissyaw. A unbennes heb y gwalchmei nysgovynnafinneu mwy ytti. Ac yna kychwyn racdaw aoruc ef. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am vorynyon y gadeir. ac yn traethu am dan walchmei.

XCIV.—Ema y mae y kyvarwydyt yn dywedut adaw o walchmei y fforest hagyr. a dyuot yr dec. yr honn aoed lawn o bop da ac aniueilyeit tec. A marchogaeth aoruc yn vedylgar. ac ovyn arnaw y oganu am a dywawt y vorwyn wrthaw. A marchogaeth awnaeth ef yn hyt y dyd hwnnw yny oed yr heul yn mynet y gysgu. Ac yna edrych oe vlaen aoruc ef. ac arganuot cudugyl ynymyl capel yn tewdwr y fforest. Ac yn ymyl y capel yd oed ffynnawn yn tardu y dan vric prenn. A morwyn ieuanc dec yn eisted yn ymyl y ffynnawn. ac yn y llaw mul erbyn y ffrwyn. ac ar y goryf ol oe gyfrwy ydoed penn gwr marw. Gwalchmei agyrchawd tu ac yno. ac adisgynnawd. A unbennes heb ef duw ath vendigo. a thitheu duw avo da yt heb hi. A unbennes heb ef beth yr wyt ti yn y aros. Arglwyd heb hitheu y meudwy or capel hwnn. yr hwnn aaeth yr coet racko.

Digitized by Google

ami avynnwn y welet y ovyn chwedleu am varchawc urdawl yd wyf yn y geissyaw. adebygy ditheu heb ef ae gwyr ef. Ef adywetpwyt ym y gwydyat ef heb hi.

XCV.—Megys y bydynt wy uelly nachaf y meudwy yn dyuot. ac yn y grassawu. ac odyna agori drws ar y dy a dwyn y meirch y mywn. a thynnu eu ffrwyneu oc eu penneu. acheissyaw tynnu eu kyfrwyeu. pan y llidyawd gwalchmei adywedut na pherthynei ar y ystat ef hynny. Paham heb ynteu. myui a wybumi hynny gynt. kanys mi a vum was y uthur bendragon mwy no deugein mlyned. Ac ydwyf yma yr ys deng mlyned ar hugeint. Yna gwalchmei a dynnawd y kyfrwyeu. a mwy vu y lafur ynghylch y mul noc ynghylch y varch ehun. Yna y meudwy agymerth gwalchmei erbyn y law. ac ae duc yr capel. llyma heb y gwalchmei le tec. gwir a dywedy di heb y meudwy na diosc di dy arueu. kanys fforest anturyus yw honn. ac ny dyly gwr da or byt vot yn diaruot. ac yna kyrchu y waew ae daryan aoruc gwalchmei. ae roi yny ymyl. Ymeudwy yna a duc udunt y kyfryw vwyt ac aoed ganthaw. a dwfyr or ffynnawn oe yuet. A gwedy daruot udunt vwyta. yr unbennes adywawt wrth y meudwy. Arglwyd heb hi awdost di dywedut ymi un chwedyl ywrth y marchawc urdawl ydwyf yn y geissyaw. Pa un yw hwnnw heb ynteu. Y marchawc urdawl or santeid lines heb hi. Ny wn i heb ynteu chweith diheurwyd y wrthaw ef. namyn ef a vu dwyweith yman yr panyw blwydyn. Arglwyd heb hitheu ae ny wdost di amgenach no hynny. Na wn myn vyngcret heb ynteu. a thitheu unbenn heb hi awdost di dim ywrthaw ef. Mi avynnwn y wybot heb y gwalchmei yn gynlawenet a chennyt titheu. a weleist ditheu dim y wrth vorynyon y gadeir heb hi. Gweleis heb ynteu ac nyt oes yn emawr yr hynny. a yttoed eu harglwydes wy yndwyn y breich yngkroc wrth y hysgwyd. Yttoed heb y gwalchmei. Yna y meudwy a dywawt ac aovynnawd y walchmei pwy oed y henw. Ef am gelwir i gwalchmei. nei yr ymherawdyr arthur heb ynteu. Hanvit hoffaf oll gennyf i hynny heb y meudwy. Arglwyd heb yr unbennes

Digitized by Google

nyt reit ytt un vocsach yr dy vot yn nei idaw. ac myn vyngcret heb hi anhoff yw gennyfi pob marchawc urdawl or byt oe achaws ef. yr hwnn a gyfaruu a mi yn ymyl capel seint awstin. atheckaf marchawc oed or a weleis i eirmoet. ac yn ymlad yn wrawl ac arall. ac ef ae lladawd. a minneu aercheis idaw ef roi ymi y benn ef. ac ynteu aaeth oe gyrchu. ac ae duc ymi. Eissyoes pan dywawt ef ymi panyw arthur oed y henw. ny bu vawr hoff gennyfi ef. am y vot yn un henw ar brenhin drwc hwnnw. A unbennes heb y gwalchmei ti a elly dywedut yr hynn a vynnych. ami a dywedaf ytti yn lle gwir vot y brenhin wedy gwneuthur gwled yr awrhonn vwyhaf or awnaeth eiryoet. achwbwl oe dylwyth ae vilwyr ygyt ac ef. ae vot yn ymadaw heuyt ar drygyoni yd wyt yn y vwrw arnaw. ac ygyt a hynny heuyt nyt atwaen i neb ryw uarchawc ae henw yn arthur onyt efo. Iawn awney di esgussodi drostaw ef heb hi. kanys dy ewythyr yw. Eissyoes ny thal nytwyd dy esgussot ti drostaw ef pryt nat ymendao efe ehun. Yna y meudwy adywawt wrth walchmei. Gat yr unbennes dywedut a vynno. yr hynny duw a diangho arthur rac drwc. kanys y dat ef am gwnaeth i yn uarchawc urdawl. ac yr awrhonn ydwyf yn offeiryat. Ami awassaneytheis brenhin peleur yr pan doethum yma. a hynny drwy orchymun iessu grist. a chyn berffeithyet yw y lle y mae y brenhin hwnnw yndaw. ac nat oes neb or avei yno vlwydyn a debygei y uot yno vis. kanys yn y capel yno y mae seint greal. ac am hynny ydwyfinneu mor ieuanc ac y gwely di. Arglwyd heb y gwalchmei pa fford yr an i parth ac yno. Myn vyngcret heb ynteu nawn i y uenegi ytti ac nat ey ditheu yno vyth onyt duw ath drosso. ac ae yno y mae yth vryt titheu vynet. Myn vyngcret heb y gwalchmei panyw hynny oed ewyllys gennyf. Ie heb y meudwy ot ey di yno duw awnel ytt vedru y govyn. yr hwnn a ysgaelussawd y llall y dywedut. pan ymdangosses seint greal idaw.

XCVI.—Ar hynny tewi awnaethant. amynet y orffowys. Athrannoeth pan ymdangosses gwawr dyd kyuodi awnaeth gwalchmei achael y varch wedy y

Digitized by Google

gyweiryaw. Ac yna yr capel ydoeth ef. a phan doeth ydoed y meudwy wedy ymwisgaw y ganu offeren. Ar unbennes ar dal y deulin geyr bronn yr allawr yn gwediaw duw dan wylaw. a gwedy idi wylaw talym a gwediaw kyvodi y vyny aoruc. Ac yna gwalchmei agyuarchâwd gwell idi. ual hynn. dyd da arodo duw ytt unbennes. ac y titheu yn wastat y kyfryw heb hitheu. Ef awelir ymi heb y gwalchmei nat wyt lawen di. Iawn yw ym hynny heb hi. kanys agos wyf am didreftadu. kanys nyt yttwyf yn damweinyaw ar yr hynn yrwyf yn y geissyaw. bellach ef a vyd reit ym vynet y gastell y meudwy du y dwyn y penn racko yno yssyd ar vyngkyfrwy. kanys yn amgenach ny edit ym vynet drwy y fforest honno heb gewilydyaw vyngkorff. a hwnnw vyd tal udunt dros vy fford i. gwedy hynny mi aaf y geissyaw morynyon y gadeir. ac y gyt ac wynt y kerdaf y bop lle. Ac arhynny y dechreuawd y meudwy yr offeren. A gwalchmei ar unbennes ae gwarandawawd. Aphan daruu yr meudwy ganu yr offeren. eu kennat a gymerassant. a gwalchmei agerdawd or neill parth. ar unbennes oe fford hitheu. ac ymannerch aorugant. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am yr unbennes. ac yn ymchoelut ar walchmei.

XCVII.—Gwalchmei yna agerdawd racdaw drwy y fforest dan wediaw duw ar y danuon tu ar fford a gyrchei y lys brenhin peleur. Ac ual y bydei wedy marchogaeth hyt am hanner dyd. ef a welei was ieuanc tec dan vric prenn gwedy disgynnu. Ac yr awr y doeth gwalchmei attaw y rassawu aoruc y gwas. yna gwalchmei aovynnawd yr gwas pa le y mynnei y vot. mi a vum yn keissyaw y gwr bieu y fforest honn yma. Pwy bieu hitheu heb y gwalchmei. Y marchawc urdawl eil goreu or holl vyt bieu. Awdost ti heb y gwalchmei dywedut ymi chweith diheurwyd y wrthaw ef. Nawnn heb ynteu namyn hynn. ef a dyly dwyn taryan liwedic o eur ac assur. a chroes goch trwydi a bogel o eur yn y pherued. A mi a dywedaf y vot yn varchawc urdawl da. ac ny dylywn i y dywedut kanys ef a ladawd vyntat i yny fforest honn a gaflach. a hynny heb y rybudyaw.

Digitized by Google

a mab yttoed ef yna. A minneu adialaf hynny arnaw. or byd ym vod y ymgyfaruot ac ef. ac ny bydaf vyth lawen yny darffo ym y dial. A unbenn heb y gwalchmei kanys gwdost di y vot ef yn gyngadarnet ac yn gystal marchawc ac y mae. mogel rac gwneuthur dy afles dy hun. a mi a vynnwn daruot ytt ymgael ac ef dan amot na bei chweith drwc y ryngoch. Ny byd hynny vyth heb y gwas pa le bynnac y gwelwyf i ef na rettwyf am y benn megys am benn vyngelyn marwawl. A unbenn heb y gwalchmei dy ewyllys ydwyt yn y dywedut. A dywet ym unbenn aoes chweith kyuanned yny fforest honn yn y lle y gallwyf lettyaw heno. Arglwyd heb y gwas ny wnn i yr un o hynn hyt ar ugein milltir. ac y mae yn hwyrhau. Yna kychwyn aoruc gwalchmei ymeith heb wybot pa le ydaei. namyn mal y dyckei y anturyeu. a hoff oed ganthaw decket y fforest. ac amlet yr aniueilyeit gwylltyon yn mynet hebdaw wrth varchogaeth. Ac uelly marchogaeth aoruc ef yny yttoed yn bryt gosber. ac neurdaroed idaw marchogaeth ugein milltir yr pan ymwahanassei y wrth y gwas. Yna ovyn avu arnaw na chaffei chweith kyfanned yn y nos honno. Ac yna ef awelei weirglawd deckaf or byt. ac arhynt castell yn ymdangos idaw. ac ychydic vynyd yn agos yr castell. ac yn gaeedic o vur uchel yn dyblic. a bylcheu arnaw. a hen dwr mawr ymperued y castell. ac yngkylch y castell yd oed gweirglodyeu tec. a pharth ac yno y kyrchawd gwalchmei. Ac ual y byd yn dyuot y tu a phorth y castell. ef awelei was ieuanc. ar gevyn hacknei yn dyuot yn y erbyn. Yna y gwas a gyfarchawd gwell y walchmei. Antur da y titheu heb y gwalchmei. A gedymdeith heb y gwalchmei pa ryw gastell yw hwnn racko. Arglwyd heb ynteu castell yr wreic wedw o gamalot yw hwnn. ac a vu eidaw iulien lygros. ar arglwydes honno yssyd heb neb ryw nerth idi or byt a ryuel arnei. kanys arglwyd y corsyd yssyd yn ryuelu arnei. a marchawc urdawl arall y gyt ac ef. ac y maent yn keissyaw dwyn y castell racko y genthi. Ac wynt adugassant hyt yn hynn y arnei seith castell. ac y mae yn damunaw yn vawr welet y mab yn dyuot. kanys

Digitized by Google

nyt oes idi neb ryw ganhorthwy onyt un verch. a phump marchawc. o wyr prud. y rei yssyd yn y nerthockau o gynnal y chastell. Arglwyd heb y gwas y porth yssyd wedy y gaeu. ar pynt yssyd wedy eu dyrchafael. a phei dywedut ti ymi dy henw myui aawn oth vlaen di y beri gostwng y pynt ac agori y porth. ac y dywedut y llettyut yno heno. Duw adalo ytt unben heb y gwalchmei. ef awybydir vy henw i kynn vy mynet or castell. Y gwas aaeth tuar castell. a gwalchmei agerdawd yn araf. ac aarganuu ar y fford y rwng y fforest ar castell capel gwneuthuredic arwarthaf pedeir colovyn. o vaen marmor. ac ymywn y doeth. ac yno ef a welei ysgrin dec. ar gwas aaeth yr castell. ac a beris gostwng y pynt ac agori y pyrth. A disgynnu aoruc ynteu. ac yr neuad y doeth yn y lle ydoed y wreic ae merch. Yna y wreic a ovynnawd yr gwas paham yr ymchoelassei. Oachaws y marchawc urdawl teckaf or aweles neb eiryoet. yssyd yndyuot yma y lettyu heno heb ef. ac yn aruoc o bop ryw arueu. ac heb neb y gyt ac ef. Pwy y henw ef heb y wreic. Arglwydes heb ynteu ef adywawt y gwybydit y henw ef kynn y vynet odyma. Yna y wreic ae merch adechreuassant wylaw o lewenyd. o debygu panyw y mab oed. a dywedut. Ny dygir y gennyfi vy enryded bellach nam tref tat. ny chollaf vyngcastell. yr hwnn yd oedit yn vyntreissyaw o honaw am nat oed ym am nerthei.

XCVIII.—Yna y wreic ae merch a gyvodassant y vyny ac adoethant hyt ar bont y castell. ac odyna wynt awelynt walchmei yn edrych ar yr ysgrin aoed yn y capel. Awn racko heb y wreic. drwy yr ysgrin y gwybydafi os vy mab i yw ef. Yna y kerdassant wy parth ar capel. a gwalchmei ae harganvu wynteu yn dyuot. ac a dywawt. Grassaw wrthyt arglwydes heb ef. ac nys attebawd y wreicda ef o un geir. namyn mynet yn unyawn yr capel. Aphan weles hi nat ymagorassei yr ysgrin etto. syrthyaw yr llawr yny llewic awnaeth hi. Yna symlu arnaw yn uawr aoruc gwalchmei pan weles hynny. Ac ympenn talym y wreic adeffroes oe llewic. ac aroes ucheneit drom. Yna y verch adywawt wrth

Digitized by Google

walchmei. Grassaw duw wrthyt unben heb hi. Ac na symlet arnat dim oc a wely. Kanys ef a debygassei vy mam i panyw y mab hi oedut ti. ac yr awr honn y gwyr hi nat ef wyt. kanys yr ysgrin honn adyly ymagori ehun pan del ef. ac y gwybydir beth yssyd yndi. Y wreicda a gyuodes y vyny ac a gymerth gwalchmei erbyn y law. ac aovynnawd idaw y henw. Ef am gelwir i heb ef gwalchmei nei yr amherawdyr arthur. Arglwyd heb yr hitheu grassaw duw wrthyt a hynny o garyat ar vy mab. Yna y wreicda aberis yr gwas ieuanc dwyn y march yr castell. a roi ebran idaw. ahitheu a ganhebryngawd gwalchmei yr neuad. ac aberis tynnu y arueu y amdanaw. adwyn idaw dillat o sidan oe gwisgaw. a dyuot a dwfyr twym idaw y olchi y rwt ar chwys y ar y dwylaw. ae wyneb. ac yna eisted yn ymyl gwalchmei aoruc ywreic. a govyn idaw awydyat un chwedyl y wrth y mab. yr hwnn oed reit ymi wrthaw heb hi. Arglwydes heb ef. ny wnn i un chwedyl y wrthaw ef yssywaeth. ac nyt oes yn yr holl vyt gwr kyndigrifet gennyf y welet ac ef. Arglwyd heb hi mab ieuanc oed ef pan aeth odyma y wrthyfi. Yr awr honn yd ys yn dywedut nat oes milwr degach na chryfach na glanach o bop camp da noc ef. ac ys oed reit ymi wrth y vilwryaeth ef. kanys ef am gedewis mywn ryuel mawr pan aeth y wrthyf. a hynny o achaws marchawc y daryan goch. yr hwnn aladawd ef ae aflach yn yr wythnos yd aeth odyma. Ac y mae brawt yr marchawc hwnnw yn ryuelu arnafinneu yr hynny hyt hediw y gyt ac arglwyd y corsyd. ac y mae yr hynny hyt yr awr honn seith mlyned. Ac y maent yn keissyaw dwyn y gennyf y castell hwnn. ony byd duw amkynghoro. Kanys vymbrodyr yssyd rybell ywrthyf. ac allant vy nerthau o unmod. Nyt amgen brenhin peleur yssyd yn glaf. hwnnw nys dichawn. Brenhin peles aedewis y vrenhinyaeth yr caryat duw. ac aaeth yn veudwy. ny mynn hwnnw heuyt ymyrru. Brenhin y castell marw ny mynnwn chweith nerth y ganthaw. kanys y mae yn hwnnw ehun o enwired gymeint ac yssyd yn y deu ereill o daeoni. ac y mae yn keissyaw dwyn seint greal

Digitized by Google

y gan vrenhin peleur. ar gwaew yr hwnn a vyd ae benn yn waetlyt vyth yr mynychet y sycher. ac ny wnel duw idaw y gaffael vyth.

XCIX.—Arglwydes heb y gwalchmei ef avu y nos arall yn llys dy vrawt ti marchawc urdawl. yr hwnn yd ymdangosses seint greal idaw deirgweith. ac ny mynnawd govyn beth aarwydockaei hynny. Gwir adywedy heb y verch. goreu marchawc urdawl or byt yw. ac ony bei yr karyat ar vymbrawt mi ae hymelldigwn ef. Oe garyat ef eissyoes mi agaraf bop marchawc urdawl. ac o achaws ffolineb synnhwyr y neb a vu yno y dygwydawd vy ewythyr i ymywn nychdawt. Arglwyd heb y wreic ponyt ey di parth ac yno. mi avynnwn vy mot yno pei duw ae mynnei heb ef. Wrth hynny ti adywedy ymbrawt vy anghyflwr i ac ym mab os gwely. Ami aarchaf ytt yr duw ot ymdengys seint greal ytt vot yn well dy gof ath aruot nor llall a vu yno oth vlaen. mi awnaf hynny yn llawen heb y gwalchmei os duw ae kannatta.

C.—Megys y bydynt wy yn ymdidan uelly nachaf pump marchawc urdawl y wreic yn dyuot. a cheirw ac ewigot. a moch coet ganthunt yn dyuot or fforest. Ac yna bwrw y rei hynny yr llawr awnaethant achyvarch gwell y walchmei aorugant. a bot yn llawen wrthaw pan wybuant panyw efo oed. Pan vu barawt eu bwyt y vwyta yd aethant. ac ual y bydant yn bwyta nachaf y gwas yndyuot ac yngostwng ar dal y deulin geir bronn y wreic wedw. ac yn dywedut daruot idaw gwplau y neges. ar wreic a ovynnawd pa ryw chwedleu oed ganthaw. Arglwydes heb ynteu. avory y byd kynnulleitua o varchogyon urdolyon yngglynn camalot. athwrneimant a vynnant yno. Ac yno y deuant y deuwr yssyd yn ryuelu arnat ti. a marchogyon urdolyon ereill gyt ac wynt. y rei a vuant deu di. ac yr goreu avo yny twrneimant hwnnw drwy gytsynnedigaeth y kyffredin y rodir idaw geitwadaeth y castell hwnn hyt ympenn un dyd a blwydyn. ac yth dyrrir ditheu ymeith. Yna y wreic awylawd. Arglwyd heb hi wrth walchmei ti a glywy nat meu i dim or kastell hwnn. Mynvyngkret heb y

Digitized by Google

gwalchmei eu bot yn gwneuthur pechawt a mileindra mawr a thi. Gwedy daruot bwyta a dyrchafael llieineu. y uorwyn ieuanc a gyuodes y vyny ac adygwydawd ar dal y deulin geyr bronn gwalchmei. ac ydan wylaw hi aerchis idaw yr duw dosturyaw wrthi. Mynvyngcret heb y gwalchmei neurdaruu ymi hynny yr meittyn. Wrth hynny heb hitheu ef aweler avory paryw varchawc vydy di. a llyna vilwryaeth da yw yr honn awneler yr duw. Y wreic ar verch a gyuodassant y vyny. ac aaethant oe hystauell. a gwalchmei aaeth y gysgu y gyt ar pump marchawc. Gwalchmei a vu y nos honno ynllawn o vedylyeu. A thrannoeth pan gyuodes ef aaeth y warandaw offeren. a gwedy hynny ef agymerth tri thameit o vara a gwin. Ac odyna ef a ovynnawd yr pump marchawc. adeuynt wy yngkyfyl y twrneimant. awn heb wynteu ot ey di. af myn vyngcret heb ef. Ac yna kymryt kennat y wreic ar verch aoruc gwalchmei. a cherdet racdaw aoruc ef ar pump marchawc y gyt ac ef. a llawenyd mawr ganthunt am vot gwalchmei yn dyuot yr gynnulleitua gyt ac wynt. Ac yna gadaw y castell awnaethant a dyuot yr fforest. Ac ny welsei walchmei eiryoet fforest degach no hi. ac yn gymeint ac na allei amkan arnei. a gweirglodyeu tec gan y hystlys. Ac ymperued y gweirglodyeu y gwelei yr aniueilyeit gwylltyon o bop amryw aniueil. wedy dyuot or fforest. Arglwyd heb y marchogyon wrth walchmei. Weldyracko y glynn ar fforestyd ar gweirglodyeu a ducpwyt y gan yn harglwydes ni ae merch. Ac ygyt a hynny ef a ducpwyt seith gastell or rei goreu o gymry. Cam awnaethant heb y gwalchmei. a phechawt mawr. Yna wynt a gerdassant racdunt yny welynt yr arwydon ar taryaneu. ac wynt a welynt bawp yn mynet ar eu meirch. ac wynt awelynt tynnu pebylleu o bop parth. Yna gwalchmei asafawd dan vric prenn ef ar pump marchawc. ac wynt a welynt y toruoed yn dyuot o bop parth. Yna ef a dangosset y walchmei arglwyd y corsyd. a brawt y marchawc ar daryan goch. yr hwnn aelwit kaos goch. Yr awr y dechreuwyt y twrneimant. gwalchmei adoeth tu ac yno. ar pum

Digitized by Google

marchawc gyt ac ef. Ac yna gwalchmei adoeth ac avwryawd un arhynt yr llawr. ac uelly y gorugant wynteu bop un or pump marchawc. wynt a vwryassant un y bop un onadunt wynteu. Ac uelly ymlawenhau ac ymgadarnhau o achaws gwalchmei a disgyblu wrthaw aorugant. Ac yna sef aoruc gwalchmei taraw yn eu plith ar pump marchawc urdawl y gyt ac ef. hyt nat oed dyn or a gyfarffei a gwalchmei. nys trawei dan draet y varch yr llawr. neu ynteu ae hanafei yndragywydawl. A diruawr lewenyd aaeth yny pump marchawc rac daet ydoed walchmei yngwneuthur. Ac yna gwalchmei aarganuu arglwyd y corsyd yn dyuot a thorof vawrbraff o wyr ygyt ac ef. a gwalchmei ae kyrchawd ac ymdaraw awnaethant yngymeint ac yny dyrr eu pelydyr. ac yny gyhyrdawd corff pob un ae gilyd ohonunt wynteu ar eu meirch. yny dyrr y gorofol y arglwyd y corsyd. ac yny vyd ynteu y dan draet y varch yn wysc y benn yr llawr. Ac yna ymavael ar march aoruc gwalchmei o anuod kwbwl or niuer. ae roi y un oe gedymdeithyon ehun. A hwnnw ae diolches idaw yn uawr. ac a beris y anuon yr castell. Yna gwalchmei a geissyawd pob lle a phob torof. ac awnaeth o nerth arueu y dyd hwnnw. ynyttoed bawp yn ryuedu paryw beth oed. Ar pump marchawc aoedynt yn gwneuthur yngystal ac na allei neb arnunt neb rywnei or byt. a hynny oll o hyder ar walchmei. ac yn kynnullaw meirch y bwryedigyon. ac yn eu hanuon y gastell o gamalot. Yna arglwyd y corsyd a gyfodes oe gwymp ac a esgynnawd ar uarch arall. a diruawr gewilyd arnaw am y vwrw o walchmei. Ac yna dwyn hwyl y walchmei aoruc aruedyr dial arnaw y gewilyd. ac ymgyhwrd ygyt aorugant. yny dorres arglwyd y corsyd y waew ar walchmei. A gwalchmei ae trewis ynteu. a dryll paladyr y waew yny yttoed ynweyll. Ac yna tynnu cledyf aoruc gwalchmei. ac arglwyd y corsyd a dynnawd arall. ac a wahardawd y dylwyth nat ymyrrynt y ryngthunt. kanys ny chawssoedyat eiryoet uarchawc ae bwryei hyt y dyd hwnnw. Yna ymnewidyaw dyrnodeu aorugant ar eu helmeu yny yttoed eu

Digitized by Google

llygeit yn disserennu. ar tan yn neidyaw or cledyfeu. A thrymach oed dyrnodeu gwalchmei ympell no dyrnodeu y llall. kanys kynffestet yr oed yntaraw. ac ydoed y gwaet yn ffrydyeu yn dyuot oe drwyn ac oe eneu y arglwyd y corsyd. ac yny oed y luryc yn llawn gwaet. ac ehun yn adef ac yndywedut na allei ef odef y vatteil mwy. ac ymroi yn garcharawr. Ac yna arglwyd y corsyd aaeth oe bebyll. a gwalchmei ygyt ac ef. yna disgynnu awnaethant. nam gwalchmei ny adawd heb gof gymryt y march. Ac erchi y un or pump marchawc gadw y march hwnnw idaw. Ac ar hynny nachaf kwbwl or adathoed yno o varchogyon urdolyon yn dyuot ac yn dywedut panyw y marchawc ar daryan goch ar eryr eur yndi avuassei oreu. Ac yna govyn aorugant y arglwyd y corsyd a yttoed ef yn kyttunnaw a hynny. Yttwyf heb ynteu. Tydi arglwyd heb wynteu wrth walchmei bieu kadw castell y wreic wedw o gamalot hyt ympenn y vlwydyn. Duw adiolcho ywch heb y gwalchmei. Ac yna galw y pump marchawc aoruc gwalchmei a dywedut. Arglwydi heb ef yd wyfinneu yn gadaw y pump yman oe warchadw ef yn vy henw inheu. Ac yna kytunnaw awnaethant ar hynny. Arglwyd heb y gwalchmei wrth arglwyd y corsyd aminneu athrodaf ditheu megys carcharawr yr wreic wedw yr honn am llettyuwd inneu neithwyr. Arglwyd heb ynteu nywney di hynny. kanys nyt un ffunyt twrneimant a ryuel. nam corff heuyt nys roy ditheu yngcarchar. kanys digawn yw vyngkyuoethocket i y dalu vy rawnswn. Ami auynnwn o ranghei vod ytti arglwyd wybot dy henw. Ef am gelwir i gwalchmei heb ef. Ae gwalchmei wyt ti heb ef mi a giglef dywedut llawer amdanat. a chanys yttiw y castell o gamalot ar dy warchadw ath uedyant ti. minneu arodaf vy llw ytti o hynn hyt ympenn un dyd a blwydyn nat reit yr castell nac y dim o gyuoeth y wreic vy ovyn i. namyn or gwelaf ereill yn gwneuthur teruysc arnei mi ae llesteiryaf. ac or byd reit ytt wrth nac eur nac aryant mi ae paraf ytt wrth dy ewyllys. Arglwyd duw adiolcho ytt heb y gwalchmei a digawn yw vy modlonet ytt.

Digitized by Google

Yna gwalchmei a gymerth y gennat ac aymchoelawd tu a chastell y wreic wedw. ac a beris dwyn y march y gyt ac ef. yr hwnn a roes ef wedy hynny y verch y wreic wedw. yr honn avu lawen wrthaw. Ar pump marchawc adugassant oc eu blaen wynteu yr hynn a ennillassynt. Aphan doethant wy yr castell. nyt reit govyn na ryuedu ot oedynt lawen y nos honno. neu ot yttoedynt yn anrydedu gwalchmei. Yna ef adywawt yr wreicda ual y dathoed y castell ar y warchadwedigaeth ef. Y nos honno rac eu blinet wynt aaethant y gysgu heb olud. Trannoeth y bore ef agyuodes gwalchmei y vyny. ac a warandawawd offeren. ac agymerth kennat y wreic ar kedymdeithyon. Yma y mae y kyuarwydyt yn tewi am vam y milwr da. ac yn ymchoelut ar walchmei.

CI.—Gwalchmei yna a gerdawd racdaw. wrth ual y trossei duw y antur. ac adoeth y fforest dan wediaw duw ar y drossi fford yr oed y vryt. Ac ar allel ohonaw orffen y ewyllys drwy enryded. Ac uelly marchogaeth aoruc ef yny vu bryt gosper. Ac yna ef adywanawd argyuanned yny fforest gwedy y damgylchynu o dwfyr tec redegawc. heb golli dim oe redec yny delei yr mor. a gwyd mawr tec ynygylch ogylch ual ydoed anawd idaw welet y llys gan y gwyd. gwalchmei a drosses parth ac yno ar vedyr llettyaw. Ac ual y dynessawd tu ar llys ef awelei yn eisted ar y bont korr bach. yr hwnn a gyuodes y vyny. ac adywawt. Hanpych gwell walchmei. a grassaw duw wrthyt. a gedymdeith heb y gwalchmei antur da arodo duw yttitheu. Apha le y gweleist di vyvi pan ymadnepych ual hynn. Mi ath weleis di heb ef ymywn twrneimant. ac mywn amser gwell ny allut ti dyuot vyth. Paham heb y gwalchmei. Yr arglwyd nyt yttiw gartref. heb y korr. eissyoes y mae yman yr arglwydes. y wreic deckaf a chymhennaf oc yssyd ymbrenhinyaeth loegyr. ac nyt oes arnei o oet mwy noc ugeinmlwyd. A unben heb y gwalchmei pwy henw yr arglwyd. Ef aelwir marius eidic. A mi aaf y dywedut yr arglwydes dy vot ti yn dyuot heb y korr. aryued vu gan walchmei

Digitized by Google

meint y llewenyd yr oed y korr yny wneuthur idaw. a mynychet oed welet mileindra ar eu kyfryw wy. Y korr adoeth racdaw hyt yr ystauell yn y lle yd oed yr arglwydes. Kyuot yn vuan arglwydes heb ef. a gwna lewenyd y walchmei y milwr goreu. yr hwnn yssyd yn dyuot y lettyaw yman heno. Am hynny heb yr arglwydes yr wyf aflawen inneu. A heuyt yd wyf lawen. Aflawen wyf kanys efo y marchawc yd erchis vynggwr or delei yma nas llettywn. kanys nyt oed gwreic a dianghei y ganthaw. Or fford arall llawen wyf am uot gwr kystal ac ef yn dyuot y lettyaw yma. Arglwydes heb y korr nyt gwir kwbwl or adywedir. Arhynny nachaf walchmei yn dyuot ymywn yr llys ac yn disgynnu. Ar arglwydes adywawt wrthaw. Arglwyd ar lewenyd ac anturyaeth da y delych yman. ac y titheu yn wastat heb y gwalchmei. Y wreicda yna ae kymerth ef erbyn y law ac yr neuad yd aethant. ac hi aberis idaw eisted ar warthaf kylchet o sidan. ac un or gweissyon a gymerth y march ac ae duc yr ystabyl. ar korr aelwis ar deu or gwyreeinc y dynnu y arueu y am walchmei. Ac ehun ae kymhorthes. Arglwyd heb y korr y mae dy dwylaw di athwyneb yn chwydedic yr pan vuost yny twrneimant etto. ac nys attebawd gwalchmei ef o un geir. ar korr aaeth y ystauell ac aduc idaw dillat o ysgarlat affwryr o grwyn gra yndunt. A gwalchmei ae gwisgawd ac erbyn hynny neurdaroed roi llieinyeu ar y byrdeu. A gwalchmei ar arglwydes aaethant y eisted. a gwalchmei aedrychawd yn vynych ar yr unbennes rac y thecket. A phei mynnassei ef gredu oe gallon. ac oe lygeit ef a newidiassei y uedwl. Eissyoes neurdaroed oe gallon y rwymaw yngyn ffestet ac na adei idaw uedylyaw dim or adrossei ar mileindra. o achaws teilyngder y bererindawt adaroed idaw y chymryt. Ac yna tynnu y olwc aoruc y ar y wreic. ac ymbarattoi y vynet y gysgu aorugant. Ar wreic adywawt wrth walchmei. Gorffwysua da arodo duw ytt.

CII.—Gwedy mynet or unbennes oe hystauell. Y korr adywawt wrth walchmei. Arglwyd heb ef myui

Digitized by Google

aorwedaf yma geyr dy vronn di heno. ac ath didanaf yny gysgych. Duw adiolcho ytt heb y gwalchmei. ac awnel ym allel y haedu neu y diolwch ytt yn ryw amser. Y korr aorwedawd geyrbronn gwalchmei ar warthaf kylchet. Aphan weles ef vot gwalchmei yn kysgu. ef agyuodes yn arafaf ac y gallawd ac adoeth hyt lle yd oed bat bychan yngglann yr auon. ac aaeth yndaw. ac a nofyawd yny doeth y bysgotlyn. ac yn ymyl hwnnw yroed neuad ymywn ynys vechan. yn y lle ydoed marius yn kysgu. Yr hwnn adathoed yno y chware. Y korr adoeth or bat allan ac yr neuad y kyrchawd. a golleuhau aoruc lloneit y dwylaw o ganhwylleu. a dyuot hyt geyr bron y gwely. a dywedut ual hynn. Ae kysgu ydwyt ti arglwyd heb ef. yna marius adeffroes yndechrynedic. ac aovynnawd beth a daroed idaw. Nyt kynesmwythet ytti heb y korr ac y walchmei. Ni wdost beth adywedy heb y marius. Gwnn heb y korr y vot ef yn kysgu yn dy lys di y gyt ath wreic. Pony daroed ymi heb ynteu pei ron y dyuot ef yno erchi na lettyit. Mynvyngcret heb y korr na allawd hi wneuthur eiryoet o lewenyd y wr kymeint ac awnaeth idaw ef. ac am hynny bryssya di yno kanys y mae arnafi ovyn yd a ef a hi ymeith kynn dy dyuot ti. Myn vyngcret heb y marius nyt afi yno hyt tra vo ef yno.

CIII.—Gwalchmei aoed yny neuad yn kysgu heb ymoglyt dim rac hynny. Aphan weles ef y vot yn dyd ef a gyuodes y uyny. Ar arglwydes adoeth yno. Aphryt na weles hi y korr hi aadnabu y dwyll. Arglwyd heb hi wrth walchmei trugarhaa wrthyfi. kanys neum twyllawd y korr. ac onyt tydi am nertha i ef a oruyd arnaf odef diruawr boen oth achaws. a chewilyd yw ytti hynny. kanys ny haedyssam ni in kewilydyaw. ac ny dylyaf inneu gael kewilyd oth achaws di. Gwir a dywedy di heb y gwalchmei. Ac yna kymryt y arueu aoruc gwalchmei. ac eu gwisgaw athrwy gennat yr unbennes mynet ymeith. ac ymgudyaw aoruc ef yn agos yr ty. Arhynny marius eidic ae gorr adoethant y mywn yr neuad. Ahitheu agyfodes yn eu herbyn wy. ac ady-

Digitized by Google

wawt. Arglwyd heb hi dyd da a rodo duw ytt. Ac y titheu heb y marius antur drwc y gan duw. Paham heb ef y llettyut ti walchmei neithwyr yn vy llys i ac yn vynggwely. Pony daroed ymi dy rybudyaw di yn enwedic o honaw ef. Arglwyd heb hi yn dy lys di y llettyeis i ef. Yr hynny nam corffi nath wely ditheu nyskewilydyawd ef. Kelwyd adywedy megys ffalswreic heb ynteu. Ac yna gwisgaw y arueu aoruc ef yn llidiawc. ac erchi dwyn y varch idaw. ac odyna peri yr wreic diosc y holl dillat onyt y chrys. Hitheu vyth dan wylaw yn erchi y nawd ef. Yna ef aesgynnawd ar y uarch. ac a erchis yr korr gymryt y wreic herwyd y ffletheu gwallt ae thynnu yn eu hol yr fforest. Aphan doethant yr fforest wynt abarassant yr wreic vynet y ffynnawn aoed dan vric prenn yn y lle hwnnw. ar dwfyr yn oerach noc a vu eiryoet o eiry. a disgynnu aoruc marius. a llad dyrneit o wial meindost. ae maedu ae ffustyaw yny oed y dwfyr yn colli y liw gan y gwaet. Sef awnaeth hitheu yna llefein a gwediaw ac erchi nawd oe gwr. Ac yna gwalchmei yn y lle yd oed a gigleu hynny. ac adoeth kyntaf ac y gallawd tu ac yno. Yna y korr adywawt wrth uarius. Arglwyd heb ef llyma walchmei yn dyuot. Ie heb ynteu yr awr honn y gwnn i vot yn wir pob peth o hynn.

CIV.—Marius heb y gwalchmei yd wyt ar gam wrth yr arglwydes oreu or aweleis eirmoet achwrteissyaf wrth lettywr adelei attei. ac am hynny y dylyut titheu y diolwch idi. ac yr wyt titheu yn gwneuthur diruawr gewilyd yr awr honn idi hi. ac nys gwnn i paham. a mi ath wediaf di yr vyngkaryat i ar uadeu idi dy lit. a minneu parawt wyf y dyngu na wneuthum i chweith kewilyd ytti. ac na bu gennyf dim medwl oe wneuthur. Yna marius a ymgyflawnawd o lit pan weles nat athoes walchmei ymeith etto. ac adoeth idaw loes o eidiged. ac a ennynnawd y gorff ae gallon yny vedylyawd gwneuthur diruawr ffyrnigrwyd affolineb. Gwalchmei heb ef mi a vadeuaf vy llit idi drwy amot ymwan ohonat titheu amyui. Ac os tydi a oruyd arnafi. hitheu a vyd ryd or hynn yr ys yn y vwrw arnei yr awrhonn.

Digitized by Google

Ac nyt archaf amgen heb y gwalchmei. Ac yna yd erchis marius yr korr dwyn y wreic or dwfyr. Ac ynteu ae duc hi. ac aerchis idi eisted yn y llannerch yn y lle y dylyei y marchogyon ymwan. Ac yna gwalchmei adroes draegevyn y gymryt redec oe verch. A marius yr unffunyt. Aphan weles marius gedernit gwalchmei ae diwygyat yny gyrchu. ef avrathawd y varch a dwy yspardun yny erbyn. Ac a ellyngawd gwalchmei heibyaw. ac a ostyngawd penn y waew tu ar llawr. ac a gyrchawd tu ae wreic. ac ae brathawd yny vyd y gwaew trwydi. ac odyna ffo yn vuan aoruc tu ae lys. Ac yna gwalchmei aedrychawd ar y wreic yn marw. ac ar y korr yn ffo ar ol y ueistyr. ac ynteu ae hymlityawd ac ae godiwedawd ac a beris yr march y gyvarsenghi yny yttoed y ymysgar am y draet. a gwedy hynny ef a gyrchawd yn ol marius tu ar llys. Aphan doeth ef yr bont. neur daroed dyrchafel y pynt a chaeu y pyrth. A marius or tu mywn yndywedut. Gwalchmei y collet hwnn adoeth ymi oth blegvt ti. ac or bydaf vyw i mi awnaf vot yn ediuar ytt. Ny bu wiw gan walchmei hir dadleu ac ef. namyn ymchoelut draegevyn aoruc pan weles na allawd mynet y mywn. a dyuot hyt y lle yd oed y wreic yn uarw ae chymryt yn arafaf ac y gallawd ae roi ar y varch a dyuot ahi hyt ymywn capel. a disgynnu y korff awnaeth ef ae ossot ar y llawr yn araf. ac ynteu yn doluryus ac yn llidiawc wrth hynny. ac odyna caeu y capel aoruc ef rac dyuot bwystuilot or fforest. a medylyaw y deuit oe hamdoi ac oe chyweiryaw gwedy y delei ef ymeith.

CV. — Ar hynny gwalchmei aaeth ymeith yndrist ac yn vedylgar. kanys ny chyfaruuassei ac ef eiryoet dim kyndrwc ganthaw ac am y wreicda. a ladyssit oe achaws efo. Ac yna marchogaeth aoruc ef drwy y fforest. ac ual y byd uelly ef awelei yn dyuot ar hyt y fford tuac attaw marchawc. ac aruer ryued ganthaw wrth uarchogaeth. kanys y wyneb aoed ar bedrein y varch. ae arueu gwedy eu trwssyaw yn trwssa ar y gevyn. Ac ynteu pan weles ef walchmei yn dyuot gweidi aoruc. a dywedut. Oia varchawc bonhedic yr

Digitized by Google

hwnn yssyd yndyuot ym herbyn. yr duw yr archaf ytt na wnelych ym chweith drwc. kanys myui aelwir y marchawc cachyat. Mynvyngcret heb y gwalchmei nyt wyt tebic y wr a dylyit gwneuthur dim o gam idaw. Aphanybei y medylyau aoed mywn gwalchmei or blaen ef a chwardassei lawer am y arwydon. a gwalchmei adywawt wrthaw. a unbenn heb ef nyt reit ytti vy ovyn etto. Ac ar hynny dynessau at walchmei aoruc ef ac edrych yn y lygeit. a gwalchmei aedrychawd arnaw ynteu. ac aovynnawd idaw pioed gwr. ynteu a attebawd ac adywawt panyw gwr yttoed y vorynyon y gadeir. mynvyngcret heb y gwalchmei mae mwyaf oll yth garaf. Wrth hynny nyt reit ym un ovyn. Na reit mynvyngcret heb y gwalchmei bit diogel yt. Y marchawc kachyat aedrychawd ar daryan walchmei. ac ae hadnabu. ac a dywawt. Arglwyd heb ef myui awnn pa un wyt ti. ac yr awrhonn mi adysgynnaf ac awisgaf vy arueu. ac a varchockaaf y gyt athi yn iawn. kanys mi awnn panyw tydi yw gwalchmei. kanys mi awnn nat ennillei neb y daryan honno onyt tydi. Ac yna gwisgaw y arueu aoruc ac adolwc y walchmei yr duw y aros yny darffei idaw wisgaw y arueu. a gwalchmei awnaeth hynny yn llawen ac ae kymhorthes. Ac ual y bydant wy yn hynny. wynt awelynt uarchawc ar vrys yn dyuot ar draws y fforest. a tharyan idaw. ar neill hanner idi yn wenn arllall yn du. Ac yn dywedut yn uchel wrth walchmei. aro yna. kanys ydwyf yth rybudyaw y gan uarius eidic yr hwnn aladawd y wreic oth achaws di. A unbenn heb y gwalchmei om anuod i y gwnaeth ef hynny. a drwc vu gennyf idaw wneuthur hynny. kanys ny haedassei hi om achaws i dim oe hangheu. Ny thal hynny dim heb y marchawc. namyn os myui aoruyd tydi yssyd ar y cam. Os titheu aorvyd vy arglwyd inheu yssyd ar y cam. ac idaw y byd y kewilyd. a thrwydot ti y byd reit idaw gynnal y castell. drwy amot vynggellwng ohonat yn vyw. Ny cheissyafi amgen heb y gwalchmei kanys duw a wyr nat yttwyfi ar y cam. Yna y marchawc cachyat adywawt. Gwalchmei heb ef nac ymlad ar marchawc om hyder i. kanys ny

Digitized by Google

cheffy di gennyfi na nerth na chanhorthwy. Nym tawr heb y gwalchmei. myvi aorffenneis lawer o betheu hebot ti. A mi aorffennaf hynn heuyt os da gan duw. Ac yna o nerth traet eu meirch ymgyfaruot aorugant. athorri eu pelydyr. ac ar dyrnawt gwalchmei ef avu reit yr marchawc syrthyaw ef ae varch yr llawr. Ac odyna tynnu y gledyf aoruc gwalchmei aruthraw idaw. Ae vy llad i yssyd yth vryt ti. Ie myn vyngcret heb y gwalchmei. Arglwyd heb y marchawc na wna hynny mi a ymrof ytt. ath nawd aarchaf kanys ny mynnafi varw yr ffolineb arall. Medylyaw aoruc gwalchmei yna. na wnaey idaw dim drwc. kanys nyt oed hawd ganthaw torri gorchymun duw. Yna y marchawc agyuodes ac awnaeth gwrogaeth idaw oe arglwyd ac oe gorff ac oe da yn hollawl yr y vywyt.

CVI.—Arhynny y marchawc aaeth ymeith. a gwalchmei a drigyawd yno. Arglwyd heb y marchawc cachyat ny mynnwn I vy mot yngyndewret athydi yr da y byt oll. a phei rybudyassei ef vyui. ual yth rybudyawd di mi a phoasswn ar hynt neu ynteu mi aarchasswn y nawd. Iawn awnaut heb y gwalchmei. ny mynny di namyn hedwch. Po nyt iawn yw hynny heb ynteu. kanys ny daw o ryuel namyn drwc. ac ny chefeis i eirmoet na dyrnawt na briw o nymtrawei ganghen or coet. ami awelaf dy wyneb di yn drylleu. ac yn iach ytti heb ef a myui aaf yn ol vy arglwydesseu. Nyt ey di heb y gwalchmei yny dywettych ym paham y mae dy arglwydes di yn dwyn y breich yngcroc wrth y hysgwyd. Mi aedywedaf ytt yn llawen heb ynteu. Hi a vu yn llys brenhin peleur yn gwassanaethu seint greal. ar llaw honno pan doeth y marchawc urdawl yr llys yr hwnn yd ymdangosses seint greal idaw. ac ny ovynnawd beth a arwydockaey. ac o achaws y bot hi yn daly y racwerthuawr lestyr hwnnw yn y llaw yn yr honn yd oed y gogonedus waet yn disgynnu o vlaen y gwaew. ac am hynny ny dalyawd hi etto dim yn yllaw. ac nys deily y wers honn. a llyna ytt yr achaws. ac yn iach ytt a chan dy gennyat. a hwde di vynggwaew i kanys y teu di atorres. ac nyt reit y minneu wrthaw. a gwalch-

Digitized by Google

mei ae kymerth ac agerdawd racdaw yn vlin ac yn drauaelus. a marchogaeth aoruc ef ynyoed agos y bryt gosber. Amegys ydoed ef uelly nachaf varchawc urdawl yn kyfaruot ac ef. ac yn dyuot ar draws y fforest megys gwr a darffei y daraw drwy y gorff. ac ar hynt yn govyn y walchmei pwy oed y henw. A unben heb ef. ef amgelwir i gwalchmei. Arglwyd heb y marchawc neurdaruu vy llad i yn dy wassanaeth di. Pa vod yn vynggwassanaeth i heb y gwalchmei. Megys yd oedwn i yn mynnu cladu y corff heb y marchawc aedeweist di yny capel. ac neurdaroed ym gladu kanmwyaf y pwll am cledyf pan doeth marius eidic a dwyn y corff y gennyf. ae vwrw y vwystuilot. am taraw inheu ual y gwely di. a mi a af bellach odyma hyt att veudwy yssyd yn y coet ym kyffessu. kanys y dyrnawt yssyd agos yr gallon. ac esmwythach vyd gennyfi vy angheu gwedy kael dangos vyn dyrnawt ytt. Myn vyngcret heb y gwalchmei mae drwc yw gennyfi hynny.

CVII.—Arhynny kychwyn ymeith aoruc gwalchmei. a marchogaeth yny damchweinyawd idaw welet castell y mywn fforest. ac ar hynny nachaf y gwelei gwr gobrud yn dyuot or castell allan y rodyaw. ac ederyn ar y law. ac ymrassawu aorugant. a govyn aoruc gwalchmei yr gwr pa ryw gastell oed yn ymdangos idaw yna. Ac ynteu adywawt panyw castell y morynyon beilch y gelwit. y rei ny byd gwiw ganthunt ovyn y vilwr or byt y henw. na neb oc eu tylwyth ny lyuassant y ovyn rac eu harglwydes. Yr hynny ual kynt ti ageffy yno lewenyd ath lettyaw. kanys kwrteis ynt wy mywn arueroed ereill. ac ny wnn i yn y byt gwreic degach noe harglwydes wy. ac ny bu idi eiryoet na gwr na gorderch. kanys ny bu wiw genthi garu un gwr ony bei y vot yn oreu marchawc or holl vyt. a mi aaf y gyt athi y mywn y peri ytt gedymdeithyas a llewenyd. Duw a diolcho ytt heb y gwalchmei. dyuot y mywn awnaethant. disgynnu aoruc gwalchmei. ar marchawc urdawl ae kymerth erbyn y law. ac ae duc yr neuad. ac a beris tynnu y arueu. a dwyn dillat o ysgarllat idaw oe gwisgaw. Ac arhynny nachaf yr arglwydes yn

Digitized by Google

dyuot att walchmei ac yny rassawu. ac ynteu agyuodes y uyny yn y herbyn. Ar unbennes ae kymerth erbyn y law. ac a dywawt. a unbenn heb hi. a vynny di dyuot y edrych vyngcapel. Mynnaf yn llawen heb y gwalchmei. Odyna yr capel y doethant hi a gwalchmei. ac ny welsei eiryoet gapel degach o vaes ac o vywn. ac yno yd oed pedeir ysgrin teckaf or awelsei neb eiryoet. A unbenn heb yr arglwydes awely di y pedeir ysgrin hynn. gwelaf heb y gwalchmei. Ny wybydir vyth heb hi beth yssyd yndunt onyt trwy y marchawc goreu or holl vyt. Gwalchmei a vu ryued ganthaw yr hynn yr oed yr unbennes yny dywedut. Ac odyna wynt adoethant or capel yr neuad. a llewenyd mawr awnaeth pawp or marchogyon urdolyon aoedynt yno y walchmei. ac ny wydynt wy panyw gwalchmei oed ef. nys gouynnynt wynteu idaw. kanys nyt oed aruer gan neb yno govyn y neb pwy vei. wynteu awydynt yd aei y marchawc hwnnw drwy y fforest. Ac am hynny y daroed yr arglwydes rodi llawer o dir adaear y pedwar marchawc urdawl yr cadw y fforest ac yr govyn y bawp pwy vei. ac yr y venegi idi hitheu. Gwalchmei a vu y nos honno yn y castell. a thrannoeth ef awarandawawd offeren. A gwedy hynny ef a gymerth y gennat y gan yr arglwydes ar marchogyon urdolyon. ac agerdawd ymeith megys dyn heb chwant arnaw y ohir yno. A gwedy daruot marchogaeth mwy no milltir or fforest. ef adoeth y adwy oe vlaen. yn y lle ydoed deu varchawc urdawl. Aphan welsant wy walchmei. wynt aesgynnassant ar eu meirch. yn aruawc o bop arueu. ac adywedassant wrthaw. A unbenn heb wy. aro a dywet ynn dy henw. A wyrda heb ynteu ef am gelwir i gwalchmei nei yr amherawdyr arthur. A unbenn heb wynteu grassaw duw wrthyt. a dabre gyt ani att y wreic deckaf or byt yr honn yssyd yth damunaw. ac a wna llewenyd mawr yrot yn y castell balch. Arglwydi heb y gwalchmei ny chafi vynet yno yr awr honn. kanys y mae arnafi vrys mawr y vynet y neges arall. Arglwyd heb wynteu ef a vyd reit ytti dyuot kanys uelly y mae y gorchymun arnam ni. llyma vyngcret heb y gwalchmei nat

Digitized by Google

afi yno yr awr honn. Yna wynteu a gymerassant y march erbyn y ffrwyn ar vedyr y dwyn oe anuod. Ac yna kewilydyaw aoruc gwalchmei a thynnu cledyf. a tharaw un onadunt yny dorres y vreich. Aphan weles y llall hynny ffo aoruc gyt ae gedymdeith. a dyuot yr castell balch aorugant a dangos yr arglwydes eu hamarch. a hitheu aovynnawd udunt wy pwy ae briwassei uelly. Arglwydes heb wynteu gwalchmei. Pa le y kyfaruu ef a chwchwi heb hi. Ef a gyfaruu geyrllaw y fforest heb wynteu. a ni a archassam idaw ef dyuot y ymwelet athydi. Ac ny mynnei ynteu dyuot. a ninneu ageissyassam y gymell ef. ac am hynny y torres ef breich vyngkedymdeith i. Yna y peris hitheu canu corn. Ac yna kwbyl o varchogyon y castell adoethant y gyt geyr bronn yr arglwydes. A hitheu aorchymynawd udunt wy vynet yn ol gwalchmei. a hi a wellaei o gyuoeth ar bawp onadunt. ac yd oedynt wrth rif pump ar hugeint. A megys yd oedynt yn mynet or castell nachaf deu varchawc ereill yndyuot yn vriwedic bop un onadunt. ac yn dangos eu hamarch yr arglwydes. ac megys y gwnathoed walchmei ac wynt. ac ny ellynt wy y dwyn ef oe anuod ny deuei ynteu oe vod. A ydyw ef yn epell yr awrhonn heb hi. Ydiw arglwydes heb wynteu yn bellach no phedeir milltir odyma. Dioer heb un or marchogyon hyt y gwelir ymi ffolineb mawr yw y ymlit ef. kanys nyt ennillir arnaw ef bellach gystal a pheidyaw ac ef. athitheu arglwydes ae hebryngeist ef oth gamryuic. ny wydem ninneu pa un oed ef. kanys taryan o sinopyl oed idaw ef a bogel o eur yndi. Gwir adywedy di heb yr arglwydes. vyngkamryuic i vu hynny. a mi aatwaen bellach y golli ef om balchder i. mi arodaf yn diofryt y duw na chwsc yma weithyon un marchawc urdawl ny ovynnwyf idaw y henw. kanys hwnn agolleis i vyth. Ami adebygaf golli ohonaf y lleill oe achaws ynteu.

CVIII.—Ar hynny y peidywyt ac ymlit gwalchmei. ac ynteu aaeth ymeith dan wediaw duw ar y danuon y lys brenhin peleur. a megys y bydei ef uelly ef aglywei lef bitheiat yn galw ar y ol. ac or diwed yn dyuot hyt

Digitized by Google

attaw. A megys yr oed yn dyuot attaw ef awelei y ki yn roi y duryn yr llawr. ac yn kael gwaet. ac yn ymlit y gwaet ar hyt fford lysseulet. Aphan weles y ki walchmei yn gadaw ol y gwaet. y ki aymlityawd dan alw yny doeth at walchmei. a pheidyaw ac ymlit. Ac yna gwalchmei a ymlidyawd y ki yn y doeth y perued y fforest. ac yno ef awelei ty ynymyl llynn. ac ef a gerdawd yn ol y ki. ac yr bont aoed ar y dwvyr. yr neuad y doeth ef. ar bitheiat yna abeidyawd ac ymlit ac a galw. Yna gwalchmei aarganvu ymperued y neuad marchawc urdawl yn varw. yr hwnn adaroed y daraw a gwaew trwy berued y gorff. Ac odyna ef awelei vorwyn ieuanc yn dyuot o ystauell ac amdo genthi. A unbennes heb y gwalchmei duw arwydhao ragot. ar unbennes aoed yn wylaw adywawt nat attebei hi idaw ef yny wypei paham. a hi adebygassei yd agorassei gweli y marchawc oe dyuotyat ef y mywn. ac nyt yttoed yn redec. Ac yna y dywawt hi wrth walchmei. a unben heb hi grassaw duw wrthyt. Duw arodo llewenyd ytt heb y gwalchmei. Ac yna yr unbennes adywawt wrth y bitheiat. nyt archasswn i ytti dwyn yma y marchawc hwnn namyn yr hwn a ladyssei y gwr marw hwnn. A unbennes heb y gwalchmei awdost ditheu pwy oed ef. Gwnn heb hitheu lawnslot ae lladawd yn y fforest yna. a duw a wnel y minneu allel y dial arnaw ef ac ar gwbyl o wyr arthur. kanys wynt awnaethant ym lawer o anesmwythder. ac os da gan duw ni ae dialwn arnunt. kanys y mae idaw vab da. a minneu yw y chwaer. A unbennnes heb y gwalchmei yn iach ytti. Ac ar hynny ydaeth ef oe fford ehun. dan wediaw duw ar gyuaruot lawnslot y gedymdeith ac ef.

CIX.—Dywedut y mae y kyfarwydyt marchogaeth o walchmei yny oed agos y bryt gosper. ac yna arganuot o honaw or tu deheu oe fford llwybyr bychan. a sathyrua dynyon arnaw. ac yr llwybyr hwnnw y kyrchawd ef achaws gwelet yr heul yn gostwng. Ac yn tewdwr y fforest ef a welei gapel mawr a thei tec yny ymyl. a cheyrllaw y capel yd oed herber. a phalis ystyllot yny

Digitized by Google

chylch ogylch. ac yn ymyl y palis ydoed meudwy yr hwnn adebygei bawp herwyd y weletyat y vot yn wr da ae ogwyd ar y palis ac yn edrych yr herber. ac yn llawen ganthaw yr hynn awelei. Aphanweles ef walchmei ef aaeth yn y erbyn. A gwalchmei adisgynnawd. Arglwyd heb y meudwy grassaw duw wrthyt. Duw arodo llewenyd ytt heb y gwalchmei. Yna y meudwy aberis kymryt y march ae ystablu. ac odyna ef aberis y walchmei dyuot y edrych yr herber gyt ac ef. a mi adangossaf ytt yr ystyr yssyd ymi y vot yn llawen. Ac yna gwalchmei aedrychawd ymywn. ac a arganvu yno dwy vorwyn ieuanc a deu was gyt ac wynt. a ef awelei vab ieuanc yn marchogaeth llew. ac arhynny wynt aaethant y eisted yr herber. Arglwyd heb y meudwy llyma ystyr vy llewenyd i. Ac arhynny gwalchmei a beris tynnu y arueu y amdanaw. Ac odyna un or morynyon aduc idaw dillat oe gwisgaw. Ryued vu gan walchmei welet y mab yn marchogaeth y llew. ar meudwy adywawt wrth walchmei na lyuassei neb warchadw y llew onyt y mab. Ac nyt oes idaw o oet namyn seithmlwyd. a mab bonhedic yw. ac nyt oes yn yr holl vyt marchawc creulonach noe dat ef. ae henw yw marius eidic. y gwr a ladawd y vam o achaws gwalchmei. ac yr hynny hyt hediw ny mynnawd y mab drigyaw gyt ae dat. am wybot ohonaw lad y vamm yn wirion. ac ewythyr idaw wyfi vrawt y vamm. ac yd wyf yn peri yr deu was ac yr dwy vorwyn racko synnyeit arnaw ual y gwely di. ac nyt oes dim yn yr holl vyt kynchwannocket ganthaw ef y welet a gwalchmei. ac or gwdost di chwedleu newyd y wrthaw ef yr mwyn duw dywet ymi. Gwnn myn vyngcret heb y gwalchmei. weldy racko y daryan ef ae waew. ac ynteu ehun keis heno yn llettyaw yma. Arglwyd heb y meudwy ae tydi yw ef. velly ym gelwir i heb y gwalchmei. ar wreic a dywedy di mi a weleis y llad hi geyr vymbronn. a duw awyr nat om bod i y lladwyt hi. Yna y meudwy a dywawt wrth y mab. dos yma heb ef. weldyma walchmei dy damunet ti. dabre attaw a gwna idaw lewenyd. Y mab yna a disgynnawd y ar y llew. ac ae

Digitized by Google

roes ymywn seler. ac odyna ef a doeth att walchmei. Ac agyuarchawd gwell idaw. Duw aro kynnyd arnat heb y gwalchmei. ac odyna ymgussanu aorugant. Arglwyd heb y meudwy hwnn adyly bot yn wr ytti. Athitheu a dylyy y gynghori ef ae nerthau kanys diodefawd y vam angheu drossot.

CX.—Ac yna y mab aostyngawd ar benn y lin geyr bronn gwalchmei. ac adyrchafawd y dwylaw. Ac yna y meudwy adywawt wrth walchmei. Arglwyd heb ef trugarhaa wrth y mab. Yna gwalchmei agymerth dwylaw y mab y rwng y dwylaw ynteu. a dywedut. Myn vyngcret vab heb ef mae hoff yw gennyf dy wrogaeth ath garyat. am kanhorthwy inneu ti ae keffy yn llawen. namyn hynn myui a vynnwn wybot dy henw di. Arglwyd heb y meudwy ef aelwir meliot o loegyr. Yno y bu walchmei y nos honno. a thrannoeth gwedy gwarandaw offeren ef a gymerth kennat y meudwy y vynet ymeith. ar meudwy aovynnawd idaw pa le yd oed y vryt ar vynet. Ac ynteu adywawt mae parth a llys brenhin peleur yd aei. Gwalchmei heb y meudwy duw a wnel ytt wneuthur yn well noc y gwnaeth y marchawc arall a vu yno oth vlaen. Duw awnel ym allel gwneuthur ewyllys duw heb ef.

CXI.—Gwalchmei yna agymerth y gennat ac a uarchocaawd racdaw drwy sywrneioed yny doeth yr wlat teckaf or a welsei neb eiryoet. a megys y bydei ef uelly. ef awelei was ieuanc yn dyuot parth ac attaw. yn drist ac yn aflawen ac edrychyat llibin ganthaw ae wyneb tu ar llawr. A gedymdeith heb y gwalchmei o ba le pan deuy di. Arglwyd heb ynteu yn dyuot or fforest racko. Piwyt gwr di heb y gwalchmei. Gwas wyfi heb ynteu yr gwr bieu y fforest. Hyt y gwelir ymi heb y gwalchmei nat wyt lawen iawn di. Arglwyd heb ynteu achaws ysyd ym y hynny. kanys y neb a gollei arglwyd da ny dylyei hwnnw vot yn llawen. Paryw wr yw dy arglwyd di heb y gwalchmei. Arglwyd heb ynteu y marchawc urdawl goreu or holl vyt yw ef. Ae marw yw ef heb y gwalchmei. Na varw os da gan duw heb y gwas. eissyoes ny bu lawen ef yr

Digitized by Google

ystalym. Pwy y henw ef heb y gwalchmei. Arglwyd heb ef paredur y gelwir ef. A allafi heb y gwalchmei wybot pa le y mae ef. Na elly arglwyd drwydofi heb ef. namyn hynn a dywedafi yn lle gwir y vot ef yn y fforest honn. Gwalchmei a weles y mab yn was ieuanc tec ac yn wylaw yn hidyl. A unben heb y gwalchmei paham yd wyly di. Arglwyd heb ynteu ny bydaf lawen i vyth yny darffo ym vynet yn veudwy. yr iachau vy eneit. kanys mi awneuthum y pechawt mwyaf or aallei neb y wneuthur. kanys mi aledeis vy mam o achaws dywedut o honei na bydwn vrenhin ar ol vyntat. namyn hi abarei vy mot yn vynach. Aphan wybu vyntat i lad ohonafi vy mam. ynteu aberis gwneuthur meudwydy ac aaeth yn veudwy. ac aedewis y vrenhinyaeth. a minneu awelaf nat teilwng y minneu gynnal y vrenhinyaeth ef. o achaws vyndiruawr bechawt. Ac am hynny y medylyeis inneu vot yn iawnach y mi benydyaw vyngcorff noc ym tat. A unben heb y gwalchmei pwy dy henw di. Ef amgelwir i ioseus. ami a hanwyf o lines ioseph o arimathia. am tat aelwir brenhin peles. Yr hwnn yssyd yn veudwy yn y fforest honn. am ewythyr yw brenhin peleur. ar bren or castell marw hevyt. ar wreic wedw o gastell camalot yssyd vodryb ym. Am keuynderw yw paredur y mab hitheu.

CXII.—Gwalchmei ar hynny aaeth ymeith. ac avu dost ganthaw ansawd y gwas ae gyflwr. Ac uelly y kerdawd ef ar hyt y fforest yny doeth ywch benn ffynnawn. ac yn agos yr ffynnawn ef aarganuu fford a sathyrua dynyon arnei. Ac yna gadaw y fford uawr aoruc ef a dyuot y honno. a cherdet aoruc ef y honno ual ynghylch milltir. ac arganuot neuad dec yn gaedic o gaeu yny chylch. ac edrych a oruc ef parth adrws y neuad ac arganuot prenn bychan. a than vric y prenn ef awelei y gwr teckaf or awelsei eiryoet o wr un oed ac ef. a gwallt y benn ae varyf yn wynnllwyt. ac ae law ar benn y glun. a gwas ieuanc geyr y vronn yn daly gwasgwynvarch yn y law. ac yny ymyl ydoed gwaew atharyan a lluric a chrimogeu heyrn. Aphan weles ef walchmei yn dyuot ef adoeth yn y erbyn. ac adywawt

Digitized by Google

wrthaw. A unbenn heb ef marchoca yn aryf. ac na wna chweith kynnwryf kanys nyt rwyf reit ym wrth o anesmwythdra mwy noc yssyd arnam. ac na chymer yn lle mileindra ydwyfi yny dywedut wrthyt. aphanybei vot achaws ym mi ath wahodwn heno. kanys milwr da yssyd yn glaf y gyt a mi. Yr hwnn a dywedir y vot yn eil goreu or byt. ac am hynny ny mynnwn i wybot ohonaw ef vot yma neb marchawc or byt. kanys nyt oed neb aallei y ludyas ef y ymwan athi pei ath welei. ac yn hynny agatuyd ef ar allei idaw efo vynet ar y chware gwaethaf. ac am hynny yrwyfi yma yngwarchadw rac gwelet ohonaw ef neb. na thydi nac arall. kanys gormod gollet oed yr byt pei kyfarffei ac efo namyn da. Arglwyd heb y gwalchmei pwy y henw ef. Myn duw heb ynteu nys managafi. Arglwyd heb y gwalchmei agaffafi y welet ef drwy dy gennat ti. Na cheffy heb ynteu ac nys gadafi y neb vynet yma ymywn. yny vo ef yn iach ac yn llawen. Arglwyd heb y gwalchmei. awney ditheu vyneges i or hynn adywetwyf wrthyt. Arglwyd heb y meudwy nyt oes dim adywedwn wrthaw ony dywedei ef or blaen wrthyfi. Doluryus vu gan walchmei: na chaffei ymwelet ar marchawc. Arglwyd heb y gwalchmei o ba lines pan hanyw ef. Olines ioseph o arimathia heb y meudwy.

CXIII.—Ac ar hynny nachaf vorwyn ieuanc yn sefyll ar drws y capel. ac yn galw ar y meudwy. ac ynteu a gyuodes. ac aaeth y mywn. ac aberis caeu drws y capel yn eu hol. ac aedewis gwalchmei odieithyr. Y gwas ynteu a gymerth y march ar arueu ac aaeth y mywn ac wynt. a gwalchmei a drigyawd yn llidiawc allan. ac heb wybot yn wir ae hwnnw oed uab y wreic wedw. Yna kychwyn ymeith aoruc ef. a dyuot racdaw yr fforest. ac nyt ytiw y kyfarwydyt yma yn dywedut kwbyl oe syurneioed ef. namyn marchogaeth ohonaw drwy syurneioed yny doeth y tir teckaf or awelsei eiryoet. Ac ar hynny ef a arganvu gastell oe vlaen. Apharth a hwnnw y doeth ef. a dynessau parth ar castell aoruc ef. ac arganuot llew yn gorwed ar y porth. ac o bop tu yr porth ydoed deu vilein gwedyr wneuthur

Digitized by Google

o elydyn. ac yngossot yn engiryawl ar y neb adelei yno ymywn. Aphan weles gwalchmei hynny ny bu hy ganthaw dyuot yn nes no hynny yr porth rac ovyn y llew ar mileinyeit elydyn. ac odyna edrych aoruc ar y gaer. ac ar y mur ef awelei gapel. ac ar y capel ef awelei deir croes. ac ar bop (croes) eryr o eur. ac a welei y bobyl aoed yno yn syrthyaw ar dal eu glinyeu geyr bronn y capel. ac yn edrych ar y nef or awr py gilyd. ac yn gwneuthur enryded mawr. Ac hyt y gwelit y walchmei yd oed y bobyl aoed yndaw yngwelet duw a meir. Gwalchmei aoed yn edrych vyth o bell ac heb lyuassu dynessau attunt. rac ovyn dyrnodeu y rei aoedynt yn saethu y ar y bylcheu ar y gaer. kanys nyt oed yn y byt neb aallei diodef un dyrnodeu oc yr oedynt yn bwrw tu ac attaw. Ac ual y byd ef uelly ef awelei offeiryat yn dyuot ac yn seuyll ar un or bylcheu. ac yn dywedut wrth walchmei. A unbenn beth a reyngk bod ytti. Arglwyd heb y gwalchmei dywedut ym pa gastell yw hwnn. A unbenn heb ynteu hwnn yw y castell kywir. ac yn y castell ar capel awely di yd (ys) yn gwneuthur gwassanaeth seint greal. Gan hynny heb y gwalchmei yr duw gollwng vi ymywn. kanys y lys brenhin peleur y mae vy negesseu i. Arglwyd heb yr offeiryat mi adywedaf ytti yn lle gwir na eill neb dyuot o vywn y castell hwnn. ony byd dwyn ohonaw yma y cledyf yr hwnn y llas penn ieuan uedydywr ac ef. Gan hynny heb y gwalchmei neurderyw vy atteb i. Arglwyd heb yr offeiryat ti aelly gredu vy mot i yndywedut gwir am hynny. ami adywedaf ytt ygyt a hynny nat oes yn yr holl vyt brenhin greulonach nor hwnn y mae y cledyf yn y geitwadaeth. y gyt ae vot yn idew. Yr hynny etto os tydi a dwc y cledyf yma. ty ageffy dyuot y mywn. ac ef awneir ytt lewenyd mawr ympob lle or y bo gallu brenhin peleur. Gan hynny heb y gwalchmei ef a vyd reit ymi vynet drachevyn. ac am hynny trist a doluryus wyf. Ny dylyy di hynny heb yr offeiryat. kanys o dygy di y cledyf yma. yna y gwys haedu ohonat ti ath vot yndeilwng y welet seint greal. adelit

Digitized by Google

dy gof ovyn beth aarwydokaa pan y gwelych. Ar hynny gwalchmei agychwynnawd yngymeint y vedylyeu ac na doeth y gof idaw ovyn pa wlat yd oed y cledyf na phwy oed henw y brenhin. aoed yn y gadw.

CXIV. — Ema y mae y kyuarwydyt yn traethu marchogaeth o walchmei yn y doeth odieithyr y dinas. ac y vaes tec. ac edrych aoruc ar y maes oe vlaen. ac ef awelei bwrgeis ar geuyn march mawr yn dyuot parth ac attaw. Gwalchmei adoeth yn y erbyn. ac a gyuarchawd gwell idaw. ac ynteu ae hatebawd. Arglwyd heb y bwrgeis ryued yw gennyfi vot gwr kystal athydi o debygu heb varch da idaw. Arglwyd heb y gwalchmei ny allafi y wellau ef yssywaeth. A unben heb y bwrgeis y ba le y mae yth vryt ti vynet. mi aaf heb ynteu y geissyaw y cledyf y llas penn ieuan uedydywr ac ef. Och arglwyd heb y bwrgeis yd wyt yn mynet y le periglus gan vrenhin creulawn. yr hwnn ny char dim o duw. ac yssyd a diruawr greulonder yndaw. ae henw yw gwrgoraus. ac ef aaeth yr fford honno lawer marchawc urdawl ar vedyr keissyaw y cledyf. ac ny doeth yr un adref draegevyn. Ac or mynny di roi dy gret y mi os duw a ganhatta ytti gael y cledyf ar dyuot fford yma oe dangos ef ymi. Minneu a rodaf yttitheu y march hwnn. Beth awnaut ti heb y gwalchmei othorrwn i vyngcret ar hynny kanys nym hatwaenost o dim. Ef awelir ymi heb y gwalchmei dy vot ti yn wr kywir am yr hynn aedewych. Myui aadawaf hynny heb y gwalchmei. Ac ar hynny disgynnu aoruc y bwrgeis. a roi y march idaw. a gwalchmei aaeth ar y march ac ar bwrgeis ar y varch ynteu. A gwalchmei ae diolches idaw yn vawr. ac agerdawd racdaw yny doeth y fforest. ac a varchockaawd yny oed yr heul yn mynet y gysgu heb gyuaruot ac ef nachyuanned na chastell. ac ar hynny nachaf y gwelei weirglodyeu tec ymperued y fforest. ac adwfyr megys goruerw ffynnhonneu yndunt.

CXV.—Edrych aoruc gwalchmei tu aphenn y weirglawd ac arganuot pebyll. ae amdo oed osidan. ac arwarthaf y pebyll yr oed eryr o eur. tu ac yno y kyrch-

Digitized by Google

awd gwalchmei. disgynnu aoruc ac adaw y varch or tu allan yr pebyll. adyuot y mywn. ac arganuot gwely tec. ac ymperued y gwely ef awelei dwy glustoc o bali. a chyfyrlit ar y llawr o eurweith odidawc. ac is traet y gwely ef awelei ganhwyllbren o eur aphost o gwyr yndaw yn llosgi ac ymperued y neuad ef awelei bwrd o asgwrn moruil. gwedy y dyrchafel ar y dresteleu. a lliein gwedy y ossot arnaw. Sef aoruc gwalchmei yna mynet y geissyaw neb yn y gwely. a ryued vu ganthaw na welei neb yndaw. amegys y bydei ef yn mynnu ehun dynnu y arueu y ymdanaw. nachaf y gwelei gorr yn dyuot attaw ac yn y ressawu. ac yngostwng ar benn y lin. ar uedyr tynnu y arueu y ymdanaw. Gwalchmei yna adoeth cof idaw y corr yr hwnn y llas y wreic oe achaws. A unbenn heb y gwalchmei kyuot y vyny kanys ny dioscafi vy arueu yr awr honn. Arglwyd heb y corr diosc yn hy kanys nyt reit ytt un ovyn hyt auory. Ac ny buost diogelach di eiryoet no heno. Yna gwalchmei adiosges y arueu. ar corr ae kymhorthes. Aphan daruu idaw diosc y arueu ef ae roes yn agos idaw. Yna y corr agymerth dwfyr twym ac aberis y walchmei ymolchi. a gwedy hynny ef adynnawd glan dillat o sidan ac ae roes idaw oe gwisgaw. Arglwyd heb y corr nac anesmwythet arnat dim. kanys ef a vyd parawt yt dy arueu erbyn pan gyuottych auory oe gwisgaw. a myui aaf dramkevyn. A megys y bydei ef uelly nachaf deu was ieueingk yn dyuot y mywn. ac yn erchi y walchmei or gwnelei yr hynn goreu ar y les vynet ymeith. Ac nys godrigyassant wy namyn mynet ymeith. Ac ual y byd gwalchmei yn medylyaw uelly nachaf dwy unbennes yn dyuot attaw ymywn. ac yny ressawu. Ac ynteu a attebawd udunt yn deckaf ac y gallawd. Arglwyd heb wynt duw arodo antur da ytt mal y gellych waret yr aruer drwc yssyd ar y pebyll hwnn. A oes uelly heb y gwalchmei aruer drwc yma. Oes arglwyd heb wynteu yssywaeth. eissyoes ef awelir ymi dy uot ti yn uarchawc urdawl oe emendaw ef. Ar hynny y kyuodes ef y ar y bwrd yn y lle ydoed yn eisted. ar dwy unbennes ae kymerth ef erbyn y law.

Digitized by Google

ac ae dugassant odieithyr y pebyll. ac aeistedassant ar lannerch gyt ac ef. Arglwyd heb yr hynaf onadunt pwy dy gyfenw di. A unbennes heb y gwalchmei. ef am gelwir i gwalchmei. Arglwyd heb wynteu mwyaf oll yth garwn. yr awrhonn y gwdam ni na phery yr aruer drwc hwy no hynn. drwy amot dewissaw ohonat y vwyaf agerych ohonam ni yn dwy. A unbennesseu heb ynteu duw a dalo ywch. ac ar hynny kyuodi aoruc ef amynet y gysgu kanys blin a lludedic oed. A gwedy y vynet ef y gysgu. wynteu aeistedessant yn ymyl y gwely. ac a gynnigyassant idaw eu gwassanaeth. ac ynteu nyt attebawd udunt. namyn y diolwch. kanys nyt oed vedwl ganthaw amgen no chysgu. Myn vyngcret heb yr un o honunt wrth y llall pei gwalchmei nei yr amherawdyr arthur uei hwnn. ef adywedei amgen noc a dyweit. Eissyoes ryw dychymyc yw hwnn pan gaffei y ryw anryded hwnn yma heno. Pa drwc yw hynny heb y llall ef a dal dros y letty auory kynn y uynet. Ac arhynny nachaf y corr yn dyuot. A unben heb wynt gwarchadw di y marchawc hwnn ynda rac y ffo ymeith heb wybot y neb. kanys gwalchmei yw. ac ymynet y mae ef o westy pygilyd. ac yn dywedut mae gwalchmei yw ef. ac ynteu nyt tebic y walchmei. kanys pei efo vei. ef aorvydei arnam ni wylyat teir nos neu ynteu awylyei. A unbennesseu heb y corr ny dichawn ef ffo kanys y varch yssyd ym keitwadaeth i. Yr hynny yd oed walchmei yn gwarandaw yn graff ar yr hynn yr oedynt wy yn y dywedut. Ac wynteu aaethant ymeith ac aarchassant y duw roi gorffowysua drwc y walchmei. kysgu ychydic awnaeth gwalchmei y nos honno. Athrannoeth yr awr y gweles oleur dyd ef a gychwynnawd y vyny. ac awisgawd y arueu ym danaw. ae varch agafas yn barawt. Arglwyd heb y corr ny bu vwyn y gwassaneythyeist di ar y morynyon a vu yma neithywyr. Ac ys mawr o gwyn yssyd ganthunt wy ragot ti. Ny allafi dim wrth hynny heb y gwalchmei. ac ny wnn i haedu ohonaf chweith gogan arnunt wy. ysmawr o ovit yw ytti heb y corr ot wyt gyndrwc di ac y dywedant wy arnat. Gat udunt heb

Digitized by Google

y gwalchmei dywedut yr hynn a vynnont. kanys ny allafi ludyas udunt wy nac y neb vynggoganu or byd goreu ganthunt. Ac ny wnn i unben y bwy y diolchaf yr esmwythdra a gefeis yma neithwyr onyt y duw. Aphei damchweinyei ym welet yr arglwyd bieu y pebyll hwnn neur morynyon neithywyr mi ae diolchwn udunt os gallwn.

CXVI.—Ar hynny nachaf deu uarchawc urdawl yn aruawc yn dyuot geyr bronn y pebyll ar gevyneu meirch. ac yn arganuot gwalchmei gwedy esgynnu ar y uarch. ar uedyr kerdet racdaw heb dybyeit bot yn reit idaw amgen. ar marchogyon adoethant attaw ac aarchassant idaw dalu dros y letty. Nyni heb wy a gysgassom mywn anesmwythdra neithwyr oth achaws di. ac aadassam ytitheu y pebyll hwnn ae esmwythdra. a thitheu yssyd yn mynnu mynet uelly. Myn an credeu ninneu y byd reit ytti prynu dy vwyt ac anryded y pebyll. Ac ar hynny nachaf y dwy uorynyon yn dyuot y rei aoedynt yn digawn eu tecket. y rei adywedassant. A unben heb wynt yr awrhonn yr adnabydwn ni os tydi gwalchmei nei arthur. Myn vyngcret heb y llall. ny thebygafi allel ohonaw ef waret yr aruer drwc. drwy yr hwnn yr ym ni yn colli dyuotyat marchawc urdawl attam. Aphan gigleu gwalchmei hynny. kewilyd mawr a vu arnaw. ac ygyt a hynny ef aweles na allei vynet odyno heb geintyach. Ar neill or marchogyon awelei wedy disgynnu ar llall ar y uarch yn aruawc. ac yn ymgyffroi yn ffestet ac y gallei. a gwalchmei yna ae kyrchawd ynteu. ac o nerth traet y varch. a chryfder y vreicheu ynteu ae trewis yny dylla y daryan. ac yny vyd ynteu ef ae uarch yr llawr. ac yny vyd y gwaew dwy rychwant trwydaw. Myn vyngcret heb yr ieuaf or morynyon gwell y gwnaeth gwalchmei hediw oragor no neithwyr. Ac yna tynnu y gledyf aoruc gwalchmei. a dwyn hwyl idaw pan erchis y marchawc y nawd a dywedut bot yn adef ganthaw y orchyfygu. A gwalchmei yna a beidyawd ac ef. Ac un or morynyon adywawt nat oed reit idaw ovyn y llall tra vei byw hwnnw nar aruer drwc yssyd

Digitized by Google

ar y pebyll. nys tynny ditheu onys lledy. kanys efo yssyd arglwyd ar y pebyll. ac o achaws y vileindra efo ny doeth yma neb yr ystalym. Weldy heb y marchawc arall wrth walchmei y hanghywirdeb hi. kanys nyt oed dim yn yr holl vyt kymeint a garei hi ar gwr racko herwyd adebygit arnei. ac yr awr honn yn barnu arnaw. Ac etto heb hi mi adywedaf na byrir yr aruer drwc odyma ony ledir ef. Yna gwalchmei adyrchafawd arffet y luryc ac ae brathawd drwydaw. Ac ar hynny nachaf y marchawc arall yn dyuot yn llidiawc o achaws llad y gedymdeith. ac yn gossot ar walchmei a gwalchmei arnaw ynteu. ac ymgyrchu aorugant yngreulawn yny gollassant eu gwarthafleu. ac yny tyllawd eu llurugeu. ac yny ymdangosses kic eu hystlysseu y benneu eu gwewyr. ac yny yttoed eu corffeu wynteu yn ymgyhwrd. ac eu meirch yn gynluttet ac yny yttoed eu korofeu yn dryllyaw. ac yny yttoedynt wynteu ell deu yr llawr. Yngymeint eu kwymp ac yny yttoed eu gwaet yn ffrydyeu oe geneueu allan. ac yn y kwymp agafas y marchawc ef adorres y vreich. Ac yna y corr adywawt wrth yr unbennes. Da digawn y gware gwalchmei mywn digonyant. Gwalchmei yna agyuodes ac adoeth tu ac att y varch. ac ef aadassei yr marchawc ffo. panybei y morynyon a lefassant arnaw. ac a dywedassant onys lladei y keffit gormod o drwc ganthaw. yna y uorwyn ieuanc adywawt. or mynny di y lad ef taraw ynggwadyn y droet. A unbennes heb y marchawc. ae uelly y trosses dy garyat ti ymi. ac vyth heb ef ny dylyei wr ymdiriet y wreic. Ryued vu gan walchmei yr hynn ydoed yr unbennes yny dywedut. a dyuot aoruc ef ortu arall yr pebyll. yn y lle ydoed march y gwr marw. ac ynteu a dynnawd y kyfrwy y arnaw ac ae roes ar y varch ehun. A thra vu efo yn hynny y llall agyuodes ac aesgynnawd ar y varch. kanys y corr ae kymhorthassei ac odyna kyrchu y fforest. Ac odyna y morynyon agriassant ar walchmei. Arglwyd walchmei heb wy dy anryded di abeir an llad ni. kanys y marchawc yssyd heb drugared ganthaw yssyd yn mynet y geissyaw nerth. ac odieingk. ef an llad

Digitized by Google

ni athitheu heuyt. Ar hynny gwalchmei aesgynnawd ar y varch ac agymerth y waew yn y law. ac a ymlynawd y marchawc. ac ae godiwedawd. ac ae trewis yny vyd yr llawr. ac adywawt wrthaw nyt oes ytt fford y diangk. Drwc yw gennyf hynny heb y marchawc. kanys mi a gawssoedwn dial yn ehegyr arnat ti ac ar y morynyon. Ar hynny gwalchmei a blannawd y gledyf ynggwadyn y droet. ar marchawc a vu uarw. a gwalchmei adoeth draegevyn att y morynyon. ac wynteu awnaethant idaw y llewenyd mwyhaf. ac a dywedassant na ellit vyth y lad ef yn amgen uod no hynny. kanys o lines acchilles yd hanoed. a phawb or genedylaeth honno ny ellit eu llad onyt uelly. Gwalchmei yna adisgynnawd. ar morynyon aedrychassant y brath aoed yny ystlys. ac adywedassant nat oed berigyl arnaw. Arglwyd heb wy etto yr ym ni yn kynnic ytti yngwassanaeth ni. kanys ni awdam panyw tydi yw gwalchmei. Duw adiolcho ywch heb y gwalchmei. awch caryat nyt yttwyf yny wrthot. namyn yn iach ychwi. Arglwyd heb yr wynteu. dabre y orffowys hediw y gyt ani. A unbennesseu heb ynteu ny chaffaf i orffowys. ac ar hynny gwalchmei agerdawd racdaw. yny doeth y fforest. Aphan doeth ef or fforest allan ef aarganuu tir tec yn gaedic o vur. yr hwnn aoed yn damgylchynu kwbwl or wlat. a thu ac yno y doeth ef. ac ef aarganvu borth ar y mur a fford y hwnnw y doeth ef y mywn. ac ny welsei ef eiryoet tiryogaeth degach noc awelsei yno. ac nyt oed let or mur y gilyd no their milltir. Ac ymperued y wlat ydoed twr mawrdec uchel. yn y ymyl yd oed creic uawrbraff. ac arnei garan yn sefyll. a honno a lefei pan delei neb odieithyr yr wlat honno. Gwalchmei agafas yn y gyngor uarchogaeth drwy genawl y wlat. Ac arhynny ef awelei deu uarchawc urdawl yn y odiwes. ac yn dywedut wrthaw. A unben aro a dabre y ymdidan a brenhin y wlat honn. Kanys nyt a neb drwy y wlat ar ny del y ymdidan ac ef. Arglwydi heb y gwalchmei ny wydywn i uot yr aruer hwnnw ami aaf yn llawen. Yna ef adoeth y gyt ac wynt hyt yn ymyl y neuad. a disgynnu aoruc ac adaw

Digitized by Google

y waew ae daryan ar yr ysgynvaen. a dyuot yr neuad ar brenhin awnaeth llewenyd mawr yn y erbyn. ac a ovynnawd y ba le yd oed y vryt ef ar vynet. Arglwyd heb ynteu yr wlat ny bum yndi eirmoet. Mi a wnn heb y brenhin y ba le. kanys wyt yn dyuot trwy vyntir i ti a ey y wlat brenhin gorgeraus y geissyaw y cledyf y llas penn Ieuan vedydywr ac ef. Gwir adywedy arglwyd heb y gwalchmei. Os da gan duw heb y brenhin nyt ey di odyma hyt ympenn y vlwydyn. Arglwyd heb y gwalchmei ny wney di hynny ami. Gwnaf myn vyngcret heb y brenhin. Ac ar hynny peri diarvu gwalchmei. ac odyna dwyn dillat tec idaw oe gwisgaw. ae anrydedu yn vawr. eissyoes nyt oed esmwyth gan walchmei dim o hynny. A govyn aoruc pa ystyr oed oe attal ef uelly. A unben heb y brenhin mi a wnn y keffy di y cledyf. a gwedy hynny y fford arall yd ey. Arglwyd heb y gwalchmei or myn duw ymyvi y gael mi adeuaf fford yma. Gan hynny heb ef minneu ath ollyngaf di. kanys nyt oes dim yn yr holl vyt kyn hoffet gennyf y welet ac ef. Y nos honno y bu walchmei yno. a thrannoeth ef aedewis y wlat drwy diruawr lewenyd. ac agerdawd parth a thir brenhin gorgeraus. ac adoeth y fforest. ac adaw honno awnaeth. a marchogaeth yny welei dy meudwy. ar meudwy yn wr prudlwyt. yr hwnn aovynnawd idaw pa le yd aei. Arglwyd heb y gwalchmei y tir brenhin gorgeraus. ac ae honn y fford. Ie heb y meudwy. a llawer marchawc aweleis yn mynet fford yna ac ny weleis yr un yn dyuot. Ae pell hynny heb y gwalchmei. Arglwyd heb y meudwy y tir ef yssyd agos. eissyoes pell yw y gastell ef. y gyt ar meudwy y bu walchmei y nos honno. A thrannoeth gwedy offeren ef a gychwynnawd ymeith. ac a varchockaawd yny doeth y lys y gwrda hwnnw. ac ef a glywei y bobyl or llys honno yn griduan ac yn kwynaw. ac ar hynny nachaf varchawc yn kyfaruot ac ef. Arglwyd heb y gwalchmei paham y gwna y bobyl or wlat honn y dolur ar gwynuan y maent yny wneuthur. A unbenn heb ynteu mi ae dywedaf ytt. brenhin gorgeraus nyt oed idaw chweith plant onyt un mab. a hwnnw

Digitized by Google

ef aaeth kawr ac ef. Ac am hynny ef aberis y brenhin criaw dros gwbwl oe deyrnas pwy bynnac a dygei y vab idaw y rodei idaw yr un arch a vynnei. ac nyt ytiw yn kael neb alyfasso ymroi yn yr antur hwnnw. ac am hynny y mae ef yn kerydu y gret yn vwy no chret y cristonogyon. ac adywawt pei delei gristawn attaw. yd erbynnyei ef ar lewenyd. Llawen vu gan walchmei hynny. ac adaw y marchawc aoruc ef adyuot yr castell yn y lle yd oed y brenhin.

CXVII. — Chwedleu adoeth att y brenhin dyuot cristawn yr castell. allawen vu gan y brenhin hynny. apheri y dwyn geyr (bronn) aoruc. a govyn idaw pwy oed y henw. ac o ba wlat yd hanoed. Ef amgelwir i gwalchmei heb ef. ami a hanwyf o wlat yr amherawdyr arthur. Wrth hynny heb ef ti ahanwyt o wlat y milwr. ny allafi eissyoes gael yr un da. yn vynggwlat i nac alyfasso roi kynghor ym yn vy reit. Eissyoes os tydi yssyd yny daeoni y llefessych ymroi yn anturyaeth drossofi. mi aetalaf ytt. Allyna yr antur. kawr aduc un mab aoed ymi. Ac os tydi aa yn antur drossofi. Minneu arodaf yttitheu y cledyf teckaf or awnaethpwyt eiryoet. ac a hwnnw y llas penn Ieuan uedydywr ac avyd gwaetlyt unweith bop hanner dyd. kanys hanner dyd ehun oed yr awr y llas efo. Y brenhin aberis dwyn y cledyf geyr bronn. ae wein wedy y gorthoi o vein mawrweirthyawc. ae bwmel oed o vaen gwerthuawr yr hwnn adaroed y enar amperawdyr o ruuein y ossot arnaw. A gwedy hynny ef aberis y tynnu allan. Ac yr awr y tynnwyt yr oed yn waetlyt kanys hannerdyd ehun oed. Ac uelly y perit daly y cledyf geyr bronn gwalchmei. yny aed yr awr heibyaw. ac yny vyd ynteu yn gynwyrdloewet. ar maen aelwir esmeraud. Gwalchmei aedrychawd arnaw yn hir.

CXVIII.—Ryued uu gan walchmei gwelet y cledyf yn gyhyt ar cledyf hwyaf odieithyr y wein. Aphan roet ef yny wein nyt oed hwy ef no dwy rychwant. A unbenn heb y brenhin y cledyf hwnn arodafi ytti. ami athwnaf heuyt yn vodlawn. Arglwyd heb y gwalchmei mi awnaf hynny yn llawen. ar hynny yr idewon

Digitized by Google

adangossassant idaw y fford y dlyei vynet. Ac arhynny gwalchmei agerdawd racdaw dan ymorchymyn y duw. Ar idewon awediassant y gyt ac ef. herwyd eu cret wyntwy ar y dyuot draegeuyn drwy lewenyd. A marchogaeth aoruc gwalchmei yny doeth y vynyd mawr yr hwnn aoed yn damgylchynu y wlat yr honn adaroed yr kawr y diua. Ac yno ydoed ef yn gymeint ac yn gyngreulonet. ac nat oed arnaw ovyn neb or byt. ar fford yr eit attaw oed gyn gyuynghet ac na allei neb or byt or byt ar varch vynet idi. Ac yna y goruu ar walchmei disgynnu acherdet ar y draet ar draws mein llymyon. yny doeth yr tir gwastat. ac edrych oe vlaen aoruc ef ac arganuot ryw gyuanned. ac yn ymyl hynny ef awelei y kawr yn eisted. ef ar mab dan vric prenn. Gwalchmei adoeth tu ac yno. Aphan weles ef walchmei yn dyuot. ef a gyuodes yn chwimwth y vyny. Ac a gymerth bwyall vawr aoed yn y ymyl. ac adoeth yn erbyn gwalchmei. ac a ossodes arnaw dyrnawt. a gwalchmei ae gollyngawd yr llawr. ac ae trewis ynteu achledyf yny dorres y breich aoed yn kynnal y vwyall. Aphan wybu y kawr y anafu. ef a ymchoelawd gyntaf ac y gallawd tuac att y mab. Ac ar dwrn arall ef a gymerth y mab erbyn y wdyf. ae gwasgawd yny dagawd. a gwedy ef a ymchoelawd ar walchmei. ac a ymafaelawd ac ef. ac ae dyrchafawd ar y ysgwyd. ar vedyr mynet ac ef tu ae letty. Aphan yttoedynt yn mynet uelly ef a vynnawd duw yr kawr syrthyaw a gwalchmei ar y warthaf. A gwalchmei yn vuan yna agyfodes. ac nyt ebryuygawd ef y gledyf. namyn kynn kyuodi y kawr ef ae brathawd trwydaw. a gwedy hynny ef a dorres y benn. ac a doeth yr lle yr oed y mab yn varw am yr hynn yd oed drist ef. ac ae dyrchafawd ar y ysgwyd ac agymerth penn y kawr. ac ae duc hyt yny lle ydoed y varch. a dwyn ganthaw y mab aphenn y kawr. yny doeth geyr bronn y brenhin.

CXIX.—E brenhin a chwbwl oniuer y llys adoethant yny erbyn. dan lewenyd. Aphan welsant wy vot y mab yn uarw wynt a newityassant y llewenyd yn drist-it. Gwalchmei yna adisgynnawd ac a anregawd yr

Digitized by Google

brenhin y vab a phenn y kawr. ac adywawt. Arglwyd heb ef pei gallasswn i y dwyn ef yn amgen vod mi ae dygasswn yn llawen. mi awnn hynny heb y brenhin. ac am awnaethost di bodlawn wyfi. a thal dy lafur ti ae keffy. Ac yna kwynaw y vab aoruc y brenhin. apheri kynneu tan mawr aoruc ef ymperued y dinas. arodi y vab ymywn llestyr oe verwi. A gwedy hynny ef aberis kymryt penn y kawr ae grogi ywch penn y porth. Aphan vu digawn kic y mab ef aberis y dorri yn divynnyon man. a dyuynnu kwbwl oedylwyth y gyt oe vwyta. hyt y hergydyawd udunt. a gwedy hynny ef aberis dwyn y cledyf ae rodi y walchmei. a gwalchmei ae diolches idaw yn vawr. Etto heb y brenhin mi awnaf yn vwy dy rod di. Yna ef aberis oe holl wyrda vynet yr castell. Ac yna ef adywawt wrth walchmei. Arglwyd heb ef. mi a vynnaf vy medydyaw achwbwl ar ny mynno credu y duw ydwyf yn gorchymun y ti llad eu penneu. Ac uelly y bedydwyt y brenhin yr hwnn oed arglwyd ar aubanie. o achaws gwyrtheu duw a milwryaeth walchmei. Ac wedy hynny ef a gychwynnawd gwalchmei or castell drwy diruawr lewenyd. Ac yn henw ar y brenhin y roet archer. namyn gwalchmei agerdawd racdaw yny doeth att vrenhin gorgeraus y rydhau y gret. Yna y brenhin adoeth yny erbyn. ac a vu lawen wrthaw. Arglwyd heb y gwalchmei llyma vi yn dyuot y rydhau vyngcret. allyma vyngcledyf. Ar brenhin ae kymerth yny law ac aedrychawd arnaw. ac a vu lawen wrthaw. A gwedy hynny ef ae roes yny trysor ehun. Och heb y gwalchmei paham y gwney di beth mor dwyllodrus a hynny. Ny thwylleis i neb heb y brenhin. namyn iawnach yw y minneu gael y cledyf noc y neb. kanys mi a hanwyf o genedyl y gwr a ladawd pen ieuan. Arglwyd heb y gwalchmei kam yw ytti vyn treissyaw i yr hynny. Arglwyd vrenhin heb y marchogyon aoedynt yno. Gwalchmei yssyd wr cwrteis. a gogan agaffut or gwnelut gam ac ef. Ac am hynny roder y cledyf idaw. Yn llawen heb ynteu drwy amot na nackao ynteu yr unbennes gyntaf aarcho rod idaw beth bynnac vo. a

Digitized by Google

gwalchmei aganhattaawd idaw hynny. ac am y gennhadu. ef aoruu arnaw odef llawer o gewilyd am hynny. a llawer o boen a cheryd.

CXX.—E brenhin aroes y gledyf y walchmei. ac yno y bu ef y nos honno. A thrannoeth ef agerdawd racdaw yny doeth y ymyl y dinas yn y lle y rassoed y bwrgeis y varch idaw. ac adoeth cof idaw yr amot aoed yryngthaw ac ef. Ac yno y safawd ef hirynt yny doeth y bwrgeis attaw. Ac yna pob un a uu lawen wrth y gilyd onadunt. Gwalchmei yna adangosses y gledyf. Ar bwrgeis ae kymerth yny law. ac adrewis y varch adwy yspardun. ac agyrchawd y dref ar cledyf ganthaw. a gwalchmei yny ol ynteu. Y bwrgeis adoeth yr dref a gwalchmei ae hymlynawd. ac adoeth yr dref yny ol. ac agyfaruu ac ef processio mawr o offeiryeit ac ysgolheigyon. a chroes oc eu blaen. Gwalchmei yna a diskynnawd o achaws y processio. Ar bwrgeis aaeth y eglwys ar processio yny ol ynteu. Arglwydi heb y gwalchmei perwch yr gwr racko rodi yr hynn aduc y gennyf. Arglwyd heb yr offeiryeit y nyni y mae ef yny dwyn oe roi ym mysc yn creiryeu ninneu. ac adywawt daruot yti y roi idaw. Kelwyd adywawt heb y gwalchmei mi aedangosseis idaw yr dillwng vyngcret. ac odyna ef adywawt udunt ual y bu ryngthunt. ae damchwein ehun heuyt. Ac yna yr offeiryeit a barassant roi y gledyf idaw. a gwalchmei a vu hoff ganthaw hynny. ac aaeth ar geuyn y varch. Ac ny cherdawd ef haeach odieithyr y dinas yny gyfaruu ac ef marchawc urdawl. yr hwnn oed yn dyuot o nerth traet y varch ac yn aruawc o bop arueu. Arglwyd heb ef wrth walchmei yr oedwn i yn dyuot yth amdiffyn di. kanys yd oedit yn gwneuthur cam athi yny dinas racko. A minneu a hanwyf or castell yr hwnn a nertha pawb or a hanffo o wlat arall. or byd reit udunt wrth nerth. A unben heb y gwalchmei bendigedic vo y castell hwnnw. aphwy henw y castell. Arglwyd heb y marchawc ef aelwir castell y bel. achanys deryw dy rydhau di mi a ymchoelaf dracheuyn. athitheu a deuy ylettyu heno bellach att vy arglwyd i. Duw adiolcho ytt dy

Digitized by Google

gwrteissi heb y gwalchmei. Amarchogaeth aorugant tuar castell yny doethant ymywn.

CXXI.—Aphan doethant yr castell ymywn. gwalchmei aarganuu yr arglwyd yn eisted ar disgynuaen o varmor. ac yn edrych ar y dwy verchet yn gware a phel o eur. Aphan arganuu ef walchmei yndisgynnu. ef adoeth yny erbyn. ac a vu lawen wrthaw. Ac odyna ef aberis yr merchet kanhebrwng gwalchmei yr neuad. Aphan daruu y walchmei diosc y arueu ef a ducpwyt idaw dillat oe gwisgaw. A gwedy hynny wynt a aethant y vwyta. ar morynyon ieueinc aeistedassant yny ymyl. ac ar hynny nachaf gorr yn dyuot y mywn. ac ysgors yny law. ac yn roi dyrnodeu yr merchet ae ysgors. ac yn dywedut wrthunt. kyuodwch y vyny drwc eu dysgyeit. Paham y gwnewch chwi lewenyd kymeint a hwnnw yr gwr aladawd awch brawtuaeth. ac ar hynny y merchet agyfodassant yn gewilydus y vyny. ac aadawssant walchmei. ac ynteu ryued vu ganthaw hynny. Ar ieuaf onadunt adywawt wrth walchmei. Arglwyd heb hi na symlet arnat ti dim o hynn. kanys y korr yssyd wassanaethwr arnam ni. ac yn dysgyawdyr yw. allidiawc yw efo wrthyt ti amlad y vrawt ohonat y dyd y lladawd marius eidic y wreic oth achaws. or achaws yd ym doluryus ninneu heuyt. Myn vyngcret heb y gwalchmei uelly yd wyf inneu. kanys ny haedyssei hi dim oe hangheu om plegyt i.

CXXII.—Gwalchmei adrigyawd yno y nos honno. Athrannoeth ef aaeth ymeith drwy gennat pawb or tylwyth onyt y corr ehun. ac a varchockaawd drwy sywrneioed yny doeth yr castell kyntaf o tir brenhin peleur. ac aweles nat yttoed y mileinyeit evyd yn saethu dim. ac nat yttoed y llew ar y porth. ac ef awelei yn dyuot yny erbyn yr offeiryeit ar ysgolheigyon dan ganu aphrocessio. Ac yna y kymerth un or offeiryeit y cledyf oe dangos yr lleill. ae dynnu or wein aorugant. a hanner dyd ehun oed ar cledyf yna aoed yn waetlyt. a phawb onadunt aadoles yr cledyf ac aganassant. Te deum laudamus.

CXXIII.—Ar y kyfryw lewenyd a hwnnw yd er-

Digitized by Google

bynnywyt gwalchmei ar cledyf a roespwyt yny wein. aphawb avu lawen wrthaw. ac aarchassant os duw ae danuonei y lys brenhin peleur ac ymdangos or greal idaw. na bei mor ebryuygus ar marchawc avuassei yno yny vlaen. A gwalchmei adywawt y gwnaei val y kennattei duw idaw. Arglwyd heb y pennaf or offeiryeit. yr hwnn oed wr prud. mi adebygaf nat oed afreit ymi gael gorffowys. kanys blin wyf athrafaelus. Arglwyd heb y gwalchmei mi aweleis lawer obetheu oed ryued gennyf eu gwelet. Mi adebygaf mae gwir a dywedy heb yr offeiryat. Y castell hwnn yma ynteu aelwir castell y govynneu. Ac ny elly di na thi na neb govyn dim yma ar ny wyper beth aarwydockao. A hynny drwy dystolyaeth iosep o arimathia. drwy yr hwnn y gwdam ni. ac ynteu agwyr drwy dystolyaeth yr yspryt glan. Myn vyngkret heb y gwalchmei ryued vu gennyf welet y teir morynyon. y rei avuant yn llys arthur. ac adugassant ganthunt deu benn. nyt amgen penn brenhin. aphenn brenhines. ac ymywn cadeir ydoed ganthunt. deudec penn adeugeint a chant o benneu marchogyon urdolyon. a rei onadunt aoed gwedy eu hinseilyaw aphlwm ereill ac aryant. ac ereill ac eur. Gwir yw heb yr offeiryat. ac wynt adywedassant mae oachaws y vrenhines honno y lladyssit y brenhin. a chymeint ac aoed o benneu yny gadeir. Gwir adywedassant heuyt herwyd mal y tystolyaetha iosep. yr hwnn adywawt ar gyffelybrwyd panyw drwy eua y twyllywyt adaf. achwbwl oc adoeth ohonaw ynteu. achanys adaf agrewyt yngyntaf or pobloed. am hynny yd ydys yny alw ef yn vrenhin. kanys efo yw yn tat daearawl ni. Ac eua oed y vrenhines. yr honn y llas wyntwy oll oc hachaws. ar penneu adywedy di. eu bot ac inseilyeu oeur arnunt. yd ys yma yn eu kyffelybu wynt. yr cristonogyon y rei agredawd yr gyfreith newyd. Ar penneu ar inseilyeu aryant arnunt aarwydockaa yr idewon. Ar penneu inseilyedic o blwm a gyffelybir yr sarascinyeit. Or tri amryw dynyon hynny yr ordinhawyt y byt. Arglwyd heb y gwalchmei eres yw gennyf am gastell y meudwy du. yn y lle y ducpwyt

Digitized by Google

y penneu y gennym. ar unbennes adywawt ymi panyw pandelei y milwr da y bwrit wyntwy ymeith or gadeir. Ac ydoed yno ymywn ryw dynyon yn gweidi am dyuotyat y milwr hwnnw. Gwir yw heb yr offeiryat. ti awdost mae oachaws yr aual avwyttaawd adaf yr aethant y uffern y rei drwc. ac am hynny y doeth duw yn vilwr da yr byt. ac aduc y gedymdeithyon o uffern allan ahynny drwy y nerth ae gedernit. Ac am hynny y mae Iosep yn y gyffelybu y uffern. Aphan del y milwr da hwnnw ef ae gyr wynt allan oll. Y gyt a hynny yd ys yma yn kyffelybu y meudwy du. y luciffer yr hwnn yssyd arglwyd ar uffern. yn gynhyttret ac y mynassei y vot ymparadwys. Arglwyd heb y gwalchmei ryued yw gennyf am y vorwyn yr honn oed yn voel heb un blewyn ar y phenn. Ac adywawt na chaffei y gwallt vyth yny del y marchawc aenillo y greal. Gwir yw heb yr offeiryat. ac uelly y mae yr ysteir blyned. kanys yna heuyt y digwydawd brenhin peleur yn y glefyt. am na wnaeth y marchawc y govyn ual y dylyassei. Y vorwyn honno agyffelybir yr dynghetuen herwyd ual y synhwyra iosep yni. ar dynghetuen heuyt gynt a vu uoel kynn diodef o grist. ac heb wallt heuyt yny diodefawd crist. Aphan brynawd ef y bobyl drwy odef angheu. Y gadeir yssyd gyt a hi aarwydockaa vot y dynghetuen ar yr honn y kerda hi y byt. Y daryan a duc hitheu y lys arthur ar groes goch yndi aarwydockaa. y groc yr honn ny lyfassawd neb y chymryt onyt duw ehun. Gwalchmei agigleu yr ysponyat hwnnw ac a vedylyawd na lyfassei neb ynteu gymryt y daryan aadawssit yn y llys yny delei un well no neb.

CXXIV.—Duw adalo ytt heb y gwalchmei kanys synhwyreist ym yr hynn yr oedywn yn y vedylyaw yr ystalym. ac yn ryuedu amdanaw. Eissyoes ryued etto yw gennyf am varchawc yr hwnn aladawd y wreic om achaws i. ac nys haedassei hi dim oe hangeu. Arglwyd heb yr offeiryat llewenyd mawr a synhwyra y hangeu hi. kanys iosep adywawt yni panyw o achaws gwreic y diuawyt yr hen gret. ac oachaws dyrnawt a gwaew. Ac yr diua yr hen gret y

Digitized by Google

diodefawd crist roi dyrnawt idaw a gwaew. ac ar y dyrnawt hwnnw y diuawyt yr hen ffyd. ar wreic a gyffelybir yr hen ffyd. Arglwyd heb y gwalchmei ef agyfaruu ami varchawc yn marchogaeth ae wyneb ar bedrein y varch. a chwrr y daryan y vyny. Ac yr awr y gweles ef vyui ef a ymgweiryawd yn iawn. ac a uarchockaawd megys marchawc arall. Gwir yw heb yr offeiryat. y ffyd gynt agyffelybir yr marchawc hwnnw. kanys yr hengret gynt aoed ar y gwrthwyneb kynn diodefedigaeth yr arglwyd ar y groc. Ac yr awr y diodefawd ef. hi aaeth yn y lle yn iawn. Arglwyd heb y gwalchmei ef adoeth marchawc y ymwan ami oachaws marius eidic ar neill hanner oe daryan yn wynn ar llall yn du. a myui aoruum arnaw ef. Iawn heb yr offeiryat oed ytt y vwrw ef. Y marchawc hwnnw agyffelybir yr henffyd heuyt. kanys deu hanner oed. athrwy y gret newyd y diuawyt yr hen. ual y goruuost ditheu arnaw ynteu am y vot ar gam. Arglwyd heb y gwalchmei ryued yw gennyf am vab bychan yr hwnn aweleis yn marchogaeth llew. ac ny lyuassei neb dynessau attaw onyt y mab ehun. ac nyt oed o oet arnaw mwy no seithmlwyd. Y mab hwnnw heb yr offeiryat a gyffelybir i iachwyawdyr y byt. Ac ny dywedafi ytti mwy. kanys nyt oes ymi rydit y dinoethi dirgeledigaetheu duw. Arglwyd heb y gwalchmei mi aovynnaf ytt am vrenhin yr hwnn agymerth mab marw idaw. ac aberis berwi y mab ae roi y vrenhinyaeth oe vwyta. Ie heb yr offeiryat neur daroed yna trossi y vedwl ef ae ewyllys parth ac att duw. Ac am hynny y gwnaeth ef aberth y duw oe vab ac oe waet. ac am hynny y roes y vab oe vwyta y bawp oe wlat. Ac oblegyt mynnu bot pawb yn un vedwl ac ynteu y goruc ef uelly. Bendigedic vo yr awr y doethum yma heb y gwalchmei. Yno y trigyawd ef y nos honno a hoff vu ganthaw y letty. A thrannoeth gwedy offeren ef a gychwynnawd ymeith or castell. ac adoeth yr gweirglodyeu teckaf or awelsei eiryoet. ac a varchocaawd yny doeth diwarnawt yn agos y lys brenhin peleur. ac ef adamchweinyawd ar ty meudwy yr hwnn ny allei neb vynet idaw ymywn.

Digitized by Google

ae gapel nyt oed vwy haeach. ar gwr da aoed yno ny buassei odieithyr y ty yr ys deugein mlyned. Y meudwy aestynnawd y benn trwy ffenestyr pan weles gwalchmei. ac adywawt. grassaw duw wrthyt unbenn. Ac y titheu antur da heb y gwalchmei. ac aelly di vy llettyaw i heno. Arglwyd heb y meudwy ny lettyir neb yma onyt duw. yr hynny ti agey letty da yma yn agos. yn y lle y llettyir marchogyon urdolyon da. Arglwyd heb y gwalchmei pwy bieu y lle hwnnw. Y mae yn eidaw brenhin peleur heb y meudwy. adwfyr mawr yny gylch ogylch. ac yn amyl o bop da. Ac ny dyly llettyaw yno neb ony byd yn wrda. Duw awnel ymi vot velly heb y gwalchmei.

CXXV.—Pan wybu walchmei y vot yn agos yr castell ef a disgynnawd ac a gyffessawd wrth y meudwy. Ac a vwryawd y wrthaw y holl bechodeu drwy ediuarwch achyffes. Arglwyd heb y meudwy mogel rac ebryvygu o honot y govyn. aebryfygawd y llall oth vlaen. ac na symlet arnat dim oc awelych ar drws y castell. namyn marchocka ragot a gwedia yr capel santeid yssyd yno. Arglwyd heb y gwalchmei mi aarchaf y duw kennattau ym allel gwneuthur bod duw ar seint. A chymryt kennat y meudwy a oruc ef a mynet ymeith. a marchogaeth yny doeth y dyffryn tec. a phob da yndaw yn amyl. ac odyna ef aarganuu y racwerthuawr gapel. Ac yna disgynnu aoruc ef a gostwng ar dal y deulin a gwediaw duw. A gwedy hynny esgynnu ar y varch a marchogaeth yny doeth y ymyl ysgrin dec ar y fford. ac ar warthaf yr ysgrin yr oed kyvyrlit tec. ac yn y chylch ogylch yd oed mynwent vechan dec. Ac ar hynny ef aglywei lef yn dywedut ac yn erchi idaw nat elei ynghyfyl yr ysgrin. kanys nyt tydi y milwr y gwybydir beth y syd yndi oe achaws. Gwalchmei agerdawd racdaw pan gigleu y llef. ac a uarchockaawd yny doeth gyferbyn a phorth y castell. ac aarganuu deirpont mawr aruthur oe kerdet. a their avon y danunt yn redec. Ac ef awelei bot yn hyt y bont gyntaf ergyt saeth. ac nat oed yn y llet hitheu namyn troetued. Ac ny wydyat gwalchmei beth a-

Digitized by Google

wnaey odybyeit na allei neb y cherdet nac ar droet nac ar varch.

CXXVI.—Megis y bydei ef uelly ef a welei varchawc urdawl prud yn dyuot hyt ar benn y bont. yr honn aelwit pont y llassywen. ac yn galw arnaw ac yn erchi idaw dyuot yn vuan ar hyt y bont. kanys agos yw yr nos. a chymeint ac yssyd yn y castell y maent yth aros di. Arglwyd heb y gwalchmei manac ditheu ymi pa fford y delwyf. Myn vyngcret heb y marchawc ny wn i fford y dyuot namyn honno. ac ossit ewyllys gennyt ti y dyuot yma dabre yn vuan heb ovyn arnat. Ac yna y doeth cof y walchmei dywedut or meudwy wrthaw. ac erchi idaw na bei un arswyd arnaw yr awelei ar y porth. ac y gyt a hynny yn wir gyffessawl ydoed. ac yn afreityach idaw ofyn angheu. Ac yna ymorchymun aduw aoruc megys dyn a vei ymbronn y angheu. atharaw y varch a dwy yspardun adyuot yr bont. ac yr awr y doeth ef yr bont yr oed yn gyflet hi ac y gallei dwy gertwein ystlys yn ystlys gerdet arnei. A ryued vu gan walchmei gwelet y bont awelsei yn gyn vychanet kynno hynny yn gymeint yr awr honno ahynny. Aphan doeth ef dros y bont honno. ef a welei nat oed haws idaw vynet dros un or dwy ereill. kanys dwfyr kadarnffyryf berwedic aoed yn taraw dan y pynt. ar pynt yn weinyon eu grwndwaleu. ac o ia y gwelit idaw efo eu bot wy. yr hynny callon agymerth ef yndaw a thrwydynt y doeth. Aphan doeth ef y ymyl y porth. edrych y vyny aoruc. ac uwch benn y porth arganuot delw y groc yn lliwyedic o eur ac asur. a delw veir or neill hanner idaw. a delw ieuan or hanner arall. ac ar y tu deheu idaw ef awelei llun angel. yr hwnn aoed ae vys yn dangos y capel. Yn y lle yd oed sein greal yndaw. ac ardal y capel yr oed maen mawrweirthyawc. a llythyr o eur yn ysgriuennedic o bop parth yr maen. y rei aoedynt yn dywedut bot yn gynlanet arglwyd y llys honno o bop pechawt. ac yr oed y maen ynteu o bop bruthni. Gwedy hynny ef a welei llew aruthur yn sefyll ymperued y porth. ac yr awr y gweles ef walchmei. ef a

Digitized by Google

orwedawd ac aroes y benn rwng y deu troet. Aphan weles gwalchmei hynny ef a gyrchawd y porth ac adoeth yr castell heb neb ryw lesteir arnaw. ac a disgynnawd. ac aossodes y daryan ae waew wrth vur y neuad. ac adringawd ar hyt y gradeu yny doeth yr neuad yr honn aoed wedyr liwo o delweu eur. Gwalchmei aedrychawd ar weith y neuad yn graff.

CXXVII.—Megys y bydei walchmei uelly nachaf deu varchawc urdawl yn dyuot o ystafell. ac yn y rassawu yn llawen. Duw adalo ywch heb y gwalchmei. Yna wynt adiosgassant y arueu y amdanaw. ac a ducpwyt dwfyr idaw y ymolchi ymywn cawc alavwr o eur. ac arhynny nachaf dwy vorynyon yn dyuot a dillat idaw oe gwisgaw. ac yn erchi idaw gymryt yn llawen yr hynn aellit idaw yno y wneuthur. kanys yma y mae lletty y milwyr kywiryon. Duw adalo ywch heb y gwalchmei. Yna gwalchmei a weles vot yn gymeint y goleuni yny neuad hyt nos aphettei yr heul yn disgleiryaw. a ryued uu gan walchmei hynny. Pan daroed y walchmei wisgaw y dillat ymdanaw ef awelit y bawp y vot yn dec ac yn vawr y gedernit. Yna y marchogyon urdolyon aovynassant y walchmei a vynnei dyuot y ymwelet ar brenhin. Mynnaf yn llawen heb y gwalchmei. a mi a vynnaf y anregu or cledyf hwnn. Yna wynt ae dugassant ef y ystauell y brenhin. yn y lle yd oed ef yn gorwed. ac nyt reit govyn aoed da y wely. ar glustoc yny ymyl yd oed croes o eur. yn yr ystauell ydoed piler o eur. ac arwarthaf hwnnw yd oed angel. a chroes eur yn y law. a phedwar tors o gwyr yn llosgi yny gylch ogylch.

CXXVIII.—Gwalchmei yna adoeth geyr bronn y brenhin ac agyuarchawd gwell idaw. Ar brenhin a vu lawen wrthaw. Arglwyd heb y gwalchmei mi arodaf ytti y cledyf hwnn. a llyma y cledyf y llas penn ieuan uedydywr ac ef. Duw adalo ytt heb y brenhin mi a wydywn panyw tydi ae dygei ef yma. kanys ny allei na thydi nac arall dyuot yma heb y cledyf. Yna y brenhin ae kymerth ac ae cussanawd. A gwedy hynny ef ae roes yn llaw morwyn aoed yn eisted yny ymyl.

Digitized by Google

ac is traet y wely yd oedynt ereill yny wassanaethu yn uanawl. Pwy heb y brenhin yw dy gyvenw di. Ef am gelwir i gwalchmei arglwyd heb ynteu. Gwalchmei heb y brenhin. y goleuni a wely di yma. duw yssyd yny anuon yni yr yndidanu. y geniuer gweith y del dieithreit attam. aphei gallwn i wneuthur mwy o lewenyd ytti mi ae gwnawn. a mi adigwydeis yn y nychdawt awely di yr pan lettyawd marchawc urdawl yma. yr hwnn y clyweist ymdidan amdanaw yn vynych om tebic i. ac o achaws un parabyl bychan a ysgaelussawd ef y dywedut y syrthyeis i yny nychdawt hwnn. Ac am hynny yd archaf i ytti yr duw dyuot y gof ytt y dylyut vot yn llawen pe gallut roi ym iechyt o hynn. allyma nith ym yr honn yd ys yny didreftadu. ac ny allafi idi hi chweith nerth. ac yssyd yn keissyaw y brawt ar hyt y byt. ac yr ys yn dywedut nat oes yny byt vilwr well noc ef. ac o gwdost ditheu chweith chwedyl y wrthaw yr duw manac ymi. Arglwyd heb yr unbennes diolwch di y walchmei yr enryded awnaeth ef ym mam i. kanys ni agawssam geitwadaeth yn castell y ganthaw. yr ys agos y vlwydyn. a llyma arglwyd y vlwydyn wedy dyuot. ar ryuel yn atnewydhau. ony damweina ymi gael vymràwt ni agollwn yn tir an daear. A unbennes heb y gwalchmei. Pei delwn y le or byt ac y bei dy vrawt yndaw mi adywedwn idawdy anesmwythdra ath amarch. ac nyt yttwyf yn caffael chweith chwedyl diheu y wrthaw. onyt hynn vyndyuot hyt yn lle ydoed brenhin meudwy. yr hwnn aerchis ym gerdet yn araf ac na wnelwn chweith aflonydwch. Ac adywawt bot yno ynglaf y milwr goreu or byt. ac ny mynnei ef dywedut ymi y henw. ami aweleis y varch ef ae arueu. Yna y brenhin adywawt wrth walchmei. Gwalchmei dec heb ef delit dy gof dy rym heno. kanys y mae gennyfi obeith mawr yn dy rym di. Os da gan duw heb y gwalchmei ny wnaf i yma chweith y galler vynggoganu amdanaw. ar hynny ef aaethpwyt a gwalchmei yr neuad. ac yno ef aweles deu arhugein o varchogyon urdolyon. ac ny thybyit wrthunt vot yn gyfoet ac yd oedynt kanys ydoed bop un onadunt yn ganmlwyd o oetran. ac ny thybyei neb wrthunt eu bot

Digitized by Google

yn vwy no deugeinmlwyd bop un. Ac yna wynt arodassant walchmei y vwyta ar vwrd o asgwrn moruil. ac wynteu aeistedassant yn y gylch ynteu. Ac yna y pennaf onadunt adywawt wrth walchmei. Arglwyd heb ef delit dy gof yr hynn a erchis y brenhin ytt. ac ar hynny bwyt a ducpwyt udunt ymywn eurlestri. Ac arhynny ef awelei dwy vorwyn debygei ef yn dyuot or capel. Ac yn llaw un ef awelei y racwerthuawr lestyr yr hwnn aelwit y greal. ac yn llaw y llall y gwelei gwaew. ac o benn y gwaew y gwelei val o wythen gwaet yn digwydaw yn y llestyr. Aphob un onadunt yn dyuot gan ystlys y gilyd hyt geyr bronn gwalchmei. Ac yna gwalchmei aedrychawd ar y greal (ac) ar y gwaew. ae ef a welit idaw vot deu angel a deu dors o gwyr yn llosgi y gyt ac wynt. Ac ar hynny ef ae gwelei yn kerdet geyr y vronn ac odyna yn mynet yr capel drachefyn. a chymeint vu llewenyd gwalchmei ac na doeth cof idaw neb onyt duw. ar marchogyon aoedynt gwedy glassu o ovyn ebryvygu ohonaw y govyn. Ac ar hynny nachaf dwy unbennes yn dyuot or capel hyt geyrbronn gwalchmei. Ac ef awelei vot tri angel yn y lle ny welsei gynno hynny namyn deu. ac awelei ymperued y greal ffuryf mab bychan. Ar pennaf or marchogyon a demigyawd gwalchmei yna yr y rybudyaw. Ac yna gwalchmei aarganuu tri defnyn or gwaet yn syrthyaw ar y bwrd geyr y vronn. Ac ynteu o digrifwch edrych ar y dwywolder hwnnw ny doeth cof idaw dywedut ungeir. ac arhynny y morynyon a aethant ymeith. ar marchogyon aoedynt yn edrych bop un ar y gilyd o vraw. Gwalchmei ynteu heb allel tynnu y olwc y ar y tri defnyn gwaet. a phan geissyawd ef roi y law arnunt wy. wynteu adifflannassant ymeith y ganthaw. Ac ar hynny nachaf y morynyon yn dyuot hyt geir bronn gwalchmei. Ac yna edrych aoruc ef ywch y benn. ac arganuot y greal debygei ef yn yr awyr. ac ar y warthaf yd oed croc uawr a gwr arnei wedy y bwyaw a hoelon a gwaew yn y ystlys. Sef aoruc gwalchmei yna edrych arnaw heb dyuod cof idaw amgen. ar pennaf or marchogyon ae rybudyawd yr

Digitized by Google

eilweith. Ac a dywawt ot arhoei ef mwy na chwplaei eu heissyeu wy vyth. Gwalchmei aedrychawd y vyny heb dyall dim y wrth y marchogyon nar morynyon. Ac ar hynny y morynyon aaethant yr capel ac adugant y greal ganthunt. ar marchogyon abarassant tynnu y llieinyeu y ar y byrdeu. ac aaethant y neuad arall ac a adawssant walchmei ehunan uelly. Yna gwalchmei aedrychawd ar hyt y neuad ac awelei y drysseu yn gaeat arnaw. Ac yn y ymyl ef a arganuu gwely yn barawt a deudors o gwyr yn llosgi. Ac yn ymyl penn y gwely ydoed tawlbwrd ar werin arnei wedy eu gossot. ar neill hanner or werin aoed o asgwrn moruil. ar llall o eur. Gwalchmei adechreuod gware. ac asymudawd un or werin o asgwrn moruil. ar rei o eur a chwareassant yny erbyn. ac uelly y colles ef deu chware. a dechreu y trydyd aoruc y geissyaw dial y gewilyd. Aphan weles ef y chware ef yn waethaf. ynteu agymysgawd y werin. Ac ar hynny nachaf uorwyn yn dyuot o ystauell ac yn erchi y herlot aoed gyt a hi gymryt y dawlbwrd. ae dwyn ymeith. A gwalchmei rac y vlinet a gysgawd ar warthaf y gwely hyt trannoeth pan gigleu gorn yn kanu deirgweith.

CXXIX.—Ar hynny gwalchmei awisgawd y arueu ymdanaw ac a gafas yny gynghor vynet ymeith. achymryt kennat y brenhin aoruc. Aphan doeth tu ac ystauell y brenhin yd oed y drysseu yn gaeat ual na chaffei ef fford ymywn. Ac ef aglywei y gwassanaeth teckaf yny capel. A drwc vu ganthaw na chafas mynet y warandaw yr offeren. Ac ar hynny nachaf vorwyn yn dyuot attaw. ac yn dywedut. Po ny chlywy di y gwassanaeth tec ydys yn y wneuthur o achaws y cledyf adugost di yma. a gwynn oed dy vyt titheu pei gallassut vynet yr capel. ac o achaws ychydic iawn o barabyl na chefeist di vynet yno kanys kynsanteidyet yw y capel. ac na lyfasso offeiryat vynet idaw o bryt nawn duw sadwrn. ohynny hyt duw llun pan gyuotto yr heul. Ac yr hynny ef aglywir yno y gwassanaeth teckaf or a glywspwyt eiryoet mywn capel. A gwalchmei o lit wrthaw ehun nys attebawd hi o ungeir. Ie heb yr un-

Digitized by Google

bennes duw a vo gwarcheitwat arnat beth bynnac a heydyeist yma. kanys mi a debygaf nat arnat ti ydoed y diffic pei cawssoedut gennat oe dywedut. Ar hynny yr unbennes aaeth ymeith. A gwalchmei agigleu y corn eilweith yn canu. ac a glywei lef yn dywedut wrthaw yn uchel. ar ny hanffo or llys honn yma. aet ymeith pa un bynnac vo. kanys y mae y pynt gwedy eu gostwng. ar pyrth yn agoret ar llew yny seler. A gwedy hynny ef avyd reit dyrchafel y pynt. kanys brenhin y castell marw yssyd yn ryuelu ar y brenhin hwnn. or achaws y daw y angheu idaw.

CXXX.—Ar hynny gwalchmei aaeth allan or neuad. ac a gafas y varch yn barawt gwedyr gweiryaw. ac esgynnu ar y varch aoruc a dyuot dros y pynt y rei nyt oedynt tebic yr nos gynno hynny. A marchogaeth aoruc ef gan ystlys yr auon yr honn aoed yn redec drwy y glynn. ac odyno ef adoeth y fforest vawr. ac adisgynnawd arnaw glaw mawr a chenllysc a tharaneu. ual y tebygit idaw efo vot y gwyd yn digwydaw. ac yn diwreidyaw or dayar. ac yny vu reit idaw roi y daryan ywch y benn. ac uelly marchogaeth yn yr anesmwythdra hwnnw aoruc ef gan ystlys yr auon yny weles llannerch dec. ar heul yn disgleiryaw arnei. ar awyr yn lan ywch y phenn. Ac ar hynny ef awelei uarchawc yn marchogaeth yn ebrwyd ac yn hard aphedeir gerlont o eur am y benn. ac unbennes dec ygyt ac ef. a deu vytheiat yn eu hol wynteu. A ryued uu gan walchmei y gwelet yn hinda or tu arall yr avon fford yr oedynt wy yn marchogaeth. ar dymhestyl ar glaw fford yr oed ynteu. Ac ny allei ef y ofyn udunt rac pellet oed ryngthunt. Ac arhynny ef awelei was yr marchawc yn kerdet yn nes idaw. A unben heb y gwalchmei. Paham ymae yn law y tu yman yr avon. ac yn hinda y tu ac attat titheu. Arglwyd heb y gwas am y haedu o honat ti. ac aruer y fforest heuyt yw hwnnw. A bery hitheu yn emawr ual hynn heb y gwalchmei. Pery hyt y bont nessaf a gyfarffo athi.

CXXXI.—Ar hynny y gwas ae gedewis ef. a gwalchmei auarchockawd yny glaw ar kenllysc yny doeth yr

Digitized by Google

bont. a thros y bont y doeth ef. ac yna roi y daryan yn iawn. a marchogaeth yny doeth y gastell yny lle yd oedynt llawer oboploed yn chware ac yn canu. Gwalchmei adisgynnawd. eissyoes ny welei ef neb yny rassawu yno. nac yn dywedut ungeir wrthaw. Gwalchmei aymdangosses y bawp o bop parth idaw. ac ny welei ef neb a didorei y wrthaw. Ac yna ynteu a vedylyawd nat oed da idaw drigyaw na gohir yno haeach. ac adaw y castell aoruc. a chyuaruot a marchawc urdawl ar y porth. a govyn idaw pa ryw gastell oed hwnnw. Ponysgwdost di heb ynteu. castell y llewenyd yw hwnn. Mynvyngcret heb y gwalchmei ys drwc y dysgassant wy vot yn llawen. Ny cholles y castell yr hynny heb y marchawc. nac wynteu eu corteissi. kanys tydi a haedassut hynny. ac a welsant heuyt dyuot yn dyuot drwy fforest beriglus y fford y rei trwch. ac y mae y arwyd ar dy varch ath arueu. Ac ar hynny y marchawc aaeth ymeith. a gwalchmei a uarchockaawd yn drist ac yn aflawen. yny doeth y dir oed diruawr y sychet. athlodi o bop da yndaw. ac arganuot castell oe vlaen aoruc. a dyuot y mywn aoruc. a disgynnu aoruc geyr llaw y neuad aoruc. ar yr honn yr oed arwydyon tlodi yn uawr. Ac ymywn y doeth gwalchmei. ac ar hynny ef awelei varchawc urdawl ac ychydic o dillat drwc ymdanaw. yn disgynnu ar hyt pont grech ywaeret. Arglwyd heb ef wrth walchmei. grassaw duw wrthyt. ac odyna yr neuad y doethant. ac arhynny nachaf dwy vorynyon ieueingk yn dyuot o ystauell yn odlawt o dillat. ac yn kyuarch gwell y walchmei. ac ual y bydynt wy yn ymdidan uelly. nachaf uarchawc urdawl yn aruawc yn dyuot ymywn. gwedy y daraw a gwaew trwydaw. Aphan weles ef walchmei ef ae hadnabu. ac a dywawt wrthaw. Arglwyd yr duw nac ymdiarua oric. Yr awrhonn y doethum i y wrth lawnslot dy lac. ac y mae ynteu etto ynymlad a phedwar marchawc urdawl o herwyr yssyd yn y fforest racko. Ac yn tybyeit y maent wy panyw tydi yssyd yno. ac y mae un onadunt gwedy y lad. Ac wynt a henynt o genedyl y rei a ledeist di yn y pebyll y lle y

Digitized by Google

gwaredeist di yr aruer drwc. Ac yna gwalchmei a esgynnawd ar y varch yn aruawc. Arglwyd heb y marchawc myui aawn yth gymhorth di pei arhout ym wisgaw vy arueu.

CXXXII. — Gwalchmei yna agerdawd racdaw o nerth traet y varch. ac adoeth yr fforest ac aarganuu gwaet y marchawc fford y kerdassei ar draws y gwellt. marchogaeth aoruc ef yny doeth lle y clywei dyrnodeu pob un onadunt ar y gilyd. Ac arhynny arganuot aoruc gwalchmei ymwyn llannerch y tri marchawc. ar pedweryd yn uarw. ac un or tri heuyt aoed ar y llawr heb allel mwy or ymlad. kanys y marchawc adathoed ar chwedleu y walchmei ae brathassei yn drwc. Ar deu ereill aoed yn ymlad yn ffest a lawnslot. ac ynteu gwedy blinaw yn uawr o achaws y dyrnodeu arodassei ac aerbynnassei. Ac arhynny gwalchmei adrewis un trwydaw yny vyd dan draet y varch yr llawr. Pan wybu lawnslot aoed yno diruawr lewenyd avu y ryngthunt. athra vuant wy yn ymgaru y pedweryd or marchogyon affoawd. Ac yna gwalchmei adywawt wrth lawnslot vot y lletty tlottaf or awelsynt eiryoet. ar morynyon teckaf. ac heb dim dillat udunt. ac am hynny ni adygwn udunt yn ennill ni. Gwnawn yn llawen heb y lawnslot. namyn drwc yw gennyfi diangk y marchawc arall y gennym. Pa drwc heb y gwalchmei. ni aallwn vot ar hynn wers. ymchoelut drachefyn tu ar castell tlawt aorugant. a disgynnu. Ar marchawc tlawt ar dwy unbennes adoethant yny herbyn. a lawnslot a gwalchmei aerchis udunt gymryt y meirch ar arueu. a gwneuthur avynnynt ohonunt. ar marchawc ae diolches udunt. ac adywawt eu bot yn digawn eu kyuoethocket bellach.

CXXXIII. — Odyna wynt adoethant yr neuad. a gwas or ty a gweiryawd y meirch. ar morynyon ae kymhorthassant wynteu o diosc eu harueu y amdanadunt. Arglwydi heb y marchawc bioed y castell myn vyngcret heb ef nat oes gennyfi. chweith dillat y gallewch eu gwisgaw. kanys nyt oes ym dim onyt vympeis. Truan vu gan walchmei alawnslot eu tlottet. Ac yna

Digitized by Google

y morynyon a dynnassant eu swrcodeu y rei oed ar warthaf eu crysseu. ac ae kynnigyassant udunt oe gwisgaw. ac nys gwrthodassant wynteu rac tybyeit onadunt panyw yr amarch arnadunt y gwrthodynt. Ac am hynny eu gwisgaw awnaethant. A llawen vu gan y morynyon hynny. Arglwydi heb y marchawc tlawt. y marchawc adoeth yma ar chwedleu y walchmei neut marw. ac y mae gwedy y estynnu yny capel. ami abereis gyrchu meudwy oe gyffessu. ac oe gymunaw. ac ef aerchis ymi ych annerch chwi drwy adolwyn ywch uot auory wrth y anglawd. kanys gwell no chwchwi ny allei ef eu kaffael oe ganhebrwng. Yn wir heb y lawnslot llyna ovit mawr vu y golli ef. Adrwc yw gennyf na ovynneis y henw. ac o bale yd hanoed. Arglwyd heb y gwalchmei. ef adywawt y gwybydut ti yn ehegyr pa un oed ef. Gwalchmei a lawnslot avuant yno y nos honno. Aphan vu dyd drannoeth wynt aaethant yr capel y warandaw offeren. ac agymhorthassant y corff oe gladu. A gwedy hynny wynt a gymerassant eu kennat y gan y marchawc ar unbennesseu. Arglwyd heb y lawnslot wrth walchmei. ny wys yn y llys un chwedyl y wrthyt. ac y mae llawer yn tybyeit dy varw. Myn vyngcret heb y gwalchmei mi aaf tu ac yno. kanys blin wyf alludedic. ami aorffowyssaf yno yny del ewyllys ym o newyd y geissyaw anturyeu.

CXXXIV.—Yna ef avanagawd y lawnslot padelw yr ymdangosses y greal idaw yn llys brenhin peleur. apha delw yr ebryvygawd ovyn beth aarwydockaei. Arglwyd heb y lawnslot avuost di ynwir yno. Bum myn vyngcret heb y gwalchmei. ac am hynny llawen wyf athrist heuyt. Llawen wyf am welet y dwywolder yssyd yno. trist wyf am ebryvygu ohonaf yr hynn adaroed yr brenhin vy rybudyaw amdanaw. Arglwyd heb y lawnslot y mae arnafi chwant mawr y vynet yno. Myn vyngcret heb y gwalchmei iawn awney. kanys ef am hanrydedwyt i yno yn vawr iawn. ami a debygaf vynggoganu heuyt. Hyfryt yw gennyfi eissyoes vot y milwr aoed well no mi yn vymblaen. ae oganu ynteu yngymeint a minneu. Yna pawb agymerth kennat y

Digitized by Google

gan y gilyd onadunt. Aphob un aaeth oe fford heb ymdidan mwy. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am walchmei ac yn trossi ar lawnslot.

CXXXV.—Ema y mae y kyvarwydyt yn menegi marchogaeth o lawnslot yny gyuaruu marchawc ac ef yny fforest yn marchogaeth yn wrd ac abrys mawr arnaw ac yn aruawc o bop arueu. Ac yna gofyn aoruc ef y lawnslot o ba le ydoed yn dyuot. A unben heb y lawnslot o lys arthur. Arglwyd heb ef. awdost di un chwedyl y wrth marchawc atharyan werd idaw megys y meu inneu. Paham y govynny di efo heb y lawnslot. Am y vot yn vrawt ym heb ynteu. Pwy y henw ef heb y lawnslot. Arglwyd heb ynteu ef aelwir gladonius. a oes yth wlat ti neb. ar kyffelyb honno namyn tydi. Nac oes heb y marchawc. Aphaham y govynny di ef heb y lawnslot. am vot ereill yny didreftadu heb ynteu. a gwedy dwyn castell y ganthaw yr pan aeth ymeith orwlat yd hanoed. Ami awn y keiff ef drachevyn drwy y vilwryaeth da. Ae kystal milwr efo a hynny heb y lawnslot. Kystal arglwyd heb y marchawc. a goreu oed ef o ynys y corsyd. Yr y vwyn ef heb y lawnslot diosc dy helym. adangos ym dy wyneb. Mi awnaf yn llawen heb y marchawc. ac yna dangos y wyneb idaw. Myn vyngcret heb y lawnslot nat wyt anhebic idaw. Arglwyd heb ynteu awdost ditheu un chwedyl y wrthaw ef. Gwnn heb y lawnslot. ami adylyaf y dywedut ytt. ef a varchockaawd doe y gyt ami seith milltir. a thebic iawn yttiw ytt. Iawn heb y marchawc oed debygu pob un y gilyd ohonam. kanys deu vroder ym. Ygyt ahynny y mae yn y garu y wreic deckaf o ynys y corsyd. ac nysgweles yr ys blwydyn. kanys y mae yn kerdet pob lle y ennill clot ac enw. ac yr duw arglwyd dywet ym pa le y kaffaf y welet. Ynwir heb y lawnslot mi ae dywedaf yn doluryus iawn. Paham heb y marchawc awnaethost di chweith drwc idaw ef. Efo awnaeth yrofi gymeint ac y carwyf ef heb y lawnslot. ac etto unben mi ae diolchaf idaw os gallaf beth oc awnaeth yrof. ami adoethum hediw y bore y wrth y gorff. ac a vum wrth y gladu. Och

Digitized by Google

arglwyd. ae gwir y dywedy di heb y marchawc. Gwir mynduw yssywaeth heb y lawnslot. ac ef amkymhorthes i amdiffyn vy eneit. Aminneu ae diolchaf yttitheu herwyd ual y gallwyf y kwrteissi hwnnw. Arglwyd heb y marchawc os marw vu ef. mawr a ovit yw hwnnw ymi. kanys mi a golleis vy llewenyd amkynheilyat. athref vyntat. ac ygyt a hynny heb obeith oe gael vyth. Arglwyd heb y lawnslot efo am kymhorthes i am gael vy eneit. Minneu ath gymhorthaf ditheu am gael dy dir. Aphan gigleu ef yn hyspys varw y vrawt. ef adechreuawd dryckyssyryo yn gymeint ac na allei neb y didanu. Peit heb y lawnslot ath dryckyssyryo uelly. a gollwng hynny bellach drosgof. ami arof vyngcorff am milwryaeth drossot ti ympop lle or y bo reit ytt wrthyf. Arglwyd heb y marchawc duw adalo ytt dy garyat am gynnic ym dy wassanaeth. kanys reityach yw ym yr awrhonn noc eiryoet. Myn vyngcret heb y lawnslot myui aaf ygyt athydi fford y mynnych. ac a rodaf vyngcorff drossot ymperigyl or byd reit ytt. yn gynhytret ac y rodes ynteu drossof inneu.

CXXXVI.—Marchogaeth yna ygyt awnaethant yny doethant yr corsyd. Ac ar hynny nachaf gastell ar greic yn ymdangos udunt. A gweirglodyeu tec ydanaw. Arglwyd heb y marchawc wrth lawnslot. y castell racko a vu eido vymrawt i. Ar marchawc aeduc ef yganthaw yssyd gyn greulonet. a chyn hyet oe gorff. ac nat oes arnaw ovyn neb or byt. athi ae gwely ef yr awrhonn yn dyuot allan yr awr yr arganffo ef ni. Ac yna marchogaeth awnaethant yny doethant yn agos yr castell. Ac oe blaen wynt awelynt yn dyuot ar hyt fford herlotwas ar gevyn hacknei. ac y ryngthaw ar goryf ydoed twrch coet yn uarw. Yna y marchawc ar daryan werd idaw aovynnawd y bwy yd oed gwr ef. Ac ynteu adywawt panyw gwr oed ef y arglwyd castell gladonius. Ac y mae ynteu yn dyuot ym ol i. ar y drydyd o varchogyon urdolyon yn aruawc. kanys brawt gladonius yssyd yny vegythyaw ef oachaws y vrawt. eissyoes nyt mawr iawn y ovyn ef yr hynny. Yna lawnslot agigleu panyw gelyn y marchawc aoed yn

Digitized by Google

dyuot yn eu hol. Yna y marchawc ar daryan werd a dangosses y elyn yr awr y gweles. ac adywawt wrth lawnslot. Arglwyd heb ef. weldy racco y gwr yssyd ym didreftadu i. ac ef awnaei ym waeth no hynny pei gwypei varw vymrawt. Yna lawnslot heb dywedut mwy pan y gweles ef yr arglwyd. ef a vrathawd y varch yny erbyn a dwy yspardun. Ac yna y marchawc urdawl adoeth yny erbyn ynteu. ac a ymgyhyrdassant o nerth traet eu meirch yny dorrassant eu pelydyr. namyn y marchawc or castell a syrthyawd dros bedrein y varch yr llawr. A lawnslot yna a disgynnawd. ac adynnawd y gledyf. ar marchawc aerchis y nawd. ac aovynnawd y lawnslot paham y keissyei y lad. Ac yna lawnslot adywawt panyw o achaws gladonius. yr hwnn y dugost y gastell ae dreftat y ganthaw. Beth aberthynei efo yti heb ef. y gymeint arall ac aberthyn ynteu y minneu. Yna lawnslot adorres y benn ef. ac ae roes yr marchawc. Dywet ym bellach heb y lawnslot. kanys marw yw. a wneuthum i dy ewyllys di. Gwnaethost arglwyd heb ef. kwbwl oe holl genedyl yssyd wedyr blygu drwy y angheu ef. a minneu awarantaf heb y lawnslot. na bydy di mywn perigyl o eisseu cael ne vy nerth i.

CXXXVII.—Lawnslot agysgawd y nos honno yngkastell gladonius gwedy daruot idaw peri yr marchawc kwbwl oe dir ae daear wrth y ewyllys. Aphawp yn gwrhau idaw. Aphanwybu pawp or wlat varw gladonius ef a vu drwc ganthunt. Lawnslot drannoeth aaeth ymeith. ar marchawc adrigyawd yno. A marchogaeth aoruc lawnslot yn hyt y dyd drwy y fforest. yny gyfaruu ac ef marchawc urdawl yn marchogaeth ae ogwyd ar goryf y gyfrwy a chwynuan uawr y ganthaw. rac meint y dolur. Arglwyd heb ef wrth lawnslot. yrduw ymchoel drachevyn. kanys y mae yna oth vlaen y fford waethaf aphericlaf or yssyd yn yr holl vyt. kanys yno myui agefeis vymbrathu trwydof mal y gwely di. Pa ryw le yw hwnnw heb y lawnslot. Arglwyd heb ynteu ef aelwir castell y baryfeu. ar neb ael yr fford heb y castell ef avyd reit idaw adaw y

Digitized by Google

varyf yno. neu ynteu ymlad hyt ar angheu dros y varyf. ac oachaws ymlad ohonafi dros vym baryf y kefeis i hynn. Myn vyngcret heb y lawnslot tebic yw gennyf nat wyt wr llwfyr. pan vei well gennyt. amdiffyn dy varyf drwy enryded noc ovyn angheu. Eissyoes tydi avynnassut vynggwneuthur i yn wr llwvyr. pan vynnassut ymchoelut ohonafi drachevyn. eissyoes ys oed gwell gennyf vy marw drwy enryded no thynnu un o vlew vymaryf y gennyf drwy gewilyd. Arglwyd heb y marchawc duw ath dihango rac drwc kanys creulonach yw y castell noc y tebygy di. a duw adanuono yno ryw dyn aallo diua yr aruer drwc yssyd yno. Ac arhynny ymwahanu aorugant. a dyuot aoruc lawnslot tu ar kastell. A gwedy mynet ohonaw dros bont vawr. ef aedrychawd oe vlaen. ac a arganuu deu uarchawc urdawl yn aruawc ar eu meirch adeu ysgwier yn daly eu gwaewyr yn eu hymyl. Ac yna lawnslot aedrychawd ar porth y castell. ac ef awelei y doreu yn llawn o varyfeu gwedy eu taraw a hoelyon heyrn wrthunt. aphenneu llawer o varchogyon urdolyon yngcroc uchbenn y porth. A megys yd oed ef yn gadaw y porth y deu uarchawc adoeth yny erbyn. ac un onadunt adywawt wrthaw. Arglwyd heb ef tal dros dy fford kynn dy vynet heibyaw. Paham heb y lawnslot ae velly y tal pawp or ael yma. Ie heb wynteu y sawl y bo baryf idaw ef ae tal. ar sawl nybo. aet yn ryd. Tydi eissyoes adely dros y teu di. kanys mawr iawn yw. a reit yw y ninneu wrthi. Y ba ryw beth heb y lawnslot. y wneuthur peissyeu rawn yr meudwyeit yssyd yn y fforest yman. Myn vympenn heb y lawnslot ny chaffant wy un beis om baryfi. Kaffant heb y marchogyon. neu ynteu ef a vyd ediuar gennyt. Lawnslot yna a ymgyffroes o lit wrth un or marchogyon ac ae trewis ae waew ymperued y dwy vronn yny vyd ef ae varch yr llawr. Aphan weles y marchawc arall y gedymdeith yn varw. ef adoeth att lawnslot. ac ynteu ae herbynnyawd yny mod y bu reit yr marchawc hwnnw heuyt syrthyaw dros bedrein y varch yr llawr. Ac ar y cwymp hwnnw torri y vordwyt. Ar chwedleu

Digitized by Google

hynny aaeth att arglwydes y castell. a dywedut idi vot milwr allan yn llad y marchogyon urdolyon. Ahitheu adoeth yno adwy oe llawvorynyon gyt ahi. ac a arganuu lawnslot yn mynnu gorffen llad y marchawc arall. A unbenn heb hi wrth lawnslot. pwylla ychydic ac na lad y gwr. a disgyn y ymdidan ami. Arglwydes heb yr un or morynyon. mi ae hatwaen ef. lawnslot dy lac yw. Yna disgynnu aoruc ef adyuot geyr bronn yr arglwydes. A unbennes heb ef. beth areyngk bod ytti. Mi avynnaf heb hi dyuot ohonat ym castell i y lettyu heno. ac y wneuthur iawn ym dros y kewilyd ar mileindra awnaethost. Arglwydes heb ef ny wneuthum i dim kewilyd eyrmoet. ac nysgwnaf vyth. Eissyoes dy varchogyon di a ymyrrassant ar gewilyd mawr. pan vynnynt dwyn baryfeu gwyr dieithyr y ganthunt y dreis. Mi avadeuaf ytt awnaethost ym heb hi drwy amot dy dyuot titheu y lettyu heno ygyt ami. Arglwydes heb y lawnslot ny mynnaf i gael dy anuod di dros wneuthur dy ewyllys di yn gyntaf. Yna ydaeth ef yr castell gyt ahi. aphery dwyn y varch yny ol. ahitheu aberis dwyn y marchawc urdawl ymywn oe amdoi. A gorchymyn medeginyaethu y llall aoruc hi. Apheri tynnu y arueu y am lawnslot. a dwyn gwisc aduwyndec idaw oe gwisgaw. a dywedut wrthaw y gwydyat hi pa un oed ef. Tec adigrif yw gennyfi hynny heb y lawnslot. Ac yna y eisted yd aethant ac y vwyta. Ac y gyt ar anrec kyntaf y doethant marchogyon urdolyon y rei adaroed torri eu dwylaw. ac a gevyneu arnunt. Ac ar ol yr eil anrec y doethant marchogyon gwedy tynnu eu llygeit oe penneu. a gweissyon yn eu tywyssyaw wynteu. Ac ar ol y dryded anrec y doethant marchogyon urdolyon heb un llaw namyn un y pob un onadunt. ac ar ol y bedwyred anrec y doethant marchogyon wrth eu huntroet. Ac arol y bymhet anrec y doethant marchogyon urdolyon yn vonedigeid o dillat tec. ac yn wyr aduwyndec. ac yn llaw bop un onadunt yr oed gledyf noeth. ac yn y gynnic yr arglwydes o dorri eu penneu. Lawnslot yna aedrychawd arnunt ac ny bu hoff ganthaw aruer y lletty hwnnw.

Digitized by Google

Ar hynny y kyuodassant o vwyta. ar unbennes agymerth lawnslot ac ae duc y ystauell dec. Lawnslot heb hi ti aweleist y gyfreith ar arglwydiaeth yssyd yn vyngcastell i. a chwbwl or marchogyon urdolyon aweleist di aruuwyt arnynt ar y fford racko geyr bronn y porth. Arglwydes heb y lawnslot aflwydyannus y daruu udunt. velly y daruuassei yttitheu pei na bei dy vot yn uarchawc da. Eissyoes mi avum yth damunaw di yr ystalym achanys kefeis i dydi yma mi a vynnaf ohonat ti dy wneuthur yn arglwyd arnafi ac ar vyngcastell. Arglwydes heb y lawnslot hoff yw gennyf yr arglwydiaeth. a thitheu ny dylyaf ywrthot. namyn mi a vydaf yn dy wassanaeth di. Gan hynny heb hitheu ti adrigyy yma y gyt ami. kanys nyt oes yn vyw gwr a garwyf yn gymmeint athi. Arglwydes heb y lawnslot duw adalo ytt. ac ny allafi drigyaw yn unlle. namyn un nos yny vwyf yn y lle yr edeweis vot yndaw. Pale yw hwnnw heb hi. Yngcastell brenhin peleur heb ynteu. Mi aatwaen y castell heb hi. ar brenhin bieu aelwir mesior. Ac y mae yn nychu o achaws deu uarchawc urdawl. y rei ny wnaethont y govyn ual y dylyassant. Ae yno ymae yth vryt ti vynet. Ie heb y lawnslot. Gan hynny ti a warenty ym y deuy fford yma os y greal a ymdengys ytt. ac or gwney ditheu y govyn. Mi awnaf yn llawen heb ynteu pei ron dy vot y tu hwnt yr mor. Ti aelly y wrantu yn hy heb yr un o vorynyon yr arglwydes pan ymdangosso ytti. kanys nyt ymdengys y greal y wr kyn anghywiret athydi. kanys tydi yssyd yn caru y vrenhines. nyt amgen no gwreic dy arglwyd. athra vo y caryat hwnnw yn gorwed yth gallon di. nyt ymdengys y greal ytt vyth. Ac yna lawnslot a wynebgochawd o lit wrth y vorwyn. am y alw yn anghywir oe arglwyd. Ae caru arall yr wyt ti heb yr arglwydes yn vwy no myui. Arglwydes heb y lawnslot y vorwyn yssyd yn dywedut y hewyllys. Ar hynny yd aethant y gysgu. allidiawc vu lawnslot y nos honno wrth y vorwyn ae kerydod ef ar vrenhines am eu ffol garyat. Athrannoeth y kymerth ef gennat gan yr arglwydes gwedy

Digitized by Google

daruot idaw warandaw offeren. Ar arglwydes aerchis idaw dyuot yny gof yr amot aoed yryngthunt. Ac ynteu adywawt y gwnaey yn llawen.

CXXXVIII.—Ac ar hynny yr aeth ef drwy gennat pawb or castell. ac yr fforest y doeth ef yr honn oed vawr a meith. A marchogaeth aoruc yn hyt yny gyfaruu ac ef croes dec uchel ar drws mynnwent. yr honn aoed yn llawn o vedeu. ac yn gaeedic o gae drein yny chylch ogylch. ar nos aoed wedy rydyuot. ac yr vynnwent y doeth ef. ac arganuot canwylleu yn llosgi aoruc. a thu ac yno y doeth ef. A cherdet heb gorr yr hwnn aoed yn cladu pwll. a cherdet heibyaw awnaeth heb dywedut un geir wrthaw. Lawnslot heb y corr iawn awney di vynet heibyaw heb gyuarch gwell ym. kanys tydi yw y marchawc or wlat anhoffaf gennyf yn y byt. a duw awnel ym gaffael vynggwynvyt ar dy gorff. Lawnslot agigleu y corr ac ny bu wiw ganthaw y atteb. ac yr capel y doeth ef gwedy rwymaw y varch. a roi y waew ae daryan wrth y mur. ac arganuot morwyn ieuanc yn amdoi marchawc marw aoed yno. Ac yr awr y doeth ef y mywn y dechreuawd gwelieu y gwr marw redec. Ac yna y vorwyn aroes teir diaspat. Och arglwyd heb hi yr awr honn y gwnn i panyw tydi aladawd y gwr hwnn. Ac ar hynny nachaf deu uarchawc urdawl yn dyuot. ac ygyt ac wynteu deu uarchawc ereill yn uarw. ac eu dwyn yr capel aorugant. Ac yna y corr a lefawd ac adywawt. Yr awrhonn y gwelir pa delw y dialawcb chwi ar ych gelyn. yr hynn awnaeth. ac ynteu gwedy dyuot attawch. Ar marchawc urdawl affoassei pan doeth gwalchmei att lawnslot aoed yno. ac a dywawt wrth lawnslot. Oth achaws di heb ef y llas y trywyr hynn. Gwir adywedy di heb y lawnslot kanys wynt ahaedassant eu hangeu. Ac o vywn yr capel nyt reit ymi awch ovyn chwi. nac or capel nyt afinneu heno yny vo dyd. a drwc vu ganthaw vot y varch heb vwyt. ac yno y bu ef hyt trannoeth. Aphanweles ef y dyd ef agymerth y arueu ac ae gwisgawd. ac aaeth ar y varch. Ac yna y corr alefawd ar y marchogyon. Pa beth heb ef ae gadel

Digitized by Google

awch gelyn y vynet ymeith ual hynn. Ac ar hynny yd esgynnassant wynteu ar eu meirch. a dyuot awnaethant ar deuborth y vynnwent. gan dybyeit bot lawnslot ae vryt ar ffo. Eissyoes nyt oed arnaw ef un chwant y ffo. namyn ymgychwyn drwy ymgyffroi. a chyfarvot ac un onadunt yr hwnn aoed yngwarchadw y porth fford y dylyei ef vynet. ae daraw awnaeth yny vyd y waew trwydaw megys drwy ridill. ac yny vyd ynteu yn varw yr llawr. ar marchawc arall pan weles hynny nyt ar dial y gedymdeith y roes ef y vryt. namyn ar ffo gyntaf ac y gallawd. Yna lawnslot a gymerth march y gwr marw ac ae gyrrawd oe vlaen. drwy uedylyaw y kyfaruydei ac ef ryw varchawc. y bei reit idaw wrthaw. a marchogaeth awnaeth ef yny doeth y ty meudwy yny fforest. a disgynnu aoruc apheri ystablu y veirch. ar meudwy aroes udunt y ryw ebran ac aoed ganthaw ef. A lawnslot awarandawawd offeren yno. A gwedy hynny ef a vwytaawd ac aaeth y gysgu ychydic. Ac ar hynny ef adoeth marchawc urdawl yr ty a lawnslot wedy disgynnu. Arglwyd heb ef y pa le yr ey di odyma. Mi af heb y lawnslot yr lle y mynno vyn damweinyaw. A thitheu pa le y mae yth vryt vynet. Arglwyd heb ef mi af y ymwelet a brawt ym ac a dwy chwiored y rei a dywetpwyt ym eu bot ac anghyflwr arnunt yngymeint ac y gelwir ef y marchawc urdawl tlawt. Yn wir heb y lawnslot tlawt yw ef. ac ysmawr a drueni oed y vot ef yn tlawt. ac a wney di vy neges i wrthaw ef. Gwnaf yn llawen arglwyd heb y marchawc. kan gwney ditheu duc di idaw ef y march hwnn y gan lawnslot. ac yn arwyd ytt ar hynny. ef am llettyawd i vi a gwalchmei nosweith. Duw adalo ytt heb y marchawc. kanys awnel yr gwr da ny chyll dim ar hynny. Annerch y gennyfi heb y lawnslot y marchawc ar dwy unbennes. Mi awnaf hynny yn llawen heb y marchawc. Ac ar hynny lawnslot aroes y march att y marchawc. ac ynteu ae roes ef att ysgwier idaw.

CXXXIX.—Lawnslot ar hynny aaeth ymeith. a marchogaeth aoruc yny doeth odieithyr y fforest. a dyuot y dir daruodedic tlawt o bop da. ar tir hwnnw

Digitized by Google

aoed uawr ac ehalaeth heb nac adar nac aniueilyeit yndaw. Lawnslot yna aedrychawd oe vlaen ac aarganuu dinas ar gynnwll y wrthaw. A dyuot tu ac yno kyntaf ac y gallawd aoruc. Ac ef awelei y dinas hwnnw yn uawr ac yn ehalaeth. ac yn amgyffret llawer o dir adaear. Ar mur aoed gwedy syrthyaw yn llawer o leoed arnaw. ar pyrth yngwyryaw o heneint. a dyuot aoruc ef ymywn yr dref yr honn oed wac o dynyon. ar mynwennoed yn llawn o vedeu. ar eglwysseu yn wedw. A marchogaeth aoruc ef yny doeth y lys vreinyawl. a cheyr llaw honno sefyll aoruc ac yno ef a glywei gwynuan gan wyr a gwraged. Ac yn dywedut yr oedynt. Och arglwyd dygyn a thruan yw bot yn reit ytt vynet y diodef dy angheu yny mod hwnn. ac na ellir dy amdiffyn rac dy angheu. a ni adylyem gassau y neb yn barnwyt ni ual hynn oe achaws. ar hynny y clywei ef wyntwy yn ffustaw eu dwylaw y gyt. A ryued uu ganthaw eu clywet velly ac na welei neb. Ac ar hynny ef awelei marchawc urdawl yn dyuot a chotardi o scarllat coch ymdanaw. a gwregis o sidan a gemeu eur amdanaw. A chae mawrweirthyawc ar y dwyvronn a mein mawrweirthyawc yndaw. achoron oeur am y benn. a bwyall eurllec yn y law. Ar marchawc yn dec ac yn ieuanc. Lawnslot yna aedrychawd yn llawen arnaw. Yna y dywawt ef wrth lawnslot. Arglwyd heb ef disgyn yr llawr. Yn llawen unben heb y lawnslot adisgynnu aoruc. a ffrwynglymu y varch y mywn modrwy oeur aoed yny mur. athynnu y daryan y am y vynwgyl ae waew ac eu roi ar y llawr. Arglwyd heb y lawnslot beth a vynny di bellach. A unbenn heb y marchawc ef a vyd reit ytt torri vympenn i ar vwyall honn. neu ynteu myui a dorro y teu di. kanys yn y mod hwnnw y barnwyt arnaf. Ef a vydei ffol heb y lawnslot y neb ny medrei ethol idaw ehun y goreu or deu dewis hynn. Ac yr hynny ualkynt ef am gogenir o lladafi dydi heb wneuthur ohonat chweith drwc ym. Yn lle gwir heb y marchawc uelly y byd reit ytti y wneuthur. Arglwyd heb y lawnslot paham y deuy di yn gyndecket ac yn gynwrolet a hynny y gymryt dy

Digitized by Google

angheu. kanys ti aelly wybot y lladafi dydi yn gynt noc y lledy di vyui herwyd dy amot ti. Mi a wnn hynny heb y marchawc. yr hynny ual kynt. titheu awarenty y minneu kynn vy marw ar dyuot yma ar benn blwydyn y hediw y roi dy benn oe dorri yn y mod y rof inneu y titheu hediw. Myn vyngcret heb y lawnslot nyt oes amot nys gwnelwyf yr cael yspeit ymhoedyl. Eissyoes ryued yw gennyfi dy dyuot ti yn gyn gyweiryet ac ydwyt y odef dy angheu. Arglwyd heb ynteu y neb ael geyr bronn y iachwyawdyr ef a dyly bot yn lan ac yn bur oe bechodeu. ac uelly yrwyfinneu yn wir ediueiryawc. ac yny pwynt yma y mynnafinneu odef vy angheu. Ac yna yd estynnawd ef y vwyall. a lawnslot ae kymerth yny law. Arglwyd heb y marchawc. dyrchaf dy law tu ar capel racko. Yn llawen heb y lawnslot. Twng di y duw ac yr creireu yssyd racko y bydy di yma ar benn blwydyn y hediw neu ynteu rwng hynn a hynny y ossot dy benn yny mod ydwyfinneu yny ossot y titheu. Ac yna lawnslot adyngawd ual yd erchis. Ac ar hynny y marchawc a ostyngawd ar dal y deulin. A lawnslot a gymerth y vwyall yn y dwylaw. ac a dywawt. a unbenn heb ef tosturya wrthyt dy hun. Mi awnaf yn llawen heb ef drwy roi ohonat dy benn oe dorri. ac ony byd hynny ny allafi dosturyaw. Ie heb y lawnslot myui ath nackaaf di ohynny. ac ar hynny gossot arnaw aoruc ef a thorri y benn. a thaflu y vwyall yn vuan oe law aoruc a medylyaw bot yndrwc hirdrigyaw yno. a dyuot att y uarch ac esgynnu arnaw. ac edrych draegevyn. ac ny welei ef dim nac or corff nac or penn. ac ny wybu beth adaruu idaw. namyn hynn. ef aglywei gwynuan uawr a llefein gan arglwydi ac arglwydesseu yn kwynaw y marchawc. ac yn dywedut y dielit hynny pan delei y amser. ac yna lawnslot aedewis y dinas hwnnw. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am lawnslot. ac am y rei or dinas ac yn trossi ar baredur.

CXL.—Ema y mae yr ymdidan yn dywedut bot paredur yn gorffowys gyt ar brenhin meudwy. yr hwnn aelwit brenhin peles. a hynny o achaws ychydic

Digitized by Google

o gleuyt aoed arnaw. yr pan dathoed o lys brenin peleur. Ac megys yr oed y meudwy hwnnw diwarnawt gwedy mynet yr fforest. ef a gyuodes paredur y uyny ac a ymgigleu y uot yn iach ac yn alluawc o gorff a chedernit. a chlybot a wnaeth ef yr adar yn canu a gwelet y dyd yn dec. A dyuot awnaeth cof idaw yr amryuaelyon anturyeu agyuaruuassei ac ef gynt yn y fforestyd gan varchogyon ac unbennesseu. a chwant adoeth idaw yna y brofi y gorff. ac rac hyt y buassei ef yn gorwed ydoed y gallon yny gyffroi ef y wisgaw y arueu. a roi y gyfrwy aoruc ef ar y uarch. a gwediaw duw ar damwheinyaw idaw o antur ymgyfaruot a marchawc urdawl da grymus. Ac adaw y meudwydy aoruc adyuot yr fforest a marchogaeth yny doeth y lannerch deckaf or byt a mwyaf. ac ymperued y llannerch yd arganuu ef prenn mawr deilyawc. ac yn vawr y gwmpas ar y daear rac amlet y gangen. Yna disgynnu aoruc ef ynggwasgawt y prenn amedylyaw a wnaeth panyw tec oed y lle hwnnw y deu marchawc urdawl y ymgyhwrd. Amegys yd oed ef yn medylyaw uelly ef a glywei weryrat march yn y fforest. Digrif vu gan baredur hynny a dywedut. Arglwyd duw hollgyuoethawc yr dy uedyant kanhatta vot ar y march hwnnw ual y gallwyf provi ossit na nerth na grym ynof. a roi o duw idaw ynteu nerth a hyder oe amdiffyn ragofinneu. kanys y mae ynof diruawr chwant y ruthraw idaw. ac amdiffynnit duw ef rac y lad o honaf. ac rac llad o honaw ynteu uinneu. Ac ar hynny edrych y ryngthaw ar fforest aoruc. ac arganuot marchawc yngadaw y fforest ac yn dyuot yr llannerch. ac yn aruawc o bop arueu. a march gwynn mawr ydanaw. atharyan am y vynwgyl achroes goch yndi. a marchogyat llonyd ganthaw a gwaew yn y law. ac yr awr y gweles paredur ef ynteu a esgynnawd ar y uarch. a chymryt y waew yn y law a brathu y varch a dwy yspardun drwy lewenyd mawr adyuot awnaeth ef tu ac att y marchawc. A dywedut wrthaw. Tydi uarchawc heb ef ymgud yngkysgawt dy daryan ual ydwyfinneu. kanys yd wyf yth rybudyaw. dieithyr na ladafi dydi. a duw awnel ym dy gael yn gynffyryfet ac y gallwyf

Digitized by Google

broui vy nerth arnat. kanys ny wnn i yr ystalym paryw wyf. Ac ar hynny y daraw aoruc ef ymogel y daryan yny yttoed y marchawc yn colli y warthafleu. ac yny yttoed ynteu hebdaw ef ympell. Aryued vu gan y marchawc beth aholei baredur idaw. a govyn idaw beth o drwc awnathoed ef. Tewi aoruc paredur achewilydyaw yn uawr am na syrthyassei y marchawc ganthaw. Eissyoes nyt oed hawd hynny kanys nyt oed yn yr holl vyt uarchawc vwy o gedernyt yndaw noc efo. Ac ynteu adoeth tu ac att baredur o nerth traet y uarch. a pharedur yn y erbyn ynteu. a phob un adrewis y gilyd onadunt yny dylla eu taryanneu. ac yny tyr eu llurygeu yngkyueir eu gwaewyr ac yny yttoed penneu eu gwaewyr yn ymdangos udunt. ar dyrnawt a roes paredur a gerdawd drwy y daryan ar holl arueu. ac yny vyd y gwaew let deu vys dan benn y vronn. Ar marchawc ynteu adrewis paredur yny vyd y gwaew drwy y daryan ae arueu a thrwy berued y ureich. ac ar eu ruthur yr ymgyuaruant ygyt yny yttoed eu gwaet yn redec ac eu geneueu ac oc eu ffroeneu allan. Ac ar hynny tynnu eu cledyfeu aorugant drwy diruawr lit. Ac yna y marchawc a ovynnawd y baredur pwy oed y henw. a phaham yr oed ef mor lidiawc a hynny wrthaw. a thi am anefeist yn drwc. a mi awnn na weleis eirmoet milwr un gedernit athi. Ni dywawt paredur dim wrthaw ef namyn trwy lit ruthraw idaw. ar marchawc ae herbynnyawd ynteu yn ffyryf. a phob un onadunt a roes dyrnodeu y gilyd onadunt yny yttoed eu llygeit yn disserennu ar arueu yn torri. ac yny glywit twryf eu dyrnodeu yn datseinyaw yny fforest. namyn eu gwaet yd oedynt yny golli. aoed yn eu gwannhau yn uawr. Eissyoes llit pob un onadunt wrth y gilyd aoed gymeint ac na doeth cof udunt dim y wrth eu gwelioed. namyn ymguro yn dieiryach aorugant. Yna y doeth y meudwy or fforest adref. Aphan doeth ef ny weles dim oe nei yno. am hynny doluryus(vu)ganthaw. Ac yna tynnu mul gwynn or ystabyl aoruc ef ac esgynnu arnaw. a marchogaeth racdaw aoruc dan wediaw duw ar adel idaw ymgaffael

Digitized by Google

ae nei. a marchogaeth aoruc yny doeth y ymyl y llannerch yn y lle yr oed y marchogyon yn ymlad ac ef agigleu trwst eu dyrnodeu. achyntaf ac y gallawd ef adoeth tu ac attunt. aphan doeth ef aaeth y ryngthunt. Ac yna y dywawt ef wrth y marchawc arglwyd heb ef. mawr aovit yw ytti ymlad ar marchawc claf yman. kanys y mae a heint arnaw yr ystalym yn y fforest honn. a thi ae hanefeist yn drwc. Arglwyd heb y marchawc uelly y gwnaeth ynteu y minneu. ac nyt ymladasswn i om bod ac efo pany bei dechreu ohonaw ef arnafi. ac ny mynnei ef dywedut y mi y henw na pha un oed. na pha beth a haedasswn uinneu arnaw ef. A unben heb y meudwy pwy wyt ti. Arglwyd heb y marchawc mi ae dywedaf itt. mab wyfi y vrenhin bann o vannawc. ac ef am gelwir inneu lawnslot o lac. A gedymdeith heb y meudwy wrth baredur llyma gevynderw itt. kanys brenhin bann oed vrawt yth tat ti. Ac yna gostwng eu helymeu awnaethant wy. ac ymgussanu aorugant ac o diruawr lewenyd wylaw. Ac y gyt y kerdassant yny doethant y lys y meudwy. a diosc eu harueu aorugant. Ac yn y ty yd oed cares yr meudwy. ac a vuassei yn gwassanaethu paredur tra vu yn glaf. ac a wydyat uedeginyaeth. a golchi y bratheu awnaeth hi. ac arganuot bot yn waeth y briwassei lawnslot no pharedur. ac yn bellach y wrth iechyt. A unbennes heb y meudwy beth a debygy di am y marchawc yna. Ef a vyd reit idaw orffowys yn hir heb hi. kanys periglus yw y lle y kafas y dyrnawt. A oes berigyl angheu arnaw ynteu heb y meudwy. Nac oes heb hi. ac ysbyd anmyned ganthaw y orffowys yman. Ie heb y meudwy. bendigedic vo enw duw. Am vy nei inneu beth awelir ytti. Ef a vyd iach yn ehegyr. Yr unbennes yna avu ystic yngkylch y gwyr oc eu hyachau. Eissyoes doluryus vu gan lawnslot y bellet y wrth iechyt. Yma y mae y kyfarwydyt yn tewi am y deu milwr hynny. ac yn traethu am y mab yr hwnn agyfaruu a gwalchmei yny fforest yn dywedut yr aei y geissyaw mab y wreic wedw. yr hwnn a ladyssei y dat.

CXLI.—E mab a gyrchawd llys yr amherawdyr

Digitized by Google

arthur. kanys clywssei dywedut panyw yno yr oed lettyeu y milwyr da. Aphan doeth ef yno ef a arganuu y daryan yngcroc ar y golofyn. yr honn a dugassei morynyon y gadeir yno. Ac ynteu aadnabu y daryan. Ac yna gostwng ar benn y lin aoruc y mab achyfarch gwell y arthur. Ac arthur a beris idaw gyuodi y vyny. ac aovynnawd idaw pwy oed. Arglwyd heb ef mab wyf i yr marchawc ar daryan goch idaw o fforest y gwasgawt. Ar marchawc adylyei dwyn y daryan racko ae lladawd ef. a mi a vynnwn wybot chwedyl y wrthaw. Velly y mynnwn ninneu heb yr arthur. drwy amot na chyfarffei ac ef.chweith drwc. kanys yny byt nyt oed gwr kymeint a damunwn y welet ac ef. Myui heb y gwas adylywn y gassau ef. kanys efo aladawd vyntat i. A minneu os da gan duw adialaf hynny arnaw. Ac am hynny ydwyfi yn erchi ytti yr dyuedyant vynggwneuthur i yn varchawc urdawl. kanys tydi yssyd genevin a gwneuthur y kyfryw wassanaeth a hwnnw yn diomed y ereill. Pwy dy henw di unben heb y brenhin. Arglwyd heb ynteu ef am gelwir i clamados or gwasgawt. Yn yr amser hwnnw gwalchmei aoed yn y llys. ac adywawt yna wrth arthur. y gwas hwnn yssyd elyn yr marchawc adyly dwyn y daryan. ae elyn ef ny dylyy di y gynnydu ef nae gyuodi ar anryded. namyn y enkiliaw isgil. kanys goreu marchawc or byt yw paredur onyt y nei uab y geuynderw. nyt amgen no mab lawnslot. yr hwnn aanet o verch brenhin peles. ac a elwir galaath. Ac yr wyt yn y llys honn yr ystalym yn aros y dyuotyat ymywn. Ac nyt yttwyfi yn dywedut hynny yr amarch yr gwas. namyn na mynnwn inneu wneuthur ohonat ti dim or aafranghei uod y baredur.

CXLII.—Dywedut aoruc y vrenhines yna wrth walchmei. Myui a wnn vot ynhoff gennyt ti anryded yr amherawdyr arthur. yr hynny efo aogenit or gwnaei ef beth kymeint a nackau dyn or byt. kanys ny nackaawd eiryoet yr un. A hoffach heuyt vyd gan baredur or goruyd arnaw ymlad a neb y vot yn varchawc urdawl noc yn was. kanys ny bu eiryoet marchawc urdawl ny bei gy-

Digitized by Google

mennach no gwas neu wreang. ac am hynny yrwyfi yth ganmawl di ar ywneuthur ef yn varchawc urdawl. kanys ef ath ogenyt ti os nackaut. Ef areingk bod ymi hynny arglwydes kanys da gennyt titheu heb y gwalchmei. Ac yna y gwnaeth arthur ef yn uarchawc urdawl. Aphann daruu idaw wisgaw ymdanaw. ef adywedei y rei o vywn y llys na welsynt eiryoet uarchawc degach noc ef. Gwedy hynny ef adricyawd yn y llys yn hir. ac yn anrydedus gan y brenhin ar vrenhines a chan gwbwl or barwnyeit. Ac ar hynny yr yttoed yn gwylyaw y llys am dyuotyat y marchawc idi ynol y daryan. eissyoes yr amser ny dathoed etto nar kyflwr. A phryt na weles ef y marchawc yn dyuot. ef a gymerth kennyat y brenhin ac aaeth ymeith. ar uedwl mynet y ymroi ym milwryaeth ac y geissyaw anturyeu yny glywei chwedyleu y wrth y elyn. A marchogaeth aoruc ef drwy fforestyd uelly. a tharyan goch idaw. megys ydoed oe dat. ac yn aruawc o bop arueu megys yr amdiffyn y gorff. Ac uelly marchogaeth aoruc yny doeth y dibenn y fforest. ac arganuot fford rwng deu vynyd aoruc. ac edrych oe vlaen. ac arganuot teir unbennes. ac un onadunt aoed yn gwediaw duw. ar anuon kanhorthwy udunt oc eu hanuon dros y mynyd arkyfle periglus aoed oc eu blaen. Yna clamados ae kigleu wynt. Ac yna pan welsant hwy efo. llawen vuant achyuodi yn y erbyn ae rassawu. Ac ynteu a dywawt. antur da arodo duw y chwitheu. Yd ym ni arglwyd heb y morynyon yn aros dyn alyuasso ynhebrwng dros y mynyd racko. yssyd le periglus megys na lefeis neb uynet idaw. Pa ryw le yw hwnnw. heb ynteu. Arglwyd heb wy yno y mae llew wedy y ollwng oe gatwyn. A marchawc urdawl yssyd gyt ac ef. yr hwnn yssyd dewr ac ehovyn. ac ny lefeis neb uynet yno heb luossogrwyd. kanys ny byd y marchawc urdawl yno yn wastat. aphei atuei nyt oed reit yni un ofyn. Ac yna y marchawc aedrychawd ynggwasgawt y fforest. ac aarganuu tri cheirw gwynnyon. a chadeir aphedeir olwyn y danai. Ae tydi heb y marchawc wrth y bennaf onadunt bieu y gadeir. Ie arglwyd heb

Digitized by Google

hitheu. Wrth hynny heb ef ti adywedy ym chwedyleu newyd y wrth y marchawc yr wyf yn y geissyaw. Pa un yw ef heb yr unbennes. Y neb adyly dwyn y daryan aedeweist di yn llys arthur heb ef. Velly yd ym ninneu heb hi yn mynet oe geissyaw ef. ac os da gan duw ni aglywn chwedleu y wrthaw yn ehegyr. A unbennes heb y marchawc ac uelly y mynnwn inneu. ac am dyuot ti yn mynet oe geissyaw ef megys yr wyfinneu. mi awch anuonaf chwi odieithyr y periglwyd yssyd oc awch blaen. Yna yr unbennes. ar keirw ar gadeir a gerdawd or blaen. ac wynteu aaethant yny hol hitheu. ac odyna wynt adoethant yr maes yr oed y llew arnaw. Yna clamados aedrychawd or tu deheu idaw. ac aarganuu neuad dec yn gaeedic yny chylch. ac ef awelei y llew yn gorwyd ar y porth. Ac yr awr y gweles y llew efo. ef adoeth parth ac attaw. ae savyn yn agoret. Arglwyd heb yr un or morynyon ony disgynny di ar dy draet. ef alad y march. Clamados adisgynnawd yna. ac a gymerth y waew. ar llew ae ruthrawd. ac ynteu ae herbynnyawd ef ar y waew. ac ae trewis yny vyd y gwaew drwy berued y gorff mwy no llatheit o hyt. a thynnu y waew awnaeth ef heb y dorri. Ac yna y llew a neityawd y vyny ar y vynwgyl ynteu. Ac yna ymdrech awnaeth ef ar llew megys deu wr. Ac yna y llew awasgawd clamados. aphan y gollyngawd. ef a rwygawd y luric o bop parth idaw. yny duc kwbwl or kic ar croen fford y kerdawd ae ewined. Pan wybu clamados y vriwaw yn drwc. ef a dwblawd y hyder yn gymeint ac y bu reit idaw roi breuerat aruthyr. Ac yna clamados ae bwryawd ydanaw yr llawr. ac adynnawd y gledyf ac ae brathawd trwydaw. ac ar hynny torri y benn. A gwedy hynny ae croges ar borth y veistyr. ac esgynnu ar y varch aoruc ef. ac yna yr unbennes adywawt. arglwyd heb hi ti a vriweist yn drwc. A unbennes heb ef. os da gan duw nyt oes undrwc arnaf. Ac ar hynny nachaf was ieuanc yn dyuot or neuat allan. ac yn dyuot yny ol. Arglwyd heb y gwas ti awnaethost vileindra mawr pan ledeist llew y marchawc urdawl. kwrteissyaf o loegyr.

Digitized by Google

a grymmussaf. Ac yr amarch idaw y crogeist ti y penn ual hynn. a gormod o draha oed ytti wneuthur hynny. A unbenn heb y clamados. ef ar allei bot yr arglwyd yn gwrteis. Eissyoes y llew nyt oed gwrteis namyn milein. pan vynnei lad hynn oll o ffordolyon. a chanys carei dy veistyr di y llew. ef adylyassei y roi mywn cadwyn. a gwell yw gennyfi. daruot y mi y lad ef no llad ohonaw ef vyui. Arglwyd heb y gwas nyt oed fford honn namyn tir a ryuel arnaw. ac ydys yn mynnu y dwyn y gan vy arglwydi. ac yr cadw y dir rac y elynyon y gollyngawd ef y llew oe gadwyn. Pwy henw dy arglwyd di heb y clamados. Ef aelwir meliot heb ef. o loegyr. ac ef aaeth y geissyaw gwalchmei. y gwr yssyd arglwyd arnaw ynteu. Myui heb y clamados a edeweis walchmei yn llys yr amherawdyr arthur pan doethum odyno. Eissyoes yr oed yny vryt ynteu yna vynet ymeith. Myn vyngeret i heb y gwas mi a vynnwn y gyuaruot athi drwy amot gwybot ohonaw llad ohonat y lew ef. a gedymdeith heb y clamados a ytiw dy ueistyr di yn gyngwrteissyet ac y dywedy di. os da gan duw ny byd gwaeth rofi ac ef yr llad y llew yn amdiffyn vy eneit am corff. A mi a archaf y duw vyn dianc rac kyfaruot ar neb awnel drwc ym. ac ar hynny kerdet a wnaethant y marchawc ar morynyon ymeith. yny doethant y ymyl y castell coch. ar castell hwnnw aoed wedy y damgylchynu o bedeir fforest. ac nyt oed yno neb o vywn y castell. a pharth ac yno ydoed yn eu bryt vynet y lettyu. pan gyfaruu ac wynt gwas yr hwnn a dywawt wrthunt nat oed yno neb. Ac yna wynt aaethant racdunt yny doethant y ystlys fforest yn y lle yr oed llawer o bebyll wedyr dynnu mywn llannerch deckaf or awelsei heb eiryoet. Ac ydoed y pebyll yn parhau villtir. Ac yna y doethant o vywn y pebyll. Nyt oed yn y byt llewenyd vwy noc aoed yno. Aphan doethant wy y mywn. wynt awelynt yno amylder o vorynyon a gwraged tèc. Yna ef gymerwyt y marchawc briwedic ar lewenyd. ac adiosget y arueu. ac a edrychwyt y vriw. a gwedy daruot y olchi ae iro. ef a ducpwyt idaw dillat oe gwisgaw. A gwedy ae dug-

Digitized by Google

assant geyr bronn yr arglwydes. yr honn awnaeth idaw lewenyd mawr.

CXLIII.—Arglwydes heb ymorwyn y gadeir. y marchawc urdawl yma a iachaawd ymi vy eneit. kanys ef aladawd y llew yn wrawl. o achaws yr hwnn ny lyuassei haeach odynyon dyuot attat ti. a byd ditheu lawen wrthaw ef. Ny allafi heb yr arglwydes wneuthur idaw ef mwy o lewenyd noc awnaf. kanys yd ym yn aros dyuotyat marchawc da or dyd py gilyd. Ac nyt oes yn yr holl vyt dim kymeint vy namunet ae welet. Arglwydes heb y clamados pwy yw marchawc da hwnnw. Mab y wreic wedw o gamalot. A wydyut ti heb ef dywedut ymi yn wir adaw ef yman. velly ydwyf yn y debygu heb hi. Arglwydes heb ef. ef avydei digrif gennyfi hynny. a duw awnel idaw dyuot. A varchawc heb hi pwy dy henw di. Arglwydes heb ef. ef amgelwir i clamados or gwasgawt. am tat i bioed y fforest honno. Ac yna hitheu aaeth dwylaw mynwgyl idaw ef. ac a dywawt wrthaw. Na vit ryued gennyt ot yttwyf yn gwneuthur llewenyd ytt. kanys vy nei uab vy chwaer wyt. A mi a vynnaf dy uot ti yn arglwyd arnafi ac ar y meu. ar morynyon or pebyll awnaethant lewenyd mawr idaw. kanys gwydynt y vot yn gyfagos yr arglwydes. Yno y buant yn hir yn trigyaw yn aros dyuotyat paredur. ac yn ryued ganthunt y drigyan. kanys y vorwyn a vuassei yn y vedeginyaethu aoed yno. ac a dywawt y vot yn iach. ac am hynny yd oed lewenyd mawr ganthunt. Eissyoes lawnslot nyt oed agos y iach

CXLIV.—Tystolyaethu y mae y kyfarwydyt yma. panyw paredur ahanoed o lines iosep o arimathia. ac am hynny y dylyir gwarandaw yn llawen pob parabyl or a del y wrthaw. Ac yma y mae yn dywedut. marchogaeth o baredur y wrth y meudwy ymeith yn iach ac yn llawen. namyn ef aedewis dyuot dracheuyn gyntaf ac y gallei. A marchogaeth aoruc ef ynhyt y dyd yny vu wedy pryt gosper. ac ef yna yn dyuot or fforest. ef awelei gastell yn ymdangos idaw. ac ynteu adoeth tu ac yno. ar vedyr llettyu. kanys issel oed yr heul. ac

Digitized by Google

yr castell ymywn y doeth ef. ar gwr bioed y castell adoeth yny erbyn yn gyntaf ac y gallawd. yn wr mawr ffyrnic y weith. ae lygeit yn gochyon. a manneu gleissyon ar y wyneb. ac nyt oed yn y castell un marchawc namyn ef ehun. Aphan weles ef paredur yn disgynnu ynteu a redawd y gaeu y porth. apharedur adoeth yny erbyn. ac a gyuarchawd gwell idaw. athitheu a geffy yr hynn a heydeist heb ynteu kyn dy vynet odyma. kanys vynggelyn wyt ti. ac ehofyn oed ytti dyuot yma wedy lladut vymrawt. yr hwnn oed arglwyd ar fforest y gwascawt. ac ef am gelwir inneu caos goch yr hwnn aryuelawd yr hynny hyt hediw ar dy uam ditheu. ar castell hwnn mi ae dugum y genthi. ami adygaf y gennyt titheu dy eneit kyn elych odyma. Arglwyd heb y paredur y lettyu y doethum i yma. ac am hynny ef ath ogenit ti pei gwnelut ym chweith drwc. Ac am hynny llettya di vyui heno. ac avory gwnaet bawp yr hynn gwaethaf a gallo y gilyd. Myn vympenn i heb y caos vynggelyn nys llettyaf o ny byd yn varw. Ac yna y kyrchawd ef y neuad y uyny. a gwisgaw y arueu aoruc yn ebrwyd. A chymryt y gledyf yn noeth yn y law. a dyuot drachevyn yr lle yr oed baredur yndigawn y dikyet wrthaw. am dywedut ohonaw y vot yn ryuelu ar y vam. ac am dwyn ohonaw y chastell y genthi. Yna paredur adynnawd y gledyf ac adoeth attaw ar y draet. ac ageissyawd y daraw ymperued y benn. ac ny ffaelyawd ef o gwbwl. namyn ef a dorres y helym ar bennguch. ar kic ar croen yn y vyd y cledyf deu let bys yny benn. ac yny vyd ynteu ar benn y lin yr llawr. Aphan wybu gaos y vrathu yn drwc. ef alidiawd yn vawr. ac a nessaawd att baredur. ac a ossodes arnaw dyrnawt mawr yny yttoed y lygeit yndisserennu ac yny lithyr y dyrnawt ar y daryan. ac yny hyll y daryan hyt y bogel. Pan gigleu paredur drymet y dyrnawt hwnnw. ef adoeth tuac attaw ynteu ac a geissyawd yr eil dyrnawt ar y benn. namyn y arueu ae gochelawd. ac aperis yr breich deheu ar cledyf ehedec yr maes. Ac yna caos aduc hwyl y baredur ac ageissyawd y odiwes ar breich assw idaw. Eissyoes y gedernit ef aoed wedy gwanhau

Digitized by Google

yn vawr. Ac yna paredur heb dim oe garyat a vrys-syawd oe diua. ac ae trewis ar hyt y benn. yny vyd yr emennyd ynghylch y glusteu. Y dylwyth ae wassan-aethwyr aoedynt yny ffenestri y vyny yny neuad. Aphan welsant wy eu harglwyd yn varw. wynt adywed-assant wrth paredur. Arglwyd ti aledeist y march-awc dewraf achreulonaf a phenedickaf or aoed yn y gwledyd hynn. Arglwyd ti awdost panyw y castell hwnn a vu eidaw dy vam di. ac am hynny gwna di dy ewyllys o honaw ac oc yssyd yndaw. a gollwng di nyni att yn harglwyd oe dwyn y gyssegyr. Gellyngaf yrof a duw heb y paredur. Ac yna wynt adugassant y corff yr capel. ac a dynnasant y arueu y amdanaw. ac arod-assant idaw amdo. A gwedy hynny wynt adoethant yr neuad att baredur. ac adiosgassant y arueu y amdan-aw. Arglwyd heb wy bit diheu ytti nat oes neb yman. namyn deu swydawc a dwy vorwyn. ar pyrth y maent yngaeat. allyma yr agoryadeu. Yna paredur aorchymmynnawd udunt wy gadw y castell yny enw efo. a mynet att y vam ae hannerch. a dywedut y deuei ef yno gyntaf ac y gallei. a dywedut idi vy mot yn iach. Aphwy henw y castell yman heb y paredur. ef aelwir penn kymry heb yr un or swydogyon.

CXLV.—Paredur agysgawd yno y nos honno. A-thrannoeth wynt aroessant aruoll y baredur ar gynnal y castell hwnnw ar anryded idaw ef ac y vam. Ac ar hynny y kychwynnawd ef ac y marchockaawd yny doeth yr pebyll yny lle ydoed y morynnyon. A sefyll yno aoruc ef ac ymwarandaw. ac ny chlywei ef o lew-enyd yno gymeint ac a gigleu morynyon y gadeir pan doethant. kanys pan doeth ef yno yr oedynt wy yn ffustaw eu dwylaw y gyt. ac yn llefein. ac yr hynny nyt ymwrthodes ef a mynet y mywn. Aphan doeth ef yr oedynt wy yn tynnu gwallt eu penneu. ac yn ymdoluryaw. aryued vu gan baredur hynny. a llyna yr achaws oed y hynny. kanys kennat adathoed yno oe vlaen ef y uenegi rylad caos goch. Ac ar hynny nach-af vorwyn yn dyuot att baredur. ac yn dywedut wrthaw. ar gewilyd ac antur drwc y delych yman heb hi. Ac yna

Digitized by Google

paredur aedrychawd arnei dan chwerthin. ac a vu ryued ganthaw paham yr oed y vorwyn yn ymgeinyaw ac ef. Ac yna y vorwyn adywawt yn uchel. Arglwydes heb hi weldy yma y neb aladawd y gwr goreu oth genedyl di. athitheu clamados ef aladawd dy dat titheu. ath ewythyr. Yna morynyon y gadeir adoethant yno. ac a adnabuant baredur ar y daryan ydoed yn y dwyn. ar bennaf adywawt wrthaw. grassaw duw wrthyt. yr drycket vo gan bawp. Ac yna y kymerth hi efo erbyn y law. ac ae duc yr pebyll. Ac yna y doeth dwy vorynyon y dynnu y arueu y amdanaw. ac a dugassant idaw dillat oe gwisgaw. A gwedy hynny wynt ae dugassant att yr arglwydes. yr honn aoed etto yn ymdoluryaw. Arglwydes heb y morynyon y gadeir weldyyma y marchawc yr hwnn y dyrchafwyt y pebyll hwnn oe achaws. ac y gwnaethost ditheu gwbwl or llewenyd awnaethost yr hynny hyt hediw. Ae mab y wreic wedw wyt ti heb hi. Ie heb ef. Arglwyd heb hi ti aledeist yr awr honn y goreu om holl genedyl i ac a yttoed ym kynnal yn erbyn vy holl genedyl. Arglwydes heb y morynyon y gadeir gwell y digawn hwnn dy gynnal di no gwr or byt. kanys cadarnaf yw ef. or holl vyt.

CXLVI.—Brenhines y pebyll yna a gymerth paredur erbyn y law ac aerchis idaw eisted yn y hymyl. yna hi adywawt wrthaw. Arglwyd heb hi pa antur bynnac vo. vyngcallon i yssyd yn gadel ym wneuthur llewenyd ytt. Duw adalo ytt. heb y paredur. caos goch arglwydes avynnassei vy llad i yn y gastell. aminneu a ymamdiffynneis yn oreu ac y gelleis racdaw. Yna y vrenhines aedrychawd yny wyneb ef ac a ennynnawd oe garyat. yn gymeint ac y dywawt wrthaw. Os efo arodei y garyat idi. hitheu a uadeuei idaw ef angheu caos goch. Arglwydes hed ef dy garyat dy a vynnafi y haedu. ar meu inneu a gey ditheu. Pa delw yr adnabydaf inneu hynny heb hi. Arglwydes heb ef mi ae dywedaf ytt. Nyt oes yn y byt varchawc urdawl oc avei yn ryuelu arnat. nyth amdiffynnwn racdaw. Y caryat hwnnw heb hi a dyly bot yngyffredin gan bop

Digitized by Google

marchawc urdawl. athi awnaut hynny yr un arall. Arglwydes heb y paredur ef ar allei vot. Eissyoes ef ar allei y varchawc urdawl garu un yn vwy noe gilyd. Yr arglwydes avynnei idaw ef ymdiriet ac ymgredu idi yn vwy noc yd oed. A phei vwyaf yd edrychei hi arnaw ef. mwyaf yd ennynnei hitheu oe garyat ef. Eissyoes paredur nyt yttoed yn medylyaw dim oe charu hi. yr arglwydes heuyt aedrychawd arnaw yn llawen rac y decket. ac nyt yttoed hi yn gwelet arnaw ef dim tebic ar y charu hi. Ac yna llaw vorynyon yr arglwydes aoedynt yn ryuedu yn vawr bot y wreic wedy ysgaslussaw y dolur ae gruduan am y hewythyr. Ac ar hynny nachaf clamados yn dyuot gwedy dywedut o un wrthaw bot y marchawc aladyssei y dat yny pebyll yno. ac arganuot awnaeth ef y marchawc yn eisted yn ymyl y vrenhines. Ahitheu yn edrych yn y lygeit ef. arglwydes heb ef ys mawr a gewilyd y gwbwl oth genedyl yr wyt ti yn y wneuthur. pan diodefych dy elyn y eisted yth ymyl. ac ny dylyei neb ymdiriet yth garyat ti. Clamados heb y vrenhines y marchawc adoeth yma y lettyu. ac am hynny ny dylyafi wneuthur chweith drwc idaw. ony wney etto beth a aller y roi yny erbyn. neu brofi arnaw yntcu wneuthur twyll neu vurndra. Arglwydes heb y clamados ef aladawd vyntati. yn ffyrnic heb y rybudyaw megys twyllwr bratwr. ac ny bydafi hyfryt na llawen vyth yny dialwyf arnaw hynny. a llyma vy apel i arnaw ef ar y vot yn vratwr twyllwr. ac ydwyfinneu yn adolwyn itti wneuthur ami gyfiawnder. Ac nyt yttwyf yn erchi megys y dlawt wneuthur achar. namyn megys ac estrawn. Paredur yna aedrychawd ar y marchawc. ac ae gweles yn dec ac yn aduwyn ac yn vawr. A unbenn heb y paredur parawt wyfi ym amdiffyn yn erbyn yr hynn yr wyt ti yn y yrru arnaf. a duw am diangho rac gwneuthur kyfryw a hynny. a pharawt wyf y ymlanhau or gogan yr wyt yn y yrru arnaf. Clamados yna a gynnigyawd y wystyl. Myn vyngcret i heb y vrenhines ny byd yma heno na roi gwystyl nae gymryt. auory dyd adaw a chynghor awneir. aphawb ageiff kyfyawnder. Clamados yna a

Digitized by Google

ymgyffroes o diruawr lit wrth baredur. ar urenhines aoed yn anrydedu paredur yn vwyaf ac y gallei. Ac oachaws hynny yd oed glamados yn llidiawc. ac yn dywedut na dylyei neb ymdiryet y garyat oe hachaws hi. Eissyoes yd oed yn y goganu hi yngkam. kanys tracharyat aoed yny chymhell hi y hynny. a heuyt hi awydyat y vot yn oreu marchawc urdawl or holl vyt. ae vot yn dynodus o bop gwyt. ac ar hynny yd aethant y gysgu. A thrannoeth pan vu dyd wynt a gyfodassant ac aaethant y warandaw offeren. aphan daruu gwarandaw offeren nachaf varchawc yn aruawc o bop arueu yn dyuot ymywn. atharyan wenn idaw. ac yn gostwng geyr bronn y vrenhines. ac yn dywedut. Arglwydes heb ef mi adeuthum yngkwn yma rac marchawc urdawl arall yssyd yman. gwedy llad ohonaw vy llew. ac ony wney di gyfyawnder ami. mi avydaf elyn ytti yn gymeint ac idaw ynteu. ac ath orthrymaf o bob ffuryf ac y gallwyf. ac or gwney ditheu gyfyawnder ami. mi abaraf y walchmei y diolch ytt. kanys gwr idaw ef wyfi. Padelw y gelwir y marchawc hwnnw heb hi. Nysgwnn i arglwydes heb ef. namyn myui aelwir meliott o loegyr. Clamados adoeth geyr bronn y vrenhines ac a dywawt. arglwydes heb ef. etto ydwyfi yn erchi ytti wneur kyvyawnder a mi. am y marchawc aladawd vyntat am ewythyr. velly ydwyfinneu heb y meliot. yn adolwyn kael kyuyawnder kanys reit yw ym vynet ymeith. ac ny wnn i yn erbyn pwy yr wyf yn ymgynnic. namyn vy apeli yssyd am ffelwniaeth. kanys o ffelwniaeth y lladawd ef vy llew i. ac wedy hynny crogi y benn wrth vymporth yr tremic ac ammarch y mi. Ac yna kymryt y uanec yn y law achynnic y wystyl aoruc ef. Clamados heb y vrenhines gwarandaw ar adyweit y marchawc yna. Arglwydes heb ynteu gwir yw llad ohonafi y lew ef. ac eissyoes kynt y ruthrawd ef y myui. no myui idaw ef. a hynny ti awdost vot yn vwy awnaeth ymi odrwc y gwr adoeth yma neithywyr. Ac am hynny arglwydes diodef di gennyf dial ohonaf ar hwnnw yngyntaf awnaeth ami. Ie heb hi ti awely vot y marchawc racko yn mynnu

Digitized by Google

mynet ymeith arhynt. ac am hynny ymrydhaa ywrthaw efo yn gyntaf a gwedy hynny ni a vedylywn am y llall. Arglwydes duw adalo ytt heb y meliot. A mi abaraf y walchmei y diolch ytt. kanys y llew aoed ym amdiffyn i rac vynggelynyon. ac yn amdiffyn dy dir ditheu heuyt yr oed ef. ac yr ammarch y minneu heuyt y croges ef y penn ar y porth. Y vrenhines yna adywawt mae mileindra mawr oed idaw hynny pryt na wnathoedut ti idaw ef chweith drwc yn y blaen. ac am hynny ny phellir ytti yn vy llys i ogyffredinwch. ac os y vatteil a vynny di y gwrthot ny byd arnat chweith gogan. Arglwydes heb y clamados. ny wediafi dim ohonaw ef. kanys ytti yn gynchwannocket ac y mae ym. a mi agwplaaf y ewyllys ef. a gwedy hynny kynnal ditheu a mi amot am y llall. Mi awnaf heb hi gymeint ac nam goganer am hynny. Ac ar hynny gwisgaw y arueu aoruc clamados ac esgynnu ar y uarch adyuot yr lle ynggwyd pawp yn y lle ydoed meliot ynbarawt. ac ef awelit y pawp y vot yn vilwr da tec. Y morynyon aoedynt yngkylch y lle yn sefyll. Ar urenhines aorchymynnawd y baredur warchadw y lle. ac ynteu adywawt y gwnaei ef hynny yn llawen. Ac yna meliot aymgyffroes tu ac att clamados. ac ynteu tu a meliot. a ruthraw awnaeth pob un y gilyd onadunt yny dyllant eu taryaneu. ac yny tyrr eu llurugeu. ac yny glwyfa eu kyrff. ac yny vyd eu gwaet yn ffrydyeu yr llawr. Ac yna tynnu aoruc pob un y waew attaw. ac ymchoelut drachevyn y gymryt eu redec yn well. a dyuot aoruc pob un tu aegilyd onadunt dan daraw yngkedernit eu taryaneu hyt nat oed yr un onadunt ny darffei idaw anafu y gilyd. ac ar eu hwrd ar eu meirch wynt a syrthyassant yr llawr. a thost vu gan yr arglwydes ae hunbennesseu gwelet y marchogyon. pob un yn llad y gilyd yn y mod hwnnw. Ac yna y deu varchawc agyfodassant y vyny ar eu traet. athynnu cledyfeu aorugant wy. ac ymguraw awnaethant. Arglwyd heb y vrenhines wrth baredur. dos y wahanu y deu uarchawc racko. rac llad o bop un ohonunt y gilyd. Paredur yna adoeth att veliot ac adywawt wrthaw. Arglwyd heb

Digitized by Google

ef kilia drach dy gevyn kanys ti awnaethost mwy no digawn. Clamados a wybu y vriwaw yndrwc yn deule. ar dyrnawt aoed yny dwy vronn aoed berigyl. Ac ynteu agiliawd draegevyn. ar vrenhines adoeth attunt. Varglwyd nei heb hi mi a (*The context shows a folio wanting, numbered* 177, *and containing Chap.* 147.) avu yny greal. Ami ae gweleis ef ynllys brenhines y pebylleu yny lle yd oedit yn gyrru ffyrnigrwyd arnaw. Yna y vrenhines aerchis canu y corn o asgwrn moruil. achanu y corn awnaethpwyt. ar marchogyon ar morynyon aoedynt ar y gradeu allan yn eisted a neityassant y vyny drwy lewenyd mawr. ac adywedassant daruot udunt wneuthur eu penyt. Ac ar hynny ydoethant yr neuad. ar vrenhines adoeth oe hystauell hitheu. apharedur erbyn y law y gyt ahi.

CXLVIII.—Ac yna hi adywawt wrth y tylwyth. weldyma heb hi y marchawc yr hwnn y cawssawch chwi oe achaws y poen ar penyt a vu arnawch. ac ynteu hevyt yssyd yn tynnu y penyt y arnawch chwi. Arglwydes heb wynteu bendigedic vo yr awr ydoeth ynteu yma. Amen heb hitheu kannyt or holl vyt gwr kymeint agarwyfi ac efo. Arglwyd heb y vrenhines. y marchogyon racko ar morynyon ny bu udunt amgen ty nac esmwythdra nac y vwyta nac y yuet yr pan vuostti yn llys brenhin peleur. yn y lle yd ymdangosses seint greal ytt. ac yd ysgaelusseist titheu ovyn beth aarwydockaei ef. ac yny delut ti yma ny cheffynt wy vyth waret or boen aoed arnunt. kanys uelly ydoed eu tynghetuen. ac ygyt a hynny heuyt anghenreit yw y ninneu wrthyt ti. kanys brawt y vrenhin peleur yr hwnn aelwir y brenhin or castell marw yssyd yn ryuelu arnafi. A unbennes heb y paredur vy ewythyr i yw ef. Eissyoes brenhin peles adywawt ymi na dylyei neb y garu ef. kanys y mae yn ryuelu ar vrenhin peleur y vrawt am ewythyr inneu. ac ynkeissyaw dwyn y gastell y ganthaw yny lle y mae seint greal yn gorffowys am wybot y vot yn wr egwann llesc. Gwir yw heb y vrenhines am castell inneu heuyt am wybot vy mot yn borth y vrenhin peleur. ac ef adaw unweith bob

Digitized by Google

wythnos hyt ymywn ynys yrhonn aelwir lanoc. ac awna ym lawer o wrthgassed odyno a llad vy marchogyon urdolyon yn vynych awnaeth ef. ac om morynyon heuyt. ac y mae yr ynys honno yny mor racko. Ac yna kanhebrwng paredur aoruc hi hyt ar ffenestyr aoed parth ar mor. Arglwyd heb hi weldy racko yr ynys. ac weldy racko y galis ath ewythyr ditheu yndi. ac weldyma vynggalissyeit ynneu ar rei yr amdiffynnwn yn eu herbyn.

CXLIX.—Yr ystorya yssyd yn dywedut anrydedu paredur yn vawr yn y castell tec hwnnw. ar vrenhines aoed yn y garu yngymeint ac nas gallei yn vwy. ef adrigyawd yno yny doeth y ewythyr yr lle y gnottaei dyuot. Yna paredur a beris gwisgaw y arueu ymdanaw. agwedy hynny ef aberis gwthyaw un orgalissyeit yr mor. ac ynteu arwyfawd tu ae ewythyr. Aryued vu gan y ewythyr y welet yn dyuot. kanys ny welsei ef eiryoet or castell hwnnw un dyn a lyuassei dyuot yn erbyn y gorff ef. Ac ar hynny y lestyr ef agymerth tir. ar vrenhines ynteu ae thylwyth a doethant allan y edrych ar vatteil y nei ae ewythyr. Brenhin y castell marw aweles y nei yn dyuot. ac eissyoes nyt adnabu ef baredur. apharedur a doeth attaw ae gledyf noeth yn y law. ae daryan am y vynwgyl. ac aossodes arnaw. ar wastat y benn. ac ae trewis yny oed y lygeit yndisserennu gan angerd y dyrnawt. ar brenhin nys eiryachawd ynteu namyn y taraw aoruc yny yttoed y helym yn tardeissyaw. apharedur ar vrys yna ae keissyawd ynteu. Eissyoes ef aochelawd y dyrnawt. ar dyrnawt a disgynnawd ar y daryan yn y hyllt hyt y bogel. Ar brenhin a gilyawd yna draegevyn gan gewilyd mawr ac ovyn am welet paredur yn gynchwannocket idaw ac ydoed a hynny drwy aruodeu yny yrru y bop lle. aphany bei daet y luric. ef ae hanafei yn llawer o leoed. ar brenhin yn roi dyrnodeu idaw ynteu yny oed ryued gan y vrenhines ae thylwyth allel o baredur y diodef.

CL.—Brenhin y castell marw yna aedrychawd ar arueu paredur. ac aovynnawd idaw oblegyt pwy yr oed

Digitized by Google

ef yn dwyn yr arueu hynny. Oblegyt vyntat heb y paredur. Ae Julien ly gros oed dy dat ti heb ef. velly y gelwit ef heb y paredur. ac yr hynny nyt oes arnaf un kewilyd. kanys marchawc urdawl da vu. ae mab wyt ti y igleis vy chwaer i. Dilis yw heb y paredur mae mab idi hi wyfi. Gan hynny heb ynteu nei ymi wyt ti. Ny reingk bod ymi dim o hynny heb y paredur. kanys nyt oes ym yr hynny nac enryded na lles o achaws dy vot yn anffydlonaf gwr om kenedyl. a myui awydywn mae tydi oed yma pan daethum attat. ac oachaws dy drygyoni di ath anffydlonder yr wyt yn ryuelu yn erbyn y brenhin goreu or holl vyt. ac yn ryuelu heuyt yn erbyn arglwydes y castell racko. am y bot yn borth y vrenhin peleur. ac os da gan duw nyt reit idaw efo ovyn gwr kyndrwc a thydi. Ac na thebic di ny cheffy di vyth uedyant ar y castell nac ar y creiryeu mawrweirthyawc yssyd yno. kanys ny char duw dydi yn gymeint ac y keffych hynny. Y brenhin agigleu na charei y nei ef haeach. ae vot heuyt yn bryssyaw y wneuthur angheu idaw. Ac ovynhau awnaeth ef nerth paredur ae gedernit. Ac ef a brofes heuyt y vot yn eil goreu marchawc or holl vyt. ac am hynny ny lyuassawd aros mwy oe dyrnodeu ef. ac ymchoelut aoruc ef tu ae lestyr a bwrw neit ymywn. a gythyaw y llestyr yr mor y novyaw. Apharedur ae hymlityawd hyt y mor a drwc vu ganthaw y diangk. ac odyna dywedut wrthaw. ha vrenhin drwc ffalls. na dywet ti vyth vy hanuot i oth genedylaeth di. kanys ny ffoes neb o genedyl vy mam i yr undyn eiryoet namyn tydi. ami aennilleis yr ynys honn arnat. ac na vit kynhyet gennyt vyth dy amkan adyuot idi. Ar brenhin aaeth ymeith heb uedwl ganthaw ardyuot drachevyn. a pharedur adoeth drachevyn hyt yn llys y vrenhines yr honn awnaeth llewenyd mawr idaw. ac aovynnawd idaw avriwassei. Ac ynteu adywawt na briwassei haeach. Ac yna diosc y arueu awnaethpwyt y amdanaw. a gwisgaw glan dillat ymdanaw. ar vrenhines aorchymynnawd y bawp vot yn uvyd idaw ef. ac wrth y orchymynneu. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am baredur. ac yn traethu am arthur.

Digitized by Google

CLI.—Llyma weithyon ual y traetha y kyuarwydyt ac y dywit vot arthur ympenvoisins. a llawer o varchogyon urdolyon y gyt ac ef. A gwalchmei a lawnslot gwedy dyuot adref. or achaws yd oed lewenyd mawr yny llys. Yna y brenhin aovynnawd y walchmei awelsei loawt y vab ynlle or y buassei yndaw. A gwalchmei adywawt nas gwelsei ef. Ryued yw gennyf heb y brenhin beth adaruu idaw. kanys ny chiglefi chweith y wrthaw ef yr pan ladawd kei logrin gawr yr hwnn y duc ym y penn. aminneu ae diolcheis idaw. kanys ef adialawd ar y lleidyr mwyaf or aoed yn ryuelu arnaf ac ar vynggallu. Eissyoes pei gwypei y brenhin ual y buassei y damchwein. ny chanmolei ef nae vilwryaeth ef nae antur.

CLII.—Megys y bydei y brenhin diwarnawt yn bwytta. ar vrenhines ar y neill law. a llawer o varchogyon urdolyon gyt ac ef. eissyoes gwalchmei nyt yttoed ef yno. nachaf vorwyn ieuanc wedy disgynnu y ar y march yn deckaf un dyn pettei esmwythdra arnei. ac yn dyuot yr neuad hyt geyrbronn y brenhin. ac yn dywedut. Arglwyd heb hi hanpych gwell y gan duw. a mi adoethum yma y erchi rod ytt. yr dy rym ath uchelder. Duw aro kynghor da ytt ar hynny heb y brenhin. aminneu vy hun aymyrraf ar hynny. Yna yr unbennes aedrychawd ar y daryan aoed yngcroc yny neuad ar y golovyn. Arglwyd heb hi y geissyaw nerth y doethum i yma. nyt amgen y geissyaw y marchawc urdawl bieu y daryan racko odyma. kanys anghenreit yw ym wrthaw. A unbennes heb y brenhin. os y marchawc a vynn hynny. diglwyf yw gennyfi. Arglwyd heb hi tebic yw gennyf y mynn. kanys marchawc urdawl da yw ef. ac yth eiryawl ditheu heuyt ny phalla ef aphettwninneu yma pan delei agatuyd nym nackaei. Aphei kawssoedwn i vy mrawt y bum yny geissyaw yr ystalym. mi a gawssoedwn kwbwl om nerth ac om kyuoeth. Ac am hynny ymae reit ymi vynet vyhun drwy y periglussyon fforestyd. aroi vyngkorff mywn llawer o berigleu. am yr hynn y dylyewch chwitheu bawp o honawch tosturyaw wrthyf. A unbennes

Digitized by Google

heb y brenhin miui arodaf ac awnaf a berthyno arnafi. Duw adalo ytt heb hi. ac yna y perit idi eisted a bwyta. allawen vuwyt wrthi. A gwedy bwyt y vrenhines ae duc y hystauell drwy lewenyd mawr. Ar bitheiat ar daryan aducpwyt yno heuyt. ar yr awr y gweles ef y vorwyn ef awnaeth y llewenyd mwyaf idi. a ryued vu gan y morwynyon ar vrenhines hynny. a ryuedach pei gallei oed y vorwyn ehun. kanys yr pan dathoed ef yno ny welsit yngwneuthur chweith llewenyd y neb. ar vrenhines a ovynnawd idi aatwaenat hi y bitheiat. a hitheu adywawt nas atwaenat. ar ki ny mynnei ymadaw a hi yn un lle. Yno y bu y vorwyn yn hir o amser yny mod hwnnw. Apheunyd yr aei hi yr capel y wylaw ac y wediaw duw ar vot yn nerth ac ynganhorthwy oe mam yrhonn aoed ymperigyl am golli y chastell. A diwarnawt y vrenhines aovynnawd idi pwy oed y brawt hi. Arglwydes heb hitheu un or marchogyon goreu or holl vyt yw herwyd ual y clywssam ni dywedut amdanaw. Eissyoes yn ieuanc yr aeth ef y wrth y tat ae vam. ac yr hynny hyt hediw ny welsam dim ywrthaw ef. ae dat a vu varw. ac ae gedewis hitheu heb neb ryw nerth idi na chynghor. ac ef a ducpwyt y genthi yr hymy hyt hediw y thir ae daear ae chestyll ac alas y gwyr. Ar castell y mae hi yn trigyaw yndaw ef adugassit ygenthi yr ystalym pany bei walchmei ae hamdiffynnawd yn erbyn an gelynyon. oblegyt y rei y mae reit ym yr awr honn vynet y geissyaw vy mrawt. a chynny chafwyf i efo y deuthum i yma y geissyaw nerth y gan y gwr bieu dwyn y daryan racko o dyma. kanys mi agiglef dywedut mae goreu marchawc or holl vyt ytiw. ac y mae gennyfinneu obeith y trugarhaa ynteu wrthyfi. A unbennes heb y vrenhines pwy yw henw dy vrawt ti. Arglwydes heb hi. ef aelwir paredur. mi a vynnwn heb y vrenhines y vot ef yma kanys oed mor anghenreit yth vam di wrthaw ef a hynny.

CLIII—Nossweith yd oed y brenhin yngorwed gyt ar vrenhines gwedy kysgu kyntun. ac heb allel kysgu ef awisgawd ymdanaw corset ffwrri advwynuerr. ac

Digitized by Google

adoeth or ystafell hyt ar un o ffenestri y neuad y tu ar mor. a gwelet awnaeth ef y syr yn eglur ar nos yndec ac yn araf. ac ynteu yn digrif ganthaw edrych ar y mor. A gwedy y vot ef yno hirynt. ef awelei ympell y wrthaw megys goleuni cannwyll. a ryued vu ganthaw beth aallei hynny vot amedylyaw aoruc nat aei odyno yny wypei beth oed hynny. ac yno y bu ef yny welei y wrthaw ar weith llong. a cherdet ebrwyd genthi yn-dyuot parth ar castell. aphan gymerth hi dir ny welei ef yndi. namyn gwr prud baryflwyt yr hwnn oed yn daly llyw. a gostwng hwyl awnaeth ef. a ryued vu gan y brenhin beth oed yndi. ar hynny gadaw y neuad ar castell awnaeth ef. a dyuot hyt y lle ydoed y llong. ac ny allei ef dyuot attei hi rac y tonneu odyar y tir. Ac yna y gwr prud adywawt wrth y brenhin. arho ychydic heb ef. ac ar hynny saethu bat bychan or llong aoruc ef. ac yna y brenhin aaeth yr bat ac adoeth yr llong ymywn. Ac yno arganuot aoruc ef marchawc urdawl yn aruawc ac yn kysgu ar warthaf tabyl o asgwrn moruil. ac ywch y benn ydoed tors o gwyr yn llosgi y mywn canhwyllbrenn o eur. ac edrych aoruc y brenhin arnaw yn llawen. ac ny welsei eiryoet wr degach noc ef. Arglwyd heb y gwr prud dos di weithyon dracheuyn agat yr marchawc orffowys. kanys anghenreit yw idaw. A wrda heb y brenhin pa un ywr marchawc. Arglwyd heb ynteu pettei ef heb gysgu efo ae dywedei ytt. Ac yrofi nys gwybydy di. Aa ynteu yrhawc odyman heb y brenhin. Efo aa yr neuad racko yn gyntaf heb ynteu. a llawen vu y brenhin am hynny. a mynet ymeith aoruc. Ac y ystauell y vrenhines y doeth. a dywedut aoruc ef idi y damchwein.

CLIV. Ac yna y vrenhines a gyuodes adwy oe morynyon y gyt a hi. ac adoethant yr neuad. ac ar hynny wynt awelynt y marchawc yn dyuot ae gledyf yn noeth yn y law. Arglwyd heb y vrenhines. grassaw duw wrthyt. llewenyd ac antur da arodo duw yttitheu heb ynteu. Arglwyd heb hi. os da gan duw nyt reit yni un argyssur ragot ti. y brenhin yna ae gweles. ac aweles y bitheiat yn neityaw yn y gylch. ac yn gwneuth-

Digitized by Google

ur llewenyd mawr idaw. Ac yna y marchawc agymerth y daryan y ar y golofyn. ac aroes yr eidaw ynteu ar y golovyn. ac adoeth tu a drws y neuad. Yna y brenhin a dywawt wrth y vrenhines. Gwedia y marchawc ar nat el odyma mor ehegyr ahynn. Arglwyd heb y marchawc ny chafi o ennyt trigyaw hwy no hynn. Eissyoes ty am gwely i yn ehegyr. Drwc a doluryus vu gan y brenhin ar vrenhines idaw vynet. Ar hynny y marchawc adoeth tu ar llong. ar bitheiat aaeth yny ol. Ac yna meistyr y llong adynnawd y bat attaw. ac a gyuodes hwyl ar y llong ac aaethant yr mor. Y brenhin yna a drigyawd ympenvesius. yn drwc ganthaw vynet y marchawc ymeith. ac ef awybu ac a adnabu panyw paredur oed. Y marchogyon urdolyon yna a gyuodassant y vyny. pan y gwelsant yn dyd. ac a glywssant vynet y marchawc ar daryan ganthaw. a drwc vu ganthunt nas gwelsant. Yna yr unbennes a doeth att y brenhin ac aovynnawd idaw adywedassei ef dim oe neges hi wrth y marchawc. Na dywedeis unbennes heb ynteu kanys ef aaeth ymeith yn gynt noc y mynnasswn i idaw vynet.

CLV.—Och arglwyd heb y vorwyn. ys mawr a bechawt awnaethost di amyui. ac os da gan duw brenhin kystal a thydi ny phalla ef y vorwyn kyndrwc y chyflwr a minneu or hynn a adawei. ac o phallut ef ath ogenit yn vawr. Drwc vu gan y brenhin na doeth cof idaw dim y wrth y vorwyn. ahitheu a gymerth y chennat ac adywawt yr aei ehun y geissyaw y marchawc. Ac os myui a geiff y marchawc myui ath rydhaf di oth adaw. Gwalchmei a lawnslot aoedynt gwedy dyuot yr llys. ac aglywssant y chwedyleu am y marchawc aaeth ar daryan ymeith. ac yn drwc ganthunt nas gwelsant. Lawnslot yna a arganuu y daryan a adawssei ef yno. ac awybu yn hyspys panyw paredur a vuassei yno. Arglwydi heb y brenhin ef avyd reit y chwi vynet y geissyaw efo. kanys reit ymi gywiraw yr hynn aedeweis yr vorwyn. Eissyoes hi adywawt os y hi ae kaffei ef yn gynt no myui. hi am rydhaei. Ac am hynny arglwydi. mawr aalussen oed y chwi gymryt

Digitized by Google

poen arnawch oe geissyaw ef. kynny bei namyn oe hachaws hi. Ac os merch heuyt yw hi y efrawc y mae hitheu yn chwaer yr marchawc. ae mam hitheu yw iglais. ae henw hitheu yw landran. Gwir yw heb y gwalchmei panyw y chwaer ef yw hi. a mi ae gweleis ynty y mam. Mynvyngcret heb y vrenhines tebic yw gennyf panyw chwaer idaw ytiw. kanys yr awr y doeth hi yma ef ae hadnabu y bitheiat hi. ac awnaeth llewenyd mawr idi. Myn vympenn heb y gwalchmei myvi aaf oe geissyaw ef. A minneu aaf heb y lawnslot. a minneu aarchaf y chwi yr duw heb y brenhin dyuot cof ywch dywedut vy neges i wrthaw rac vyngkerydu. Arglwyd heb y lawnslot os gwelwn ni efo ni adywedwn hynny wrthaw. ac adywedwn vot y chwaer yn y geissyaw ympob lle. ae bot yn dy lys ditheu. Ar hynny lawnslot a gwalchmei aaethant ymeith. y dechreu y geissyaw. a marchogaeth aorugant drwy fforest yny doethant hyt y dan groes aoed ymperued llannerch. yn y lle ydoed cwbwl o ffyrd y fforest yn ymgymysgu.

CLVI.—Lawnslot yna adywawt wrth walchmei. Kymer di heb ef y fford a vynnych o hynn. ac aet bawp ar neill tu. Ac uelly y caffwn ni chwedleu yn gynt noc on mynet y gyt. ar hwnn a vo byw ohonam. hediw ar benn y vlwydyn bit yma yn aros y llall. ac yn dywedut pob un y gilid y gyfranc onyt ymgaffwn a vo kynt. Ac yna lawnslot agymerth y fford ar y llaw assw idaw. a gwalchmei aaeth yr fford ar y llaw deheu. ac ymannerch awnaethant bop un ae gilyd onadunt.

Yma y mae yr ymdidan yn tewi am lawnslot. ac yn traethu y wrth walchmei.

CLVII. — Gwalchmei yna agerdawd dan wediaw duw argyvaruot y marchawc ac ef. kanys nyt oed damunet ganthaw kymeint ae welet. A marchogaeth awnaeth ef velly yny ostyngawd yr heul. Ac ynteu adoeth y ty meudwy yny fforest yr hwnn ae llettyawd y nos honno yn esmwyth. y meudwy aovynnawd y walchmei pa beth yr oed yn y geissyaw. Arglwyd heb y gwalchmei ydwyf yn keissyaw marchawc urdawl. A unben heb y meudwy ny cheffy di yn agos yma yr un.

Digitized by Google

namyn un yssyd y mywn castell. ac un arall yssyd yn y mor. yr hwnn yssyd yn llad pawb or adel attaw. ac yn eu gyrru ymeith. Paryw dyn yw yrhwnn yssyd yn y mor heb y gwalchmei. Nys gwnn i heb y meudwy. namyn y mor yssyd yn agos yma lle y byd ef yny ysgraff. ac ef a vynycha yn vynych y ynys yssyd ydan gastell brenhines y morynyon or lle y gyrrawd ef y ewythyr ohonaw. yr hwnn aoed yn ryuelu ar y castell hwnnw. ar marchawc hwnnw aladawd kwbwl ar ny ffoes or aoed yn nerth oe ewythyr. ar rei affoes ohonunt ny lyuassant dyuot drach eu kevyn. Kanys kymeint yw arnunt wy ovyn y vilwryaeth ef ac na allant dim yn y erbyn. Arglwyd heb y gwalchmei aoes lawer yr pan ytiw ef yn mynychu y mor uelly. Nyt oes yn emawr mwy no blwydyn heb ynteu. Beth bellaf heb y gwalchmei yssyd odyma hyt y mor. Nyt oes mwy no dwy villtir heb y meudwy. Ac yn vynych pan elwn ym gweith mi awelwn y ysgraff ef ac ynteu yndi yn aruawc yn hwylaw. a mi awelwn y uot ef yn wr tec aduwyn. Eissyoes y olygon ef aoed kyn greulonet. a golygon y llew llidiockaf. ac ef a gollassei y vrenhines y morynyon ae chastell panybei efo. ac yr pan yrrawd ef y ewythyr or ynys. ny bu yn y castell gyt ar vrenhines. namyn unweith. dieithyr ynwastat ar y mor ynchwilyaw yr holl ynys. Agostwng y rei beilch awna ef. yny yttiw y ovyn ympob lle. a drwc iawn yw gan y vrenhines nat ydiw yndyuot attei yn vynychach noc y daw. kanys y mae hi yn y garu ef yn gymeint. a phei as caffei hi efo odyno nas madeuei. Kanys hi avynnei gaeu ystauell arnaw ac arnei hitheu. A wdost ti heb y gwalchmei pa ryw daryan yssyd idaw ef. Nawnn arglwyd heb y meudwy. kanys ny wybuum dim y wrth arueu eirmoet. namyn yma yrwyfi yntrigiaw yr ys deugeint mlyned a mwy. ac ny weleis i eirmoet y vrenhines yn gymeint y theruysc ae phryder ac y mae yr awrhonn. Yno y kysgawd gwalchmei y nos honno. Athrannoeth gwedy offeren ef agymerth kennat y meudwy ac a varchockaawd hyt yn agos yr mor. dan edrych a welei ef yr ysgraff nar marchawc urdawl. ac

Digitized by Google

nys gwelei. a marchogaeth aoruc ef yny doeth y gastell brenhines y morynyon. Aphan wybu hi mae gwalchmei aoed yno hi avu lawen wrthaw. ac adangosses idaw yr ynys yr oed baredur yn mynychu idi or honn y gyrrassei ef y ewythyr ohonei. Ac arglwyd heb hi y mae gennyfi gwyn mawr wrthyt ti racdaw ef. kanys yr pan ymladawd ef ae ewythyr ny mynnawd dyuot ynghyuyl y lle hwnn. namyn unweith. Arglwydes heb y gwalchmei pa le y tebygy di y vot ef. Myn vyngcret heb hitheu nasgwnn kannys gweleis yr ystalym. ac nyt oes yn vyw neb a wypo dim oe vedwl. Annigrif vu gan walchmei hynny kanny wydyat pa tu y keissyei ef. Yno y bu ef y nos honno yn anrydedus. Athrannoeth gwedy offeren ef aaeth ymeith. ac a uarchockaawd yn aruawc gan lann y mor. achaws dywedut or vrenhines vot yn vynychach idaw ef vot ar y mor noc ar y tir. Ac yna ef adoeth y fforest gan lann y mor. a marchogaeth awnaeth ef ar hyt y tywawt tir. Ac yna ef aarganuu uarchawc urdawl yn un ffunyt aphettit yn y ymlit oe lad. A unben heb y gwalchmei pa le yd ey di ual hynn. Arglwyd heb ynteu ffo ydwyfi rac marchawc ysyd yn llad pawb or agyuarffo ac ef. Pa un yttiw efo heb y gwalchmei. Nys gwnn heb ynteu. namyn tydi ae gwely ef or mynny uynet ragot. Mi a debygasswn heb y gwalchmei dy welet ti unweith arall. Gwir yw hynny heb ynteu. Myui yw y marchawc urdawl cachyat. ar hwnn y kyuaruuost di ac ef yny fforest yny lle y goruuost di ar y marchawc aoed yn deu hanner y daryan. y neill hanner yn wynn ar llall yn du. A marchawc urdawl wyfinneu y vorynyon y gadeir. ac yr duw yd archaf ytti na wnelych ym chweith drwc. kanys y marchawc yssyd yna oth vlaen di awnaeth kymeint o ovyn ym ac na thebygasswn vy myw. Nyt reit ytti un ovyn heb y gwalchmei ragofi. kanys mi agaraf dy arglwydes di yn vawr. Mi a vynnwn dywedut o bawp velly heb y marchawc cachyat. kanys nyt oes arnafi ovyn am neb dieithyr amdanaf vy hun.

CLVIII.—Gwalchmei yna agerdawd ar hyt y fforest.

Digitized by Google

ac edrych aoruc ef y vyny tu a phennryn tywynnawc. ac arganuot marchawc yn aruawc ar geuyn march mawr. atharyan eureit idaw a chroes goch yndi. A unben heb y gwalchmei wrthaw. awdost di dywedut dim ywrth varchawc urdawl ydwyfi yny geissyaw. a tharyan idaw o aryant ac assur a chroes goch yndi. Gwnn yn dilis heb ynteu. Keis ef mywn kynnulleitua o varchogyon urdolyon a vyd ar benn y decuet dyd a deugeint y keffy di ef heb ffaelyaw. Llawen vu gan walchmei hynny. a marchogaeth aoruc ymeith. Ar marchawc ynteu aaeth yr mor gyntaf ac y gallawd. Ny weles gwalchmei eissyoes dim or ysgraff. kanys yd oed y dan greic yny ymyl gwedy y hangori. Gwalchmei a varchockaawd tu ar llannerch goch yny lle y dylyei y gynnulleitua vot. ac yn hoff ganthaw pei gwelei y dyd hwnnw wedy dyuot. a marchogaeth aoruc ef yny dynessaawd att gastell. Ac yna ef a gyuaruu ac ef morwyn ieuanc yn dwyn corff gwr marw yr hwnn aoed mywn elor veirch genthi. Gwalchmei adoeth yny herbyn ac a gyuarchawd gwell idi. a hitheu ae hattebawd ef yn deckaf ac y gallawd. A unbennes heb y gwalchmei pwy yssyd yn yr elor. Arglwyd heb hi marchawc urdawl yr hwnn a las drwy ualchder mawr. Pa le yr aey di heno heb y gwalchmei. Mi aaf yr llannerch goch heb hitheu y anuon y corff yma yno. Paham heb y gwalchmei y dygy di efo yno. achaws heb hi y goreu awnel yno ac a ymwano efo bieu dial angheu y gwr hwnn. Y uorwyn aaeth ymeith ar hynny. a gwalchmei aaeth tu ar castell. ac nyt oed neb yndaw namyn un marchawc urdawl a gwas yny wassanaethu. Gwalchmei yna adisgynnawd. ar gwr bioed y castell a vu lawen wrthaw. ac aberis tynnu y arueu y amdanaw ae anrydedu yny meint y gallawd y nos honno.

CLIX.—Trannoeth pan debygassei walchmei gael mynet ymeith. ef adoeth y gwr bioed y castell attaw. ac adywawt wrthaw. Arglwyd heb ef nyt ey di uelly. kanys porth y castell yma ny bu agoret eiryoet yny bereis y agori ef yth erbyn di. ac am hynny arglwyd heb ef amdiffyn di vi yn erbyn marchawc urdawl yr

Digitized by Google

hwnn yssyd yn mynnu vy llad o achaws llettyu ohonaf nosweith vrenhin y castell marw. yr hwnn aoed yn ryuelu yn erbyn brenhines y morynyon. Paryw daryan yssyd idaw ef heb y gwalchmei. Arglwyd heb ynteu taryan eureit. a chroes goch yndi. ac y mae ynteu yn vilwr cadarn dewr diogel. Ar vymperigyl heb y gwalchmei pei dywettut ym chwedleu y wrth y marchawc ydwyf yny geissyaw. mi ath amdiffynnwn di yn erbyn hwnnw yn oreu ac y gallwn i. or mynn ef gwneuthur yr ymbil nac yr anmyned. ac os mynn mi adangossaf vy nerth idaw yr dy diogelu di. Paryw wr yr wyt ti yny geissyaw heb ynteu. Paredur heb y gwalchmei yrwyfi yny geissyaw. marchawc urdawl o lys arthur. A tharyan yssyd idaw o aryant ac assur a chroes goch yndi. ae bogel yn eureit. Ti ae keffy heb ynteu yny gynnulleitua o varchogyon urdolyon yssyd yn y llannerch goch. velly y dywawt y gwr yr wyt ti yny ovynhau ym heuyt heb y gwalchmei.

CLX.—Ac ar hynny nachaf y marchawc ar daryan eureit yndyuot ac ynsefyll y rwng y castell ar fforest y mywn llannerch. Ac yna y marchawc or castell ae harganuu. ac a dywawt wrth walchmei. Arglwyd heb ef weldy racko y marchawc. Yna gwalchmei a gymerth y waew ae daryan ac aesgynnawd ar y varch. ac yr porth allan y doeth ef hyt att y marchawc aoed yn sefyll yn y llannerch. Aphan weles ynteu walchmei. ef ae harhoes yn yr un lle. A ryued vu gan walchmei na welei y marchawc yn ymgyffroi tu ac attaw. o debygu bot yn wir adywedassei y marchawc wrthaw. Eissyoes kelwyd adywedassei ef. kanys ny dathoed y marchawc yno yr afrengi bod yr gwr bioed y castell. namyn yr ymgyuaruot ac ereill adelynt fford yno. ac yr keissyaw anturyeu. Yna gwalchmei aedrychawd draegevyn. ac aweles porth y castell gwedyr gaeu. ar bont wedy y dyrchafel. a ryued vu ganthaw hynny. Ac yna dywedut aoruc ef wrth y marchawc. a reingk bod ytti arglwyd heb ef amgenach no da. Na reingk os da gan duw heb y marchawc. Ac arhynny nachaf yn dyuot attunt morwyn ieuanc abrys mawr arnei. ac yn dywed-

Digitized by Google

ut. Och duw a damchweina y mi vyth gael neb a dialo ar y traettur yssyd yny castell racko y dwyll. A yttiw ynteu yn draettur heb y gwalchmei. yttiw yn-draettur mwyhaf or aweleist di eiryoet heb hi. Ef a lettyawd vy mrawt i nosweith ac a roes deall idaw vot ryuel arnaw y gan varchawc urdawl arall. o achaws bot honn yn fford gyffredin y bawp. Ac a ymanhyed aoruc ef am brawt i yny gafas y gret ar ymlad drostaw ac oe garyat. A thrannoeth y bore ef a doeth yma ryw varchawc ar y antur. yr hwnn nyt yttoed yn chwennychu chweith drwc ym brawt i nac yr marchawc or castell racko. ac ydoed ef yn marchawc grymus. ac a hanoed o lin ganalwn. Ac yna vy mrawt i yr hwnn aoed gwedy ymennynnu o ffolineb ae kyrchawd ef. ar marchawc ny allei nat ymamdiffynnei racdaw. Ac yna ymguraw awnaethant yny syrth eu meirch y danunt. ac yny vyd eu gwaewyr trwydunt ac wynteu yn veirw ell deu yny llannerch honn yman. Ac yna y lleidyr racko adoeth ac agymerth eu meirch ac eu harueu. ac ae duc yr castell ganthaw. ar kyrff aedewis ynteu yma yr kwn. pan doethum i yma achyuaruot ami deu varchawc urdawl. y rei am kymhorthassant oe cladu yn ymyl y groes raco.

CLXI.—Myn vympenn i heb y gwalchwei uelly y mynnassei ynteu a minneu. ef aroes deall ymi neithywyr vot y marchawc yma yn ryuelu arnaw ef. ac ef a barawd ymi roi vyngcret idaw ef ar y amdiffyn racdaw. Eissyoes duw am amdiffynawd i. Ef awelir ymi heb y gwalchmei bellach y mynnei ef llad o bop un ohonamni y gilyd. Gwir yw heb hitheu o achaws awch meirch chwi ach arueu y mynnei ef hynny. A unbennes heb y gwalchmei y ba le y mae yth vryt titheu vynet. Mi aaf heb hitheu yn ol marchawc urdawl yr hwnn yssyd ar elor veirch yn uarw. a morwyn ieuanc yn y hol. Mi ae gweleis hi heb y gwalchmei neithwyr yn hwyr yn mynet yma heibyaw. Yna y marchawc a gymerth y gennat y gan walchmei. a gwalchmei adywawt wrthaw. A unbenn heb ef pwy yw dy henw di. Arglwyd heb ynteu na ovyn di ymi vy henw. yny govynnwyf

Digitized by Google

inneu ytti. Yna gwalchmei agerdawd ymeith. ar marchawc aaeth yr fforest. ac ny chyfaruydei neb a gwalchmei ar y fford yn unlle nyt amovynnei am baredur wrthaw. A marchogaeth uelly awnaeth ef yny arganvu meudwy yn sefyll or tu allan oe ty. ac ymgyuarch gwell awnaethant pob un y gilyd onadunt. ar meudwy aovynnawd idaw ef o ba le ydoed yn dyuot. Ac ynteu adywawt mae o tir brenhines y morynyon. A weleist di heb ynteu baredur y marchawc da yr hwnn a gymerth y daryan o lys arthur. Na weleis yssywaeth heb y gwalchmei. Eissyoes marchawc urdawl a tharyan eureit idaw adywawt ymi y bydei ef yn y llannerch goch. Ef a allei dywedut hynny ynwir heb y meudwy os gallei neb. kanys efo ehun aoed yno. Allyna paham y gwnn i hynny. nyt oes namyn dwynos yr pan orwedawd ef yma. ac weldy racko y bitheiat aduc ef o lys arthur gyt ac ef. Ac ynteu aerchis ymi y anuon ef att y brenhin meudwy y ewythyr. Yrofi a duw heb y gwalchmei os gwir adywedy di ys aflwydyannus y daruu y myui. Arglwyd heb y meudwy nyt oes arnafi un anghenreit y dywedut kelwyd. ac ar y ki y gelly di adnabot a ytwyfi yn dywedut gwir. Nyt y ryw daryan honno heb y gwalchmei aduc ef o lys arthur. Mi a wnn hynny heb y meudwy. Y daryan aweleist di aduc ef o ty Ioseus veudwy. a mab yw hwnnw yr brenhin meudwy y ewythyr ef. Ac ynty y meudwy ieuanc hwnnw y bu lawnslot nossweith. pan doeth y pedwar marchawc o herwyr y ty. y rei a groges ynteu drannoeth. Ac yno y gedewis paredur y daryan aduc ynteu o lys arthur. am nei inneu ydiw y Ioseus hwnnw vab vy chwaer. A chyt bo y ioseus hwnnw yn veudwy. gwybyd di yn lle gwir nat oes yn holl vryttaen un corff vwy o gryfder a milwryaeth yndaw noc yn yr eidaw efo. Arglwyd heb y gwalchmei ef aaeth y wrthyfi yr fforest. ac ny wnn i beth awnaf na pheth a dywedaf amdanaw. Kanys arthur am anuones i oe geissyaw ef. a lawnslot or parth arall. ami a ymdideneis ac ef hyt hynn dwyweith. ac nyt yttiw yn mynnu ymdangos ym nac ymadnabot ami. a myui a dylyasswn y adnabot ef

Digitized by Google

pan safawd mor syth ac y safawd hediw. A unbenn heb y meudwy anawd yw y adnabot ef nae vedwl. ac ny threulya ef haeach oe barableu. yr dywedut peth ny mynno y wneuthur ae gywiraw. Y gyt a hynny heuyt gwyry oe gorff yw ef heb chweith halogrwyd yndaw. Mi a wnn heb y gwalchmei vot arnaw ef holl gampeu da yr holl vyt or a allo vot ar un dyn. Ac am hynny y mae doluryus gennyfi. nat yttwyfinneu yny gedymdeithyas ef. Yno y bu walchmei y nos honno. yn drist iawn. A thrannoeth wedy offeren yd aeth ef ymeith.

CLXII.—Ioseus yr ysgolheic da yssyd yn dwyn ar gof yni panyw y meudwy hwnn aelwit Iornnas. a marchawc urdawl grymmus clotuawr vu ef. ac ef a ysgaelussawd hynny oll yr caryat ar duw. achwbwl or anturyeu a glywssawch chwi yn yr ystorya honn adoethant med Ioseus yr cadarnhau cret grist. ac ny daw cof idaw ef y kwbwl ohonunt. namyn y rei a wypo ef eissyoes ef ae dyweit. ar rei certeynyaf onadunt oblegyt yr 'yspryt glan y kyuarwydywyt. Hwnn yssyd yndywedut marchogaeth o walchmei drwy sywrneioed yny doeth yr llannerch goch. Ac yno ef awelei y pebylleu gwedyr dynnu. Ar marchogyon yn dyuot o bop lle. a phawp yn gwisgaw y arueu ymdanaw. a gwalchmei yna a rodyawd pob lle y edrych a welei y marchawc yr oed ef yn y geissyaw. ac nyt ydoed ef yn y welet yno na tharyan debic yr eidaw. a ryued vu ganthaw ef hynny. gwedy edrych ohonaw kwbwl or arueu ac or marchogyon. Eissyoes nyt oed hawd idaw ef adnabot paredur. kanys neur daroed idaw newidyaw a symut arueu. ac nyt oed bell ef y wrth walchmei. ac yn diheu ytti nyt adnabu walchmei dim ohonaw ef.

CLXIII.—Dechreu y twrneimant awnaethpwyt o bop parth. ar ranneu a ymgymysgassant. Yna gwalchmei adrewis yn eu plith y geissyaw paredur. Eissyoes ny chyfaruu ac efo yr un ny bei reit vynet yr llawr. ac nyt oed watwarus ef yn eu plith wy. ac ef awnathoed vwy oblegyt y arueu panybai vot y vryt ar geissyaw paredur. Ac yna ef a arganuu y vorwyn aoed yn kanlyn yr elor veirch yn eisted ar neilltu yn aros

Digitized by Google

diwed y twrneimant y wybot pwy agaffei y glot. Y marchawc yd oed walchmei yn y geissyaw nyt yttoed ar benn yr un or ranneu. namyn ymperued y pres mwyaf. yn bwrw pawp o pobparth idaw yr llawr. ac wynteu yn ffo y ar y fford ef megys deueit rac bleid. Myn vyngcret i heb y gwalchmei kanyt yttwyfi yn kael y gwr yr wyf yn y geissyaw nys keissyafinneu hediw ef. Ac yna gwalchmei aarganuu baredur ac nys adnabu. kanys taryan wenn oed idaw yna. ac ar yr arwyd honno y gyrchu aoruc o nerth traet y varch. a pharedur tu ac attaw ynteu. ac ymgyhwrd awnaethant. yny dylla eu taryaneu trwydunt. Eissyoes kadarn oed eu gwaewyr wy ac eu tynnu attunt awnaethant. ar eilweith pob un onadunt a gyrchawd y gilyd. drwy diruawr lit. Aphob un onadunt adrewis y gilyd yny yttoedynt yn torsteinaw eu kevyneu. ac yn colli eu gwarthafleu. ac yn tardeissyaw eu gwaewyr. Ac yna ymgyuodi awnaethaut wy wrth goryfeu eu kyfrwyeu. ar dryded weith ymgyrchu awnaethant drwy lit adryc ewyllys megys deu lew. atharaw awnaeth pob un onadunt y gilyd ae gwaewyr. y rei nyt oed fford udunt y barhau mwy. ac ar y chwyl honno eu torri aorugant. ual yr oed pawb or aoed yn edrych arnunt yn ryuedu na bei y gwaewyr trwydunt. Eissyoes nyt yttoed duw yn mynnu llad o bop un or marchogyon da y gilyd. namyn mynnu beth adalei y neill onadunt rac y llall. ac nyt eu harueu wy ae gwarantawd rac angheu namyn duw ehun. yr hwnn y credynt wy idaw. kanys yd oed arnunt wy bop ryw gamp a grym or aberthynei y vot ar vilwyr da. kanys ny chysgawd gwalchwei eiryoet yn lle or byt ny warandawei offeren drannoeth yno os kaffei. ac ny weles eiryoet na gwreic na morwyn ac anghyflwr arnei nys nerthei os gallei. Y marchawc arall ny wnaeth ynteu eiryoet vileindra ac nys dywawt. ac nys medylyawd. ac ef ahanoed heuyt ual y clywsawch or blaen o lines Iosep o arimathia. Y marchogyon hynn aoedynt yn llidiawc bop un onadunt wrth y gilyd. ae cledyfeu yn noethyon yn eu dwylaw. aphob un yn curaw y gilyd

Digitized by Google

onadunt. Ac yna rei or marchogyon adoeth attunt ac a dywedassant nat yrdunt wy elldeu yd ordinawyt y twrneimant. a gedwch y ereill beth y gyt achwi. Ac yna o vreid y peidyassant. ac yna yr eil weith y dechreuspwyt y twrneimant opobparth. yny gwahanawd y nos wynt. Ac uelly y parhaawd y twrneimant deu diwarnawt ar untu yn y mod hwnnw. Yna y vorwyn aoed gyt ar elor veirch adoeth y ovyn yr kyffredin pwy oreu yn y twrneimant. kanys y marchawc aoed yn yr elor veirch ny anghei y gorff mywn daear. yny gaffei ae dialei. Ac wynteu adywedassant panyw y marchawc ar daryan wenn. ar marchawc ar daryan o sinopyl. ar eryr eur yndi a vuassynt oreu. Ac o achaws bot yn gynt y dechreuassei y marchawc ar daryan wenn y twrneimant nor llall y barnwyt idaw ef y glot. Eissyoes tra vuassei walchmei yn hynny kystal oed ef ar goreu. Yna yr unbennes a aeth y geissyaw y marchawc ar daryan wenn ar hyt kwbwl or pebylleu. ac neur athoed ef ymeith. a hitheu aaeth at walchmei. ac a dywawt. Arglwyd heb hi ny chefeis i y marchawc ar daryan wenn etto. kanys ef aaeth ymeith. ac am hynny arnat ti y disgyn dial y gwr hwn. A unbennes heb y gwalchmei kewilyd kymeint ahwnnw nys gwney di ymi. kanys barnwyt efo yn well no myui. ti awdost nat oed enryded ymi kymryt arnaf hynny. athi adywedeist heuyt na dichawn neb y dial ef onyt y goreu yn y twrneimant hwnn. a goreu vu ynteu myn duw kanys myui ae gwybuum ac ae profeis. Y vorwyn awybu vot gwalchmei yn dywedut gwir. Och arglwyd heb hi ot aeth ynteu ymeith ryuedaf gwr aweleis i eirmoet a goreu oed ynteu or byt. ac nys caffafi efo yn nes diodef llawer o boen apherigyl arnaf. Padelw heb y gwalchmei y gwdost ti y vot ef yn oreu. Am y vot heb hitheu yn llys brenhin peleur. yr hwnn yr ymdangosses seint greal idaw. o achaws daet y vilwryaeth a grymder y gallon a diweirdeb y gorff. Ac yr awrhonn y doeth ef o lys arthur. ac y duc y gyt ac ef taryan odyno yr honn nyt oed dynghetuen y neb y dwyn odyno namyn idaw ef. A unbennes heb y gwalchmei ti ady-

Digitized by Google

wedeist ym chwedleu y rei ydwyf doluryus iawn oc eu hachaws. kanys yny geissyaw ef yrwyfinneu ac ny wn yn yr holl vyt pa delw yr adnabydaf ef. nyt yttiw ynteu yn ymdangos ym. oachaws symut y daryan ae arwydyon awna. Eissyoes myui a wn pan del ef y ymwan amyui bellach. kanys mi ae hattwaen efo ar y dyrnodeu. kanys nyt ymgyfaruum i eirmoet a marchawc kyn greulonet y dyrnodeu ac ef. ac etto myui a vynnwn oruot arnafi oe dyrnodeu ef yr vy mot inneu y gyt ac efo. A unben heb y vorwyn pwy dyhenw di. Ef amgelwir i gwalchmei heb ynte. Mi agiglef ymdidan amdanat ti heb hi. Ar morwynyon or pebyll aerchis ymi. oth welwn di erchi ytt dyuot y ymwelet ac wynt. Ac ar hynny ymwahanu aorugant. agwalchmei aaeth yr neill fford ar vorwyn y fford hitheu. namyn gwalchmei agerdawd drwy wediaw duw ar y dyuot y rywle yr ymgaffei apharedur dan y adnabot. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am walchmei. ac yn traethu am lawnslot.

CLXIV.—E kyfarwydyt yssyd yn dywedut bot lawnslot yn keissyaw paredur megys yd oed walchmei. a marchogaeth ohonaw drwy sywrneioed yny doeth hyt ynty y meudwy yny lle y crogassei ef y lladron kynno hynny. Ioseus ueudwy awnaeth llewenyd mawr idaw. Lawnslot yna aovynnawd awydyat ef un chwedyl y wrth vab y wreic wedw. Ac ynteu adywawt nas gwdyat yr pan dathoed o lys arthur. namyn unweith. ac ny wnn pa vyt yd aeth. Mi a vynnwn y welet ef yn llawen heb ef. Kanys arthur am anvones i oe geissyaw ef. yr pan aeth ef odyma. Nyt hawd weith y gael ef heb y meudwy. Lawnslot yna aaeth yr capel ac aarganuu y daryan adugassei ef o lys arthur yno. Arglwyd heb y lawnslot weldy racko y daryan ef. ac yr duw na chel ef ragof. Myn vyngcret nyskelaf heb y meudwy. dilis yw y daryan ef yw honn racko. ynteu aduc taryan arall odyma yn eureit a chroes goch yndi. Am bell vu y titheu a gwelet gwalchmei heb ef. Naweleis i heb y meudwy dim ohonaw ef yr pan euthum yn veudwy. Arglwyd heb y

Digitized by Google

meudwy ymogel di rac pedwar marchawc urdawl y rei yssyd gereint yr gwyr agrogeist di. Ac ymaent wy yth geissyaw di ympob lle yny fforest honn. ac y maent yn lladron drut megys yr oed y lleill. ae cartref wynteu yssyd yn y fforest honn yn wastat. a mi a archaf ytti yr duw vot yn da dy aruot yn eu herbyn. velly y bydafi os da gan duw heb y lawnslot. Y nos honno y kysgawd ef yno. athrannoeth gwedy offeren ef a gymerth y gennat ac aaeth ymeith dan wediaw duw argyfaruot paredur neu walchmei ac ef. ac uelly lawnslot aaeth ymeith drwy yr estronyon fforestyd. yny doeth hyt yn ymyl castell y mywn eistedua dec. ac or castell ef awelei uarchawc urdawl yn marchogaeth ar vrys tu ar fforest. ac ederyn ar y law. Aphanweles ef lawnslot. ef asafawd. ac ae grassawawd. antur da heb y lawnslot arodo duw yttitheu. a pharyw gastell yw hwnn. Arglwyd heb y marchawc castell y kylch eur y gelwir ef. ac yr wyfinneu yn mynet yn erbyn bonhedigyon y wlat honn. y rei yssyd yn dyuot y adoli y kylch eur. Paryw gylch eur ydiw ef heb y lawnslot. Arglwyd heb y marchawc y goron drein avu ambenn iessu grist pandiodefawd ar brenn y groc. ar vrenhines or castell racko aberis roi y goron y mywn gweith o eur. a mein mawrweirthyawc. ac ydys yn dywedut panyw y marchawc kyntaf yr ymdangosses y greal idaw bieivyd o anuod y vrenhines. Ac am hynny ny lettyir neb o dieithyr yno. Ac yr hynny myui abaraf ytti esmwythdra or mynny dyuot ym llys i. yssyd yn y fforest yma. Duw adalo ytt heb y lawnslot. nyt amser hwnn y lettyu etto.

CLXV.—Ac ar hynny drwy gennat y marchawc kerdet racdaw aoruc lawnslot. a thrwy edrych ar y castell medylyaw aoruc y dylyei y marchawc aennillei y kylch eur o le kyngadarnet ac ydoed gael clot ragorawl rac arall. Ar hynny marchogaeth awnaeth ef. Ac ual y byd ef velly ef awelei yr unbennes aoed yn kanlyn yr elor veirch oe vlaen. A unbennes heb ef poet rwyd ragot. Ac yttitheu antur da heb hi. Arglwyd heb hi mi adylywn gassau yn vawr y marchawc alad-

Digitized by Google

awd y gwr ysyd yn varw yman. ac yn reit y minneu y ganlynn efo ual hynn y geissyaw y marchawc a dylyei y dial ef. ac ny welafi neb yn damchweinyaw arnaw. A unbennes heb y lawnslot pwy ae lladawd ynteu. Arglwyd heb hitheu marchawc urdawl y dreic danllet. Pwy heb ynteu adylyei y dial ef. Arglwyd heb hitheu y marchawc a ymwanawd a gwalchmei yn y llannerch goch yr hwnn y barnwyt idaw vot yn oreu or twrneimant hwnnw. A vu well ef no gwalchmei heb y lawnslot. Arglwyd heb hi velly y barnwyt ef am vot yn hwy y bara yn ymwan. Gan hynny heb y lawnslot ys da varchawc yw ef. kan bu well ef no gwalchmei. apharyw daryan aoed idaw ef. Arglwyd heb hi tra vu ef yn y twrneimant yd oed idaw arueu gwynnyon. Achynno hynny yd ymaruerei ef o arueu eureit. A unbennes heb y lawnslot. a adnabu ef walchmei neu walchmei ynteu. Nat adnabu arglwyd heb hitheu. am yr hynn y mae ef yn drist ac yn doluryus. kanys y marchawc hwnnw yd oed ef yn y geissyaw. Ae paredur oed ef heb y lawnslot. Ie arglwyd heb hi. Och vi heb ynteu beth awnaei nas atwaenat ef. ac awdost di pa le yd aeth ef. Ac ar hynny ymwahanu awnaethant wy. a marchogaeth aoruc ef yny yttoed yr heul yn mynet y gysgu. ar fforest yn tywyllu yn uawr arnaw. ac edrych o bop parth idaw aoruc ef. y edrych awelei un lle y gael gorffowys yndaw. Ac ar hynny yr oed corr wedy y arganuot ef. ac nyt arganuu ef y corr. Yna y corr aredawd arhyt llwybyr bychan hyt ynlle yr oedynt y marchogyon lladron. mywn ryw lys udunt. ac yr oed udunt wy le arall pan elynt y yspeilyaw. Yn y llys eissyoes yd oed vorwyn ieuanc yr honn a sommei y marchogyon a delynt fford yno o wledyd ereill. ar corr adoeth att y vorwyn ac adywawt wrthi. Ef aweler heb ef yr awrhonn padelw y dielych di ar y gwr a ladawd dy deu vroder ath ewythyr ath gevynderw. Mi abrofaf hynny heb hi. a bit gennyt titheu aruot da y rybudyaw y marchogyon ereill. Bit ar vymperigyl i heb y corr am hynny. Gan hynny heb hitheu nyt oes fford idaw ef y dianc y gennym. yny vo

Digitized by Google

marw. Yr unbennes aoed un or rei teckaf ac yn da y gwisgat. Eissyoes callon drwc oed idi hi ac nyt oed ryued. kanys ar gribdeil a lledrat y magyssit hi. a hi ehunan a vuassei ganhorthwy y wneuthur llawer o drwc a lledrat. ac ar hynny hi a doeth allan yr fford y dylyei lawnslot dyuot idi. A hynny ymywn cottardi o vliant. Ac yr awr y gweles lawnslot hi ef adisgynnawd ac agyfarchawd gwell idi. a hitheu awnaeth arwydyon llewenyd idaw ynteu. A unben heb hi tro yr fford yman ami abaraf ytt letty. ac y mae yn nos haeach. ac nyt oes yti chweith kyuanned ohynn hyt ar deugeint milltir.

CLXVI.—A unbennes heb y lawnslot amser yw y lettyu a duw adalo yttitheu dy lewenyd. Ac uelly yd aethant dan ymdidan y gyt. hyt y lle yd oed eu kyuanned. ac yno nyt oed namyn y corr. ar marchogyon herwyr aoedynt ympell yn y fforest. Yna y corr agymerth march lawnslot ac ae hystablawd. a lawnslot aaeth yr neuad ac aorffowyssawd ar wely. Ac ar hynny y corr a doeth ac a ymgynnigyawd idaw oe diaruu. A unben heb y lawnslot mi aallaf yn diargywed diodef vy arueu ymdanaf. Arglwyd heb yr unbennes na thydi na neb ny chwsc yma yn aruawc. Aphei vwyaf y heiryolei hi arnaw ef diosc y arueu. mwyaf yr afrangei vod idaw ynteu hynny. rac mor ffyrnic yr oed yn tybyeit bot y lle. Arglwyd heb hi ef awelir ymi dy uot ti yn ovynhau o ryw beth. eissyoes nyt reit ytti ovynhau yma o dim. kanys digawn yw diogelet yma. Eissyoes ny wnn i nabo ytti elynyon. A unbennes heb y lawnslot. ny weleis i eirmoet undyn a vei gyflawn garedic gan bawp. Ar hynny lawnslot a eistedawd y vwyta ar y bwrd yn aruawc. ae waew ae daryan geyr y law. A gwedy y vwyt ef aaeth y gysgu ae gledyf ymdanaw. a chysgu aoruc ef ar hynt kanys blin a lludedic oed. Yna y corr avwryawd neit ar geuyn march lawnslot. ac aaeth hyt y lle yd oed y pum marchawc. y rei aoedynt elynnyon y lawnslot. Ar vorwyn adrigyawd yny ty. ac a vedylyawd y lladei hi efo es gallei. o neb ryw fford. Ac yr cwplau y medwl y

Digitized by Google

cwplaawd hi y tynnawd y gledyf ef oe wein. drwy edrych pafford hawssaf y gallei hi y lad ef. ahi a wydyat vot y penn ef yn aruawc. ac nat oed le noeth idaw onyt y wyneb. ac auedylyawd na allei hi y lad ef nac ar dyrnawt nac ardeu. ac a vedylyawd pei gallei hi heb wybot idaw ef dyrchafel arffet y luryc y gallei y lad kanys hi adyrrei y cledyf yny voly.

CLXVII.—Ac arhynny ef awelei lawnslot drwy y hun. bot corrgi yn y gyfarth. a phump costawc tom y gyt ac ef yn y hapeaw o pop parth idaw. a miliast y gyt ac wynt yn y temigiaw. Arhynny deffroi aoruc ef ac ymauael a gwein y gledyf. Eissyoes neur daroed cribdeilyaw y cledyf y arnaw ef. ar marchogyon yn dyuot y mywn. Ar uorwyn yna a dywawt. ef a weler heb hi pa delw y dialawch chwi ar lawnslot. a hitheu ehun yn gyntaf ahwylyawd idaw. ar pump marchawc obop parth idaw. Yna lawnslot a gymerth y waew ac a hwylyawd yr meistrolaf or pump marchawc. ac ae trewis yn y vyd y gwaew trwydaw mwy no llatheit o hyt. Ac yny dynnu attaw ef atorres. Ac yna hwylaw aoruc ef tu ac att y vorwyn y geissyaw y gledyf ae ysglyffyaw oe dwylaw aoruc. ar pedwar ereill aoed am y penn ef yny gystudyaw. ac ynteu adyrchafawd y law ar vedyr taraw un onadunt. Ac yna y vorwyn a neityawd y geissyaw dala lawnslot. ac yn hynny y dyrnawt a disgynnawd ar y phenn hi. yny hyllt hyt y dwy ysgwyd. A phan weles y pedwar marchawc y vorwyn yn varw ae meistyr heuyt. drwc vu ganthunt. Ar corr agriawd ac a dywawt. ef a weler heb ef padelw y dialoch ych collet ach kewilyd. a chwi a dylyewch gael gogan pryt na allewch oruot ar ungwr. Yna wynt a damgylchynnassant o bop parth idaw. Ac ynteu aaeth oc eu hanuod wyntwy hyt y lle y tebygassei gael y varch. ac ny chafas dim ohonaw. Ac yna y gwybu ef panyw y corr a wnathoed y vrat. ac a dwblanawd ylit. ar marchogyon o drallit a roessant dyrnodeu trwm idaw. ac ynteu a ymamdiffynnawd racdunt.

CLXVIII.—Godiwes y corr aoruc lawnslot yna. yr hwnn aoed yn eu hannoc wy. ac ae trewis ar y benn

Digitized by Google

yny vyd y cledyf hyt ynggwregis y lawdyr. ac a annafawd deu onadunt wynteu. Ac ynteu ehun a vriawd yndeu le. ac ynteu ny wydyat pa vod yr aei or ty rac eissy y varch. ac nyt oed ar y ty un drws namyn un. Y marchogyon a ffoassant allan ac aossodassant ar warchadw y drws. a lawnslot oed o vywn y ty gyt arrei meirw. Yna efo aeistedawd ymperued y neuad y orffowys. kanys blin a chlwyfus oed or dyrnodeu a rodassei. ac arodyssit idaw. ar marchogyon ynteu aoedynt yn eisted o bop parth yr drws. Ac ympenn talym lawnslot agyuodes y vyny. ac adaflawd udunt wy yrei meirw allan. A gwedy hynny ef agaeawd y drws arnaw. ar rei or tu allan. a tyngassant nat eynt odyno yny vei varw ynteu. ac nyt oed vawr ganthaw ef eu bygwth wy. pei cassoedyat y varch. Ac (a) vedylyawd heuyt y gallei ef odef arnaw eu bygwth wyntwy yn hir o amser: kanys yd oed yn y neuad digawn o vwyt a diawt hyt ympenn talym o amser. Yno y mywn y trigyawd ef. ar pedwar marchawc allan. Eissyoes pei cassoedyat ef y varch ny thrigyassei ef yno yrdunt. namyn ef aaethoed oe hanuod wy yn anrydedus. kanys nyt aeth eiryoet o le ar y bei onyt drwy enryded. Yma y mae yr ymdidan yntewi am lawnslot. ac ymchoelut ar walchmei.

CLXIX.—Ema ymae yr ymdidan yn dywedut uot gwalchmei yn drist am nat adnabu paredur gwedy ymgaffel ac ef teirgweith. acherdet aoruc ef yny doeth hyt y groes yny lle y dywawt lawnslot yd arhoei ef or deuei yno yn gynt noc ef. Ac yny fforest honno y bu ef mwy noc wythnos yn aros lawnslot heb gael un chwedyl y wrthaw. onyt elei drachevyn y lys arthur. Ac yna ymchoelut awnaeth ef yr fforestyd. ac a dynghawd nat ymchoelei draegeuyn vyth yny gaffei ae lawnslot ae paredur. A marchogaeth aoruc ef yny doeth y ueudwydy Ioseus. Ac yno disgynnu aoruc ef. ar meudwy ieuanc adoeth yny erbyn. ac ae hadnabu ac avu lawen wrthaw. Yna gwalchmei a ovynnawd idaw ywrth baredur. ar meudwy adywawt nas gwelsei ef yr kynn bot y vatteil yny llannerch goch. Ae ny

Digitized by Google

wdost di amgen no hynny heb y gwalchmei. Na wnn myn duw heb y meudwy. Ac megys y bydynt wy yn ymdidan uelly. wynt awelynt marchawc urdawl ac arueu o liw assur ymdanaw. ac yn disgynnu ar uedyr llettyu yno. Ar meudwy a vu lawen wrthaw. Yna gwalchmei aovynnawd idaw ae welsei ef varchawc ae arueu yn wynnyon. My ae gweleis ef. heb ef ac aovynnawd y mi a welswn inneu marchawc a tharyan o sinapyl idaw ac eryr eur yndi. a minneu adywedeis nas gwelswn. Aminneu aovynneis idaw ynteu paham y govynnei ef. ac ynteu adywawt y uot yn ymwan ac ef yn y llannerch goch. ac nat ymwanawd ac ef eiryoet gwr vwy o vilwryaeth yndaw noc ef. onyt lawnslot. Ac am hynny drwc uu ganthaw na wybu paunoed. Myn vympenn i heb y gwalchmei ysgwaeth vu gan y marchawc nas adnabu. kanys nyt oed yny byt wr hoffach ganthaw noc ef. Arglwyd heb y marchawc ef awelir y myui mae tydi yw ef. Gwir adywedy di heb y gwalchmei. myui a vum yno a digrif yw gennyf vyn taraw o varchawc kystal ac oed ef. a thrist vu gennyf wedy hynny am nas adnabuum. a dywet ym arglwyd pale y kaffwyf ef. Nyt pell iawn efo heb ef or fforest honn. kanys nyt oes yny byt le garedigach ganthaw nor fforest honn yma. Ar daryan aduc ef o lys arthur y mae yma hi yn y capel racko. ac yna ef ae dangosses y walchmei. Arglwyd heb y marchawc arall ae gwalchmei wyt ti. velly ymgelwir i heb ynteu. Ie arglwyd heb ef llawer dyd yr pan orffowysseis oth geissyaw di. kanys meliot o loedygyr a ladawd uab igawns or greic y tat. Ac yn erchi ytitheu yr duw dyuot yn nerth idaw megys y dyly arglwyd da nerthau ywr. Myn vyngcret heb y gwalchmei mi a wnn y dyly meliot gael vy nerthi yn diffaelyedi. dan na bei yn wr ym oachaws y vam adiodefawd y hangeu yn wirion om achaws i. adywet y gennyf idaw y deuaf oe nerthau yn gyntaf ac y gallwyf wneuthur neges arall yssyd arnaf y gwneuthur ual na allaf y gadaw yn anorffen. Y nos honno y bu ef yno hyt trannoeth pan daruu offeren. A gwedy offeren y marchawc aaeth ymeith. a gwalch-

Digitized by Google

mei a drigyawd yno y ymdidan ar meudwy. ac megys yr oed yn ymgyweiryaw odyno ef aedrychawd oe vlaen tu ar fforest. Ac ef aarganuu varchawc urdawl ar gevyn march mawr uchel yn marchogaeth yn araf. a tharyan idaw gynhebic y daryan baredur y weith gyntaf y kyfaruu ac ef. kanys eureit oed achroes goch yndi. Ac yna gwalchmei aalwawd ar y meudwy allan ac ae dangosses idaw. A atwaenost ti y marchawc racko heb ef. Atwaen heb y meudwy paredur yw. Bendigedic vo enw duw heb y gwalchmei. Yna gwalchmei aaeth ar y draet yn y erbyn. Apharedur a disgynnawd yna yr awr y gweles gwalchmei. a dywedut. Grassaw duw wrthyt heb ef a henpych gwell. Antur da arodo duw y titheu heb y gwalchmei. Arglwyd heb y meudwy byd lawen weldyma walchmei. Anryded a llewenyd awnel duw idaw heb y paredur. ac uelly y dylyei bawp or ae hadnapei dywedut. Ac ar hynny y dwylaw mynwgyl yd aethant. Arglwyd heb y paredur a wdost di dywedut ymi un chwedyl y wrth varchawc urdawl. yr hwnn avu yn y twrneimant yny llannerch goch. Paryw daryan oed idaw ef heb y gwalchmei. Taryan o sinopyl heb y paredur ac eryr eur yndi. ac ny weles i eirmoet na lawnslot nac arall sythach na thrymach y dyrnodeu noc ef. Arglwyd heb y gwalchmei. ymae ytti dywedut avynnych. a myui avum yno ac a ymweneis a marchawc urdawl. a tharyan wenn idaw. y hwnn yd oed holl vilwryaeth y byt yndaw wedy llettyu. Ie heb y paredur. ny wybuost di oganu neb eiryoet.

CLXX.—Ar hynny yr meudwydy yr aethant. Arglwyd heb y gwalchmei pan vuost di yn llys arthur yr kyrchu y daryan yssyd yma. yr oed yno dy chwaer di wedy erchi nerth yr brenhin a chanhorthwy. ac yn un or rei reityaf idi wrth nerth or byt. nyt amgen nerth a geissyei nor neb pieiffei dwyn y daryan. a thitheu a dugost y daryan. a hitheu a nodes arnat ti dy nerth megys yr honn ny thebygei panyw y brawt oedut. Ar brenhin a edewis idi hynny. a hitheu adywawt. os y brenhin a ffaelyei idi hi oe neges y kaffei angklot a

Digitized by Google

gogan. Ac amhynny y brenhin am gyrrawd i vi a lawnslot yth geissyaw di. ac efo ehun aathoed panybei anmynet ni drostaw. a myui agyfarvum hyt yn hynn athydi teirgweith heb dy adnabot. A llyma y bedwared weith yth adnabuum. a diolch arglwyd yth vam y llewenyd awnaeth ymi ynghamalot. a thrist vu gennyf y gwelet yn wreic brud ac yn wedw. ac a ryuel wedy disgynnu arnei heb neb ryw nerth idi. a hynny gan bobyl drwc heb gytwybot ganthunt. y rei yssyd yny gorthrymu hi yn vawr. a hi amgwediawd i os myui ath welei di ar uenegi ytt y hanghyflwr. ac nat ydiw yn gobeithyaw wrth nerth or byt onyt y teu di. ac onys nerthy di hi yn ehegyr hi agyll yr un castell y mae yndaw. ac or pymthec castell a vu eidyaw dy dat ti. nyt yr un yn y llaw hi onyt y castell o gamalot. ac oe holl varchogyon urdolyon nyt oes yr un onyt pump yn y nerthau hi. Ac am hynny oe phlegyt hi yr wyfi yndywedut ac yr iachau heuyt dy enryded ditheu. ac y mae gennyt digawn o nerth a gallu a chedernyt oe chanhorthwyaw hi ac oe nerthau. Ac yr awnelych di o vilwryaeth nyt oes yr un kyn ganmoledicket ae nerthau hi. kanys anghenreit yw idi hi wrth nerth. as ny mynnaf inneu golli ohonei hi dim yr na wnelwyfi y neges hi mal yd erchis. Kanys eissyeu oed idi aphechawt oed y minneu pei askelwn. a mwy vydei dy bechawt ti no nyni yn deu. kanys wyt alluawc o emendau y hyeissyeu hi. Da digawn yd ymrydheeist di heb y paredur. a dilis yw vynghyngori am nerth a dyly hi y gaffael. ac o ny wnelwn hynny mi a dylywn gael kewilyd mawr y gan y byt. a dial y gan duw. Myn vyngcret i heb y meudwy yd wyt yn dywedut gwir herwyd yr ysgruthur. kanys y neb ny charo nae vam nae dat. ny char ynteu duw. Hynny a wnn i heb y paredur. a duw awyr vy ewyllys. a phwy bynnac adywedei chwedleu ym y wrth lawnslot weithyon mi a uydwn vodlawn idaw. Arglwyd heb y meudwy nyt oes haeach yr pan vu efo yma yn amovyn chwedleu y wrthyt titheu. ac y wrth walchmei. a mi adywedeis idaw yr hynn goreu awydywn i ywrth hynny. Achynno hynny nosweith arall y bu ef yma

Digitized by Google

y doeth pedwar marchawc urdawl lladron am y benn y rei a groges ef yn y fforest yma drannoeth. ac y mae kwbwl oc eu kenedyl wynteu yn elynyon idaw ef. Ac os wyntwy a gyfarffei ae efo. drwy vot eu kedernit wyntwy yn well nor eidaw efo. wynt awneynt afles idaw. a minneu ae rybudyeis efo o hynny yn y blaen. Myn vympenn i heb y paredur nyt afi or fforest honn yny wypwyf chwedleu dilis y wrthaw ef. os gwalchmei a gyttuuna a mi am hynny. Myn vyngcret heb y gwalchmei ny allafi vot yn llawen yny wypwyf chwedleu y wrthaw. kynn vy mynet.

CLXXI.—Paredur a gwalchmei adrigyassant yn ty y meudwy yn hyt y dyd hwnnw. A thrannoeth y bore wedy offeren ef agymerth y daryan a dugassei o lys arthur. ac aedewis y llall ymeith. a thrwy gennat efo aaeth ymeith a gwalchmei y gyt ac ef yn llawen am y vot yny gedymdeithyas. ac velly y marchockassant yll deu yn aruawc. ac ynghylch hanner dyd wynt a gyvarvuant a marchawc urdawl yndyuot ar vrys ar hyt y fforest megys dyn dechrynedic o ovyn. Paredur yna aovynnawd idaw o bale yr oed yn dyuot. Arglwyd heb ynteu o fforest y lladron. y rei am hymlityassant mwy no milltir y geissyaw vy llad. ac wynt a ymchoelassant drach eu kevyn att varchawc urdawl a oed mywn ty ganthunt yr hwnn a wnathoed udunt wy lawer o gewilyd achollet or rei eidunt. kanys ef agrogassei pedwar onadunt. ac a ladawd un ar vorwyn deckaf o lloegyr. a hi ae haedassei. kanys hi a chorr a lettayssynt y marchawc hwnnw oe lad. Awdost ti heb y paredur paryw varchawc yw ef. Na wnn heb ynteu kanys ny chefeis i enkyt y ymovyn ac ef. namyn hynn awnn i panyw o eissyeu bwyt yny ty y mae efo wedy dyuot allan megys llew kandeiryawc. Ac y gyt a hynny heuyt ny buassei ef yn y ty yn gyhyt a hynny panybei y vrathu yn deule ac ny bu iach hyt yr awrhonn. a heuyt am nat oes varch idaw. Aphan wybu ef y vot yn iach. ef adoeth allan yn eu mysc yll pedwar lleidyr. y rei oed arnunt y ovyn yn gymeint ac na lyuessynt y gyrchu. eissyoes wynt adeuynt yn agos

Digitized by Google

idaw ef. nyt oed wiw ganthaw ynteu vynet na cherdet ar y draet. ny deuynt wynteu mor agos idaw ac yr ymgaffei ac un onadunt. aphei delynt pan vei waethaf ef a vynnei un or meirch. A unben heb y paredur wrth y marchawc duw adalo ytt dy chwedleu. Arglwydi heb y marchawc godefwch y gennyfi vynet y gyt a chwi y edrych ar distriw y gwyr drwc hynny. Ni ath odefwn yn llawen heb wynteu. Arglwyd heb y marchawc urdawl tlawt yr hwnn y gweleist di y morynyon tlodyon yn chwioryd idaw yny castell tlawt. yn y lle y kysgeist di ti a lawnslot pan doeth y marchawc ar chwedleu ytt hyt y castell. Gwir adywedy ti heb y gwalchmei mi atwaen y chwedleu hynny weithyon. ath gedymdeithyas ditheu yssyd da gennyfi oe hachaws wyntwy. Yna gwalchmei aerchis yr marchawc gerdet or blaen kanys atwaenat yfford. Lawnslot eissyoes adoeth allan. ae gledyf yn y law yny lawnllit. ac wynteu yll pedwar yn ofnus ar eu meirch rac y ovyn ef. Eissyoes un o honunt ae kyrchawd ef. o debygu y dylyynt gael keryd am na ellynt yll pedwar oruot ar un gwr. a hwnnw ae trewis ef. ac nyt ysgaelussawd lawnslot y taraw ynteu yny vyd y vordwyt yr mae. ac yny vyd ynteu dan draet y varch yr llawr. Ac arhynt lawnslot a vwryawd neit ar gevyn y march. a diogelach oed ganthaw uelly noc or blaen. ar tri ereill aoedynt o bop parth idaw yn keissyaw gwneuthur drwc idaw. Ar hynny y marchogyon adoethant. ar marchawc adywawt wrth baredur a gwalchmei. Arglwydi heb ef chwi aellwch glybot yr awr honn y dyrnodeu hyt yma. ar cledyfeu. yna brathu meirch aorugant wynteu. Aphob un onadunt adrewis marchawc yr llawr. ar trydyd adienghis. ar marchawc adoeth ar chwedleu aaeth yn ol hwnnw. ac or diwed ae lladawd. Aphan adnabu lawnslot panyw paredur a gwalchmei a oed yno. diruawr lewenyd auu ganthaw wrthunt. ac nyt yr bot yn reit idaw ef wrthunt wy nac yn gyfing ganthaw y gyflwr yr oed ef mor lawen. a hynny. namyn am eu gwelet. Arglwyd heb y gwalchmei wrth lawnslot y marchawc hwnn an duc ni yma. ac y mae ef yn gevyn-

Digitized by Google

derw yr marchawc or castell tlawt. yn y lle yn llettywyt ni yn deu nosweith. ac am hynny ni aanuonwn y meirch yma idaw ynteu. Nyt amgen no deu idaw efo. ac un yr marchawc yma yr eu dwyn wynteu. ar kyuanned yma ar tei ar da ni ae rodwn yr morynyon yn lle eu kwrteissi. a ni ae gwarantwn udunt dan yn perigyl ni tra vom ni vyw. Gwalchmei heb y paredur llyna dywedut ynda.

CLXXII.—Arglwydi heb y marchawc y mae udunt wy ryw otua yny fforest honn yn y lle y rodynt wy eu lletrat ac eu hyspeil. ac eu trysor. Ac y mae o da udunt wy yno awnelei les y lawer o eissywedigyon. Ac ar hynny wynt agerdassant ac adoethant tu ar lle hwnnw. ac yno wynt agawssant amylder o da mywn seler y dan y daear. yr honn aoed yn llawn o eur ac aryant a thrysor a thlysseu tec. a llestri mawrweirthyawc ac arueu a dillat. ac yn lle arall yd oedynt kyrff gwyr lladedic. Lawnslot heb y paredur ys mawr a alwyssen awnaethost ti diua y bobyl drwc honn. Wyntwy am diuayssynt i pei asgallyssynt heb y lawnslot. Eissyoes nyt dim yssyd drwc gennyf onyt llad y vorwyn. ac om anuod y gwneuthum i hynny. kanys megys y mynnaswn i daraw un onadunt wy y disgynnawd y dyrnawt arnei hi oe ffolineb ehunan. Nac ef heb y marchawc llyna weithret da vu y llad hi. kanys llawer dyn aodefawd y angeu drwy y thwyll hi ae brat. Yna gwalchmei apharedur drwy gytsynnedigaeth lawnslot a roessant y da ar trysor yr morynyon or castell tlawt. ac a anuonassant gennat ynol ioseus veudwy y gadw y da yny delei y morynyon yno. Ar meudwy adywawt y gwnaei ef hynny ynllawen. a digrif vu ganthaw darvot eu diua. kanys llawer nosweith drwc a gawssoed ef ganthunt wy. Yr ovyn ac aruthtra y marchawc a ymwahanawd y wrthunt wy ar trimeirch ganthaw. a llawen vuwyt wrthaw yn y castell tlawt. Ac yna paredur a gymerth gennat gwalchmei a lawnslot. ac adywawt na orffowyssei vyth yny ymgaffei ae chwaer ac ae vam. ac aerchis udunt wy yr duw annerch arthur y ganthaw ar vrenhines a chwbyl or barwnyeit or llys y am hynny. a

Digitized by Google

minneu adeuaf y ymwelet ac wynt yn gyntat ac y gallwyf. Eissyoes myui avynnaf yn gyntaf rydhau arthur or hynn aedewis ef ym chwaer i. ac omplegyt i ny ogenir ef vyth. a mwy y dylyit vynggoganu i no neb yn y damchwein hwnnw. Yma y mae yr ymdidan yntewi am lawnslot a gwalchmei ac yn trossi ar baredur.

CLXXIII. E kyuarwydyt yssyd yma yn dywedut marchogaeth o baredur drwy yr estronyon fforestyd yny doeth y wlat bell yn y lle ny buassei ef eiryoet herwyd y tebygei. athrwy y wlat y doeth ef yr honn nyt oed yndi chweith da heb daruot y diua yn llwyr. kanys nyt oed yndi hi undyn na dim da. namyn ef awelei aniueilyeit gwylltyon ar hyt y meyssyd. ac adaw y wlat honno aoruc ef. a dyuot y fforest. ac y rwng y fforest honno a mynyd bychan. ef aarganuu kudugyl meudwy athu ac yno y doeth ef. a disgynnu aoruc. ac ef a glywei y meudwy yn dywedut gwassanaeth or meirw ef ae ysgolheic. ac ef awelei llenn wedyr ossot ar y llawr geyrbronn yr allawr. megys pei asgossottit ar gorff. ac or tu allan y bu baredur yn gwarandaw y gwassanaeth yny daruu. kanys ny mynnei ef vynet yn aruawc ymywn. Aphan daruu y gwassanaeth ac yr meudwy ymdiosc. ef adoeth y meudwy att baredur ac a gyuarchawd gwell idaw. apharedur idaw ynteu. Arglwyd heb y paredur paham y gwnaethost di y gwassanaeth hwnn or meirw. Aphonyt dros y neb yssyd yna y gorugost di y gwassanaeth hwnn. Gwir yw heb y meudwy y gwassanaeth hwnn a wnaethpwyt rac eneit llacheu uab arthur yr hwnn a gladwyt racko. Ae yma heb y paredur y bu uarw llacheu. Yn ymyl hynn heb ef y llas ef. Pwy ae llas ef heb y paredur. Mi ae dywedaf ytt heb y meudwy. y tir a weleist di yngot gwedy y diua. yno y gnottaei vot kawr creulonaf or byt. a mwyaf. ac ny lyuassei neb drigyaw yn y wlat ygyt ac ef. ac uelly y distrywawd ef y wlat ual y gweleist di. llacheu agychwynnawd o lys arthur. y geissyaw anturyeu. ac adoeth yr fforest honn yma. drwy ewyllys duw. ac aymwanawd a logrin gawr ac or diwed llacheu aoruuw.

Digitized by Google

CLXXIV.—Aruer ryued aoed ar lacheu. pan ladei neb ryw ormes yna y kysgei ar y warthaf. ac ar warthaf y kawr y kysgawd ef. ac ar hynny y doeth marchawc urdawl yr hwnn aelwit kei. ac aoed yn keissyaw anturyeu heuyt. ac agigleu diaspat y kawr pan roet idaw y dyrnawt marwawl. athu ac yno y doeth ynteu gyntaf ac y gallawd. ac arganuot llacheu yn kysgu ar warthaf y kawr. Ac yna tynnu cledyf aoruc kei athorri penn llacheu. a chymryt y corff ar penn aoruc ef ae roi mywn kist vaen aoed yno yn y ymyl. adryllyaw y daryan rac y hadnabot. A gwedy hynny ef adorres penn logrin gawr yr hwnn aoed anghyuartal o veint. ac ae croges wrth y gorof vlaen oe gyfrwy. Ac odyna efo aaeth y lys arthur. ac adangosses y penn y arthur. A llawen vu gan arthur hynny. a chan gwbwl or llys. Ac arthur aalwawd ar gei. ac aroes llawer o tir a dayar idaw. o dybyeit y vot yn dywedut gwir. A thrannoeth y bore ef adoeth yma vorwyn ieuanc. ac adywawt y mi hynny. ac adeuthum inneu yno. ac rac meint oed y kawr ny lyuesseis i vynet yn agos idaw. a gwedy hynny hi am duc i yr lle yr oed llacheu. A hi aerchis ymi yntal y llauur y penn. a minneu ae kannateeis idi. a hitheu ae kymerth ef ac ae dodes mywn prenuol aoed genthi. gwedy y gweryaw o odidawcweith a mein mawrweirthyawc. A gwedy hynny hi am kymhorthes inneu o dwyn y corff hyt yma oe gladu. a gwedy daruot hynny hi aaeth ymeith. ac nyt yttwyfi arglwyd yn dywedut hynny yr mynnu y wybot o arthur. kanys ef awnaei drwc y gei yn ehegyr ar pechawt a vydei arnafi. Arglwyd heb y paredur mawr a ovit yw marw llacheu yny mod hwnnw. rac daet oed defnyd milwr ohonaw. aphei gwypei arthur ar gei hynny. yr hwnn nyt caredic eissyoes gan neb or llys. ef agollei y llys ae eneit heuyt o cheffit lle llaw arnaw. Yno y bu baredur y nos honno. athrannoeth gwedy offeren ef aaeth ymeith. ac a varchockaawd drwy fforestyd dan damunaw chwedleu y wrth y vam ae chwaer. Ac ar hynny ef awelei vorwyn ieuanc oe vlaen dan vric prenn. ar griduan mwyaf or byt genthi ar dal

Digitized by Google

y deu lin ae hwyneb tu ar dwyrein. ac yn dyrchafael y dwylaw tu ar nef ac yn garedic yn gwediaw ar y harglwyd ar anuon nerth idi yn ehegyr herwyd nat oed yn y byt dyn reidyach idi wrth nerth no hi. Yna paredur asafawd ynggwasgawt y fforest pan gigleu y uorwyn yn ymgwyno uelly. ac ny welei hi efo. Och arthur medei hi mawr a bechawt awnaethost di pan ebryuygeist wneuthur vy neges wrth y marchawc aaeth ar daryan oth lys drwy nerth yr hwnn y cawssoedyat vy mam i y chastell yr hwnn a gyll hi yn ehegyr o nyt duw ae hamdiffyn. A minneu yssyd gyn direittyet ac ymae reit ym vynet y bop lle ymbrytaen y geissyaw vy mrawt ac heb gael un chwedyl y wrthaw. namyn rei adyweit nat oes yn y byt milwr well noc ef. aphryt na dengys ef y vilwryaeth yn an anghenreit ni. mwyaf oll y dylyei gael gogan am adel ohonaw didreftadu y vam. Eissyoes y mae gennyfi obeith pei gwypei ef vot y gouit hwnn arnam ni y deuei attam. a mi adebygaf y vot ef odieithyr y vrenhinyaeth honn lle nyt yttiw yn clybot un chwedyl y wrthym ni. ac am hynny arglwydes ueir vam y iachwyawdyr. pryt na allom ni gael nerth y ganthaw ef. nertha di nyni drwy arall. megys y gwdost y vot yn reit ynn. kanys os vym mam i agyll y chastell ef avyd reit idi vynet y gardotta.

CLXXV.—Ac ar y geir hwnnw paredur a varchockaawd parth ac att y vorwyn. a hitheu gan dwryf y march a gyuodes ac ae harganuu ac aadnabu y daryan. Arglwydes veir heb hi. nyt ebryvygeist di vyui etto. ac ny digawn neb vot ac anghyngor arnaw or aobeitho ynot ti o gallon da. Ac yna yn erbyn y marchawc hi. ac ymauael ae esgeir aoruc aruedyr roi cussan y droet. A unbennes heb ynteu paham yw hynny. Och arglwyd heb hi yr y maeth a gymerth duw y gan y vam trugarhaa wrthyf. ac wrth vy mam. ac os tydi a ffaelya yni ny wdam beth awnawn. Ac ef a dywetpwyt yni mae tydi oed y marchawc goreu or byt. ac y geissyaw dy nerth di y deuthum i y lys arthur. ac y duw heb hi tosturya wrthyf. Ac arthur adylyassei dy wediaw di drossofi. ac ef a ym ysgaelussawd. A unbennes heb y paredur.

Digitized by Google

ef awnaeth arthur ytt gymeint ac na ffaelyawd oth amot. kanys ef aanuones y deu vilwr oreu oe lys ym keissyaw i. ac o gallaf inneu lauuryaw mi awnaf ual y bo bodlawn duw ac ynteu heuyt ymi.

CLXXVI.—Llawen vu gan yr unbennes glybot y marchawc yn kennattau y nerth udunt. Ny wydyat eissyoes panyw y brawt hi oed ef, aphei as gwypei yna y dwblei y llewenyd. Paredur eissyoes awydyat panyw hi oed y chwaer ef. Yna ef agymhorthes y vorwyn o vynet ar y march. A marchogaeth y gyt aorugant dalym. Arglwyd heb yr unbennes ef avyd reit ymi uynet heno vy hun yr lle aelwir y kyfle periglus. A unbennes heb ef y baryw beth. Arglwyd heb hi gouunet a wneuthum ar ryw veudwy santeid. adywawt ym na ellir vyth goruot ar y gwr yssyd yn ryuelu arnam. ony bei gael peth or kyvyrlit yssyd ar yr allawr yn y lle hwnnw. Ar brethyn hwnnw yssyd santeid iawn kanys ynghylch iessu grist y bu pan roet yn yr ysgrin. ac ny dichawn neb vynet yr capel hwnnw ar y eil vyth. ac am hynny y byd reit y mi vy hun vynet yno. ac y duw yr wyf yn erchi vy amdiffyn rac drwc. athitheu arglwyd aey parth a chastell camalot yn y lle y mae vy mam i yn aros dy dyuotyat ti ath nerth. a delit yn dy gof arglwyd yn nerthau ni ual y gwelych y vot yn reit yn pan delych yno. A unbennes heb y paredur os da gan duw mi ach nerthaf chwi yn oreu ac y gallwyf. Arglwyd heb y vorwyn weldyma dy fford di yr honn nyt a neb idi yn diberigyl. aduw ath diangho di rac drwc. am lle inneu yssyd heno mywn perigyl mawr heuyt. Paredur yna aymwahanawd y wrth y chwaer. Ac yn dost ganthaw y gwelet yn mynet ehunan yny mod hwnnw. ny lesteiryei ynteu hi. kanys ef awydyat na allei neb vynet y gyt a hi. Ac uelly ydoed y kyfle ac aruer y wlat honno. Y gyt a hynny heuyt nyt oed da gan baredur dorri oe chwaer y gouunet. kanys ny wnaeth neb oe chenedyl hi chweith mileindra nac anghywirdeb eiryoet. ac ny ffaelassant ar dim or a damunassant namyn brenhin y castell marw ehun. Yr unbennes agerdawd ehunan yn drist ac yn ofnus parth ar kyfle periglus. ar fforest a

Digitized by Google

gafas hi yn wasgodawl dywyll. a marchogaeth aorue yny aeth yr heul y gysgu. Ac yna bwrw golwc oe blaen ac arganuot croes uawr ucheldec. ar yr honn yr oed delw yn arglwyd ni iessu grist. a thu ac yno y doeth hi agwediaw y gwr adiodefawd ar brenn y groc. vwrw y arnei berigyl y nos honno ae dwyn ar lewenyd. Y groes honno aoed ar y fford yr eit yr vynnwent. Ac yr pan dechreuassei varchogyon urdolyon y vort gronn geissyaw anturyeu ny buassei uarw neb yn y fforest honno ny pharei dwyn y gorff yr vynnwent honno. a gwybyd di yn lle gwir ony bei y vot ef gwedy y vedydyaw. ac yn ediueiryawl oe bechodeu na thrigyei y gorff ef yno. Yr unbennes adoeth yno y mywn. ac na ryuedet neb ot oet ovyn arnei.

CLXXVII.—Iosep yssyd yn tystolyaethu na odefawd duw chweith yspryt drwc o vywn y vynwent honno eiryoet. kanys seint ondras ae kyssegrassei ae dwylaw ehun. Eissyoes ny bu gennat y ueudwy drigyaw yno eiryoet o achaws ysprydoed drwc avydynt ar hyt y fforest y rei ny mynnei y vynnwent dim oc eu kyrff. Ac yna yr unbennes gwedy y bot yno dalym hi a welei or tu allan yr vynnwent marchogyon duon mawr. a gwaewyr tanllyt mawr yn eu dwylaw. aphob un onadunt yn ymguraw ae gilyd ual tybygei hi vot y fforestyd yn diwreidyaw ganthunt. Eissyoes nyt oed yr un ohonunt wy a lyuassei dyuot o vywn y vynnwent. ar vorwyn pan weles hi hynny breid vu na syrthyawd yr llawr rac ovyn. Yna y vorwyn aroes arwyd y groc arnei ac a ymorchymynnawd y duw a meir. ac edrych oe blaen. ac arganuot y capel aoruc ynhen ac ynvychan. atharaw y mul aoruc hi ac ysgwrs adyuot parth ac yno. Aphandoeth ymywn hi awelei golovyn vawr yny capel. ac yno hi awelei delw veir. acheyrbronn ydelw y gwediawd veir ar y chadw yn didrwc or lle periglus hwnnw. ac ar yr allawr hi a arganuu y brethyn y dathoed hi yno oe achaws. ahi adoeth tu ar allawr ar vedyr kymryt peth or brethyn. Ac yna y brethyn agyuodes y vyny yn un ffunyt aphet vei wynt yn mynet ac ef. a hynny yn gyfuch ac na allei hi y gyrhaedut. Och duw heb hi ae

Digitized by Google

oachaws vympechawt i y mae y santeid vrethyn hwnn yn ffo ragof. Och arglwyd heb hi ny wneuthum i drwc y neb eirmoet. na gwr ny phechawd am corff inneu yn gnawtawl. ac vyth nys gwna. Ac ny bu arnaf chwant eirmoet y hynny. namyn dy garu di ath wasanaethu awnaf ynoreu ac y gallwyf. ar geniuer poen a gouit avu arnafi eirmoet. yr wyf yny gymryt yn anmyned oth garyat ti. na dim a vo drwc gennyt ti nys gwnafi om bod. Arglwyd yrhwnn y mae kwbwl or byt dan y wialen. kennatta ym glybot chwedleu dieu am vymrawt ot ydiw yn vyw. ac echwynna nerth a gallu yr marchawc da yr hwnn aaeth oth garyat ti y nerthau vy mam i. Arglwyd heb hi delit yth gof panyw ioseph o arimathia oed y hewythyr hi. yr hwnn agarawd dy gorff di yn vwy noc aallei pilatus y roi idaw o eur ac aryant. a iawn awnaei. Y gyt a hynny arglwyd ef ath erbynnyawd y ar brenn y groc rwng y dwylaw. ac ath amdoes ar syndal racko. ac ath gladawd y mywn y ysgrin ehun. Arglwyd kennatta ym y gael yr karyat y gwr ae gossodes ef yny capel yma. ac yrwyf inneu ynhanuot ohonaw. ac or fford honno y dylyit kennattau ym beth o honaw yn vyndiruawr anghen.

CLXXVIII.—Ac ar hynny y syndal hwnnw adisgynnawd yny vu ar yr allawr. ac ohonaw yr oed wedyr dorri kymeint ac a gannadawd duw idi y gael o honaw. A hitheu ae kymerth ef ac ae roes yn y mynnwes ac asychawd y hwyneb ae llygeit. Ioseph yssyd yn tystolyaethu na doeth dyn eiryoet yr capel agaffei daraw y law ar y brethyn hwnnw onyt y vorwyn e hun. ac yd oedynt etto yr ysprydoed drwc yn ymguro ual ytebygei hi vot y fforest yn un fflam ganthunt. Ac ynghylch hanner nos ehun yr ymdywynnygawd llef arbenn y capel yn dywedut. Och yr eneidyeu truein y rei y mae eu kyrff yny vynnwent honn yngorwed. mawr agollet a gawssawch chwi hediw. kanys neur vu uarw brenhin peleur. yr hwnn aoed yn peri gwneuthur gwassanaeth seint greal yn dwywawl yn y racwerthuawr gapel yno yn y lle yr ymdangossei seint greal yn vynych. a brenhin y castell marw yssyd yn medyannu y castell ar capel yr awr

Digitized by Google

honn. ac etto nyt ymdywynnygawd dim o seint greal yno. a chwbwl or creireu ereill ny wys chwedyl or byt y wrthunt. Ar offeiryat avu yn gwassanaethu y capel ar deudec marchawc urdawl nar morwynyon a oedynt yno ny wys dim y wrthunt oll. a thitheu vorwyn yr honn yssyd yma ymywn. na obeitha di o allel o varchawc estrawn ytt chweith kanhorthwy. nac yth vam. ac ar hynny y tawawd y llef. Ac yna ryw gwynuan ac ucheneidyeu agyuodes arhyt y vynnwent yngymeint ac nat oed dyn or byt or ae clywei ny bei dostur ganthaw. ar ysprydyeu drwc aoedynt or tu allan yr vynnwent aaethant ymeith yn gymeint eu twryf ac y tebygyt bot y daear yncrynu. Ar unbennes pan wybu varw y hewythyr hi a syrthyawd yny llewic yr llawr. aphan gyuodes o hynny dywedut. Och duw heb hi yr awrhonn y gwnn i nat oes yn chweith kynheilyat. Y gyt a hynny nyt oed lawen iawn pan gigleu na allei y marchawc yr oed yn gobeithyaw yndaw idi chweith lles. ny wydyat hitheu panyw y brawt oed ef. Yno y bu hi uelly yny vu eglur y dyd. Ac yna ymorchymun aduw awnaeth ac esgynnu ar y march a cherdet ymeith parth ae chartref.

CLXXIX.—E kyfarwydyt yssyd yn dywedut kerdet or vorwyn parth a chastell y mam. eissyoes nyt oed hyfryt hi am y llef adywedassei na allei neb y nerthau onyt dyn idi ehun. A marchogaeth aoruc hi yny doeth y lynn camalot ac yny welei y castell. Ac ar hynny hi aarganuu baredur yn dyuot or fforest. ac yn edrych ar gastell y vam. ac ar y wlat o bop parth idaw. a digrif vu ganthaw athec y gwelet. Ac ar hynny y vorwyn adoeth attaw. ac adywawt. Arglwyd heb hi mi avum mywn perigyl mawr gwedy vy mynet y wrthyt ti. a mi agiglef chwedleu doluryus ym mam i ac y minneu heuyt. kanys brenhin peleur vy ewythyr a vu varw. ar brenhin or castell marw aaeth ym medyant y eidaw ef. ae lys. Eissyoes gwell y dylyei vy mam y gael ef noc efo. kanys hynny yw. Ae gwir heb y paredur y varw ef. Gwir mynllaw duw heb hitheu. Myn vyngcret heb y paredur drwc yw gennyfi hynny. ac ny thebygasswn

Digitized by Google

i y varw ef mor ehegyr a hynny. Arglwyd heb yr unbennes trist wyf oth achaws di. kanys ef adywetpwyt ym. nat oed na chedernit na milwryaeth aallei yni chweith lles ony bei gael vy mrawt i. Ac uelly y collasam ni yn cwbyl os gwir. kanys nyt hwy yr oet noc hyt ym penn y pymthecuet dyd o hediw. ac ny wnn inneu pa le y keissyafi efo rac nesset yr oet. Ac am hynny reit vyd yni gadaw y castell gyntaf ac y gallom. a gwae vi nat yttiw vy mam y gyt a brenhin peles. kanys nyt oes ym chweith canhorthwy onyt euo. Paredur aoed yn tewi ac yn dost ganthaw warandaw ar hynny yn y vedwl. a hitheu dan wylaw adangosses idaw ef y glynn ar castell ar gweirglodyeu ar fforestyd. Arglwyd heb hi kwbyl o hynn racko aduc arglwyd y corsyd y gan vy mam i. ac nyt oes arnaw chwant kymeint achael y castell idaw ehun. Ac yna marchogaeth aoruc ef. yny yttoed yn agos yr castell. Ar arglwydes aoed ar un o ffenestri y castell ac a adnabu y merch arhynt. Och arglwyd duw heb hi kanhatta panyw vy mab yssyd racko y gyt ae chwaer.

CLXXX.—Paredur yna adoeth hyt yn ymyl y capel. aoed ar y pedeir colovyn o varmor. ac ynteu aadnabu y capel drwy arwydyon dywedut oe dat wrthaw panyw donyawc ahawd vydei garu y gwr y gwybydit oe achaws beth oed yn yr ysgrin yno. kanys nyt ymagorei yr ysgrin vyth yny delei yno y marchawc goreu or holl vyt. Yna paredur a geissyawd mynet heb y capel. pan dywawt yr unbennes wrthaw. Arglwyd heb hi nyt aa fford yma neb ny del y edrych y capel hwnn apheth yssyd yndaw ac uelly gwna ditheu ual y gwnaeth y lleill oth vlaen. Yna paredur adoeth tu ar capel ac adisgynnawd. ac ae tynnawd hitheu y ar y march. ae daryan ae waew aroes ar y llawr. adyuot yr capel aoruc aroi y law ar yr ysgrin. ac yr awr y roes ef y law arnei. hi aymagores ac agyuodes y caeat or neilltu idi yny welynt wy yr hynn aoed yndi. Yna yr unbennes a syrthyawd ar y draet ef o lewenyd. Ac ar y wreic brud yr oed yn aruer y geniuer gweith y gwelei varchawc yn sefyll yn ymyl y capel. hi abarei dyuot a

Digitized by Google

hi yno. ae marchogyon urdolyon ae duc yno hi. A phan weles hi yr ysgrin yn agoret ar llewenyd aoed gan y merch a wybu panyw y mab oed. Ac yna redec dwylaw mynwgyl awnaeth hi idaw efo. Yr awrhonn heb hi y gwnn i nat ebryuygawd duw vi kanys keueis vy mab. Arglwyd heb hi yr awr honn y mae profadwy dy vot ti yn oreu marchawc urdawl or holl vyt. kanys panybei dy vot uelly. nyt ymagorei yr ysgrin yrot. ac ny wybydit beth aoed yndi. Yna ef a berit y offeiryat gymryt llythyr o eur aoed yn yr ysgrin. Ac ae darlleawd. ac adywawt bot y llythyr yn tystolyaethu panyw y neb aoed yn yr ysgrin oed un or rei adynnawd iessu grist y ar brenn y groc. nyt amgen nor hwnn adynnawd yr hoelyon oe dwylaw. ac oe draet. Ac yna wynt aedrychassant yn yr ysgrin ac aarganuuant yr euel a vuassei yntynnu yr hoelyon yn waetlyt etto. Eissyoes gwybyd di na ellynt wy eu tynnu wynt or ysgrin allan.

CLXXXI.—Ioseph yssyd yn tystolyaethu panyw yr awr yr aeth paredur ymeith y caeawd yr ysgrin drachevyn ual y buassei gynt. Yna yr arglwydes a gymerth y mab. ac adoeth yr castell drwy lewenyd mawr. ac adywawt oe mab y mileindra ae hamarch yr pan athoed ef ymeith. ac adatkanawd idaw y kwrteissi awnathoed gwalchmei yrdi. ar hwnn yssyd yn ryuelu arnafi yssyd greulonaf gwr or holl vyt. ac ef aduc y gennyf kwbyl om tir (a) daear. ac os da gan duw tydi ae hennilly drachevyn. Ac am hynny arglwyd keis dial dy gewilyd yr gwellau dy glot ath enryded. kanys ny dyly neb odef y ostwng gan wr drwc. ac am hynny uarglwyd mogel rac gadel y oeri y kewilyd ar collet awnaethpwyt ym. Kanys pwybynnac o wr da a gaffo kewilyd ny dyly neb adel hwnnw y oeri. namyn yn wastat ucheneidyaw achadw yn y gof hwnnw. kanys y elyn yw yny allo y dial arnaw. Kanys ny dyly gwr da or byt dial y gewilyd herwyd ymadrawd namyn o weithret herwyd y gyfle. kanys ny dichawn neb orthrymu y elyn ynormod ony bwrw y aruot ar duw. Eissyoes yr ysgrythur lan adyweit na dyly neb wneuthur drwc oe elyn. namyn gwediaw ar y dwyn yr iawn.

Digitized by Google

a mi avynnwn heb hi pei vynggelynyon ae mynnynt emendau onadunt dros y cam awnaethant. rac goruot arnam ni ymgeinyaw ac wyntwy. kanys selyf a dyweit panyw pa un bynnac a ymelldigo arall. y mae yny ymelldigo ehun. Arglwyd vab (heb) hi. y castell ar glynn a wely di adyly bot yn dy uedyant ti gyt ae perthyneu. a hynny o wir dreftadawl dylyet ytt. ac am hynny anuon di ar arglwyd y corsyd yr hwnn aduc y gennyt ti dy fforestyd ath dreftat y erchi idaw ydalu ytt drachevyn. amdanafi nym tawr i beth awnel ef kanys nyt reit ym wrth tir bellach vyth. kanys mi awnn na bydaf vyw i haeach gwedy marw vy mrawt. o achaws yr hynn y mae vyngcallon wedyr dorri odristit. a mi adywedaf ytti vy mab vot arnat ti bechawt mawr am y angeu ef. kanys oth achaws di y digwydawd ef mywn yr heint. ac am na ovynneist beth a arwydockaei seint greal y bu varw.

CLXXXII.—Paredur a warandawawd yn hir ar y vam ac nyt attebawd ef idi o dim. eissyoes cof oed ganthaw ef bop peth or a dywawt hi. Ac yna y perit tynnu y arueu y amdanaw ef. a gwisgaw dillat yn y gylch. Ac nyt oed yngkwbyl or holl vyt marchawc urdawl degach na gwell gweith pob aelawt idaw noc oed ef. Arglwyd y corsyd eissyoes a debygassei y cawssoedyat ef y castell yn diwrthwyneb. ac ef a gigleu dyuot paredur. ac yr hynny ny wyr duw symlu arnaw ef o dim oe darpar. ac nyt eiryachawd ef yr hynny varchogaeth ympob lle. a dywedut y mynnei ef y castell oe anuod ef. a diwarnawt yd aeth un or pump marchawc urdawl yr coet. y hely carw. A gwedy daruot idaw llad y karw. ef adoeth drachevyn parth ae gartref ar helwyr y gyt ac ef. pan gyuaruu arglwyd y corsyd ac ef. a dywedut wrthaw mae ryhy oed idaw dyuot y hely y fforest ef. ar marchawc ae hattebawd ac adywawt na dylyei y fforest honno vot yn y eidaw efo. namyn y wreic wedw o gamalot ae dylyei neu y mab hitheu. Ac yna arglwyd y corsyd alidyawd wrthaw ac ae brathawd achledyf drwydaw yny vu varw ef. ae gedymdeithyon ae dugassant adref hyt geyr bronn ae vam. A unben

Digitized by Google

heb y wreic wrth y mab y ryw anregyon hynn a gawssam ni yn vynych gan arglwyd y corsyd yrhwnn ny chafas digawn eiryoet om gorthrymu i. athi a elly wybot ry wneuthur ohonaw ef lawer gorthrymder yr pan vu varw dy dat ti. Yna yr arglwydes aberis amdoi y marchawc urdawl ae gladu. A thrannoeth gwedy offeren paredur awisgawd y arueu ymdanaw. ac a beris y deu o varchogyon y llys dyuot y gyt ac ef yn aruawc. ac yr fforest ydaethant. amarchogaeth aorugant yny doethant hyt yn ymyl castell. ac o hwnnw wynt awelynt pump marchawc urdawl yn dyuot yn aruawc. Paredur aovynnawd pioedynt gwyr wy. Ac wynteu a dywedassant mae gwyr oedynt y arglwyd y corsyd. a mynet yd oedynt y geissyaw mab y wreic wedw. ac or gallwn y daly ae dwyn yn arglwyd ni agawn wellau arnam vyth. Myn vympenn i heb y paredur weldyma hwnnw y chwi. ac nac ewch bellach no hynn oe geissyaw. Ac yna brathu y varch aoruc paredur tu ar nessaf attaw onadunt. ae vrathu trwydaw a gwaew yny vyd mwy no hyt hanher llath. ac a drewis pob un o rei ereill yny dylla eu llurygeu ac yny vuant yn vriwedic drwc. namyn deu onadunt aymrodassant yn garcharwyr. ar deu vriwedic heuyt adoethant gan baredur y gastell camalot ac ae duc oe vam. Arglwydes heb ef weldyma dechreu tal ytti am dy varchogyon urdolyon. ar pymet adrigyawd yn y fforest yn gyndrwc y gyweirdeb ar teu ditheu doe. Arglwyd uab heb hi ys oed gwell gennyfi yr hedwch pei ascaffwn. Arglwydes heb y paredur ual hynn y mae yr awrhonn. ef adylyit gwneuthur ryuel yn erbyn ryuel. ahedwch yr neb a vei hedychawl. Y marchogyon agymerwyt ac aroet yngkarchar. Y chwedleu a doeth att arglwyd y corsyd. y dywedut daruot y uab y wreic wedw llad un oe varchogyon urdolyon. a dwyn pedwar yngcarchar. a llidiawc vu ganthaw ynteu yny vedwl ae gallon hynny. athyngu aoruc na orffowyssei vyth yny gaffei daly paredur neu y lad. ac or bei yny helw marchawc ae dalyei idaw. ef a rodei idaw y castell goreu ar y helw namyn un. Aphob un yna a ymbarattoes y geissyaw paredur. athran-

Digitized by Google

noeth y bore wynt adoethant chwech or marchogyon hyt geyrbronn castell camalot. a marchogaeth dan saethu keirw yn y fforest awnaethant. ac ymdangos aorugant ual y gwelei y rei or castell wynt. Paredur eissyoes aoed yn gwarandaw offeren yny capel. aphan daruu offeren y chwaer adywawt wrthaw. Arglwyd heb hi weldyma y brethyn a dugum i or lle periglus. kymer ef a chussana. kanys meudwy adywawt ym na orvydit vyth ar yngelyn ni yny geffit ef. Apharedur ae kymerth ac ae roes wrth y wyneb. a gwedy hynny ae roes yn y vynnwes. ac awisgawd y arueu ymdanaw ef ar pedwar marchawc urdawl gyt ac ef. a gwedy hynny ef adoeth or castell. megys llew pan ollyngit oegadwyn. ac a dynessaassant att y chwech marchawc y rei aoedynt digawn eu balchet. Paredur aovynnawd udunt paryw wyr oedynt aphwy yr oedynt yn y geissyaw. ac wynteu adywedassant mae gelynyon oedynt yr wreic wedw ac oe mab. Myn vyngcret heb y paredur weldyma hwnnw y chwi. Ac ar hynny ymgyffroi tu ac att un onadunt ae daraw. yny vu reit idaw ymadaw ae gyfrwy ac ymgwffau ar llawr. ar pedwar marchawc ereill pob un adrewis yr eidaw yny oed bop un o hynny gwedy eu hanafu yn drwc. ar chwechet a ymroes. ac uelly y peris eu dwyn wynteu yngkarchar. Arglwyd y corsyd ynteu aoed yn mynet o hely parth ae gartref pan gigleu y berw gan y marchogyon. a thu ac yno y doeth ef kyntaf ac y gallawd yn aruawc. Arglwyd heb yr un or marchogyon wrth paredur weldyma arglwyd y corsyd y gan yr hwnn y dylit kymryt dial ganthaw am a wnaeth. ac edrych di arglwyd mor aruawc y mae ef yn dyuot.

CLXXXIII.—Edrych aoruc paredur ar arglwyd y corsyd megys y neb ny charei haeach o honaw. athu ac attaw y doeth ef o nerth traet y varch. ac yngcledyr y dwyvronn ef ae trewis yny vyd ef ar march yr llawr dindrosbenn. a thynnu cledyf arhynt. Beth yw hynny heb yr arglwyd y corsyd. ae vy llad i a vynny di. Nac ef etto heb y paredur. eissyoes tydi a gey dy lad yn ehegyr. ac na vit hir gennyt. ar hynny arglwyd y cors-

Digitized by Google

yd avwryawd neit yny sefyll. ac a hwylyawd y baredur. ae gledyf yn noeth yn y law. apharedur ar y dyuotyat ae trewis yny dorres y breich deheu idaw ar cledyf yr maes. ar marchogyon adathoedynt gyt ac ef wynteu a ffoassant pan welsant y ryw dihenyd hwnnw ar eu harglwyd. Paredur yna a beris y dyrchafel ef ar gevyn y varch. ae dwyn yngkarchar ae roi yn anrec oe vam. Ti agynhelyeist amot arglwydes heb y paredur ac arglwyd y corsyd. am roi y castell yma idaw. Arglwydes heb yr arglwyd y corsyd dy vab di am anafawd i. ac am duc yngharchar ami am gwyr gollwng di vyui yn ryd. a minneu a rydhaaf ytti gwbyl oth gestyll ath amrygoll gyt a hynny. Pwy heb y paredur a ymendaa y chewilyd hitheu ae chollet am y marchogyon y rei a ledeist di heb drugarhau wrthunt. ac am hynny kyfryw nawd ar kyfryw drugared ac a vu gennyt ti am vy mamm i am chwaer. a geffy ditheu y gennyfinneu. Y gyt a hynny duw aerchis yn yr hen gyfreith ac yny newyd wneuthur kyfreith ar y neb alado kelein ac ar y neb a vo twyllwr. ac uelly y gwnafinneu athitheu. a gwybyd di na thorrir y orchymynneu ef yrofi. Yna ef aberis dwyn twrnel mawr y berued y llys. ac yno dwyn y naw marchawc urdawl. a thorri penn pob un onadunt ae daly ywchpenn y kyff hyt tra vei un davyn or gwaet yn redec oe gorff hyt nat oed yny twrnel namyn gwaet oll. A gwedy hynny efo aberis dwyn yno arglwyd y corsyd. a rwymaw y dwylaw ae draet ynffest y gyt. a gwedy hynny ef a ymliwawd ac ef adywawt wrthaw. Arglwyd y corsyd heb ef. eiryoet ny cheueist digawn o waet marchogyon urdolyon vy mam i. wrth hynny mi abaraf ytt digawn o waet dy varchogyon dyhun. Ac yna ef aberis y grogi erbyn y draet ywch benn y twrnel. a gollwng y benn hyt y dwy ysgwyd yny gwaet. ac uelly y adel yny vodes. A gwedy hynny ef aberis dwyn y gorff ef a chyrff y marchogyon ereill. ac a beris eu bwrw ymywn pwll mawr yny lle y bwryit esgyrn kwn a meirch meirw. ar twrnel ar gwaet ef a beris eu bwrw yn yr avon. Y chwedleu hynny aaeth y bop lle dywedut daruot y vab y wreic wedw llad arglwyd y corsyd. ar rei goreu oe

Digitized by Google

varchogyon urdolyon. ac velly yd aeth y ovyn ef ympob lle. A phawb adywedynt mae uelly y gwnaei ac wynteu onyt ufudheynt idaw. Ac yna pawp a doeth y roi gwrogaeth idaw drwy roi aadawssei y vam rac ovyn angeu. a dwyn agoryadeu y kestyll idaw awnaethant. Ac uelly kwbyl or kyuoeth a ovynnawd udunt. ar wreic a vu lawen. namyn trist oed am varwolyaeth y brawt. nyt amgen no brenhin peleur.

CLXXXIV.—Diwarnawt ydoed baredur yn eisted ac yn bwyta ar neilllaw y vam. a llawer o varchogyon urdolyon gyt ac wynt. ac ar hynny nachaf teir morynyon yndyuot ymywn. yny vuant geyrbronn y wreicda ae mab. ac yn kyuarch gwell udunt. Antur da arodo duw ytitheu heb y paredur. Arglwyd heb yr unbennes arderchockaf onadunt ti agwpleeist yr hynn aoed ytt o negesseu yman. Ac wrth hynny arglwyd dos y le arall y gwplau dy negesseu. kanys brenhin peles dy ewythyr aerchis ytt dyuot gyntaf ac y gallut parth a thir brenhin peleur. kanys brenhin y castell marw yssyd yn keissyaw diua y gret a ordinhaawd iessu grist. ac yr awr y kafas hwnnw vedyant ar dir brenhin peleur. ef aberis dodi cri dros wyneb kwbyl or wlat. pwy bynnac a vynnei gredu yr hen gret apheidiaw achret iessu grist y kaffei y eneit. ac ar nys mynnei y lledit yndiannot. Och varglwyd vab heb y vam wrth baredur po ny chlywy di enwired y brenhin drwc yssyd vrawt ymi. agwae vi y eni ef rac y drycket. Nac ef heb y paredur nath vrawt ti nam ewythyr inneu nyt ytiw efo pryt na mynno credu y duw. namyn yngelyn marwawl ni yw ef. a mwy y dylywn y gassau nac estrawn ynn. Varglwyd vab heb hi yr vy mendith i na at ti gret vy iachwyawdyr i yn ebryvygus yn lle yn y byt or y gellych di y chynnydu hi. kanys ny elly di vyth gwassanaethu arglwyd kystal ac efo. Ac ny byd un gwr da or byt ar nysgwassanaetho ef. a chwbyl or gwyr da a ant yny gedymdeithyas ef. ac edrych ditheu ar dy uot yn un onadunt ac nas ysgaelussych ef yr neb ryw uedwl. namyn byd wrth y orchymynneu y bore megys y prynhawn. ac nac anhebycka di yth genedyl. a orffenno ytt y medwl a dechreueist y wneuthur.

Digitized by Google

Gwedy dywedut y gras y wreic wedw agyuodes y vyny. ac yno y bu y mab yny yttoed y chyuoeth ar ewyllys y vam. ac ovyn paredur aoed ar bawp am y vilwryaeth. Yma weithyon y mae yr ymdidan yn tewi am baredur ac yntraethu y wrth lawnslot.

CLXXXV.—Er ystorya honn yssyd yndywedut dyuot lawnslot a gwalchmei hyt yn llys arthur o geissyaw paredur. a llawen vu arthur agwenhwyuar wrthunt. a diwarnawt yr oed y brenhin yn bwyta. nachaf y gwelynt yndyuot ymywn deu varchawc urdawl ereill ymywn peirant gwedy eu deifyaw allosgi yn veirw. Y marchogyon adywedassant wrth arthur. Arglwyd y kewilyd hwnn ar drwc yssyd deu di. ac yny mod hwnn y colly di yn ehegyr gwbyl oth uarchogyon urdolyon. ony ryd duw yn ehegyr udunt nerth achyngor. a unbyn heb yr arthur pa vod y llas y gwyr hynn. Arglwyd heb wynteu iawn yw y dywedut ytt. Y marchawc urdawl ar dreic danllet yssyd wedy dyuot o vywn dy gyuoeth di. ac yn diua o wyr athrefi kymeint ac a odiwedo. ac nyt oes neb a lyuasso y aros ef yn un lle. kanys mwy a hwy yw ef o aruod troetued no gwr arall or byt. ac ef aallei deu wr ymgudyat ynghyskawt y daryan ef. ac ymperued y daryan ef y mae llun dragwn yr hwnn aellwng fflam athan drwydaw y geniuer gweith y mynnei. Ac megys y gwely di gyweirdeb y rei hynn uelly y kyweirya ef kwbwl or lleill ar y kaffo lle llaw arnunt. O ba wlat y doeth y gwr hwnnw heb yr arthur. Arglwyd heb wynteu ef a doeth o gastell y kewri. ac ymae yn ryuelu arnat o achaws logrin gawr yr hwnn y duc kei y benn yma. ac ef a dyngawd na bydei lawen vyth yny darffei idaw y dial arnat ti neu ar y rei mwyaf agarut. Duw am diango heb yr arthur rac gwr kyndrwc ac ef. Ar hynny y brenhin a gyuodes y vyny o vwyta. ac a erchis dwyn y gwyr hynny oe cladu. ar lleill aaethant adref pan daruu udunt dywedut eu neges. Yna arthur a elwis gwalchmei a lawnslot attaw. ac aovynnawd paryw gynghor a ellynt y wneuthur rac y ryw ormes hwnnw. Arglwyd heb wynteu nyni aawn yno os reingk bod ytti. Myn vympenn heb

Digitized by Google

yr arthur nych gadwn yno yr hanner vynteyrnas. kanys nyt gwr yw hwnnw namyn diawl. nyt ydwyfinneu yn dywedut na bei glotuawr goruot arnaw ef. ac uelly ny wydyat arthur beth awnaei. ny welei ynteu hayach yn ymgynnic y ymlad ac efo. Yma yr ydys yn tewi am arthur. ae dylwyth. ac yn traethu am baredur.

CLXXXVI.—Ema y mae yr ymdidan yn dywedut vot paredur yn trigyaw gyt ae vam tra vu digrif genthi. ac or diwed drwy gennat y vam ef aaeth ymeith. ac a dywawt y deuei draegevyn gyntaf ac y gallei. Ac yna ef adoeth yr fforest ac a varchockaawd yny vu hanner dyd. Ac yna ef adoeth y lannerch deckaf or byt ymperued y fforest. ef aedrychawd oe vlaen. ac aarganuu bebyll coch. ac odyna ef aedrychawd parth ar penn arall yr llannerch. ac aarganuu marchawc urdawl yn eisted dan vric prenn. a dillat gwynnyon ymdanaw. a llestyr o eur yny law. ac yny penn arall yr llannerch ef awelei vorwyn ieuanc yn eisted a dillat o samit gwynn ymdanei. a blodeu eur arnadunt. a llestyr o eur yny llaw hitheu. Ac yna ef awelei or fforest yndyuot ryw aniueil gwynn mwy ychydic noc ysgyuarnawc. ac yn dyuot yr llannerch. a ryw anesmwythdra arnei. megys pet uei gwn bychein yndi. ar rei hynny yn kyuarth. a hitheu yn ffo y byt racdunt. ac or diwed y pryf affoes hyt att baredur y geissyaw nawd. a pharedur a dannawd y dwylaw ar uedyr y hamdiffyn. ar marchawc yna aerchis idaw beidyaw. ac adywawt na perthynei ar y ystat ef dim oe hamdiffyn hi. ac aerchis idaw adel yr pryf gymryt y thynghetuen. Ar pryf pryt na weles gael nodua yno hi adoeth tu ar groes aoed ymperued y llannerch. ac yno hi aorwedawd. ar pryfet adoethant megys kwn bychein allan ohonei. agwedy eu dyuot wy y maes wynt ae dryllyassant hi aedanned. eissyoes ny bwytawssant wy dim oe chic hi. Ac yr awr y daruu udunt wy y llad hi wynt a ffoassant yr coet megys kwn. Y gwr prud ar vorwyn adoethant yr lle ydoed y pryf yn gorwed yn varw ac arannassant y kic ac aaeth pob un ae rann ganthaw yny lestyr yr coet. a chynn eu mynet wynt aaethant yr lle yd oed gwaet yr aniueil. ac

Digitized by Google

yno cussanu y daear a wnaethant. apharedur a disgynnawd ac a wnaeth am y lle megys y gweles wynteu yny wneuthur. Gwedy hynny ef awelei yn dyuot or fforest. deu offeiryat. ar kyntaf onadunt a dywawt wrth baredur. A unbenn heb ef tro or tu vry yr groes ual y gallom dynessau attei. apharedur awnaeth hynny. ac un or offeiryeit adoeth att y groes ac aostyngawd arbenn y linnyeu ac ae gwediawd. ac ae cussanawd mwy noc ugeinweith drwy y llewenyd mwyaf. Yr offeiryat arall a doeth a dyrneit o wial ganthaw. ac a vaedawd y groes dan wylaw yn hidyl. Ryued vu gan baredur hynny adywedut wrthaw. Paham y gwney di y mileindra hwnnw ar groes. ac nyt tebic di yr offeiryat racko. Nyt reit ytti didarbot beth awnelwyfi heb ynteu. ac y gennym ninneu nysgwybydy di. Paredur eissyoes a lidiassei wrthaw panybei y vot yn offeiryat.

CLXXXVII.—Mynet ymeith ar hynny aoruc paredur. ac ny marchocaawd ef haeach yny gyuaruu y marchawc urdawl cachyat ac ef. yr hwnn aerchis idaw obell y nawd. Paryw wr yttwyt ti heb y paredur. Arglwyd heb ynteu y marchawc urdawl cachyat ym gelwir i. a gwassanaethwr wyfinneu y vorynyon y gadeir. ac yr duw yr archafi ytti na chwyfych wrthyf. kanys clot bychan yw taraw dyn ny lyuasso ymamdiffyn. Paredur ae gweles yn wr mawr tec ar gevyn y uarch. Paham heb y paredur ydwyt aruawc ditheu. ath gallon yn gyn drwc ahynny. O achaws mileindra ryw rei heb ynteu. kanys y mae ryw rei am lladei i yn ehegyr peit vewn heb arueu amdanaf. Ae kyn drwc dy gallon di ac y dywedy heb y paredur. Myn duw heb ynteu ys gwaeth. Myn vyngcret i heb y paredur mi ath wnaf di yn varchawc ehovyn dewr adabre di gyt ami. kanys gouit mawr yw bot cachyatrwyd allyfyrder yn gorffowys mywn gwr kyndecket athydi. Ac am hynny myui a vynnaf newidyaw ohonat ti dy henw. kanys ry vilyeinyeid a ry gewilydyus yw gennyfi achan bop marchawc or aaller dim ac ef yr henw yssyd arnat ti yr awrhonn. Wrth hynny titheu am lledy. i yn

Digitized by Google

gyntaf heb y marchawc cachyat. ac ny mynnafi arglwyd newidyaw nam henw nam medwl.

CLXXXVIII.—Paredur yna adywawt wrth y marchawc cachyat. Myn vyngcret i heb ef y mae dy angheu ditheu yn ehegyr ony deuy gyt ami. Ac yna paredur ae gyrrawd geyr y vronn bei drwc bei da ganthaw. ac ny cherdassant haeach yny glywynt llef dwy wraged yn gweidi ac yn gwediaw duw. ar anuon nerth yn ehegyr udunt. yna paredur adoeth tu ac yno ef ae varchawc. ac arganuot marchawc yn aruawc yn gyrru dwy vorwyn ieueinc oe vlaen yn amharchus ae gwallt yngkylch eu hysgwydeu. ac yn y dwylaw yd oed gwieil mawr yn eu kuraw. yny yttoed eu gwaet yn ffrydyeu oe hwynebeu yr llawr. A unbenn heb y paredur beth a holy di yr morynyon hynn. ry vileinyeid ydwyt yn eu kyweiryaw. O achaws heb y marchawc vyndidreftadu ohonunt ogyuanned aoed ym yny fforest honn yr hwnn aroes gwalchmei udunt. Yna y morynyon a erchis nawd paredur yr duw. ac adywedassant panyw herwr oed ef. ac nat oed yr un yn y fforest onyt efo ehunan. ar lleill oll gwalchmei alawnslot ae lladassant. ac o achaws y tlodi awelsant wy arnam ni yn an castell tlawt y rodassant wy yni y tei ar trysor aennillassant ar yr herwyr. ac am hynny arglwyd y mae ef yn mynet a ninneu yn llad. A unbenn heb y paredur gollwng y morynyon ymeith ami awnn eu bot yn dywedut gwir. kanys yd oedwn yn y lle pan roet y kyuanned hwnnw udunt. Gan hynny heb y marchawc. ti a nertheist o distriw vyngkenedyl i. ac am hynny ymamdiffyn ragof os gelly. Och arglwyd heb y marchawc cachyat pythawr ytti beth adywetto ef. a cherda dy fford. a minneu ym fford inneu. Nac ef heb y paredur ti a nerthey y morynnyon yn gyntaf. Myn vyngcret i heb y marchawc cachyat ny nerthaf i yr un ohonunt wy. Tydi varchawc heb y paredur. Weldy yma wr y ymlad athydi drossofi. Yna y marchawc herwr atrewis y marchawc cachyat ymperued y daryan yny dyrr y baladyr yn drylleu. Eissyoes ny chyfaruu ar marchawc cachyat dim drwc. Ac yna tynnu y gledyf awnaeth

Digitized by Google

yr herwr. ar cachyat aedrychawd obopparth idaw. ac ef affoassei yn llawen pei as lyfassassei rac paredur. ac yna paredur adywawt wrthaw. vy marchawc i heb ef llafurya y iachau vy enryded i ar morynyon ath eneit titheu. Y marchawc arall ynteu yn roi dyrnodeu creulawn trymyon idaw. ac ynteu yny diodef. aryued vu gan baredur rac mor gachyat oed. ar herwr eissyoes nys ysgaelussawd. ac aroes dyrnawt mawr idaw yny vriwawd yn drwc. Yna y marchawc cachyat adywawt pan weles y waet yn colli wrth y llall. Myn vyngcret i heb ef. ny thebygasswn i vot yth vryt ti vy llad i. ac ef avyd ediuar ytti hynny. ac yna estynnu y waew y wrthaw atharaw y varch adwy yspardun. a dyuot tu ac attaw ae daraw ymperued y daryan yny vyd y gwaew trwydi athrwydaw ynteu yny vyd yr llawr dan draet y varch. Ac yna disgynnu awnaeth ef adiosc y helym. athorri penn y marchawc ae roi yn anrec y baredur. adywedut wrthaw. Arglwyd llyma or ymwan kyntaf awneuthum i eiryoet. Gwell yw uelly heb y paredur. amogel rac llettyaw cachodrwyd na llyvyrder ynot o hynn allan vyth. Gwir adywedy arglwyd heb ynteu. ny thebygasswn i allel vynggwneuthur yn dewr vyth. a phei astebygasswn mi agawssoedwn o enryded om bot yn dewr ac yn ehovyn mwy noc om bot yn gachyat ac yn llwfyr. Gwir adywedy heb y paredur. Iawnach yw anrydedu y gwyr da nor rei drwc. Yrwyfi yn gorchymun ytti heb y paredur vynet ygyt ar morynyon hynn adref. apha le bynnac y delych dywedut ohonat panyw y marchawc dewr wyt o hynn allan. kanys kwrteissyach yw yr enw hwnnw nor llall. Gwir adywedy heb ynteu. ar henw hwnnw yssyd hoff gennyf oth achaws di. Yna y morynyon agymerassant gennyat paredur ac aaethant ar marchawc dewr y gyt ac wy drwy diolwch y baredur y uvyddawt ae gwrteissi.

CLXXXIX.—Paredur ynteu a gerdawd drwy sywrneioed yny doeth y gaerllion. yny lle ydoed arthur. ac ef awelei gwbyl or llys achyving gyngor mawr ganthunt. a ryued vu ganthaw ynteu hynny. a gouyn aoruc y

Digitized by Google

rei. paham yr oedynt mor drist ac mor ovalus ac yr oedynt. aphale yr oed arthur. Arglwyd heb un onadunt ymae yny castell racko. ac ny bu arnaw eiryoet oual kymeint ac yssyd yr awr honn. kanys ryw anghenvil yssyd yn ryuelu arnaw. ac yn erbyn hwnnw ny lefeys neb ymlad. yna paredur adoeth hyt y neuad. a disgynnu aoruc ef yno. Ac yna gwalchmei a lawnslot a doeth yn y erbyn. a chwbwl or milwyr ygyt ac wynt. a llawen vu y brenhin ar vrenhines wrthaw. Yna diosc y arueu y ymdanaw awnaethpwyt. a gwisgaw glan dillat. Ac yna ef agaffei edrych arnaw. kanys y glot aoed idaw. ae degwch ehun yn y chwanec. a llawen vu bawp am y dyuotyat ef kyt beynt trist kynno hynny. amegis y bydei y brenhin diwarnawt yn bwyta. nachaf dri marchawc urdawl yn aruawc yndyuot ymywn. achan bop un ydoed marchawc urdawl arall yn uarw gwedy torri eu traet ac eu dwylaw. ac eu korffeu yn gyuan. ac eu llurygeu yn kynduet ar pyc duaf. ac eu bwrw awnaethant ar lawr y neuad. Arglwyd heb wynt wrth y brenhin. y kewilyd hwnn a dangosset ytti unweith arall. ac nyt emendawyt yni dim yr hynny. a marchawc urdawl y dreic danllet yssyd yn diua dy wlat. ac yn llad dy wyr. ac adaw yma yn ehegyr. ac adywawt nat oes yn dy allu di hyder y wneuthur eniwet idaw ef. Kewilydyus vu gan arthur y chwedleu hynny a chan walchmei a chan lawnslot am nasgadawd arthur wynt y vynet ar y weith gyntaf. ar hynny y pedwar marchawc aaethant ymeith ac adaw y lleill yn ueirw yn y neuad. Ac yna y brenhin adristaawd yn vawr ac aerchis eu cladu. Ac yna son a berw agyuodes ar hyt y neuad gan y marchogyon urdolyon. a rei adywedynt nachlywssynt eiryoet gormes kyn greulonet y lad gwyr ar dreic honno. ac ny dylyit heb wynt oganu gwalchmei na lawnslot yr nat elynt y ymlad ahi kanys nyt oed yn yr holl vyt dim a allei oruot arnei ony bei wyrtheu duw ehun nac alafuryei yn erbyn peth kyndrwc ac aallei daflu fflam o dan drwy y daryan y geniuer gweith y mynnei. athra yttoed y murmur hwnnw ar hyt y neuad. nachaf yn dyuot ymywn morwyn ieuangk yr

Digitized by Google

honn aoed ynkanhebrwng marchawc yn varw ar elor. ac yn dyuot hyt geyrbronn y brenhin. ac yn dywedut. Arglwyd heb hi mi aadolygaf ytti yr duw wneuthur kyfyawnder ami yn dy lys di. weldy racko walchmei dy nei di yr hwnn a vu kynno hynn yny dyrua o varchogyon urdolyon yny llannerch goch yn y lle yd oed lawer o varchogyon urdolyon a mab y wreic wedw yr honn yssyd yth ymyl ditheu yn eisted y gyt ac ef. Efo a gwalchmei agawssant y glot yny gynnulleitua honno. Y marchawc yna eissyoes arueu gwynyon oed idaw pan ymwanawd gwalchmei ac ef. aphawb or aoed yno adywedassant panyw y gwr yna a vu oreu oll. achaws bot yngynt y dechreuawd no gwalchmei. Ac ef aordinhawyt yno yndechreu y twrneimant panyw y goreu yno bieivydei dial y gwr yma. ami ae keisseis ef ymhob lle arglwyd yny kefeis yma. ac am hynny arglwyd y gwediaf inneu di y wneuthur kymeint ac y bo ryd ef y wrth y neges honn. ac ef awyr gwalchmei vy mot i ar y gwir. ar marchawc racko aaeth ymeith yn gyn ebrwydet ac na (wy)buam ni dim y wrthaw ef. a gwalchmei avu doluryus am nas adnabu kyn y vynet kanys yny geissyaw ydoed. Gwir adywedy di heb y gwalchmei. Duw adalo yttitheu heb hi am dystolyaethu y vot yn wir. ac am hynny paredur dec kwpla ditheu yr hynn anodet arnat. athi adylyy y wneuthur kanys y marchawc yssyd ar yr elor oed vab y eluant oganalun dy ewythyr di vrawt dy dat. A unbennes heb y paredur edrych dy vot yn dywedut gwir. kanys hyt y gwnn i eluant oganalun oed ewythyr ymi. Arglwyd heb hi ef aellit y adnabot ef. kanys o achaws y rym ae vilwryaeth y llas ef. ae henw ynteu oed eluant o gamalun. ac arglwydes y kylch eur ae karawd yn vwy no dim orbyt. ac amhynny pan y lladawd marchawc y dreic danllet ef. y peris hitheu y iraw efo ac ireideu mawrweirthyawc. ac nyt oes yn yr holl vyt gormes kyngreilonet y distrywyaw gwledyd a dynyon ar lleidyr hwnnw. ac y mae gwedy goresgyn kwbyl o tir yr arglwydes ar kylch eur. allad y marchogyon ae vygythyaw hitheu ehun. ac ymae hitheu gwedy

Digitized by Google

kaeu y chastell arnei. apha un bynnac aorffei arnaw. ef agaffei y kylch eur yntal y lavur yrhwnn goreu y dyn yn yr holl vyt vedyannu arnaw. Ac am hynny arglwyd ti a dylyut lauuryaw y dial angheu dy gevynderw. ac y ennill y kylch eur. ac os arnaw y goruydy di. ti a wrenty y arthur y gyuoeth. yr hwnn a daruu idaw ef bygythyaw y distryw oll. kanys nyt oes yn yr holl vyt brenhin kyngasset ganthaw ef ac arthur. a hynny o achaws y llewenyd awnaeth ef ambenn y kawr aduc kei yma. A unbennes heb y paredur pa le y mae y marchawc hwnnw. Arglwyd heb hi y mae ymywn ynys yr eliphantyeit. yr honn a nottaey y bot yndeckaf ynys or holl vyt. ac neur daruu idaw ynteu y distriwo hi hyt na lefeys neb drigyaw yndi. Ar ynys honno yssyd dan gastell arglwydes y kylch eur. a hi ae gwyl ef beunyd yn llad y marchogyon urdolyon. ac yn eu dwyn y gyt ac ef. yr hynn syd drist genthi y welet distriw y marchogyon ynggwyd y llygeit. Paredur agigleu yr hyn yd oed y vorwyn yny dywedut. ac a vedylyawd. kanys rodassit arnaw ef dial angeu y gevynderw drwy gytsynnedigaeth pawb vot yn gewilydyus idaw ynteu onys dialei. Yna ef a gymerth kennat y brenhin ar vrenhines ac agychwynnawd or llys. a gwalchmei a lawnslot aaethant gyt ac ef. ac adywedassant y kanlynynt ef hyt y lle yd oed marchawc y dreic danllet. Digrif vu gan baredur eu kedymdeithas wynteu. Goualus ac ofnawc oed y brenhin ar vrenhines am baredur rac periclet oed y lle yr oed yn mynet idaw. Ac yna y brenhin aanuones yr eglwysseu y bop lle y beri gwediau drostaw. Ac uelly y kerdassant wy elltri. ar vorwyn yn eu hol wynteu. ar marchawc marw gyt ahi. A marchogaeth awnaethant drwy y fforestyd diffeith. ac o fforest pygilyd y doethant yny doethant y tir tec odieithyr fforest. Ac yna wynt aarganuant gastell yn ymdangos udunt ar tir gwastat ymperued gweirglawd. ac yngkylch y castell ydoed avon uawr ynkerdet. ac or tu vywn yr castell wynt awelynt neuadeu mawr ehalaeth. a ffenestri mawrdec arnadunt. wynt adynes-

Digitized by Google

saassant parth ar castell. ac wynt awelynt y castell yn troi yn gynt nor gwynt kyntaf awelsynt eiryoet. ac ywch benn y castell wynt awelynt saethydyon yn saethu yn gynffestet ac nac oed aryf yn y byt a vei amdiffyn rac un or ergydyeu a vyrynt. Y gyt a hynny ydoed yno gwyr yn kanu kyrn yn gynffestet ac y tebygit clywet y daear yn crynu. ar y pyrth yr oed llewot mywn kadwyneu heyrn yn breuu ac yngweidi yn kyn arwet ac y tebygit bot y fforest ar castell yn diwreidyaw ganthunt. Paredur yna ae gedymdeithyon aedrychassant ar enryuedodeu hynny. Arglwydi heb y vorwyn chwi aellwch wybot agwelet bot yny castell racko amdiffyn mawr. Gwalchmei a lawnslot heb hi ymchoelwch chwi drachevyn. kanys o dynessewch chwi att y saethydyon racko yrywch yn veirw. athitheu arglwyd heb hi wrth baredur. or mynny di vynet ymywn. moes attafi dy waew ath daryan amyui aaf yth vlaen di a dabre ditheu ym ol inneu. a bit gennyt arwydyon ar dy vot yn varchawc urdawl grymus. ac os uelly y deuy di ti aelly dyuot yr porth ymywn. ath gedymdeithyon wynt aallant ymchoelut adref. kanys ny doeth eu hamser wynt etto. ac ny dichawn neb vynet idaw onyt y neb bie goruot arnaw. ac ennill idaw y kylch eur. a goruot ar vrenhin y castell marw. a dwyn llys brenhin peleur y ganthaw. yr honn yssyd yn y uedyant. Doluryus vu gan baredur pan gigleu na allei na gwalchmei na lawnslot dyuot y gyt ac ef. ac ar hynny kennat a gymerth pob un y gan y gilyd onadunt. a mynet ymeith awnaethant yn druan ac yn ovalus ganthunt na allassant vynet y gyt ac ef. a gwediaw duw awnaethant ar vot yn rwyd racdaw. ac yna sefyll awnaethant y edrych ar baredur ac ar y vorwyn yr honn aoed yn dwyn y daryan ef ae waew oe vlaen. yr dangos panyw efo oed y marchawc da. a pharedur yna a vrathawd y varch ac ae gollyngawd oe nerth tu ar castell troedic. ac yna a phwmel y gledyf ef adrewis y porth yn y yttoed y pwmel yn anodi yn y dor yny dorres. Ac rac meint y dyrnawt y llewot affoassant oc eu selereu. ar castell a beidyawd athroi. ar saethydyon a saethu. ar

Digitized by Google

teirpont aostyngassant. ac yr aeth ef ymywn wynt a gyuodassant drachevyn. Lawnslot a gwalchmei aedrychassant ar y ryuedawd hwnnw. aphan welsant y castell yn gorffowys wynt adoethant tu ac yno. Ac yna marchawc urdawl o un or bylcheu agriawd arnunt ac adywawt wrthunt. or deuynt nes no hynny y seythit wynt ac y troei y castell. ac uelly y somit wynt. Ac yna wynteu a ymchoelassant ac wynt a glywynt yn y castell y llewenyd mwyhaf. a rei yn dywedut ry dyuot y mywn y neb yr iacheit eu heneidyeu au korffeu drwydaw. Yna gwalchmei a lawnslot a ymchoelassant draekevyn yndrwc ac yndrist ganthunt na chawsant vynet ygyt apharedur yr castell. a marchogaeth aorugant yn y doethant yn agos yr dinas daruodedic. yn y lle y lladassei lawnslot y marchawc ar vwyall. Arglwyd heb y lawnslot wrth walchmei weldy yma yr oet yn dynessau. reit yw ymi vynet yr dinas racko y odef vy angheu. onyt duw am amdiffyn. Adywedut y walchmei aoruc ef y antur yno. a megys ydoed ef yn kymryt y gennat y gan walchmei. nachaf y marchawc úrdawl tlawt or castell tlawt yn kyfaruot ac ef. Arglwyd heb ef wrth lawnslot mi a gefeis ytti oet am dyuot racko. Sef oet dyd yssyd ytti hyt ympenn y deugeinuet diwarnawt gwedy keffit castell seint greal o anuod brenhin y castell marw. ac ny deuthum i etto or castell tlawt yr pan y gwelsawch chwi. ac nyt oed obeith ym vyth y dyuot panabei dyuot ti arhynt y dyuot y gwplau dy lw. a duw adalo ytt ac y walchmei y meirch aanuonassawch ym. ar trysor arodassawch ymchwioryd. ac nyt oes fford ymi arglwyd y vwrw un tlodi y arnaf yny delych di yr oet dyd agymereis i drossot. ac yr iachau kywirdeb arglwyd nac ebryfyckadi dyuot. Nac ebryfygaf myn vyngcret heb ynteu a duw a dalo yt hwyhau yr oet. Ac ar hynny ymiachau ar marchawc aorugant wy. a cherdet racdunt tu a chaer llion yn y lle yd oed arthur. Yma y mae yr ymdidan yn traethu am baredur. ac yn tewi am lawnslot a gwalchmei.

CXC.—Er ymdidan yssyd yn dywedut vot paredur yn y castell troedic. yr hwnn y mae iosep ynhyspyssu

Digitized by Google

pan wnaeth fferyll y castell hwnnw drwy y gelvydyt ae synnwyr. proffwydaw ohonaw na orffwyssei yn troi. yny delei yno y marchawc urdawl. yr hwnn ydoed idaw gallon o dur aphenn o eur. a diweirdeb morwyn. a chret y duw. ac yn dwyn taryan y marchawc a disgynnawd iessu grist y ar brenn y groc. Ac am hynny yd oedynt wy yn dywedut ual y clywei lawnslot a gwalchmei. panyw oe achaws ef yr iecheit eu heneidyeu. Aphan beidyawd y castell athroi yr adnabuant wy panyw ef aoed yno. Ac ar hynt peri eu bedydyaw awnaethant a chredu yr drindawt ac yr gret newyd. ac y gyt a hynny o angheu yr iachaawd ef wy. kanys ovyn oed arnunt y bydynt ueirw yn eu pechodeu ac yn y gamgret. Digrif vu gan baredur welet y bobyl yn credu y duw a meir oe achaws ef. Ac yna y vorwyn adywawt. Arglwyd heb hi digawn yd ym ni yma. awn ymeith weithyon y orffen dy neges am yr ormes vudyr. kanys po mwyhaf a arhoych. mwyhaf y distriwa ynteu y wlat ac a lad o dynyon. Yna ef a gymerth kennat pawb or castell. y rei aoed arnunt ouyn mawr amdanaw rac periclet y lle yr oed yn mynet idaw. ac adywedassant os ef a oruydei ar uarchawc y dreic. na chafas gwr or byt hwnn antur degach no honno. Yno gwarandaw offeren aoruc ef kyn y vynet. a phawb aaeth yngaredic y offrwm yr anryded idaw ef. Y vorwyn agerdawd or blaen yr honn a wydyat y fford ar lle yd oed marchawc y dreic yn cartrefu yndaw. a marchogaeth a orugant yny doethant y ynys yr eliffantyeit. A marchawc y dreic adisgynnassei dan vric oliwyden y eisted gwedy daruot idaw lad marchawc y arglwydes y kylch eur. ahitheu aoed yn eisted ar ffenestyr y chastell ac yn edrych ar lad y marchawc yr hynn aoed dost genthi. ac yn dywedut. Oia varglwyd tec awelafi vyth marchawc adialo ar y lleidyr racko y draha. am lad vynggwyr adiua vynggwlat ual hynn. ac ar hynny arganuot y uorwyn aoruc hi yn dyuot apharedur gyt a hi. a hitheu a griawd arnaw ef ac adywawt. Tydi varchawc heb hi o ny thebygy vot ynot o nerth a chedernit mwy noc mywn un arall na dynessa att y

Digitized by Google

diawl hwnnw. Ac or tebygy ditheu dy vot ual y gellych oruot arnaw mi arodaf ytt y kylch eur yssyd ymma. ac os ti aoruyd arnaw mi agredaf yr gret y credy ditheu. kanys mi aatwaen ar dy daryan dy uot yn gristawn. Ac os tydi a oruyd arnaw ef yna y gallafinneu adnabot vot yn well awch cret chwi nor einym ni ageni iessu grist o veir. llawen vu gan baredur yr hynn a glybu y vorwyn yn y dywedut. ac ymorchymun y duw ac y ueir aoruc. ac ymennynnu o lit megys llew. Ac yna ef aarganuu marchawc y dreic yn mynet ar y varch yn anghyuartal pob peth or a welit arnaw rac y veint. kanys eiryoet ny welsei ef dyn aallei vot yngymeint ac ef. ae daryan oed uawr ac anghyuartal ac yn burdu. ac ymperued y daryan ef awelei penn y dreic yr honn oed yn gollwng tanllwytheu. afflam drwydi. ar fflam honno oed yndrewi cwbwl or maes. Y vorwyn aedewis y marchawc aoed ar yr elor y gyt ac wynt yny maes ac aaeth tu ar castell. Arglwyd heb hi ar y tir yma y llas dy gevynderw di. ac yttitheu y gadawafinneu yma ef. kanys myui ae kytuum ef yndigawn. ac am hynny dial ditheu ef os mynny. Myui ae gadawaf ef ytti. kanys myui awneuthum amdanaw ef gymeint ac na dylyir vynggoganu. Ac ar hynny ydaeth hi ymeith parth ar castell.

CXCI. Marchawc y dreic danllet a arganuu baredur yn dyuot ehun. a hynny a vu anustru ac am hachus ganthaw gymryt dim oe waew. namyn tynnu y gledyf awnaeth ef ae gyrchu. ar hynny paredur ae kyrchawd ynteu agwaew. ac ageissyawd vrath ymperued y daryan. ar marchawc a deflis fflam yn erbyn dyrnawt y gwaew yny losges hyt y dwrn. Ar marchawc yna aossodes ar benn paredur ae gledyf. Eissyoes paredur a ymgudyawd yngkysgawt y daryan yn yrhonn yd oed y obeith ef. hyt na allawd y cledyf chweith argywed orbyt yr daryan. Ioseph yssyd yn tystolyaethu panyw ioseph o arimathia abarassei roi ymywn bogel y daryan peth o waet iessu grist. ac or wisc avuassei ymdanaw. Aphan weles y lleidyr na allei aflessu paredur nar daryan. ef a lidiawd yn uawr. kanys ny rodassei ef eiryoet

Digitized by Google

dyrnawt y uarchawc ny vei uarw arnaw. Ac yna troi aoruc ef penn y dreic ae daryan ar vedyr llosgi taryan baredur. Eissyoes y fflam adoeth o benn y dreic parth atharyan paredur a ymchoelawd drachevyn yny gwrthwyneb megys pei gan wynt y troei. heb allel dyuot yn erbyn paredur. llidiaw yna aoruc y marchawc a dyuot racdaw hyt y lle ydoed y marchawc marw ar yr elor. a throi penn y dreic tu ac attaw awnaeth. a gollwng fflam yny losges yn lludw. am gladu hwnn heb ef wrth baredur yr wyt yn ryd. Yn lle gwir heb y paredur drwc a beth yw gennyfi hynny. a minneu ae diolchaf ytti yn llawen. Y vorwyn adathoed ygyt a pharedur yno aoed ar un or bylcheu ygyt ar arglwydes yn edrych. ac adywawt o hyt y llef. Paredur heb hi llyna y kewilyd yn vwy. Kewilyd vu gan baredur welet llosgi y gevynderw yn lludw yn y wyd. ac a weles vot gyt ar marchawc nerth kythreul. ac ny wydyat yn y byt pa ffuryf y gallei dial arnaw hynny. Ac yna ef adoeth tuac attaw. ae gledyf yn noeth yny law. ac ymbric y daryan ae trewis yny hyll hyt y pherued yny lle ydoed penn y dreic. yny goches cledyf paredur yngyngochet a chledyf y marchawc. ar vorwyn yna adywawt ohyt y llef. Arglwyd heb hi y mae dy gledyf wedy gwaethau yn vawr. kanys ef a dywedir na ledir ef onyt ar un dyrnawt. ae vedru heuyt yn un lle. dyeithyr ny wn i pa le arnaw ef. Ac yna paredur aedrychawd ar y gled yr hwnn aoed wedy cochi gan dan y dreic. ac adrewis y marchawc ar y benn yny vyd yngogwydaw ar goryf y gyfrwy. Ar marchawc a ymgyfodes arhynt ac yn llidiawc ac ae trewis ynteu ar y ysgwyd deheu yny dyrr y luric ae actwn. ac yny dyrr y kic ar croen gyt ae losgi hyt yr asgwrn. Ac ar dynyat y gledyf paredur ae trewis ynteu. yny tyrr kwbwl or ysgwyd ar balueis hyt ynghoryf y kyfrwy. ac ynteu yna a roes goveich ual y clywei ymarw yn y daear. yr hynny ual kynt ny wnaeth ef dim o arwydyon goruot arnaw. namyn dyuot tu ac att baredur kyntaf ac y gallawd y geissyaw llosgi y daryan. Eissyoes ny thygyawd hynny idaw. kanys ny allei ef waethau y daryan honno o dim. Ac yna paredur

Digitized by Google

aweles penn y dreic yn vawr ac yn ehalaeth ae amcanu aoruc ef yn unyawnaf ac y gallawd ae vedru ymperued y breuant ae gledyf yny roes bloed aruthur ual y clywit cwbwl or fforest ar maes yn datseinyaw. aphenn y dreic yna adroes tu ac att y meistyr a gollwng fflam am y benn aoruc yny lysc ynteu yn lludw. ar penn yna adifflannawd megys pei mellden vei. Yr arglwydes or castell a vu lawen am hynny ac nyt oed ryued idi. ac adoeth yn erbyn paredur. ac aweles y uot wedyr vriwo yndrwc yn yr ysgwyd idaw. Ar unbennes adywawt na bydei iach vyth yny gaffei beth o ludw y marchawc marw ae dodi ar y dyrnawt. Yna drwy lewenyd y ducpwyt ef y vyny. ac y diosget y arueu y ymdanaw. a golchi y dyrnawt aoed arnaw. ac y roet y lludw arnaw oe iachau. ac y gwisgwyt glandillat ymdanaw. a gwedy hynny yr arglwydes aberis dyuynnu kwbwl oe holl uarchogyon urdolyon hyt geyr y bronn. arglwydi heb hi. weldyyma y gwr a iachaawd yni vynghyuoeth am heneit. ach eneidyeu chwitheu heuyt. A chwi a wdawch panyw darogan oed na chaffem ni hedwch ganthaw ef yny delei y marchawc ar penn eur arnaw. a llyma hwnnw. ac am hynny minneu a vynnaf awch bot chwi ar y ewyllys ef. Ninneu a vydwn yn llawen heb wynteu. Ac yna yr arglwydes aaeth y gyrchu y kylch eur ac ae gossodes am y benn ef. a gwedy hynny arodes y gledyf yn y law. ac a dywawt. Arglwyd heb hi ar ny mynno credu ae vedydyaw. llad di y benn ef ath gledyf. ami ath warantaf di a hi ehun yngyntaf aberis y bedydyaw. A gwedy hynny y lleill oll a vedydywyt. Ioseph yssyd yn dwyn ar gof yni panyw eliza. oed henw bedyd yr arglwydes. a buchedockau ohonei yn santeid ac yn vorwyn tra vu vyw. ac etto y mae y chorff hi yn gwneuthur gwyrtheu gwedy mynet ac ef hyt yn iwerdon. ac yno ymae eglwys anrydedus idi. Yno y bu baredur yny vu iach. ar chwedleu hynny aaeth y bop lle. a dywedut. panyw y marchawc ar kylch eur a oruu ar varchawc y dreic danllet. Y llewenyd am hynny avu vawr ymhop lle. ar chwedleu a aeth y lys arthur. Eissyoes ryued vu ganthunt pwy oed y marchawc ar kylch eur kanys nys atwaenynt wy.

Digitized by Google

CXCII.—Pan vu iach paredur ef aaeth ymeith or castell. wedy adaw ohonaw kwbwl or wlat ar y ewyllys ef. ar arglwydes adywawt wrthaw y kadwei hi y kylch eur os mynnei ef ar y uedyr ef. neu ynteu ae dygei ganthaw ehun. Ac ynteu aegedewis ygyt ahi am na wydyat pa wlat y damwheinyei idaw vynet. Yr ystorya yssyd yn dywedut marchogaeth ohonaw odyno. yny doeth diwarnawt hyt yngkastell y twr elydyn. ac yn y castell hwnnw yr oedynt llawer yn adoli y twr elydyn. ac yn credu idaw. a heb gredu dim y duw. Y twr hwnnw a daroed y ossot ar bedeir colofyn o vaen marmor. ac ef a roi breferat ympob awr or dyd ual y clywit hanner milltir yny gylch. Ac yndaw yr oed yspryt drwc yr hwnn a attebei y bawp ohonunt o bop peth or aovynnynt. Ac ar y porth y fford ydeit yr castell ymywn yr oedynt deu wr wedyr wneuthur o elydyn drwy geluydyt nigromawns. Ac yn llaw bop un ydoed ord o haearn. ac ar rei hynny yn ffustaw y llawr bob eilwers ynffestaf ac y gellynt hyt nat oed neb a lyuassei. nac a amcanei vynet yr porth rac eu hovyn. Ar castell heuyt aoed yngyngadarnet o bop parth idaw ac nat oed neb aallei na dyuot ymywn na mynet allan. onyt drwy y porth. ny lyuassei neb ynteu y fford honno vynet. Paredur aedrychawd ar gedernyt y castell. ac ar berig-lwyd y porth. ac a vu ryued ganthaw. namyn yr hynny ef adoeth ar hyt y bont hyt yn ymyl y mileinyeit elydyn aoedynt yn gwarchadw y twr. Ac yna ef aglywei lef uchbenn y porth yn dywedut wrthaw. dabre ymywn yndiarswyt ac na vygyla o dim. Ac ynteu agyrchawd y mywn. ar mileinyeit abeidyassant ae hymguraw. ac ynteu adoeth hyt y lle yd oedynt llawer o dynyon angcredadun yneisted ac yn adoli yr twr elydyn. Ar twr yn brefu yngynffested ac na allei neb glywet y gilyd. ac wynteu aedrychassant ar baredur. Ac avu ryued ganthunt pa vod y dathoed ef ymywn. Ny dywedassant wynteu ungeir wrthaw ef. rac meint y credynt yr dryc yspryt aoed yn y twr. Aphwy bynnac a vynnei eu llad wy. nys didorynt wy. kanys credu yd oedynt vot eu heneidyeu yn iach drwy eu gwangret. ac ny

Digitized by Google

wydynt wy vot amgen gret yn y byt no hynny. Y gyt a hynny. ny wydynt dim y wrth nerth arueu. ac nyt oed reit udunt rac cadarnet oed y castell. Y gyt a hynny heuyt yd oed y kythreul yn roi yno amylder o bop da or a vei reit wrthunt. Pan weles paredur na mynnynt ymdidan ac ef. ef aaeth yr neill hanner ac ae gelwis wynteu yn y gylch. a rei onadunt a doeth attaw. ereill ny doethant. Ac yna y llef aerchis y paredur peri udunt vynet drwy y porth. ac yna ef awelei pwy a vynnei gredu y duw onadunt. Yna paredur adynnawd y gledyf ac ae gyrrawd oe vlaen tu ar porth. ar neb ny mynnei uynet yr porth nys eiryachei baredur ef. ac uelly ny dienghis yr un or deudec aphump cant namyn tri ar dec heb eu llad or gwyr elydyn. ar rei hynny agredassant y duw. Ar dryc yspryt aoed yn y twr adifflannawd ymeith megys mellden. ar daear a lyngkawd y twr hyt na welit dim ohonaw. gwedy hynny wynt abarassant kyrchu meudwy yr fforest oe bedydyaw. a bwrw kyrff y rei meirw ymeith. ar meudwy ae bedydyawd wy aelwit denis. ar castell aelwit y castell profadwy wedy hynny. Yno y buant wy yny daroed yr gret newyd dyuot y bop lle yn yr ynys. ac yn buchedockau megys seint heb allel o neb dyuot attunt o ny bei gristawn credadwy. A gwedy kymell o honaw ef arnunt wy gredu ympob lle yn yr ynys. y trywyr ardec adoethant or castell. ac aaethant yn ueudwyeit ar hyt y fforestyd y benydyaw eu kyrff am y gwangret a gynhalyassynt hyt hynny.

CXCIII.—Paredur diwarnawt adoeth y ty y brenhin meudwy y ewythyr yr hwnn a vu lawen wrthaw. Paredur yna adywawt y damweineu ryuedaf agyuaruu ac ef yr pan athoed y wrthaw. a ryued yw gennyf arglwyd ewythyr am aniueil gwynn bach. ryuedu yd wyf amdanaw. a menegi yr meudwy y antur aoruc. Varglwyd nei heb y meudwy mi awnn y car duw di pan dangosso ytt y kyfryw beth a hynny. Yr aniueil ufyd bychan aweleist di ar deudec ki yndi aarwydockaa iessu grist. ar deudecki a gyffelybir yr idewon. y rei agreawd ef ar y delw ehun. a gwedy daruot idaw ef eu

Digitized by Google

creu wy. ef ae profes wynt y edrych pagymeint y kerynt wy efo. ac ae hanuones yr diffeith yn y lle y buant deugeint mlyned heb vwyt onyt ual yr anuonei ef y manna or nef udunt. nyt oed arnunt neb ryw anhyfrydwch or byt. Ac yna diwarnawt wynt aaethant ynghyngor. ac un onadunt adywawt. Pei llidiei duw wrthym ni adwyn y manna y gennym. beth awnaewch chwi wedy hynny. ny phery duw ynwastat. Yna wynteu adywedassant y gwneynt ystor udunt or manna. Ac yna wynt ae kynnullassant ac ae rodassant yny daear mywn seleri eu lloneit. ac yna duw aweles hynny ac ae gwybu ac alidyawd wrthunt. ac aduc y manna y ganthunt. Aphan doethant wy yr seleri y geissyaw eu kuduaeu. nyt oed yno dim onyt seirff a nadref. Aphan wybuant wy sorri oduw wrthunt wynt aaethant pob un yny gyfeir ar hyt yr estronyon wledyd. Ac uelly vy nei y deudecki ynt yr idewon. y rei ny mynnassant gredu y duw nae garu. ac ae dryllyassant yn gyn vileinet ac y gwnaeth y kwn yr aniueil. ac yn vileinach. Y marchawc urdawl ar vorwyn aweleist di yn roi dryllyeu yr aniueil ymywn llestri o eur ganthunt. a arwydockaa dwywolyaeth y tat yr hwnn ny diodefawd lleihau dim o gorff y vab. Arglwyd ewythyr heb y paredur teilwng oed gael ohonunt drwc wedy crockyn yn arglwyd ni. ac ae gwnathoed wynteu kynno hynny. Arglwyd y deu offeiryat adoethant hyt y groes. Y neill onadunt awediawd y groes ac ae cussanawd ar llall ae curawd ac yscwrs dan wylaw a chystud mawr. Ie vy nei y tec heb ef. kystal y credei yr hwnn aoed yn y churaw hi ynduw ar llall. y neill oed yn gwediaw y groes o achaws poeni corff iessu grist ar y groc yr prynu pobyl y byt o geithiwet uffern. y rei a vydynt yno etto panabei eu prynu ohonaw ef. am hynny yd oed ef yn gwediaw y groes yn llawen. Y llall aoed yny churo hi dan wylaw. o achaws meint vu dolur iessu grist ar brenn y groc yn diodef drossom ni. a mawr iawn vu y dolur ef. kanys nyt oes yn vyw aallei ysgriuennu na dywedut meint vu y dolur. ac am hynny yd oed yn maedu y groes ac yn

Digitized by Google

y chussanu. ac ny bu ganthaw ef amgen vedwl. ac uelly y gwnant wy yn vynych. Ac yny fforest honno y maent wy yn trigyaw. ar hwnn awedia y groes aelwir ionas. ar llall ae maed aelwir alexis. A chanys daruu ytti trossi pawp fford y kerdeist ar gret a ffyd. reit vyd ytt vynet etto y orffenn peth yssyd yn eissei. kanys kwbwl o wlat brenhin peleur yssyd wedy ymadaw ar gristonogaeth a mynet yn idewon. A hynny drwy allu achedernyt brenhin y castell marw vymbrawt i ath ewythyr ditheu. yr hwnn a aeth ym medyant tir brenhin peleur ae gastell. ac am hynny y mae reit y titheu roi kynghor y emendau hynny. kanys nyt emendeir hynny vyth drwy dyn or byt onyt trwydot ti. kanys y wlat ar castell a dyly bot yn dy uedyant ti.

CXCIV.—Arglwyd nei heb y meudwy y castell yssyd gwedy y gadarnhau o newyd. kanys yno y mae naw pont newyd wedyr wneuthur. ac ar bop pont y byd tri marchawc urdawl. ath ewythyr ditheu yssyd yn cadw y castell or tu mywn idaw. Eissyoes yr pan vu uarw brenhin peleur. ny wys beth adarvu yr marchogyon aoedynt yno. nac yr offeiryeit. a seint greal heuyt adifflannawd heb wybot y bale. ar capel y bu seint greal yndaw yssyd diffeith. Ar meudwyeit or fforestyd yssyd yn gweidi ac yn llefein amdanat. kanys yr ystalym ny welsant wy varchawc urdawl yn marchogaeth yno. Ac os tydi aorffenn eu dwyn wy y gret ti a geffy diolwch gan. Arglwyd ewythyr heb y paredur. kanys ytwyt ti ymkynghori mi aaf yno. ac nyt iawn idaw ef gael nar castell nac ar enryded. amam i adyly y gael. kanys hyn yw hi noc efo ar ol brenhin peleur. varglwyd nei heb y meudwy y mae ymi yma mul cryf. kymmer hwnnw a dwc y gyt athi. achret y duw ynda. ac yr arglwydes ueir wyry. kanys kadarnach yw ef no thydi ac no neb. ac y mae yn gwarchadw y naw pont. chwech arhugeint o varchogyon urdolyon. yn wylwyr dewron kedyrn. ac na chretet neb yr hynny onyt duw alauurya y gyt ac ef. Ac am hynny arglwyd bit yth gof iessu grist ar arglwydes ueir y vam. Aphan yth orthrymer di esgyn ar dy uul. ac ymdiriet

Digitized by Google

ynduw. ac uelly y kyll dy elynyon di eu nerth. ac nyt oes dim kystal y diua gelynyon anerth duw. ef awyr pawb mae goreu marchawc urdawl wyt ti or byt. Yr hynny nac ymdiriet ti yn dy nerth dy hun yn ormod yn erbyn hynn o wyr ony byd duw gyt athi. Paredur awarandewis ar y ewythyr yn y gynghori. ac ynteu ae kedwis ganthaw. Arglwyd nei heb y meudwy y mae ar y porth deu lew. un gwynn ac arall coch. yr gwynn y credy di kanys oblegyt duw ymae. ac edrych arnaw ar y geniuer kyuyngrwyd a vo arnat. ac ynteu aedrych arnat titheu. ac adnebyd di y ewyllys drwy wyrtheu duw. a llauurya wrth yr arwydyon awelych arnaw. kanys nyt oes yndaw ef uedwl namyn unda. ac ny deuy ar benn y ennill y naw pont yn amgenach. Ar hynny paredur aaeth ymeith y wrth y ewythyr. ar mul ae kanlynawd megys pei at uei milgi. a marchogaeth aoruc ef parth athir brenhin peleur. yny weles meudwy yn sefyll odieithyr y gudugyll allan. Ac yr awr y gweles ef y daryan ar groes yndi ef adywawt. Arglwyd heb ef. mi awnn mae cristawn wyt ti or rei nyweleis i yr ystalym yr un. ac y mae brenhin y castell marw. arglwyd yn an gyrru ni ymeith or fforestyd yma. kanys efo awadawd duw a meir y vam. ac am hynny ny lyuasswn ninheu drigyaw dros y nawd ef. Myn vyngcret i heb y paredur chwi adorrwch y nawd ef ynehegyr. kanys duw avyd nerth y nyni. A oes mwy yny fforest honn namyn ti dy hun. Oes arglwyd heb ef deudec yn y fforest honn. ac yd oedem gwedy kyttuuno ar vynet y tir lloegyr y benydyaw yn kyrff yr karyat duw. ac adaw an tei ac an capeleu rac ovyn y brenhin drwc a vedyannawd y wlat. Paredur agerdawd gyt ar meudwy hyt y lle ydoed oet rwng y meudwyeit y dyuot y gyt. Ac yno paredur aarganuu ioseus uab brenhin peles y gevynderw ac avu lawen wrthaw. Arglwydi heb y meudwy ymchoelwch y gyt ar gwr yma. efo awch amdiffyn chwi drwy nerth duw. Ac yna paredur aerchis udunt wediaw duw drostaw ar adel idaw ennill yr hynn adylyei vot yn eidaw drwy wir dylyet. Yna wynt anessaassant tu ar castell. ac ef

Digitized by Google

awydyat rei onadunt panyw paredur aennillei y castell y ar ylleill. kanys darogan oed yr neb a dygei y daryan o lys arthur ennill kyuoeth brenhin peleur. ac ennill y greal o anuod yr angcredadun. Y marchogyon urdolyon aarganuuant paredur yndyuot ar doryf o veudwyeit ygyt ac ef. ac ar deu ergyt saeth y wrth bont y castell yd oed capel un ffunyt ar hwnn aoed yn ymyl camalot yn yr hwnn yr oed ysgrin ac ny wydit pwy bioed. Paredur adoeth tu ac yno ac aossodes y waew ae daryan wrth y capel ac a ffrwynglymod y varch ae vul. Ac odyna ef adoeth at yr ysgrin. Yna caeat yr ysgrin agyuodes ac aymollyngawd gan ystlys yr ysgrin yr llawr. ual y gwelit yn amlwc vot yndi varchawc urdawl yn gorwed. ac yn ymyl y draet llythyr yn tystolyaethu panyw y marchawc hwnnw a elwit Ioseph. Pan weles y meudwyeit yr ysgrin yn agoret y dywedassant wyntеu. Arglwyd heb wy ar yr arwyd honn y gwdam ni panyw tydi yw y marchawc da. ar marchogyon aoedynt yn gwarchadw y pynt awybuant vot yr ysgrin wedy agori. Ac yna yr adnabuant wy panyw efo oed y marchawc yd ymdangossei y greal idaw. ahynny adywedassant oe harglwyd. Ac ynteu adywawt ac aerchis na symlei arnunt dim. Ac yna paredur aesgynnawd yn aruawc ar y uarch. Ar meudwyeit a wediassant duw ar y nerthau. ac ynteu a gymerth y waew yn y law ac a doeth tuac att y marchogyon aoedynt yn cadw y bont gyntaf. ar marchogyon a ymerbynnassant ac ef. ac ynteu agyrchawd y kyntaf a gyuaruu ac ef ae trewis yn y vyd dros bedrein y uarch dros y bont ymperued y dwfyr. ar tri ereill aymladawd ynffest ac ef. namyn or diwed paredur ae lladawd wyntwy. ac ae bwryawd yn galaned dros y bont yr auon. Y rei or eil bont adoethant ac a ymladassant yn ffest ac ef. Ac yna ioseus y gevynderw adywawt wrth y meudwyeit. pany bei rac ovyn y bechawt yr aey oe gymorth. Yna y meudwy ieuanc a vwryawd y gapan ymeith. ac oe beis ae yscaplan ef adoeth ac a ymauaelawd ar hwnn ar un a oed daeraf ar baredur. ac ae trewis dros y bont yr gwaret. a pharedur a ladawd y deu ereill. Aphan daruu idaw

Digitized by Google

ef oruot ar y dwy bont gyntaf yd oed yn vlin. a medylyaw aoruc ef am aruer y llewot adywedassei y ewythyr wrthaw. ac edrych aoruc ef tu ar porth. ac arganuot y llew gwynn yn sefyll. Paredur aedrychawd ar y llew ac aadnabu arnaw. ony bei drwy wyrtheu duw na allei neb oruot ar y dryded bont. rac kadarnet y gwyr aoed yn y gwarchadw. Ac yna paredur adoeth draegeuyn. Agwedy pellau ychydic y wrthunt. neur daroed kyuodi y bont yuyny. Yna paredur adoeth att y mul a rassoed y ewythyr idaw. ac aesgynnawd arnaw. Ac adynnawd y gledyf. Aphan weles y llew gwynn paredur yndyuot ef adorres y gadwyn. athrwy gwbwl or marchogyon urdolyon. ef adoeth hyt y bont ae gostyngawd. Yna paredur adoeth ar gevyn y vul hyt att y rei aoedynt yn gwarchadw y dryded bont. Ac adrewis un onadunt yny vyd y gledyf drwy y arueu hyt y dwyen. Ac ynteu yn uarw dros y bont. Ioseus ueudwy adoeth racdaw. ac aymladawd ynffest ar deu ereill yny archassant nawd yr duw. ac wynteu agredynt ar eu hewyllys y duw ac y ueir. ar rei aoed ar y bedwared bont awnaethant yn yr un ffunyt. Ac yna paredur aroes eu bywyt udunt or credynt y duw. Yna medylyaw aoruc paredur vot yn vawr gwyrtheu duw. a disgynnu y ar y mul amynet draegevyn ac esgynnu ar y march aoruc. adyuot att y rei aoed yn gwarchadw y bymhet bont. ac wynteu a ymamdiffynnassant o gedernyt yny erbyn. Ioseus adoeth ac ae henkiliawd yny gafas le llaw arnunt ac ef apharedur ae lladassant oll. ac ae bwryassant dros y bont. Pan weles y rei aoed yn cadw y chwechet bont daruot ennill pob un hyt attynt wy. wynteu a ymrodassant y baredur. ar seithuet bont yn un ffunyt. Pan weles y llew coch ar marchogyon aoedynt ar y dwybont ereill hynny ynteu alidiawd. ac ohyt y gadwyn ruthraw aoruc ef. yny vyd ymplith y marchogyon urdolyon acheissyaw eu llad o digyoveint. Ar llew gwynn panweles hynny a lidiawd wrthaw ynteu ac ae lladawd. Agwedy hynny aoruu ar y marchogyon sefyll. Ac edrych aoruc paredur arnunt. ac wynteu a archassant y nawd. ac ynteu gwedy hynny a gymerth y uarch ac aaeth yr castell.

Digitized by Google

CXCV.—Ema y mae yr ymdidan yntraethu vot arthur diwarnawt yngkaer llion arwysc a llawer o vilwyr gyt ac ef o bop parth idaw yn eisted. y brenhin aedrychawd ar ffenestri y neuad ac a arganuu deu baladyr yr heul yn dyuot y mywn. y bop ystlys yr neuad. ac yn goleuhau kwbyl or neuad. a ryued vu gan y brenhin hynny. a gyrru kei allan aoruc y edrych beth oed hynny. a chei aaeth allan. ac aarganuu dwy heul ar yr awyr un yny deheu ar llall yn y dwyrein. Y mywn y doeth ef draegeuyn adywedut hynny yr brenhin. Yna ryued vu gan arthur hynny agwediaw duw aoruc ar dangos idaw beth aarwydockaei hynny. ac ar hynny ef a glywei lef yn dywedut wrthaw. Tydi vrenhin na ryueda di welet dwy heul ar yr awyr. kanys ef adichawn duw wneuthur hynny. kanys greawdyr yw ef. a gwybyd di panyw o achaws y marchawc da aduc y daryan oth lys di y tir brenhin peleur. ac aoresgynnawd y castell yar y brenhin drwc y gwnaeth duw hynny. Ac ymae duw yn erchi yttitheu vynet yno ar milwyr goreu oth lys ygyt athi. kanys ny allut ti vyth vynet y bererindawt well. aphan delych odyno yna y byd dy gret wedy dwblaw ytt. Ac ar hynny y llef adewis. digrif vu gan arthur yrhynn aglywei. ac ual y bydynt wy velly nachaf vorwyn ieuanc dec yndyuot ymywn ac yn kyuarch gwell y arthur. a phrenuol tec yny llaw. Arglwyd heb hi mi adeuthum yth lys di. wrth y bot ynbennaf or holl vyt. ac yr wyf yndwyn ytt y llestyr hwnn. ac y mae yndaw penn marchawc urdawl. ac ny dyly neb y agori onyt y neb a ladawd y marchawc. ac am hynny yd archafinneu ytti yr duw roi dy law yngyntaf ar y prenuol. a mi aarchaf ytti yr duw. os ytti y perthyn y neb pioed y penn neu bwybynnac or llys ae hagoro. y gadw hyt ym penn y deudecuet dyd gwedy delych or greal. A unbennes heb y brenhin padelw y gwybyd neb paryw wr oed y marchawc. Arglwyd heb hi y neb aagoro y prenuol ef adyweit kwbyl or gwir megys y bu amdanaw. Yna y brenhin aerchis idi vynet y eisted ac y vwyta. ae hanrydedu yn vawr awnaethpwyt. Aphan-

Digitized by Google

daruu idi vwyta hi adoeth geyr bronn y brenhin. Arglwyd heb hi kwpla dy edewit. Yn llawen heb ef. yna efo aroes y law ar y prenuol. ar uedyr y agori ac nys gallawd. ac yr awr y roes ef y law arnaw ef adoeth chwys idaw yn un ffunyt. aphei darffei y wlychu a dwfyr. a ryued vu gan arthur hynny. A gwedy hynny lawnslot ae proves. ac odyna gwalchmei. a chwbyl or lleill y am benn hynny. Kei hir aoed yn gwassanaethu. ac a gigleu daruot y arthur achwbyl or llys geissyaw agori y prenuol ae vethu arnunt. adyuot aoruc ynteu heb dyvyn or byt arnaw. Kei heb yr arthur dabre yma. neur daroed ym dy adel dros gof. Myn vyngcret heb y kei ny dylyut ti vyth vynggadel dros gof. kanys kystal milwr oedywn i ar lleill ae profes. Kei heb y brenhin ot egyr y prenvol ac o lledeist di y marchawc bieu y penn yssyd yndo ef awybydir arnat. ac myn duw ny mynnwn i y agori ef y gennyfi. kanys ny bu eiryoet yn varchawc urdawl yr tlottet uei ny bei idaw ryw dyn. athitheu nyt wyt garedic di y gan bawp. Myn vympenn i heb y kei myui a vynnwn vot gynneu y geniuer un ac aledeis i yny neuad onyt penn un. A llythyr yn menegi panyw myui ae lladassei. agwedy hynny tydi agredut vy mot i ual ydwyf oachaws ereill ny chredant vy mot yngystal ac ydwyf. Ac arhynny ydoeth ef geyrbronn yn lle ydoed y prenuol. ae gymryt yn y law yn hy aoruc. A roi y neill law ydanaw ar llall y arnaw. ac ar hynny agori awnaeth y prenuol. ac arganuot y penn yn amlwc awnaeth pawb. ac yna arogleu tec agyuodes or prenuol. weldy arglwyd heb y kei ti aelly wybot gwneuthur ohonafi rymuster yn dy wassanaeth di. ac nyt oes or milwyr yssyd hoff gennyt ti yna a allei agori y prenuol. nac yrdunt wy ny wybydut ti beth aoed yn y prenuol. Arglwyd heb y vorwyn par darllein y llythyr yssyd yn y prenuol athi a wybydy o ba lines yd henyw y marchawc. Yna y brenhin aberis galw ar un or offeiryeit. ac aerchis idaw dywedut yn eglur ual y clywei bawp beth aoed yn y llythyr. A gwedy daruot idaw edrych arnaw ef a ucheneityawd ac adywawt. arglwyd heb ef. gwarandaw arnafi ynda.

Digitized by Google

y llythyr hwnn yssyd yn dywedut panyw y marchawc hwnn aelwit llacheu. a mab oed hwnnw y arthur o wenhwyuar y vam. A llacheu diwarnawt aladawd logrin gawr. achei adoeth fford yno. ac aarganuu llacheu yn kysgu ar warthaf y kawr. a chei yna adorres penn llacheu ac ae kudyawd. ac agymerth penn logrin ac ae duc y lys arthur. ac adywawt panyw efo ae lladassei. Eissyoes kelwyd adywawt. Pan gigleu arthur a gwenhwyvar ual y buassei y damchwein. tristau yn uawr awnaethant. Ac yna y vrenhines a gymerth penn y mab y rwng y dwylaw ac ae hadnabu yn hyspys o achaws aoed ar y wyneb. ar brenhin adebygassei vot y vab yn vyw etto. Aphan doeth y chwedleu yr llys. y dywedut panyw y marchawc ar kylch eur aladawd marchawc y dreic. ef adebygassei arthur panyw llacheu oed hwnnw. kanys o eur oed idaw y arwydockau panyw mab y brenhin oed. Gwalchmei a lawnslot a chwbyl or llys aoedynt yndrist oachaws angeu llacheu. Aphany bei yr amot awnathoed y vorwyn am gymryt oet hyt ympenn y deudecuet dyd gwe pan delei or greal. ef adalyssit hynny arnaw kynn y vynet or llys. kanys kwbyl o vilwyr y vort gronn aoedynt kyndristet am angheu llacheu. ac na wydynt beth awneynt. Ar brenhin ar vrenhines aoedynt yngyndristet ac na lyuassei neb dywedut wrthunt na drwc na da. Yr unbennes adugassei y prenuol yno adialawd y chewilyd ar gei yndadigawn diwarnawt. ac ny wybassit hynny arnaw ef mor ehegyr ac y gwybuwyt pany bei y vorwyn ehun. aphan oerawd y dolur hwnnw gwalchmei a lawnslot a dywedassant wrth arthur. Arglwyd heb wynt ti a wdost erchi oduw ytti vynet yr castell avu eidaw brenhin peleur. y bererindawt seint greal. Arglwydi heb y brenhin aminneu aaf yn llawen. Yna y brenhin a ymgyweiryawd ac adywawt y mae lawnslot a gwalchmei aaei y gyt ac ef. heb neb mwy namyn un ysgwier ae gwassanaethei ar vrenhines heuyt adugassei ef y gyt ac wynt panybei veint y thristit am y mab. a chynn mynet y brenhin ymeith ef aberis dwyn penn y vab y ynys auallach yny lle yd oed gapel y ueir

Digitized by Google

a meudwy santeid yntrigyaw yn wastat. y brenhin a gychwynnawd ymeith drwy gymryt kennat y vrenhines a chwbyl or milwyr. a gwalchmei a lawnslot gyt ac ef. a chei ynteu a edewis y llys rac ovyn y milwyr ac aaeth y vryttaen vechan. Aphan gigleu pawp or ynyssoed hynny y ovyn aaeth ympob lle o vryttaen uawr. ac nyt oed da y ryngthaw ac arthur. achaws kynnal eiryoet hyt y gallyssei awnathoed yn erbyn arthur. kanys gwlat gadarn oed yr eidaw o drefi a chestyll. a milwyr da afforestyd. Ef a anuones gennadeu yn ol arthur y dywedut y kynhalyei ef o anuod arthur ae vilwyr. yn y wlat honno.

CXCVI.—Ema y mae y kyuarwydyt yn menegi varchogaeth o arthur ae gedymdeithyon yny oed agos yr nos. ac yna wynt adoethant y fforest pryt na welynt neb ryw gyuanned yn lle or byt. Ac yna wynt abarassant y un or gweissyon edrych awelei neb ryw gyuanned yn lle or byt y gellynt lettyu yndaw. Y gwas aedrychawd ac adywawt y gwelei dan mawr argynnwll y wrthaw. Amkana yn da heb y lawnslot ual y gwypych yn dwyn yn gyuarwyd yno. ac ynteu adywawt y dygei wynt yndadigawn. Y gwas adoeth oe blaen yny welsant y tan ar ty. adyuot awnaethant dros bont ac yr ty ymywn y doethant. ar lle awelynt yn aruthyr ac yn ffyrnic y diwyc. ac eisted a orugant yn aruoc yn ymyl y tan. Ac erchi awnaethant yr ysgwier vynet yr ystauelloed y edrych beth awelei. ac ynteu aaeth a buanach ympell ydoeth ef allan noc yd aeth y mywn. y brenhin yna aovynnawd idaw beth oed arnaw. ac ynteu a dywawt nat athoed eiryoet y le aruthrach. kanys y mae yn yr ystauell honn obenneu adwylaw dynyon mwy no deucant. Ac yna yn dechrynedic eisted awnaeth ef ac o vreid na lywygawd. Lawnslot yna aaeth y mywn y edrych a ydoed yn dywedut gwir. ac a weles yno niuer anghyuartal o wyr meirw. a thracheuyn y doeth ef dan chwerthin. Y brenhin aovynnawd aoed wir a dywedassei yr ysgwier. Gwir arglwyd heb ynteu. ac ny weleis eirmoet o dynyon yn veirw gymeint ac yssyd yno. Myn duw heb y gwalchmei kanys meirw

Digitized by Google

ynt nyt reit yn eu hovyn. duw an diangho ninneu rac ereill byw. Megys y bydynt wy yn ymdidan nachaf wreic ieuanc yndyuot ymywn ehun dan gwynouein mawr. Och duw medei hi adaw diued vyth ar y penyt hwnn. Ac arganuot aoruc hi y marchogyon yn eisted wrth y tan. Oia duw heb hi a ydiw efo yma. yr hwnn y dylywn vynet or dolur hwnn oe achaws. Y marchogyon yna aedrychawd arnei. a hitheu ae gwallt yngkylch y hysgwydeu. ae dillat aoed yn drylleu yn y chylch ae thraet yn waetlyt. ac yr hynny yd oed hi yn un or gwaged tecaf. a hanner gwr marw ar y hysgwyd. a bwrw hwnnw awnaeth hi ygyt ar rei ereill yn yr ystauell. a hi aadnabu lawnslot yr awr y gweles y diolwch y duw hi. ydwyfi yn gorffen vympenyt. Arglwyd heb hi grassaw duw wrthyt. antur da y titheu heb ef. Lawnslot yna aedrychawd arnei yngraff. ac yn ryued ganthaw y hymdygyat. A unbennes heb y lawnslot awyt teilwng di oblegyt duw. Wyf ynhyspys heb hi myui y vorwyn aweleist di yn arglwydes ar gastell y barueu. yr honn a nottaei wneuthur drudannyaeth megys y gweleist di. pan vuost yno. yn ymwelet ami pan yttoedut yn mynet y geissyaw seint greal. ac am y mileindra awnaethpwyt yno aphob dyn or a delei ydwyfinneu yn diodef y penyt hwnn. ac ny chaffwn vynet ohonaw yny delut ti ym rydhau. a thrahaus oed yr aruer drwc aoed yno. kanys ny deuei neb geirbronn vyngcastell i ny pharwn torri ae y drwyn ae danned ae tynnu y lygeit. ae torri yndwylaw. ae ynteu eu traet. ac am hynny ydwyfinneu ual hynn yn y penyt hwnn. kanys reit vu ym dwyn pawb or aledit yny fforest honn ar vyngkevyn. ar marchawc adugum i yr awrhonn ef avu yn lladedic yr ystalym yny fforest yny daruu y vwystuilot bwytta mwy nor neill hanner ohonaw. ac yr awrhonn ydwyfi yn ryd or penyt hwnn. kanys doethost di yma. A unbennes heb y lawnslot. digrif yw gennyfi hynny. A hevyt heb hi yndyuot yma yr wyf oth garyat ti. kanys ny chereis i eirmoet wr yngymeint athi. Arglwyd heb hi ny wdost di etto beth yw kynnedyf y lle hwnn. kanys kynn y dyd ef adaw yma

Digitized by Google

ymywn toryf o varchogyon duon hagyr aruthyr y ymlad bop un ae gilyd benndraphenn. a duw ath dihango di rac angheu y ganthunt. ac ef a bery hynny ynhir. ar nos gyntaf y deuthum i yma. ef adoeth marchawc urdawl y lettyu o antur. ef awnaeth ym gwmpas ae gledyf yr hwnn y ffoeis i racdunt wy. athrabwyfi yn hwnnw nyt reit ym eu hovyn wynt namyn ymdiret ynduw ac yn yr arglwydes veir. ac uelly y gwnewch chwitheu or gwnewch iawn. Ac yna lawnslot a gymerth y gledyf ac ymperued y ty ef awnaeth cwmpas. ac yn hwnnw yr eistedassant wy. Ac ual y bydynt yn eisted uelly wynt twryf y marchogyon yn dyuot. megys y tebygit udunt wy vot y byt yn diwreidyaw ar fforest yn digwydyaw. A gwedy hynny nachaf wynt yn dyuot y mywn. ac etewyn tanllyt yn llaw bop un ohonunt. ac ar rei hynny yn ymffust bop un ae gilyd. Ac yr hynny ryw darestwng awnaethant wy y arthur ae gedymdeithyon. Eissyoes ny allassant wy argywedu udunt namyn eu taflu obell ar prenneu tanllyt. Yna lawnslot agyuodes yuyny ar uedyr mynet y ymlad ac wynt. ar uorwyn ae gwediawd ac aerchis idaw nat ysgogei or cwmpas o ny mynnei y golli. ac ynteu a dywawt mae ry gachyat a ry lyfwr oed udunt vygylu yr delweu meirw. Mynduw heb y vorwyn ot ey di dros y cwmpas ti ageffy ormod o drwc ganthunt. kanys ysprydoed drwc ynt.

CXCVII.—Ny allawd lawnslot yr hynny beidyaw a mynet attunt. a thynnu cledyf awnaeth ef. atharaw yn eu plith. ac wynteu adynessaassant o bop parth am y benn. ac ynteu yn ymamdiffyn yn wrawl yn eu herbyn. dan drychu eu hetewynnyon tanllyt yny yttoed y glo tanllyt hwnnw yn neidyaw ar draws y ty. Yna arthur a gwalchmei agyfodassant y vyny o amdiffyn lawnslot ac eu kuraw awnaethant ac eu dryllyaw. yny yttoedynt yn syrthyaw yr llawr megys lludw o ulw ffagleu. ar eneidyeu truein aoed yndunt awelit yn un ffunyt a brein yn mynet trwy nenn y ty allan. a ryued vu ganthunt beth oed hynny. ac adywedassant mae llyna le drwc aflonyd oed hwnnw. Ac odyna y

Digitized by Google

orffowys yd aethant. ac ny allassant nac ny chawssant haeach o orffowys kynn y dyd. Ac yna kychwyn y vyny ac aadawssant y lle hwnnw. a marchogaeth awnaethant wy yn hyt y dyd hwnnw. drwy fforestyd ynyal dyrys. Ac yn y diwed wynt aarganuuant gyuanned y wrthunt. athu ac yno ydoethant ac yn ymyl y ty disgynnu aorugant. a dyuot ymywn. aphan doethant. wynt a welynt yno marchawc urdawl a gwreic dec ygyt ac ef. Ac yna y marchawc adywawt wrth lawnslot. Myn vympenn i heb ef myui ath atwaen di yn hyspys. kanys ti alesteiryeist ym gael yr hynn mwyaf agereis or holl vyt. ac om anuod ti abereist ym briodi y wreic honn yma. yr honn ny chafas yr hynny etto chweith llewenyd y gennyfi. ac nys keiff byth. A unben heb y lawnslot gwna yr hynn avynnych amdanei kanys ti bieu. ac ny pharwn i ytti y phriodi hi pany bei y mileindra ar kewilyd yd oedut titheu yny wneuthur idi ac oe chenedyl. Myn vympenn i heb y marchawc yr honn yd oedwn i yny charu yr awr honno dim ohonat ti nys car hi. ahi awna eniwet ytt os dichawn. a hitheu ae dichawn. Nym tawr heb y lawnslot. myui a ymdideneis a hi wedy hynny. ahi adywawt wrthyfi y hewyllys. Yna y marchawc aerchis roi dwfyr y ymolchi. ar wreic a gymerth y kawc ar lafwr ac ae kennigyawd yr marchogyon. A unbennes heb y brenhin ny mynnwn i y ryw wassanaeth hwnnw oth law di. Ar vyngcret heb (gwr) y ty ef a vyd reit y gymryt ac ny cheffwch chwi yny gwassanaeth hwnnw neb namyn hi. Lawnslot a adnabu vot y gwr yn vilein. ac ef awelei y bwrd ynllawn o vwydeu da. ac a vedylyawd nat oed da udunt golli eu hesmwythdra o achaws yr anesmwythdra a vuassei arnunt y nos gynt. Yna kymryt y dwfyr awnaethant y gan y wreic. ar gwr ae gossodes y eisted. ar brenhin aerchis yr wreic eisted y gyt ac wynt. Nac ef heb y gwr ny doeth idi y dyd hwnnw etto. Yna ygyt ar ysgwieryeit yd eistedawd hi megys y gwnaei ynwastat. Drwc vu gan arthur ae gedymdeithyon hynny. ny mynnynt wynteu wrthwynebu yr gwr yn y ty ehun. Pan daruu udunt

Digitized by Google

vwyta y marchawc adywawt wrth lawnslot. ti awely y ryw anryded agafas hi achaws awnaethost di ac mynduw tra vwyf vyw i ny cheiff hi o anryded mwy. kanys uelly yd edeweis i yr honn agarafi yn vwy no hi. Arglwyd heb y lawnslot. ef awelir ymi dy uot ti heb allel ymadaw aphechawt. a mi adebygaf heuyt nat diogan hynny ytt. Yna lawnslot a dywawt wrthaw ynggwyd arthur a gwalchmei. pany bei lettyu or gwr ef. y collei beth oe waet. neu ynteu avei well wrth y wreic. oe vod neu oe anuod. megys y gwnathoed pan y priodassei. Yno y buant wy hyt trannoeth yny aethant ymeith. a marchogaeth aorugant yny doethant y tir nyt oed amyl sathyrua dynyon yndaw. ac arganuot castell awnaethant. a mur kadarn yny gylch. namyn y uot wedyr sudaw haeach oll. ac or tu hwnnw nyt oed yn vyw yn dyn aallei dynessau attaw. yr hynny ual kynt yd oed fford y vynet idaw ef. ac yno y doethant wy. ac arganuot capel aorugant yn ymyl hen neuad. Ac yn y capel wynt a welynt offeiryat prud hen. ac attaw y doethant. a disgynnu aorugant a govyn yr offeiryat pwy bioed y castell. ac ynteu adywawt mae castell tindagoyl oed. Paham heb y brenhin y sudawd yr ystlys racko idaw ef ar tir yny gylch. Mi aedywedaf ytt heb yr offeiryat.

CXCVIII.—Uthur benndragon heb ef tat arthur. awnaeth gwled uawr. ac adyuynnawd attaw kwbyl oe holl ieirll ae varwnyeit. ar iarll bioed y castell hwnn aelwit gwrlois. aaeth yr wled ae wreic ygyt ac ef yr honn aelwit eigyr. a theckaf gwreic yny byt oed. ar brenhin uthur ae karawd hi rac y thecket. ac ae hanrydedawd yny wled yn vwy no neb ac aoed yn y llys. Ac yna gwrlois aadnabu hynny ac affoes or llys rac ovyn y brenhin. ae wreic ganthaw hyt y castell yma. Ac yna uthur alidiawd ac aerchis idaw dyuot yr llys draegevyn ef ac wreic. y wneuthur iawn idaw am y kewilyd awnathoed. nyt amgen no mynet or llys heb gennat. Ac ynteu adywawt na deuei ef. Ac yna uthur ae lu adoethant hyt yma y geissyaw y castell adwyn y wreic y dreis. A gwrlois ynteu aathoed idaw

Digitized by Google

y geissyaw nerth idaw. Ac ygyt ac uthur yr oed myrdin yn yr amser hwnnw. yr hwnn a roes drych gwrlois ar uthur. Ar nos honno ef agysgawd uthur y gyt ac eigyr. ac oweithret y nos honno y kaffat arthur. Ac yna yr offeiryat adoeth y gyt ac arthur yr capel. ac or tu allan yr capel yr oed ysgrin vawr. Arglwydi heb ef yn yr ysgrin honn y roet corff myrdin. a gwybydwch chwi yn lle gwir nat ydiw y gorff ef yn yr ysgrin yr awrhonn. kanys yr awr y roet y gorff yndi. ef aaethpwyt ac ef ymeith. ny wnn i ae oblegyt duw. ae oblegyt diawl. Arglwyd heb yr arthur beth a daruu y wrlois. Y lad or llu heb ynteu. ac arbenn y chwechet wythnos wedy hynny. y priodes uthur eigyr. a megys y dywedeis i ytti y kaffat arthur mywn pechawt. yr hwnn yssyd yr awr honn yn oreu brenhin or holl vyt. Pangigleu arthur hynny kyt gwydyat. kewilyd mawr avu arnaw. o achaws bot gwalchmei a lawnslot yno. Y nos honno y trigyassant wy yno. Athrannoeth wedy offeren wynt aaethant ymeith.

CXCIX.—Gwalchmei a lawnslot y rei aoedynt yn tybyeit adnabot y fforestyd ae kawssant mor symudedic ac mor amryuaelus ac na wydynt pa le yr oedynt. Ioseph yssyd yn tystolyaethu vot ansawd affuryf yr ynyssed yn symudaw oachaws yr amryuaelyon anturyeu aoedynt yndyuot oblegyt duw. kanys ny.rangyssei eu bod yr milwyr eu pererindawt yngystal ac yd oed yn rengi udunt pany bei yr amryuaelyon anturyeu. Ac nyt aeth yr bererindawt honn o wlat yny byt nac o lys brenhin or byt. kymmeint ac aaeth o lys arthur ehun. aphany bei vot duw yn eu karu ny ellynt wy godef y geniuer poen athrallawt aoed arnunt yn gystal ac yd oedynt. ac na ryuedet neb eu bot wy yn vilwyr da eu gweithredoed. kanys kymeint y credynt y Iessu grist ac yr arglwydes veir. ac nat oed chweith ovyn nac argysswr arnunt. A charu duw ae anrydedu awneynt. a marchogaeth a wnaethant wy yny doethant y fforest uawr. Ac yno y doethant yn agos yr lle y dylyei lawnslot vynet y gywiraw y lw. am y marchawc or dinas atueiledic. Ac yna y dywawt ef y arthur

Digitized by Google

kwbyl or damchwein. ac y bydei reit idaw vynet yno ony bydei gelwydawc. Ac yna marchogaeth awnaethant. yny doethant y le yr oed yr holl ffyrd yn ymgynnullaw ygyt. Arglwyd heb y lawnslot reit yw ymi vynet y gywiraw vyngcret. ac ymperigyl arglwyd ny wnn i awelafi dydi vyth bellach. kanys mi aledeis penn marchawc yny dinas racko megys y bu reit ym dyngu kynn y varw ef ar dyuot yno yn y kyfryw antur y lad vympenn. megys y roes ynteu y benn y minneu oe lad. ac ny mynnaf inneu arglwyd vy ffaelu nam bot yn ffals dros odef angeu ar vyngcorff. ac os duw avynn vyn diangk i yn vyw mi a deuaf ar dol di gyntaf ac y gallwyf. Ac yna y brenhin aaeth dwylaw mynwgyl idaw ac oe gussanu. dau wediaw duw ar vot yn iachwyawdyr oe eneit ae gorff. ae gadw rac angheu ual y gellynt ymgaffael yn ehegyr. Lawnslot aarchassei annerch y vrenhines yn llawen. panybei rac tybyeit o arthur neu walchmei arnaw amgen no da. Y charyat hi eissyoes aoed gwedy gwreidyaw yny gallon ef yngymeint ac na allei y hesgussaw.

CC.—Marchogaeth uelly yn uedylgar ac yndrist aoruc lawnslot yny oed agos y hanner dyd. ac yna y doeth ef yr dinas atueilyedic. ar dinas yn gynwacket. ac yn gyndiffeithet ac y gwelsei ef orblaen. A gwedy y dyuot hyt y lle y lladyssei ef penn y marchawc. ny bu hir y bu ef yno pan gigleu cri mawr tosturyus gan wraged a meibyon a morynyon. ac yn dywedut och duw. llwyr yn twyllawd y marchawc aladawd y llall yma pryt nat ydiw yn dyuot. hediw yd oed yr oet dyd idaw y dyuot y gywiraw y eir. ac ny dylyit vyth credu yr un onadunt kanys ffaelawd hwnn. Ac uelly y ffaelassant y lleill oll oe vlaen. ac y ffaela ynteu rac ovyn y angheu. Ac uelly y bu lawnslot ynhir yn gwarandaw arnunt. adisgynnu awnaeth ef yny diwed. Ac ar hynny ef awelei varchawc urdawl yn disgyn or neuad ar hyt pont grech y waeret. ar vwyall yn y law. Lawnslot yna aovynnawd idaw. A unben heb ef beth awney di ar vwyall honno. Myn vympenn heb y marchawc ti ae gwybydy kynn dy uynet. mi a vynnaf heb ef wneuthur ual y

Digitized by Google

gwnaethost ditheu ar marchawc arall. ae vy llad i yssyd yth vryt ti heb y lawnslot. Ti ae gwybydy heb ynteu os ef kynn dy vynet odyma. a dabre heb ef a gostwng ar dal dy linyeu. ac estyn dy wdwf y lad dy benn. ac ony wney di hynny oth vod ti a geffy abaro ytt y wneuthur oth anuod. pettut ar dy ugeinuet. a mi adebygaf na doethost di yma ony y gywiraw dy gret. Yna dilis oed ganthaw y varw. kanys yny vryt ydoed gywiraw yr hynn aadawssei. Ac yna heb dywedut mwy gostwng ar dal y linyeu aoruc lawnslot ac erchi oe iachwyawdyr drugared am y bechodeu. ac heuyt ymbil aoruc ef am roi trugared y wenhwyuar. a dywedut. Och arglwydes dec nyt oes fford ymi yth welet bellach vyth. a phei gwelswn i di unweith kynn vy marw esmwythach vydei gennyf vy angheu. ac am nat oes ym obeith yth welet vyth. tristach wyf noc om angheu. a mi a warantaf ytti y car vy eneit i dydi yn y byt arall yn gystal ac yn y byt hwnn. Ac ar hynny gollwng dagreu ar hyt y wyneb awnaeth ef. ac yr pan vuassei varchawc urdawl med y kyuarwydyt nyt wylawd yr gouit or a vu arnaw hyt yr awr honno. ac unweith arall. ac yna ef agymerth teir dalen o lysseu. ac ae kymunawd ehun. ac aymorchymynnawd y duw. ac odyna ef aostyngawd y benn ae wdyf. ar marchawc aossodes arnaw. A phan gigleu ef y dyrnawt yn disgynnu ar y vynwgyl. ef a drosses y benn. ar vwyall agerdawd heibyaw hyt y llawr. Ac yna y marchawc adywawt wrthaw. Nyt uelly arglwyd heb ef y gwnaeth vy mrawt i yr hwnn aledeist di y benn ef. namyn daly yn digyffro y benn ae vynwgyl. ac uelly y byd reit y titheu.

CCI.—Ac ar hynny nachaf dwy vorynyon ieueinc yn gostwng eu penneu drwy ffenestyr ar y neuad. ac yn adnabot lawnslot. a megys y bydei y marchawc yn gossot yr eil dyrnawt arnaw. un or morynyon adywawt wrthaw. Os vyngharyat i a vynny di y gael vyth gollwng y marchawc hwnnw yn ryd. Ac ony wney hynny ti a ffeilyeist ar vyngharyat i. Ar hynny y marchawc adaflawd y vwyall oe law. ac aerchis nawd y lawnslot.

Digitized by Google

am awnaethost ti ae keffy yn llawen heb y lawnslot. vy mod am nawd yr nam lledych. Na ladaf heb ynteu namyn yth gannhorthwy y bydaf ympoblle ar y bych ditheu. kyt lledych di vymmrawt i. Y morynnyon a-doethant or lle yroedynt hyt att lawnslot. arglwyd heb y morynnyon ni adylyem dy garu di yn vwy no neb or byt. a nyni arglwyd heb wynt yw y dwy chwioryd aweleist di yny castell tlawt yny lle y buost di ti a gwalchmei nossweith. pan rodassawch y ni y da aennill-assawch y gan y lladron. pan y lladyssawch. Ar castell tlawt aweleist di. nar dinas yma. ny buassei gyflawn o dynyon vyth pany bei dy gywirdeb di. ac ef adoeth yma oth vlaen di ugein marchawc ual y doeth-ost ditheu. ac ny bu onadunt yr un ny ladei yni ae brawt ae ewythyr ae kevynderw. ac ef avu reit y bawp dyngu ual y tyngeist ditheu. aphawb affaelyawd ac adyngassant anudon rac ovyn angeu. Aphei ffaelyas-sut titheu ni agollassem y dinas hwnn vyth heb obeith oe gael drachevyn. Yna y morynyon ar marchawc urdawl. adugassant lawnslot drwy lewenyd mawr yr neuad. Ac yna diosc y arueu awnaethpwyt. a gwisg-aw glan dillat ymdanaw. ac ef aglywei y llewenyd mwyaf yn llawer o leoed yn y dinas ac odieithyr y dinas. Arglwyd heb yr un or morwynyon ti a gly-(wy) veint y llewenyd yssyd o achaws dy dyuodyat ti yma. kanys y barwnyeit a phorthmyn y dref yssyd yn dyuot yr dinas y drigyaw. ac wynt a wdant dyuot ti yma. Lawnslot yna a gyuodes y vyny. ac aogwydawd ar un o ffenestri y neuad. ac aedrychawd allan. ac a weles y dref yn llenwi or tylwyth teckaf or awelsei neb eiryoet. ac offeiryeit a gwyr crevyd oe blaen yn dywedut molyanneu y duw am vot udunt rydit y dyuot draekeuyn. Lawnslot a vu anrydedus yny castell hwnnw ac yn y dinas. ar marchogyon ae gwassan-aethassant yn garedic. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am lawnslot. ac yn traethu am arthur a gwalchmei.

CCII.—Ema ymae yr ystorya yn traethu vot arthur a gwalchmei yn marchogaeth. ac yn damunaw chwedleu y wrth lawnslot. Ac ar hynny wynt awelynt march-

Digitized by Google

awc a brys mawr arnaw ac yn aruawc obop arueu. A gwalchmei aovynnawd idaw o ba le ydoed yn dyuot. Yd wyf heb ynteu yn dyuot o wlat brenhines y kylch eur. yr honn y kyuaruu a hi gouit mawr. kanys mab y wreic wedw a enillawd y kylch eur y genthi. ac ae gedewis y gyt ahi oe gadw. Ac yr awr honn y doeth gwr aelwir nabigawns. ac ae duc y genthi. ac ae roes ynllaw morwyn. ac aerchis y dwyn y gynnulleitua o varch-ogyon urdolyon athwrneimant a vyd yn ymyl pebylleu y dwy vorwyn. ae roi awnaeth yr goreu or twrneimant hwnnw. a nabigawns adaw yno oe ennill yr eilweith herwyd nerth y arueu. Y marchawc aaeth ymeith. ac arthur a gwalchmei agerdassant racdunt yny doethant yr pebylleu. or lle y gwaredawd gwalchmei yr aruer drwc yarnunt. ac yr oed y pebyll yn gyngyweiryet ac y gwelsei walchmei gynt.

CCIII.—Gwalchmei yna aberis y arthur eisted ar gylchet. a diosc eu harueu awnaethant. ac ymolchi. Gwalchmei aroes y law ar y gist aoed is traet y gwely ac ae kafas yn agoret. athynnu dillat tec aoruc ef odyno ae gwisgaw ymdanunt. aphandaruu udunt wy wisgaw ymdanunt. odit oed gael deu wr degach noc oedynt. ac ar hynny nachaf y morynyon yn dyuot ymywn. Grassaw duw wrthywch heb y gwalchmei. Antur da arodo duw y chwitheu heb wynt. Ef awelir y mi heb un or morynyon dy uot ti yn kymryt yssyd yma ynhy heb gennat neb. ac ny elleist di eiryoet wneuthur dim on hadolwn ni yrom. Ac nyt oes yny wlat honn varchawc ny bei digrif ganthaw wneuthur yr hynn aadolygassom ni ytti y wneuthur. ac ny bei hoff gael yn karyat ni. ani ae kynnigyassam yt. athitheu o achaws dy vilwryaeth ny bu wiw gennyt dim ywrthym ni. a phadelw y gelly di wneuthur hyder y gymryt dim or einym ni. pryt na allem ninneu hyder ar y teu ditheu. A unbennes heb y gwalchmei ar dy gwrteissi di y mae vy hyder i ac aruer y pebyll. Ti adywedeist ym pan vwryeist yr aruer drwc y ar y pebyll nat oed gwrteissi ny cheffit yma ymywn. Gwir adywedy heb y gwalchmei. eissyoes heb hi ef adylyit

Digitized by Google

ysgaelussaw gwneuthur cwrteissi ytti. athalu mileindra dros vileindra arall. Yma auory y dechreuir twrneimant mawr. yr lle y daw llawer o varchogyon urdolyon da. ac ef aroir y kylch eur yr goreu awnel ac adigono yny twrneimant hwnnw. ac ef abery dridieu. a mi aallaf warantu heb hi vot yn einwch chwi y llettyeu goreu.

CCIV.—Ac yna y ieuaf or morynyon aedrychawd ar arthur. a thitheu arglwyd heb hi a vydy di kyn estroneidyet wrthyfi ac y mae gwalchmei wrth y llall. A unbennes heb yr arthur. gwnaet walchmei yr hynn a vynno. a minneu awnaf yn ol vy medwl inneu. athu ac attat ti ny bydafi estron. namyn pob ryw anryded or aallwyf ywneuthur mi ae gwnaf ytt. ac awnaf dy holl ewyllys yn llawen. Duw adalo ytt heb yr unbennes. wrth hynny heb hi ti avydy uarchawc urdawl ymi yn y twrneimant avory. A unbennes heb y brenhin ny wrthodafi hynny oth garyat ti. a llawen yw gennyfi pei gallwn wneuthur peth arangei vod ytt y wneuthur. kanys yr y morynyon y dyly y marchogyon urdolyon llauuryaw. Arglwyd heb hi pwy yw dy enw di. Ef amgelwir i arthur o tindagol heb ynteu. Adeirit ytti y brenhin arthur heb hi. mi avum heb ynteu yny lys ef lawer gweith. aphei na charei ef vyui ny chaffwn i y ganlyn ef. na gwalchmei. Yr unbennes vyth aoed yn edrych ar arthur. ac ny wydyat hi panyw y brenhin oed ef. a hoff vu genthi y aruer. Ef adichawn y brenhin heb hi vot ynhy. ovot idaw orderch osmynn. Eissyoes llawer oed oe dywedut y rwng y uedylyeu ef ae arwydyon. kanys ydoed yndangos arwydyon tec ynyr rei yr oed y vorwyn yn ymdiryet yn vawr. Y morynyon aberis ystablu y meirch a dwyn bwyt udunt. a gwassanaethu ar y marchogyon yn diamdlawt. Ac odyna dwyn eu harueu geyr eu bronn awnaethpwyt. ac nyt aethant y wrthunt yny disgynnawd kysgu arnunt. ar marchogyon adoethant obell yno a barassant gwneuthur lluesteu udunt ar hyt y meyssyd. Aphan vu dyd drannoeth arthur a gwalchmei agyuodassant y uyny. ar hynaf or moryn-

Digitized by Google

yon adoeth att walchmei. Arglwyd heb hi mi a vynnaf dwyn ohonat hediw yrofi arueu cochyon. y rei arodafi ytti. ac edrych ditheu ar eu racdylyu wynt ynda. kanys ny mynnafi dy adnabot ti ar dy arueu dy hun. namyn dy alw y marchawc ar arueu cochyon. Duw a dalo ytt heb y gwalchmei. aminneu alafuryaf hediw yr dy vwyn yn oreu ac y gallwyf. ar ieuaf adoeth att y brenhin. Arglwyd heb hi. vy chwaer i awnaeth y rod. a minneu awnaf y meu inneu. minneu a rodaf y titheu arueu eureit goreu aweleist eiryoet. ami adebygaf y racdylyy di wynt ynda. Ac yr duw heb hi delit yn dy gof vyui tra vych yn y twrneimant. Duw adalo ytt heb y brenhin. nyt oes debygafi yny byt marchawc or athwelei ny dylyei dyuot dy gof idaw.

CCV.—Arthur yna awisgawd y arueu ymdanaw. a gwalchmei yn yr un ffunyt. ar vorwyn bioed roi y kylch eur adoeth yno. Nabigawns adoeth athoryf vawr o varchogyon y gyt ac ef. ar twrneimant adechreuwyt o bop parth. ar ieuaf or morynyon adywawt wrth arthur. Gwybyd di heb hi. nat oes yma hediw gwr kystal y arueu athydi. edrych ditheu ar dy uot yn varchawc da yrofi. Duw agannatto ym vot uelly heb yr arthur. athynnu avwyneu eu ffrwyneu attunt awnaethant. a chymryt neityeu gan eu meirch. Ac yna y ieuaf or morynyon adywawt wrth y llall. Ponyt hoff gennyt ti vyngkedymdeith i heb hi. Hoff heb hitheu. gwalchmei nyt ydiw yn atteb ymi ar vy ewyllys. ar hynny arthur agwalchmei adrawssant yn y pres. megys deu lew. ac ar eu dyuodyat wynt adrawssant deu varchawc dan draet eu meirch yr llawr. A gwalchmei agymerth eu meirch ac ae roes yn llaw ysgwier yr arglwyd. y erchi eu dwyn yr morynyon. A gwedy hynny nyt edrychassant wy ac ny rodassant eu bryt ar ennill. ac nyt ymgyhyrdassant wy nac athoryf nac abydin nys tyllynt ac nys byrynt dan draet eu meirch yr llawr. hyt nat oed neb yn gallel godef eu dyrnodeu. Nabigawns aarganuu walchmei ac ae kyrchawd. a gwalchmei ynteu yngyffysget yny

Digitized by Google

syrthyawd nabigawns ac ef ae varch yr llawr. arthur or tu arall nyt oed segur ynteu. Aphawb yn arlloessi fford idaw. ac yr oed lawer o wyr ereill yn ymlad ynda. Eissyoes nyt oed neb aellit y gyffelybu udunt wy. wynt arodassant lawer odyrnodeu y dyd hwnnw. ac ae herbynnassant heuyt. A gwedy pryt gosper pawp aaeth y letty. aphawb aoed yn dywedut ar hyt y pebylleu panyw y marchawc ar arueu eureit ar llall ar arueu cochyon avuassynt oreu y dyd hwnnw. Arthur a gwalchmei adoethant yr pebyll. ac abarassant tynnu eu harueu y amdanunt. a gwisgaw glandillat. ar morynyon aoedynt yn eu gwassanaethu ynllawen. Ac ar hynny nachaf corr y morynyon yn dyuot ymywn ac yn dywedut wrthunt. bydwch lawen heb ef. kanys y mae pawp yn kyttuunaw panyw awch marchogyon chwi avu oreu hediw. Arthur agwalchmei aaethant y vwyta. ar morynyon a wassanaethassant arnunt o bop aruer bwydeu ae diodyd oed win achareleu. Y brenhin aerchis oe vorwyn ef eisted gyferbyn ac ef. a gwalchmei yr un ffunyt am y vorwyn ynteu. a gwedy daruot udunt vwyta wynt aaethant y gysgu kanys blin alludedic oedynt gan y dyrnodeu agymerassynt ac a rodassynt wynteu y ereill. a chysgu awnaethant wy hyt trannoeth. Aphan ymdangosses y dyd udunt wynt a gyvodassant y vyny. Ac ar hynny nachaf y ieuaf or morynyon yn dyuot ac ynkyuarch gwell y arthur. Duw arodo enryded allewenyd y titheu heb yr arthur. Gwalchmei heb y llall adaw cof ytti y brenhin yr hwnn ydoed y dir yn gaedic o vur maen. yn y gylch o gylch. yny lle y llettyeist di nosweith. athi yndyuot o geissyaw y cledyf yr hwnn y llas penn ieuan uedydywr. ac ef a vynnassit dwyn y cledyf y gennyt. adrwc vu gennyt titheu hynny. Eissyoes ef aroespwyt itt drwy amot gwneuthur o honat yrhynn kyntaf aarchei uorwyn ytt. a thitheu ae kennetteeist idaw ar dy gret. Hynny heb y gwalchmei adaw cof ymi ynda. Minneu aarchaf ytti yr duw yr dy brovi awyt kyngywiret ti ac y dywedir. ar dy uot hediw ynwaethaf or adel yr twrneimant. ac ny cheffy amgen arueu nor teu dyhun yr peri

Digitized by Google

y bawp dy adnabot. ac ony wney di uelly ti affeylyest oth gret. a minneu af vy hun y venegi idaw dorri ohonat amot ac ef. A unbennes heb y gwalchmei ny thorreis i amot a neb eirmoet o gallwn y gywiraw. nac or bei gennyf fford oe gywiraw.

CCVI.—Gwalchmei yna awisgawd y arueu ehun. ac uelly yr ymduc yn y dyd hwnnw hyt nat oed neb yny twrneimant ny bei well noc efo. ac yn y oed lawer yn ryuedu ac yn dywedut na welsynt eiryoet arueu tec y wr waeth ae dylyei noc (efo). Meliot o loegyr aoed yn mynet y geissyaw gwalchmei. ac agyvaruu athylwyth yn dyuot or twrneimant. ac ef aovynnawd udunt awydynt wy un chwedyl y wrth walchmei. ac un aovynnawd idaw y baryw beth y keissyei ef walchmei. Arglwyd heb y meliot gwr idaw wyfi o tir a daear. ac ef a dyly dyuot y warantu ym vyntir am daear yn erbyn pob dyn a nabigawns aduc y gennyf vyntir am daear. ac oe geissyaw ynteu yd afi ymkymhorth o gael vyntir drachevyn. Mynn vympenn i heb yr un or marchogyon urdolyon ny wdam ni pa delw y dichawn ef rymyaw y ereill pryt na ellei y nerthau ehun. ef a vu walchmei heb wy yny gynnulleitua ar twrneimant. a gwybyd di yn lle gwir na bu yno varchawc urdawl waeth noc efo. A phangigleu meliot y chwedleu hynny ef aymchoelawd draegevyn. ac arthur a gwalchmei or tu arall a gychwynnassant or pebyll. a marchogaeth awnaethant gyntaf ac y gallyssant parth ar lle yr oed yn eu bryt vynet. ac yn chwannawc ganthunt pei clywynt chwedleu y wrth lawnslot. a cherdet awnaethant yny doethant yr ty atueiledic yr lle y dugassei y bitheiat gynt walchmei. yny lle y gwelsei ef y marchawc urdawl adaroed y lawnslot y lad. ac yno y llettyassant wy y nos honno. ac yd oed yno varchogyon urdolyon yn eu hadnabot. Y wreic bioed y ty a anuones yr wlat gennadeu y geissyaw. ac y dywedut bot yno y gyt a hi y rei a notteynt lad eu kedymdeithyon ar hyt y fforestyd. Eissyoes gwell oed gan y wreic pei lawnslot avei yno. kanys ef a ladyssei y brawt. Yno y doethant llawer o varchogyon yr gorth-

Digitized by Google

rymu arthur a gwalchmei. y wreic eissyoes a vu kyngwrteisset ac na odefawd gwneuthur yno chweith drwc udunt. Seith marchawc adoethant drwy gedernit mawr y gadw y bont. hyt nat oed fford y arthur nac y walchmei y vynet ymeith. onyt eynt dros benneu eu gwewyr.

CCVII.—Traethu y mae yr ystorya honn dyuot o lawnslot or dinas tlawt amarchogaeth ohonaw yny doeth y fforest. yn yr honn y kyuaruu meliot ac ef yn drist ac yn aflawen am y chwedleu aglywssei y wrth walchmei. Lawnslot yna aovynnawd idaw obale yd oed yndyuot. Ac ynteu a dywawt mae o geissyaw gwalchmei. yr hwnn y clywssei chwedleu nyt oed dec ganthaw dim ohonunt y wrthaw. Paham heb y lawnslot a glyweist di amdanaw ef amgen no da. Kigleu heb ynteu herwyd (y dywet) pwyt ym. kanys gynt yr oed ef yn vilwr da clotuawr. ac yr awrhonn nyt oes yny byt un waeth noc ef. kanys ef a vu yny twrneimant. a mi a gyfaruuum ar toruooed yndyuot odyno. y rei aoedynt yn dywedut na welsynt eiryoet cachadrwyd na llyvyrder vwy ar wr nac aoed arnaw ef. Eissyoes medynt wy yr oed y gyt ac ef varchawc urdawl da dewr. Yn wir heb y lawnslot ny allafi credu vyth y vot ef yn gachyat nac yn llwfyr. a mi aaf oe geissyaw ef ac or mynny ditheu dyuot dabre. Yna meliot a gychwynnawd y gyt a lawnslot ac y gyt wynt a varchocaassant yny doethant hyt yn ymyl y ty atueilyedic. yn y lle yd oed y brenhin a gwalchmei. ac yd oedynt wedy esgynnu ar vedyr mynet ymeith. eissyoes nyt yttoedynt wy mor dilesteir udunt a hynny. nyt oed dec ganthunt wynteu trigyaw yno. Ac yna dyuot tu ac att y seith marchawc awnaethant y rei aoedynt yn aruawc. atharaw yn eu plith. ac wynteu ae herbynnassant ar benneu eu gwewyr.

CCVIII.—Ac ar hynny y doeth lawnslot a meliot attunt. Ac arhynt yd nabu arthur agwalchmei ef. ac ar y dyuotyat ef a drewis un yny vyd drwy berued y gorff. a meliot aladawd un arall. Aphan weles arthur agwalchmei hynny llawen vu ganthunt. Ac yna lawnslot a

Digitized by Google

meliot arydhaawd y bont y arthur ac y walchmei. Y lleill a ffoassant heb lyuassu aros mwy arnunt. Ac yna y wreic bioed y ty adoeth hyt geyrbronn lawnslot. Ac adywawt wrthaw dan y adnabot. lawnslot heb hi ti aledeist tat y mab hwnn. ac os da gan duw efo neu arall adieyl arnat ti hynny etto. Tewi awnaeth lawnslot wrthi hi yr hynny. amynet ymeith awnaethant wy odyno. agwalchmei a vu lawen wrth veliot. Arglwyd heb y meliot yrwyfi yndyuot yngkwyn attat ti rac nabigawns or greic. yr hwnn yssyd gwedy vyndidreftadu i. ac adyngawd nac yrot ti nac yr neb ac yssyd vyw nas kaffafi vyth drachevyn. Ac ony deuy di yr awr honn y gyt ami nyskaffafi vyth. Ie heb y gwalchmei myui aaf yn llawen gyt athydi drwy gennat arthur. ami adeuaf dramkevyn yn gyntaf ac y gallwyf. Arthur a lawnslot a gerdassant gyntaf ac y gallassant wynteu parth athir brenhin peleur. agwalchmei auarchocaawd yny doeth y tir nabigawns. Yna meliot a anuones kennat attaw. y dywedut idaw vot gwalchmei gwedy dyuot ae vot ynbarawt y gynnal dylyet meliot oeblegyt ef. kanys gwr idaw ydiw. Nabigawns yna aoed iach or dyrnawt a gawssoedyat yn y twrneimant. ac ny bu uawr iawn ganthaw ef walchmei o achaws y cachatrwyd ar llyvyrder awelsei arnaw yn y twrneimant. Ac yna erchi aoruc ef oe varchogyon urdolyon nat ymyrrynt y ryngthunt. kanys pet vei chwech marchawc oe gyfryw wyr ef. ef aorvydei arnunt herwyd adebygei. Ac ar hynny y doeth ef allan yn aruawc. Gwalchmei ae gweles ac ae harhoes. a nabigawns ae kyrchawd heb dywedut un geir wrthaw. ac ae trewis yntewdwr y daryan yny vyd y gwaew yn drylleu ywch y benn. a gwalchmei ae hamkanawd ynteu. ac ae trewis yny vyd blaen y gwaew drwy berued y gorff. Ac yny vyd ynteu yn varw yr llawr. Y marchogyon yna a hwylyassant y walchmei. eissyoes y ryngthaw efo ameliot wynt aymdifferassant ynda. ac yr castell y doethant wy dan ymlad. ac wynt ae gwasgassant wynt yn gyngyvynget ac y bu reit udunt. wneuthur gwrogaeth y veliot a roi yr agoryadeu yny law. agwedy daruot

Digitized by Google

y veliot gaffael medyant ar gwbyl oe holl tir. gwalchmei a ymchoelawd draegevyn yn ol arthur a lawnslot. ac ef a gyuaruu ac ef morwyn ieuanc dec abrys mawr arnei. A unbennes heb ef duw arwydhao ragot ac y ba le os da gan duw yr ey di ar brys hwnn arnat. Arglwyd heb hi mi aaf yr dyrua vwyaf a weleist eirioet o varchogyon urdolyon. Pa le y mae hynny heb y gwalchmei. Y mae heb hitheu yn y llannerch dan y paleis. ac y geissyaw y marchawc ar arueu eureit idaw yd af i yno. yr hwnn aennillawd y kylch eur yn ymyl y pebyll ac awdost di un chwedyl y wrthaw ef. A unbennes heb y gwalchmei beth a vynnut ti ac efo. Arglwyd heb hitheu mi a vynnwn ywelet. kanys mab y wreic wedw yr hwnn ae hennillawd yn y vlaen ef. amgyrrawd i oe geissyaw ef. ac y adolwyn idaw othosturyawd eiryoet wrth na gwreic na morwyn dosturyaw wrth vy arglwydes i. a dial ar nabigawns y dwyll ar dreis awnaeth am dwyn y genthi y kylch eur. a llad y marchogyon. A unbennes heb y gwalchmei na lauurya di dim yr hynny. kanys gwybyd di yn lle gwir mae y neb a enillawd y kylch eur neu arall drostaw ynteu aladawd nabigawns. Arglwyd heb hi padelw y gwdost ti hynny. Mi aweleis y lad heb ynteu. ac yn arwyd ytti ar hynny llymma y gennyfi y kylch eur. a mi ae dygaf yr rydhau dy arglwydes di yr gwr a enillawd y greal. llawen vu gan y vorwyn hynny a hi aymchoelawd drachevyn y venegi hynny oe harglwydes.

CCIX.—Gwalchmei a gerdawd racdaw parth ar dyrua adywedassei y vorwyn. o dybyeit o clywei arthur a lawnslot y deuynt wynteu yno. ac ny marchocaawd ef haeach pan gyfarvu ac ef gwas ieuanc. yr hwnn a debygei ef y vot yn vlin ef ae varch. Gwalchmei aovynnawd idaw obale yd oed yn dyuot. Ac ynteu adywawt panyw o lys arthur. yn y lle yd oed ryuel mawr kanys ny wydit un chwedyl y wrth arthur. namyn rei adywedei panyw marw vuassei. kanys yr pan athoed ef a gwalchmei a lawnslot o gaerllion. ny chlywssit un chwedyl y wrthunt. Ar vrenhines yssyd kyndristet oe achaws ef ac o achaws angheu llacheu y

Digitized by Google

mab ac y tebic y byd marw yn ehegyr. Briant or ynyssed a chei yssyd yn llosgi y wlat. ac yn dyuot y dwyn yr anreitheu hyt geyr bronn castell kaer llion. ac o gwbyl o vilwyr y vort gronn nyt oes yno neb onyt pymthec arhugeint. ac ohynny y mae dec gwedy briwaw yndrwc gan dylwyth briant. Pan gigleu gwalchmei y chwedleu hynny trwm athrist vu ganthaw y vedwl. ef a varchockaawd gyntaf ac y gallawd ar gwas ae kanlynawd yny doethant yr dyrua. yna gwalchmei a arganuu arthur a lawnslot. ar marchogyon urdolyon adoethant yno o amryuaelyon deyrnassoed. kanys marchawc a dathoed yno ac amws gwynn ac a choron eur ganthaw. ac aberis crio a menegi ympob teyrnas panyw y neb goreu a wnaey yn y twrneimant hwnnw a gaffei y goron ar march. Ac y caffei vot yn arglwyd ar tir yr arglwydes bioed y goron. ac o achaws y chwedleu hynny y doeth yno llawer o varchogyon urdolyon mwy noc adeuei gynt. a gwedy hynny arthur agwalchmei a lawnslot a nessaassant or neilltu.

CCX.—Menegi ymae y kyuarwydyt kymryt o arthur y daryan eureit arodassei y vorwyn idaw yn y pebyll. Gwalchmei agymerth yr eidaw ynteu ehun. Lawnslot agymmerth taryan werd yr honn adugassei o garyat y marchawc aladyssit yny fforest yny amdiffyn ef. ac yny twrneimant y trawssant wy yll tri megys llewot adianghei oc eu cadwyneu. ac ar hynt wynt a drawssant tri marchawc urdawl y lawr ar y dyuodyat o gyfadnabot ac wynt. ac odyna wynt a chwilyassant bop toryf a phob bydin. ac a vwryassant lawer o wyr a meirch y lawr. ac ny chyvaruu yn y dyd hwnnw neb ar brenhin neb nys bwryei y lawr neu ynteu agollei y daryan. Gwalchmei a lawnslot nyt oedynt segur wynteu or parth arall. Pawb eissyoes aoed yn edrych ar y brenhin. kanys kynnal y le yd oed ef megys nat oed neb alyuasse nae gyrchu nae aros. y twrneimant abarhaawd yny mod hwnnw deu diwarnawt. a phan daruu ef a varnawd pawp panyw y marchawc ar arueu eureit avuassei oreu. Yna y marchawc a dathoed ar goron yno agyrchawd att arthur ac nys adnabu ef.

Digitized by Google

Arglwyd heb ef ti aennilleist y goron honn ar march hwnn. athi a dylyut vot ynllawen ot wyt mor rymus di ac y gellych amdiffyn achynnal tir y vrenhines oreu oc a vu yn yr holl vyt. Ac anrydedus yw ytt ac y chenedyl ot wyt kyn gryfet ti ac y gellych y gynnal. Pwy bioed y wlat honno heb yr arthur. Arglwyd heb ynteu arthur bioed y vrenhinyaeth. ac ny bu yn yr holl vyt wr well noc ef. ac yd ys yndywedut yuarw yn y tir yma. or achaws y mae dolur mawr yn y wlat honno. ar varchogyon urdolyon yssyd gwedy kaeu kaerllion arnunt rac ovyn briant. Pan gigleu arthur y chwedleu hynny ny bu lawen iawn ganthaw. ac ar neilltu yd aeth ef dan wneuthur y kwyn mwyhaf. Ny wydyat lawnslot or tu arall beth awnaei. ac y dywawt ef yna y rwng y danned panyw yr awr honno y ffaelassei y lewenyd idaw ae vilwryaeth a vydei reit idaw y gaffael wrth orffowys. kanys collassei y vrenhines yr honn aoed yn roi nerth a challon ahyder yndaw. Ac yna y dagreu aoed yn redec yn amyl. aphei llyuassei ef wneuthur a vei vwy ef ae gwnaei. am y dolur yd oed arthur yn y wneuthur nyt reit govyn aoed uawr. Yna ef aedrychawd ar y march ar goron kanys ef ae rodassei idi oe charyat y wenhwyuar. Gwalchmei heuyt nyt oed lawen. Mi aallaf dywedut yn lle gwir heb ef os marw hi na welir vyth brenhines kyffelyb idi. Arglwyd heb y lawnslot wrth y brenhin o reingk bod ytti ac y walchmei myui aaf tu achaer llion ac agymhorthaf y tylwyth yno o gadw y wlat yn oreu ac y gallwyf yny delych di or greal. Yn wir heb y gwalchmei wrth arthur da y dywawt lawnslot. Myn vympenn heb yr arthur ar hynny y mae vy adolwc ytt drwy dalu ohonafi ytti dros dy drauel. ac yr wyf yth wneuthur yn gaptaen drossof yny delwyf drachevyn. Lawnslot yna agymerth kennat y brenhin. ac avarchocaawd drwy lit ac irlloned mawr parth a chaerllion megys y gallawd gyntaf.

CCXI.—Menegi y mae yr ymdidan yma marchogaeth o arthur apheri ohonaw dwyn y march ar goron eur gyt ac ef yny doeth yr castell a vuassei eidaw brenhin

Digitized by Google

peleur. ac ae gweles yn gyndecket ac yn gyuoethocket ac y clywsawch chwitheu or blaen. Paredur yna a vu lawen wrthunt. ac agymerth arthur ac ae duc yr capel yn y lle yd oed y greal. Gwalchmei yna aaeth ar kylch eur yn offrwm. ac arthur aaeth y offrwm ar goron avuassei eidaw y vrenhines. aphan glybu paredur varw gwenhwyuar drwc vu ganthaw. Ac yna paredur adangosses y arthur ysgrin brenhin peleur. ac adywawt na roes neb yr ysgrin yno namyn duw oe orchymyn. ac adangosses kyvyrlit tec aoed ar warthaf yr ysgrin. ac adywawt y keffit yno beunyd kyuyrlit o amryuael liw yn gyndecket a hwnnw. Y brenhin yna aedrychawd ar yr ysgrin. ac a dywawt na weles eiryoet yr un kyndecket a hi. Y brenhin a vu yno dalym ynesmwyth arnaw. ac edrych aoruc ef amlet pob da yno. kanys nyt oed yno eissyeu dim or a vei reit y gorff dyn wrthaw. ac avon uawr aoed yngkylch y castell. ac arhyt honno y deuei bop da yr castell or avei reit wrthaw. Ioseph yssyd yn tystolyaethu panyw o baradwys yr oed yr avon honno yn dyuot. Ar y castell yd oed tri henw. un onadunt oed edom. ar llall castell y llewenyd. ar trydyd oed castell yr eneidyeu. allyna paham y cafas ef yr henw hwnnw. am na bu uarw neb yno nyt elei y eneit y baradwys. A megys y bydei arthur yno diwarnawt yn edrych drwy un or ffenestri. a gwalchmei a pharedur ygyt ac ef. ef awelei processio mawr a dillat gwynyon ymdan bawp. ac yn llaw y blaenaf onadunt yd oed croes vawrdec. a chroes bechan ynllaw bop un or lleill. ac yn llaw ereill torseu o gwyr yn llosgi. ac yn dyuot dan ganu. ac am vynwgyl yr olaf oll ydoed cloch. Arglwyd duw heb y brenhin pa ryw dylwyth yw y rei racko. Arglwyd heb y paredur mi a atwaen bawp ohonunt namyn yr olaf. Y lleill vy meudwyeit i ynt or fforest racko. yssyd yn dyuot y ganu geirbronn seint greal. ac uelly y gwnant wy tri dieu bop wythnos. Aphan doethant wy yr castell wynt agyrchassant y capel arhynt. Ac yna y kymerassant wy y gloch y gan yr olaf ac ae hoffrymassant yr allawr. A gwedy hynny wynt adechreuassant canu

Digitized by Google

molyanneu y duw yn ogonedus. Yr ystorya ysyd yn tystolyaethu nat oed yn yr amser hwnnw ynghwbyl o vryttaen vawr chweith caregyl. nyt ydiw ynteu yn dywedut na bei yn lle arall. Y greal yna a ymdangosses ar secret yr offeren yn tri mod. Aphan daruu yr offeren ef agafas yr offeiryat llythyr bychan ar yr allawr yr hwnn aoed yn dywedut panyw yn y kyfryw lestyr a hwnnw y mynnei yr arglwyd kyssegru y gorff. llawen vu gan y brenhin welet yr hynn aweles. a chymryt yny gof awnaeth ef henw caregyl ae ffuryf. a gwedy hynny ef aovynnawd yr meudwy a duc y gloch yno. obale y dathoed y ryw beth hwnnw. Arglwyd heb y meudwy wrth walchmei myui yw y brenhin y lledeist di y kawr oe achaws. Ac am hynny y kennetteis i ytti y cledyf y llas penn ieuan vedydywr ac ef. yr hwnn awelafi racko yr awrhonn. Mi abereis arglwyd vy meudwyaw geyr dy vronn di. a chwbyl om kyuoeth. A gwedy hynny mi aeuthum y gudugyl yn ymyl y mor y benydyaw vyngcorff. anosweith mi agyuodeis ac a edrycheis ar y mor y dan y kudugyl. Ac a arganvuum ysgraff gwedy kymryt tir. ac adeuthum inneu parth ac yno y edrych beth aoed yndi. ami aweleis yno tri offeiryat ae hysgolheigyon y gyt ac wynt. ac adywedassant ym panyw grygor oed henw pob un onadunt. ac wynt ahanoedynt odir y promission. ac adywedassant ym panyw salamon awnathoed teir cloch. yr enryded y duw ameir ar holl seint. athrwy orchymun duw yd anuonet wynt yr ynys honn am nat oed yr un yndi. Ac wynt adywedassant ymi y kymerynt arnunt gwbyl om pechawt. athan yr amot hwnnw y dugum inneu y gloch honn. kanys duw a vynn bot honn yma yn exawmpyl y ereill. y wneuthur y kyffelyb wrthi. Myn vyngcret i heb y paredur mi aatwaen dy vot ti yn wr da. llawen vu arthur am dyuotyat y gloch yno. Ac ef awelit y arthur panyw un ffunyt a honno a glybu ef y chanu ar y fford. Y meudwyeit a aethant adref bawp yny gyveir ar ol eu gwassanaeth. Ac megys yd oed arthur diwarnawt yn bwyta. apharedur a gwalchmei ygyt ac ef. ar march-

Digitized by Google

ogyon prud or ty heuyt. nachaf un o teir morynyon y gadeir yndyuot ymywn gwedy y tharaw a gwaew drwy berued y breich deheu idi. Arglwyd heb hi wrth baredur ystyrya y wrth dy vam ath chwaer. canys alistor keuynderw y arglwyd y corsyd yssyd yn ryuelu ar dy vam di. ac aduc dy chwaer y dreis heuyt ac ae hanuones y gastell idaw ehun. ac adywawt y mynn y tir heb y diolch ytt. Eissyoes nyt oes yn yr holl vyt aruer vileinach ar wr noc yssyd arnaw ef. kanys pan darffo idaw briodi morwyn pa un bynnac vo. ef a lad y phenn kynn kwbyl o benn y vlwydyn. a gwedy hynny ef ageis un arall. o beth arall arglwyd y mae arnaw ynteu aruer da ny chewilydya ynteu yr un yny priotto. ac ydoedwn i arglwyd gyt ath chwaer pan anafawd ef vyvi val hynn. ac am hynny y mae dy vam di yn erchi ytti yr duw achubeit dy chwaer ar yr hynt honn. athi aedeweist pan aethost y wrthi y nerthau y geniuer gweith y bei reit idi.

CCXII.—Paredur pan gigleu y chwedleu hynny ny bu dec ganthaw eu clybot. ar vyngcret heb yr arthur iawn oed emendau y kewilyd hwnn. Yna wynt agyuodassant o vwyta. Arglwyd heb yr arthur wrth baredur myui vi agwalchmei aaf yr hynt honno os mynny di. Nac ef heb y paredur duw adalo ytti ymae ytt awnelych megys y minneu. ac yd wyfi arglwyd heb ef yth adaw di yn arglwyd ar gastell camalot ar ol vy mam i. ac nyt oes yny byt lle degach noc y mae. ac nyt oes ar gwbyl o dir kymry lle degach noc y mae y castell yn eisted arnaw ympenn kymry y tu ar dwyrein. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am baredur ac yn trossi ar arthur a gwalchmei.

CCXIII.—Dywedut y mae yr ymdidan yma kymryt o arthur a gwalchmei gennat paredur. ar brenhin aroes y baredur y march a ennillawd gyt ar goron eur. a marchogaeth awnaethant wy yny doethant y hen gastell aoed ymywn fforest. Y castell aoed yn lle tec pet uei amgeled amdanaw. eissyoes nyt oed yndaw ef namyn un offeiryat ae ysgolheic. y rei hynny aoedynt yno ynbuchedocau oe llauur ehunein. Yno y bu arthur

Digitized by Google

a gwalchmei y nos honno. Athrannoeth wynt adoethant y gapel teckaf or awelsynt haeach eiryoet y warandaw offeren. ac edrych awnaethant ar liw y capel. ac ar yr ystorya aoed yndaw rac y thecket. Aphan daruu yr offeren yr offeiryat adoeth attunt. arglwydi heb ef pony welir y chwi vot yndec yr ystorya arlliw yssyd ar y capel hwnn. Tec y rofi aduw heb yr arthur. Rofi aduw heb yr offeiryat ystec a wr a beris y wneuthur ynteu. ac ef agarei yn uawr y wreic ar mab y peris y wneuthur oe hachaws. Obwy y mae yr ystorya heb yr arthur. Or gwr da gynt bioed y lle yma heb yr offeiryat. ac o walchmei ac oe vam. Yma arglwyd heb ef y ganet gwalchmei ac y bedydwyt ual y gelly y dyall ar yr ystorya. ac yroet yn henw arnaw gwalchmei. achaws uelly y gelwit y gwr bioed y castell. ae vam ynteu ae cafas o vrenhin coronawc. ac ny mynnawd hi wybot hynny. ac ae hanuones hyt at y gwr bioed y ty yma y erchi idaw drwy y hadolwc y anuon yn lle y collit. ac ony wnaey ef hynny hi awnaei y arall y wneuthur. Ar marchawc da bioed y ty ny mynnawd ef wneuthur hynny. namyn ef aberis gwneuthur llythyreu y dywedut y vot yn etiued brenhinawl. ac a anuones eur ac aryant y beri y veithryn. ac ae hanuones y wlat bell at wr perchen y dy ae wreic. ac aerchis udunt y veithryn yn annwyl. ac wynt a geffynt les mawr oe achaws. Gwedy hynny y gwr a ymchoelawd draegevyn. ar lleill a vagassant y mab yn anrydedus ac ae carassant yn vawr yny vu grynffast mawr. gwedy hynny wynt ae hanuonassant ef y ruuein hyt att y pap. adangos yr pap a wnaethant wy y llythyreu inseiledic. ar pap aweles ac a wybu y vot yn vab y vrenhin. athosturyaw wrthaw aoruc a synnyeit arnaw. adywedut mae un oe rieni oed. Gwedy hynny ef aetholet y vot yn amherawdyr yn ruuein ac ynteu awrthodes hynny rac lliwyaw y anedigaeth idaw yr hynn agelassit yr ystalym. Odyna ef adoeth oruuein ac a vu yma gwedy hynny. ac ef adywedir yr awrhonn y vot yn un or marchogyon urdolyon goreu or holl vyt. ac am hynny ny leueis neb

Digitized by Google

dyuot y vedyannu y castell hwnn rac y ovyn ef. kanys pan vu varw y gwr bioed ef ae gedewis y walchmei y vab maeth. ac am gwnaeth inneu yn warcheitwat arnaw yny delei walchmei yma. Y brenhin yna aedrychawd ar walchmei ac ae gweles yngewilydyus. Vy nei y tec heb yr arthur na symlet arnat ti dim ohynn. kanys ti aelly lliwyaw y minneu y kyfryw ansawd a honno. athi adylyut uot yn llawen yr hynny. ac anrydedu yn vawr y lle yth anet yndaw. Pan wybu yr offeiryat panyw gwalchmei aoed yno ef avu lawen ganthaw y vryt. achewilydyus hevyt vu am dywetut ohonaw ar ostec megys y dywedassei. ac adywawt. Nyt reit ytti arglwyd un kewilyd heb ef kanys ef ath deilyngwyt ti yn ruuein mywn priodas y rwng dy vam a loch dy dat. ac ef adyly arthur wybot hynny. abendigedic vo duw am dy dyuodyat yma. Yma y mae yr ymdidan yn tewi am arthur a gwalchmei ac yn trossi ar vab y marchawc or ty atueilyedic yr lle y duc y bitheiat walchmei.

CCXIV.—Traethu ymae yr ymdidan yma vot mab da yr marchawc or ty atueilyedic. ae henw oed melianus yr hwnn nyt ebryvygawd angheu y dat. ef agigleu vot briant or ynyssed yn wr kadarn galluawc. ac yn ryuelu yn erbyn arthur. ef adoeth tu ac yno. ac adywawt idaw padelw y daroed y lawnslot llad y dat. ac aadolygawd idaw y wneuthur yn varchawc urdawl. kanys chwannawc oed y dial y dat. ac ef ae kymhorthei ynteu o gynnal y ryuel. yn oreu ac y gallei. Yna briant ae gwnaeth yn varchawc urdawl. ac yr oed yn was tec herwyd y oetran. ac yn chwannawc y welet lawnslot. a ryued oed ganthunt yn y wlat beth adaroed idaw. ac yr oedynt yn tybyeit daruot y lad neu y varw ynteu. Eissyoes ny daroed idaw efo yr un ohynny. namyn iach oed ef allawen pany bei y vot yn drist am varwolyaeth gwenhwyuar. ar tristit hwnnw nyt yttoed ef yn gallel y ysgaelussaw. a megys yr oed ef diwarnawt yn marchogaeth ef aodiwedawd morwyn ieuanc yr honn a oed yn canu a diruawr lewenyd genthi. ac yn dywedut. Myn duw medei hi os y marchawc yma ae

Digitized by Google

mynn mi a wnn lle y keiff ef letty da heno. A unbennes heb y lawnslot lletty da aoed reit y minneu wrthaw. kanys blin alludedic wyf. velly heb hi y gweleis bawp or adelei o dir brenhin peleur. kanys ny allei neb odef poen athrauael ony bei y vot yn varchawc da. A unben heb hi weldyma dy fford di heb y groes yssyd oth vlaen. aminneu aaf yr fford yma. ac agatuyd mi adeuaf yr castell y bych ditheu heno yndaw. ar hynny lawnslot aaeth ymeith. Myn vympenn i heb y vorwyn weldyma lawnslot. ac nyt ydiw ef ym adnabot i. ac oe dewrder ef ae kedernyt y colleis i y gwr mwyaf agarwn. kanys ef agymhellawd arnaw briodi un arall nyskarei ynteu yngymeint amyui. ac ef aellir gwybot hynny etto. kanys yr hynny etto ny bwyttaawd hi ar un bwrd ac efo. namyn ygyt ae ysgwieryeit. ac ny wna neb yrdi hi yno dim. ac os da gan duw mi abaraf dial hynny arnaw kynn y vynet or castell yr a idaw heno y lettyu.

CCXV.—Lawnslot agerdawd tu ar castell. ac ef awelei ywch penn y porth penneu deudec o varchogyon urdolyon yngcroc. ac ef a welei varchawc urdawl yn dyuot or fforest. ac ynteu aovynnawd idaw paryw gastell oed hwnnw. ac ynteu adywawt mae castell y griffwns. Paham heb y lawnslot y croget racko y sawl benneu yssyd. Arglwyd y marchawc merch y gwr bieu y castell yssyd deckaf dyn yn yr holl vyt. ac ny mynnir gwr idi namyn y neb aallo tynnu cledyf yssyd yny castell ymywn colovyn ymperued y neuad. ar neb ae tynno. hwnnw ae keiff hi. achwbyl or rei awely di eu penneu racko ae proues ac ny thygyawd udunt. ac am na thynnassant wy y cledyf y llas eu penneu ac nyt oes dynghetuen y neb y dynnu ef. ony byd un or rei yr ymdangosses y greal udunt neu un or rei a vu yno. ac o mynny di vyngcredu i. ti aey y le arall y lettyu. kanys ot ey di yna ef a vyd reit ytt odef y penyt racko. neu ditheu a dynno y cledyf or lle y mae. ac ny dylyy di vot yn drwc gael rybud yn erbyn dy afles. Y gyt a hynny heuyt y mae y dan y daear deu griffwns a llew y mywn gogof y rei alyngkyassant mwy no deu-

Digitized by Google

geint marchawc. Arglwyd heb y lawnslot y mae yn nos ac ny wnn i heno bellach pa le yr af. kanys nyt wyf gyfarwyd iawn ar y fforestyd. Nyt ydwyfi heb y marchawc yn dywedut hynny namyn yr da ytti. a duw awnel ytt drwy anryded diangk odyna. Lawnslot a weles porth y castell yn agoret ac ymywn y doeth ef yn aruawc. ac yn drws y neuad disgynnu aoruc. aphan doeth ef ymywn. ef awelei wraged ieueingk a marchogyon urdolyon yn gware gwydbwyll. yr hynny ny weles neb yn dywedut un geir wrthaw ef a vei na chwrteis na charedic onyt yr arglwyd bioed y castell ehun. kanys yr aruer aoed uelly ar y castell. Yna y gwr bioed y castell aerchis yr gwyreeingk tynnu y arueu y am y marchawc. Arglwyd heb y lawnslot myui a allaf odef vy arueu ymdanaf. Nyt yma heb y gwr y bwytey di ath arueu ymdanat. ar hynny diosc y arueu aoruc lawnslot. ar arglwyd aberis dwyn dillat da idaw oe gwisgaw. Y byrdeu adyrchafwyt. ar bwydeu aoed yn barawt. Merch yr arglwyd a doeth o un or ystauelleu allan. a deu varchawc urdawl gyt a hi un o bop tu idi. yny chanhebrwng hyt y neuad. Lawnslot a gyuarchawd gwell idi. a hitheu a vu lawen wrthaw ef. aphan daruu udunt vwyta nachaf y vorwyn agyuaruuassei a lawnslot yn y fforest yn dyuot y mywn. Arglwyd heb hi wrth y gwr bioed y castell y mae yma heno y gyt athi yn llettyu dy elyn marwawl. llyma heb hi yr hwnn aladawd dy vrawt ti. nyt amgen noc arglwyd y ty atueiledic. Myn vympenn i heb yr arglwyd nysgwydywn i ac nys credafinneu yny profwyf. Tydi varchawc heb yr arglwyd wrth lawnslot gwna yr arch awnaeth ereill othulaen yma. Paryw arch yw honno heb y lawnslot. Weldyma ytti heb yr arglwyd vy merch i ot wyt gystal gwr ac y dylyych y chael. nyt oes yny byt wr or auei ganthaw gael gwreic ny dylyei roi poen ar y gorff y geissyaw honn racko. Pei tebygwn inneu heb y lawnslot y rout ti hi ymi minneu ae harchwn hitheu yn llawen. Lawnslot eissyoes aoed yn dywedut amgen noc yr oed yn y vedylyaw. Yna ef a gyuodes y ovyn paryw aruer oed. apha ffuryf y

Digitized by Google

kaffei ef y verch. ac wynteu adangossassant idaw y golovyn ar cledyf yndi. Dos heb ef megys yd aeth y lleill y rei affaelawd ar eu heneidyeu. ac ar vy merch inneu heuyt. am na ellynt dynnu y cledyf racko or golovyn. Duw am diangho heb y lawnslot rac y kyfryw diffyc hwnnw. Lawnslot adoeth tu ar golovyn gyntaf ac y gallawd. ac aroes y dwylaw ar dwrn y cledyf. ac aroes hwrd arnaw yny ytoed y golovyn gwedy gwyraw. ac ynteu ae dorr y vyny ar cledyf yny law ymperued y neuad. llawen vu gan yr unbennes hynny. Arglwyd heb y vorwyn arall y lleidyr racko aladawd dy vrawt ti. ual kynt yr hynny dilis yw mae un or marchogyon goreu or holl vyt yw ef. ac o gwney di vyngkyngor i ny wney di gadel idaw ef diangk. ac alwyssen yw y lad. kanys os lledy. ti a iachaey y lawer dyn y eneit. Merch yr arglwyd a vu anuodlawn yr vorwyn am ydoed yny dywedut. ac edrych awnaeth hi ar lawnslot dan ucheneidyaw. ac ny lyuassei hi wneuthur amgen. Aryued vu genthi allel o lawnslot dynnu y cledyf or golovyn. ac nat ytoed yny herchi hitheu. Eissyoes lawnslot aoed yn medylyaw yn vwy am beth arall. kanys yr pan anyssit eiryoet ny buassei kyndristet ac yr oed o achaws marwolyaeth y vrenhines. Yna ef aerchis yr arglwyd gynnal amot ac ef. Nys dylyaf heb yr arglwyd. kanys ny dyly neb roi y verch yw elyn. athitheu a ledeist vymrawt. aphei ron ymi y roi hi ytti ny dylyei hi dy garu di vyth. ac os carei hi awnaei yn ffol. Drwc vu gan y verch glybot y that yn dywedut uelly. ahi a vynnei pet vei hi a lawnslot yn y fforest. Eissyoes ny mynnei lawnslot y vot yny mod ydoed hi yny vedylyaw. Yna yr arglwyd aerchis gwarchadw y porth ynda rac dianc lawnslot. ac aorchymynnawd yr marchogyon y wylyat dan boen eu heneidyeu. ae bot yn barawt erbyn trannoeth yn eu harueu. kanys yna y mynnei ef torri pen lawnslot ae grogy y gyt ar lleill. Y verch a wybu y chwedleu hynny ac a vu drist genthi. kanys tebic oed genthi vyth na chaffei lewenyd os y lad awneit yny mod hwnnw. ahi aanuones annerch attaw megys att y neb mwyaf agarei. ac

Digitized by Google

aerchis idaw vot yn y aruot yr amdiffyn y eneit. kanys y that aoed ar vedyr y lad. Arglwyd heb y gennat y mae yma deudec marchawc urdawl yn aruawc yn gwarchadw y porth. ac yn dywedut yth ledir di. ual y llas y lleill. ac ef adaw yno deudec ereill. ac nyt oes yn y byt varchawc aallo dianc yr porth o anuod y pedwar arhugeint. Eissyoes y mae hi yn erchi ytti vynet fford yr ogof yssyd yma dan y daear. ac yno ti ageffy fford y vynet dan y daear yny delych yr fforest. Eissyoes y mae yno llew creulonaf or holl vyt. a deu aniueil ereill aruthyr. ac y mae arnunt ryw eilun. kynhebic eu haruer y dyn. a danned ki idaw. ac oe wregys y vyny yn eryr. ac ohynny y waeret yn llew. a chlusteu assen idaw. ac yr fford honno y mae vy arglwydes i yn erchi ytti vynet yr mwyn y neb uwyaf agereist eiryoet ac na ffeylych ar hynny. kanys hi a vynn ymdidan athi ar y penn arall yr ogof. ac a beir dwyn dy varch ytt. Myn vympenn i heb y lawnslot panybei erchi o honei hi ymi vynet yr mwyn y neb mwyaf agereis eirmoet. ac yr y charyat hitheu heuyt ys oed gwell gennyf ymanturyaw ar gwyr noc ar aniueilyeit. kanys mwy vydei vy enryded o ymrydhau ar gwyr no mynet yny mod hwnnw. Hi adywawt heb y gennat ony wnelut ti uelly nat ymgedei hi amdanat ti mwy. a llyma vitheiat bychan yr hwnn adygy di yr ogof y gyt athi. ac yr awr y gwelych di yr aniueilyeit. dot y bitheiat geyr eu bronn. ac wynteu avyd ganthunt ryw vedwl ar y adnabot ef megys na wnelont ytti chweith drwc. ac nyt oes yn yr holl vyt uilwr adianghei yn amgenach vod no hynny heb y lyngku ohonunt. Eissyoes rac y llew nyt oes ath amdiffyno di onyt duw. Ie heb y lawnslot dywet yr unbennes y gwnafi hynny yn llawen. Eissyoes cachadrwyd a llyuyrder mawr y bernir ymi vynet ym mysc yr aniueilyeit ac adaw y gwyr. Hynny a dywetpwyt yr unbennes. a ryued vu genthi hitheu hynny.

CCXVI.—Lawnslot yna a wisgawd y arueu. ac adoeth yr ogof ar bytheiat yny ol. ac ef adoeth yr lle yr oed y griffyeit. ac yr awr y clywssant wy efo yn

Digitized by Google

dyuot. wynt aellyngassant ryw fflam danawl oe geneueu. yny oed kwbyl or ogof yn goleuhau ac wrth y fflam honno wynt awelsant y ki ac ae kymerassant ac a wnaethant ryw solans a llewenyd idaw. Athra vuant wy yn hynny lawnslot agerdawd racdaw yny doeth yr lle yr oed y llew. ar llew yna ae kyrchawd ac ae keissyawd ae ewined. A lawnslot ae trewis ynteu yn y vyd un oe vordwydyd y wrthaw. ar llew yna ae godiwedawd ynteu ar y deu troet vlaen. ac a dynnawd hanner y luryc y wrthaw. a breid nasblingawd ynteu. Lawnslot yna alityawd wrthaw. ac ae trewis yny vyd y cledyf drwy y gallon. ar llew yna a syrthyawd yn varw yr llawr. ac aroes ryw vreuarat aruthyr ual y clywei y marw dan y daear. ac ar hynny lawnslot aaeth ymeith ac adoeth ymaes or ogof ac y herber aoed yn agos yr fforest. ac asychawd y gledyf yn y gwellt glas ac ae roes yn y wein. Yr unbennes awybu llad y llew. ac ar hynny nachaf hi yn dyuot. Arglwyd heb hi a vriweist di yndrwc. A unbennes heb ynteu nado. Y diolwch y duw heb hi. ac yn llaw morwyn arall nachaf march lawnslot yn dyuot. A unben heb y verch ef awelir ymi nat wyt lawen iawn di. A unbennes heb ynteu iawn yw ym hynny. kanys mi agolleis y wreic vwyaf agereis eirmoet. Titheu heb hi am ennilleist inneu. ac ef adywedir nat oes yn y deyrnas honn vorwyn degach no myui. ac am dy garu ohonaf yd amdiffynneis ytt dy eneit. A unbennes heb y lawnslot duw adalo ytt. dy garyat ti yssyd uawr gennyfi. eissyoes nathydi nagwreic or byt ny dylyei ymdiriet ynofi. ot ebryuygwn y caryat yssyd yn vyngcallon yn gorwed. ac rac meint y cwrteissi aoed yndi hi ny charafi vyth na gwreic na morwyn yn ormod. kanys y duw y gorchymynnafi gwbyl or lleill. ac y gennyt titheu kennat a gymeraf megys y gan yr honn y mynnaf vot ar y hewyllys orbyd reit ytt wrthyf. Och duw heb hi kanys uelly y collaf ymarchawc goreu or holl (vyt.) lawnslot heb hi ti am twylleist i adrwc yw gennyf dy diangk ath eneit ynot om plegyt i. ac ys oed gwell gennyf dydi yn varw ygyt ami noc arall yn vyw.

Digitized by Google

Och duw heb hi na daruu torri dy benn di ae grogi y gyt ar lleill. ac y uelly y caffwn i digawn o edrych arnat ti. Lawnslot ny roi nytwyd yr yd oed hi yny dywedut o achaws y dolur aoed yn y gallon. Yna lawnslot aesgynnawd ar y varch ac aaeth ymeith. ac yr fforest yr aeth ef a hitheu aymchoelawd yr castell. Yr arglwyd a gyuodes pan y gweles yn dyd. ac adywawt wrth y varchogyon. awn heb ef y lad penn lawnslot. Yna ef aberis y geissyaw ar hyt kwbyl or neuad ar ystauelloed. eissyoes ny chaat dim ohonaw ef. Mi a debygaf heb yr arglwyd yuynet ef yr ogof. ac ot aeth ef yno dilis yw y vwyta or griffyeit. Yna ef aanuones deu orrei hynaf adewraf oe varchogyon y edrych aoed wir hynny. ar bitheiat yna a dathoed yn ol y vorwyn yroedynt y griffyeit wedy llidiaw. ac yr awr y gwelsant wy y marchogyon wynt ae deiuyassant ac ae llosgassant, Aphan wybu yr arglwyd hynny trist vu ganthaw varw y varchogyon. adyuot awnaeth yr lle yr oed y verch yn y hastauell yn wylaw. ac ynteu a tybyawd mae o achaws marwolyaeth y marchogyon. Ac ar hynny nachaf y chwedleu yndyuot ac yn dywedut llad y llew. ac ar hynny y gwybu ef diangk lawnslot. ac erchi y ymlit aoruc. eissyoes nyt oed neb kynhyet ae ymlit ef. Ef a vynnassei y vorwyn hagen pei as ymlityassynt drwy amot y dwyn ohonunt drachevyn. kanys ydoed hi wedy ennynnu oe garyat ef. hyt na wydyat beth awnaey. Eissyoes lawnslot aoed yn medylyaw am beth arall heb didarbot ohonei hi dim. namyn marchogaeth awnaeth ef yn vedylgar yny doeth y lynn ynyal amgylch pryt gosper or dyd. ac yn llet y glynn yd oed deng milltir. ac obop parth y hynny yd oedynt fforestyd ynyal. Ac yna ef aarganuu capel bychan newyd wneuthur. gwedy y doi o blwm. ac ar y warthaf yr oed dwy groes o eur. ac yn ymyl y capel yr oedynt tri thei. ac yn ymyl y capel ffynnawn deckaf or byt. ac wrth bop ty yngyssylldedic ef awelei gard gaeedic. Lawnslot a dynessaawd att y capel. ac ef a glywei ganu gosper. ac ef a arganuu lwybyr bychan fford yr eit yr capel ac yr tei. ar capel aoed

Digitized by Google

ar ychydic vynyd crwnn. ual na allei neb a march vynet yno. Ac yna disgynnu aoruc ef athywyssyaw y varch yn y ol. ac edrych aoruc ef yr capel. ac ef a arganvu tri meudwy yn canu eu gosper. Yna ef a gyuarchawd gwell udunt. ac aovynnawd paryw le oed hwnnw. ac wynteu a dywedassant panyw ynys avallach y gelwit. ac wynt abarassant ystablu y march. ac ynteu aedewis y waew ae daryan allan. ac adoeth yr capel. ac adywawt na weles eiryoet capel degach. ac yno ef aweles teir allawr yndigawn daet eu hadurnyat o gyvyrlideu sidan. ac o grwys eur arei aryant. ar delweu yn newyd wneuthur. ar capel yn lliwedic o liweu eureit tec. ac ymperued y capel yd oedynt dwy ysgrin. a phedwar tors o gwyr y mywn pedwar canhwyllbren o eur. ac ar warthaf yr ysgrineu yd oedynt dwy lenn eureit. Arglwydi heb y lawnslot pwy bioed yr ysgrineu hynn. Arglwyd heb yr un or meudwyeit. arthur bieu y neill agwenhwyuar bieu y llall. Nyt marw arthur heb y lawnslot etto. Na varw osdaganduw heb wynteu. eissyoes corff gwenhwyuar yssyd yny nessaf attat ti. ac yn y llall y mae penn llacheu y mab hitheu yny vo marw arthur. Ar vrenhines a gymynnawd y chorff oe gladu yn y ymyl ef. ac ar hynny y mae gennym syartrassei dan inseil. a hi a beris yn y bywyt wneuthur y capel hwnn yny mod y gwely di. Aphangigleu lawnslot vot corff y vrenhines yno. ef a golles y barabyl hyt na allei dywedut ungeir. Eissyoes ny lyuassawd ef wneuthur amgen dristit rac y adnabot arnaw. ac ef awnaeth lles mawr idaw vot delw veir gyuerbyn ar ysgrin. Ac yna gostwng ar dal y linyeu geyrbronn y delw awnaeth ef. ae ogwyd ar yr ysgrin megys y tybyit arnaw efo panyw adoli yr delw yr oed. ac yna roi y wyneb ae eneu wrth yr ysgrin ae chwynaw yn y mod hwnn.

CCXVII.—Arglwydes heb ef panyw bei rac ovyn gogan ygan y bobyl nyt awn i odyma vyth ac yma y trigywn y iachau vy eneit. ac y wediaw dros y teu ditheu. adigrif oed gennyf vot yn y lle y gwelwn dy ysgrin di. Och duw kannatta ym vy marw yn ehegyr.

Digitized by Google

a dyuot ym vy angheu yny ryw le y gallwyf gael vyngcladu yn y capel hwnn. ar nos adoeth. ac un or ysgolheigyon a dywawt yr meudwyeit na welsynt eiryoet dyn un garedigrwyd y wediaw duw ac oed y marchawc aoed yny capel. ac un or meudwyeit adywawt nat oed yny byt dynyon vwy agarei duw no rei or marchogyon urdolyon. Ac yna wynt adoethant yr capel y erchi y lawnslot dyuot y vwyta. ac odyna y orffowys. ac ynteu adywawt na bwytaei dim y nos honno. kanys ef avwytayssei or blaen. ac yma heb ef y trigyafi hyt avory y wediaw geyr bronn delw veir. ar gwyrda nyt archassant idaw mwy. namyn dywedut y vot yn wrda y vuched. Yno y bu lawnslot y nos honno hyt trannoeth. Ar bore drannoeth y meudwyeit a ymbaratoassant y ganu eu gwassanaeth. ac yno y bu ef yny daruu y teir offeren. Aphan daruu udunt wy canu offerenneu lawnslot agymerth eu kennat. A mynet ymeith or capel aoruc dan orchymun eneit y vrenhines y duw. ac ar hynny esgynnu ar y varch awnaeth ef acherdet racdaw. yny doeth y ymyl kaerllion. ac arganuot awnaeth ef y wlat wedyr distrywaw. ar dinassoed wedyr losgi yr hynn a vu drist ganthaw. Ac ar hynny nachaf varchawc urdawl yn dyuot or parth hwnnw yr wlat wedy y vriwaw yn drwc. Lawnslot aovynnawd idaw obale yr oed yn dyuot. Ac ynteu adywawt panyw o gaerllion. ac yd oed gei yno ar y drydyd o varchogyon urdolyon yn mynet ac owen vrych yngkarchar y gastell y greic calet. a mi a geisseis y nerthu heb ef. ac wynteu am anafassant i yny mod y gwely di. A ydynt wy ynepell heb y lawnslot. Arglwyd heb y marchawc yr awrhonn yr aethant wy heb y fforest racko. ac or mynny di vynet oe hymlit wy mi aaf gyt athi. ac ath nerthaf yn oreu ac y gallwyf. Lawnslot yna adrewis y varch a dwy yspardun. ar marchawc arall yny ol ynteu. ac ef aarganuu owein ganthaw yn rwym ar warthaf keffyl tuthyawc. Ac yna lawnslot ae godi-wedawd ac adywawt wrthaw. Myn vympenn i heb ef wrth gei ti a dylyut uedylyaw vot yndigawn awnath-

Digitized by Google

oedut y arthur o enwired a drwc am lad ohonat y uab. kynnyt elut y diua y gyuoeth yn y mod hwnn. Ac ar hynny brathu y varch aoruc ef tu achei. achei aymchoelawd arnaw ynteu. aphob un onadunt adrewis y gilyd yny yttoedynt yn colli eu gwarthafleu. ac ar y dyrnawt adrewis lawnslot ef aaeth penn y waew hyt y esgyll ymywn kei. Achei a torres y baladyr. athrist vu ganthaw pan wybu y vriwaw. ar marchawc arall briwedic a vwryawd un o varchogyon kei yr llawr. Yna lawnslot agymerth march yr un a vwryassit ac ae roes y owein ac ae roes ar y warthaf. yr hwnn aoed gwedy y vriwaw yndoluryus hyt na allei ymgynnal o nyt o abreid. Yna kei a dynnawd cledyf ac a hwylyawd idaw megys llew kyndeiryawc. a lawnslot yna aweles owein ar llall heuyt gwedy briwaw yn drwc. ac auedylyawd nat oed les idaw aros ymguraw ehun ynerbyn y trywyr rac ovyn dyuot nerth heuyt att gei. Ac yna efo aerchis y owein ac yr llall gerdet orblaen. achei aoed yno ar y trydyd yn ymglockyn ac ynteu. ac yn keissyaw y aflessu or tu draegevyn. Ac uelly dan amdiffyn y gedymdeithyon y kerdawd lawnslot. ac ef a ymchoelei weitheu tu ac att gei. ae gedymdeithyon yny gyffelyb y gwnaei y tramynyat yrkwn. Kei eissyoes aroi idaw ef dyrnodeu creulawn trymyon pan y godiwedei. a lawnslot idaw ynteu. ac uelly yr ymamdiffynnei lawnslot. Aphan weles kei na allawd aflessu lawnslot. ef a ymchoelawd draegevyn yn llidiawc ac amedwl ganthaw ar dial y gam. kanys nyt oed yn yr holl vyt gwr kyngasset ganthaw ef a lawnslot. a dyuot awnaeth ef draegevyn hyt yngkastell y greic calet. Ac yna briant or ynyssed aovynnawd idaw pwy ae briwassei. ac ynteu adywawt y vot yn dwyn owein vrych yngkarchar pandoeth lawnslot oe amdiffyn. Paham heb ef adoeth y brenhin. Nysgwnn heb y kei. Briant ae varchogyon a vu diogel ganthunt kanys dathoed lawnslot ehun uarw arthur agwalchmei. ac am hynny ydoed arnunt diruawr lewenyd. Kei aberis tynnu y arueu y ymdanaw ac edrych y dyrnawt yr hwnn aoed yn lle periglus arnaw.

Digitized by Google

CCXVIII.—Lawnslot ynteu adoeth y gaerllion arwysc yny lle yd oedynt ychydic o bobyl dechrynedic drist. yn cwynaw ac yn gweidi am arthur. ac yn dywedut nat oed wiw udunt aros chweith kanhorthwy. Ac yr awr y gwelsant wy lawnslot wynt awnaethant y llewenyd mwyaf. ar chwedleu hynny aaeth att y marchogyon aoedynt yn y castell. ac wynteu a doethant yny erbyn ef oll namyn y rei briwedic. ac a ducpwyt y vyny drwy diruawr lewenyd. Ac yna govyn chwedleu y wrth arthur awnaethant wy. a lawnslot adywawt ymwahanu ohonaw ac arthur yn llannerch y paleis. yn y lle yr ennillawd ef yr amws gwynn ar goron eur. Gan hynny y mae ef a gwalchmei yn vyw heb wynt. Ydynt osdaganduw heb y lawnslot. ac yna llawenach uuant noc or blaen. adywedut a orugant y lawnslot ual y gorthrymassei vriant a chei wynt. Myn vyngcret i heb y lawnslot ny dylyei gei wneuthur chweith drwc y arthur mwy noc awnathoed. ac efo aaeth debygafi or maes a llun penn vynggwaew i yndaw pan achubeis i owein y ganthaw. llawen vu y marchogyon wrth lawnslot. Eissyoes trist oed ef o achaws llawer or aoed yn vriwedic yno. Elinaus or ty atueilyedic aoed yngkastell y greic calet y gyt a chei. ac yn llawen ganthaw glybot dyuot lawnslot adref. ac adywawt nat oed yn y byt y gyngasset ganthaw. Ae vedwl oed ar dial y dat arnaw os gallei. Ef adoeth diwarnawt gyuerbyn a chaerllion ar y decuet o varchogyon urdolyon yn aruawc o bop arueu. ac agynnullassant yr anrheithyeu y rwng kaerllion ar fforest. Lawnslot yna adoeth allan ar y seithuet or marchogyon goreu or castell. ac yn ol y rei a oed ar anreith ganthunt y doeth ef. ar kyntaf a gyfaruu ac ef onadunt ef ae trewis yny vyd y waew trwydaw. ar marchogyon ereill atorres eu pelydyr ar y lleill. ac uelly ymguraw awnaethant yny syrthyawd y rwng pob tu ae gilyd pedwar yr llawr yn veirw. ac ef a vriwyt llawer. Elinaus or ty atueilyedic aarganuu lawnslot. ac a vu lawen ganthaw hynny. ac ae trewis yn y daryan yn gynffestet ac yny vyd y gwaew yndrylleu ywch y benn. alawnslot ae

Digitized by Google

trewis ynteu yngkedernyt y daryan yny orvu arnaw ef ymovyn pedrein y varch. ac yr llawr ynwysc y benn ae draet yn uchaf. Ac yna lawnslot avynnassei disgynnu ar vedyr y daly. pan doeth briant or ynyssed achadernyt mawr ygyt ac ef. a pheri idaw esgynnu drachevyn ar y varch. Yr ymlad a dwblawd o bop parth gan varchogyon yn dyuot or greic calet. ac o gaer llion. yny glywit y pelydyr yn torri. ar dyrnodeu yn amyl gan y cledyfeu. Ac ar hynny lawnslot a briant a ymgyrchassant yn greulawn. yny ytoed eu gwaewyr yn tyllu eu taryaneu ae llurygeu. a phenneu eu gwaewyr yn ymgyhwrd ae knawt. ar gwaewyr yn dryllyaw ac yny vyd eu corffeu ygyt ar meirch yn tramkwydaw y danunt. ae llygeit yndisserennu. Ac yna tynnu cledyfeu awnaethant wy adyuot bop un yn erbyn eu gilyd megys llewot. ac ymguraw awnaethant yny oed y tan yn neityaw oe helymeu. ac ar hynny elinaus or ty atueilyedic adoeth tu ac att lawnslot yn nerth y vriant pan neityawd lucanus vwtler yn y erbyn. atharaw elinaus ae waew yny vyd drwy y daryan ac yny vreich. ac yna lucanus aysglyffyawd y ffrwyn ar vedyr y anuon yngcarchar pandoeth tylwyth briant ae amdiffyn. Y vrwydyr abarhawd yn hir y rwng briant a lawnslot. kanys llidiawc oed bop un wrth y gilyd onadunt. ac yn enwedic llidiawc oed vriant. kanys briwaw awnathoed yndrwc. a llawer oe waet yn colli. ac amyl oed y niuer. Aphob un a ymauaelawd aegilyd onadunt arvedyr eu daly. eissyoes y kedernit o bopparth ae llesteiryawd. Ac uelly y parhaawd yr ymlad y ryngthunt yny gwahanawd y nos wynt. ac or diwed ny allawd briant gael y gware goreu nae ludyas yr lleill. kanys lawnslot aoed yn mynet aphedwar o varchogyon briant a hynny yn vriwedic yngkarchar. heb y rei a drigyawd ar y maes. Briant or ynyssed ac elinaus adoethant drachevyn yndoluryus. ac yn drist am eu kedymdeithyon adalyssit ac aladyssit. a lawnslot ae gedymdeithyon adoethant dracheuyn drwy lewenyd y gaer llion. ac a dywedassant panyw donyawc vu udunt a chadarn

Digitized by Google

dyuetyat lawnslot yny delei arthur adref. Y marchogyon briwedic or castell aoedynt yn iachau yr hynn aoed digrif gan lawnslot yny yttoedynt gyt ac ef yn cadw y castell pymthec arhugeint o varchogyon heb y rei adugassit yngcarchar. Yma y mae yr ymadrawd yn tewi am lawnslot. ac yn traethu o arthur ac o walchmei.

CCXIX. — Er ymadrawd yssyd yndywedut vot arthur agwalchmei yn y lle y dywawt yr offeiryat y walchmei padelw y ganydoed. ac ny allassant wy vynet odyno ar eu hewyllys. kanys anores vastart yr hwnn oed vrawt y nabigans or greic. a gwalchmei a ladyssei y nabigans hwnnw o achaws meliot o loegyr. ac anores awybu eu bot wy yno ac agasglawd llawer o varchogyon urdolyon gyt ac ef. ac adoethant oe hattal yny castell. anores adywawt nat eynt wy o dyno yny darffei udunt daly gwalchmei. ac arthur. neu wynteu a veynt varw onewyn. Nyt oed neb gyt ac arthur ymywn namyn gwalchmei a phump marchawc urdawl or wlat ygyt ac wynt. ac yr oed gyt ac anores pump marchawc arhugeint. Yna y brenhin adywawt wrth walchmei nat oed anrydedus udunt wy vot mywn gwarchae ual yr oedynt. abot yn well udunt veirw drwy anryded. no bot yn vyw drwy gewilyd. Arthur a gwalchmei ar pump ereill awisgassant eu harueu ymdanunt diwarnawt. ac adoethant allan. anores ae wyr ynteu aé herbynnassant ar benneu eu gwaewyr. Yna arthur a gwalchmei ac eu kedymdeithyon adrawssant yn eu plith. aphob un onadunt a vwryawd un or lleill yr llawr. Ac yna anores agewilydyawd yn uawr gwelet y wyr yn gyn amlet ac yr oedynt ac yngadel y ychydic o niuer oruot arnunt. Ac yna estynnu y waew y wrthaw aoruc ef atharaw un o varchogyon arthur yny vyd yn uarw yr llawr. ac odyna dyuot att walchmei ae daraw yn gyngreulonet ac yny tyllawd y daryan. Yna gwalchmei alidiawd ac ae trewis ynteu yny vyd yn torsteinyaw ar bedrein y varch. Yna anores a ymgyuodes yn wrawl y uyny ac aduc ruthur y arthur yr hwnn aoed geyr y vron. ac ny wydyat ef panyw

Digitized by Google

arthur oed. Ac yna arthur adrewis dyrnawt arnaw. yny tyrr y breich deheu idaw ar paladyr yr maes. ac yna kedernyt y marchogyon aoed yn eu gwrthrymu yn vawr. ac nyt athoedynt wy odyno yn iach nac yn gyua. pei nabei dyuot meliot o loegyr attunt. ar y bymthecuet o uarchogyon urdolyon. yr hwnn aglywssei vot arthur a gwalchmei yny damgyvyngrwyd hwnnw. kanys neur daroed yna llad y pump marchawc aoed gyt ac arthur. ac nyt oed namyn wynt yll deu. ac wynteu yn ymamdiffyn yn wrawl megys a debygynt eu bot ar angeu. kanys nyt oed gyuartal ugeint yn erbyn deu. ac ar hynny nachaf meliot ar y bymthecvet yn taraw yn eu plith. ac yn dwyn arthur a gwalchmei y ganthunt. ac wynt aladassant yngkylch dec. ar lleill a ffoassant a hanner eu harglwyd ganthunt. gwalchmei yna adiolches y veliot y gywirdeb ae garedigrwyd am amdiffyn eu heneidyeu udunt. Yna arthur a gwalchmei a rodassant y castell hwnnw y veliot. kanys ef ae haedyssei arnunt. Meliot ae kymerth dan y diolwch udunt. Ac adolygawd y walchmei o chlywei vot perigyl or byt arnaw dyuot oe gymorth. Ar vyngcret heb y gwalchmei nat reit ytt adolwyn hynny. kanys ti yw un or rei mwyaf adylyaf y garu or byt. ac ar hynny arthur a gwalchmei agerdassant ymeith. a meliot a ystoryawd y castell.

CCXX.—Dywedut y mae yr ymadrawd yma varchogaeth o arthur a gwalchmei yny doethant y ynys avallach yn y lle y cladyssit y vrenhines. ac ygyt ar meudwyeit yno y buant wy nosweith y rei awnaeth llewenyd mawr udunt. Eissyoes ef aellir gwybot yn lle gwir nat oed dra llawen y brenhin y nos honno. namyn atnewydu awnaeth y dristit a dywedut nat oed yn y byt lle kyn iawnet idaw y anrydedu ahwnnw. Trannoeth y bore gwedy offeren wynt aaethant ymeith yn unyawnaf agellynt tu achaerllion. ar brenhin aweles y dir wedyr distryw ynllawer o leoed yr hynn aoed drist ganthaw. ac ef awybu yn hyspys panyw kei aoed yn ryuelu arnaw y gyt ar lleill. a ryued vu ganthaw ef vot kei yn gynhyet a hynny.

Digitized by Google

a thu achaerllion y doeth ef. Aphan wybu lawnslot ae gedymdeithyon hynny llawen vu ganthunt adyuot yny erbyn aorugant. Y chwedleu hynny aaeth y bop lle arhyt y kyuoeth. allawen vu bawp o hynny. kanys llawer a oed yn tybyeit y varw. Pan wybu dylwyth castell y greic calet y dyuot ef adref. ny bu digrif ganthunt wy hynny na chyuyl. eissyoes kei aoed gwedy y iachau oe dyrnawt. ac ef a vedylyawd mae ffolineb mawr oed idaw othrigyei mwy yno yr ryuelu ar arthur. kanys o chaffei arthur le llaw arnaw. ef a allei wybot bot y vuched wedy teruynu. Kei aaeth ymeith hyt ymbryttaen vechan. ac yno ef aberis cadarnhau castell idaw yn yr hwnn y bu ef yn hir o amser heb ryuelu o arthur arnaw. kanys yd oed idaw yn lle arall awnelei. Ef aellir gwybot nat oed vychan y llewenyd aoed yny wlat am dyuotyat arthur y gaerllion a phawb adoethant yno.

CCXXI.—Briant nyt ysgaelussawd ef y ualchder. namyn kadarnhau ryuel awnaeth ef yn vwyaf ac y gallawd. ac elinans a dyngawd na ffaelyei ef idaw tra vei vyw. ac na orffowyssei vyth yny gaffei dial y dat ar lawnslot. amegys yr oed arthur diwarnawt yn bwyta yny neuad yngkaerllion. allawer o varchogyon urdolyon y gyt ac ef. ac ar yneill hanner idaw gwalchmei. a lawnslot ar y tu arall. ac owein uab uryen. a sagamor damunedic. ac owein vrych. a llawer o varchogyon ereill. dieithyr nat oed yno gymeint ac anotteynt vot. Lucanus vwtler aoed yn gwassanaethu ar gorlwch eur geyr bronn y brenhin. Yna arthur aedrychawd ar hyt y neuad. ac adoeth cof idaw y vrenhines. a medylyaw aoruc ef a pheidyaw a bwyta. ac yn y vedwl y doeth bot y lys wedy tlodi yn vawr o achaws marwolyaeth y vrenhines. ac ual y byd ef yn medylyaw uelly nachaf varchawc urdawl yndyuot y mywn yn aruawc. ac yn sefyll geyr bronn arthur ae ogwyd ar y waew. ac yn dywedut. Arglwyd heb ef gwarandaw arnafi or reingk bod ytt. Magdalans o orient am anuones i yman attat ti. y erchi ytt ymadaw ar vort gronn. kanys nyt oes ytti dylyet orbyt arnei

Digitized by Google

hi. kanys bu uarw y vrenhines. ac ynteu yssyd nessaf etiued idi hi. Ac ony mynny di wneuthur hynny. llyma efo drwydofi yth rybudyaw di y ymoglyt racdaw ef megys yr hwnn y mae yn dwyn y dref tat y ganthaw. kanys y mae yn elyn ytt o dwy fford. un yw o achaws y vort gronn yr honn ydwyt ti yny chynnal yngkam. ar llall am dy vot yn credu yr gret newyd. ac y mae ef yn dywedut drwydofi. os tydi a vynny ymadaw ar gret honno. achymryt brenhines laudyr y chwaer ef yn wreic briawt yt. ynteu a at yn ryd ytt y vort gronn ac a vyd nerth ytt ym poblle. ac ony wney di uelly nac ymdiryet ti yndaw efo. ac ar hynny y marchawc aaeth ymeith. ac arthur adrigyawd yno yn vedylgar. Agwedy daruot bwyta ef agyuodes y vyny. ac a alwawd attaw walchmei alawnslot a chwbyl oe vilwyr y gymryt kynghor. Arglwyd heb y gwalchmei ti a amdiffynny dy gyuoeth yn oreu ac y gellych a ninneu ath gymhorthwn di ar orthrymu dy elynyon. Brytaen vawr yssyd etto ar dy ewyllys di. heb golli ohonat ohonei etto na thref na chastell. a briant or ynyssed ny losges etto onyt ychydic or wlat. ac nyt collet mawr hynny etto. ac ef aellir peri idaw emendau hynny. ac osit y vrenhin magdalans allu mawr y ryuelu arnat ti tu ar occident. anuon ditheu y rei goreu oth vilwyr y amdiffyn dy wlat racdaw ef.

CCXXII.—Yngkaerllion y bu arthur yngorffowys yn hir ac yn credu y duw ac yr arglwydes veir. ac ef adugassei exawmpyl y wneuthur caregleu wrthaw o lys brenhin peleur. Ac ef aorchymynnawd gwneuthur y kyffelyp ympoblle yny gyuoeth yr gwassanaethu duw yn anrydedussach. ac aorchymynnawd peri gwneuthur clych ympoblle yny deyrnas. a bot y bop eglwys herwyd y chyuoethogrwyd. a hynny arangawd bod y bawp or deyrnas. a diwarnawt ef adoeth chwedleu attaw vot briant or ynyssed ac elinans yn marchogaeth ar hyt y wlat athoryf vawr y gyt ac wynt. ae bryt ar vynet y losgi penwed. ony bei yno ae hamdiffynnei. Ac yna arthur awisgawd y arueu ymdanaw ac adoeth allan. a chwmpaeni mawr y gyt ac

Digitized by Google

ef o varchogyon yn aruawc. a marchogaeth awnaethant yny welsant vriant ae dylwyth. a briant ae gweles wynteu. ac yna ordinhau eu bydinoed aorugant o bop parth. ac ymgyrchu awnaethant yn gyngadarnet ac y tebygit bot y daear yn crynu. Elinans aoed yn keissyaw lawnslot ympoblle yny kafas. ac yn vywyawl y daraw a gwaew yn y vyd y daryan wedyr dyllu. a lawnslot ae trewis ynteu yngkedernit y dwy vronn. yny vyd y gwaew drwy y balueis allan. ae blannu yndaw awnaeth yny dorres y veingevyn. ar paladyr yn drylleu. ac yny dric dryll y paladyr yndaw ef. Ac yna ae trewis ynteu yr eil dyrnawt. yny vyd y gwaew drwy y daryan a thrwy y vreich assw idaw yn drylleu. Yna lawnslot alidiawd ac adynnawd y gledyf pan wybu y vriwaw. ac ae trewis yn llidiawc ar draws y balueis ae daryan yny hyll y daryan yn dwy esgyren. ac yny vyd yr ysgwyd y wrthaw. ac ar hynny dryll y gwaew adigwydawd yr llawr o honaw. Yna elinans awybu y lad. ac a ymchoelawd draegevyn yndrist ac yndoluryus. Y marchogyon ereill a hwylyassant y lawnslot. a gwalchmei a sagamor aoedynt heuyt a govit arnunt gan dylwyth briant. ac a nerth y vriant yndyuot yn y ol. y marchogyon goreu aoedynt yny damgyvyngrwyd. Arthur abriant aoedynt ymperued y pres. a thylwyth briant adoethant ac aymauaelassant affrwyn march arthur ar wedyr mynet ac ef yngharchar. Ac ynteu a ymamdiffynawd yn wrawl racdunt. ac a wnaeth cwmpas yn y gylch. megys y gwnaei y tramynyat rac y kwn. ar hynny owein alucanus adorrassant y pres. a sagamor damunedic adoeth o nerth traet y varch. ac a drewis briant yny vyd ef ae varch yr llawr. ac ar y kwymp hwnnw y torres briant y vordwyt. Ac yna sagamor adynnawd y gledyf ac ageissyawd gwan briant yny voly pan waedawd arthur arnaw y erchi idaw naslladei. Ny bu o gedernyt gan dylwyth briant y achub ar y weith honno. namyn kiliaw draekevyn awnaethant wy affo. kanys blin alludedic oedynt. Arthur yna aerchis dwyn briant y gaerllion. a dwyn y rei briwedic y gyt ac ef. llawen

Digitized by Google

vu gan y bobyl o gaer llion hynny. Elinans ynteu aducpwyt y gastell y greic calet yr hwnn ny bu vyw haeach enkyt. Arthur aberis carcharu briant ac yny garchar y vedeginyaethu. yny vu iach. ac yno yd attalwyt briant yny roes diogelrwyd y arthur ar y dir ae daear ae da. a briant a wassanaethawd arthur. lawnslot a vu iach or briw agawssoed. achwbyl or marchogyon ereill yam hynny. uvyd vu briant y orchymynneu arthur ympoblle yny ytoed y brenhin yncredu oe gynghor ef yn vwy noc y neb. a drwc vu gan y brenhin vynet kei ymeith heb gael dial arnaw lad y vab yn ffyrnic. a gwedy hynny ryuelu arnaw. agovit mawr oed y wr distadyl gwneuthur kyflavan kymeint ahonno. ac am hynny y dylyei yr estrawn dial hynny arnaw yn gystal ar kyfnessaf rac bot hynny yn exawmpyl y ereill y wneuthur y kyfryw anffydlawnder.

CCXXIII.—Ovyn briant aaeth dros gwbyl o vrytaen uawr. Ar brenhin aorchymynnawd y bawp wneuthur gorchymynneu briant. A megys yr oed ef diwarnawt yngkaerllion nachaf vorwyn ieuanc yn dyuot ymywn yr neuad. Arglwyd heb hi brenhines laudyr am anuones i yma y erchi ytti wneuthur yrhynn aerchis y brawt hi ytti. a hi a vynn bot yn vrenhines ac yn arglwydes ar dy vrenhinyaeth di. ae chymryt hitheu ohonat yn wreic ytt. kanys bonhedic yw achyuoethawc athec. ac y mae yn erchi ytt yr y charyat hi gwrthlad ohonat oth wlat y gret newyd. achredu yr duw y cret hitheu idaw. ac onyt tydi a wna hynny nac ymdiryet ti vot yn deu ytti dim or wlat honn. kanys brenhin magdalans y brawt hi yssyd gwedy ymgyweiryaw a lluydaw ar vedyr dyuot y losgi alban. ac adyngawd na orffowyssei vyth yny darffei idaw diua kwbyl or holl ynyssed yssyd berthynas yth wlat ti. ac odyna ef adaw y vrytaen y dwyn y gennyt breint y vort gronn yr honn adyly bot yn eidaw ef o dylyet. am arglwydes i adeuei ehun pany bei un peth. nyt amgen na mynn vyth edrych ar yr un or cristonogyon. ac yr awr gyntaf y gweles hi gristawn hi aberis cudyaw y llygeit

Digitized by Google

rac y welet yr eilweith. ac rac meint y car hi y duw ac yr anrydeda ef. ef awnaeth yngaredic ahi dwyn lleuuer y deu lygat y genthi ual nabo reit idi cudyaw y hwyneb nae llygeit rac gwelet cristawn vyth. allawen iawn yw genthi hynny. achyn decket yw y llygeit hi yr hynny a chynt. Eissyoes mawr yw y hymdiret hi yny brawt yr hwnn aedewis idi diua cwbyl or rei agredei yr gret newyd. Aphandarffo idaw ef eu diua wyntwy ymbrytaen uawr ac yn yr ynyssed ereill hyt na allo hi welet yr un. yna y ryd duw y golygon idi. yn gwbyl drachevyn. ac hyt hynny ny mynn hi welet dim.

CCXXIV.—A unbennes heb yr arthur myui a wnn beth a dywedeist di. a dywet ti yth arglwydes y gennyfi nat ebryvygafi y gret aordinhaawd duw drwy y diodefedigaeth ar brenn y groc yr caryat yssyd y gennyfi arnei hi. a dywet y gennyfi idi hi panyw y grist y credafi ac y veir y vam. ac o achaws y ffals gret yssyd genthi hi y mae yn dalles. ac vyth ny wyl hi yny gretto yr gwr yrwyfinneu yn credu idaw. a dywet heuyt y gennyf idi hynn na byd hi vyth vrenhines ar vyngkyuoeth i yny vo un gret ac un glot ar honn a vu gyt ami or blaen. Gan hynny heb y vorwyn titheu aglywy chwedleu ny bych vodlawn udunt yn ehegyr. Y vorwyn a gychwynnawd o gaerllion. ac adoeth yr lle yd oed y harglwydes. ac adywawt idi ual y dywedassei arthur. ae velly heb hitheu. myui yny garu efo yn vwy nor holl vyt. ac ynteu yn gwrthot vy ewyllys i am gorchymyn. nyt oes idaw fford y barhau gan hynny. Ac yna anuon awnaeth hi gennat at y brawt y dywedut idaw ony efo a dialei ar arthur adywedassei. neu y dwyn attei yngcarchar. y ryuelei ehun arnaw ef.

CCXXV.—Pell a meith med yr ystorya oed dir brenhin magalans y wrth gyuoeth arthur. kanys reit vydei vynet drwy deu vor kynn dyuot yr lle nessaf o tir arthur odyno. ar gwrda hwnnw adoeth ac adiriawd yn yr alban. ac amylder o bobloed gyt ac ef. aphan wybu y wlat hynny wynt aystoryassant yn eu herbyn.

Digitized by Google

ac ymamdiffynnassant racdaw. Brenhin magdalans ayrrassei ywrthaw niuer mawr oe wyr y losgi y wlat. agwyr y wlat aymdiffynnassant y kestyll racdunt. ac odyna wynt aanuonassant gennadeu at arthur. y dywedut idaw y kyflwr. a meint adathoed o niuer am eu penn. ac adolwc idaw dyuot yn ebegyr y amdiffyn y wlat. neu ynteu anuon drostaw ae hamdiffynnei. ac ony wnaei ef hynny ef a gollei y wlat. Pan gigleu arthur y chwedleu hynny. ef aovynnawd kynghor oe varchogyon ae oe vilwyr. Ac yna briant adywawt mae goreu kynghor oed idaw anuon lawnslot kanys milwr kadarn oed ac awydyat lawer y wrth ryuel. A mwy oed yndaw o gywirdeb noc yn neb. Arthur yna aberis y alw geyrbronn. ac adywawt wrthaw. mwy yw vy ymdiret i ynot ti noc yn neb. ac am hynny adolwyn yw gennyf ytt vynet drossof yr angenn hwnn megys yd aethost lawer gweith. a mi arodaf ygyt a thi deugein o varchogyon urdolyon heb ae kanhymdao. Arglwyd heb y lawnslot yn erbyn dy ewyllys di ny bydafi. Eissyoes ymae yn dylys di wyr yssyd well no myui ac yssyd gadarnach oe hanuon yno. ac nyt yr llyvyrder or byt yrwyfi yn dywedut hynny. apharawt wyfi y wneuthur dy ewyllys di. ar brenhin adiolches idaw hynny yn vawr. Lawnslot a gychwynnawd or llys ar deugeint marchawc y gyt ac ef. a marchogaeth awnaethant yny doethant y dir yr alban. yny lle ydoed magdalans gwedy kymryt tir. Pan wybu y wlat dyuot lawnslot attunt wynt avuant lawen. kanys wynt aglywssynt lawer gweith ymdidan y wrth y vilwryaeth ef. ac am hynny uvudhau idaw awnaethant a bot wrth y ewyllys ae gynghor. ae erbynnyeit megys pei brenhin arnunt uei. adiwarnawt magdalans vrenhin adoeth y maes oe longeu yr tir y roi bateil yr rei or wlat. a lawnslot ae herbynnyawd yn wrawl. ac a ladawd llawer oe wyr. a rei onadunt aoedynt yn mynnu ffo tu ae llestri. Eissyoes neur daroed y lawnslot torri llawer ohonunt. Magdalans adoeth yn lledradeid y long ehun. ac aberis eu gollwng yr mor

Digitized by Google

gyntaf ac y gallawd. ar rei ny chafas eu llestri yn barawt onadunt wynt adrigyassant ar y meyssyd yndrylleu. Magdalans aymchoelawd draegevyn. ac or ugeinllonglwyth adoeth ygyt ac ef. nyt aeth adref yr un namyn dwy. y tir a drigyawd ynhedwch. a lawnslot adrigyawd yno dalym oenkyt. ar bobyl or wlat yn y garu yn vawr. ac yn kanmawl y vilwryaeth ae daeoni yn vawr.

CCXXVI.—Megys y bydei arthur diwarnawt yn bwyta ae vilwyr o bopparth idaw. ac yn tybyeit kael llonydwch oblegyt ryuel. nachaf varchawc urdawl yndyuot y mywn ac yn sefyll geyrbronn arthur. heb gyuarch gwell idaw odim. ac yn dywedut. Arglwyd heb ef mae lawnslot. A unben heb y brenhin nyt ydiw yny wlat honn. Mynvyngcret heb y marchawc drwc yw gennyfi nat ydiw ef. Pa le bynnac y bo ef heb yr arthur y mae yn wr y mi ac om llys. Ie heb y marchawc. brenhin claudas yssyd yn anuon attat ti y gennyfi y dywedut y vot ef yn elyn y lawnslot. ac y titheu oe achaws ynteu os kynhely ef o hynn allan. kanys ef aladawd elinans y nei uab y chwaer. ac aladawd y dat heuyt. eissyoes ny deu...at ef yr brenhin. onyt o gyuathrach. Ny wnn i heb yr arthur pa delw y dechreuawd yr elynnyaeth y ryngthunt wy. namyn hynn awnn i vot y brenhin hwnnw yn kynnal llawer o gestyll y rei adylyei vot yn dref tat y lawnslot. ac aducpwyt y gan y dat. ac am hynny reit yw y bawp geissyaw y wir dylyet. a dywet ti y vrenhin claudas y gennyfi. na ffaelyafi vyth ym gwr yny aller profi twyll arnaw ymkyueir. Ac o gwelafi vot lawnslot ar y cam mi ae gwediaf ar y dyuot yr iawn. ac ony mynn ef emendau or byd ar y cam yna ni aadwn yr gyvreith gerdet. Aphryt na mynno nac efo nac arall garu y wirioned. ny dyly na minneu nac arall y garu ynteu. Aphan glywo lawnslot y chwedleu hynn mi aatwaen ar y gymhenndawt ef y gwna kyfyawnder ympoblle ar y dylyo y wneuthur. Ie heb y marchawc tydi a glywy a dywetafi. os kynhely di efo o hynn allan ef a vyd gelyn ytt. ac am awnaethost nyt bodlawn ytt. ac ar hynny y marchawc aaeth

Digitized by Google

ymeith. ac arthur aberis galw briant attaw a llawer or marchogyon ereill. ac aovynnawd kynghor udunt. Yna owein adywawt. arglwyd heb ef. dilis yw. lawnslot aladawd elinans. a hynny yndywassanaeth di. megys yr hwnn aoed yn ryuelu arnat heb y haedu arnaw. ac or bei efo elyn y lawnslot. paham na deuei ynteu y geissyaw kyvyawnder yth lys di ac ef ae kawssoedyat ual y kafas pawp. apheth bynnac ahaedassei lawnslot ar elinans. ny haedassut ti ar elinans dim drwc. yr hwnn aladawd lawnslot ef yn dy reit ti. ac am hynny kam debygwn i oed y vrenhin claudas ryuelu arnat ti dim. Owein heb y briant dilis yw panyw lawnslot aladawd arglwyd y ty atueilyedic. ac elinans y vab yr hwnn adoeth ym nerthau i. pan oed drwc y rof ac arthur. Aphan wybu lawnslot lad ohonaw y dat ef. ef a dylyassei peidiaw a llad y vab. acheissyaw hedwch a charyat y ganthaw. Briant heb y gwalchmei lawnslot nyt ytiw yma. namyn ynggwassanaeth yr amherawdyr arthur y mae ual y gwdost di. ac y gyt a hynny ti a wdost panyw elinans adoeth attat ti. athitheu ae gwnaethost ef yn varchawc urdawl. agwedy hynny ef aryuelawd ar arthur. ac arthur gwedy mynet y bererindawt heb vot yn gyfiawn ryuelu arnaw. ac heb hanuot heuyt oth wlat titheu. ac ual yr oed arthur yn mynet oe bererindawt ef a dywetpwyt idaw ual yd oedewch chwi yn kyweiryaw y wlat ef. Ac yna ynteu aanuones lawnslot y amdiffyn y wlat ragawch chwi. yr hwnn ae hamdiffynnawd achwi awdawch padelw yny doeth arthur adref. Ac ef a wybu elinans pandoeth arthur adref. yr hwnn ny wnaeth cam a neb eiryoet. ac aollyngei y iawn y pawb. ac yn enwedic yn y lys. Paham na deuei elinans yna y brofi ar lawnslot. aphei dathoed ef a gawssoedyat gyfreith a chyfyawnder. Sef aoruc ynteu ryuelu ar arthur. ac yn amdiffyn dylyet a chyfyawnder arthur y lladawd lawslot efo yn y ryuel hwnnw. ac ossit neb adywetto na bo kyfiawn y lladawd lawnslot elinans pa ffuryf bynnac y bu y ryngthaw ae dat. llyma vyngcorffi yny erbyn yr hwnn a vynno ae yr awrhonn ae ynteu amser arall. Gwalchmei heb y briant

Digitized by Google

ny cheffy di yma hediw a gymero gwystyl am hynny. namyn hynn a dywedafi nat reit y arthur wrth mwy o ryuel noc yssyd arnaw. ac na dyly ynteu wneuthur idaw y gedymdeithyon yn elynyon idaw. na thitheu ny dylyut y gynghori ef ar hynny. Ti awdost vot brenhin magdalans yn ryuelu arnaw. ac os brenhin claudas aryuela heuyt arnaw. wynt arodant idaw digawn oe wneuthur. ac am hynny y kynghorwn i idaw efo yr hedwch yr deyrnas. ac yr kynnal y gedymdeithyon yn y law gwrthlad lawnslot oe lys blwydyngweith ynyelei y chwedleu at vrenhin claudas daruot y wrthlad orllys. ac uelly y keffit caryat brenhin claudas.

CCXXVII. — Sagamor damunedic yna adywawt wrth briant. pwy bynnac arodei y arthur y ryw gynghor ahwnnw am y vilwr kywir. os lawnslot awassanaethawd arthur yngywir. ac os lawnslot aladawd elinans yr hwnn aoed yn ryuelu ar arthur. a heb na murn na lletrat y las lawnslot ef. os arthur gwedy hynny awrthladei lawnslot ac ae gyrrei ymeith ywrthaw. ys da lawnslot a gawssoedyat ef. a gwedy hynny ac atuyd brenhin claudas abarei yspio lawnslot oe lad. allyna avydei anryded mawr y arthur. Nyt ydwyfi yndywedut hynny yr bot ar lawnslot ovyn brenhin claudas corff ynerbyn corff. nac ovyn y milwr goreu oe gyuoeth. allawer peth adoeth y dyn heb ymoglyt racdaw. Ac os arthur a ryd kennat y lawnslot vlwydyn y vot y wrthaw. ef adebygir mae llyvyrder ac ovyn. ac na lyuassei arthur y gynnal rac y llall. Y gyt a hynny hevyt heb ef na myui nac arall ny dylyei ymdiryet vyth y arthur gwedy hynny. Sagamor heb y briant. gwell oed y arthur y gannattau ef vlwydyn y wrthaw no godef ryuel arnaw. a diua y wlat oe achaws. Y balch or llanerch adywawt anwaret idaw y neb aethrotto milwr da y wrth y arglwyd. ac yr na bo lawnslot yma na dywet ti amdanaw ef y peth nysdylyych. kystal y kafas llys arthur glot ac enryded oblegyt lawnslot ac oblegyt grymussaf oc yssyd yny llys. ac onybei lawnslot yndi agatvyd ef avydei waeth y chlot noc y mae. ac nyt oes yn holl vrytaen milwr rymussach na mwy y

Digitized by Google

argysswr ar bawp no lawnslot. ac o char y brenhin dydi na wna di idaw efo gassau y wyr. kanys y mae ryw pedwargwyr neu bump pei ascollei ef oth achaws di. ny chaffei ef vyth oth blegyt ti eu kystal wy. Lawnslot avu yn gwassanaethu arthur yr ystalym. a gwell vu lawnslot idaw efo no thydi. ac os brenhin claudas a ryuela ar arthur o achaws lawnslot. ef aellir godef hynny. kanys y mae y arthur o vilwyr da mwy noc y vrenhin or byt.

CCXXVIII.—Dywedut y mae yr ymdidan yma y llidiassei y balch wrth vriant a briant wrthaw ynteu. pany bei vot y brenhin yno yr hwnn adorres yr ymdidan yryngthunt. Pan wybu y brenhin daruot y lawnslot oruot ar magdalans allad kanmwyaf y wyr. ef aanuones kennadeu y erchi idaw dyuot draegevyn. aphan gychwynnawd lawnslot ar vedyr dyuot. ny bu hyfryt gan y wlat. adyuot aoruc ef hyt att y brenhin. a chwbyl or llys a vuant lawen wrthaw. kanys karedic oed gan bawb. Rei adywawt idaw y chwedleu y wrth brenhin claudas. ar parableu adywedassei vriant amdanaw. ny wnaeth Lawnslot yr hynny namyn tewi megys y neb awydyat dyuot yn anrydedus o bop anghyfiwr. Lawnslot adrigyawd yn y llys yn hir o debygu yd anuonei vrenhin claudas yno ryw gennat. Briant eissyoes a vynnei pei y brenhin ae gwrthladei. kanys cassach oed ganthaw lawnslot no neb or llys. kanys efo vwyaf ae gorthrymassei.

CCXXIX.—Magdalans o orient a gigleu vynet lawnslot draegevyn ac adaw gwlat alban yn wac onyt oe thylwyth ehun. Ac yna ef aberis paratoi y longeu ac eu hystoryaw. ac adoeth draegevyn yr alban a llu mawr gyt ac ef. ac alosges y wlat ympob lle ac ae diuaawd. ac awnaeth mwy o drwc noc anottaawd or blaen. Yna y rei or wlat aanuonassant genadeu att arthur y erchi idaw anuon nerth attunt. neu wynteu a rodynt y wlat ar kestyll kanys ny ellynt barhau mwy. Yna y brenhin a gymerth kynghor y edrych pwy a anuonei attunt. ac wynteu adywedassant bot yno lawnslot or blaen. anuoner briant yno weithyon kanys mwyaf y

Digitized by Google

credy idaw. Yna y brenhin aanuones briant adeugeint marchawc urdawl ygyt ac ef ual y danuonassei gyt a lawnslot. Briant yr hwnn ny charei ef haeach o arthur adoeth yno. ac aamdiffynnawd y wlat yn ysgaelus. ac wynteu adoethant diwarnawt y wneuthur bateil. a magdalans a oruu ar vriant. ac aladawd y varchogyon urdolyon oll. Ac yna tylwyth magdalans awasgarassant arhyt y wlat. ac agymerassant y kestyll ar trefi ac ae distrywassant. a chwbyl ar ny mynnei gredu y eu duw wy. llad eu penneu awneynt. Ac yna tylwyth y wlat adywedassant pei lawnslot a vei yno. na bydei udunt y damchwein ual ydoed. Briant adoeth draegevyn megys y neb nysdidorei vot y ryuel yn tyuu o bopparth. Apha da bynnac awnelei ef y arthur. nyscarei ef vyth. ny lyuassei ynteu wneuthur drwc yny lle yr adnabydit arnaw. kanys y rei goreu oe wyr aladyssit yn y vateil. ac am hynny oachaws lawnslot ac ereill aoedynt yn y llys ny beidyei y brofi. ac ys oed gwell ganthaw na bei yr un yn y llys noe vot.

CCXXX.—Diwarnawt ydoed arthur yngkaerllion yn kynnal gwyl. a llawer o vilwyr gwedy dyuot yr wled. y brenhin aaeth y eisted. ar dyd aoed yndec ac yn eglur. ar awyr aoed pur a glan. Sagamor a lucanus vwtler aoedynt yn gwassanaethu geyr bronn y brenhin. A megys yr oedynt wy gwedy gwassanaethu or anrec kyntaf. nachaf dyrnawt a chwarel megys pei delei o albryst ac yntaraw ymperued y golovyn aoed yny neuad geyrbronn y brenhin. ac edrych a wnaeth pawp ar y gilyd a ryuedu hynny. kanys y kwarel aoed yn un ffunyt aphei at vei yn eur oll. ac yny gylch yr oedynt gwedy eu sawduryaw mein mawrweirthyawc. Y brenhin yna adywawt na doeth eiryoet kwarel kyndecket ahwnnw o le tlawt. Gwalchmei alawnslot a dywedassant na welsynt eiryoet y gyn decket. ac ef a drewis yn gyn ffestet yny golovyn ac o vreid y gwelit dim or haearn. Ac ar hynny nachaf vorwyn dec yn dyuot ar geuyn mul a digawn o adurn yn y chylch. A chyfrwy y mul aoed o asgwrn

Digitized by Google

moruil. ae ffirwyn o eur. a gwisc o vliant ymdanei. a gwas ieuanc yny hol hitheu. a hi adoeth hyt geyr bronn y brenhin. Arglwyd heb hi mi adeuthum yma y erchi rod ytt. ac ny disgynnafi odyma yny kenhetteych ym. kanys uelly y mae y dynghetuen ym. ac am hynny y deuthum i yma. kanys mi a gigleu tystolyaethu ynllawer lle ar y bum nawdost di nackau. A unbennes heb y brenhin. dywet ym paryw rod avynny y gaffael y gennyfi. Arglwyd heb hi mi aarchaf ytt yr duw peri yr marchawc a allo tynnu y kwarel or lle mae vynet ym anghenreit i. A unbennes heb yr arthur dywet titheu paryw anghenreit yw hwnnw. Arglwyd heb hi mi ae dywedaf ytt pan welwyf y marchawc a dynno y kwarel or lle y mae. A unbennes heb y brenhin disgyn. osda gan duw nyt ey di omllys i drwy dy nackau. Lucanus yna ae kymerth rwng y dwylaw ac ae roes ar y llawr. ac aerchis mynet ar mul yr ystabyl. Aphan daruu yr unbennes ymolchi ef ae gossodes y eisted yn ymyl owein yr hwnn ae gwassanaethawd ac ae hanrydedawd. Aphan daruu udunt vwyta y vorwyn awediawd y brenhin ar wneuthur yr hynn aadolygassei idaw. Arglwyd heb hi ymae yma lawer o vilwyr da. ac ef adichawn vot ynllawen y neb a allo tynnu y kwarel odyracko. kanys ynlle gwir nys tynn odyno onyt milwr da. ac ny dichawn neb wneuthur vy anghenreit inneu onyt efo. Gwalchmei heb yr arthur a roy di dy law ar y kwarel. Och arglwyd heb y gwalchmei ny wney di ymi gewilyd. Ac myn y gret a dyly duw ymi ny rofi vy llaw arnaw ef hediw ymblaen lawnslot. ony byd rac dy lidyaw di. kanys nyt oed enryded ymi dechreu ymblaen y geniuer milwr da yssyd yman. Owein heb y brenhin a roy di dy law ar y kwarel. Arglwyd heb ef nyt oes dim nysgwnelwn i yrot ti os gallwn. am hynn eissyoes yr duw na chymell di vyui oe wneuthur. Sagamor heb y brenhin. a velly ditheu. beth awnewch chwi. Arglwyd heb ynteu pandarffo y lawnslot provi tynnu y kwarel ni awnawn yr hynn avynnych. ac oe vlaen efo nyt awn

Digitized by Google

ni os da gan duw. A unbennes heb yr arthur ymbil a lawnslot am vynet. a gwedy hynny ef aa y lleill or byd reit. Lawnslot heb y vorwyn yr mwyn y neb mwyaf a gereist eiryoet. na nackaa vi yn yr hynt honn. ac or byd reit y lleill ae kanhattant. ac ny chafinneu arglwyd hirdrigyaw yma. A unbennes heb y lawnslot pechawt yw ytt vyntynghetuennu o dim yn y byt. kanys y mae ryw vilwyr yma am goganeynt i. ac am gelwynt yn vostywr ot awn i yn eu blaen. Nac oes myn vyngcret heb y brenhin. namyn mwy yth ganmolant yn lle dy gwrteyssi. a heuyt clotuawr ac enrydedus yw yttitheu or gelly y tynnu. ac alussen yw kymhorth morwyn heuyt. ac yr wyfinneu yth wediaw yr y gret adylyydi ymi ar roi dy law ar y kwarel ymblaen y lleill. Lawnslot ny mynnawd torri gorchymyn y brenhin. ac y gyt a hynny heuyt ef adoeth cof idaw y dynghetuennu or vorwyn ef yr mwyn y neb mwyaf a garyssei eiryoet. a dilis nat oed dim kymeint agarei ef ar vrenhines kyt bei marw. Ac yna ef a gyuodes y vyny. ac avwryawd y vantell y wrthaw. ac adoeth att y golovyn. ac aroes y law ar y kwarel. ac a roes tynn yr kwarel yny vyd y golovyn yn crynu. ac ae tynnawd allan. ac odyna ae roes yr vorwyn. Aphan daruu idaw ef hynny hitheu ady-wawt yr awr honn y dylyafi dywedut vy neges. ac nyt oed marchawc yma adynnei y kwarel onyt efo. athitheu arglwyd aedeweist ymi. gwneuthur or marchawc ae tynnei vy neges os gallei. ac nyt archafinneu idaw ef wneuthur peth ny allo y wneuthur. Ef a vyd reit idaw vynet yr capel periglus gyntaf ac y gallo. ac ymae yno marchawc gwedy y amdoi yny ysgrin. a chymeret ef beth or amdo ar cledyf yssyd geyr y ystlys a dyget ymi hyt y castell periglus. a gwedy del ef hyt yno. ef a vyd reit idaw vynet hyt y castell y lladawd y llew y dan y daear. yn y lle y mae y deu griffwns. ac yno llad penn un or deu griffwns ae dwyn ymi hyt y castell periglus. kanys marchawc urdawl yssyd yno ynglaf. yr hwnn ny byd iach vyth onys keiff. A unbennes heb y lawnslot mi awelaf na rout

Digitized by Google

ti haeach yr vy mywyd i. am keffych di dy ewyllys. Myui awnn heb hi na allei neb hynny namyn tydi. ac ny mynnwn i ytti gael dy angeu. kanys pei at ueut marw di ny chaffei y marchawc y iechyt vyth. ac oe achaws ef ydwyt ti yn mynet yr gwassanaeth hwnn. athi awely y vorwyn ieuanc deckaf or aweleist eiryoet. ar honn vwyaf ath gar ditheu or byt. ac os hi avynn dy nerthau di. ti agwpley hynn yn da. amogel bellach rac hir drigyaw yn hynn. a bryssya oe gwplau. kanys arnat ti y disgynnawd y gweith hwnn. kanys bo hwyaf yr arhoych mwyaf ageffy o berigyl. ac ef ar allei heuyt damchweinyaw ryw wrthwyneb ytt. ar hynny yr unbennes agymerth y chennat ac aaeth ymeith or llys. Ac yn mynet y dywawt wrthi ehun. lawnslot heb hi y boen honn ar drafael abereis i ytti y gael. dy angheu ditheu nys mynnwn i. anesmwythdra nymtawrinneu ytti y gael. ac yr wyt yn mynet yr deule bericlaf or holl vyt. ami adylywn dy gassau di. kanys ti adugost y gennyf y gwr mwyaf agereis eirmoet. ac ae rodeist y arall. ac nyt a hynny dros y gennyf tra vwyf vyw. Ar hynny ynteu lawnslot aaeth or llys drwy gennat arthur achwbyl o varchogyon y llys. ac odieithyr kaerllion y doeth ef. ar fforest agyrchawd acherdet racdaw awnaeth dan wediaw duw ar y dwyn yn iach draegevyn.

CCXXXI.—Ema ymae yr ymdidan yntewi am lawnslot. ac yn dywedut vot briant gwedy dyuot adref y gaerllion. ac or deugeint marchawc urdawl aaeth gyt ac ef ny doeth adref namyn pymthec. or achaws yr oed arthur yn drist. ac y dywawt. llei yssyd ym ogedymdeithyon bellach noc aoed. Y niuer o wlat yr alban aanuonassant at arthur y erchi idaw anuon lawnslot attunt onymynnei golli y wlat yn dragywyd kanys ny welsant eiryoet gwr avedrei colledu y elynyon yn well noc ef. Yna arthur aovynnawd y vriant pa ffuryf y collassei y wyr. Arglwyd heb y briant. magdalans yssyd a gallu mawr y gyt ac ef. aphan del kedernyt am eu penn wynt awnant gestyll oe llongeu hyt na allo neb parhau yn eu

Digitized by Google

herbyn. ac ny welet eiryoet ryuelwyr un ystryw ac wynt. aphell arglwyd ydiw y wlat honno y wrthyt ti. ac ef agosta ytt vwy oe chynnal noc adal. ac ogwney di vyngkyngor i ti ae hysgaelussy hi. ac amdiffynnet gwyr y wlat hi os mynnant. Briant heb y brenhin gormod gogan oed hwnnw y myui. ac ny dyly gwrda or byt ysgaelussaw nac yr cost nac yr llavur y peth a vo eidaw. ac ot ysgaelussafi y wlat heb anuon idi nerth achynghor ny roir nytwyd yrof. ac y gyt a hynny vy angklotuori awneir. a dywedut na allaf gynnal vyngkyuoeth arnaf. A gwaeth yw gennyf no cholli y wlat vot y bobyl ynreit udunt rac ovyn eu hangeu credu yr angcret etto. ami awnawn pei darffei y lawnslot orffen yr hynn ydaeth y wneuthur y yrru yno. kanys ny chatwei neb y wlat yn well noc efo. Aphei buassei ef yno ar y deugeinuet o varchogyon urdolyon y gyt a gwyr y wlat ny bydei yn emawr o bara ar vagdalans. Gwyr y wlat heb y briant ny roynt nytwyd yr neb onyt yr lawnslot. ac wynt adywedassant pei as anuonut ti efo yno y gwneynt wy efo yn vrenhin arnunt. Ef ar allei udunt wy dywedut hynny heb yr arthur. lawnslot eissyoes ny wnaei ef dim ar avei yn erbyn vy ewyllys i. Arglwyd heb y briant kanny mynny di vyngcredu i ny dywedafi yttitheu mwy. namyn hynn awnn i y vilwryaeth ef awna ytti vwy o afles noc oles or diwed. onyt ymogely ynwell nac yd ymogeleist hyt hynn.

CCXXXII.—Tewi ymae yr ymadrawd am vriant yr hwnn ydoed arthur yn y gredu yn ormod. ac yndywedut am lawnslot y vot yn kerdet drwy amryuaelyon leoed a fforestyd. yn vedylgar. ac ny marchocaawd ef haeach. yny gyvaruu ac ef marchawc urdawl wedyr vriwaw yn drwc. A lawnslot aovynnawd idaw pwy ae briwassei yn y mod hwnnw ac obale ydoed yndyuot. Arglwyd heb ynteu or capel periglus or lle ny allwn i ymamdiffyn rac ysprydyoed drwc aoed yno y rei am anafawd i ynymod y gwely di. Aphany bei dyuot morwyn yno or fforest nyt athoedwn i yn vyw

Digitized by Google

odyno. A hi am nerthawd i dan amot or damchweinyei ym welet lawnslot neu paredur neu walchmei erchi yr kyntaf awelwn onadunt vryssyaw attei. aryued yw genthi hwyret ymaent heb dyuot yr capel. kanys ny dyly dyuot yno onyt un onadunt wy ylltri. a ryued yw gennyfinneu vot yndi hi o hyder drigyaw yno. kanys periglussaf lle or a weleis eirmoet yssyd yno. ac un or rei tecaf yw hitheu. ahi adaw yno yn vynych ehun. ac ymae yno marchawc newydlad wedyr gladu mywn ysgrin. ac ny bu eiryoet medynt wy wr greulonach na dewrach no hwnnw. A wydut ti heb y lawnslot pwy oed y henw ef. Ef aelwit heb ef anores vastart. ac nyt oes idaw vreich namyn un. Y breich arall ynteu a torrassit yn ymyl y castell a roes gwalchmei y veliot am y dyuot oe amdiffyn ef ac arthur y gan anores ae dylwyth. a gwedy hynny ef adoeth y geissyaw y castell y ar veliot. a meliot ae lladawd ynteu. ac ynteu a vriwawd meliot yn drwc. ac ny byd iach vyth yny gaffo y cledyf yr hwnn y briwyt ac ef. ar cledyf yssyd yn yr ysgrin gan ystlys anores. aphei gwelwn i yr un onadunt wy mi awnawn neges yr unbennes wrthaw. A unben heb y lawnslot ti aweleist un onadunt kanys myui yw lawnslot. ac am dy welet di mor vriwedic ac ydwyt. yr wyfinneu yndywedut ytti vy henw yndirgel. Arglwyd heb y marchawc duw ath gatwo rac drwc kanys yr wyt yn mynet y le periglus iawn. Eissyoes yr unbennes yssyd ynchwannawc yth welet ti ny wnn i y babeth. namyn hi a dichawn dy amdiffyn di os mynn. A unben heb y lawnslot aamdiffynnawd duw vyui o lawer perigyl. ac ef am amdiffyn etto o hwnn os da gan duw. ac ar hynny ymwahanu awnaethant wy. a lawnslot a varchockaawd. yny doeth yr capel periglus. yr hwnn aoed ymywn glynn yn y fforest. a mynnwent vechan gaedic yny gylch. achroes hen oed odieithyr y capel. Yna lawnslot adoeth ymywn yn y arueu. ac ymgroessi aoruc ac ymorchymun y duw. ac ef awelei yny vynwent vedeu llawer. a gwedy nossi ef a glywei dynyon debygei ef yngkylch y vynnwent yn dywedut yn issel bop un

Digitized by Google

wrth y gilyd. dieithyr nat ytoed ef yn dyall beth a dywedynt wy. ac nys gwelei heuyt yn amlwc. Ef awelit idaw ynteu eu bot wy yn vawr ac yn uchel. Ac yna ef aarganuu ortu allan yrcapel rastyl agweir meirch yndi. ac ynteu aossodes y uarch ef yno. A gwedy hynny ef adynnawd y daryan y am y vynwgyl. ac aeduc yr capel. ac nyt oed oleu iawn y capel. kanys nyt oed yndaw dim onyt un lamp dywyll. Aphan daruu idaw ef canu y badereu a gwediaw geyr bronn delw veir. ef adoeth y ymyl yr ysgrin ar ysgrin a ymagores ehun. yny welei ef y marchawc yr hwnn oed vawr ac aruthur. ar amdo aoed ymdanaw aoed waetlyt. Yna efo agymerth y cledyf aoed geyr y ystlys. a gwedy hynny ef a gymerth y marchawc ac ae dyrchafawd y vyny. ac ydoed yn gyndrymet ac o abreid vyth yr ysgogei. Ac yna ef adorres hanner yr amdo. ar ysgrin a chwydawd yn gymeint ac y tebygassei ef y syrthyei y capel pan gymerth yr amdo. ac ar hynny caeu yr ysgrin aoruc ef. adyuot hyt ar drws y capel. ac ef aarganuu gwyr ar veirch ymperued y vynwent herwyd adebygei ef. ac eu bryt ar ymlad. ac ef a debygit idaw efo eu bot wy yny wylyat ef ac yny yspiaw. ac ar hynny ef awelei vorwyn ieuanc yn ogwta yn dyuot ar draws y vynwent. ac abrys mawr arnei. ac yn dywetut wrth y marchogyon duon. nac ysgogwch chwi heb hi yny wypwyfi pwy yw efo. Yna hi adoeth tu ar capel ac adywawt wrth lawnslot. Tydi heb hi dot y cledyf yr llawr. ar hynn agymereist y wrth y marchawc marw. Beth aberthyn ytti heb y lawnslot ar yr hynn agymereisi y ganthaw ef. Am y gymryt o honat heb vyngkennat i heb hi. Ami avum yma yn gwarchadw y lle hwnn ar capel yr ystalym. ac am hynny dywet ym dy henw. A unbennes heb y lawnslot beth aennilly di yr gwybot vy henw i. Nysgwnn heb hi beth vyd ym hynny ae ennill ae collet. namyn mi aweleis amser y govynnwn i dy henw di yn anhegarach ytt. A unbennes heb ef. ef am gelwir lawnslot dy lac. Gan hynny heb hi ty a dylyy gael y cledyf ar amdo. a chanys kefeist dabre y gyt ami ym castell. kanys mi

Digitized by Google

ath damuneis lawer gweith ti apharedur a gwalchmei. a dabre di ygyt amyui athi awely y teir ysgrin abereis eu gwneuthur ar awch medyr chwi awch tri. A unbennes heb y lawnslot ny mynnafi welet vy med mor ehegyr a hynn. Myn vympenn i heb hi ony deuy di nyt ey odyma ual y tebygy. kanys y rei awely di racko dieuyl daearawl ynt yn gwarchadw y vynnwent honn ac wynt awnant vy ewyllys i. Os da gan duw heb y lawnslot nyt reit y gristawn ovyn dy dieuyl di. Och lawnslot heb hi mi a archaf ytti yr duw dyuot y gyt a mi ym castell. a mi ath amdiffynnaf di yma oth eneit ath gorff. ac ony mynny di wneuthur hynny dot y cledyf ar amdo yny lle y kefeist. a dos lle y mynnych. A unbennes heb y lawnslot yth gastell di nyt afi ac ny mynnaf vynet. ac nac arch ym hynny mwy. kanys y mae ym negeseu ereill yw gwneuthur. nar cledyf nys rodaf inneu y wrthyf yr adel ym. kanys y mae yn glaf marchawc adyly bot yn iach oblegyt y cledyf hwnn. yr hwnn a vydei varw onys kaffei. A gormod gouit oed y varw ef. Och lawnslot heb hi dy druttet ti ymkyueir i. adrwc yw gennyfi vot y cledyf y gyt athydi. aphany bei y vot ef gennyt ti nyt aut ar dy ewyllys odyma. ac ygyt a hynny mi abarasswn dy dwyn ym castell lle nyt aut ohonaw vyth tra veut byw. ami a vum yr ystalym yngwylaw y fforest honn amdanat ti. Ac yr awrhonn oblegyt y cledyf hwnnw ti amsomeist i. kanys nyt oes neb a allo ytti dim o argywed tra vo y cledyf gennyt. nath attal yma heuyt am yr hynn ydwyf drist i. Nyt trist gennyfi hynny heb y lawnslot. Ac yna lawnslot a gymerth kennat y gan y vorwyn. yr honn ny rengis bod idi dim oe vynetyat. ac yna ef agymmerth y arueu ac aaeth ar y varch a thrwy y vynnwent. ac aedrychawd ar y bobyl drwc hynny. y rei adebygei ef eu bot ar vedyr y lyngku yn vyw. a chilyaw y ar y fford ef a wnaethant wy yr hynny heb allel argywedu idaw. a cherdet racdaw aoruc drwy y fforestyd yny ytoed y dyd yn ymdywynnygu. ac ar y fford ef agyfaruu ac ef kudugyl meudwy yny lle gwarandawawd offeren. ac yno bwyta

Digitized by Google

ychydic aoruc. A gwedy hynny ef a varchocaawd yny ytoed yr heul yn mynet y gyscu heb welet na thy na chyuanned. ac adoeth nos arnaw yny fforest hyt na wydyat lawnslot y pa fford yr aei. am nat oed vynych idaw vot yn y wlat honno. a marchogaeth uelly aoruc yny doeth y ymyl avon vechan. ac yn ymyl yr avon yr oed lwybyr bychan. yr hwnn a ganlynawd ef yny doeth o vywn gard a glaswellt yn tyuu yndi ar porth aoed ar yr ard aoed yn agoret. Ac yn gaeat yny chylch ogylch ovur maen. Ac yna lawnslot agaeawd y porth yny ol ac adynnawd y ffrwyn o benn y varch agadel idaw bori. Ac nyt ytoed ef yngwelet y castell aoed yno rac hyt y gwyd aoed yny gylch. ac rac tywyllet y nos. ac ny wydyat pale ydathoed idaw. Ac yna ef aroes y daryan dan y benn ac agysgawd. Aphei gwypei efo pale y dathoed ny chysgei chweith. kanys ydoed ef yn agos yr ogof yn y lle y lladyssei y llew. ac yn y lle yd oed y griffyeit gwedy dyuot yn llawn or fforest yn kysgu. ac am hynny y gadyssit y porth yn agoret. Yna un or morynyon or castell adoeth ar bytheiat bach yny llaw rac ovyn y griffyeit y gaeu y porth. ac yr awr y doeth hi tu ar porth hi aarganuu lawnslot yn kysgu. ahitheu aymchoelawd draechevyn. ac avanagawd hynny yw meistres. ac adywawt. Arglwydes heb hi y mae lawnslot yn kysgu yn yr herber. a hitheu a gyuodes y vyny yn vuan ac adoeth hyt yn lle yr oed lawnslot yn kysgu. ac aeistedawd gan y ystlys. ac edrych arnaw aoruc hi dan ucheneityaw. adynessau yn nessaf ac y gallawd tu ac attaw. a dywedut. Arglwyd duw heb hi beth awnafi. os myui ae deffry ef yr awr honn. ny didawr chwedyl y wrthyf. ac ny chaffaf kymeint achussan y ganthaw. Os minneu ae cussanaf ef yny gwsc ef adeffry hevyt arhynt. ac am hynny gwell gwell yw gennyf ym gaffael yr hynn aallwyf y gael. no bot heb dim. ac os myui ae cussana efo. ny chassaa ef vyui agatvyd yr hynny mwy no chynt. A minneu heuyt aallaf vocsachu gael kymeint a hynny. ac yna y gussanu aoruc hi deirgweith. ac ar hynny lawnslot adeffroes. ac a neityawd yny

Digitized by Google

sefyll ac aroes arwyd y groc arnaw. ac aedrychawd ar y vorwyn ac adywawt. och duw heb ef pale yrwyfi. A unben heb hi yrwyt ynymyl y neb aroes kwbyl oe challon ae charyat arnat heb y ediuaru. A minneu arnat titheu heb y lawnslot. kanys pwy bynnac amcaro i ny chassaafi hwnnw vyth. Arglwyd heb hi y castell racko yssyd ar dy ewyllys di ac yth uedyant onyt tydi ae gwrthyt. ac amdanafinneu heuyt y gelly di wneuthur yr hynn avynnych. Arglwydes heb y lawnslot negessawl wyf i yr awrhonn. kanys keissyaw medeginyaeth y varchawc urdawl yd wyf. yr hwnn ny byd iach vyth ony byd dwyn ohonaf idaw penn un or griffyeit. Byd myn llaw duw heb hi. ahynny abereis i yr vorwyn y dywedut wrthyt ti. yr peri ytt dyuot y ymwelet ami hyt yma. A unbennes heb y lawnslot minneu adeuthum. achanys gweleist ditheu vinneu mi aaf dramkevyn. kanys nyt anghenreit ym gael penn y griff. Och duw heb hi dy daet milwr di ynryw gyflwr. ath lesget titheu ath drycket ynghyflwr arall. ny thebygwn i yn yr holl vyt varchawc urdawl am gwrthodei i onyt tydi. a hynny yssyd yn dyuot y titheu o valchder ac oryuic. ami a vynnwn heb hi pei y griffyeit ath lyngkassei di gynno hynn. pan vuost yma. aphei tebygwn etto aros ohonat ti minneu abarwn udunt wy dyuot yma. Arhoaf myn vyngcret heb y lawnslot os mynny ditheu eu gyrru wy yma. Gwir yw debycafi heb hi kanys diawl a roes ynot ormot o vilwryaeth. aphanybei hynny ny pharhaut ti dim ynerbyn un onadunt wy. aphei tebygasswn i ym ffaelyaw yny mod hwnn arnat ti mi abarasswn ymtat dyuot yma y gyt ami. ae varchogyon urdolyon gyt ac ef yth lad pan yttoedut ynkysgu. A unbennes heb y lawnslot. dywet ti yr hynn a vynnych. ti awnaethost debygafi ual nat reit ym dy ovyn di vyth. kanys pwy bynnac agussano gwr neu wreic. agwedy hynny a vedylyaw y angheu idaw. ymae hwnnw yn traetur. Lawnslot heb hi mi a gymereis yr hynn aelleis y gaffael y wrthyt. ac nyt reit ymi diolwch ytti agefeis.

CCXXXIII.—Lawnslot yna a gymerth y ffrwyn ac

Digitized by Google

aeroes ympenn y march. ac agychwynnawd ymeith gyntaf ac y gallawd. kanys oe vod ny mynnei y vot mywn perigyl mawr heb ystyr. a hitheu adoeth draechevyn yn drist ac yndoluryus. ac yw hystauell y kyrchawd hi yn llidiawc am vot y neb mwyaf agarei or holl vyt yn pellau y wrthi. am yr hyn ny thebygei hi gael llewenyd vyth. Lawnslot avarchockaawd racdaw yny doeth am hanner ryw diwarnawt yr castell periglus yn y lle yd oed meliot yn glaf. Yr unbennes adoeth yn y erbyn ac a dywawt. Lawnslot heb hi grassaw duw wrthyt. Antur da a rodo duw yttitheu heb y lawnslot panybei dy drycket ym kyveir. Yna disgynnu aoruc ef adyuot yr neuad. ar unbennes a beris diosc y arueu y amdanaw a roi dillat idaw oe gwisgaw. a unbennes heb y lawnslot weldyma beth or amdo aercheist di ymi. ac weldyma y cledyf. ac eissyoes ti amgwattwereist i am benn y griff. Gwir adywedy di heb hi oachaws y vorwyn or castell yr honn nyt oed gas genthi di. y gwneuthum i hynny. kanys hi amgweliassei i. ar dywedut hynny wrthyt. Aphony weles hi dydi. Gweles heb ynteu. Yr unbennes yna agymerth lawnslot ac ae duc yr lle yroed meliot ynglaf ymywn gwely tec. A lawnslot yna aeistedawd geyr y law ac aovynnawd padelw yroed. Meliot heb y vorwyn weldyma lawnslot dy lac yndyuot ath iechyt ytt. Arglwyd heb ef grassaw duw wrthyt. Duw or nef heb y lawnslot a ro iechyt ytt yn ehegyr. Yr duw heb y meliot pa delw y mae gwalchmei. Pan deuthum i y wrthaw ef heb y lawnslot ydoed yn iach. aphei gwypei ef dy vot ti ual yd wyt ef a vydei drwm ganthaw ef achan y brenhin. Arglwyd heb ef y marchawc adoeth y geissyaw dwyn y castell y arnaf arassoedynt wy am anafawd i ual hynn. ac ynteu a vu uarw gwedy hynny. namyn y dyrnodeu aroes ef ymi a vuant ry greulawn. kanys ny ellit vy iachau i vyth panybei gael y cledyf ym brathwyt ac ef. achael peth o amdo y marchawc. Arglwyd heb y vorwyn ynteu aduc ytti bop un onadunt ac weldyyma wynt. Arglwyd duw heb ef adalo ytt. Ympob ryw vod y mae dy vilwryaeth di yn

Digitized by Google

ymdangos. kanys panybei deilyngdawt dy vilwryaeth di. nyt ymagorei yr ysgrin yrot vyth. ac ny allut gael nar cledyf nar amdo. Y gyt a hynny hevyt nyt aeth yno eiryoet marchawc urdawl adelei draegevyn heb y lad neu y anafu onyt tydi. Yna y dinoethwyt un or seith gweli aoed ym meliot. a lawnslot aroes y cledyf ar amdo ar y weli. ar dyrnawt adechreuawd chwyssu arhynt. ameliot adywawt arnaw ehun y bydei iach. Llawen vu gan lawnslot pan wybu y bydei iach meliot.

CCXXXIV.—Lawnslot heb y vorwyn mi ath gesseeis yn vawr yr pan dugost y gennyf y gwr mwyaf agarwn. ac a bereist idaw briodi un arall. ac yr gwneuthur afles a blinder ytt. mi aroessum boen mawr arnaf vy hun lawer gweith. Kanys tydi awnaethost ymi y tristit mwyaf a gefeis eirmoet. kanys efo am carawd i yn vawr aminneu ae kereis ynteu. ac ny ffaelya ef oe garyat ymi byth. Eissyoes pellach yw hi ywrthyfi noc y bu. ac o achaws y gymwynas awnaethost di ymi yn yr hynt honn. mi arof vy llw ytti nat reit ytt ovyn gwneuthur ohonafi ytti chweith drwc vyth. Duw adalo ytt hynny heb y lawnslot. Yny castell hwnnw y llettyawd ef y nos honno. athrannoeth ef aaeth ymeith. a gwedy daruot idaw kymryt kennat ef agerdawd tu a llys arthur. yr honn oed digawn meint y dechryn. kanys magdalans aoed yn ennill llawer or ynyssed yar arthur. aphawb or a ennillei ef agymhellei arnunt gredu y gret efo. ac ydoedynt wynteu yn credu rac ovyn eu hangeu. Y gyt a hynny heuyt gwalchmei ac owein a sagamor ar balch or llannerch. a llawer or llys aathoedynt y geissyaw anturyeu ual y gnotteynt. a hynny am vot arthur yn credu briant yn vwy noc wyntwy.

CCXXXV.—Gwedy mynet lawnslot o gaerllion ef a anuones arthur nerth yn vynych y ymlad yn erbyn magdalans. ac nyt aeth yno neb ny deuei adref wedy goruot arnaw. Magdalans aoed yn ymdiryet ar wneuthur y chwaer yn vrenhines. ual y gadawssei idi. Arthur ynteu aoed yn damunaw vyth gwelet lawnslot yn dyuot. ac yn dywedut pei lawnslot avuassei yno ual y buassei y lleill na chynnydassei y elynyon arnaw ual yd

Digitized by Google

oedynt yn kynnydu. ac ar damgyuyngrwyd hwnnw ar arthur nachaf lawnslot yn dyuot. or hynn y bu arthur lawen. Lawnslot awybu nat oed na gwalchmei nac owein na llawer or lleill yn y llys. ae bot yn chwannogach y vot odieithyr y llys noc yndi a hynny o achaws briant. Ac yna ynteu a geissyawd mynet yn eu hol wynteu pan y lludyawd y brenhin idaw. a dywedut wrthaw. lawnslot heb ef yr wyfi yn adolwyn ytt yn y meint y gallwyf ar roi ohonat nerth a chyngor ym ar amdiffyn vynggwlat. kanys ymae gennyf ymdiryet mawr ynot ti. Arglwyd heb y lawnslot nam kynghor i nam nerth ny ffaela ytti vyth. Mogel ditheu rac ffaelyaw y minneu. Ny dylyafi heb yr arthur ffaelyaw ytti ac nysgwnaf. kanys mi affaelywn y myhun yngyntaf.

CCXXXVI.—Yr ystorya yssyd yndywedut rodi or brenhin ygyt a lawnslot deugeint marchawc urdawl. a dyuot ohonaw hyt y lle yd oed magdalans. a chynn gwybot ohonaw ef y dyuot neurdaroed y lawnslot dryllyaw raffeu y llestri ar hwyleu ar hwylbrenneu. ar sawl agafas or llestri ef aberis eu llosgi. ar dryll arall aaeth gan y mor. Agwedy hynny wynt a drawssant ym mysc tylwyth magdalans ac ae lladassant. ar rei onadunt affoassant tu ae llongeu. ac ny bu y vwyn y kyweirdeb agawssant arnunt. ar brenhin ehun ageissyawd tu ae long. a lawnslot ae hymlityawd hyt y mor. ac yno ynggwyd ywyr ef ae lladawd. agwedy hynny wynt aladassant y gwyr ac ae bwryassant gan y mor. Yr ynys honno arydhawyt trwy lawnslot. Odyna ef aaeth yr ynyssed ereill adaroed y vagdalans eu hennill ac eu trossi yr gret drwc rac ovyn eu hangeu. ac ynteu ae gossodes wynt yn y mod y buassynt or blaen. Ac uelly efo agerdawd o ynys pygilyd yny doeth yr alban yn y lle y buassei gynt. Aphan y gweles niuer y wlat ef yndyuot wynt a wybuant daruot idaw llad magdalans. a diruawr lewenyd a gymerassant yndunt. Odyna ef aberis parattoi llestri idaw y vynet y vrenhinyaeth orient yr honn a vuassei eidaw magdalans. arwlat honno aoed yn wac. ac yn enwedic o arglwydi. kanys lawnslot ae lladassei ygyt a magdalans. Lawns-

Digitized by Google

lot hagen adugassei gyt ac efo y milwyr goreu. ac adoeth yr wlat a llynges vawr ygyt ac ef. ac adechreuawd eu distrywyaw y rei aoed yny deyrnas yn angcredadun bobyl. ac awelsant na ellynt amdiffyn y wlat kanys buassei varw eu harglwyd. llawer onadunt hagen aadassant eu llad am na mynnynt ymadaw ae gwangret ar rei avynnassant gredu y duw wynt agawssant nawd. Yna lawnslot aberis dryllyaw y dinewyt yr rei yr oedynt wy yncredu udunt. kanys y rei hynny a attebei udunt drwy y dryc ysprydoed aoed yndunt. Agwedy hynny ef aberis gwneuthur delweu y veir ac yr groc yr kadarnhau y rei or wlat yn y gret. Y rei kadarnaf agrymussaf or wlat a ymgynnullassant diwarnawt ygyt ac a dywedassant. nat oed iawn vot y wlat heb vrenhin arnei. ac ar hynny kytunaw awnaethant a dyuot att lawnslot. ac adywedassant y mynnynt wy y vot ef yn vrenhin arnunt. kanys ennillassei y deyrnas. Lawnslot yna a diolches hynny yn vawr udunt ac adywawt wrthunt. nac ar y wlat honno nac ar un arall na bydei ef vrenhin vyth onyt arthur ae gwnelei yngyntaf. kanys kwbyl or ennill awneuthum i heb ef efo bieu. ac yny enw y gwnaethpwyt. ac efo am gyrrawd i yma ae varchogyon urdolyon ygyt a mi.

CCXXXVII.—Brenhin claudas agigleu y lawnslot llad magdalans ac ennill y vrenhinyaeth. ac nat oed un ynys yngallel ymamdiffyn yny erbyn. ny bu hoff ganthaw glybot canmawl y vilwryaeth yngymeint ahynny. kanys ef adoeth cof idaw ennill ohonaw lawer o diroed y ar vrenhin bann o vannawc tat lawnslot. ac am hynny yd oed drist ef. am glybot clot lawnslot yn mynet dros bawp. a bot lawnslot yn etiued oe dat. Ac yna brenhin claudas aanuones kennat diwarnawt att briant y erchi idaw os gallei erchi apheri y arthur roi kennat y lawnslot y vynet ymeith y wrthaw. ac ynteu adalei idaw dros y lauur. ac ae kymhorthei gwedy hynny o gymryt dial gan y elynyon. Kanys pei lawnslot ef a gwalchmei aveynt odieithyr y llys. nyt oed ovyn y lleill. ac uelly y gellynt wy gaffael eu hewyllys ar y wlat. Briant ynteu a anuones y gennat drachevyn at vrenhin claudas.

Digitized by Google

y dywetut idaw nat (oed) yny llys na gwalchmei nac owein na llawer or lleill. ac amhynny erchi idaw na russyei dyuot pan y mynnei. ac ynteu awnaei y lawnslot yn dieu adaw y llys yn ehegyr.

CCXXXVIII.—Chwedleu adoeth y lys arthur ry daruot y lawnslot lad brenhin orient. a distrywyaw y bobyl ae llad. ac odyna y vynet y wlat y brenhin ae hennill oll. apheri yr bobyl rac ovyn eu hangeu gredu yr wirgroc. ac y gret grist. Briant yna ny bu lawen ganthaw dim or chwedleu hynny. ac ef adoeth diwarnawt att arthur yndirgel. ac adywawt. Arglwyd heb ef mi adylyaf dy rybudyaw a gwrthlad dy gewilyd ath gollet y wrthyt. kanys ti am gwnaethost yn ystiwart ar gwbyl oth vrenhinyaeth. ac am hynny ydwyf yn tybyeit bot gennyt ymdiryet mawr ynofi. ac am hynny ny dylyafinneu vot yn un a gwneuthur yttitheu afles. ami a dylyaf dy anrydedu a gwellau dy anryded yn oreu ac y gallwyf. ac ony wnawn hynny ny bydwn wr kywir ytt. Wrth hynny arglwyd chwedleu yssyd ym gwedyr dyuot bot brenhinyaeth magdalans a gwyr yr alban a chwbyl or ynyssed ereill gwedy kytunaw ac ymgredu drwy aruoll ar wneuthur lawnslot yn vrenhin arnunt. a gwedy hynny wynt a ymgytunassant am ryuelu arnat ti. ac amdyuot yr wlat honn gyntaf ac y gellynt. ac ynteu adyngawd udunt ar wneuthur kwbyl oc eu holl ewyllys wynt ac o vynet gyt ac wynt y bop lle or ymynnynt. ac yn bendiadnot yth diwreidyaw di oth gynoeth. ac onyt ymogely di rac hynny ti aelly gael collet ac afles achewilyd. Myn vympenn i heb yr arthur ny thebygafi vedylyaw o lawnslot hynny. na bot callon drwc ganthaw ym kyueir. Myn vyngcret i heb y briant mi adnabuum hynny arnaw yr ystalym. yr hynny ny dyly neb dywedut oe arglwyd yn ehegyr yr hynn mwyaf awypo rac tybyeit wrthaw y vot yn ethrodwr. Eissyoes nyt oes bellach dim agelwyfi ragot ti rac meint dy ymdiryet ym. ar anryded awnaethost amdanaf. athydi aelly ymdiryet ymi kanys minneu a roessum kwbyl om daear ytti ar dy ewyllys. or achaws y gelly di ymrydhau y wrth dy elynyon os mynny.

Digitized by Google

kanys ti awdost nat oes yth lys di marchawc vwy y allu no myui. Myn vyngcret i heb yr arthur briant mi ath garaf di o hynn allan. a thra vwyf vyw nyt oes aallo dwyn dy garyat y wrthyf. na thitheu nyth dygir vyth om gwassanaeth i tra welwyf ffydlondeb ynot. Ac am hynny mi aanuonaf lythyreu y erchi y lawnslot dyuot draegeuyn. Aphandel ef ni a ymlycawn yr hynn ydwyt ti yny dywedut. kanys ny mynnafi dysgu nac idaw ef nac y neb om gwyr i yr kadarnet vo wrthwynebu ohonaw ef ymi. kanys yr arglwyd adyly bot yngadarnach noe wr. megys y bo y ovyn ar ereill. Yna y brenhin aanuones kennat yn ol lawnslot. ar gennat adoeth hyt att lawnslot yn lle ydoed ynbrenhinyaeth orient. ac aroes y llythyreu yny law. Ac yr awr y darlleawd ef yr hynn aoed yn y llythyreu ef agymerth y gennat y gan bawp or wlat y rei aoedynt drist adoluryus am y vynedyat ef ymeith.

CCXXXIX.—Lawnslot agerdawd racdaw yny doeth y gaerllion. ac yna lawnslot adoeth hyt geyrbronn arthur. ac aroes idaw y deugeint marchawc urdawl yn y mod yr athoedynt gyt ac ef. Yna y brenhin aerchis y vriant wisgaw arueu ef adeugeint o varchogyon urdolyon y daly lawnslot. ae bot gwedy kinyaw barawt yn y neuad ae kwrprieu ar warthaf eu harueu. ac wynteu aorugant uelly. ar chwedleu adoeth att lawnslot y dywetut peri or brenhin dwyn deugeint marchawc yn aruawc yr neuad. Lawnslot yna a vedylyawd vot ryw orchest ar y brenhin pan wnelei hynny a bot ynda idaw ynteu wisgaw y arueu. ac yn aruawc y doeth ef yr lle yd oed arthur. Arglwyd heb y briant y mae ryw uedwl gan lawnslot pan del yn aruawc ymywn heb dy orchymyn di. Ac am hynny ti adylyut ovyn idaw paham ymae ef yndyuot uelly y wneuthur drwc ytt. aphadelw yr heydeist arnaw ef hynny. Ac yna y brenhin aovynnawd. lawnslot heb ef. paham y doethost di ynaruawc yma. Arglwyd heb y lawnslot ef adywetpwyt ym vot marchogyon ereill yn aruawc yma heuyt. ac ovyn aaeth arnafinneu vot ryw ormes gwedy dyuot yma arnat. Amgen vedwl no hwnnw heb yr

Digitized by Google

arthur auu gennyt ti herwyd adywetpwyt ymi. aphei gwac uei y neuad o dynyon mi adebygaf y lladut ti vyui. ac arhynny y brenhin aerchis daly lawnslot. Y marchogyon yna aneityassant o bop parth idaw. kanys ny lyuessynt wy dorri gorchymun y brenhin. ac heuyt tylwyth briant oedynt ganmwyaf. Aphan y gweles lawnslot wynt yndyuot tu ac attaw ef adynnawd y gledyf ac adywawt. Myn vympenn i heb ef wrth arthur ny thebygasswn i dim or dwyll honn. ac ysdrwc adal yw hwnn ymi dros y gwassanaeth a wneuthum i ytti. Ac yna gossot awnaeth pawp ar untu ar daly lawnslot. ac ynteu agerdawd dan ymamdiffyn y ganthunt yny doeth hyt ym mur yneuad. or hwnn y goruc ef gastell ortu draegevyn idaw. achynn y dyuot hyt y mur neurdaroed idaw sarhau seith onadunt rwng yrei a ladyssei ac a sarhayssei. ac uelly yr amdiffynnawd ef yn wrawl obop tu idaw. Eissyoes yr oedynt wy ynroi idaw ef dyrnodeu creulawn drwc. ac nyt oed gyffelyb dec arhugeint neu deugeint o dyrnodeu y un dyrnawt. namyn ryuedawt oed padelw y gallei un gwr parhau yn erbyn y sawl wyr hynny. Lawnslot aymamdiffynnawd ynoreu ac y gallawd. a chynn y daly ef awnaeth y werth. kanys or deugeint marchawc nyt aeth yr un yn gyua y wrthaw namyn ugeint. Briant ehun aymyrrawd ar daly lawnslot. a lawnslot aetrewis ynteu arhyt y penn yny dyrr yr helym. ac yny vyd y gwaet ynffrydyeu yr llawr. ar cledyf adisgynnawd ar hyt ystlys y penn idaw yny eillya y clust deheu idaw ymeith. ac yny vyd y cledyf yny balueis idaw. ac arhynny y dalwyt lawnslot. ar brenhin aorchymynnawd na wnelit chweith drwc idaw. namyn y roi yngcarchar. a ryued vu gan lawnslot paham y parassei y brenhin wneuthur hynny ac ef. Yna lawnslot aroet yngcarchar ual yd erchis y brenhin. a drwc vu gan bawp or llys hynny onyt gan vriant ae varchogyon. Eissyoes ef a dichawn bot yn ediuar ganthaw hynny etto. kanys or achaws hwnnw y doeth y angeu ef. ac yny pwngk y dywetpwyt llygru llys arthur. kanys rodassit gwalchmei yngkarchar. ac o

Digitized by Google

achaws bot gwalchmei ar milwyr goreu gwedy pellau y wrth y llys. am vot y brenhin yncredu y vriant yn vwy noc udunt wy.

CCXL.—Ema ymae yr ymdidan yn tewi am lawnslot. ac yn trossi ar baredur. yr hwnn ny bydei lawen pei gwypei y chwedyleu mal ydoedynt o lys arthur. ef aaeth ymeith o lys y ewythyr yr honn a ennillassei ef. a thrist yttoed am y chwedleu aglywssei am y chwaer y dwyn o aristor hi o dreis. ae hanuon att gwnstabyl idaw awnathoed oe chadw yny priotei. ac ar benn y vlwydyn y torrei y phenn. ac uelly yr oed y aruer am gwbyl or a vuassei ygyt ac ef o wraged. Paredur avarchocaawd diwarnawt tu a llys brenhin meudwy y ewythyr. ac am bryt gosper ef adoeth tu ac yno. Ac ef awelei tri meudwy or tu allan yr cudugyl. Yna ef a disgynnawd ac aaeth yn eu herbyn. Arglwyd heb wy na dos di ymywn. kanys ydys yn amdoi corff yno ymywn. Pwy bieu y corff heb y peredur. Arglwyd heb y meudwyeit corff brenhin peles yw. ac yma y doeth marchawc urdawl yr hwnn aelwit aristor. ac ae lladawd gwedy offeren. a hynny o achaws nei aoed idaw aelwit paredur. yr hwnn ny char ef dim ohonaw. Pangigleu paredur y chwedleu hynny ny bu dec ganthaw. ac yno y trigyawd ef y nos honno. athrannoeth y bore ef avu yno wrth gladu y ewythyr.

CCXLI.—Aphandaruu yr offeren ef agychwynnawd paredur ymeith. megys y neb aoed chwannawc y dial ar aristor y kewilyd awnathoed. ac megys y bydei ef uelly nachaf vorwyn ieuanc yn dyuot ymywn. Arglwyd heb hi mi a vum yth geissyaw di yr ystalym. ac ef a wyr gwalchmei hynny. ac weldy racko arwyd ytt ar hynny. nyt amgen nor penn raco. yr hwnn aroes arthur ymi yn ymyl capel seint awstin. A unbennes heb y paredur beth avynnut ti amyui yr hynny. Mi avynnwn heb hi dyuot ohonat ti y dial dy gevynderw nyt amgen no mab brwnsbrandalis. yr hwnn nyt oed yn y byt marchawc well noc ef. pei kawssoedyat hoedyl. aphandarffo ytti y dial ef. minneu agaffaf vyngcastell yr hwnn ny cheffir vyth yny dialer ef. Pwy ae

Digitized by Google

lladawd ef heb y paredur. Arglwyd heb hi y marchawc urdawl coch or fforest dovyn. yr hwnn yssyd ygyt a llew aruthur engiryawl gyt ac ef yny ganlyn vyth. Ac yn lledrat y lladawd ef dy gevynderw di. kanys pei aruawc uei ef ual yr oed ynteu nys lladei vyth. A unbennes heb y paredur. drwc yw gennyfi y varw ef. a marw brenhin peles vy ewythyr yr hwnn alas om achaws i. ac ys anffydlawn a wr aaei yr llit wrth arall y lad meudwy sant yr hwnn ny wnaei drwc ac nys mynnei nac idaw efo nac y neb. a llawen vydei gennyf pei asgwelwn unweith. ac uelly ymae ynteu amdanafinneu. kanys kyn gasset yw ganthaw efo vyui achennyfinneu efo. Arglwyd heb y vorwyn kymeint yw balchder hwnnw ac y tebic nat oes yny byt milwr kystal ac ef. aphei gwypei ef dy vot ti yma pei ron dy vot ar dy drydyd. ef adeuei ar hynt hyt attat. A unbennes heb y paredur poet ar antur drwc y del pan del gyntaf. Arglwyd heb y vorwyn y fforest dofyn lle y mae y marchawc coch ar llew ygyt ac ef yssyd yn agos y gastell aristor. ac agatvyd kynn dy dyuotti yr fforest honno ni aglywn chwedyleu newyd y wrthaw. Ni a archwn y duw y glywet heb y paredur.

CCXLII.—Er ymdidan yssyd yn dywedut marchogaeth o baredur yndrist am angeu y ewythyr. athan wediaw duw argyuaruot ac ef aristor. ar vorwyn ae kanlynawd. ac yn damunaw yr oed eu bot yny fforest dovyn. A megys y bydei baredur yn marchogaeth drwy berued y fforest. ef awelei oe vlaen deu was ieueinc. a dwy ewic ganthunt gwedy eu trwssyaw ar gevyn meirch. Paredur yna adoeth attunt gyntaf ac y gallawd. ac a beris udunt aros. A unbyn heb ef pa le y dygwch chwi yr ewigot hynny. Arglwyd heb y gweissyon y gastell aristor. Aoes lawer o varchogyon yno gyt ac efo heb y paredur. Arglwyd heb wynteu nyt oes yr awrhonn neb. kanys wynt aaethant y wahawd pawb arhyt y gwledyd y dyuot y neithyawr y mae aristor yn y darparu ac yny harwylaw. kanys ef a vynn priodi merch y wreic wedw. yr honn aduc ef y dreis o gastell y mam. ac ae roes att gwnstabyl prud yssyd

Digitized by Google

idaw oe chadw yny priottei. ac y mae pawp yn drist rac y thecket. ac am y bot yn chwaer yr marchawc goreu or holl vyt. kanys ef a dyrr y phenn ar benn y vlwydyn or dyd y priotto. Pony wnaei lawer oda heb y paredur y neb a dorrei y gynnedyf honno arnaw ef. Gwnaei yn lle gwir heb y gweissyon. ac ef avydei vodlawn duw idaw heuyt. kanys mwy yw y creulonder hwnnw no dim. ac y gyt a hynny heuyt yd ys yn y oganu yn vawr am lad y brenhin meudwy. ac y mae yndamunaw beunyd kyuaruót ac ef mab y wreic wedw. kanys gwell oed ganthaw pei darffei idaw llad hwnnw no neb. Pale y mae awch arglwyd chwi yr awrhonn heb y paredur. Arglwyd heb wynt yr awr honn y gadawssam ni efo yny fforest honn yma yn ymlad a marchawc urdawl grymus. ac ef adywawt mae y marchawc urdawl dewr y gelwit ef. ac am dywedut ohonaw mae marchawc y baredur oed. y mae aristor ynkeissyaw y lad. ac efo aerchis yni gerdet or blaen ac adywawt y goruydei arnaw yn y lle. ac yr awr yd aetham ni y wrthunt. ni a glywem eu dyrnodeu pob un onadunt ar y gilyd. Ac aristor yssyd gyn greulonet ac nat oes marchawc or agaffo ef yn y fforest honn nys llado os dichawn. Pan gigleu paredur y chwedleu hynny ef aaeth ymeith y wrth y gweissyon gyntaf ac y gallawd. ac ny marchockaawd ef hanner milltir pan gigleu eu dyrnodeu wy ar eu helmeu. A llawen vu ganthaw allel or marchawc dewr gynnal ymlad yn erbyn aristor yn gyhyt a hynny. ac eissyoes ny wydyat paredur y govit aoed ar y marchawc ehovyn. kanys neur daroed y daraw a gwaew drwy y gorff yny yttoed y waet yn colli o bop tu idaw. Aristor heuyt nyt oed gyua ynteu. kanys yr oed gwedy briwyaw yn deu le. ac yr awr y gweles paredur efo. ef adrewis y varch a dwy yspardun. ac adoeth attaw. ac ae trewis a gwaew yngkedernyt y dwy vronn yny ytoed yn colli y warthafleu. ac yny ogwydawd ar bedrein y varch. ac odyna dywedut wrthaw. Llyma vyui gwedy dyuot y neithyawr vy chwaer heb ef. ac ny dylyei y neithyawr hi vot hebofi. Aristor yna agyuodes

Digitized by Google

ynffenedic ac yn llidiawc wrth baredur. athu ac attaw y doeth ef megys pet uei gwedy candeiryogi. atharaw paredur aoruc ar hyt y helym dyrnawt mawr estronawl. Y marchawc ehovyn yna agilyawd draegevyn. kanys yr oed gwedy y anafu hyt ar angeu. ahir heuyt y buassei yn kynnal y vrwydyr. Paredur agigleu y dyrnawt yn drwm ac yn vawr. ac adoeth ynllidiawc tu ac att aristor ac ae trewis ae waew. yny vyd aristor ae varch yr llawr ar gwaew trwydaw ynteu. ac ar hynt disgynnu aoruc. a llaessu carreieu y helym. Beth awney di uelly heb aristor. Torri dy benn di heb y paredur. ae dwyn yn anrec ymchwaeri. yr honn y ffaelyeist di ohonei. Ny wney di hynny heb yr aristor namyn gollwng vi ymeith. a mi a vadeuaf ytt vyndryc-ewyllys. Dy dryc ewyllys di heb y paredur aallafi y odef yn hawd. Yna torri penn aristor aoruc paredur ae grogi wrth goryf y gyfrwy. adyuot att y marchawc ehovyn. a govyn idaw padelw yr oed. Arglwyd heb ef agos wyfi y angeu. Eissyoes hyfrydach yw gennyf kanys gweleis di kynn vy marw. Yna paredur aesgynnawd ar y varch ac a gymerth y waew. ac aduc ygyt ac ef y marchawc ehovyn yny doeth y gudugyl meudwy aoed agos yno. ac ae disgynnawd yn arafaf ac y gallawd. ac adiosges y arueu. ac aberis idaw gyffessu y holl bechodeu. ac aberis y amdoi wedi y varw. ac aroes yr meudwy march aristor a march y marchawc heuyt yr gwediaw rac y eneit. Aphan daruu yr offeren achladu y corff paredur aaeth ymeith yndoluryus am angheu y marchawc. Arglwyd heb y vorwyn llei yssyd ytt bellach oe wneuthur. kanys rydheeist y wlat honn or lleidyr aoed yndiua kwbyl ohonei. achanys goruuost ti ar y lleidyr hwnn. Iessu grist awnel ytt gael ym-gyuaruot ar marchawc coch yr hwnn aladawd dy gevynderw. ac nyt oes arnafi ovyn na orffych di arnaw ef os gwely. Eissyoes ovyn yssyd arnafi rac y llew. kanys ef agar y veistyr ae varch yn vwy no neb.

CCXLIII.—Paredur yna agerdawd heb aros mwy arnaw tu ar fforest dovyn. ar vorwyn yn y ol ynteu. Ac ual y bydei ef uelly nachaf varchawc gwedy y

Digitized by Google

anavu yndrwc ae varch yn yr un ffunyt yn kyfaruot ac ef. Arglwyd heb ef wrth baredur. na dos di yr fforest honno. ac o vreid y deuthum i odyno. kanys ymae yno marchawc allew ygyt amkyweiryawd i ual hynn. a chymeint yw vy ovyn rac y fforest yssyd om blaen ac rac honn. kanys ymae yno varchawc yrhwnn aelwir aristor ac aruthra y bawp heb achaws ac alad pawp. Myn vyngcret i heb y vorwyn nyt reit ytti ovyn hwnnw vyth. kanys weldy racko y benn ef. Myn vympenn i heb y marchawc ys da chwedyl a dywedy di. a mi awnn nat ytiw heb gedernyt mawr y neb ae lladawd ef. ac arhynny y marchawc aaeth ymmeith. y llew eissyoes adaroed idaw y anafu ef yny glun. hyt na allei onyt o vreid na cherdet na marchogaeth. Ha varchawc heb y paredur dos y ty y meudwy yssyd yny fforest. ac arch idaw y gennyfi roi ytt un or meirch aedeweis i yno. kanys mi awelaf vot yn reit ytt wrthaw. athitheu ae diolchy idaw yn ryw vod arall. a gwell yw ganthaw ynteu beth arall nor march. Y marchawc aaeth ymeith dan diolch y baredur hynny. ac adoeth y ty ymeudwy ac adywawt idaw ual yr archyssit idaw y wneuthur. Ar meudwy aerchis idaw gymryt yr hwnn a vynnei yr caryat ar y marchawc ae gadawssei yno. Ac yna ef agymerth march aristor kanys goreu oed ac aesgynnawd. a chymryt kennat y meudwy aoruc ef. adywedut y diolchei idaw hynny os gallei. Eissyoes ys buassei well yr marchawc na chymmerassei dim or march kanys ef a las oe achaws wedy hynny. Kanys marchawc o gastell aristor ae godiwedawd yny fforest. ac aadnabu march y arglwyd. ac aglywssei marw aristor. ac aathoed oe geissyaw. ac ymlad awnaeth ef ar marchawc yny lladawd. achymryt y march a mynet ac ef ymeith. Paredur auarchocaawd tu ar fforest dovyn yr honn aoed vawr ac ehalaeth. Aphan doeth ef yr fforest ymywn ny marchocaawd ef haeach yny arganuu y llew yn gorwed y mywn llannerch dau vric prenn. ac yn aros y veistyr yr hwnn aathoed yr fforest. ac ef awydyat panyw yr fford honno y deuei y marchawc ar hyt y fforest. ac am hynny ydoed ynteu yno yn

Digitized by Google

aros. Yr unbennes agilyawd ychydic draechevyn rac ovyn y llew. Paredur ynteu aaeth parth ac att y llew yr hwnn aoed yn dyuot yny erbyn ynteu ae lygeit yn chwydedic yny benn ae savyn yn agoret. Paredur yna aamcanawd arnaw ac adebygassei y daraw ymperued y danned. ar llew ae gochelawd. namyn y dyrnawt ae godiwedawd yny breich blaen deheu idaw. ar llew a gyrhaedawd y varch ynteu ae ewined yny grwper. ac adynnawd ganthaw y kic ar croen. ar march pan gigleu y vriwaw velly ef adrewis y llew ae deu droet ol. yny yttoed y ysgithred yny wdwf. Yna y llew aroes diaspat ual y clywit dwy villdir yny fforest. Yna y marchawc coch a gigleu diaspat y llew athu ac yno y doeth ef gyntaf ac y gallawd. Eissyoes kynn y dyuot ef neurdaroed y paredur lad y llew yn gwbyl. Pan weles y marchawc coch y lew yn uarw. ef avu drist ganthaw hynny. ac adywawt wrth paredur. Myn vyngcret heb ef. gormod gollet awnaethost ym. Ys mwy awnaethost di heb y paredur pan ledeist vab vy ewythyr. Ac ar hynny paredur heb dywedut mwy ae kyrchawd. ar marchawc ae kyrchawd ynteu. ac adorres y baladyr arnaw. apharedur ae trewis ynteu yny vyd y waew trwydaw. ac yny vyd ynteu yr llawr ef ae varch. Yna paredur adisgynnawd y ar y varch briwedic ehun. ac aesgynnawd ar varch y marchawc coch. kanys ny allei ef ymdiryet yr eidyaw ehun. Arglwyd heb yr unbennes vyngcastell i yssyd yny fforest honn. yr hwnn aduc y marchawc hwnn y gennyfi. ac am hynny arglwyd heb hi dabre gyt ami yny vwyf diogel ohonaw. A unbennes heb y paredur mi aaf yn llawen. a marchogaeth aorugant wy trwy y fforest yny doethant yr castell adugassit y gan y vorwyn yr hwnn aoed yn eisted yny lle teckaf ar y fforest. ac yn gayedic o vur uchel a bylcheu tec arnaw. Y chwedleu adoeth yr castell dywedut marw eu harglwyd. Paredur aberis y bawp or aoed yno wrhau idi hi. ac wynteu awnaethant hynny. kanys wynt awydynt panyw y threftat hi oed. Y vorwyn aberis cladu y penn adugassei ygyt ahi. Aphan vu digrif gan baredur vynet odyno ef aaeth.

Digitized by Google

ar vorwyn adiolches idaw awnathoed yrdi. kanys pany bei efo ny chassoed hi vyth y chastell.

CCXLIV.—Ioseus yssyd yn hyspyssu yr hwnn a drosses yr ystorya honn o ladin yn ffranghec. ac yn dywedut nat reit y neb amheu bot yr anturyeu hynn gynt ymbryttaen vawr. ac yny teyrnassoed ereill. A mwy no hynn. dieithyr y rei hynn yma yssyd hyspyssaf. Yr ystorya yssyd yndywedut dyuot o baredur hyt y lle yd oed y chwaer yndristaf dyn or a welsei eiryoet. ac nyt oed ryued idi. rac mynet o honei yny mod yr oedit yny darogan idi. ac yn lleuein am y mam yr honn aoed yngyndristet ahitheu. Y kwnstabyl yr hwnn aoed yny gwarchadw aoed yn y didanu. ac yn ymelldigaw y brawt am nat ydoed yn dyuot oe dwyn odyno ac ny wydyat ef y vot yn gyn nesset ac yr oed. Ar hynny paredur adoeth yn aruawc yr lle adisgynnu aoruc ef ar y disgynuaen. Y chwedleu adoeth attunt y dywedut bot marchawc urdawl yn aruawc o bop arueu wedy disgynnu yn y plas. Y kwnstabyl adoeth yny erbyn ac avu ryued ganthaw pa un oed. namyn tybyeit yr oed panyw un o varchogyon aristor oed. Arglwyd heb y kwnstabyl grassaw duw wrthyt. Antur da arodo duw yttitheu heb y paredur. ac yny law yroed penn aristor herwyd y wallt. ac yr neuad y doeth ef. ac odyno yr ystauell yn y lle yr oed y chwaer yn wylaw. A unbennes heb ef peit ath wylaw kanys neur ffaelawd dy neithyawr di. allyma arwyd ytt ar hynny trwy yr honn y gelly adnabot y vot ynwir. Ac yna taflu penn aristor geyr y bronn hi. adywedut. llyna benn y gwr a vynnassei dy briodi di. Y vorwyn yna aadnabu panyw y brawt aoed yndywedut yn yr arueu wrthi. achyuodi y vyny awnaeth a gwneuthur y llewenyd mwyaf or awnaeth dyn eiryoet y arall. achwbyl or aoed yn edrych aoedynt yntosturyaw wrth y llewenyd hwnnw. Y kyuarwydyt yssyd yn dywedut trigyaw ohonaw ef yno y nos honno. ar kwnstabyl a vu lawen wrthaw. Y vorwyn aberis bwrw y penn y mywn auon aoed yn agos yno. Y kwnstabyl avu lawen achaws marw aristor am y creulonder ar milein-

Digitized by Google

dra aoed yndaw. A gwedy bot paredur yno hyt tra vu digrif ganthaw ef adiolches yr kwnstabyl y lewenyd ar anryded awnathoed oe chwaer. ef aaeth ymeith ae chwaer ygyt ac ef ar gevyn y mul adathoed yno ydanei. a marchogaeth aorugant wy trwy syurneioed yny doethant hyt yngcastell camalot yny lle yr oed eu mam yn digawn y thristet am y merch. ac heb dybyeit vyth y gwelet. ac nyt oed lawen heuyt am y brawt yr hwnn adaroed y aristor y lad. Paredur adoeth yr ystauell yn lle yr oed y vam yn gorwed. ae chwaer yn y law. ac yr awr y hadnabu hi wyntwy hi awylawd olewenyd. ac wedy hynny hi aaeth dwylaw mynwgyl udunt. ahi adywawt varglwyd vab heb hi. bendigedic vo yr awr yth anet ti. kanys drwydot ti y mae kwbyl om tristit i yn trossi ar lewenyd. Yr awrhonn yr oed hyfryt gennyfi varw pei duw ae mynnei. kanys digawn hyt y bum vyw. Nyt reit ytti damunaw dy angeu etto heb y paredur. kanys ny wnaethost eiryoet y neb chweith drwc. ac os da gan duw nyt yma y bydy varw di. namyn yngcastell brenhin peleur yn y lle y mae y greal. Varglwyd vab heb hi da y dywedy hi. ami a vynnwyf vy mot i yno. Arglwydes heb y paredur duw alauurya kymeint yrot ac y bych di yno etto. Ac onyt vy chwaer i ny mynn priodi gwr ni ae gossodwn yn y lle y gallo ymgynnal yn anrydedus. Yn lle gwir heb hi vymrawt y tec nympriodir i a gwr vyth onyt a duw. Varglwyd vab heb y wreic morwyn y gadeir aaeth yth geissyaw di y bop lle. ac ny orffowys vyth ynyth gaffo. Arglwydes heb ef yn ryw le y keiff hi chwedleu y wrthyfi. neu vinneu y wrthi hi. Varglwyd heb hi weldyma y vorwyn a vriwawd y breich pan ducpwyt dy chwaer di y dreis. Padrwc yw hynny heb y paredur. minneu ae dieleis arnaw ef. ac yna y dywawt ef oe vam y anturyeu. Yno y trigyawd ef dalym mawr gyt ae vam.

CCXLV.—Ac yna paredur agymerth kennat y vam ac adywawt na daroed idaw orffen cwbwl oe anturyeu etto. Y vam ae chwaer adrigyassant yno drwy vuchedockau ynda. Y vorwyn aberis gwneuthur capel

Digitized by Google

mawrdec uch benn yr ysgrin aoed y rwng y castell ar fforest ac aberis y adurnaw o lyfreu a gwisgoed tec. ac a gyflogawd offeirvat y ganu offeren yno beunyd. Gwedy hynny med yr ystorya ef aadeilywyt yno manachlawc wenn. ac ydys yn tystolyaethu bot yno manachlawc etto yn gyuoethawc. Paredur ynteu agychwynnawd o gamalot ac adoeth y fforest vawr. A marchogaeth aoruc ef yny yttoed yn bryt gosper. Ac yna ef adoeth y lys marchawc aoed yny fforest. Yno y llettyawd ef. ar marchawc a vu lawen wrthaw. ac a beris tynnu y arueu y amdanaw. a dwyn glan dillat idaw oe gwisgaw. Paredur aweles y gwr yn vedylgar ac yn ucheneidyaw bop awr. Arglwyd heb y paredur ef awelir ymi nat wyt lawen di. Gwir yw heb y marchawc kanys ef alas brawt ym ynymyl y fforest dovyn nyt pell o amser. ac am hynny ny allafi vot yn llawen vyth kanys gwr da kywir oed. A unben heb y paredur awdost di pwy aelladawd ef. Gwnn arglwyd heb ynteu. seith o varchogyon aristor. am y vot yn marchogaeth march a vuassei eidaw aristor. yr hwnn adaroed y uarchawc arall y lad. a meudwy arodassei y march ym brawt. kanys llew y marchawc urdawl coch aanauyssei march vy mrawt i. Ny bu lawen iawn gan baredur dim or chwedleu. kanys efo aarchassei yr marchawc vynet y gyrchu y march. A unben heb y paredur mi adebygaf na haedassei dy vrawt ti dim oe angheu. kanys nyt efo aladyssei y marchawc. Mi awnn hynny heb y gwr marchawc arall aladawd y marchawc. ar marchawc coch heuyt. Tewi awnaeth ar hynny. ac yno y nos honno y kysgawd ef. A thrannoeth y bore ef agerdawd ymeith yny doeth y dy meudwy. yn y lle y gwerendewis ef offeren. a gwedy offeren y meudwy adoeth attaw ac adywawt. Arglwyd heb ef y mae marchogyon yn y fforest honn yngwylyat am uarchawc urdawl. yr hwnn aladawd aristor ar marchawc coch ar llew hefyt ac ny chyuaruuant a neb nys lledynt yr hynny hyt hediw o achaws y marchawc hwnnw. Duw am diangho heb y paredur rac kyuaruot ami neb orabucho chweith drwc ym. Ef a gy-

Digitized by Google

chwynnawd odyno ac a varchockaawd yny doeth y lannerch yn y fforest. ac yno yd arganuu ef y marchawc ar gevyn march aristor o achaws yr hwnn y lladyssit y marchawc arall. a marchawc arall gyt ac ef. ac yna wynt asafassant pan welsant paredur yn dyuot. Myn vympenn i heb yr un kyfryw daryan a honn racko oed yr marchawc aladawd aristor yny mod y menegit ymi. ac agatvyd efo ydiw. adyuot tu ac attaw awnaethant wy ar eu llawn redec. Pan y gweles paredur wynt yn dyuot nyt ysgaelussawd ef y ysparduneu. namyn eudangos yr march awnaeth adyuot yn eu herbyn. ac wynteu ae trawssant ef ar untu yny torres eu pelydyr. Ac yna paredur aodiwedawd yr hwnn aoed ar varch aristor. ac ae trewis yny aeth y waew trwydaw mwy no hyt llath. ac ynteu yn uarw yr llawr. ac odyno ef adoeth att y llall yr hwnn aoed yn mynnu ffo. ac ae trewis a chledyf yny vyd y balueis y wrthaw ymeith ac yny syrth ynteu yn uarw. a chymryt eu meirch aoruc ef a rwymaw eu ffrwyneu y gyt ac eu gyrru geyr y vronn yny doeth y ty y meudwy yr hwnn arodassei y march yr gwr a ladyssit ac adywawt. Arglwyd heb ef weldyma y meirch hynn ytt kanys gwnn i na nackey di neb o honunt or y bo y eissyeu arnaw. Arglwyd heb y meudwy ef a vu yma tri marchawc yr awr honn. ac yr awr y clywssant wy llad y deu bioed y meirch hynn. wynteu a ffoassant. a minneu aercheis udunt wy vynet y edrych aoed wir hynny. ac un onadunt a dywawt nat oed da mynet y berigyl kymeint ahwnnw.

CCXLVI.—Paredur yr hwnn tra vu yn y byt ny allawd buchedocau onyt y mywn trallawt a thwrneimeint. a gychwynnawd y wrth y meudwy. ac ual y byd ef yn marchogaeth uelly ymperued y fforest nachaf varchawc urdawl yn kyuaruot ac ef. ar marchawc aadnabu baredur yr awr y gweles. ac a gyuarchawd gwell idaw. Paredur yna aovynnawd idaw oba le yr oed yn dyuot. Arglwyd heb ef or fforest yma yny lle y kiglef dostur mawr gan uarchawc urdawl yn gwneuthur mileindra mawr a morwyn ieuanc yr honn yr oed ef yn y churaw ac yscors. ac yr oedwn i or neill tu yr

Digitized by Google

llannerch ac ynteu or tu arall yny churaw hi. ac yn dywedut wrthi. llyna ytti yr amarch y vab y wreic wedw. yr hwnn aroes ytt dy gastell. ac yr mwyhau y amarch ef mi ath vwryaf yn ffos y seirff. ac yny ol ynteu yr oed marchawc urdawl prud ac offeiryat yny wediaw dros y vorwyn. ac ynteu yn gyngreulonet ac na wnaey yrdunt wy dim. namyn llidiaw yn vwy oc eu hachaws. Y marchawc ar hynny aaeth ymeith. apharedur a vedylyawd bot ynda idaw mynet yn ol y vorwyn. kanys honno oed y vorwyn y rydassei ef y chastell idi kynno hynny. Ac yna marchogaeth aoruc ef drwy y fforest yny doeth yny thewdwr. ac yna kynsefyll ychydic aoruc. ac ar hynny ef a glywei diaspat y vorwyn yr honn aoed mywn glynn mawr yn y lle yd oed ffos y seirff. a hitheu yn erchi y nawd ef. ar marchawc aoed yn roi dyrnodeu mynych idi ar yscors am y bot yn criaw yn uchel. Paredur heb ymaros mwy adoeth tuac attynt. Ac yr awr y gweles hi baredur hi ae hadnabu. ac aerchis idaw yr duw y chanhorthwyaw. dan dywedut. Arglwyd ti aroeist ym vyngkastell. yr hwnn a duc y gwr yman y gennyf. ac ymae yn keissyaw dwyn vy eneit heuyt y gennyf. Y marchawc ar hynt yr awr y gweles ef baredur aadnabu y march aoed ydanaw. ac adywawt. Tydi uarchawc heb ef y march hwnnw a vu eidaw y marchawc coch or fforest dovyn y gwr avu arglwyd arnafi. ac yr awr honn y gwnn i panyw tydi ae lladawd ef. Ef ar allei heb y paredur mae gwir y dywedy di. ac ynteu ahaedawd y lad. kanys ynteu adorrassei benn vyngkevynderw i. Mynvympenn i heb y marchawc kanys tydi ae lladawd ef. llyma vinneu yn elyn ytt. a chiliaw draegevyn aoruc yrdyuot att paredur. apharedur attaw ynteu. ac ymgyhwrd aorugant o nerth traet eu meirch. a pharedur adrewis y marchawc yny vyd dros bedrein y uarch yr llawr. ac ar y kwymp hwnnw torri y esgeir hyt na allei ymdroi yn y lle yroed. Paredur a disgynnawd ac adoeth parth ac attaw. ar marchawc aerchis y nawd nas lladei. A pharedur adywawt nat oed reit idaw un ovyn y varw yno. Eissyoes y kyfryw angheu ac avynnassut ti y

Digitized by Google

wneuthur yr vorwyn ti ae keffy. Ac yna ef alusgawd y marchawc hyt y ffos yn y lle yd oedynt amylder o natred aseirff hyt nat oed fford idaw ef y hirbarhau yno. Y vorwyn ynteu adiolches y baredur y lauur drosti ympob amser. ac ymeith y kerdawd hi yny doeth y chastell ehun. ac ohynny allan ny bu arnei chweith ryuel vyth rac creulonet y dialyssei baredur ar bawp or aoed elynyon idi.

CCXLVII.—Paredur agychwynnawd ymeith. megys y neb ny mynnei vot yn y byt onyt trwy lauur agovit. amarchogaeth aoruc drwy syurneioed yny doeth y dir tec. a chestyll kedyrn arnaw. ac ny chredit chweith y duw yny wlat honno. namyn y delweu dinewyt y credynt wy. yn yr rei yr oedynt dryc ysprydoed a dieuyl yn atteb udunt. Ar hynny nachaf yn kyuaruot ac ef marchawc urdawl ac yndywedut wrth baredur. Arglwyd heb ef ymchoel drachevyn. kanys nyt anghenreit ytt vynet hwy no hynn. achaws y bobyl or wlat honn nyt ydynt wy yn credu dim y duw. Ac ef a uu reit ymi roi ranswn yrcael mynet drwy y wlat awely di. kanys brenhines y wlat honn yssyd chwaer y vrenhin orient. a lawnslot aladawd y brenhin hwnnw mywn bateil. ac aladawd y wyr. ac aennillawd y vrenhinyaeth. ac aberis udunt gredu y duw. ac or achaws hwnnw y mae y vrenhines yma yn gyngreulonet ac ymae yn cassau pob cristawn. ac am hynny y mae gwedy gwediaw y duw hi ar na welo dim or byt yny darffo distryw y gret newyd. an duw ni holl gyuoethawc awnaeth hynny. ac y mae hi yncredu panyw y delweu hi awnaeth hynny yrdi. ac yn dywedut panyw pan ballo y gret newyd y gwyl hi. Ac hyt hynny ny mynn hi welet dim. ac nyt ytwyfi yn dywedut hynn ytt onyt yr na mynnwnn dy vynet y le y kaffut afles ohonaw. Duw adalo ytt heb y paredur. yr hynny nyt oes yny byt milwryaeth kyndecket ar honn awneler yr gwellau cret duw. ac ef adyly pawp lauuryaw yr duw mwy noc yr neb. a reityach oed yni peisgwnelem gymryt poen arnam yrdaw ef. noc idaw ef yrom ni. Yna ef a gerdawd ymeith. a llawen vu ganthaw glybot daruot y lawnslot ennill

Digitized by Google

brenhinyaeth ae throssi y gret grist. Eissyoes pei gwypei ef rydaruot yr brenhin y roi ef yngcarchar ny bydei lawen ganthaw. kanys lawnslot oed gar achedymdeith idaw. ac yn vilwr da heuyt. a marchogaeth awnaeth ef yny doeth yn nos arnaw. Ac yna ef a arganuu gastell kadarn. aphynt troedic ynymyl y porth. a hendwfyr mawrdwfyn yngkylch y castell. ac ar borth y castell yd oed gwas ieuanc achadwyn haearn am y vynwgyl. aphenn y gadwyn gwedy y gossot ymywn kyff ynymyl y porth. a chyhyt oed y gadwyn ar bont. ac yn erbyn paredur ydoeth ef pan y gweles yn dyuot tu ar castell. Arglwyd heb ef. ef awelir ymi dy uot ti yngristawn. A unben heb y paredur gwir yw. Gan hynny heb y gwas ny deuy di yr castell hwnn. Paham unben heb y paredur. Arglwyd heb y gwas mi aedywedaf ytt. cristawn wyf i megys titheu. ac ef am roet i yny penyt hwnn ac y warchadw y porth mal y gwely di. ac nyt oes yn yr holl vyt castell greulonach no hwnn yma. aphawp or wlat ae geilw y castell candeiryawc. kanys yma y mae trywyr tec ieueinc. ac yr awr y gwelont wy gristawn wynt aant odieithyr eu synnwyr ac yn gyndeiryawgyon hyt nat oes dim aallo parhau yn eu herbyn. Ygyt a hynny y mae yma morwyn ieuanc deckaf or byt. a honno ae gweircheidw wy yr awr y kandeiryocont. ac y mae arnunt wy y hovyn hi yngymeint ac na lyuassant torri y gorchymynneu. a phany bei y bot hi a diueynt lawer odynyon. ac am vy mot i ual hynn yr ystalym ny chwyfant wy wrthyfi. a llawer cristawn adoeth yma heb vynet yr un draegevyn vyth. A unben heb y paredur myui aaf ymywn os gallaf. kanys ny wnn i heno bellach y ba le yr af. ac ygyt a hynny gobeith yw gennyf bot yngadarnach duw no diawl. ac ymywn y doeth ef ac ymperued y plas y disgynnawd. Yr unbennes aoed ar un o ffenestri y neuad ac adoeth y waeret. Ac yr awr y gweles hi baredur hi aadnabu panyw cristawn oed achaws y groes aoed ar y daryan. a hi adywawt. arglwyd heb hi yr duw na dabre di yma ymywn. kanys ymaent yn y neuad yma yn gware y tri gweis

Digitized by Google

teckaf or aweles neb eiryoet. ae ymaent yndri broder. ac wynt agandeiryogant yr awr yth welont. ac odidawc oed y dyn edrych ar y ryw wyrtheu hwnnw. kanys iawn yw y bawp ar ny chretto y duw vynet odieithyr y synnwyr panwelo peth oblegyt duw. Paredur yna adoeth yn aruawc yr neuad y vyny yr yroed y vorwyn yny dywedut. ahitheu yn y ol ynteu. Y trywyr yna aarganuu baredur yny arueu. ar groes yn y daryan. ac aneidyassant y vyny odieithyr eu synnwyr ac yngandeirogyon. aphob un yn ymdidan ae gilyd ac yn brefu megys dieuyl. ac yna wynt agymerassant gisarmeu achledyfeu. ac a vynnassant hwylyaw y baredur. Eissyoes nyt ytoed duw yn gadel udunt wy argywedu idaw ef. ac yna pryt na allassant wy hwylyaw y baredur pob un ahwylawd y gilyd onadunt. ac ymlad aorugant yny ladawd pob un y gilyd heb vynnu bot wrth orchymynneu y vorwyn.

CCXLVIII.—Paredur yna aedrychawd ar y gweissyon pob un yn llad y gilyd. ac a vedylyawd panyw mawr oed y gwyrtheu hynny. ac aweles y vorwyn yn drist iawn. ac yn wylaw. A unbennes heb y paredur nac wyl dim. namyn ediuaret arnat y gamgret y buost yny chynnal hyt yr awrhonn. kanys pawp ar ny mynnont credu yn duw ni y maent megys ynvydyon ac odieithyr eu synnwyr ac yngandeirogyon megys dieuyl. Paredur yna aberis yr gweissyon vwrw kyrff y rei meirw allan. ac eu bwrw mywn auon redegawc aoed yn agos yno. aphan daruu hynny ef aladawd kwbyl or aoed yny castell ar ny mynnassant gredu y duw. hyt nat oed yny castell neb onyt y vorwyn ehun. ar rei aoed yny gwassanaeth hitheu. ar cristawn aoed wrth y gadwyn ef arydhaawd ac ae duc yr neuad gyt ac ef. ac aberis idaw dynnu y arueu y amdanaw. a gwedy hynny gwisgaw dillat da ymdanaw. Yuorwyn aedrychawd arnaw ac ae gweles yn wr tec ffurueid ac ae hanrydedawd. Eissyoes ny allawd hi ebryfygu y dolur ae thristit am y brodyr. A unbennes heb y paredur ny thal dim ytti dy dristit. ac am hynny gollwng dros gof. Paredur aedrychawd arnei rac y thecket. a hitheu

Digitized by Google

